

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Hywel Dafi • I

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Golygydd Ymgynghorol

† Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Huw Meirion Edwards, BA, DPHIL

Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Yr Athro Barry J. Lewis, MA, MPHIL, PHD

GWAITH HYWEL DAFI . I

golygwyd gan

A. CYNFAEL LAKE



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
2015

□ Prifysgol Cymru ©, 2015.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 978-1-907029-20-2 cyfrol I

ISBN 978-1-907029-21-9 cyfrol II

ISBN 978-1-907029-22-6 set o ddwy gyfrol

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol Prifysgol Abertawe.

Cysodwyd yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Rhagair

Ni fyddai'r astudiaeth hon wedi ei chwblhau heb gefnogaeth yr Academi Brydeinig. Dyfarnwyd imi Gymrodoriaeth Canol Gyrfa yr Academi, i'w dal yn ystod y sesiwn 2012–13, er mwyn paratoi golygiad o ganu Hywel Dafï. Dymunaf gydnabod fy niolch diffuant i'r Academi am y fraint, ac am y gefnogaeth. Pan ddaeth cyfnod y Gymrodoriaeth i ben cefais fy rhyddhau o'm dyletswyddau arferol ym Mhrifysgol Abertawe, a hynny yn ystod semestr cyntaf y sesiwn 2013–14, er mwyn cwblhau'r prosiect. Mawr yw fy nyled i Brifysgol Abertawe am y cyfnod rhydd, ac am y gefnogaeth ariannol tuag at gostau argraffu'r ddwy gyfrol hyn o ganu'r bardd. Diolchaf hefyd i'm cyd-weithwyr yn Academi Hywel Teifi am eu cefnogaeth hwy.

Bu nifer o gyfeillion yn barod iawn i ateb pob math o gwestiynau ac i gynnig goleuni ar rai o'r pynciau dyrys a gododd wrth i mi baratoi'r golygiad. Pleser yw cael cydnabod cymorth Dr M.P. Bryant-Quinn, Dr Alaw Mai Edwards, Dr Dafydd Huw Evans, Yr Athro R.A. Griffiths, Mr Andrew Hawke, Mr Daniel Huws, Yr Athro Barry J. Lewis, Dr Richard Glyn Roberts, Dr Owen Thomas a'r Athro Gruffydd Aled Williams. Bu i mi elwa yn ddirfawr ar sylwadau gwerthfawr ac ar awgrymiadau pob un o aelodau'r bwrdd golygyddol hefyd. Gwerthfawrogaf eu llafur yn ddarllen drwy'r rhagymadrodd a'r cerddi a'r nodiadau; y mae'r golygiad wedi elwa yn ddirfawr ar eu gwaith manwl. Unwaith eto, i Dr Ann Parry Owen, golygydd y gyfres, y mae fy niolch pennaf, a hynny am ei gofal, ei hamynedd a'i thrylwyredd wrth lywio'r ddwy gyfrol trwy'r wasg. Dyma'r chweched gyfrol i mi ei pharatoi ar gyfer cyfres 'Beirdd yr Uchelwyr', ac anodd cyfleu mewn geiriau faint fy nyled iddi.

Oherwydd gwaeledd ni fu'n bosibl i'r Athro R. Geraint Gruffudd, golygydd ymgynghorol y gyfres, ddarllen y deunydd hwn cyn ei gyhoeddi. Bu'n gefn i gyfres 'Beirdd yr Uchelwyr' o'r dechrau. Priodol yw dal ar y cyfle hwn i gydnabod yn ddiolchgar ei lafur, ei gefnogaeth a'i gymwynasgarwch, a hefyd ei gymorth gwerthfawr wrth i mi baratoi'r cyfrolau blaenorol ar gyfer y gyfres hon.

Golygiad o ganu Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys, neu Hywel Dafï fel y cyfeirir ato fynychaf, sydd yn y ddwy gyfrol hyn. Er ei fod yn un o feirdd mwyaf toreithiog y bymthegfed ganrif, ychydig o sylw a roddwyd iddo, a dyrnoid yn unig o'i gerddi a ymddangosodd mewn print. Ar sail ei ymrysonau â beirdd eraill, ac â Guto'r Glyn yn benodol, yr ymenwogodd, yn hytrach nag ar sail ei ganu mawl a marwnad, ei gerddi crefyddol a'i gerddi serch. Y mae'r golygiad hwn yn llenwi bwlch pwysig a gobeithio y bydd

cyhoeddi'r cerddi yn rhoi cyfle i brisio a gwerthfawrogi ei gyfraniad unigryw ef i draddodiad mawl yr Oesodd Canol diweddar.

Yn unol ag arfer y gyfres, diweddarwyd yr orgraff, atalnodwyd y cerddi, defnyddiwyd prif lythrennau yn unol â'r galw a threfnwyd llinellau'r cywyddau yn baragraffau. Rhestrwyd y ffynonellau ar ddiwedd pob cerdd yn ôl eu pwysigrwydd yn hytrach nag yn nhrefn yr wyddor. Cofnodwyd yr amrywiadau yn orgraff y llawysgrif a restrir gyntaf. Defnyddiwyd llythrennau eidalaidd i ddynodi'r hyn a ychwanegwyd neu a newidiwyd yn y testun golygedig. Dynoda [] fod bwlch yn y testun neu fod yr hyn sydd yno yn annarllenadwy bellach oherwydd rhwyg neu draul; gall ddynodi hefyd fod y copiwr wedi gadael bwlch am fod y gynsail yn ddiffygiol. Dynoda [17] a [17–18] fod llinell neu linellau yn eisiau. Dynoda [.] a [..] fod llythyren unigol neu lythrennau yn annarllenadwy yn y ffynhonnell dan sylw. Trafodir yr hyn sydd yn hysbys am y gwŷr a'r gwragedd a gyferchir yn y nodiadau ac ymdrinnir nid yn unig â geiriau a ffurfiau a chystrawennau sydd yn ddieithr bellach ond hefyd â chyfeiriadau at gymeriadau hanesyddol a chwedlonol. Rhoddir sylw hefyd i'r gynghanedd ac i fanylion sydd yn ymwneud â cherdd dafod. Ceir yn yr eirfa restr o'r ffurfiau a drafodwyd yn y nodiadau a rhoddir cyfystyron i eiriau a all fod yn anghyfarwydd. Os digwydd gair arbennig fwy nag unwaith yn yr un gerdd, yr enghraifft gyntaf yn unig a restrir.

Cofnodwyd bron i ddeuparth y cerddi gan y bardd ei hun yn llawysgrif Peniarth 67. Parchwyd y ffurfiau a arferwyd gan Hywel Dafi ond nid yw'r testun yn ddi-fai, a bu'n rhaid ychwanegu neu ddiwygio yma a thraw. Trafodir y newidiadau a wnaed yn y nodiadau.

A Cynfael Lake
Ebrill 2015

Cynnwys

RHAGAIR.....	v
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	xi
Termau a geiriau.....	xxv
GWAITH HYWEL DAFI · I	
RHAGYMDRODD	1
TESTUN	
1. Moliant Gwilym Dew ap Hywel ap Llywelyn.....	65
2. Moliant Gwilym Dew ap Hywel ap Llywelyn.....	68
3. Moliant Gwilym Dew ap Hywel a Margred ei wraig	70
4. Moliant Hywel Dew ap Gwilym Dew ap Hywel.....	73
5. Marwnad Hywel Dew ap Gwilym Dew ap Hywel	75
6. Marwnad Rhys ap Hywel ap Dafydd.....	77
7. Marwnad Hywel ap Rhys ap Hywel	80
8. Moliant Morgan ap Rhys ap Hywel a Lleucu ei wraig.....	82
9. Marwnad tri mab Morgan ap Rhys ap Hywel.....	85
10. Moliant Gwilym ap Morgan ap Rhys a Dafydd ei frawd	87
11. Moliant Gwilym ap Morgan ap Rhys	89
12. Gofyn wyth ych dros Wilym ap Morgan ap Rhys	91
13. Moliant Tomas ap Siancyn Fychan ap Siancyn.....	94
14. Moliant Syr Morgan ap Rhys, ficer Merthyr Cynog.....	96
15. Moliant Hywel ap Morgan ap Dafydd a'i ddau frawd.....	98
16. Moliant Hywel ap Morgan ap Dafydd a Sioned ei wraig	100
17. Moliant Gwilym Fychan ab Ieuan ap Gwilym	102
18. Moliant Siôn Fychan ap Gwilym ap Ffyllib a Marsli ei wraig	104
19. Marwnad Gwladus Gam.....	106
20. Moliant Morgan ap Dafydd Gam ac Ieuan ei fab	109
21. Moliant i bedwar mab Morgan ap Dafydd Gam.....	111
22. Marwnad Ieuan ap Morgan ap Dafydd Gam	113
23. Moliant Dafydd ap Morgan ap Dafydd Gam.....	115
24. Moliant Maredudd ap Morgan ap Dafydd Gam	117
25. Gofyn cymod Maredudd ap Morgan ap Dafydd Gam.....	118
26. Marwnad Maredudd ap Morgan ap Dafydd Gam.....	120
27. Moliant Gwallter wŷr Dafydd Gam.....	123

28. Awdl foliant i Lewys Hafart	125
29. Awdl farwnad Gwenllïan Hafart.....	128
30. Marwnad Gwallter Hafart ap Siancyn Hafart Hen	131
31. Moliant Llywelyn ap Gwilym a Siwan ei wraig.....	133
32. Marwnad Llywelyn ap Gwilym ap Rhys Llwyd.....	136
33. Marwnad Llywelyn ap Gwilym a Siwan ei wraig	138
34. Moliant Siancyn ap Llywelyn ap Gwilym a Wiliam ei frawd	140
35. Moliant Tomas ap Trahaearn ap Gwilym.....	142
36. Marwnad Tomas ap Trahaearn ap Gwilym	144
37. Awdl foliant i Forgan ap Tomas Llwyd.....	146
38. Gofyn chwe ych dros Domas ap Siancyn ap Madog.....	150
39. Diolch i Domas ap Siancyn ap Madog am ŵn a dychan i Hywel Dafi gan Huw Cae Llwyd	153
40. Moliant Tomas ap Siancyn ap Madog ac ateb i Huw Cae Llwyd	155
41. Moliant Tomas ap Siancyn ap Madog (darn)	157
42. Moliant Ffyllib Fychan ap Tomas Fychan ap Ffyllib Fychan.....	158
43. Moliant Tomas Gwnter a Mawd ei wraig.....	160
44. Marwnad Owain ab Ifor ap Rhys.....	162
45. Moliant Gwilym ap Rhys a Syr Siôn ei frawd	164
46. Moliant Rhoser Fychan ap Syr Rhoser Fychan	166
47. Moliant Syr Rhoser Fychan ap Syr Rhoser Fychan.....	168
48. Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan.....	170
49. Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan.....	173
50. Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan.....	175
51. Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan a dychan i Fedo Brwynllys	177
52. Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan ac ateb Bedo Brwynllys	180
53. Moliant Syr Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan a dychan i Fedo Brwynllys	183
54. Moliant Syr Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan a diolch am ŵn.....	185
55. Moliant Syr Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan	187
56. Moliant Siôn Fychan ap Syr Rhoser Fychan	190
57. Moliant Siôn Fychan ap Syr Rhoser Fychan	192
58. Marwnad Siôn Fychan ap Syr Rhoser Fychan.....	194
59. Moliant Brycheiniog.....	196
60. Deisyf heddwch rhwng Morgannwg a Brycheiniog.....	199

NODIADAU

Cerddi 1–60	203
-------------------	-----

GWAITH HYWEL DAFI · II

61. Marwnad Tomas ap Siâms ap Syr Siôn Sgudmor	369
62. Moliant Tomas ap Ffelpod ap Rhys (darn).....	371
63. Dychan i Hywel Dafï gan Siôn ap Ffelpod.....	372
64. Gofyn cymod Harri Ddu.....	374
65. Moliant Harri ap Mil ap Harri a chyngor iddo.....	376
66. Gofyn cymod Syr Wiliam Herbert.....	378
67. Moliant Guto'r Glyn i Syr Wiliam Herbert a cheisio cael gan Hywel Dafï adael Rhaglan	382
68. Ateb Hywel Dafï.....	386
69. Moliant Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro	390
70. Moliant Wiliam Herbert, ail iarll Penfro	393
71. Awdl foliant i Edward IV ac i Wiliam Herbert, ail iarll Penfro.....	395
72. Cyhuddo Guto'r Glyn o ganu celwydd gerbron Morgan ap Rhoser	399
73. Ateb Guto'r Glyn a moliant Morgan ap Rhoser	402
74. Gofyn bydafau gan Lywelyn Goch ab Ieuan	404
75. Moliant Rhys ap Siancyn ap Rhys.....	407
76. Moliant pedwar mab Rhys ap Siancyn ap Rhys	410
77. Moliant Gwilym ap Tomas ap Gwilym	413
78. Marwnad Gwilym ap Tomas ap Gwilym	416
79. Moliant Gwilym ap Gwallter a Siwan ei wraig	418
80. Moliant Gruffudd ap Nicolas a'i ddau fab.....	420
81. Gofyn hebog gan Lywelyn Goch ab Ieuan dros Domas ap Gruffudd.....	423
82. Anfon y gleisiad i Ddulyn i annerch Owain Dwnn.....	428
83. Moliant Siôn Pilstwn Hen ap Siôn ap Madog.....	433
84. Awdl foliant i Wiliam Fychan ap Gwilym ap Gruffudd.....	436
85. Awdl foliant i Domas Gwyn ap Siancyn	440
86. Marwnad Ieuan ap Hywel Swrdwal.....	443
87. Moliant gŵr anhysbys o Lyn-nedd (darn)	447
88. Awdl foliant i Domas (darn)	448
89. Moliant Mallt a'i gŵr (darn).....	449
90. Awdl foliant i Siancyn ap Siancyn (darn).....	451
91. Awdl foliant i Ddafydd Llwyd (darn).....	452
92. Dau gwpled cywydd i wrthrych anhysbys.....	452
93. Moliant i'r ugain mil o saint yn Enlli ac i'r Abad Ieuan.....	453

94. Y llong.....	457
95. Moliant Cynog.....	460
96. Cywydd i Fair Forwyn	463
97. Cywydd i Fair Forwyn.....	469
98. Cywydd duwiol.....	473
99. Cywydd duwiol.....	476
100. Cywydd y nychdod.....	478
101. Cywydd i'r byd.....	481
102. I'r Grog yn Aberhonddu	486
103. Cywydd merch.....	492
104. Cywydd i'r olwg.....	495
105. Cywydd i wraig briod	497
106. Cywydd merch.....	499
107. Moliant merch lygadlas	502
108. Y clo	505
109. Gwenonwy.....	508
ATODIAD	
I. Moliant merch lygeitu	512
II. Erchi tarw du gan Ieuan ap Rhys dros Wilym Fychan	516
III. I Rufain a'i rhyfeddodau.....	521
IV. Cywydd i Fair Forwyn.....	525
V. Caru yn y gwely.....	531
VI. Drylliau a ddiogelwyd yn Llst 55	535
NODIADAU	
Cerddi 61–Atodiad VI	539
GEIRFA.....	715
Enwau personau.....	755
Enwau lleoedd	761
LLAWYSGRIFAU.....	765
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU	777
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF	781

Byrfoddau

Llyfryddol

- Act 'Actau yr Apostolion' yn y Testament Newydd
- Annals Thomas Nicholas, *Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales, Vol. I* (London, 1872)
- ArchifMR 'Cronfa Ddata Enwau Lleoedd: Archif Melville Richards'
<www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/>
- ASCent *Siôn Cent: Cerddi'r Apocryffa*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2004)
- AWH *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd and J. Gwynn Williams (Cardiff, 1969)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd, 1921–93*
- Bangor Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Prifysgol Bangor
- Bangor (Mos) Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) yn Llyfrgell Prifysgol Bangor
- BD *Brut Dingestow*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
- BDe *Buched Dewi*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1965)
- Bedo Aerddrem, &c.: Gw Robert Stephen, 'The poetical works of Bedo Aerddrem, Bedo Brwynllys, and Bedo Phylib Bach' (M.A. Cymru [Bangor], 1907)
- BHLIG Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1932)
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- BI BGCC *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, gol. Marged Haycock (Llandybie, 1994)

Bodewryd	Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Bodley	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen
2 Br	‘Ail Lyfr y Brenhinoedd’ yn yr Hen Destament
Brog	Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
BU	<i>Barddoniaeth yr Uchelwyr</i> , gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1957)
BWGlam	John Newman, <i>The Buildings of Wales: Glamorgan</i> (Harmondsworth, 1995)
BWPowys	Richard Haslam, <i>The Buildings of Wales: Powys</i> (Harmondsworth, 1979)
ByCy	<i>Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940</i> (Llundain, 1953)
ByCy Ar-lein	‘Y Bywgraffiadur Ar-lein’ < yba.llgc.org.uk/cy/index.html >
ByCyAt	<i>Y Bywgraffiadur Cymreig 1941–1950 gydag Atodiad i'r Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940</i> (Llundain, 1970)
CA	<i>Canu Aneirin</i> , gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1970)
CAMBM	<i>Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum</i>
Card	Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
J. Cartwright: ForF	Jane Cartwright, <i>Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod</i> (Caerdydd, 1999)
CBMGC	‘Catalogue of Bangor MSS. General Collection’ (cyfrolau anghyhoeddedig, Prifysgol Bangor)
CFR	<i>Calendar of Fine Rolls</i>
CH	W.G. Lewis, ‘Astudiaeth o ganu'r beirdd i'r Herbertiaid hyd ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg’ (Ph.D. Cymru [Bangor], 1982)
Chirk	Llawysgrif yng nghasgliad Castell y Waun yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- CIM *The Correspondence of Iolo Morganwg*, ed. Geraint H. Jenkins, Ffion Mair Jones, David Ceri Jones (3 vols., Cardiff, 2007)
- CLC² *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
- CLIH *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
- CLIL² *Cyfranc Lludd a Llefelys*, ed. B.F. Roberts (Dublin, 1975)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–93; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CMG G.T. Clark, *Cartae et alia Munimenta quae ad Dominium de Glamorgancia pertinent* (6 vols., Cardiff, 1910)
- CMOC *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1991)
- CO *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans (Caerdydd, 1988)
- CPR *Calendar of Patent Rolls*
- CSTB *Cywyddau Serch y Tri Bedo*, gol. P.J. Donovan (Caerdydd, 1982)
- CTC C.T. Beynon Davies, ‘Cerddi’r Tai Crefydd’ (M.A. Cymru [Bangor], 1973)
- Cy *Y Cymmrodor, The Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1877–1951
- Cylchg HC *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1960–
- Cylchg CHSFeir *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirion(n)ydd*, 1949–
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- Dat ‘Datguddiad Sant Ioan’ yn y Testament Newydd
- J. Davies: Flores John Davies, *Flores Poetarum Britannicorum* (Y Mwythig, 1710)
- J. Davies: HC John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990)

- DE *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- DGA *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, ed. Helen Fulton (Llandysul, 1996)
- DGG² *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (Caerdydd, 1935)
- DGGD *Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch*, gol. Bleddyn O. Huws (Caernarfon, 1998)
- DG.net Gwefan Dafydd ap Gwilym, gol. Dafydd Johnston *et al.* <dafyddapgwilym.net>
- DLICH Richard Glyn Roberts, *Diarhebion Llyfr Coch Hergest* (Aberystwyth, 2013)
- DLIM A. Cynfael Lake, 'Gwaith Dafydd ap Llywelyn ap Madog, Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog, a Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan' (M.A. Cymru [Abertawe], 1979)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff, 1923)
- DNB² *Oxford Dictionary of National Biography*, ed. H.C.G. Matthew and B. Harrison (60 vols., Oxford, 2004)
- DrOC *Drych yr Oesoedd Canol*, gol. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (Caerdydd, 1986)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- Ecs Llyfr 'Ecsodus' yn yr Hen Destament
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)
- EncBr *Encyclopaedia Britannica* (25 vols., London, 1959)
- Études *Études celtiques*, 1936–
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)

- GB *Geiriadur Beiblaidd*, gol. Thomas Rees, D. Francis Roberts, J.T. Evans, David Williams, Ifor Williams (2 gyf., Wrecsam, 1926)
- GBDd *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian M. Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GC *Gwaith Casnodyn*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1999)
- GCH2 *The Gwent County History Volume 2: The Age of the Marcher Lords, c. 1070–1536*, ed. R.A. Griffiths, Tony Hopkins and Ray Howell (Cardiff, 2008)
- GDC *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2002)
- GDEp *Gwaith Dafydd Epynt*, gol. Owen Thomas (Aberystwyth, 2002)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDGor *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. Ann Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDL1 *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- Gen Llyfr ‘Genesis’ yn yr Hen Destament
- GGDT *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan *et al.* (Aberystwyth, 1995)
- GGGr *Gwaith Gruffudd Gryg*, gol. Barry J. Lewis ac Eurig Salisbury (Aberystwyth, 2010)
- GGH *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GGI² *Gwaith Guto’r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)

- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GGM *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill*, gol. Nerys Ann Howells (Aberystwyth, 2001)
- GGMD i *Gwaith Gruffudd ap Maredudd I: Canu i Deulu Penmynydd*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2003)
- GGMD ii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd II: Canu Crefyddol*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2005)
- GG.net Gwefan Guto'r Glyn', gol. Ann Parry Owen *et al.* <www.gutorglyn.net>
- GHC *Gwaith Hywel Cilan*, gol. Islwyn Jones (Caerdydd, 1963)
- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GHS *Gwaith Hywel Swrdwal a'i Deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)
- GIBH *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000)
- GIF *Gwaith Iorwerth Fynglwyd*, gol. Howell Ll. Jones ac E.I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GIGeth *Gwaith Ieuan Gethin*, gol. Ann Parry Owen (Aberystwyth, 2013)
- GILIV *Detholiad o Waith Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Vychan*, gol. J.C. Morrice (Bangor, 1910)
- GIRh *Gwaith Ieuan ap Rhydderch*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2003)
- Glam Bards J.M. Williams, 'The Works of Some Fifteenth Century Glamorgan Bards' (M.A. Wales [Cardiff], 1923)
- GLD *Gwaith Lewys Daron*, gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)

- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1973)
- GLMorg *Gwaith Lewys Morgannwg*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2004)
- GLI *Gwaith Llawdden*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2006)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. Kathleen Anne Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GLIGt *Gwaith Llywelyn ap Gutun*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2007)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn ‘Prydydd y Moch’*, gol. Elin M. Jones (Caerdydd, 1989)
- GMBen *Gwaith Madog Benfras ac Eraill o Feirdd y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Barry J. Lewis a Twm Morys (Aberystwyth, 2007)
- GMBr *Gwaith Mathau Brwmffild*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2002)
- GMD *Gwaith Madog Dwygraig*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2006)
- GMRh *Gwaith Maredudd ap Rhys a’i Gyfoedion*, gol. Enid Roberts (Aberystwyth, 2003)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GO *L’œuvre poétique de Gutun Owain*, ed. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GPB *Gwaith Prydydd Breuan, Rhys ap Dafydd ab Einion, Hywel Ystorm, a Cherddi Dychan Dienw o Lyfr Coch Hergest*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2000)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–2002)
- GPC² *Geiriadur Prifysgol Cymru* (ail arg., Caerdydd, 2003–)
- GPhE *Gwaith Syr Phylib Emlyn ac Eraill*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2001)

- R.A. Griffiths: PW i Ralph A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- R.A. Griffiths: RhTh Ralph A. Griffiths, *Sir Rhys ap Thomas and his Family: A Study in the Wars of the Roses and Early Tudor Politics* (Cardiff, 1993)
- GRR *Gwaith Raff ap Robert*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2013)
- GRhB *Gwaith Rhys Brydydd a Rhisiart ap Rhys*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1976)
- GRhGE *Gwaith Rhys Goch Eryri*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2007)
- GSC *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GSCMB ‘Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor’ (Cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Bangor, 1962)
- GSCyf *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd ‘Sypyn Cyfeiliog’ a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GSDT *Gwaith Syr Dafydd Trefor*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2005)
- GSH *Gwaith Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- GwalchCG ‘*Gwalch cywyddau gwŷr*’: *Ysgrifau ar Guto'r Glyn a Chymru'r Bymthegfed Ganrif*, gol. Dylan Foster Evans, Barry J. Lewis ac Ann Parry Owen (Aberystwyth, 2013)
- GWL ii *A Guide to Welsh Literature Volume 2*, ed. A.O.H. Jarman and Gwilym Rees Hughes (Swansea, 1979)

- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies yn Llyfrgell Prifysgol Bangor
- Gwyneddon 3 *Gwyneddon 3*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1993)
- Gwysanau Llawysgrif yng nghasgliad Gwysanau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- GyN *Gwaith y Nant*, gol. Huw M. Edwards (Aberystwyth, 2013)
- HAW William Rees, *An Historical Atlas of Wales* (London, 1972)
- HCBrec Theophilus Jones, *A History of the County of Brecknock* (2 vols., London, 1803–9)
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- HG Cref *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1931)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales*
- HMSS *Selections from the Hengwrt MSS*, ed. Robert Williams (London, 1892)
- D.H. Thomas: HerR D.H. Thomas, *The Herberts of Raglan and the Battle of Edgecote 1469* (Enfield, 1994)
- HS *Gwaith Barddonol Howel Swrdwal a'i Fab Ieuan*, gol. J.C. Morrice (Bangor, 1908)
- Huw Arwystl: Gw J. Afan Jones, 'Gweithiau Barddonol Huw Arwystl' [M.A. Cymru [Abertawe], 1926]
- HW J.E. Lloyd, *A History of Wales* (London, 1912)
- ID *Casgliad o Waith Ieuan Deulwyn*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1909)
- Ieuan Gethin, &c.: Gw Nest Scourfield, 'Gwaith Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision, Llywelyn ap Hywel ab Ieuan ap Gronw, Ieuan Du'r Bilwg, Ieuan Rudd a Llywelyn Goch y Dant' (M.A. Cymru [Abertawe], 1993)
- IG *Gweithiau Iolo Goch*, gol. Charles Ashton (Croesoswallt, 1896)

- IGE *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill 1350–1450*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (Caerdydd, 1925)
- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- IGL John Bernard Taylor, ‘Gwaith Barddonol Ieuan ap Gruffudd Leiaf, Robert Leiaf, Syr Siôn Leiaf a Rhys Goch Glyndyfrdwy’ (Ph.D. Prifysgol Bangor, 2014)
- Ioan ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Ioan’ yn y Testament Newydd
- Iolo MSS *Iolo Manuscripts: A Selection of Ancient Welsh Manuscripts*, ed. Taliesin Williams (Llandovery, 1848)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- J.R. Hughes Llawysgrif yng nghasgliad J. Robert Hughes yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LBS S. Baring-Gould and John Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- L. Dwnn: HV *Heraldic Visitations of Wales*, ed. S.R. Meyrick (Llandovery, 1846)
- LGC *Gwaith Lewis Glyn Cothi: The Poetical Works of Lewis Glyn Cothi*, ed. John Jones ‘Tegid’ and Walter Davies (Oxford, 1837)
- LPMG G.T. Clark, *Limbus Patrum Morganiae et Glamorganiae* (London, 1886)
- Luc ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Luc’ yn y Testament Newydd
- Llawdden, &c.: Gw Mary Gwendoline Headley, ‘Barddoniaeth Llawdden a Rhys Nanmor’ (M.A. Cymru [Bangor], 1938)
- LlCy *Llên Cymru*, 1950–
- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)

- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llansteffan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LIU Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2005)
- LlyB *Llywelyn y Beirdd*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Barddas, 1984)
- Marc ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Marc’ yn y Testament Newydd
- Mathew ‘Yr Efengyl yn ôl Sant Mathew’ yn y Testament Newydd
- MCF ‘Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth’, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
<maldwyn.llgc.org.uk>
- MED *Middle English Dictionary* (Ann Arbor, Michigan, 1954–2001)
- MFGLI *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MWM Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Aberystwyth, 2000)
- NBBM Tegwen Llwyd, ‘Noddwyr beirdd yn siroedd Brycheiniog a Maesyfed’ (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1987)
- NBSG Eurig R.Ll. Davies, ‘Noddwyr y beirdd yn Sir Gaerfyrddin’ (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1977)
- NBMM Eirian E. Edwards, ‘Noddwyr y beirdd yn siroedd Morgannwg a Mynwy’ (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1970)
- NCE *New Catholic Encyclopaedia* (15 vols., Washington, 1967)
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- OBWV *The Oxford Book of Welsh Verse*, ed. Thomas Parry (Oxford, 1962)

- OCD⁴ *The Oxford Classical Dictionary*, ed. Simon Hornblower and Antony Spawforth (fourth ed., Oxford, 1996)
- ODCC³ *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., Oxford, 1997)
- ODS D.H. Farmer, *The Oxford Dictionary of Saints* (Oxford, 1978)
- OED² *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- PC *Poems of the Cywyddwyr*, ed. Eurys I. Rowlands (Dublin, 1976)
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Peniarth MS. 57 *Peniarth MS. 57*, ed. E. Stanton Roberts (Cardiff, 1921)
- Peniarth MS. 67 *Peniarth MS. 67*, ed. E. Stanton Roberts (Cardiff, 1918)
- Peniarth 109 *Gwaith Lewis Glyn Cothi Testun Llawysgrif Peniarth 109*, gol. E.D. Jones (Caerdydd, 1953)
- Penrhos Llawysgrif yng nghasgliad Penrhos yn Llyfrgell Prifysgol Bangor
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- RepWM Daniel Huws, *Repertory of Welsh Manuscripts* (i'w gyhoeddi)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910)
- l Sam 'Llyfr Cyntaf Samuel' yn yr Hen Destament
- SC *Studia Celtica*, 1966–
- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)

SLME	'The Soldier in Later Medieval England' < www.medievalsoldier.org >
SBPN	Richard Morgan and R.F. Powell, <i>A Study of Breconshire Place-names</i> (Llanrwst, 1999)
Stowe	Llawysgrif yng nghasgliad Stowe yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
TA	<i>Gwaith Tudur Aled</i> , gol. T. Gwynn Jones (2 gyfrol, Caerdydd, 1926)
TCHSDd	<i>Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych</i> , 1952—
THSC	<i>The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion</i> , 1892/3—
2 Tim	'Ail Epistol Paul ... at Timotheus' yn y Testament Newydd
TLIM	G.J. Williams, <i>Traddodiad Llenyddol Morgannwg</i> (Caerdydd, 1948)
Treigladau	T.J. Morgan, <i>Y Treigladau a'u Cystrawen</i> (Caerdydd, 1952)
Tudur Penllyn, &c.: Gw	Abraham Jenkins, 'The Works of Tudur Penllyn & Ieuan Brydydd Hir Hynaf' (M.A. Cymru [Caerdydd], 1921)
TWS	Elissa R. Henken, <i>Traditions of the Welsh Saints</i> (Cambridge, 1987)
TYP ³	<i>Trioedd Ynys Prydein</i> , ed. Rachel Bromwich (third ed., Cardiff, 2006)
WATU	Melville Richards, <i>Welsh Administrative and Territorial Units</i> (Cardiff, 1969)
WCCR ²	Glanmor Williams, <i>The Welsh Church from Conquest to Reformation</i> (second ed., Cardiff, 1976)
WCD	P.C. Bartrum, <i>A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000</i> (Aberystwyth, 1993)
WMDNG	'Welsh Medieval Database Primarily of Nobility and Gentry': < histfam.familysearch.org/showtree.php?tree=welsh >
WG	J. Morris Jones, <i>A Welsh Grammar</i> (Oxford, 1913)

- WG1 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- WG2 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- WM *The White Book Mabinogion*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Pwllheli, 1907; adarg., Caerdydd, 1973)
- WWR² H.T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses with an Introduction by R.A. Griffiths* (second ed., Stroud, 1995)
- Wy Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, 1965–
- YCM² *Ystoria de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968)
- YE *Ymborth yr Enaid*, gol. R. Iestyn Daniel (Caerdydd, 1995)
- YGIV *Ystoria Gwlat Ieuan Vendigeit*, gol. Gwilym Lloyd Edwards (Caerdydd, 1999)
- YSG *Ystoriaeu Seint Greal Rhan I Y Keis*, gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1992)

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	<i>fl.</i>	<i>floruit</i>
<i>a.</i>	<i>ante</i>	g.	gwrywaidd
adf.	adferf	gn.	geirynd
amhff.	amherffaith	goddr.	goddrych
amhrs.	amheronol	gol.	golygydd, golygwyd
amr.	amrywiad, -iol		gan
anh.	anhysbys	grb.	gorberffaith
ardd.	arddodiad, -iaid	grch.	gorchmynnol
arg.	argraffiad	grff.	gorffennol
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	gthg.	gwrthygyferbynier, -iol
Atod.	Atodiad	gw.	gweler
b.	benywaidd	gwrth.	gwrthrych
ban.	bannod	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
be.	berfenw	<i>id.</i>	<i>idem</i>
bf. (f.)	berf, -au	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
<i>c.</i>	<i>circa</i>	ll.	lluosog; llinell
c. (g.)	canrif	Llad.	Lladin
C.	Canol	llau.	llinellau
cf.	cymharer	llsgr.	llawysgrif
cfrt.	gradd gyfartal	llsgrau.	llawysgrifau
cmhr.	gradd gymharol	m.	marw; mewndol
cyf.	cyfieithiad	myn.	mynegol
Cym.	Cymraeg	n.	nodyn
cys.	cysylltair	neg.	negydd, -ol
d.g.	dan y gair	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
dib.	dibynnol	pres.	presennol
dyf.	dyfodol	prff.	perffaith
e.	enw	prs.	person, -ol
eb.	enw benywaidd	pth.	perthynol
e.c.	enw cyffredin	r	<i>recto</i>
ed.	<i>edited by, edition</i>	rh.	rhagenw, -ol
e.e.	er enghraifft	S.	Saesneg
eg.	enw gwrywaidd	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
engh.	enghraifft	<i>s.v.</i>	<i>sub verbum</i>
enghrau.	enghreifftiau	td. (d.)	tudalen
eith.	gradd eithaf	tt.	tudalennau
e.p.	enw priod	un.	unigol
f.	ffolio	v	<i>verso</i>
ff.	ffolios	vols	<i>volumes</i>

Rhagymadrodd

Ei ach

Yn wahanol i nifer o'i gyd-feirdd yn y bymthegfed ganrif, diogelwyd ach Hywel Dafï. Yr oedd yn fab i Ddafydd ab Ieuan ap Rhys Llwyd ab Adam ap Rhys ab Einion Sais.¹ Ni wyddys enw mam Hywel nac enw ei wraig ychwaith, ond nodir bod iddo ferch, Nest, a brawd, Trahaearn, a briododd â Gwerful, merch Rhys o'r Fforest, a hwnnw yn fab i Forgan ap Dafydd ap Hywel Fychan ap Hywel ab Einion Sais.² Disgynnai Einion Sais o Fleddyn ap Maenyrch, rheolwr hen deyrnas Brycheiniog yn yr unfed ganrif ar ddeg. Gorchfygwyd Bleddyn gan Bernard de Neufmarché a'i ddilynwyd yn 1093³ ac ymroes y cwnweryd, fel y cyfeiria'r beirdd atynt, i gadarnhau eu hawdurdod ar y rhan hon o'r wlad trwy godi castell a sefydlu bwrdeistref ger cymer afonydd Honddu a Wysg, a dyma dref Aberhonddu fel y gwyddom amdani heddiw.⁴ Ymfalchïai llawer o deuluoedd brodorol Brycheiniog eu bod yn ddisgynyddion Maenyrch trwy Fleddyn a'i frodyr.⁵ O blith y teuluoedd hyn y daeth llawer o noddwyr Hywel Dafï ei hun, a diau fod y ffaith ei fod ef a hwythau yn rhannu cyff cyffredin wedi agor drysau iddo fel bardd. Trafodir noddwyr y bardd mewn adran arall yn y rhagymadrodd. Am y tro nodir bod cyswllt teuluol clòs rhwng y bardd a rhai o'i noddwyr, a disgynyddion Rhys Llwyd ab Adam yn benodol, sef y gangen y perthynai Hywel Dafï iddi. Yr oedd hon yn y gangen helaeth am fod

¹ WG1 109.

² *Ib.* 106; WG2 225.

³ *ar bedwredd vlywyddyn o wladychrwydd Wiliam goch vrenin Lloyger i lladded y Bleddyn hwnn gida Rys ap Tewdwr ymrw-wydyr y Batail garllaw glann wysc trwy ryfel Barded Nywmark a Syr Reinallt Awbre ar marchogion Ffrengig erraill*, gw. P.C. Bartrum, 'Pedigrees of the Welsh tribal patriarchs', Cylchg LIGC xiii (1963-4), 130. Fe'i coffeir yn barchus gan Hugh Thomas: *Hugh Thomas' Essay Towards the History of Brecknockshire 1698*, ed. J. Jones-Davies (Brecon, 1967), 38, *Thus fell Blethin ab Mainarch the last altho' not the greatest yet one of the Bravest Princes of the British Blood a man of singular Virtues, and by no means deserving so hard a fate*. Yr oedd Bleddyn ap Maenyrch a Rhys ap Tewdwr yn frodyr yng nghyfraith am fod Bleddyn yn briod â merch y Tewdwr Mawr, gw. WG1 85. Marwolaeth Rhys ap Tewdwr yn unig a gofnodwyd ym Mrut y Tywysogion, gw. *Brut y Tywysogyon*, ed. Thomas Jones (Cardiff, 1955), 32, *Deg mlyned a phetwar ugeint a mil oed oet Crist pan las Rys uap Tewdwr, brenhin Deheubarth, y gann y Ffreinc a oed ynn presswylaw Brecheinawc. Ac yna y dygwydawd teyrnas y Brytanyeit*.

⁴ HW 436-9; R.R. Davies, 'Brecon' yn *Boroughs of Medieval Wales*, ed. R.A. Griffiths (Cardiff, 1978), 46-70; W.S.K. Thomas, *Brecon c. 1093-1660, An Illustrated History* (Llandysul, 1991), pennod 1 'The medieval scene', 1-53; W. Rees, 'The mediaeval lordship of Brecon', THSC, 1915-16, 165-224.

⁵ WG1 663. Drymbenog, Madog, Rhiwallon a Rhys Goch oedd brodyr Bleddyn.

gan Rys Llwyd wyth mab a thair merch.⁶ Canodd Hywel Dafï gywydd moliant a chywydd marwnad i Lywelyn ap Gwilym, Porthgogof, ynghyd ag ail farwnad iddo ef a'i ail wraig Siwan. Yr oedd Llywelyn a Dafydd, tad y bardd, yn ddau gefnder, a rhaid bod Hywel Dafï wedi ymweld â'r cartref yn Ystradfellte ar fwy nag un achlysur. Egyr y cywydd marwnad cyntaf trwy bwysleisio'r cyswllt gwaed rhyngddynt:

Ewythr i bawb aeth i'r bedd;
 Athrist wyf am ewythredd ...
 Wylo 'n ei ôl, fil, â naint
 Am un ewythr mae neiaint.⁷

Cofnodwyd yr unig gopi o'r cywydd hwnnw gan Syr John Pryse. Rhoes enw'r bardd yn llawn: *howel davydd ap Jevan ap Rhys llwyd ap Ad[am]*, a mynnai roi ar gof a chadw hefyd ei fod ef ei hun yn disgyn o Lywelyn ap Gwilym: *barnod llywelyn ap Gwilym ap Rhys llwyd ap Adam hynaif i Srsion vab Rhys nyd amgen i orhendad ef*.⁸

Yr oedd Rhys ap Gwilym, brawd Llywelyn, yn daid i Margred a briododd â Thomas ap Siancyn Fychan o Aberysgir, un o noddwyr y bardd, ac yr oedd ei chwaer hi, Lisod, yn ferch yng nghyfraith i Forgan ap Tomas Llwyd, un arall o blith ei noddwyr.⁹ Bernir bod Syr Morgan ap Rhys, un o noddwyr eglwysig prin y bardd, yn disgyn o Sioned, modryb Dafydd ab Ieuan ap Rhys,¹⁰ ac o'i chwaer hi, Isabel, y disgynnai Mabli, ail wraig Gruffudd ap Nicolas o Ddinefwr. Cyfarchodd y bardd Ruffudd a'i ddau fab o'i ail briodas, Tomas ac Owain, ac er nad oedd Gruffudd yn un i groesi cleddyfau ag ef, mentrai Hywel Dafï ei atgoffa eu bod yn rhannu cyff cyffredin.¹¹ Gelwir sylw at y cyswllt gwaed wrth erchi bydafau gan Lywelyn Goch o Rydlafar yn Sain Ffagan hefyd:

Cwynaf wrth garw Rhydlafar,
 (Clod a gaiff; clywed ei gân!).¹²

Nid yw'r cyswllt mor glòs ac uniongyrchol y tro hwn ac efallai fod angen i'r bardd bwysleisio'r llinach gyffredin er mwyn atgyfnerthu ei gais.

⁶ WG1 108. Byddai'n dda pe gellid cysylltu beirdd Tir Iarll yn y 15g. a'r 16g., sef Lewys Morgannwg a'i hynafiaid, â llinach Rhys Llwyd, ond nid oes modd gwneud hynny. Disgynnai'r teulu hwn o feirdd o Hywel ap Rhys Fychan o Dir Iarll. Priododd Gwenllïan, chwaer Hywel, â Rhys Llwyd ab Adam, ond hi oedd ei drydedd wraig. Ail wraig Rhys Llwyd oedd mam Gwilym, sef y gangen o ddisgynyddion Rhys Llwyd a drigai ym Mhorthgogof, gw. WG1 302, 306.

⁷ 32.1–2, 5–6.

⁸ LIGC 9048E, 28^v.


⁹ Gw. cerddi 13 a 37.

¹⁰ Gw. cerdd 14.

¹¹ Gw. cerddi 80–1. Yn ôl R.A. Griffiths, 'Gruffydd ap Nicholas and the fall of the house of Lancaster', *Cylchg HC 2* (1964–5), 213, Gruffudd ap Nicolas oedd 'the most unscrupulous, the most ambitious, and eventually the most powerful of the king's subjects in West Wales'.

¹² 74.17–18.

*Y cyswllt teuluol rhwng Hywel Dafianoddwyr
(nodir y rhai a gyferchir â phrint trwm)*



Ei enw

Diogelwyd oddeutu deuparth cerddi'r bardd yn ei law ei hun yn llawysgrif Pen 67 a rhoes ei enw ar ddiwedd pob cerdd. Fodd bynnag, nid un ffurf ar ei enw a ddefnyddiodd ond tair, sef y ffurf lawn *Ho ap dd ap Jeu ap rryss* a dau dalfyriad, sef *Ho / Howel Davi* a *Huw Davi*. Wrth y gerdd gyntaf yn unig y digwydd y ffurf lawn. Arferir y ffurf *Ho / Howel Davi* yn bennaf yn rhan gyntaf y llawysgrif a *Huw Davi* yn yr ail ran. Anodd gan E.S. Roberts oedd credu mai yn llaw'r bardd yr oedd y cerddi am fod y tair ffurf yn cael eu harfer. Rhyfedd, meddai, fyddai iddo arddel tair ffurf ar ei enw wrth gofnodi ei gerddi ei hun.¹³ Ymataliodd hefyd rhag mynegi barn ar sylw J. Gwenogvryn Evans mai dau enw neu ddwy ffurf ar enw'r un bardd oedd Hywel Dafi a Huw Dafi.¹⁴ Rhaid ystyried y posibilrwydd fod y tri enw yn cynrychioli tri bardd, ond fel y gwelir isod y mae cyswllt teuluol a daearyddol clòs rhwng gwrthrychau'r canu. Y mae'n annhebygol fod tri bardd a chanddynt enwau tebyg yn canu yn gyfamserol yn yr un rhan o Gymru. Unwaith yn unig y defnyddiwyd y ffurf lawn yn Pen 67, ond fel y

¹³ Peniarth MS. 67, iv.

¹⁴ 'In Williams' Eminent Welshmen Howel Davydd is treated as a different person from Huw Davi but this is a mistake; witness that Bedo Brwynllys addresses him by both names in the same cywydd on p. 264', gw. RWM i, 460.

nodwyd eisoes, digwydd yr un ffurf ar ddiwedd cywydd a gopiwyd gan Syr John Pryse ond bod un genhedlaeth arall wedi ei hychwanegu y tro hwn: *howel davydd ap Jevan ap Rhys llwyd ap Ad[am]*. Bernir mai talfyriad yw ‘Hywel Dafi’ a ‘Huw Dafi’, ac y mae’n arwyddocaol nad yw’r bardd yn arddel y ffurf ‘Dafydd’ yn y cyswllt hwn.¹⁵ Y mae tystiolaeth y bardd ei hun yn ei gerddi ynghyd â thystiolaeth rhai o’i gyd-brydyddion yn dangos yn glir fod y ddwy ffurf, *Hywel* a *Huw*, yn cael eu defnyddio a’u cyfnewid yn ôl yr angen, a gellir derbyn yn hyderus mai gwaith yr un bardd a gynrychiolir gan y ddau enw.¹⁶

Y ffurf *Huw* a ddefnyddir yng nghorff cywydd a ganodd y bardd i erchi cymod Maredudd ap Morgan:

Segur yw ’nigasogion
Er hely Huw o’r heol hon.¹⁷

Ar y llaw arall digwydd *Hywel* mewn cywydd crefyddol, a thybir mai cyfeirio ato ef ei hun y mae’r bardd:

Mwy fydd cwyn a gynllwynwyd
Êl, fal dur, Hywel, i’r rhwyd ...
Na boch ddig o’r baich a ddêl
Heb iachâu baich Hywel.¹⁸

Hwylustod mydryddol, a’r rhyddid i elwa ar ddwy ffurf, y naill yn unsill a’r llall yn ddeusill, sydd yn cyfrif am y ffurfiau *Huw* a *Hywel* yn y llinellau uchod.

Enwir y bardd yn yr ymrysonau a fu rhyngddo a rhai o’i gyd-brydyddion. Y ddau ymryson â Guto’r Glyn sydd fwyaf adnabyddus, y naill yn Rhaglan yn llys Wiliam Herbert, a’r llall yng nghartref Morgan ap Rhoser. *Hywel* yw’r unig ffurf ar enw’r bardd yn y ddau gywydd a ganodd Guto’r Glyn.¹⁹ Digwydd dair gwaith yn ymryson Rhaglan a dwywaith yn yr ymryson yng Ngwynllŵg. *Hywel* y gelwir ef hefyd yn y cywyddau a ganodd Llywelyn

¹⁵ Yn ei lyfr nodiadau ar y beirdd geilw E.S. Roberts ef yn ‘Hywel Dafydd o Raglan’, gw. LIGC 12256B, 51–2. Gw. hefyd sylw W.J. Gruffydd yn *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600* (Lerpwl, 1922), 45: ‘Gelwid ef hefyd, am ryw reswm neu’i gilydd, yn Huw Dafi, ac yn Hywel Dafydd’. Bardd arall a ganai tua diwedd y 15g. oedd y gŵr y cyfeirir ato yn Moses Williams, *Repertorium Poeticum* (Londini, 1726) wrth yr enwau Huw Dafydd Llwyd / Huw Dafydd Llwyd ab Gof / Hywel Dafydd Llwyd ab Gruffydd, alias ab y Gof. Trafodir awduraeth un gerdd a briodolwyd iddo ef ac i Hywel Dafi yn yr adran ‘Cerddi Ansic’ td. 58. Gw. ymhellach y cyfeiriadau at y cerddi y bemir mai Syr Huw Dafydd o Ewas a Syr Huw Dafydd, Gelli-gaer a’u canodd.

¹⁶ Am enghrau. eraill o’r ddau enw yn ymglyfnewid, gw. GG.net 60.5n a TA XXXVIII.71–2. Arferid y ffurfiau *Llywelyn* a *Lewys* wrth gyfeirio at Lewys Morgannwg, gw. GLMorg 1–2, a defnyddiodd y bardd hwnnw’r ffurfiau *Edward* ac *Iorwerth* wrth gyfeirio at un o’i noddwyr, gw. *ib.* 19.55n. Mewn dau gywydd geilw Guto’r Glyn ei noddwr Rhisiart Cyffin yn Rhys, gw. GG.net 58.36n, 59.32n.

¹⁷ 25.17–18.

¹⁸ 99.43–4, 51–2.

¹⁹ Gw. cerddi 67, 73.

Goch y Dant a Gruffudd Dafydd Fychan iddo wrth ymateb i'w farwnad i Ieuan ap Hywel Swrdwal.²⁰ Ar y llaw arall, dewisodd Huw Cae Llwyd arfer y ffurfiau *Hywel* a *Huw* ynghyd â *Huw Dafî*. Yn y Slwch y bu'r ymryson â Huw Cae Llwyd sydd yn cynnwys y llinellau:

Edifar gan Huw Dafî
 Arbed man o'r byd i mi.
 Hap neu ddawn *i mi* pan ddêl—
 Y maen haearn mewn Hywel ...
 Ni ad Huw roi wy mewn tân
 Na bo yntau wrth bentan.²¹

Gelwir y bardd yn *Hywel Dafî* ac yn *Huw Dafî* yn y cywydd a ganodd Bedo Brwynllys i'w ddychanu:

Hywel sy uchel ei sôn,
 Dafî, naddwr defnyddion ...
 Rhy edifar, Huw Dafî,
 Yr aeth ei foes wrthyf fi.²²

Hywel Dafî yw'r ffurf yn y cywydd marwnad a ganodd Dafydd Epynt:

Hywel Dafî, ail Dafydd,
 Os marw fu, eisiau mawr fydd.²³

Digwydd yr enwau *Huw* a *Hywel* ar ddechrau'r farwnad, ond ymddengys fod Dafydd Epynt yn coffáu dau fardd, Hywel Dafî a Huw Cae Llwyd. Arferir dwy ffurf er mwyn gwahaniaethu rhwng y ddau fardd a mawrygu cyfraniad y naill a'r llall. Cyn y diwedd, fodd bynnag, cyfeiria Dafydd Epynt at ddau *Hywel*. Y tro hwn cynrychiola'r enw *Hywel* Hywel Dafî a'i gyd-fardd Huw Cae Llwyd, prawf arall o'r modd y byddai'r enwau *Huw* a *Hywel* yn ymgynffwrdd.²⁴ Y mae sawl adran dywell yn y farwnad.²⁵ Er bod adran agoriadol y gerdd, fel y nodwyd, fel pe bai'n cyfleu'r golled am ddau fardd, sef Hywel Dafî a Huw Cae Llwyd, erbyn y diwedd ymddengys mai

²⁰ D.J. Bowen ac E.I. Rowlands, 'Ymryson rhwng Hywel Dafî a beirdd Tir Iarll', LICY 3 (1954–5), 107–14.

²¹ 39.13–16, 29–30.

²² 52.19–20, 29–30. Gw. troednodyn 14 uchod.

²³ GDEp 22.11–12.

²⁴ Mewn cywydd gan Huw Cae Llwyd i ddau frawd, Rhys a Lewys ap Siancyn, cyfeiria ato ef ei hun wrth yr enw *Hywel*: HCLI XL.13–14 *Antur i wr onid Rhys / Atal Hywel at Lewys*. Arferir y ffurf *Hywel* yn hytrach na *Huw* ar dri achlysur yn Pen 55: *hywel kay llwyd, howel kay llyd, Ho Kae Llwyd*, gw. RWM i, 421–5. Yn llaw'r bardd ei hun y mae'r gerdd sydd yn cynnwys y llofnod olaf *Ho Kae Llwyd* yn ôl D. Huws, gw. RepWM. Mewn rhestr o enwau'r prydyddion yn LIGC 1599E dilynrir enw Hywel Dafî gan *Huw Cae Llwyd nev Howel*.

²⁵ Gw. y sylwadau yn nodyn brig GDEp cerdd 22.

un bardd sydd yn cael ei goffáu. Awgrymir mai Hywel Dafï oedd hwnnw a bod Huw Cae Llwyd o bosibl yn dal yn fyw.²⁶

Ceir tystiolaeth ddadlennol gyda golwg ar y ddwy ffurf gyfochrog yn y cywydd a luniodd Siôn ap Ffelpod, cywydd a ddiogelwyd yn llaw Hywel Dafï yn Pen 67. Cyferchir y bardd ar ddechrau'r cywydd:

Brad fu 'mddiried i brydydd,
Brad iddo fo o'm bryd fydd.
Ban ddoeth gyntaf ataf i
Y diefl gan Hywel Dafï ...²⁷

Y ffurf *hw* a ysgrifennwyd yn gyntaf yn llinell 4 ond yna fe'i haddaswyd yn *howel*. Gallai hyn awgrymu mai *Huw* yn hytrach na *Hywel* a arferai'r bardd yn reddfól, ond gellid esboniad arall. Efallai ei fod yn copïo testun o gywydd Siôn ap Ffelpod a hwnnw'n cynnwys y ffurf *Huw*. Sylweddolodd y bardd fod y llinell sillaf yn fyr (am ei fod yn cyfrif *diefl* yn air unsill), a chywirowd y llinell trwy newid ei enw ei hun yn *Hywel*.

Yng ngoleuni'r dyrnaid o gyfeiriadau gan Hywel Dafï ei hun a'r dystiolaeth bellach yng ngweithiau ei gyfoeswyr, gellir bod yn dra sicr fod y ddwy ffurf, Hywel Dafï a Huw Dafï, yn rhai cyfochrog, a'u bod yn cynrychioli'r ffurf lawn Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys.²⁸

Amlinelliad o'i fywyd

Ar sail ei gerddi ei hun ynghyd â'r cyfeiriadau ato yng ngweithiau ei gyfoeswyr, gellir creu'r amlinelliad a ganlyn. *Un o'r Deheuwyr* yw Hywel Dafï yng ngolwg Guto'r Glyn.²⁹ Er bod Dafydd Epynt yn ailadrodd y disgrifiad *deheuwyr* yn y farwnad a ganodd iddo ef ac i Huw Cae Llwyd,³⁰ y tro hwn gosodir Hywel Dafï mewn un rhanbarth yn benodol, sef ym Mrycheiniog.³¹ Ymddengys mai yno yr oedd ei wreiddiau a mawrygir

²⁶ Awgrymir y posibilrwydd hefyd mai ffugfarwnad yw hon, a'r ddau fardd eto'n fyw, gw. O. Thomas, 'Dafydd Epynt: bardd llythrennog o Frycheiniog', *Dwned*, 6 (2000), 77–94. Ni ellid disgwyl i Ddafydd lunio marwnad ddilys i'r ddau fardd, meddir, a hwythau wedi bod benben â'i gilydd a'r naill a'i lach ar y llall, gw. cerddi 39–40. Ar y dosbarth hwn o gerddi, gw. H.M. Edwards, 'Murnio marwnadau: golwg ar y ffug-farwnad yng nghyfnod y cywydd', *Dwned*, 5 (1999), 47–70.

²⁷ 63.1–4.

²⁸ Digwydd yr enw llawn yn rhestr Thomas Wiliems yn BL Add 31055 o enwau'r beirdd o dan y trydydd clymiad, sef *howel dd ap Jenn ap Rhos*. Felly hefyd yn D. Huws, 'Rhestr Gutun Owain o wŷr wrth gerdd', *Dwned*, 10 (2004), 86.

²⁹ 67.47.

³⁰ GDEp 22.25 *Ôl dau Hywel, deheuwyr*.

³¹ *Ib.* 22.78 *Ni fu, wedy grëu'r gro, / Frycheiniog, freuach honno*. Ateg bellach i'w gyswll â Brycheiniog yw'r darn cyfreithiol anghyffredin sydd yn ei law, gw. Peniarth MS. 67, 42–4, sef *[d]adl kroes am dir a dayar herwydd y ddefod yssydd y myrcheiniog arveredic*. Trafodir ei arwyddocâd yn S.E. Roberts, 'Legal practice in fifteenth-century Brycheiniog', SC xxxv (2001), 307–23. Camarweiniol yw'r awgrym, *ib.* 308, fod y rhan fwyaf o gerddi'r bardd yn y llsgr. yn rhai crefyddol. Bardd o Aberdâr ydoedd yn ôl R. Williams, *Enwogion Cymru, A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (Llandovery, 1852), 229; J.T. Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (2 gyf., Aberdâr, 1867–79), i, 573. Ymddengys mai William Owen, *The Cambrian*

rhinweddau'r wlad, y dirwedd a'r bobl, mewn cywydd a ganodd i Frycheiniog.³² Un o gymwynasau'r cywydd hwnnw yw caniatáu ei leoli hyd yn oed yn fwy manwl oblegid dywed Hywel Dafu iddo dreulio cyfran o'i oes ym mwrdeistref Aberhonddu:

Tref gaerog trwy fagwriaeth,
Tref wen lle bûm gynt ar faeth.³³

Prynodd Llywelyn, tad Dafydd Gam, y tri Pheutun: y Peutun-glas, y Peutun-gwyn a'r Peutun-du, ar gyrrion tref Aberhonddu.³⁴ Lladdwyd Dafydd Gam ar faes y gad yn Agincourt yn 1415 ond yr oedd ei ddisgynyddion yn amlwg ymhlith noddwyr Hywel Dafu. Barn Hugh Thomas a ysgrifennai ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg am y teulu oedd:

Besides the families above treated of there are several others of good Quality and Antiquity dwelling within the Borough, but the chiefest of note both of late and for several ages past, is the right Worshipful Family of the Games's.³⁵

Wrth gyfarch Hywel ap Morgan ap Dafydd Gam a'i ddau frawd, pwysleisiodd Hywel Dafu'r cyswllt gwaed a'r cyswllt personol rhyngddynt. Gallai hyn awgrymu ei fod wedi ei fagu yn eu cwmni yn un o gartrefi'r teulu yng nghyffiniau Aberhonddu.

Brawdfaethi ym ni o'n iaith
Ac o unwaed ugeinwaith.³⁶

Ategir ei gyswllt â'r ardal i'r gogledd o dref Aberhonddu pan ddywed wrth noddwr pwysig arall, sef Gwilym Dew o'r Argoed ym mhlwyf Llanfihangel Fechan, *Dygom gydgyfydogaeth*.³⁷

Pwysleisia Hywel Dafu ei gyswllt â'r de yn ei farwnad i Ieuan ap Hywel Swardwal:

Dau flaenor, bu rychor ym,
Dwyddol y Deau oeddym.

Biography (London, 1803), 184, oedd cysail y sylwadau hyn a hawdd credu mai Iolo Morganwg oedd ei ffynhonnell yntau (er na lwyddwyd i daro ar y 'ffeithiau' hyn yn ei ysgrifeniadau): 'an eminent poet of Aber Dâr in Glamorgan, who flourished between A. D. 1450 and 1480. He was in the Glamorgan Gorsedd of 1460. Many of his compositions are preserved'. Yn y rhestr o 'brif feirdd cyfnod yr Uchelwyr' yn T. Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd, 1974), 87, enwir 'Hywel ap Dafydd, o Forgannwg, c. 1470'. Anfonodd G.J. Williams lythyr at yr awdur yn holi a oedd ganddo dystiolaeth mai un o Forgannwg oedd y bardd. Hyd y gwyddys, ni chafodd ateb, gw. D.Ll. Morgan, *Brenhinbren: Bywyd a Gwaith Thomas Parry, 1904–1985* (Llandysul, 2013), 142.

³² Cerdd 59.

³³ 59.35–6.

³⁴ Gw. HCBrec i, 160.

³⁵ J. Jones-Davies, *op.cit.* 42.

³⁶ 15.31–2.

³⁷ 3.15.

Nid erddir arglwydd-dir glân
 Y Deau wedy Ieuan.
 Fal unych pan foliannwyf
 Wrth iau yn Neheubarth wyf.³⁸

Prin fod lle i amau'r datganiad, ond rhaid oedi i ystyried sylw Hywel Dafï wrth gyfarch Wiliam Fychan o'r Penrhyn:

Efô fu i dalu Nadolig—ym aur
 Am eiriau gwyndodig.³⁹

Gall *gwyndodig* gyfleu'r ystyr 'iaith Gwynedd'. O Landderfel yr hanai Huw Cae Llwyd ond treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn y de, yn canu i fonedd Brycheiniog a'r siroedd cyfagos.⁴⁰ A oes yma awgrym fod Hywel Dafï wedi treulio rhan o'i fywyd yn y gogledd? Bernir mai sylw tafod-mewn-boch yw hwn, ac fe'i hailadroddir wrth foli Hywel ap Morgan a Sioned ei wraig, yn ôl yn ei gynefin ym Mrycheiniog:

Aeth ynof o iaith Wynedd,
 Hon, hi a'i meibion, a'i medd.⁴¹

Yn wahanol i Guto'r Glyn, ni fynegir nemor ddim cydymdeimlad â thrigolion Gwynedd yn dilyn cyrch Wiliam Herbert yn erbyn castell Harlech yn 1468,⁴² ac un o rinweddau Maredudd ap Morgan a'i frodyr oedd eu parodrwydd i ymosod ar wŷr Gwynedd.⁴³ Ac oedi yn fyr ar y trywydd milwrol, gwyddys bod Guto'r Glyn a Hywel Swrddwal wedi ymuno â'r fyddin ac wedi treulio cyfnodau yn Ffrainc.⁴⁴ Bu gŵr o'r enw *Howel Davy / Davi / David* yn gwasanaethu yn nhref Domfront yn rhanbarth Orne, rhwng 1427 a 1445 ond nid oes lle i greu mai'r bardd oedd hwn.⁴⁵

Ymddengys fod y bardd wedi bod yn dilyn gorchwylion amaethyddol yn ystod un cyfnod yn ei fywyd, ac yn cadw gwartheg ar y tir uchel:

Weithian yr wyf, wythi rheg,
 Mewn gorthir er mwyn gwartheg,

³⁸ 86.21–6.

³⁹ 84.17–18.

⁴⁰ CLC² 350; HCL1 11–25. Enwir *hughe kae lloyd Brechon* yn yr adran 'Beirdd a Phrydyddion' yn llaw John Davies, Mallwyd, yn Pen 49, 166'.

⁴¹ 16.35–6.

⁴² Cerdd 69. Barn B.J. Lewis, GG.net cerdd 21, am gywydd Guto *Tri llu aeth i Gymru gynt* yw 'Nid cerdd o fawl unplyg mo hon. Mae'n apelio'n daer ar Herbert i arbed pobl Gwynedd rhag ei ddial. Ymddengys fod Guto'n ymddwyn fel llefarydd neu gyfryngwr ar ran boneddigion y wlad.'

⁴³ 26.7–8 *Ef, a'i frodyr, Faredudd, / Â Gwynedd oll y gwnâi ddydd.*

⁴⁴ E. Salisbury, *Ar Drywydd Guto'r Glyn ap Siancyn y Glyn* (Aberystwyth, 2007).

⁴⁵ Gw. SLME. Bu gŵr arall, *Howel David* yn gwasanaethu yn saethydd yn Louviers a Conches yn 1440 o dan John Talbot, ac yn 1437 yr oedd gŵr o'r enw *Howel ap Davy* yn aelod o'r garsiwn yn nhref Mantes o dan Syr Rhisiart Gethin.

Llethri geirw, ceirw a'u cyrraidd,
Lle nid mawr llyn onid maidd.⁴⁶

Nid oes tystiolaeth fod Hywel Dafî yn frodor o Raglan.⁴⁷ Rhaid bod yn wylidwrus wrth ddisgrifio ei gyswllt â chartref Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro. Gellir dyfalu bod y disgrifiad 'bardd Rhaglan' yn seiliedig ar ddehongliad deallus o'r ymryson adnabyddus a fu rhwng Guto'r Glyn a Hywel Dafî yng nghartref Wiliam Herbert,⁴⁸ ymryson a ddiogelwyd mewn rhagor na deugain llawysgrif.⁴⁹ Ar sail y cerddi a ddiogelwyd byddai 'bardd Tretŵr' yn llawer cymhwysach disgrifiad na 'bardd Rhaglan', fel y gwelir isod.⁵⁰ Awgryma Bedo Brwynllys iddo ddal swydd ystiwart naill ai yng nghwmwd Ystrad Yw neu yn y cartref yn Nhretŵr:

Ystiwart yn oes deuwr
Yw'n rho'r tai yn Nhre'rtŵr.⁵¹

Nid rhaid dehongli'r sylw yn llythrennol ac efallai mai'r ensyniad yw bod y bardd yn ymddwyn yn drahaus ac yn awdurdodol tuag at ymwelwyr megis Bedo Brwynllys. Ond efallai ei fod wedi derbyn rhyw swydd gyhoeddus neu ryw fraint neu'i gilydd am fod gŵr o'r enw *Howel Davy* yn cael ei eithrio rhag canlyniadau deddf Adfeddiannu 1464–5,⁵² deddf a oedd yn adfer i'r goron hawliau ar freintiau a buddiannau ariannol a ildwyd yn y gorffennol. Efallai mai yn rhinwedd ei gyswllt naill ai â Wiliam Herbert neu â Rhoser Fychan y daeth y swydd neu'r fraint i'w ran yn y lle cyntaf. Gall fod a wnelo rhai o'r taliadau a restrwyd yn Pen 67 â'r swydd dan sylw.⁵³

⁴⁶ 74.13–16.

⁴⁷ CLC² 354 'bardd a brodor o Raglan'. Y mae ByCy 380 yn fwy gochelgar ac yn cyfeirio yn unig at y disgrifiad sydd yn Pen 101, 262 (olnod cerdd 37), gw. troednodyn 49.

⁴⁸ Dehonglwyd y disgrifiad yn llythrennol yn H. Fulton, 'Guto'r Glyn and the Wars of the Roses', GwalchCG 53–4: 'Very few poets ... were retained at a single court', meddai, ond yr oedd Hywel Dafî yn eithriad.

⁴⁹ Ond mewn tair yn unig y cysylltir y bardd â Rhaglan; yn Gwyn 5 *Howel ap David ap Ieuan ap Rhys Bardd Rhaglan ai cant*; LIGC 16964A *Bardd Rhaglan lle roedd Sr Wm Herbert yn byw*; CM 5 *Howell ap David ap Jenn ap R ai Kant prydidd a gwas or [y] yn rraglan*. Ceir disgrifiad tebyg yn rhai o'r copïau a ddiogelodd gerdd 37, sef *o Raglan* (BL Add 14971, LIGC 642B a LIGC 6209E), *prydidd o Raglan* (Pen 101), a *Prydydd o r ty yn Rhaglan* (BL Add 31070).

⁵⁰ Ond gw. y sylw hwn yn un o lsgrau. Iolo Morganwg: *Fe fu llawer un or Prydyddion yn Ystiwardiad i rai o Arlwyddi Rhial diweddaff Morganwg, fal y bu Lewys Glynn Cothi, a Hywel Dafydd ab Ieuan ab Rhys, a Gutto r Glynn, a Lewys Morganwg, a Ieuan ab Owain ab Rhydderch ag eraill yn enwedig I'r Ieirll Siosbar, Herbert &c.*, gw. LIGC 13089E, 330.

⁵¹ 52.21–2n.

⁵² WWR 93. Ni ellir bod yn sicr mai Hywel Dafî'r bardd oedd hwn ond y mae hynny'n ddichonadwy am fod enw *Howel Swrdwal* i'w weld ymhlith y rhai a restrir. Ceir y biliau gwreiddiol a arweiniodd at y petisiwn sydd yn *Rotuli Parliamentorum V*, 545, yn yr Archif Genedlaethol, dogfennau C49/65/53 a C49/61/4, ond nid oes yma unrhyw fanylion am Hywel Dafî (diolchaf i'r Athro R.A. Griffiths am y cyfeiriadau hyn ac am edrych ar y biliau). Rhestrir dau grŵp o unigolion o dde-ddwyrain Cymru a eithrir rhag canlyniadau'r ddeddf, a diau eu bod yng ngwasanaeth Syr Walter Devereux a / neu Wiliam Herbert, ei frawd yng nghyfraith.

⁵³ Peniarth MS. 67, 63, ac ymhellach isod tt. 19–20.

Ensynia'r bardd ei fod wedi dychwelyd i dref Aberhonddu ym mlynnyddoedd ei henaint a'i fod yn derbyn cysur a lloches rhwng ei muriau:

Ystôr a swllt ostri saint
Ym yw honno i'm henaint.⁵⁴

Ymddengys mai yn ei henaint y canodd i Hywel ap Morgan o'r Trallong, ond brysia i ychwanegu fod ei awen mor gryf ac mor heini ag erioed:

Mae'n ieuanc o'r min awen
Er bod 'y nhafod yn hen.⁵⁵

Deisyf nawdd Cynog ar drigolion y wlad, a chesglir mai ei ddymuniad yw cael ei gladdu yng ngardd Brychan, sef eglwys Cynog ym Merthyr Cynog:

Caner a chadwer fy chwedl,
Cadw, Gynog, ein cydgenedl.
Gardd Frychan, gwreiddfawr achau,
Ar ddiwedd f'oes fo'r ardd fau.⁵⁶

Awgryma Siôn ap Ffelpod ei fod yn wŵr mawr o gorff, er ei bod yn bosibl fod y cywydd dychan a ganodd yn cynnwys elfen o ormodiaith. Dywed Siôn:

Mawr ei gest, cyd bai gwestiwr,
Y bardd tew, led bwrdd y Tŵr.⁵⁷

Banw o Loegr, mochyn Seisnig neu gadi ffan o Sais o bosibl, oedd Hywel Dafï yng ngolwg Huw Cae Llwyd.⁵⁸ Ni ddylid synnu bod rhai o'r cywyddau ymryson y cyfeiriwyd atynt yn cynnwys sylwadau dilornus am gymeriad ac am awen y bardd. Efallai mai trwst ansoniarus ei ganiadau a gyfleir gan y disgrifiad *berw geiriau* yn y cywydd a ganodd Siôn ap Ffelpod.⁵⁹ Yr un nodwedd a bwysleisir gan Fedo Brwynllys yn y cwpled a ddyfynnwyd eisoes:

⁵⁴ 59.69–70.

⁵⁵ 16.37–8.

⁵⁶ 59.65–8. Yn y rhestr 'Y tri chlymiad cerdd' yn llaw Thomas Wiliems yn BL Add 31055, dilynir enw Hywel Dafï gan Dudur Aled a Rhys Nanmor. Nodir mai yng Nghaerfyrddin y claddwyd y ddau olaf ond ni ddywedir mai yno y claddwyd Hywel Dafï. Enwir y tri ar frig y rhestr *Pa le y claddwyd y prydyddion hyn* yn LIGC 872D, 463, a nodir bod y tri wedi eu claddu yng Nghaerfyrddin. Ailadroddir y gwall tybiedig mewn ffynonellau diweddarach: yn BL Add 14883, 117^r, BL Add 15021, 4, sef *Coffadwriaeth ym mha le y cladded swrn o'r beirdd y 15ed ar unfed ganrhi ar bumtheg allan o hen ff. o eiddo Mr Panton 1763* (gwall am sir Gaerfyrddin yw *Carnarvonshire / Caernarvon* yn y gwreiddiol). Nid enwir Hywel Dafï yn y rhestr yn LIGC 3029B [= Mos 110], 188, ond nodir *Tudur Alet a Rees Nanmor ynhyr brodyr ynghaeryrddin*.

⁵⁷ 63.11–12. Ailadroddir yr un disgrifiad yn yr ymryson yn Nhretŵr rhwng Bedo Brwynllys a Hywel Dafï, gw. 52.53–4 *E'm câi innau'n amcanu / Nad a' byth i'r nod y bu*. Efallai fod Hywel Dafï yn ei gywydd marwnad i Hywel ap Rhys yn ensynio mai gwŵr prydy tywyll ydoedd, gw. 7.17–18 *Pan gladdwyd, y pen gloywddu / Yn llwyd aeth wedy'r lliw du*.

⁵⁸ 39.22.

⁵⁹ 63.10.

Hywel sy uchel ei sôn,
Dafi, naddwr defnyddion.⁶⁰

Er bod arfer trosiadau sydd yn perthyn i grefft y saer yn ffordd o fawrygu awen cyd-fardd, yng nghysgod y disgrifiad *uchel ei sôn*, tebyg mai dilornus yw'r cyfeiriad at luosogrwydd y defnyddiau crai yn y cwpled. Y mae Guto'r Glyn yn garedicach ond tâl cofio mai ei amcan yw cael gan Hywel Dafi adael Rhaglan a theithio i gwr pellaf y wlad i Wynedd ac i Fôn:

Gweiddi maent gywyddau mêl
I'm tuedd am wawd Hywel.⁶¹

Ni ddatgelir llawer am Hywel Dafi yn y cywydd marwnad a luniodd Dafydd Epynt ac anodd dehongli'r cynnwys am fod dau fardd yn cael eu coffáu. Cyffelybir awen Hywel Dafi i awen Dafydd ap Gwilym a phwysleisir bod bwlech mawr ar ei ôl. Nid annichon mai Huw Cae Llwyd yn hytrach na Hywel Dafi a goffeir yn adran olaf y cywydd.⁶² Claddwyd y bardd sydd dan sylw yn eglwys Ioan yn Aberhonddu:

Nid âi'r Cân o dir Cynog
Ond i'r grwn o dir y grog.⁶³

Peth gweddol anghyffredin mewn marwnad i fardd yw gweld y fath bwyslais ar ei dduwioldeb a'i ddefosiwn. Gelwir y sawl a goffeir yn *fardd i Dduw*⁶⁴ a gresynir:

⁶⁰ 52.19–20.

⁶¹ Gw. 67.69–70 a GG.net 20.69–70. Yn y golygiad newydd dilynwyd atalnodi GGI² LX.67–8 a chyfieithwyd fel a ganlyn: 'In my country they're bellowing poems of honey about Hywel's praise'. Gwell gennyf ddehongliad PC 11.63–4 lle y deellir *cywyddau mêl* yn sangiad am ganu Hywel a'r modd y syniai'r gogleddwyr am ei awen.

⁶² Dywed O. Thomas, golygydd canu Dafydd Epynt, fod rhannau o'r gerdd yn astrus, gw. nodyn brig GDEp cerdd 22; ychwanega, *ib.* 181, 'Yn annisgwyl, o linell 37 tan ddiwedd y gerdd, ymddengys mai marwnadu un gŵr a wneir yn hytrach na dau, a dichon mai Hywel Dafi yw hwnnw'. Yn ll. 42 cyfleir y golled ar ôl *Llaw a thrysor llwyth Risiart*. Awgryma O. Thomas y gall fod yma gyfeiriad at Rys Llwyd ab Adam, un o hynafiaid adnabyddus Hywel Dafi, ond ni welwyd ei enwi yn *Rhisiart* ar yr un achlysur arall. Am mai Huw Cae Llwyd a fu farw olaf—gwyddys ei fod yn canu ym mlyneddodd cynnar yr 16g.—tebycach mai ef yn hytrach na Hywel Dafi a goffeir yn adran olaf y farwnad. Noda O. Thomas mai peth anghyffredin ydoedd marwnadu dau fardd, a dyfala i'r ddau gael eu coffáu ar y cyd am iddynt farw tua'r un adeg, ond nid ymddengys fod hyn yn wir; gall fod ysbaid o ryw ugain mlynedd rhwng marwolaeth y ddau, gw. O. Thomas, *art.cit.* 84–5.

⁶³ GDEp 22.37–8. Efallai mai dweud y mae'r bardd iddo gael ei gladdu ym Merthyr Cynog, ac ar yr awgrym fod crog yno ar un adeg, gw. 9.23–4n. Gwyddys i nifer o noddwyr y bardd gael eu claddu yno. Nododd O. Thomas, GDEp 22.37n, fod yr e.c. *cân* (sydd yn eg. yn achlysurol) yn ddarlleniad posibl. Dewis arall fyddai *Nid âi'r gân o dir Gynog*. Claddwyd un o ddisgynyddion Rhys Llwyd ab Adam, un o drigolion Aberhonddu yn yr 17g., yn eglwys Ioan fel y tystia ei gofeb: *Rees Williams, mercer, the son of William ap John ap Rees ap John Vychan ap Gwillim Gwynn ap Llewellyn ap Gwillim ap Rhees Lloyd ab Adam ... died 26 November 1614*, gw. R. Davies, 'Brecon, Owain Glyn Dŵr and Dafydd Gam', *Brycheiniog*, xxxii (2000), 51–60.

⁶⁴ GDEp 22.40.

Llai ddeall i weddio
 Ar ôl i Fair ei alw fo.
 Diwedd oedd y dydd ydd aeth
 Ar bader a'i wybodaeth.⁶⁵

Awgryma hyn nad rhaffu ystrydebau a wnaï Hywel Dafï yn ei gywyddau i Dduw a Mair (os Hywel Dafï yw pwnc adran olaf y farwnad).⁶⁶ Gwyddys iddo fynd ar bererindod i Ynys Enlli a mentrodd lawer ymhellach i Santiago er mwyn ennill enaid rhydd. Y mae'n bosibl iddo deithio cyn belled â Rhufain hefyd er bod y cywydd sydd yn disgrifio'r profiad yn cael ei briodoli mewn rhai llawysgrifau i Lywelyn ap Hywel. Tybed ai duwioldeb y bardd sydd wrth wraidd ergyd Guto'r Glyn wrth ei geryddu a'i annog i ymdawelu: *Tawed Siôn y Cent ieuanc?*⁶⁷

Addysg farddol

Prin yw'r wybodaeth am yr hyfforddiant a dderbyniodd Hywel Dafï. Yn yr unig farwnad a luniodd i un o'i gyd-brydyddion, geilw Ieuan ap Hywel Swrdwal yn athro, ond peryglus fyddai gwneud môr a mynydd o hyn am fod y disgrifiad yn un cyffredin yn y dosbarth hwn o farwnadau. Bid a fo am hynny, y mae lle i gredu bod perthynas glòs rhwng y ddau:

Dau frawdriaeth a wnaethom,
 Â dwylo rhoed deulw rhôm.⁶⁸

Datgela ymhellach ei fod megis ych dan y wedd heb gwmni ei gymar. Nid oes yr un cyfeiriad yng nghanu Ieuan at Hywel Dafï ac nid yw cyfanswm ei ganu yn fawr am mai naw o'i gerddi sydd ar glawr.⁶⁹ Y mae rhyw gymaint o orgyffwrdd rhwng y ddau fardd o ran eu noddwyr,⁷⁰ ond y cyswllt amlycaf yw'r canu i Rys ap Siancyn yng Nglyn-nedd. Y mae lle i gredu bod y ddau gywydd a ganwyd iddo gan y ddau fardd wedi eu llunio ar yr un achlysur.⁷¹

⁶⁵ *Ib.* 22.43–6.

⁶⁶ Os Huw Cae Llwyd a ddisgrifir, dyma ddadl o blaid priodoli iddo'r cywydd i Grog Aberhonddu. Dadleuodd M.P. Bryant-Quinn, GIBH cerdd 12, mai gwaith Ieuan Brydydd Hir yw hwn; *id.*, '“Enaid y gwir oleuni”': y Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, 2 (1996), 51–93.

⁶⁷ Gw. 73.22. Yr ergyd amlwg yw bod Hywel Dafï yn ategu safbwynt Siôn Cent trwy feirmiadu caniadau celwyddog ei gyd-feirdd ond efallai fod Hywel Dafï wedi etifeddu peth o ddisgrifoldeb a dwyster Siôn Cent. Posibilrwydd arall yw bod Guto yn dannod i Hywel ei gyswllt â Rhaglan. Ceisiodd D.J. Bowen ddyfalu ymhle y bu'r ymryson rhwng Siôn Cent a Rhys Goch Eryri. Cynigiodd mai yn Rhaglan y digwyddodd ac awgrymodd ymhellach fod Guto yn dwyn hynny i gof trwy alw Hywel Dafï yn *Siôn y Cent ieuanc*, gw. 'B'le bu'r ymryson rhwng Siôn Cent a Rhys Goch Eryri?', YB XXIII (1997), 100–17; G. Ruddock, 'Siôn Cent', *GWL* ii, 171. Yr oedd gan Siôn Cent gyswllt â Brycheiniog a chanodd yn frwd am fwynderau'r wlad fel y gwnaeth Hywel Dafï, gw. nodyn brig cerdd 59.

⁶⁸ 86.15–16.

⁶⁹ GHS cerddi 24–33.

⁷⁰ Canodd y ddau fardd i Roser Fychan, Tretŵr, ac ailadroddir un ll. y mae ei chyfeiriadaeth yn bur fanwl yn y ddwy gerdd, gw. 47.4n.

⁷¹ Cerdd 75. Trafodir y tebygrwydd rhwng y ddau gywydd yn y nodyn brig. Perthyn rhai o gyfansoddiadau Ieuan i gymydau Deuddwr a Chedewain ym Mhowys yn y canolbarth, ond

Bu Ieuan yn ymryson â Llawdden, ac yn adran nesaf y cywydd marwnad cyplysir pedwar bardd, sef Ieuan a Hywel Dafî, Llawdden a Guto'r Glyn. Enwir pedwar bardd yn y farwnad a ganodd Dafydd Epynt: Hywel Dafî a Huw Cae Llwyd, dau wrthrych y farwnad, ynghyd â Bedo Brwynllys ac Ieuan Deulwyn. Yn ei gywydd dychan i Hywel Dafî caiff Siôn ap Ffelpod achlysur i gyfeirio at Lawdden ac Ieuan Gyfannedd. Ac eithrio Ieuan Gyfannedd ymddengys mai cyfoeswyr y bardd oedd y rhain. Bu Hywel Dafî yn ymryson, fel y nodwyd, â thri bardd, Bedo Brwynllys, Huw Cae Llwyd a Guto'r Glyn. Arwydd arall o'i gyswllt â'r ddau olaf yw'r canu o waith y naill a'r llall a gopiïodd yn Pen 67.⁷² Ni chyfeiriodd yr un o'r tri at Hywel Dafî mewn cerddi eraill, ac ni welwyd yr un cyfeiriad at Hywel yng ngwaith y tri bardd Ieuan ap Hywel Swrdwal, Ieuan Deulwyn a Llawdden.⁷³ Er bod mwy o'i waith ef ar glawr na'r un bardd arall a ganai yn y bymthegfed ganrif, nid yw Lewys Glyn Cothi yn cael achos i gyfeirio rhyw lawer at ei gyd-brydyddion.⁷⁴ Fodd bynnag, geilw ar bum bardd i'w gynorthwyo i iacháu Dafydd ap Siôn o'r Llysnewydd ym mhlwyf Llansamled, sef Dafydd Nanmor, Gwilym Tew, Ieuan Deulwyn, rhyw Einion a Hywel Dafî.⁷⁵ Yn ei gywydd marwnad yn unig y sonia Dafydd Epynt am Hywel Dafî.⁷⁶ Yn ôl un traddodiad, cafodd Rhydderch ab Ieuan Llwyd, Hywel Dafî, Ieuan Brechfa, Ieuan Deulwyn a Hywel Swrdwal, 'the chief men of skill in Pedegrees in all South Wales',⁷⁷ gomisiwn gan y Brenin Edward IV i wirio llinach Wiliam Herbert.

ymwelodd â Brycheiniog gan ganu ym Mrodorddyn ac yn y Peutun. Canodd glodydd meibion Rhoser Fychan, Brodorddyn (m. 1415) a chyfarhodd Hywel Dafî un o'r meibion hynny, sef Rhoser Fychan, Tretŵr. Canodd Ieuan i Ieuan ap Gwilym o'r Peutun ac anerchodd Hywel Dafî ei fab.

⁷² Cerddi IX (Guto'r Glyn) a XXXV (Huw Cae Llwyd) yn Peniarth MS. 67.

⁷³ Awgrymodd D. Huws fod Hywel Swrdwal, Llawdden ac Ieuan Deulwyn wedi cofnodi eu gwaith yn Pen 54, a cheir yn y llsgr. hefyd ddau gywydd yn llaw Hywel Dafî, gw. RepWM.

⁷⁴ A.C. Lake, Adolygiad ar *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, LICy 20 (1997), 168.

⁷⁵ GLGC cerdd 101, a llau. 25–6 *Huw Dafî'n rhoi dau ofeg*. / *Wiliam Tew'n rhoi oelment teg*.

⁷⁶ Nid oes sicrwydd mai Hywel Dafî yw'r gŵr a enwir mewn cyfres o bum englyn o waith Gutun Owain i dri phrydydd: *Howel lais vchel, â'i sachav—kaerog*. / *kwngkwerwr y seiniaiv*. / *Gwifr noeth fal gafran â iav*. / *Gevddwr drwg i gywyddav*, gw. GO cerdd LXIV. Hywel Cilan yw *Y Kilan bychan* yn ail englyn y gyfres. Enwir Hywel yn yr englyn nesaf a bodlona'r golygydd ar enwi tri bardd a oedd yn eu blodau tua'r un pryd, sef Hywel Dafî, Hywel Rheinallt a Hywel Swrdwal. Nid oes dim yn yr englyn a all dorri'r ddadl. Ifan yw'r trydydd bardd ond ni chynigir unrhyw oleuni yn GO. Os enwir Hywel Dafî yn y trydydd englyn efallai mai Ieuan ap Hywel Swrdwal yw hwn.

⁷⁷ J. Bradney, *A History of Monmouthshire Vol. 2, Part 1* (London, 1914), 10–11. Diogelwyd copïau yn LIGC 1599E, 257; LIGC 4436E; Card 3.289, 4^r–7^r. Yn yr olaf sydd yn llaw Ieuan Llwyd, Erethlyn, ac a gopiwyd yn 1628 (gw. G.C.G. Thomas and D. Huws, *Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the "Cardiff MSS"* (Aberystwyth, 1994), 254), disgrifir Hywel Swrdwal, Ieuan Deulwyn ac Ieuan Brechfa yn *Bardes*, Ieuan ap Rhydderch yn ysgwier (*Esqr*) a Hywel Dafî yn ŵr bonheddig (*gent*). Y mae'n bosibl fod a wnelo'r cof am y comisiwn hwn â'r dybiaeth fod Hywel Dafî wedi llunio gweithiau hanes, gw. ByCy 380. Dywed J. Bradney, *op.cit.* 6, amdano, 'a poet and historian of Glamorganshire, who died about 1480'. Enwir Hywel Swrdwal ac Ieuan Brechfa mewn rhestr o'r *Prydyddon awdvredig a sgrifennodd am y tair talaith* yn Llist 156, ond nid oes sôn am Hywel Dafî yn y cyswllt hwn, gw. RWM ii, 733. Cyfeiria Lewys Dwnn, yntau,

Dau fardd sydd yn cyfeirio at Hywel Dafï yw Llywelyn Goch y Dant a Gruffudd Dafydd Fychan. Cythruddwyd y ddau gan farwnad Hywel Dafï i Ieuan ap Hywel Swrdwal am ei fod yn mynegi ei fwriad i chwilio am gymar newydd yn y gogledd yn hytrach nag yn y de. Wrth ymateb geilw'r naill a'r llall sylw at y beirdd deheuol a allai fod yn gefn i Hywel Dafï, a dangosodd G.J. Williams fod nifer ohonynt yn perthyn i Dir Iarll.⁷⁸ Hyd y gwyddys nid ymatebodd Hywel Dafï i gerydd y ddau fardd, a diau nad 'ymryson' yw'r disgrifiad mwyaf addas o'r grŵp hwn o dri chywydd yn yr ystyr bod yr ymateb wedi ei lunio mewn lleoliad gwahanol ac ar adeg ddiweddarach. Serch hynny, y mae ymateb Llywelyn Goch a Gruffudd yn werthfawr am ei fod yn dangos fod gwybodaeth am ganu Hywel Dafï yn cerdded i ardaloedd eraill. Mewn copïau sydd yn perthyn i'r de ac a luniwyd gan mwyaf yn yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ar bymtheg y diogelwyd y cywydd marwnad, ond y mae'n amlwg ei fod wedi dod i sylw dau o'i gyfoeswyr o fewn dim o dro. Y mae hefyd yn amlwg fod y ddau fardd yn gyfarwydd â Hywel Dafï. Cyfeiria Gruffudd at ei hen daid, Rhys Llwyd—*Heliaw yr wyd, hil o Rys*⁷⁹— a chlodforir ei awen gan Lywelyn:

Hywel, yn dy wisg hoywerdd,
heiliwr gwin, huala'r gerdd.
Gair dy dad oedd gredadun.⁸⁰

Mawryga Hywel Dafï rai o blith ei noddwyr ar gyfrif eu diddordebau diwylliannol. Awgrymir bod Tomas ap Siancyn Fychan yn fardd a allai gyfansoddi cywyddau ac englynion:

Dafydd Llwyd sy 'nglan Dyfi;
Dafydd frawd Dafydd wyt ti,
Iolo y tir a'r wlad hon
Heb un well ei benillion.
Ni bydd cywydd mewn cawell,
Ni bu i Sypyn englyn well.
Gair o'th ben a ysgrifennwn;
Awyr a thir oedd werth hwn.⁸¹

Yr oedd Dafydd Llwyd a Hywel Dafï yn gyfoeswyr. Brudiwr oedd Dafydd yn anad dim, a'i gerddi yn paratoi'r ffordd ar gyfer dychweliad Harri Tudur

at Hywel Swrdwal, Ieuan Brechfa ynghyd â Gutun Owain yn ei ragymadrodd i'w gasgliad o achau, gw. L. Dwnn: HV i, 7.

⁷⁸ TLIM 35–6; D.J. Bowen ac E.I. Rowlands, *art.cit.* Yn LIGC 13128A, 55–6, yn llaw Iolo Morganwg, ceir enwau *Beirdd Cadeirogion Tir Iarll amser yr ymryson a fu ryngddynt am farwnad Ieuan a* [sic] *Hywel Swrdwal*, ac enwir ugain bardd i gyd gan gynnwys Rhys Brydydd, Gwilym Tew, Ieuan Deulwyn, Llawdden, Guto'r Glyn, Huw Cae Llwyd a Hywel Dafï ei hun.

⁷⁹ D.J. Bowen ac E.I. Rowlands, *art.cit.* III.2.

⁸⁰ *Ib.* II.43–5. Dyrnaid o gerddi Llywelyn a ddiogelwyd, ond y mae awdl foliant ac awdl farwnad i Roser Fychan (m. 1471) yn eu plith, gw. Ieuan Gethin: Gw cerddi 31–3; MFGLI 2467.

⁸¹ 13.19–26. Ni ddiogelwyd yr un gerdd wrth ei enw yn ôl tystiolaeth MFGLI.

o'i alltudiaeth i hawlio'r goron ar ran plaid Lancastr. Efallai i Hywel Dafî ac yntau daro ar ei gilydd yn Rhaglan. Canodd Dafydd gywydd moliant a marwnad i Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro; canodd hefyd i Watgyn Fychan, Hergest, llysfrawd Wiliam Herbert, ac i Ruffudd ap Nicolas.⁸² Un arall o blith noddwyr Hywel Dafî a ymhoiffai mewn barddoniaeth oedd Gwilym Dew ap Hywel o'r Argoed:

Crwth eilwaith croyw a thelyn,
Cywydd i Forfudd a fyn.⁸³

Dywed y bardd ymhellach:

O gedais lythr yn eisiau
Efô a'm dysg pan fôm ein dau.⁸⁴

Dyfelir mai cyfeirio at barodrzydd Gwilym i gywiro ymdrechion y bardd i gofnodi ei gerddi a wneir yn y cwpled, ond efallai fod yma sôn am hyfforddiant neu arweiniad ar bynciau technegol cerdd dafod.⁸⁵ Efallai ei bod yn arwyddocaol fod cyfeiriadau at Iolo Goch a Dafydd ap Gwilym, ac at gerddi penodol o waith y ddau fardd, yn digwydd mewn dau gywydd i Wilym Dew.⁸⁶ Cyhoedda Hywel Dafî iddo dderbyn rhyw gymaint o hyfforddiant gan Syr Morgan ap Rhys, ficer Merthyr Cynog:

Yn ddisgybl, er ban ddysgodd,
Mab Rys, ni bûm i heb rodd.⁸⁷

Mewn cywydd arall geilw Rys ap Hywel o'r Beili-brith yn athro:

F'athro llwyd ef aeth i'r llan;
Yna torred ein tarian.⁸⁸

Ailadroddir y disgrifiad mewn cwpled sydd yn ei fawrygu ar gyfrif ei fawr ddoethineb:

Doethaf wedy Addaf oedd
Eithr Bedaf, athro bydoedd.⁸⁹

⁸² GDL1 cerddi 45 (Watgyn Fychan), 46 (Gruffudd ap Nicolas), 48 a 54 (Wiliam Herbert). Copiodd Hywel Dafî un o'i gerddi, gw. Peniarth MS. 67, cerdd XXXIV.

⁸³ 2.13–14.

⁸⁴ 2.21–2.

⁸⁵ Trafodir ansawdd y testun sydd yn llaw Hywel Dafî yn Pen 67 isod tt. 37–8. Y mae enghrau. niferus—ymhell dros gant—o hepgor llythrennau ac o gofnodi'r llythrennau anghywir, dau arwydd sydd yn gysylltiedig â dislecsia.

⁸⁶ Gw. 1.61n, 2.32n.

⁸⁷ 14.51–2.

⁸⁸ 6.43–4.

⁸⁹ 6.15–16.

Ni chrybwyllir ei ddiddordebau barddol ac nid yw Hywel Dafï yn manylu wrth dalu'r deyrnged hon iddo. Nid rhaid dehongli'r disgrifiad yn llythrennol am fod enghreifftiau eraill o alw noddwr yn athro.⁹⁰

Yr oedd gweithgarwch copïo dyfal yn digwydd yn y de-ddwyrain, ym Mrycheiniog a Morgannwg, yn y bymthegfed ganrif, a llawer o'r gweithgarwch hwnnw yn cael ei wneud gan feirdd. Rhaid ystyried llafur y bardd yn cofnodi ei gerddi ei hun yn y cyd-destun hwn. Daeth Pen 57, sydd yn cynnwys cerddi Dafydd ap Gwilym a Guto'r Glyn, o Ystrad-fflur i Frycheiniog, ac yn Aberhonddu neu'r cyffiniau y cofnodwyd y deunydd sydd yn Pen 54, Pen 55 a Pen 60, y flaenaf yn cynnwys pump ar hugain o gywyddau Dafydd ap Gwilym er na dderbynnir bellach fod pob un yn ddilys. Ceir yn y tair hyn gerddi yn llaw Huw Cae Llwyd, Gwilym Tew, Llawdden, Ieuan Deulwyn, Hywel Srdwal a'i fab Ieuan, Deio ab Ieuan Du, y Nant, ac eraill.⁹¹ Digwydd llaw Dafydd Epynt yn Pen 54, yr unig fardd y gwyddys iddo farwnadu Hywel Dafï, a cheir yma hefyd ddau gywydd yn llaw Hywel Dafï. Cofnodwyd rhyddiaith yn ogystal â barddoniaeth yn y tair, a diau mai ei gynefindra â'r llawysgrifau hyn sydd yn esbonio'r darnau rhyddiaith yn Pen 67, un yn ymwneud ag arfer cyfreithiol ym Mrycheiniog.⁹² Yn ogystal â'i gerddi ei hun cofnododd Hywel Dafï gywydd Dafydd ap Gwilym 'Hwsmonaeth Cariad', a gweithiau gan ddyrnaid o'i gyfoeswyr, Guto'r Glyn a Huw Cae Llwyd, dau fardd y bu'n ymryson â hwy, Dafydd Llwyd o Fathafarn a Dafydd Llwyd arall, gŵr nid annhebyg i'r Nant o ran ei ieithwedd a'i ymagweddiad.⁹³ Atgyfnerthir y cyswllt lleol gan y ddau gywydd o waith Llywelyn ap Hywel, y naill i ofyn am wisg ar gyfer y Grog yn eglwys Aberhonddu, a'r llall i ddiolch am wisg.⁹⁴

Eisteddfod Caerfyrddin

Un swyddogaeth bwysig i'r ddwy eisteddfod a gynhaliwyd yng Nghaerwys yn yr unfed ganrif ar bymtheg oedd graddio'r beirdd a'r cerddorion. Diogelwyd rhestrau o'r graddedigion yn y ddau achos er bod rhestrau'r eisteddfod gyntaf yn 1523 yn anghyflawn.⁹⁵ Bu'r beirdd yn ymgiprys am gadair yn yr eisteddfod a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin tua'r flwyddyn 1453 o dan nawdd Gruffudd ap Nicolas, a diogelwyd rhai englynion ymryson y bernir eu bod yn perthyn i'r un achlysur o waith Dafydd ab

⁹⁰ Cf. GG.net 22.17–18 *Syr Rhisiart Herbart hirbost, / Athro Gwent, a wnaeth ryw gost; GLM IV.3–4* (wrth farwnadu Huw Lewys) *Fy athro llwyd, f'aeth o'r llys; / fy haul i fu Huw Lewys.*

⁹¹ D. Huws, *Cynnull y Farddoniaeth* (Aberystwyth, 2004), 9–11; *id.*, 'From song to script in medieval Wales', *Selected Proceedings of the Cambridge Colloquium in Anglo-Saxon, Norse and Celtic*, 9 (Cambridge, 2008); MWM 95–6.

⁹² Gw. td. 6 uchod a throednodyn 31.

⁹³ Ar y posibilrwydd mai Dafydd oedd enw'r Nant, gw. GyN 1–2 a throednodyn 53.

⁹⁴ M.P. Bryant-Quinn, '“Aur yw pris y wisg”: Llywelyn ap Morgan a'r Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, 16 (2010), 51–91.

⁹⁵ D.J. Bowen, 'Graddedigion eisteddfodau Caerwys, 1523 a 1567/8', *LICy* 2 (1952–3), 129–34.

Edmwnd a Llawdden.⁹⁶ Byddai'n dda pe gellid cynnig dyddiad ar ddechrau'r pumdegau i'r cywydd a ganodd Hywel Dafu i Ruffudd a'i ddau fab, ond y mae diwedd y tridegau / dechrau'r pedwardegau yn fwy tebygol. Er bod John Jones, Gellilyfdy, a luniodd yr hanes llawnaf am yr eisteddfod, yn crybwyll mai un o amcanion y digwyddiad oedd graddio beirdd, nid oes cofnod am y rhai a raddiwyd, ac ni wyddys a fu Hywel Dafu yn bresennol ai peidio.⁹⁷ Datgelir yn y farwnad i Ieuan ap Hywel Srdwal fod Hywel Dafu ac yntau, ynghyd â deg bardd arall, wedi bod yn eistedd mewn barn:

Dau frawdriaeth a wnaethom,
 Â dwylo rhoed deulw rhôm.
 Brawdwy'r Caer, brad fu'r cerrynt,
 Fûm i ac ef yma gynt.
 Yno 'dd oeddem yn ddeuddeg
 O feirdd; un sy fyw ar ddeg.⁹⁸

A fu ef ac Ieuan a'r deg bardd arall yn cynorthwyo Gruffudd ap Nicolas yng Nghaerfyrddin fel y bu'r ddau fardd, Tudur Aled a Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan, yn cynorthwyo Rhisiart ap Hywel o Fostyn, Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn a Syr Rhoser Salbri yng Nghaerwys yn 1523?⁹⁹ Neu tybed a gynhaliwyd digwyddiad gwahanol, naill ai yn nhalaith Mathrafal neu yn nhalaith Gwynedd yn ystod oes y bardd?¹⁰⁰ Prin yw'r cyfeiriadau at yr eisteddfod yn gyffredinol ond diogelwyd dau gyfeiriad mewn perthynas â Hywel Dafu sydd yn ymwneud â phriod swyddogaeth yr eisteddfod, sef graddio a rhoi cyfle i'r beirdd ymgiprys am oruchafiaeth trwy ennill cadair. Trachwant y bardd am arian a rhoddion a gymhellodd Siôn ap Ffelpod i'w ddychanu. Yng nghwrs yr ymosodiad honna Siôn fod Hywel bellach yn *chwennyh cael ... / Rodd uwch am ei radd uchod*.¹⁰¹ Prawf Statud Gruffudd ap Cynan fod y taliadau y gallai'r beirdd eu hawlio yn seiliedig ar eu graddau, ac awgrymir bod Hywel Dafu wedi cyrraedd statws uwch a'i fod yn hawlio cydnabyddiaeth deilwng o'r herwydd.¹⁰² O ddehongli *ei radd uchod* yn llythrennol ymddengys nad yng Nghaerfyrddin yr enillwyd hi. Ai yng nghyffiniau Caer neu yng nghyffiniau Caernarfon y digwyddodd hyn?¹⁰³ Yn

⁹⁶ DE 127–36; GLI cerdd 34. Ar sylwadau Iolo Morganwg ar yr eisteddfod ac ymgais Dafydd ab Edmwnd i ad-drefnu'r mesurau, gw. C.A. Charmell-White, *Bardic Circles: National, Regional and Personal Identity in the Bardic Vision of Iolo Morganwg* (Cardiff, 2007), 199–201.

⁹⁷ G.J. Williams, 'Eisteddfod Caerfyrddin', *Llenor*, v (1926), 94–102.

⁹⁸ 86.15–20.

⁹⁹ Ar sail yr hyn sydd yn hysbys am Ruffudd ap Nicolas, dichon y 'medrai ef wneud y beirmiadu drosto'i hun!', gw. D.J. Bowen, 'Dafydd ab Edmwnd ac Eisteddfod Caerfyrddin', *Barn*, 142 (1974), 445.

¹⁰⁰ *Id.*, 'Taleithiau'r gwŷr wrth gerdd', LICy 17 (1992–3), 139–42.

¹⁰¹ 63.27–8.

¹⁰² T. Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan', B v (1929–31), 25–33.

¹⁰³ Yn ôl un 'hanes fach ddifyr ei gwala' yn llaw Iolo Morganwg yn LIGC 13154A, 362–3, a ddaeth, meddai, o un o lyfrau Siôn Bradford, yr oedd Hywel Dafu a Guto'r Glyn yn bresennol mewn eisteddfod a gynhaliwyd yng nghastell Caerdydd o dan nawdd Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro. Nodir mai gwr *lled erwin ei foes a gwladaidd ei ymdwyn* oedd Guto. Dyfynnir pum cwpled ar fesur

un o gywyddau Hywel Dafï y digwydd yr ail gyfeiriad. Ymfalchïa wrth hysbysu Hywel ap Morgan a Sioned ei wraig, *Dof i'r wlad â cherdd gadair*.¹⁰⁴ Cofir mai yn yr un cywydd y soniodd y bardd am ei *iaith Wynedd*.¹⁰⁵ Tybed a fu'n bresennol ar achlysur pan fu ymgystadlu am gadair a phan raddiwyd rhai o'r beirdd? O dderbyn mai yng Ngwynedd y digwyddodd hyn, esboniai hynny sylw Siôn ap Ffelpod am *ei radd uchod*.¹⁰⁶

Efallai fod tystiolaeth Gruffudd Dafydd Fychan yn arwyddocaol yn y cyswllt hwn. Yn ei gywydd yn ymateb i farwnad Hywel Dafï ensynia fod y ddau yn gyfarwydd â'i gilydd a bod y ddau ar un adeg wedi bod yn cydweithio neu yn cydglera. Gruffudd oedd yr hynaf ac ef a gâi'r lle anrhydeddus dan flaen yr iau. Bellach troes y rhod a dringodd Hywel Dafï o'r canol *at yr iau flaen* lle yr oedd yn *tëyrnio brud tir ein bro*:

Blaenor fûm, a blin yw'r fost,
a bywiog lle gwybuost;
a thithau â'r iau ar ôl
yn canu yn y canol.
Dringiaist, diolchaist eilchwaen,
trafael oedd, at yr iau flaen:
tëyrnio brud tir ein bro;
trwy gennad beirdd, trig yno.
Ym mhob tir y megir mawl
a rhyw gariad rhagorawl.¹⁰⁷

Anogir ef i beidio â throi ei gefn ar ei hen gymheiriaid er na chyraeddasant yr un statws â Hywel Dafï ei hun:

Goddef dy is, dewis dâl:
gwawd di-gost, gad dy gystal.¹⁰⁸

y cywydd yr honnir i Hywel Dafï eu llunio i esbonio wrth Guto sut yr oedd creu pin ysgrifennu: *Hollt asgell ddiell yn ddwy / (Un galed) blaen ei gohwy / Ac eilwaith nadd hi'n raddawl / yn flaen llithrig fal pig pawl / Blaendor gweddol ar oled / Deheuran yn wann ei wedd / yn fyrrach yn feinach fyth / Na'r asau nid da'n rjysyth / Bydd da'th ben i 'scrifenu / Y gainc deg gydag inc du*. Nodir yn LIGC 13144A, 395, mai yn *Eisteddfod Gwledd ac wyl wrth gerdd a wnaeth Syr William Herbert Iarll Rhaglan ynghastell Caer dydd* y lluniodd Guto, neu Hywel Dafï, yr englyn *Pam yn wadd am radd ymroddi*, gw. 'Cerddi Ansic' td. 60.

¹⁰⁴ 16.29.

¹⁰⁵ 16.35.

¹⁰⁶ Iolo Morganwg yn ddiâu yw ffynhonnell yr wybodaeth ei fod yn aelod o Orsedd Morgannwg yn 1460. Cofnodwyd hyn am y tro cyntaf mewn print yn W. Owen, *The Cambrian Biography* (London, 1803), 184, ac fe'i hailadroddwyd yn R. Williams, *op.cit.* 229; J.T. Jones, *op.cit.* i, 573; O. Jones, *Cymru: yn Hanesyddol, Parthedegol, a Bywgraphyddol* (Llundain, [1875]), 665. Ar ddiwedd copi LIGC 5474A o gerdd 60 ychwanegwyd *Un o Feirdd Cadair Morganwg*.

¹⁰⁷ D.J. Bowen ac E.I. Rowlands, *art.cit.* III.35–44. Gwelir bod cywyddau brud Hywel Dafï yn cael eu canmol. Ni ddiogelwyd cywyddau brud o'i waith er iddo gofnodi un o gywyddau Dafydd Llwyd o Fathafarn yn Pen 67, gw. Peniarth MS. 67, cerdd XXXIV. Ar y llaw arall, cywyddau brud a chywyddau serch yw'r cyfan bron o waith Gruffudd a ddiogelwyd, gw. MFGLI 1010–12.

¹⁰⁸ D.J. Bowen ac E.I. Rowlands, *art.cit.* III.51–2.

Cylch ei ganu

Diogelwyd 104 cerdd y gellir bod yn weddol hyderus mai Hywel Dafï a'u canodd. Serch hynny, y mae ansicrwydd ynghylch yr awduraeth mewn ambell achos am fod cerdd yn cael ei phriodoli i fardd arall. Trafodir y cerddi hyn yn y nodiadau ac yn yr adran 'Cerddi Ansicr' isod. Golygwyd neu ailolygwyd pedwar cywydd nad oes modd gwybod pwy a'u canodd a'u cynnwys mewn atodiad ar ddiwedd y casgliad.¹⁰⁹ Cynhwyswyd yn y gyfrol hon hefyd bedwar cywydd gan feirdd a fu'n ymryson â Hywel Dafï ynghyd â chywydd arall i'w annerch gan Siôn ap Ffelpod.¹¹⁰ Hyd y gwyddys, Dafydd Epynt oedd yr unig fardd a ganodd farwnad i Hywel Dafï.¹¹¹

Y mae 62 o blith y corpws o 104 cerdd wedi eu diogelu yn llawysgrif Pen 67 sydd, fel y bernir, yn llaw Hywel Dafï ei hun.¹¹² O'r rhain y mae 53 yn gyfan ac wrth enw'r bardd. Y mae pedair cerdd yn anghyflawn ac felly yn ddiennw.¹¹³ Yn achos un, yr awdl foliant i Forgan ap Tomas Llwyd y collwyd ei chwpled olaf yn Pen 67, ceir ateg mewn llawysgrifau eraill mai Hywel Dafï a'i canodd.¹¹⁴ At hyn ceir yn y llawysgrif bum dryll a phob un yn cynnwys dyrnaid o linellau, pedwar ar un o fesurau'r awdl ac un ar fesur y cywydd.¹¹⁵ Am fod un wrth enw'r bardd cynigir mai ei waith ef yw'r pedwar arall, er mai anodd esbonio pam y dewisai gofnodi'r tameidiau hyn. Pe na buasai am y llawysgrif hon collasid ryw ddeuparth y cerddi hysbys.¹¹⁶ Gellir bod yn sicr mai cyfran yn unig o gerddi'r bardd a ddiogelwyd, ac y mae Pen 67 yn cynnig dwy dystiolaeth ddadlennol. Yn un peth, dangoswyd bod sawl dalen wedi eu colli yn y llawysgrif, cynifer â dwy ar bymtheg ar hugain, a hynny mewn chwe lle.¹¹⁷ Nid yw'n dilyn bod pob dalen yn cynnwys gwaith Hywel Dafï, ac nid yw'n dilyn bod pob dalen yn cynnwys barddoniaeth gan fod sawl testun rhyddiaith yn gyfochrog â'r farddoniaeth, ond collwyd diwedd neu ddechrau mwy nag un gerdd y gellir bod yn weddol sicr mai Hywel Dafï a'u canodd. Gallai'r dalennau coll gynnwys hyd at bedwar cywydd ar bymtheg. Yr ail ddarn o dystiolaeth arwyddocaol yn Pen 67 yw'r rhestr sydd yn cynnwys symiau arian a dderbyniwyd gan dri

¹⁰⁹ Gw. cerddi Atodiad I-V.

¹¹⁰ Cerddi 39 (Huw Cae Llwyd), 52 (Bedo Brwynllys), 67 a 73 (Guto'r Glyn), 63 (Siôn ap Ffelpod).

¹¹¹ GDEp cerdd 22. Gw. ymhellach tt. 5-6, 11-12 uchod.

¹¹² RWM i, 460; Peniarth MS. 67, iii-iv; RepWM.

¹¹³ Cerddi 24, 25, 37, 62.

¹¹⁴ Cerdd 37.

¹¹⁵ Cerddi 41, 88, 90, 91 (ar un o fesurau'r awdl) a 92 (ar fesur y cywydd). Yr oedd darn hir o gerdd 88 yn y llsg. yn wreiddiol fel y tystia'r rhimyn a erys. Wrth gerdd 92 yn unig y digwydd enw'r bardd. Collwyd dechrau cerdd 87 ond priodolir y rhan sydd yn weddill, cyfanswm o 25 ll., i Hywel Dafï.

¹¹⁶ Nodir yn gywir yn CLC² 354 '[nad] oedd ei waith yn boblogaidd ymhlith y copïwyr', ond y ffaith fod cymaint o'i waith mewn un llsg. a honno'n un na fu'n cylchredeg yn helaeth sydd yn esbonio hyn yn hytrach na'r honiad 'nad oedd yn cydymffurfio â chonfensiynau ei gyfnod'.

¹¹⁷ Peniarth MS. 67, v.

unigolyn ar ddeg.¹¹⁸ Bernir bod yr unig wraig a restrir, Gwenllian Ffelpod, yn chwaer i Domas ap Ffelpod a gyfarchwyd gan y bardd, a bod Gwallter ap Morgan yn un o feibion Morgan ap Dafydd Gam. Fe'i henwir ynghyd â thri o'i frodyr yn un o gywyddau Hywel Dafï.¹¹⁹ Y mae'r taliadau yn amrywio yn fawr o ran eu gwerth. Derbyniwyd swllt a naw ceiniog gan Siôn ap Maredudd ond pedwar swllt gan Forgan ap Gwilym ap Morgan. Nid annichon fod a wnelo'r taliadau â rhyw swydd neu fraint a roddwyd i Hywel Dafï.¹²⁰ Eto, y mae'n demtasiwn dyfalu bod y bardd wedi ymweld â chartrefi'r unigolion a enwir ac wedi eu cyfarch ar ffurf cywydd neu awdl. Ac eithrio'r ddau a grybwyllwyd, ni wyddys am unrhyw gerddi a ganodd y bardd i'r deuddeg gŵr arall, a dyma awgrym arall o ganu coll.¹²¹

O blith y 104 cerdd y mae saith a phedwar ugain yn gerddi defodol, ac iawn y gallai Hywel Dafï fynnu, fel ei gyfoeswr Guto'r Glyn, *Gweithydd fûm ar gywydd gŵr*.¹²² Yn ogystal â hyn, diogelwyd deg cywydd crefyddol a saith cywydd serch. Ni ddiogelwyd yr un cywydd serch yn llaw'r bardd ei hun. Yn nosbarth y cerddi defodol, y cerddi moliant sydd amlycaf o bell ffordd. Canodd y bardd ddwy farwnad ar bymtheg, un yn farwnad i'r bardd Ieuan ap Hywel Swrdwal. At hyn canodd bedwar cywydd gofyn—un ar ei ran ei hun—ac un cywydd diolch. Lluniodd bedwar cywydd cymod hefyd, un digon tywyll ei gynnwys i heddychu rhwng gwŷr Brycheiniog a Morgannwg a thri i geisio ewyllys da ei noddwyr, er mai dyfais neu fframwaith yw'r ymbil am gymod ar ddau achlysur, a hynny mewn cywyddau ysgafn a maswedus eu cywair. Yn unol â'r disgwyl, y cywydd yw prif fesur y bardd. Ar y mesur hwn y canwyd y cerddi duwiol a'r cerddi serch, fel y nodwyd.

Yn ôl tystiolaeth y cerddi a orosodd, ymwelodd Hywel Dafï â rhyw ddeg cartref ar hugain a chyfarchodd rhyw bedwar ugain o wŷr a gwragedd.¹²³ Anodd cynnig ystadegau terfynol, yn gyntaf am fod ansicrwydd ynghylch y sawl a gyferchir mewn ambell gerdd, ac yn ail am fod rhai cerddi yn anghyflawn a'r wybodaeth am wrthrychau'r moliant mor dameidiog o ganlyniad. Yn achlysurol yr enwir cartref y noddwr yn y cywyddau a'r awdlau ac o'r herwydd nid yw lleoli'r canu yn ddaearyddol yn beth rhwydd bob tro. At

¹¹⁸ 'An interesting money account which may be a leaf from the day-book of an itinerant poet', gw. Peniarth MS. 67, ix, 63. Ceir yma bedwar enw ar ddeg ond ailadroddwyd enw Ieuan ap Dafydd ab Ieuan Tew.

¹¹⁹ Gw. cerdd 21.

¹²⁰ Gw uchod td. 9.

¹²¹ Trafodir yr hyn sydd yn hysbys am yr unigolion a enwir yn A.C. Lake, '“O gedais lythr yn eisiau”: llawysgrif Peniarth 67 a'i disgynyddion', LICy 37 (2014/15), 1–18. Y mae D. Huws o'r farn mai cyfrifon gweinyddol sydd yn perthyn i Dretŵr yw'r rhain, ond gallai cyswllt rhai o'r unigolion y llwyddwyd i'w hadnabod ag ardaloedd eraill, sef y Cantref Mawr a Chantref Selyf, dau gantref lle y bu'r bardd yn canu'n helaeth, atgyfnerthu'r ddadl mai noddwyr y bardd ei hun oeddnt.

¹²² GG.net 35.57.

¹²³ Enwir gŵr a gwraig, neu dad a meibion mewn sawl cerdd. Erchir rhoddion gan wyth gŵr ar un achlysur a chan chwe gŵr ar achlysur arall.

hyn gwelir bod y gyfeiriadaeth achyddol yn foel ac arwynebol mewn sawl achos. Dyma un nodwedd ar ganu'r holl feirdd i'r Fychaniaid, sef tri mab Rhoser Fychan (m. 1415) a ymgartrefodd ym Mrodorddyn, yn Hergest ac yn Nhretŵr.¹²⁴ Statws y teulu sydd yn esbonio hyn, a diau fod y beirdd yn tybio nad oedd angen olrhain ach teulu mor flaenllaw. Ar y llaw arall methwyd ag adnabod gwrthrych un awdl foliant er bod y gyfeiriadaeth achyddol yn fanwl iawn.¹²⁵ Efallai nad oedd ach Tomas Gwyn ap Siancyn o dad i dad yn un nodedig a bod y bardd o'r herwydd yn chwilio am gysylltiadau teuluol mwy syberw. Ac eto, barnai Hywel Dafï fod y gŵr hwn yn teilyngu awdl fawl yn hytrach na chywydd. Y mae naw o'r cerddi yn anghyflawn, fel y nodwyd, ac mewn tri achos yn unig y llwyddwyd i adnabod y gwrthrych.

Yr hyn sydd fwyaf trawiadol am y cerddi defodol yw bod y rhan fwyaf ohonynt o ddigon yn perthyn i dri chantref hen deyrnas Brycheiniog, sef y Cantref Mawr, Cantref Selyf a Thalgarth. Perthyn y gweddill i'r ardaloedd sydd yn ffurfio rhyw gylch hanner lleuad o amgylch Brycheiniog, cylch sydd yn dechrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yng nghwmwd Llythyfnwg yng nghantref Elfael ac yn ymestyn hyd at Gydweli yn y Deheubarth. Cynnwys gartrefi i gyfeiriad y dwyrain (megis Brulai a Llan-gain yn swydd Henffordd), y de (megis Rhaglan yng Ngwent Is Coed a Rhydlafer yn Sain Ffagan yng nghantref Penychen) a'r gorllewin (Llandeilo a Llandybïe yn sir Gaerfyrddin). Dau gyfansoddiad sydd ar glawr i deuluoedd o ogledd Cymru.¹²⁶ Canwyd deuparth y cerddi defodol i gylch cymharol fychan o noddwyr. Erys naw cerdd i ddisgynyddion Dafydd Gam a dau ar bymtheg i ddisgynyddion Gwladus Gam, ei ferch—deuddeg yn perthyn i Dretŵr lle y trigai un o'i meibion o'i phriodas gyntaf â Rhoser Fychan a phump yn perthyn i Raglan, cartref Wiliam Herbert, un o'i meibion o'i hail briodas â Syr Wiliam ap Tomas, y Marchog Glas. Ar dir ystadegol rhaid derbyn mai Tretŵr yn hytrach na Rhaglan oedd prif gartref nawdd y bardd. Mewn cywydd moliant i Domas Fychan sydd hefyd yn cynnwys ymosodiad ar Fedo Brwynllys, myn Hywel Dafï iddo fod yn canu yn y cartref er naw mlynedd,¹²⁷ ac ategir ei gyswllt â Thretŵr mewn ymryson yn y Slwch rhwng Hywel Dafï a Huw Cae Llwyd.¹²⁸

¹²⁴ Gw. nodyn brig GDEp cerddi 5, 6, 14 a GHS cerddi 14–15.


¹²⁵ Gw. cerdd 85.

¹²⁶ Yn ei gywydd i Hywel Dafï, dywed Gruffudd Dafydd Fychan: *Heiliaw yr wyd, hil o Rys, / hyd Faelor hoywawd felys*, gw. D.J. Bowen ac E.I. Rowlands, *art.cit.* III.3–4. Gall Maelor gynrychioli pegwn mwyaf gogleddol Cymru, ond yn y rhan hon o'r wlad y trigai un o'r ddau a gyfarchodd, sef Siôn Pilstwn Hen.

¹²⁷ 51.23–4 *Nid aen' o'th wlad un i'th wledd / Yn 'y mlaen es naw mlynedd.*

¹²⁸ Anogir Hywel Dafï i adael y Slwch ac i ddychwelyd i gartrefi eraill lle y bu'n ceisio rhoddion, gw. 39.41–2 *Y Tŵr oedd, eto yr â, / Y lytwn, i ailgta.*

Disgynyddion Dafydd Gam
(nodir y rhai agyferchir â phrint trwm)



Yn y grŵp o gywyddau i ddisgynyddion Gwladus Gam yr ymglywir gliriaf â thensiynau gwleidyddol yr oes. Nid esbonnir pwy yn union sydd yn gyfrifol am y drwgdeimlad a'r gynnen na beth yn union sydd wedi digwydd, ond ceir sawl awgrym mai yn Lloegr, ac yn Llundain yn benodol, yr oedd gwreiddiau'r gynnen, ac mai'r Saeson a oedd yn gyfrifol. Anodd dyddio'r cerddi hyn am fod y darlun a gynigir mor annelwig, ond y mae lle i gredu bod sawl darn wedi ei lunio yn y 1470au a'r 1480au, yn dilyn dienyddio Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, ac yn ystod y blynyddoedd pan oedd yr ail iarll yn ymdrechu yn ofer i ddal ei afael ar swyddi ac ar awdurdod ei dad. Sylw'r bardd, wrth annerch Syr Tomas Fychan, Tretŵr, yw:

Llundain, mae eraill yndi,
Nid rhydd neb o'n tiredd ni.
Od aeth afreolaeth fry
Ef â'n ebrwydd ofn obry.
Pwy'r un a helpa'r ynys?
Ple'r awn? Ymapelu'r ys.
Nac aud orig o diredd
Cymru mawr, Cymro a'i medd.

O chymerir mae ynn dir da,
Os ei wrthod y syrthia.¹²⁹

Sonia Hywel Dafï am ei ymrwymiad wrth Dretŵr mewn cywydd i Wilym ap Morgan a Dafydd ei frawd,¹³⁰ tra codir cwr y llen ar ei ymwneud â Wiliam Herbert yn y cywydd a ganodd i erchi cymod Harri Ddu.¹³¹ Cartrefi eraill yr ymwelodd y bardd â hwy oedd yr Argoed, y Beili-brith, y Slwch a Phorthgogof. Cyfarchodd Hywel Dafï ddwy genhedlaeth yn yr Argoed, ym Mhorthgogof, yn Nhretŵr ac yn Rhaglan. Canodd i dair cenhedlaeth yn y Beili-brith a chafodd achlysur i foli ac i farwnadu cynifer â saith aelod o'r teulu. I Frycheiniog y perthyn dwy o'i gerddi crefyddol hefyd, cywydd i'r Grog yn eglwys Ioan yn Aberhonddu a chywydd i'r sant Cynog a goffeid ym Merthyr Cynog. Anodd bod yn sicr am fod cwlt Mair Forwyn mor boblogaidd yn y bymthegfed ganrif, ond efallai fod cyswllt rhwng y ddau gywydd a ganodd i Fair a'r eglwys a gysegrwyd i Fair ym mwrdeistref Aberhonddu, ar lannau dwyreiniol afon Honddu.¹³²

Cyfeiriwyd eisoes at ganu'r bardd i deuluoedd a hanai, fel y gwnâi ef ei hun, o'r gangen o ddisgynyddion Bleddyn ap Maenyrch a sefydlwyd gan Rys Llwyd ab Adam. Disgynnai Rhys Llwyd o Einion Sais, hynafiad Dafydd Gam a'i ddisgynyddion niferus ef. Rhannai nifer o'r teuluoedd y canodd Hywel Dafï iddynt gyff cyffredin, a hwnnw wedi ei atgyfnerthu gan gyfres o briodasau dros sawl cenhedlaeth. Canodd Hywel Dafï bum cerdd i deulu'r Argoed. Yr oedd Dafydd Gam yn ewythr, brawd ei dad, i'r noddwr cyntaf, Gwilym Dew. Gwraig Gwilym oedd Margred, merch Siancyn ap Rhisiart o Aberysgir, ac yr oedd hi yn fodryb i Domas ap Siancyn Fychan, y penteulu pan ymwelodd Hywel Dafï â'r cartref hwnnw.¹³³ Disgynyddion Rhys Llwyd a drigai ym Mhorthgogof ond Margred, merch Dafydd Gam, a chwaer Gwladus Gam, oedd gwraig gyntaf Llywelyn ap Gwilym. Ei ail wraig oedd Siwan Ddu, merch Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd. Canodd Hywel Dafï i'w thad ac i'w brodyr.¹³⁴ Yn y Trallong y trigai Hywel ap Morgan. Canodd Hywel Dafï iddo ef a'i frodyr, a chanodd ail gywydd iddo ef a'i wraig, Sioned.¹³⁵ Mam Hywel oedd Mawd, ac yr oedd hi yn chwaer i Wilym Dew o'r Argoed ac yn nith i Ddafydd Gam. Perthynai Morgan ap Tomas Llwyd o Lywel i gangen a sefydlwyd gan Ddafydd, brawd Einion Sais. Er mai disgynyddion Dafydd Gam, a disgynyddion Gwladus Gam trwy ei dwy briodas, oedd prif noddwyr y bardd, cywyddau yn hytrach nag awdlau a

¹²⁹ 55.15–24.

¹³⁰ 10.33–4.

¹³¹ Cerdd 64.

¹³² Tybed ai delw o'r Forwyn yn yr eglwys hon a ysgogodd gywydd Dafydd Epynt i Fair? Gw. GDEp 2.15–16 *Trown oll at yr un allawr, / Tydi yw mam y Tad mawr*. Gellir gweld llun o'r eglwys fel yr oedd ar ddiwedd yr 17g. yn J. Jones-Davies, *op.cit.* 14.

¹³³ Cerdd 13.

¹³⁴ Cerddi 75–6.

¹³⁵ Cerddi 15–16.

ganodd iddynt. Yr unig eithriad yw'r awdl a ganodd i Wiliam Herbert, yr ail iarll Penfro, ac i Edward IV ar y cyd.¹³⁶ Awdl yw'r unig gerdd ar glawr i Forgan ap Tomas Llwyd, ac awdl farwnad a ganodd i'w ferch Gwenllïan a oedd yn briod â Gwallter Hafart.¹³⁷

Nid o blith teuluoedd Brycheiniog yn unig y ceisid cymar, yn ŵr neu yn wraig. Cafwyd sawl priodas rhwng disgynyddion Maenyrch a'i feibion ar y naill law a disgynyddion Ffyllib ab Elidir Ddu o sir Gaerfyrddin ar y llaw arall. Priododd Rhisiart Herbert, brawd iau Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, â Margred, merch Tomas ap Gruffudd ap Nicolas ap Ffyllib, sef chwaer Syr Rhys ap Tomas, prif gefnogwr Harri Tudur yng Nghymru, tra priododd Morgan, eu brawd, â Chatrin, merch Syr Rhoser Fychan, Tretŵr (m. 1471). Ond yr oedd y cyswllt wedi ei sefydlu genhedlaeth ynghynt trwy briodasau plant Gwilym ap Ffyllib, sef cefnderwyr Gruffudd ap Nicolas. Priododd Margred, merch Gwilym, â Hywel ap Llywelyn, brawd Dafydd Gam, a'u mab hwy oedd Gwilym Dew, yr Argoed. Priododd Morgan ap Dafydd Gam â Thangwystl merch Maredudd Bŵl. Yr oedd Gwladus, nain Maredudd, yn chwaer i Nicolas ap Ffyllib ac i Wilym ap Ffyllib. Y cysylltiadau hyn sydd yn esbonio'r ddau gywydd a ganodd Hywel Dafï i Ruffudd ap Nicolas a'i deulu, y naill yn cyfarch Gruffudd a'i ddau fab, Tomas ac Owain, a'r llall yn erchi rhodd ar ran un o'r meibion.¹³⁸ Un arall a briododd ag un o ddisgynyddion Gwilym ap Ffyllib ab Elidir Ddu oedd Morgan ap Rhys ap Hywel o'r Beili-brith, cartref arall yr ymwelodd Hywel Dafï ag ef ar sawl achlysur. Lleucu, merch Rhys ap Gwilym, oedd gwraig Morgan, ac yr oedd y rhwydwaith teuluol yn ddigon cadarn i alluogi'r bardd i erchi wyth ych gan wyth gŵr ar ran Gwilym, mab Morgan a Lleucu, a'r wyth gŵr, fel Lleucu hithau, yn ddisgynyddion Gwilym ap Ffyllib.¹³⁹ Canodd Hywel Dafï ail gywydd i erchi ychen, a hynny ar ran Tomas ap Siancyn o'r Slwch. Troes y bardd ei olygon ymhellach y tro hwn trwy geisio'r rhodd gan chwe gŵr o Geredigion. Nid oes tystiolaeth fod Hywel Dafï wedi cyfarch yr un o'r chwech yn unigol, ac ni allai Tomas ap Siancyn, yn wahanol i Wilym ap Morgan, elwa ar gyfres o gysylltiadau trwy briodas â theuluoedd yn y rhan hon o Gymru. Efallai ei bod yn arwyddocaol fod ail wraig Rhys ap Dafydd, Blaen-tren, un o'r chwech, yn ferch i Owain ap Gruffudd ap Nicolas, a bod chwaer Rhys yn ordderch i Roser Fychan, Tretŵr.¹⁴⁰

¹³⁶ Cerdd 71. Ar y llaw arall canodd Huw Cae Llwyd awdl foliant i Wilym ap Morgan ap Dafydd Gam, gw. HCLI cerdd 1, awdl foliant ynghyd ag awdl farwnad i Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, a Syr Rhisiart Herbert, ei frawd, gw. HCLI cerddi II, V. Ar ffurf awdlau y cyfarchodd ddau o feibion Wiliam Herbert hefyd, sef Syr Water Herbert a Wiliam Herbert o Droca, gw. HCLI cerddi IV, VII.

¹³⁷ Cerddi 37 a 29. Marwnad i Wallter Hafart yw cerdd 30.

¹³⁸ Cerddi 80–1.

¹³⁹ Cerdd 12, a gw. y tabl achau, td. 236, sydd yn dangos y cyswllt rhwng y rhoddwyr, a rhyngddynt hwy a'r eirchiad. Cywydd moliant i Forgan a Lleucu yw cerdd 8.

¹⁴⁰ Cafodd Rhoser Fychan ddau blentyn trwy ferch Dafydd ap Tomas, dau blentyn pellach trwy Sioned, merch Ieuan, a phlentyn arall trwy ferch y Prior Coch o'r Fenni, gw. WG2 461.

Canu coll

Cyfeiriwyd at ddau awgrym fod rhai o gerddi'r bardd wedi eu colli.¹⁴¹ Gellir damcaniaethu ymhellach ynghylch yr hyn a gollwyd trwy edrych ar gylch noddwyr y bardd a thrwy ystyried yr hyn a ddywed Hywel Dafî yn ei gerddi. Er i Hywel Dafî ganu tri chywydd moliant i Wilym Dew o'r Argoed ynghyd â moliant a marwnad i'w fab, Hywel, ni chanodd farwnad iddo. Ni ddiogelwyd marwnad o'i waith i Forgan ap Dafydd Gam ychwaith er i'r bardd ei gyfarch ef a'i feibion ar sawl achlysur. Y mae'r bwllch yn amlycach y tro hwn am fod marwnadau ar glawr i Forgan o waith Dafydd Epynt, Lewys Glyn Cothi a Huw Cae Llwyd.¹⁴² Gŵr arall y gellid disgwyl y byddai'r bardd wedi ei farwnadu ydoedd Rhoser Fychan, Tretŵr. Diogelwyd dau o gywyddau moliant Hywel Dafî iddo ynghyd â saith cywydd i'w fab, Tomas Fychan. Dienyddiwyd Rhoser Fychan yng Nghas-gwent trwy ddichell Siasbar Tudur. Os yw Guto'r Glyn yn deisyf dial ar Saeson gogledd Lloegr am ladd Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro,¹⁴³ ei gyd-Gymro, Siasbar Tudur, yw testun llid a chynddaredd Huw Cae Llwyd wrth farwnadu Rhoser:

O ceir Siasbar er cewri,
Rhyw angau troir rhwng y tri.
Pryn ein hoes frad Syr Rhoesier,
Ei fwng a'i esgyrn a'i fêr.¹⁴⁴

Felly hefyd Lywelyn Goch y Dant:

Rhegwn fêr Siasber dros hyn—o gamwedd,
A'i draed a'i `winedd, diriaid annyn.
Amen, a'i ddwyen, Iddewyn—budr hir,
Yn fyr y tynnir war i'r tennyn.¹⁴⁵

Canwyd dwy o'r marwnadau i wŷr na ddiogelwyd unrhyw gerddi moliant o waith y bardd iddynt. Y mae sawl awgrym yn y farwnad i Domas Sgudmor o Lan-gain—unig ganu'r bardd ar yr aelwyd—ei fod yn ymwelydd rheolaidd. Dywed ei fod wedi trefnu i ymweld â'r cartref ond bod marwolaeth Tomas Sgudmor wedi drysu'r cynlluniau:

Ar ôl y gwin yr wyl gynt
Yr ail oedd arwyl uddynt ...
Dydd rhôm cyn diwedd yr haf
A luniasem wyl nesaf.¹⁴⁶

¹⁴¹ Gw. tt. 19–20 uchod.

¹⁴² Gw. GDEp cerdd 5; GLGC cerdd 134; HCLI cerdd XIII.

¹⁴³ GG.net cerdd 24.

¹⁴⁴ HCLI XXVI.45–8, ond anwybydder y nodyn am ei farw yn 1469.

¹⁴⁵ Ieuan Gethin: Gw 33.25–8.

¹⁴⁶ 61.3–4, 13–14.

Ceir tystiolaeth am ymweliadau blaenorol ac am dderbyn rhoddion yn y cywyddau a'r awdlau moliant hefyd. Bu Hywel Dafï yn canu ar aelwyd Morgap ap Tomas Llwyd dros gyfnod o bum mlynedd:

Mab Domas, cafas yn ôl cyfedd—gwin,
A genais bum mlynedd,¹⁴⁷

ac er mai un cywydd sydd ar glawr i Domas Gwnter a'i wraig Mawd, ymddengys eu bod hwythau yn noddwyr sefydlog:

Mynych y gwneuthum unoed
Â'r gŵr a'r mab gorau ermoed.¹⁴⁸

Yn yr un cywydd awgrymir bod rhyw gymaint o eiriau croes wedi bod yn y gorffennol. Efallai i'r bardd fynegi anniddigrwydd ynghylch y gydnabyddiaeth a gâi, fel y gwnaeth Guto'r Glyn yn un o'i gywyddau i Harri Ddu.¹⁴⁹ Gallai hynny yn ei dro awgrymu bod cryn gyfeillgarwch rhwng y bardd a'r penteulu oblegid nid ar chwarae bach y cyhuddid noddwr o fod yn grintachlyd:

Moethus wyf lle bûm weithiau;
Mawd a wnaeth f'amawd yn iau ...
Er f'anfoes am a roesant
Er clod o'r tafod i'r tant,
Ddeugain haf ni ddigiwn hon;
Haws yw digio cystogion.¹⁵⁰

Yr oedd noddwyr eraill yn Aberhonddu a'r cyffiniau y gallai'r bardd fod wedi canu iddynt. Pwysleisia Dafydd Epynt fod croeso cynnes i brydyddion yng nghartref Hopgyn Awbrai yn Abercynfrig, er enghraifft:

Mwyn yw dy galon, min digelwydd,
Awbrai, a'th wyneb wrth awenydd;
Anodd yw d'oedi, Nudd diodydd,
Ac ni nacéi a gano cywydd.
Dy daid, o bai raid i brydydd—wrth dda,
A rôl'r aur Afia, eryr ufudd.¹⁵¹

Dwy gerdd foliant yn unig sydd yn perthyn i ogledd Cymru. Ensynnir yn y ddwy nad yw'r hyn sydd ar glawr yn adlewyrchu yn gywir batrwm clera'r bardd. Egyr ei gywydd i Siôn Pilstwn trwy ei atgoffa:

¹⁴⁷ 37.17–18.

¹⁴⁸ 43.45–6.

¹⁴⁹ GG.net cerdd 35.

¹⁵⁰ 43.37–8, 41–4.

¹⁵¹ GDEp 17.49–52. Enwir y teulu ymhlith y teuluoedd o dras estron yng nghywydd y bardd i Frycheiniog, gw. 59.55n. Ar y llaw arall canodd Lewys Morgannwg yn yr 16g. i deuluoedd Stradling, Gamais, Fflemin, Bawdrem a Bwtler.

Mi a' i'r wlad lle mae'r wledd ...
Lle bu ym foethau yn ieuanc.¹⁵²

O droi at un darn o dystiolaeth allanol, ceir cadarnhad yng nghywydd Siôn ap Ffelpod iddo groesawu Hywel Dafî ar ei aelwyd, a hynny ar sawl achlysur, ond er bod dryll o gywydd i'w frawd Tomas ar glawr, ac er bod eu chwaer, Gwenllïan, a barnu wrth y rhestr o daliadau, hithau, yn noddi'r bardd, aeth y cerddi hynny i ddifancoll:

Ban ddoeth gyntaf ataf i ...
Doeth ataf, diwith ytoedd,
Lawer gŵyl, bardd annwyl oedd.¹⁵³

Prin yw'r cerddi i noddwyr eglwysig a gallai hyn drachefn awgrymu bod canu wedi ei gollu. Tri chywydd a ddiogelwyd, un i Syr Morgan ap Rhys, ficer Merthyr Cynog, un i Wallter, ŵyr Dafydd Gam, ac un i ddau frawd, y naill *'n y nef a' i enw yn wâr / A'r llall yn deall daear*.¹⁵⁴

Yn arwyddocaol, ymddengys na chafodd y beirdd eraill a fu'n canu ym Mrycheiniog a'r cyffiniau achlysur i gyfarch y gwŵr eglwysig er iddynt ganu i grogau ac i'r saint, ac nid rhaid tybio bod swmp helaeth o ganu wedi ei gollu. Wrth drafod y canu sydd yn perthyn i Went, nododd D.F. Evans, 'As a whole, religious life in Gwent is not well represented in the poetry of this period.'¹⁵⁵ Nid oes canu i wŵr eglwysig wrth enw Hywel Swardwal na Llawdden, a chywydd yr un sydd wrth enwau Dafydd Epynt a Huw Cae Llwyd, y naill i Siôn Morgan, esgob Tyddewi, a'r llall yn gywydd gofyn ar ran Annes, abades Llanllŷr. Perthyn y rhain, felly, i ardaloedd eraill.¹⁵⁶ Tra bod gwŵr eglwysig gogledd Cymru yn amlwg ymhlith noddwyr Guto'r Glyn a Gutun Owain, ymddengys nad oedd aelodau'r dosbarth hwn yn y de a'r canolbarth cyn baroted i wahodd y prydyddion ac i ymddigrifo yn eu cwmni, er bod rhai eithriadau. Canodd clerwr megis y Nant i Syr Dafydd Fychan yn Ystradfellte lle y bu Hywel Dafî yn cyfarch ei berthynas Llywelyn ap Gwilym, a chafodd y Nant groeso hefyd ymhellach i ffwrdd yn abaty Margam lle yr oedd Wiliam Corntwn yn abad.¹⁵⁷ Er gwaethaf y cerddi a ganwyd i'r Grog yn Aberhonddu sefydliad estron oedd y priordy, a gwŵr a chanddynt gyfenwau megis Underdown, Spalding a Retlyng a fu'n

¹⁵² 83.1, 3.

¹⁵³ 63.3, 25–6.

¹⁵⁴ Cerddi 14, 27 a 45.3–4.

¹⁵⁵ D.F. Evans, '“Talm o Wentoedd” The Welsh language and its literature, c. 1070–c. 1530' yn GCH2 297.

¹⁵⁶ GDEp cerdd 18; HCLl cerdd XXI.

¹⁵⁷ GyN cerddi 9–10. Canodd Ieuan Du'r Bilwg gywydd i erchi llyfr y Greal, sef llyfr o anthemau, gan Syr Lewys ap Dafydd, offeiriad o Lyn-nedd, gw. D.H. Evans, 'Ieuan Du'r Bilwg (*fl.* c. 1471)', B xxiii (1986), cerdd III.

gwasanaethu yno yn ystod y bymthegfed ganrif.¹⁵⁸ Trwy nawdd Bernard de Neufmarché y sefydlwyd yr eglwys ac yna'r priordy, ac o gyfnod cynnar fe'u hymddiriedwyd i ofal abaty Battle yn swydd Sussex. Nid oes enw'r un Cymro ymhlith y rhai a waddolodd y ddau sefydliad.¹⁵⁹ Ni chyfyngid awdurdod yr eglwys i dref Aberhonddu oblegid hi a feddai'r hawl ar ddegymau a phenodiadau plwyfi Talgarth a Llan-gors yn ogystal. Y mae'n bosibl fod dylanwad Eglwys Ioan a'i swyddogion anghyfiaith ar eglwysi'r plwyfi cyfagos a gallai hyn esbonio prinder y canu.¹⁶⁰

Cofnododd Siôn Dafydd Rhys yn ei lyfr nodiadau, Llst 55, ddyfyniadau o gerddi Hywel Dafï, yn eiriau unigol ac yn llinellau a chwpledi cyfain. Daw nifer o'r rhain o gerddi a gollwyd bellach. Y llinellau a'r cwpledi cyfain yw Atodiad VI yn y casgliad hwn. Fel arfer bydd Siôn Dafydd Rhys yn dechrau trwy gofnodi llinell gyntaf y gerdd, er na wna hynny bob tro. Cynrychiolir saith cerdd goll gan y dyfyniadau, a thebyg fod y llinellau hyn yn agor pedair o'r cerddi hynny: 'Ple mae'r mab, y palmer main', 'Y mab ieuanc i'm bywyd', 'Gwledd gri a fu 'Nghaerllion', 'Y mab taer ym mhob tarren'. Prawf rhai o'r dyfyniadau a ddaw o gerddi hysbys fod gan Siôn Dafydd Rhys yn ei feddiant ffynonellau sydd bellach wedi diflannu. Ar fwy nag un achlysur mabwysiadwyd darlleniad sydd yn digwydd yn Llst 55 yn y golygiad.

Gwelir un dyfyniad yn *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain*, a mynnir mai 'Hywel Dafydd ap Ieuan ap Rhys a'i cant, i Blas Rhaglann':

Y ty mawr a'r to mirain,
Tŷ tegwedd a'r cyntedd cain;
Cywrain yw caerau
Y Plas, mawrblas mau,
A'i dyrau'n haul y dwyrain;
A grym dur yn y mur main.¹⁶¹

¹⁵⁸ Gw. W.S.K. Thomas, *op.cit.* y bennod gyntaf, ac Atodiad B, *ib.* 173–4. Nid yw'r rhestr o brioriaid yn gyflawn. 'These Benedictines failed to make any impression on the native Welsh, associated as they were in their minds with an alien conqueror', *ib.* 43.

¹⁵⁹ Yn yr un modd sefydlwyd a gwaddolwyd y tai crefydd ym Morgannwg gan y Normaniaid a gynorthwyodd Robert fitz Hamo i oresgyn y rhan hon o'r de, gw. R.A. Griffiths, 'The Norman Conquest and the twelve knights of Glamorgan', *Glamorgan Historian*, III (1966), 153–69.

¹⁶⁰ Dyfalai H. Fulton, 'Medieval poems to nuns', CMCS 21 (Summer 1991), 99, fod rhai o'r cerddi i leianod, megis y cywydd i Wenonwy, cerdd 109, wedi eu llunio i'w datgan gerbron cynulleidfa o eglwyswyr. Hyd y gwyddys ni chanodd Hywel Dafï yn yr un abaty, a dymaid o gerddi a luniodd i wŷr eglwysig.

¹⁶¹ Iolo Morganwg, *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain* (Abertawy, 1829), 130. Digwydd yn yr adran 'Llamgyrch, neu awdl ddwybig, neu fforchawdl. Arall, anghyfunhydfann'. Dyfynnwyd y pennill yn CH ii, 13. Cyfeirir yn y nodiadau ar y cerddi unigol at ambell gwpled sydd yn digwydd yn llsgrau. Iolo Morganwg ac nad ydynt i'w gweld yn y ffynonellau hysbys.

Ei berthynas â'i noddwyr

Anodd bellach yw dirnad y ffactorau a bennai natur teithiau clera'r beirdd. Prawf y cerddi wrth ei enw fod Hywel Dafî wedi teithio i ymweld â noddwyr yn ei fro ei hun ac ymhellach oddi cartref yn achlysurol, ac y mae'n eglur ei fod yn synio amdano ei hun yn fardd a oedd yn clera:

Treiglwr hoyw, tra glerheais
Da'r byd gynt, diarbed gais.¹⁶²

Un o'r dyfeisiau a arferai Guto'r Glyn wrth geisio creu dolen gadarn rhyngddo a'i noddwr, a chadarnhau ei le ar yr aelwyd, ydoedd galw llys y noddwr yn gartref.¹⁶³ Er na ddewisodd Hywel Dafî fanteisio ar y syniad hwnnw, y mae yntau yn ymroi yn ei ffordd ei hun i ddelweddu'r berthynas rhyngddo a'i noddwyr ac i'w gosod ar sylfaen gadarn a diogel a pharhaol. Yr hyn a wna ef yw pwysleisio'r cyfamod rhwng bardd a noddwr. O ran y noddwr y mae hynny yn gyfystyr ag estyn gwahoddiad a chroeso a llety i'r bardd a'i gydnabod yn deilwng â rhoddion, boed yn arian neu yn ddillad. Sonnir mewn sawl cywydd am dderbyn gŵn neu ddwbled yn rhodd. O ran y bardd, cyflea'r ymrwymiad i ymweld â'r cartref yn unol â'r trefniant a wnaed ac i ganu clodydd y penteulu a'i gymar. Digwydd y geiriau *amod a mach* ar fwy nag un achlysur:

Mynych y gwneuthum unoed
Â'r gŵr a'r mab gorau ermoed.
Amod aeth rhof a'i iemyn;
Nis torro Duw nis tyr dyn ...
Yr wyf yma ar f'amod
Yn fy myw o myn fy mod.¹⁶⁴

Yr wyf yma ar f'amod;
Mae hen genfigen fy mod.¹⁶⁵

Y rhyw fach aeth rhof a chwi,
Nid â diriaid i'w dorri.¹⁶⁶

Ailadroddir y syniad yn un o gywyddau serch y bardd pan ddywed wrth ei gariadferch: *Yma y gwnaetham amod*.¹⁶⁷ Er gwaethaf ei addewid, *Ni thorraf ŵyl*,¹⁶⁸ ymddengys fod Hywel Dafî yn llawer parotach na'i noddwyr i dorri'r cytuneb neu'r amod hwn. Er ei fod yn hyderus na fydd Gwilym ap Morgan o'r Beili-brith yn dal dig, rhaid iddo ymddiheuro'n ymgreiniol am iddo

¹⁶² 74.7–8.

¹⁶³ A.C. Lake, 'Goblygiadau clera a golwg ar ganu Guto'r Glyn', YB XX (1995), 125–48.

¹⁶⁴ 43.45–8, 53–4.

¹⁶⁵ 45.17–18.

¹⁶⁶ 10.53–4.

¹⁶⁷ 108.55.

¹⁶⁸ 3.26.

dorri'r oed ac am gyrraedd y cartref yn hwyr. Esbonia iddo gael ei atal mewn cartref arall, sef yn Nhretŵr:

O'th oedais wyth ddiwedydd
Tre'rtŵr sy'n torri'r oed dydd.¹⁶⁹

Cydnebydd y bardd ei fethiant i gyflawni amod mewn dryll o awdl i Ddafydd Llwyd:

O bŵm i wallus a phrif esgeulus
Am gyrchu'n rymus hwn drwd a'i raement,
E'm gelwid deirgwaith a hefyd unwaith,
Dafydd Llwyd, yn faith am ei fethu.¹⁷⁰

Mawrygir Hywel ap Morgan a'i wraig Sioned ar gyfrif eu parodrwydd i groesawu'r bardd yn dilyn cyfnod o absenoldeb, ac yntau'n canu ar aelwydydd eraill:

Er a dreiglais ar draglaw
Nid aeth â'm lluniaeth o'm llaw.¹⁷¹

Cyflwynir y syniad mewn ffordd wahanol mewn cywydd i Ddafydd ap Morgan ap Dafydd Gam. Dywed y bardd na fu ar yr aelwyd ers tro ond nid arwydd o elyniaeth neu ddrwgdeimlad oedd hynny. Bu'n cadw draw, yn rhannol er mwyn arbed Dafydd rhag gorfod rhoi yn ormodol, ac yn rhannol am ei fod ef yn arbed neu'n cynilo ei roddion yn y cartref erbyn y byddai'n galw yno y tro nesaf. Wedi'r cwbl, meddai, ni fyddai Dafydd am gael gormod o'i gwmini:

O chadwaf un gaeaf gylch
—Nos da i'r mab!—nis diylch.¹⁷²

Wedi dweud hyn caiff ei orfodi i fynegi ei anniddigrwydd am fod y rhoddion y credai ef eu bod yn cael eu cadw ar ei gyfer yn cael eu rhoi i arall. Gallai'r sefyllfa hon fod wedi esgor ar gyfres o gywyddau ymryson, ond nid enwir y bardd neu'r beirdd a fu'n peryglu bywoliaeth Hywel Dafi.

Canlyniad colli nawdd a diogelwch y cartref yw peri bod y bardd yn herwr. Amgylchiad ffug a hwyliog a barodd yr elyniaeth ddychmygol rhwng y bardd a dau o'i noddwyr, Harri Ddu a Wiliam Herbert, ond wrth erfyn cymod y naill a'r llall pwysleisir argyfwng y sawl nad oes croeso iddo ar yr aelwyd.

Harri, pam yr wyf herwr
O'i blas gwyn heb lias gŵr?¹⁷³

¹⁶⁹ 10.33–4.

¹⁷⁰ 91.1–4.

¹⁷¹ 16.25–6.

¹⁷² 23.21–2.

¹⁷³ 64.7–8.

Ni ddigwydd y gair *herwr* yn y cywydd i Wiliam Herbert ond yr un yw'r bygythiad:

Chwithau, arglwydd, ni chaethir
Ym na'ch tai yma na'ch tir.¹⁷⁴

Fe'i cyffelyba ei hun i Adda a alltudiwyd o ardd Eden, fel y gwna drachefn mewn cywydd mwy difrifol ei gywair, y tro hwn i ofyn cymod Maredudd ap Morgan.

Ymrysonau

Da y'n hatgoffwyd gan Marged Haycock fod ymrysonau'r beirdd yn tystio i fywiogrwydd barddol,¹⁷⁵ er bod rhyw gyfrifoldeb ar olygydd canu'r bardd i amddiffyn enw da Hywel Dafï yn wyneb y sylw: 'Y mwyaf cynhennus o'r beirdd lleol oedd Hywel Dafï.'¹⁷⁶ Ceir tystiolaeth ei fod wedi ymryson â thri bardd ond ceir awgrym yma a thraw fod ymrysonau pellach wedi digwydd. Er gwaethaf y beirniadu a'r dychan, dull o fawrygu'r uchelwr a mwynderau ei gartref oedd yr ymrysonau yn eu hanfod, ac arwydd o'r berthynas glòs rhwng bardd a bardd. Yr ymryson rhwng Hywel Dafï a Guto'r Glyn yng nghartref Morgan ap Rhoser yw'r mwyaf difrifol yn gymaint â bod dilysrwydd moliant y beirdd a'u geirwiredd dan y chwyddwydr, ond eto rhy'r ddadl gyfle i'r naill fel y llall fawrygu Morgan yn ei ffordd ei hunan. Gwelir beirniadaeth Hywel Dafï ar barodrwydd Guto i wenieithio mewn goleuni amgen yn y cywydd a ganodd Siôn ap Ffelpod iddo. Ef yw'r un a gyhuddir o seboni a thorri addewidion y tro hwn:

Gwnaeth fi yn well no'r triael
Ganwaith ar ei weniath wael.
Dywad o'i chwedl diledlyth
Na'm gadawai o'i fai fyth.¹⁷⁷

Ac er bod Hywel Dafï yn cyhuddo Guto o fod yn gyfrwys fel llwynog wrth geisio ei ddisodli yn Rhaglan yn yr ail ymryson, ailadroddir y gyffelybiaeth, ond ei chymhwyso at Hywel Dafï ei hun, mewn ymryson â Bedo Brwynllys yn Nhretŵr.¹⁷⁸ Y mae'n wir fod Hywel Dafï yn pwysleisio ei ymlyniad wrth Raglan mewn cyfres o ddarluniau pwrpasol, ond fel y nodwyd eisoes yr oedd yntau yn clera er bod cylch ei ganu yn llawer mwy cyfyngedig na chylch ei wrthwynebydd yn y ddadl. Cofier hefyd mai Tretŵr, nid Rhaglan,

¹⁷⁴ 66.41–2.

¹⁷⁵ 'Mae'n debyg fod ymrysonau'n arwydd o fywiogrwydd diwylliannol', gw. M. Haycock, *Am y Ffin â'r Gorffennol* (Llanrwst, 1993), 14–15.

¹⁷⁶ *Ib.* 14.

¹⁷⁷ 63.21–4.

¹⁷⁸ 68.49–52 (ymryson Rhaglan) *Cynnig aur ym, cawn ei gred, / Yma i Wynedd er myned, / A cheisio rhoi iddo 'rhawg / Fy lle innau fal llwynawg; 52.41–4* (ymryson Tretŵr) *Mae'n hudol, mi a'i hadwaen, / Ymbil a wŷr am y blaen: / Yn llwynog o'r naill anian, / Yn fêl y cyrn fal y cân.*

oedd prif gartref nawdd y bardd. Ar achlysur arall dewisodd ddatgan ei deyrngarwch i ŵr a chartref gwahanol, sef Gwilym Dew, yr Argoed:

Trof i ar dy lys araul
O thry'r rhod pan lithro'r haul,
A throi Gwy pan oedd fwyaf
Oedd 'y nhroi oddyno'r haf.¹⁷⁹

A dychwelyd am ennyd at gywydd Siôn ap Ffelpod, datganodd ef mai anodd oedd cadw gafael ar fardd crwydrol a roes ei fryd ar ymweld â chartrefi eraill: *Nid hawdd cadw ... / Brydydd, arth dedwydd, wrth did.*¹⁸⁰

Crybwyllir Guto, yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, mewn dau gywydd arall. Mewn cywydd i geisio cymod Wiliam Herbert, a hynny cyn ei ddyrchafu yn iarll Penfro, cais Hywel Dafï ei amddiffyn ei hun yn dilyn cyhuddiad Guto—Guto'r Glyn ond odid—ei fod wedi taro Nest, morwyn neu flas y mis yn Rhaglan, ac ymosod arni yn rhywiol. Ni ddiogelwyd y cywydd hwn yn Pen 67 ac nid oes tystiolaeth fod Guto wedi ymateb.¹⁸¹ Y mae'n ddichonadwy fod bysedd Guto a Wiliam Herbert yn y brywes gyda golwg ar ymgais arall ar ran Hywel Dafï i sicrhau ewyllys da ei noddwr, yn y Cwrtnewydd y tro hwn. Ymddengys fod Harri Ddu wedi ymddiried merch o'r enw Gwladus i ofal y bardd ond ei bod hi wedi cael ei swyno gan gala Wiliam Herbert.¹⁸² Enwir merch o'r enw Gwladus mewn dau gywydd a ganodd Guto i Harri Ddu ac anodd credu na wyddai Hywel Dafï am hynny.¹⁸³

Ymgiprys am roddion, ac am ynau yn benodol, sydd wrth wraidd yr ymryson â Bedo Brwynllys yn Nhretŵr a Huw Cae Llwyd yn y Slwch. Y mae'r cyfeiriadau niferus at dderbyn gŵn yn awgrym fod hon nid yn unig yn rhodd a brisid yn fawr gan y bardd, ond ei bod hefyd yn gydnabyddiaeth deilwng am y moliant a ddatgenid.¹⁸⁴

Dyddio'r canu

Er bod dros gant o gerddi'r bardd ar glawr, tenau yw'r dystiolaeth at ddiben eu dyddio. Cynigiwyd y gall yr ymryson rhwng Hywel Dafï a Guto'r Glyn yng nghartref Morgan ap Rhoser yng Ngwynllŵg fod yn perthyn naill ai i dridegau neu i bedwardegau'r ganrif.¹⁸⁵ Am nad oes yr un cywydd o waith Hywel Dafï y gellir ei osod yn hyderus yn y tridegau diogelach barnu mai yn y pedwardegau y canwyd hwn. Y gerdd gyntaf y gellir bod yn sicr ynglŷn â

¹⁷⁹ 1.23–6.

¹⁸⁰ 63.43–4.

¹⁸¹ Cerdd 66.

¹⁸² Helynt nid annhebyg sydd wrth wraidd yr ymryson rhwng Ieuan ap Hywel Swrdwal a Llawdden, gw. GLL cerddi 32–3. Anfonwyd Ieuan yn gennad at ferch ar ran Llawdden ond yr oedd yn well ganddi hi Ieuan am fod Llawdden eisoes yn briod.

¹⁸³ GG.net cerddi 34–5.

¹⁸⁴ Cerddi 51–3 (Tretŵr) a 39–40 (y Slwch).

¹⁸⁵ Gw. nodyn brig cerddi 72–3.

hi yw'r cywydd i Ruffudd ap Nicolas a'i ddau fab, Tomas ac Owain.¹⁸⁶ Yr oedd Tomas yn dechrau sefydlu ei awdurdod yng Ngheredigion yn y 1440au ond cafodd droedle yn y sir tua 1439, diolch i rym a dylanwad ei dad. Awgryma'r cyfeiriad at Geredigion na chanwyd y cywydd cyn y flwyddyn honno. Nid oes modd cynnig dyddiad ar gyfer y cywydd a ganwyd ar ei ran i erchi hebog gan Lywelyn Goch o Rydlafar. Enwir mab Llywelyn Goch mewn gweithred a luniwyd yn 1469 ac y mae hanes i Domas ei hun gael ei ladd ym Mhennal yn 1468. Efallai fod y cywydd hwn eto yn un cynnar.¹⁸⁷

Yr ail gerdd y gellir bod yn weddol sicr yn ei chylch yw'r cywydd a ganwyd i Owain Dwnn pan oedd yn gwasanaethu yn Iwerddon o dan Risiart, dug Efrog. Penodwyd Rhisiart yn rhaglaw Iwerddon yn 1447 ond aeth blwyddyn a rhagor heibio cyn iddo hwylio i'r ynys. Mewn un ffynhonnell, fodd bynnag, rhoddir y cywydd hwn i Ieuan Tew.¹⁸⁸ Canodd Hywel Dafí gywydd i Rys ap Siancyn o Lyn-nedd a chywydd arall i'w bedwar mab. Yn ystod teyrnasiad Harri VI y cyfarchwyd y meibion—awgrym clir mai yn ystod y 1450au y canwyd y cywydd.¹⁸⁹ Dyfelir mai yn ystod y pumdegau hefyd y bu Guto'r Glyn a Hywel Dafí yn ymryson yn Rhaglan, a hynny rhwng 1452 pan urddwyd Wiliam Herbert yn farchog a 1454 pan fu farw ei fam, Gwladus Gam.¹⁹⁰ Er i Hywel Dafí farwnadu Gwladus, y mae lle i gredu iddo wneud hynny rai blynyddoedd wedi ei marwolaeth, ac wedi coronni Edward IV yn frenin yn 1461. Gellir dyfalu mai ar achlysur paratoi'r beddrod i Wladus a'i hail ŵr, Syr Wiliam ap Tomas, yn eglwys y Fenni y gwnaed hynny.¹⁹¹

Y mae dau beth sydd yn drawiadol ynghylch y dosbarth hwn o gerddi cynnar. Yn gyntaf ni chofnodwyd yr un yn Pen 67. Ymddengys mai cerddi a ganwyd o ganol y chwedegau ymlaen sydd yn llaw Hywel Dafí yn y llawysgrif hon (ond rhaid cofio bod nifer o ddalennau'r llawysgrif wedi eu colli). Yn ail, ni pherthyn yr un i wlad Brycheiniog. Fe'u canwyd i noddwyr o sir Gaerfyrddin, o gantrefi Gorfynydd, Penychen a Gwynllŵg, ac o Went Is Coed. Wrth ateb y farwnad a ganodd Hywel Dafí i Ieuan ap Hywel Swrdwal honna Gruffudd Dafydd Fychan ei fod ef a Hywel wedi bod yn cydweithio neu yn cydglera. Tybed a dderbyniodd Hywel Dafí ei addysg farddol ym Morgannwg, ac yn Nhir Iarll, a thybed ai ar hyd 'coridor yr M4' y cafodd ei brofiad cyntaf o glera?

¹⁸⁶ Gw. cerdd 80.

¹⁸⁷ Gw. nodyn brig cerdd 81. Canodd Dafydd Llwyd o Fathafarn farwnad i Domas, gw. GDLI cerdd 59; hefyd R.A. Griffiths: RhTh 177–8 (a'r troednodyn, *ib.* 178).

¹⁸⁸ Gw. cerdd 82 a 'Cerddi Ansicr'.

¹⁸⁹ Gw. 76.31–2n *Colerau yw'r dolau da, / Harri wyn a'u harweinia.*

¹⁹⁰ Gw. nodyn brig cerdd 67–8. Ond mae peth ansicrwydd ynghylch dyddiad marw Gwladus, gw. nodyn brig cerdd 19.

¹⁹¹ Gw. nodyn brig cerdd 19 a'r awgrym fod y cywydd marwnad a ganodd Lewys Glyn Cothi hefyd wedi ei lunio yn ystod teyrnasiad y Brenin Edward IV.

Yr oedd Hywel Dafï yn canu hyd at wythdegau'r ganrif. Canodd ar saith achlysur i Domas Fychan, mab hynaf Rhoser Fychan, a hynny cyn ac ar ôl ei urddo. Yr oedd wedi ei urddo erbyn mis Mawrth 1484, a rhaid gosod tri o'r cywyddau ar ôl y dyddiad hwnnw.¹⁹² Ni chyfeirir yn y canu at frwydr Bosworth nac at goroni Harri Tudur yn frenin, ond gall fod un cyfeiriad at wrthryfel dug Buckingham yn 1483, a bwriad gelynyion y Brenin Rhisiart III i ymgynnull o dan faner Harri Tudur.¹⁹³ Ni bu'r gwrthryfel yn llwyddiannus a dienyddiwyd y dug, ond paratôdd y ffordd ar gyfer dychweliad Harri yn 1485. Copïodd Hywel Dafï y cywydd a ganodd Dafydd Llwyd o Fathafarn i'r Brenin Harri VII yn Pen 67.¹⁹⁴ Un a gymerodd ran yn y brwydro yn Bosworth oedd Siôn Pilstwn, ond ni chyfeirir at hynny yn y cywydd a ganodd y bardd iddo.¹⁹⁵

Er mai prin iawn yw'r cerddi y gellir eu dyddio yn bendant, gellir bod yn hyderus eu bod yn perthyn i'r blynyddoedd 1440–85. Y dyddiad a roddir ar ei gyfer gan John Davies, Mallwyd, yw 1460, ac ailadroddir hwnnw mewn sawl llawysgrif a gopiwyd yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ar bymtheg.¹⁹⁶ Fel arfer bydd y marwnadau yn cynnig goleuni ar gyfnod blodeuo'r beirdd. Nid yw'r cerddi yn y dosbarth hwn yn lluosog iawn yn achos Hywel Dafï, ac am nad oes llawer yn hysbys am y noddwyr a goffeir, nid ydynt yn cynnig cyfres o ddyddiadau dibynadwy a allai bennu ffiniau canu'r bardd. Diogelwyd dwy farwnad ar bymtheg, un ohonynt i'r bardd Ieuan ap Hywel Swrdwal, a chofnodwyd pedair ar ddeg ohonynt yn Pen 67. Fodd bynnag, ceir sawl cyfeiriad yn y canu sydd yn ategu'r awgrym a wnaed ynghylch cyfnod y canu.

Bu Owain Dwnn, fel y gwelwyd, yn gwasanaethu yn Iwerddon pan oedd Rhisiart yn rhaglaw. Eraill a fu'n brwydro yn Iwerddon oedd Gwilym Fychan a Morgan ap Tomas, ac efallai eu bod hwythau yn rhan o lu dug Efrog.¹⁹⁷ Clywir i rai o'r noddwyr fod yn brwydro yn Ffrainc, a hynny yn ddiau yn negawdau olaf y Rhyfel Can Mlynedd. Dywedir am Wilym

¹⁹² Cerddi 48–51 (cyn ei urddo), a cherddi 53–5 (ar ôl ei urddo).

¹⁹³ Nodyn brig cerdd 56.

¹⁹⁴ Peniarth MS. 67, cerdd XXXIV; hefyd GDLI 23.2–4, 6, lle y cyferchir *Harri ... / Brenin ... / Britwn ... / Yn ging Harri gwncwerwr*.

¹⁹⁵ Gw. nodyn brig cerdd 83.

¹⁹⁶ Gw. M.T. Burdett-Jones, '“Index Auctorum” Henry Salesbury ac ‘Authorum Britannicorum Nomina’ John Davies', Cylchg LIGC xxvi (1989–90), 353–60. Ailadroddir y dyddiad gan Henry Salesbury. Y dyddiad ar gyfer Guto'r Glyn yng ngeiriadur John Davies yw 1450. Digwydd yr enw *Howel Dd Ieuan ap Rhes* ymhlith ffynonellau geiriadur Thomas Wiliems, sef Pen 228, gw. M.T. Burdett-Jones, '“Catalogus Authorum Britannicorum” Thomas Wiliems', Cylchg LIGC xxvii (1991–2). Ond ni chyfeiriodd Thomas Lloyd, Plas Power, ato, gw. *id.*, 'Poetarum nomina Thomas Lloyd, Plas Power', Cylchg LIGC xxviii (1993–4), 249–54. Y dyddiad a roddir yn J. Davies: Flores 47 yw 1490.

¹⁹⁷ 17.17 *Troes ei ddwylo tros Ddilyn* (Gwilym Fychan), 37.34 *Cafas draw urddas drwy Iewerddon* (Morgan ap Tomas Llwyd).

Fychan: *Daly sis wrth Baris y bu / Ac yn Rhôn â gwayw'n rhannu.*¹⁹⁸ Cymerodd Wiliam Herbert, yr ail iarll Penfro, ran yn y cyrch yn erbyn Ffrainc yn 1475, a gellir bod yn bur sicr ynghylch dyddiad yr awdl a ganodd Hywel Dafu i Edward IV ac i Wiliam Herbert ar y cyd i ddeisyf llwyddiant a diogelwch y ddau.¹⁹⁹ Canwyd i Syr Rhoser Fychan yn dilyn y cyrch ar gastell Harlech, cadarnle plaid Lancastr, yn 1468.²⁰⁰ Er na farwnadodd Hywel Dafu Wiliam Herbert a ddiennyddiwyd yn dilyn brwydr Maes Banbri y flwyddyn ddilynol cyffelybodd farwolaeth un o'i noddwyr, sef Ieuan ap Morgan, i drychineb 1469: *Truan yw unTro newydd; / Tewi am waith Fanbri fydd.*²⁰¹ Y mae'r pwyslais ar ddial ei farwolaeth yn y farwnad i Faredudd ap Morgan, brawd Ieuan, yn awgrym ei fod yn un o'r Cymry a laddwyd yn y frwydr honno: *O frad a lledrad y'i llas ... Od aeth ein lluniaeth o'n llaw / Aed ei elyn i'n dwylaw.*²⁰²

Cyfarchodd Hywel Dafu Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, ar dri achlysur a chanodd gywydd ac awdl i'w fab, yr ail iarll. Yn ddadlennol, un yn unig o'r cerddi hyn a gofnodwyd yn llaw'r bardd yn Pen 67.²⁰³ Fodd bynnag, enwir yr iarll cyntaf mewn cerddi i noddwyr eraill. Ymfalchïa'r bardd wrth gyfarch Hywel Dew, *Arglwydd Herbert a'i barti / A geidw eich iawn gyda chwi.*²⁰⁴ Enwir Rhoser Fychan (m. 1471) yn yr awdl i Wiliam Fychan o'r Penrhyn²⁰⁵ a phwysleisir bod Maredudd ap Morgan yn fawr ei barch yng ngolwg y Brenin Edward.²⁰⁶ Gwyddys am swyddi a breiniau y bu rhai o noddwyr y bardd yn eu mwynhau yn ystod y cyfnod 1440–85²⁰⁷ a derbyniodd eraill bardwn swyddogol.²⁰⁸

Ymateb i'w ganu

Prin yw'r sylw a roddwyd i waith Hywel Dafu. Er mai un cyfeiriad yn unig a geir ato yn y cylchgrawn *Brycheiniog* rhwng y rhifyn cyntaf yn 1956 a'r nawfed rhifyn ar hugain a ymddangosodd ddeugain mlynedd yn ddiweddarach yn 1997,²⁰⁹ camarweiniol fyddai awgrymu na wyddai neb am ei waith. Dewiswyd ei ganu yn destun traethawd M.A., un o'r deg traethawd cyntaf a

¹⁹⁸ 17.15–16. Bu tad ac ewythr Gwilym Dew yn brwydro yn Ffrainc, gw. 1.3n, 2.6n, a thad Tomas Sgudmor, gw. 61.40n.

¹⁹⁹ Gw. cerdd 71.

²⁰⁰ 47.23–4 *Gwayw 'Ngwynedd rhag ynganu / A tharian fawr i'th ddwrn fu.* Enwir yr iarll hir yn y cywydd ac fe'i canwyd felly yn dilyn dyrchafu Wiliam Herbert yn iarll Penfro, gw. 47.47n a'r nodyn brig.

²⁰¹ 22.7–8.

²⁰² 26.10, 63–4.

²⁰³ Gw. cerdd 70.

²⁰⁴ 4.37–8. Gw. ymhellach 1.60n.

²⁰⁵ 84.27–8. Rhaid dyddio'r awdl yn dilyn dienyddio Rhoser Fychan yn 1471.

²⁰⁶ 25.3–4 *Mab â dur iddo 'mhob dart, / Morgan, wyd, mawr gan Edwart.* Am gyfeiriadau at yr haul, sef y symbol a arddelid gan y brenin, gw. 19.41n, 46.37n.

²⁰⁷ Gw., e.e., nodiadau cerddi 38, 64.

²⁰⁸ Gw. 21.19n a nodyn brig cerdd 42.

²⁰⁹ Mynegai i'r 29 rhifyn blaenorol yw *Brycheiniog*, xxx (1998).

wnaed ar waith Beirdd yr Uchelwyr,²¹⁰ a phan sefydlwyd y gyfres 'Reprints of Welsh Manuscripts' er mwyn trawsysgrifio testunau o'n llawysgrifau pwysicaf a sicrhau bod eu cynnwys yn hygyrch, llawysgrif Pen 67 yn llaw'r bardd oedd yr ail lawysgrif a gyhoeddwyd.²¹¹ Gwnaed defnydd helaeth o'r trawsysgrifiad fel y tystia'r dyfyniadau niferus yn *Geirfa Barddoniaeth Gymnar Gymraeg* a *Geiriadur Prifysgol Cymru*. Efallai mai'r rhwystr pennaf yn ffordd y beirniaid llên a'r haneswyr oedd yr anwybodaeth am y gwŷr a'r gwragedd y canodd Hywel Dafï iddynt. Nid oes penawdau uwchben y cerddi yn Pen 67 ac nid tasg rwydd fu ceisio adnabod noddwyr y bardd. Y mae'n arwyddocaol mai yn rhinwedd ei gyswllt â beirdd eraill y daeth Hywel Dafï yn ffigwr hysbys, ac ar gorn ei ddau ymryson â Guto'r Glyn a'i farwnad i Ieuan ap Hywel Swrwal a ysgogodd yn ei thro ymateb Llywelyn Goch y Dant a Gruffudd Dafydd Fychan—cerddi nas cofnodwyd yn Pen 67.

Tybed a fu cymeriad y bardd ei hun yn faen tramgwydd? Awgrymir yn y *Cydymaith*, 'Ac eithrio ei ymrysonau â Guto'r Glyn nid oedd ei waith yn boblogaidd ymhlith y copiŵyr, yn rhannol gan nad oedd yn cymdymffurfio â chonfensiynau ei gyfnod.'²¹² Y mae'n wir nad yw'r copiâu o'i gerddi yn lluosog, ond fel y gwelwyd, diogelwyd deuparth y canu mewn un ffynhonnell, ac nid oes lle i gredu bod y cerddi wedi cylchredeg yn helaeth. Diau mai ymosodiad Hywel Dafï ar ei gyd-fardd Guto'r Glyn am fod hwnnw'n chwannog i wenieithio sydd yn esbonio ail ran y datganiad. 'Dyn herfeiddiol, yn gwybod yn well na phobl eraill (yn ei farn ei hun) oedd Hywel Dafï' ym marn E.I. Rowlands, 'ac fe effeithiodd hynny'n drwn [sic] ar ei gerddi'.²¹³

Efallai fod sylwadau anghanmoliaethus am ansawdd y canu yn cyfrif am yr anwybyddu a fu ar y bardd hefyd. 'Y gwir am dano ydyw nad oes yn ei holl farddoniaeth ond rhyw ugain o linellau gwerth eu cofio na'u cadw', honnodd W.J. Gruffydd yn 1922,²¹⁴ ac ategodd Saunders Lewis ei farn

²¹⁰ H.D. Thomas, 'The works of Hywel Davi' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1913), rhif 859 yn Alun Eirug Davies, *Traethodau Ymchwil Cymraeg a Chymreig 1887–1971* (Caerdydd, 1973). Yn anffodus ni ddiogelwyd copi o'r traethawd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ymddengys fod D.D. Williams, yntau, wedi ystyried naill ai paratoi traethawd ymchwil neu lunio astudiaeth yn seiliedig ar ganu Hywel Dafï. Cynullodd yn Bangor 7268 yr holl gerddi sydd yn digwydd yn llsgrau. David Ellis. Arno, gw. ByCy Ar-lein dan 'David David Williams (1862–1938)'.

²¹¹ Peniarth MS. 67.

²¹² CLC² 345.

²¹³ E.I. Rowlands, 'Canu serch 1450–1525', B xxxi (1984), 46, lle yr ychwanega, 'Y mae holl ganu Hywel Dafï yn dangos yn ddigon clir fod i bersonoliaeth y bardd unigol le ym mynegiant y canu serch fel yn y canu moliant ac yn wir yn y canu crefyddol hefyd.' Galwodd sylw yn benodol at y modd y delweddir y Forwyn Fair yng ngherdd 96.

²¹⁴ W.J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600* (Lerpwl, 1922), 45–6. Ond â rhagddo i ddyfynnu cynifer â 26 llinell. 'Fel bardd, y mae Hywel Dafï wedi ei roddi gan ei feirniaid diweddar yn llawer iawn rhy uchel ... Clerwr ar ei eithaf ydyw Hywel Dafï.' Ymateb sydd yma i sylwadau megis 'Ystyrid ei holl weithiau awdurol yn werthfawr, ac wedi cael eu hysgrifenu yn dda', gw. J.T. Jones, *op.cit.* i, 573.

ddeng mlynedd yn ddiweddarach pan ddyfynnodd ddyrnaid o linellau o ‘ddisgrifiad gan fardd digon cyffredin o aelod digon cyffredin o’r dosbarth [o fân gyfalafwyr annibynnol a rhydd]’.²¹⁵ Y ffaith fod dyrnaid o’i gyfoeswyr yn feirdd mor arbennig sydd yn peri bod Hywel Dafu yn cael ei labelu â’r disgrifiad ‘cyffredin’. Y mae’n brydydd crefftus sydd yn cyflawni ei waith fel bardd mawl yn gymen ac yn loyw. Yn wir, cymhellwyd Saunders Lewis i ychwanegu, wrth ddyfynnu rhagor o waith y bardd, ‘Huw Dafu biau’r llinellau cyferbyniol a ganlyn sy mor feistraidd eu cystrawen a’u dychymyg’.²¹⁶ Ni pherthyn iddo’r dychymyg a’r dyfeisgarwch sydd yn hynodi gwaith ei gyfoeswyr Guto’r Glyn a Lewys Glyn Cothi, ac ni fedd ar y cynilder sydd yn nod amgen gwaith Dafydd Nanmor. Ar ddau achlysur yn unig y dewisodd ddelwedd estynedig yn fframwaith i gywydd, a diau nad damwain sydd yn cyfrif am ganran anghyffredin o uchel y gynghanedd groes yn un o’r ddau gyfansoddiad hyn.

Peniarth 67

Dyma’r ffynhonnell bwysicaf o safbwynt canu Hywel Dafu. Diogelwyd 60% o ganu’r bardd yn ei law ei hun yma. Cynnwys y llawysgrif destunau da a dibynadwy, ond nid ydynt yn ddi-fai. Yn un peth, ceir ymhell dros gant o enghreifftiau o gamgofnodi.²¹⁷ Un arfer cyffredin yw colli llythyren neu lythrennau, naill ai ar ddechrau, ar ddiwedd neu yng nghanol gair, er enghraifft, *doether* am *doethder* (1.31), *llawr* am *llawer* (23.16), *gwiny* am *gwindy* (26.20), *erch* am *erchi* (77.47), *wyrwynt* am *wybrwynt* (77.37). Lluosog hefyd yw’r enghreifftiau o ysgrifennu’r llythyren anghywir—cytsain fel arfer ond nid bob tro: *meidr* am *neidr* (10.14), *dorthymvn* am *d’orchymyn* (49.9), *rred* am *rhaid* (56.27), *travr* am *traul* (70.3). Yn achlysurol ailadroddir dilyniant o lythrennau: *kyfyfyt* am *cyfyd* (13.11), *hwssmwmon* am *hwsmmon* (13.36), *kradodoc* am *Cradog* (70.9).

Yn y llawysgrif ni wahaniaethir bob tro rhwng *n* ac *nn*. Cofnodwyd *yn* lle yr oedd yr ystyr yn galw am *ynn* yn y llinell *Caregl ynn wyd, câr Glyn-nedd* (13.10), a *kannv* lle y gelwir am yr ystyr *canu* yn y llinell *Canu mae pob datgeiniad* (9.37). Gall y Pen 67 gynrychioli’r fannod, yr arddodiad *i*, y rhagenw blaen 3 unigol *ei*, y rhagenw blaen 3 lluosog *eu* ynghyd â’r arddodiad *i* a’r rhagenw mewmol 3 unigol yn y cyfuniad *i’w*. Yn fynych dewiswyd hepgor naill ai’r rhagenw blaen 3 unigol *ei* neu’r arddodiad *i* os oedd y gair a oedd yn dilyn neu yn rhagflaenu yn dechrau â’r un sain.

Ar sail y testunau sydd yn Pen 67 y paratôdd John Davies, Mallwyd, ei destun ef o ganu’r bardd sydd i’w weld yn Pen 99. Bu’n rhaid iddo gywiro’r

²¹⁵ BHLIG 116–17. Y llau. a ddyfynnwyd oedd 2.11–16, 29–32.

²¹⁶ *Ib.* 130–1. Dyfynnir 79.17–20 y tro hwn.

²¹⁷ Edrychir yn fanwl ar y rhain yn A.C. Lake, ‘“O gedais lythr yn eisiau”: llawysgrif Peniarth 67 a’i disgynyddion’, *LlCy* 37 (2014/15), 1–18. Cf. sylwadau H.M. Edwards yn GyN 11 ar orgraff Y Nant: ‘y mae’r sillafu yn anghyson a hynod esgeulus, gyda llythrennau wedi eu hepgor neu eu camosod yn aml’. Nid yw Hywel Dafu cynddrwg â’r Nant, o bell ffordd.

geiriau a gamgofnodwyd yn Pen 67, ac fel arfer byddai'r mesur a'r gynghanedd yn ei alluogi i wneud hynny yn ddiffwdan. Ar sawl achlysur, fodd bynnag, bu'n rhaid iddo geisio dehongli yr hyn y bwriadai'r bardd ei gyfleu ac yr oedd yn anorfod fod ei benderfyniadau ef yn lliwio'r darlenniadau ar dro. Y mae'n amlwg ei fod hefyd wedi newid nifer o'r ffurfiau a arferwyd gan y bardd ei hun. Ceisiwyd dadansoddi'r newidiadau hyn a rhoi cyfrif amdanynt mewn lle arall.²¹⁸

Wrth baratoi'r golygiad, ceisiwyd glynu at y ffurfiau a ddefnyddiodd y bardd ei hun ond, fel y gwelwyd, bu'n rhaid cywiro a dehongli yma a thraw. Un o'r nodweddion a barodd drafferth wrth olygu'r cerddi oedd parodrwydd y bardd naill ai i gynnwys neu i hepgor <i>. Dangosodd P.W. Thomas fod absenoldeb <i> neu <y> yn elfen fôn-ffurfiol (e.e. *neidyaw*, *neitaw*) ac, yn ail, yn elfen gyntaf sillaf olaf rhai geiriau (e.e. *keilyawc*, *keilawc*) yn arwydd digamsyniol o gyswllt â'r de-ddwyrain.²¹⁹ Ac yntau'n hanu o Aberhonddu neu'r cyffiniau, gellid disgwyl i Hywel Dafï arddel y nodweddion hyn yn Pen 67. Fe wna hynny, y mae'n wir, yn achlysurol, fel y tystia'r ffurfiau *athrawaeth*, *kynnhennon*, *chwevgainev*, *dadwreiddwyd*, *gwalav*, *morynnon*, *[t]lodonn*. Ar y llaw arall nid oes prinder ffurfiau megis *keilioc*, *neidio*, *[t]aleithiawc*, *[t]elynnor*, *tidiav*, *twynnyion* (dealler *twymyon*), *wryon* sydd yn cynnwys y sain <i>. Nid yw'r bardd yn gyson bob tro; digwydd *brainol* a *breiniol*, *[k]yrrav* a *kyryav*, *[g]westwr* a *gwestywr*, *[t]lodonn* a *[t]lodyon*. Dilynwyd ffurfiau Pen 67 ond golyga hyn fod dwy ffurf ar yr un gair yn cael eu harfer mewn llinellau gwahanol (weithiau yn yr un cywydd). Peth cyffredin ddigon yw arfer dwy ffurf ar yr un gair, neu drin enw cyffredin yn enw gwrywaidd ac yn enw benywaidd, a hynny at ddibenion y gynghanedd neu'r odl neu'r mesur.²²⁰ Yn yr achos hwn, nid oes a wnelo'r ffurfiau dan sylw â'r mesur nac â'r gynghanedd ychwaith. Am nad yw Hywel Dafï ei hun yn gyson, nid oedd Pen 67 yn cynnig arweiniad wrth olygu'r cerddi a ddiogelwyd mewn ffynonellau eraill.

Nid cynnwys <i> mewn geiriau helaeth eu cylchrediad megis yr uchod yn unig a wnaeth Hywel Dafï. Dewisodd gynnwys <i> mewn ffurfiau lle na ddigwydd hynny yn gyffredin, a barnu wrth dystiolaeth *Geiriadur Prifysgol Cymru*, geiriau megis *athrawyon*, *[k]yt twymmyan*, *eithia*, *ffrwythyau*, *gwannywyn*, *[l]lwydya*, *llwyddyaw*, *oedywnn*, *pennyadvr*, *[p]rofyadwy*. Yn wir, Pen 67 yw unig ffynhonnell nifer o'r ffurfiau hyn. Nid yw'r llawysgrif yn cynnig darlun clir a chyson ac adlewyrchir hyn yn y testun golygedig.

²¹⁸ A.C. Lake, *art.cit.*

²¹⁹ P.W. Thomas, 'Middle Welsh dialects: problems and perspectives', B xl (1993), 17–50; *id.*, 'Cysylltiadau daearyddol Chwedlau Odo', YB XIX (1993), 61–3.

²²⁰ A.C.Lake, 'Gwe gaeth y Gymraeg wen', LICy 27 (2004), 48–70

Cynghanedd

Dadansoddwyd y gynghanedd yn yr holl gywyddau, y rhai cyflawn ac anghyflawn, y gellir bod yn sicr mai Hywel Dafï a'u canodd. Ni chynhwyswyd y llinellau unigol a gofnododd Siôn Dafydd Rhys yn Llŷt 55 yn y dadansoddiad.²²¹ Cyfanswm y llinellau a ddadansoddwyd oedd 5435, ac yr oedd dosbarthiad y cynganeddion fel a ganlyn:

croes	2679	49%
traws	1116	21%
sain	1199	22%
llusg	439	8%

Gwelir mai'r groes a arferir fynychaf a bod hon yn digwydd mewn un llinell o bob dwy.²²² Y mae'r draws a'r sain yn cyfateb bron yn union o ran eu mynychder. Yn unol â'r disgwyl y gynghanedd lusg a arferir leiaf, ond digwydd yn ymron un o bob deg llinell. Nid oes yr un cywydd nad yw'n cynnwys cynghanedd lusg.

Yr oedd mynychder y gynghanedd sain yn un o'r meini prawf a ddefnyddiodd Thomas Parry wrth wahaniaethu rhwng cyfansoddiadau'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif. Ar sail sampl o ddeg cywydd yr un o waith pedwar bardd, sef Guto'r Glyn, Dafydd Nanmor, Gutun Owain a Dafydd ab Edmwnd, awgrymodd fod 10% o linellau beirdd y bymthegfed ganrif yn cynnwys y gynghanedd hon. Y mae'r ffigwr hwnnw yn is o lawer na'r 22% yng nghanu Hywel Dafï. O edrych yn fanylach ar yr ystadegau a baratôdd Thomas Parry, gwelir bod y canrannau yn amrywio'n fawr yng ngweithiau'r pedwar bardd unigol. Tra bo'r sain yn brin yng nghywyddau Dafydd ab Edmwnd (3%) y mae'n amlycach yng ngwaith Guto'r Glyn (15%), bardd sydd yn debycach i Hywel Dafï o ran ei arferion cynganeddu.²²³

Ar y gynghanedd sain y craffodd Eurys Rolant, yntau.²²⁴ Dewisodd bymtheg o gywyddau Lewys Glyn Cothi a gweld bod 20.7% o'r llinellau yn cynnwys cynghanedd sain. Y ganran ar gyfer Guto'r Glyn, yn seiliedig ar ugain cywydd, oedd 17.5%. Gwelir bod y sain yn amlycach yn y cywyddau y dewisodd Eurys Rolant eu dadansoddi. Ysywaeth, nid oes dadansoddiad manwl ar gael o arferion cynganeddol cyfoeswyr Hywel Dafï, a'r defnydd a wnaed o'r pedwar math, y groes, y draws, y sain a'r lusg. Diolch i waith A.E. Davies, gellir cyfosod Hywel Dafï a dau fardd arall a ganai yn y bymthegfed ganrif, sef Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen:

²²¹ Gw. Atodiad VI.

²²² Y ganran yn fanwl yw 49.29%.

²²³ GDG xcvi–xcvii.

²²⁴ E. Rolant, 'Arddull y cywydd', YB II (1996), 36–57.

	Deio ab Ieuan Du	Gwilym ab Ieuan Hen ²²⁵
croes	46	39
traws	26	30
sain	23	25
llusg	5	6

O'r ddau fardd hyn Deio ab Ieuan Du sydd debycaf i Hywel Dafï.

Er bod rhyw gymaint o amrywio rhwng cywydd a chywydd, fel y nodir isod, at ei gilydd gellir dweud bod y bardd yn weddol gyson o ran ei arferion. Y mae canran y groes rhwng 45% a 55% mewn 45 cerdd, sef yn fras, mewn un cywydd o bob dau. Nid yw dosbarthiad y cynganeddion yn wahanol ychwaith mewn mathau penodol o ganu:

	yr holl ganu	y canu crefyddol ²²⁶	y canu serch ²²⁷
croes	49%	48%	49%
traws	21%	22%	24%
sain	22%	23%	19%
llusg	8%	7%	8%

Ceir darlun digon tebyg o edrych ar bedwar cywydd gofyn a diolch:

croes	50%
traws	16%
sain	25%
llusg	9%

Gwelir bod y mymryn lleiaf o amrywio wrth ddadansoddi amllder y cynganeddion yn y canu i deuluoedd penodol. Cynrychiola'r groes 45% o linellau'r cywyddau i deulu'r Argoed ond 53% i aelodau o deulu Tretŵr:

	Yr Argoed ²²⁸	Porthgogof ²²⁹	Tretŵr ²³⁰
croes	45%	49%	53%
traws	22%	23%	15%
sain	22%	20%	22%
llusg	11%	8%	10%

Mewn deg cywydd defodol, mewn dau gywydd crefyddol ac mewn un cywydd serch, gwelir bod canran y groes yn is na 40%. Y mae'r ganran yn 27% yng ngherdd 24 ond y mae hon yn anghyflawn ac o bosibl yn rhoi darlun camarweiniol. Ond ceir yr un ganran yn y cywydd moliant i Ffyllib Fychan o'r Tyle-glas (cerdd 42) ac nid oes esboniad amlwg yn ymgyngig. Y

²²⁵ GDID xix, xxiv.

²²⁶ Cerddi 93–102.

²²⁷ Cerddi 103–9.

²²⁸ Cerddi 1–5.

²²⁹ Cerddi 31–4.

²³⁰ Cerddi 46–58.

mae'r ganran yn 33% yn y cywydd marwnad i Lywelyn ap Gwilym a Siwan ei wraig (cerdd 33) ond y mae'r ganran yn uwch yn y canu i deulu Porthgogof, fel y nodwyd uchod. Yn yr un modd y mae'r ganran yn 38% mewn un cywydd i Domas Fychan, Tretŵr (cerdd 49), ond y mae'r groes yn amlycach o edrych ar y canu i holl aelodau'r teulu. Y mae un o'r ddau gywydd i Syr Roser Fychan, tad Tomas Fychan, yn cynnwys un o'r canrannau uchaf, sef 67% (cerdd 47). Digwydd y ganran uchaf, sef 75%, mewn cywydd i Rys ap Siancyn o Lyn-nedd (cerdd 75). Y mae hwn yn gywydd anghyffredin am fod y bardd yn cynnal trosiad estynedig o'r dechrau hyd y diwedd. Dywed y bardd mai *Gŵr hoff ei dasg o grefft wyf*, ac â yn ei flaen i'w gyffelybu ei hun i wëydd: *Gwëydd ydwyf, gwe ddidwyll, / Gwau yn bêr a wn gan bwyll.*²³¹ Ymddengys fod y trosiad estynedig, ynghyd â mynychder y groes, yn tystio i'w gamp ar yr achlysur hwn.

Yn nosbarth y gynghanedd groes, cynnwys y cyfanswm o 2679 llinell 153 o linellau croes o gyswllt, sef 6% o'r holl linellau croes. O blith y llinellau croes o gyswllt y mae 62 llinell, sef 40% o'r llinellau yn yr is-ddosbarth hwn, y gellid eu disgrifio yn llinellau croes sydd yn cynnwys cytsain wreiddgoll.²³² Dewiswyd eu dosbarthu gyda'r llinellau croes o gyswllt am fod y gytsain yn cael ei hateb yn ddiethriad, er enghraifft:

croes o gyswllt / *n* wreiddgoll Na thai **gwin** eithia' Gwynedd
(6.26)²³³

croes o gyswllt / *r* wreiddgoll Reoli'r **gŵr** êl ar gam (43.6)²³⁴

croes o gyswllt / *m* wreiddgoll Maen a wyddam ei nyddu (54.33)²³⁵

croes o gyswllt / *f*led-lafarog Ef a ddeisyf y ddwysir (40.20)²³⁶

Dwy linell yn unig sydd yn cynnwys cynghanedd groes o gyswllt gymhleth:

A'r llwyn arall yn irion (15.36)

Ni chawn gennwch un gennad (51.47)

Mewn un llinell y ceir croes o hanner cyswllt:

A bair y cwypm i rai cas (70.24)

Gwelwyd deg llinell sydd yn cynnwys croes o gyswllt ewinog lle y bydd dwy gytsain, y naill ar ddiwedd y rhan gyntaf a'r llall ar dechrau'r ail ran, yn caledu. Ni chyfeiriwyd at y rhain yn y nodiadau, er enghraifft:

Torri coed **deri** cedyrn (9.40)

Can Nadolig, **hen** dylwyth (26.35)

Peren o **fab**—**barwn** fydd (48.16)

²³¹ 75.6, 7–8.

²³² Gelwir sylw at y llinellau hyn yn y nodiadau ar y cerddi unigol.

²³³ Gwelwyd 38 engh. yn y cywyddau.

²³⁴ Gwelwyd 16 engh. yn y cywyddau.

²³⁵ Dyma'r unig engh. yn y canu.

²³⁶ Gwelwyd 7 engh. yn y cywyddau.

Ni ddigwydd y caledu disgwylidig bob tro, fodd bynnag.

Diod a bwyd **hyd** y bedd (87.26)

Dan ei chnawd **dwyn** i chwi nef (97.18)

Ni cheir caledu bob tro ychwaith pan fydd dwy gytsain feddal yn dilyn ei gilydd, neu pan fydd *h* yn dilyn cytsain feddal:

Bod rhwng ei bedwar angel (76.52)

Prydu hanner pryd honno (96.10)

Od wyd fyw dywaid **dy** fod (108.56)

Niferus yw'r llinellau sydd yn cynnwys y cytseiniaid canolgoll *n*, *r* ac *m*. Am fod y rhain mor gyffredin ni chyfeiriwyd atynt yn y nodiadau. Gwelwyd 173 *n* ganolgoll, 135 *r* ganolgoll a 61 *m* ganolgoll yn y cywyddau. Fe'u ceir felly yn 14% o'r llinellau croes. Prin yw'r cywyddau nad ydynt yn cynnwys yr un llinell ac ynddi gytsain ganolgoll.

Yn achlysurol y gwelir llinellau sydd yn cynnwys sain gadwynog a sain drosogl. Gwelwyd tri ar ddeg o'r gyntaf a chwech o'r ail, a chyfrif y rhain am lai na 2% o'r holl linellau sain.

Eithriad yw'r llinellau hynny sydd yn cynnwys y beiau trwm ac ysgafn, proest i'r odl, twyll gynghanedd a chamosodiad. Er bod gan J. Morris-Jones drafodaeth ar y rhain o dan y pennawd 'Y beiau gwaharddedig',²³⁷ efallai fod disgrifiad Simwnt Fychan yn y 'Pum Llyfr Kerddwriaeth', sef *beia*v *gocheladwy*, yn fwy cywir.²³⁸ Y mae pedair gwedd ar gynganeddion Hywel Dafi y tâl cyfeirio atynt yn y cyswllt hwn. Yn gyntaf, y mae crych a llyfn yn amlycach na'r beiau eraill a digwydd ar ddeuddeg achlysur. Sylwodd D. Johnston fod y bai hwn yn amlwg yng ngwaith Lewys Glyn Cothi,²³⁹ cyfoeswr mwyaf toreithiog Hywel Dafi, ac yn fwy diweddar galwyd sylw at fynychder y bai yng ngwaith Dafydd Epynt, yntau.²⁴⁰

Yn ail, gwelir bod yr acen yn disgyn yn fynych ar air gwan, a hynny mewn cynganeddion cytseinol ac odledig fel ei gilydd.²⁴¹ Digwydd y geiriau *fal* a *ni* yn safle'r acen, ond rhoi arddodiad neu gysylltair mewn safle bwysig yn y llinell o ran yr acen a wna'r bardd fel arfer, sef *ar*, *dan*, *dros*, *er*, *heb*, *hyd*, *rhwng*, *wrth*. Cyfeirir yn y nodiadau at bedwar achlysur ar bymtheg lle y digwydd hyn, er enghraifft:

c ynganeddion cytseinol

A'r tafod **er** tyfu dawn (75.13)

Difost **wrth** dyfu ystad (79.22)

O Dywi **hyd** Dawy hen (80.42)

²³⁷ J. Morris-Jones: CD 298–309.

²³⁸ GP 124.

²³⁹ GLGC xxxiv. Gwelwyd 63 engh., un ym mhob pedair cerdd ar gyfartaledd.

²⁴⁰ GDEp 20.

²⁴¹ Nododd O. Thomas mai peth anghyffredin oedd hyn yng nghanu Dafydd Epynt, gw. GDEp 20.

y gynghanedd sain

Hyd **ar** ddaear Iddewon (70.48)
Y bûm **ar** dalar y don (82.8)
Ni wŷr **neb** a fo **heb** hawl (98.11)

y gynghanedd lusc

Trof i **ar** dy lys **ar**aul (1.23)
Od oes nef **ar** ddaearen (68.55)²⁴²

Yn drydydd, y mae'n amlwg fod y bardd yn weddol hyblyg pan fydd yn cynganeddu geiriau sydd yn cynnwys y cyfuniad *nd / nt*, a bydd y naill a'r llall yn ateb ei gilydd.²⁴³ Unwaith eto, digwydd hyn mewn cynganeddion cytseinol ac odledig:

llusc

Cefaist ei **rent** a'i **fendith** (4.55)
Nid âi Ddwywent un **fendith** (7.37)
Cyfod **rent** dy ddau **hendad** (8.39)

croes / traws

Cant awdl oedd i'ch **cyndeidiau** (8.59)
O'r **India** Fawr i **Went** fu (54.34)
Dwywent a lŷn **dan dy** law (49.19)
Oed a wnaethont; aen' weithian (32.61)

Yn yr olaf ond un ceir cyfatebiaeth *nt = -n d-*, a cheir cyfatebiaeth *d = (n)t* mewn cynghanedd groes o gyswllt yn yr olaf. Y mae'r gyfatebiaeth yn rheolaidd, fodd bynnag, yn y llinellau hyn:

$t = (n)t$	Tywysog ar Went Isaf (66.10)
$t = (n)t$	Treiglo o Gent i Raglan (69.25)
$-n t- = nt$	I'r un tŷ ym mro Went aeth (68.36)

Rheolaidd hefyd yw'r gyfatebiaeth yn y llinellau sydd yn cynnwys y cyfuniad *nc*:

$nc = -n c-$	Ieuanc ydoedd ein ceidwad (17.11)
$c = (n)c$	Y cair y gainc arwa' a gân' (65.10)
$c = (n)c$	Clander yw i fainc Lundain (77.40)
$c = (n)c$	Caru dyn ieuanc wiwrym (105.25)

²⁴² Sylwer ar yr enghrau. hyn o waith Lewys Glyn Cothi yn GLGC: i. gair gwan yn safle'r orffwyfa o *Westun nid / oes dyn well* (178.16), *A'm bod i'm / bywyd i wŷr* (210.13); ii. cynghanedd sain i'r cyrtiwr hir o *frig Tren* (42.60), *Am abad Margam y mae* (108.7), *pwysu ar ddaear ddwyWent* (120.21). Ni welwyd engh. yng nghanu Hywel Daf i o roi gair gwan yn safle'r brifodl fel y gwna Lewys Glyn Cothi yn achlysurol: *Duw gwyn a'i gad ynn i gyd am—ei dda* (89.9, yn odli â *Gam / fam / Wiliam*), *Mab Ieuan Fychan wyd fal / dy deidiau o waed Idwal* (156.5–6).

²⁴³ Gw. J. Morris-Jones: CD 219.

Tystia'r gynghanedd a'r odl mewn llinellau megis *Iawn etifedd Gwent hefyd* (43.9) a *Ei smonaeth wrth ddrws mynwent / Y sydd gwell no swyddau Gwent* (14.13–14) mai *Gwent* yn hytrach na *Gwend* oedd y ffurf a arferai'r bardd. Eto, y mae'n amlwg ei fod yn ymwybodol fod y llinellau a ddyfynnwyd yn anfodddhaol a cheisiodd sicrhau eu bod yn gywir i'r llygad o leiaf trwy ysgrifennu *rend* (*Cefais ei rent a'i fendith*) a [*G*]wend (*Nid âi Ddwywent un fendith, O'r India fawr i Went fu, Dwywent a lŷn dan dy law*). Felly hefyd yn achos y llinell *Cant awdl oedd i'ch cyndeidiau lle yr ysgrifennodd cyntteidiav*. Ond *rent* yn hytrach na *rend* a roes ar gyfer y llinell *Cyfod rent dy ddau hendad*. Y llinell *Oed a wnaethont; aen' weithian yw'r unig un nas ceir yn llaw'r bardd*.²⁴⁴

Dilynodd John Davies, Mallwyd, ddarlleniadau Pen 67 wrth iddo drawsysgrifo'r cerddi yn Pen 99, ond ni wnaeth hynny bob tro. Yn achos *Nid âi Ddwywent un fendith*, diwygiodd *ddwywend* Hywel Dafï yn *ddwywent* cyn i David Ellis yn ei dro adfer darlleniad gwreiddiol y bardd. Sylweddolodd David Ellis fod y llinell *Cyfod rent dy ddau hendad*, hithau, yn ddiffygiol a mabwysiadodd y darlleniad *rend* er mai *rent* oedd yn ei gynsail.²⁴⁵

Yn bedwerydd, ymddengys fod y bardd yn barod i dderbyn y gyfatebiaeth $n = m$. Mewn un llinell ceir y gyfatebiaeth o dan yr acen: *Pumaib a roed i'm pennaeth* (9.47). Anodd bod yn sicr ynglŷn â hyn y troeon eraill am fod modd cynnig esboniad amgen, sef bod y llinellau dan sylw yn cynnwys n wreiddgoll ac m ganolgoll. Efallai fod yr arfer yn un mwy cyffredin nag a dybiwyd. Y mae lle i gredu bod llinellau o'r math hwn yn gymeradwy i feirdd eraill.²⁴⁶

Ni byddaf fi o'm bodd fud (3.27)

Na ddwg arf am dda gwirion (11.28)

Ni bu demig mab Domas (12.27)

No geiriau ffeilst am gorff hwn (49.46)

Na ado'r naill o'm dwrn i (56.28)

Yna gwelir am gelwydd (98.51)

Sylwodd Owen Thomas fod cywyddau Dafydd Epynt yn bur reolaidd o ran eu hyd, a bod y rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys rhwng 50 a 60 llinell.²⁴⁷ Y mae'r un peth yn wir am Hywel Dafï. Y mae cynifer â 21 cywydd yn cynnwys 56 llinell, a 22 cywydd arall yn cynnwys naill ai 52 neu 54 neu 58 llinell. Y mae'r cywyddau crefyddol yn hwy ac yn cynnwys ar gyfartaledd 70 llinell. Y mae'r cywyddau gofyn a diolch yn hwy eto ac yn cynnwys 72

²⁴⁴ Y mae'r gynghanedd yn gywir er bod yr orgraff yn anghyfarwydd yn y llau. hyn o waith Rhisiart ap Rhys, gw. GRhB 14.24 *maend, ei alon, mewn dilyw*, 28.31 *Adnabyddynd yn beddyd, 37.22 gan lawnd ymgynnal yndyn*.

²⁴⁵ Trafodir y modd y diwygiodd John Davies a David Ellis eu cynseiliau yn A.C. Lake, '“O gedais lythr yn eisiau”': llawysgrif Peniarth 67 a'i disgynyddion', LICy 37 (2014/15), 1–18.

²⁴⁶ GLIGt 13.

²⁴⁷ GDEp 18.

llinell ar gyfartaledd. Hoffter y bardd o ddisgrifio trwy ddyfalu sydd yn esbonio hyd y dosbarth olaf hwn.

Diogelwyd chwe awdl sydd yn cynnwys rhyngddynt 478 llinell. Y ddwy awdl i ddau aelod o dylwyth yr Hafartiaid yw'r ddwy fyrraf. Cynnwys y rhain 64 llinell yr un. Y mae'r awdl i Edward IV ac i Wiliam Herbert, yr ail iarll Penfro, yn hwy ac yn cynnwys 94 llinell. Un esboniad ar hyd yr olaf yw'r enwau a fydryddir wrth i'r bardd alw ar lu o saint a deisyf eu bendith i sicrhau bod y ddau ŵr yn dychwelyd yn ddiogel o'u cyrch milwrol yn Ffrainc.

Defnyddiwyd cyfanswm o bedwar mesur ar ddeg yn yr awdlau, sef:

- i. mesurau a gysylltir â'r cywydd: llinellau saith sill sydd yn proestio, traethodl²⁴⁸
- ii. englynion: englyn unodl union, englyn proest cyfnewidiog, englyn proest cadwynog, englyn cyrch
- iii. awdlau: gwawdodyn byr, gwawdodyn hir, clogyrnach, toddaid, byr-a-thoddaid, hir-a-thoddaid, cyhydedd hir, tawddgyrch cadwynog

Yr awdlau symlaf o ran eu cynllun yw'r ddwy i Edward IV a Wiliam Herbert ac i Wiliam Fychan o'r Penrhyn. Egyr y ddwy hyn â chadwyn o englynion unodl union a ddilynir gan brif adran ar un mesur, sef cyfres o doddeidiau yn achos y gyntaf a chyfres o benillion ar fesur y gwawdodyn hir yn achos yr ail. Ar y llaw arall, cynnwys yr awdl i Forgan ap Tomas Llwyd ddeg mesur gwahanol, a diweddir â phedwar pennill tawddgyrch cadwynog. Englyn proest cyfnewidiog sydd yn cloi awdl farwnad Gwenllïan Hafart a'r awdl i Domas Gwyn ap Siancyn. Yr oedd cloi awdl ag englyn proest neu englyn unodl union, neu weithiau â'r naill a'r llall, yn ddyfais yr oedd Lewys Glyn Cothi yn hoff ohoni. Y mae naw ar hugain o'i awdlau ef yn gorffen yn y dull hwn.²⁴⁹ Ar y llaw arall, dim ond un o awdlau Guto'r Glyn sydd yn cloi ag englyn.²⁵⁰ Cynhelir yr odl *-ys* yn ail ran yr awdl i Lewys Hafart gan alluogi'r bardd i ailadrodd yr enw priod *Lewys* ar ddiwedd pob pennill ar fesur y gwawdodyn hir. Gwneir peth tebyg yn yr awdl i Wiliam Fychan. Yr un yw'r mesur ond yr odl y tro hwn yw *-am*. Ailadroddir *Wiliam* ar ddiwedd saith o'r penillion.

Y mae'r cyhydedd hir yn un mesur a welir ar waith yn yr awdl i Forgan ap Tomas Llwyd. Diogelwyd dyrnaid o gwpledi ar yr un mesur yn llaw'r bardd yn Pen 67, a dyfelir bod y rhain yn ddrylliau o awdlau a gollwyd.²⁵¹

²⁴⁸ Rhennir y mesurau yn y gramadegau barddol yn *eglynion*, *ac odleu*, a *chywydeu*, gw. GP 6. Er hwylustod rhoddwyd y llau. sydd yn proestio a'r llinellau ar fesur y traethodl yn y dosbarth 'cywyddau' am mai'r llinellau seithsill cyfarwydd a geir yn y naill a'r llall.

²⁴⁹ Gw., e.e., GLGC cerddi 12, 14, 29, 38, 52.

²⁵⁰ GG.net cerdd 113.

²⁵¹ Cerddi 41, 88, 90, 91. Y mae'n amlwg fod pedwar cwpled cerdd 88 yn rhan o awdl hwy am fod y ddalen flaenorol wedi rhwygo a honno'n cynnwys olion dechrau neu ddiwedd llau. Drylliau digyswllt a ddiogelwyd yn achos y tair cerdd arall.

Nid oes odl yn safle'r brifodl yn y cwpledi hyn ac nid oes cynghanedd yma ychwaith er bod cyfatebiaeth gytseiniol rhwng yr orffwysfa a'r brifodl. Defnyddir y mesur yn fwy crefftus yn yr awdl gyfan; y mae'r ddau gwpled yn odli ac yn cynnal y brifodl yn y rhan hon o'r awdl. At hyn ceir cynghanedd gyflawn mewn dwy linell a chyfatebiaeth gytseiniol amlwg yn y ddwy arall. Y mae lle i gredu bod y mesur hwn yn cael ei ddefnyddio mewn dull digon llac ar brydiau, ac y mae'r drylliau sydd ar glawr yn ategu hynny.²⁵²

Y mae'r arferion gyda golwg ar y gynghanedd yn wahanol yn yr awdlau i'r hyn ydynt yn y cywyddau. Dadansoddwyd y cynganeddion yn yr englynion yn gyntaf ac ym mesurau hir yr awdl yn ail:

Englynion: cyfanswm llinellau 127²⁵³

croes	42%
traws	16%
sain	36%
llusg	6%

Awdlau: cyfanswm llinellau 309²⁵⁴

croes	38%
traws	3%
sain	57%
llusg	2%

Y mae rhyw gymaint o debygrwydd rhwng yr englynion a'r cywyddau ond bod canran y groes ychydig yn is yn yr englynion, a'r sain a'r draws rhyngddynt yn cynrychioli 52% o'r llinellau yn hytrach 43%. Y groes a'r sain yw'r cynganeddion pwysicaf o bell ffordd yn yr awdlau ac yn anfynych y defnyddir y draws a'r lusg. Gall y darlun fod yn wahanol iawn o graffu ar yr awdlau yn unigol ond y mae a wnelo hyn â natur y mesurau. Y mae'r sain i'w gweld yn 82% o linellau ail ran awdl farwnad Gwenllian Hafart ac yn 70% o linellau'r awdl i Edward IV a Wiliam Herbert. Yr un yw'r mesur yn y ddwy hyn, sef cyfres o doddeidiau, a dyma esbonio'r tebygrwydd rhwng y ddwy. Y gwawdodyn hir yw'r mesur yn yr awdlau i Lewys Hafart ac i Wiliam Fychan ar y llaw arall, ond y mae canran y sain yn bur wahanol yn y ddwy, 31% yn y gyntaf a 61% yn yr ail.

Cerddi ansicr

A: Cerddi y bernir mai Hywel Dafî a'u canodd

Archwn i Fair a bair byd (cerdd 97)

Bu'r cywydd hwn i Fair yn bur boblogaidd; fe'i diogelwyd mewn deunaw ffynhonnell a gopiwyd cyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Fe'i rhoddir i

²⁵² Gw. nodyn brig cerdd 41.

²⁵³ Gan gynnwys y mesurau sydd yn perthyn i adran 'y cywydd', gw. td. 45 uchod.

²⁵⁴ Methwyd â dosbarthu un llinell.

Iolo Goch yn y rhan fwyaf o'r ffynonellau, ond diogelwyd copïau hefyd wrth enwau Hywel Dafï a Thudur Aled. Serch hynny, y mae'n amlwg fod ansicrwydd ynghylch y priodoli o gyfnod cynnar. Nodwyd yn BL Add 14967, a gopiwyd yn ail chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg, *Ni wn pwy yw r prydydd*, ac ychwanegwyd ar ddiwedd Llŷst 167 *Ni vn i pwy ai kant*. Ni chofnodwyd enw bardd yn Pen 73 (ail chwarter yr 17g.) ac y mae'r cywydd yn anghyflawn, ac felly yn ddienw, yn LIGC 17113E (ail chwarter yr 16g.) am fod y ddalen a oedd yn cynnwys y deunaw llinell olaf wedi diflannu. Ar sail pum copi yn llaw Llywelyn Siôn, ynghyd â LIGC 13061B, y rhoddir y cywydd i Hywel Dafï. Y ffynhonnell gynharaf sydd yn rhoi'r cywydd i Dudur Aled yw LIGC 6499B (hanner cyntaf yr 17g.).

Gosodwyd y cywydd yn IGE cerdd XXXIV ac yn IGE² cerdd XXXI mewn adran 'Ansicr' gyda cherddi eraill a briodolwyd i Iolo Goch ond na ellid bod yn sicr ynghylch eu dilysrwydd. Yn y rhagymadrodd yn IGE lxii–lxiii, awgrymodd Henry Lewis fod y cywydd hwn a'r cywydd *Baich ar ei braich oedd ei brawd* yn debyg o ran eu cynnwys a'u harddull i ddau gywydd o waith Hywel Swrdwal, 'onid Hywel ei hun, yn wir, a'u canodd', gw. GHS cerdd 22 ac *ib.* 12–13; ni allai D.F. Evans dderbyn bod yr ail, sef *Y fun deg a fendigwyd*, yn waith y bardd. Cyn cyhoeddi IGE, fodd bynnag, yr oedd C. Ashton, IG cerdd LXVII, wedi ailadrodd amheuan Iolo Morganwg ynghylch y priodoli. Ychwanegodd Iolo ar ddiwedd ei drawsysgrifiad yn BL Add 14970: *Iolo Goch ai cant medd llyfr R Jones nage, nid oedd na'r cynghaneddau na'r cymmeriadau y sydd [] a'n adnabyddus yn amser Iolo goch. y mae'r cywydd hwn i'w weled [] aml dan enw [] ond yma'n unig y gwelais [] dan enw Iolo Goch. Iolo Morganwg.* Ysyaeth, ni allai Iolo ddwyn enw'r bardd i gof a gadawodd fwllch yn ei nodyn. Dyfynna C. Ashton sylw Silvan Evans, IG 570: 'Y mae yr iaith a'r gynghanedd yn rhy lithrig i Iolo Goch. Yn ol y *Llyfr Hirfain*, Tudur Aled yw awdwr y cywydd hwn. Rhy brin y gall fod yn waith Iolo Goch, pwy bynag yw ei awdwr'. Collwyd y '*Llyfr Hirfain*', a chollwyd hefyd gysail Iolo, sef llyfr 'R Jones' (ai Rhys Jones o'r Blaenau?).

Y mae un ystiriaeth fewnol o blaid priodoli'r cywydd i Hywel Dafï. Ymddengys mai yn ystod mordaith y canwyd y cywydd, a hynny ar Fôr Rudd. Gwyddys i'r bardd hwylio i Sbaen pan aeth ar bererindod i Santiago, ac nid annichon mai'r siwrnai honno oedd achlysur ei fyfyrdod am y modd y byddai Mair yn amddiffyn y sawl a oedd mewn helbul neu mewn *mieri*. Yn ei gywydd pererindod geilw'r bardd ar Grist, ar Fair ac ar y saint i'w ddwyn yn ddiogel yn ôl i Gymru, gw. 94.41–52. Cynhwyswyd y cywydd yn betrus ymhlith cerddi Hywel Dafï.

Ar waith aur a myrr a thus (cerdd 19)

Priodolir y cywydd i Hywel Swrdwal yn Stowe 959, ond ychwanegodd y copiwr *Howel Davydd ap Jevan ap R Ai kant medd Rai*. Ni roddir y cywydd

i Hywel Swrdwal yn yr un ffynhonnell arall ac ni wnaed achos dros ei briodoli iddo yn GHS 10.

Daly neithwyr, delwi wneuthum (cerdd 109)

I Hywel Dafï y rhoddir y cywydd yn y ffynhonnell gynharaf, sef Card 2.114 (1564–6), ond wrth enw Dafydd ap Gwilym y mae yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau, pedwar wedi eu llunio cyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn Card 4.330 yn llaw Thomas Wiliems (c. 1574) y mae'r testun cynharaf sydd yn rhoi'r cywydd i Ddafydd. Ni allai Thomas Parry, GDG clxx, dderbyn bod y cywydd wedi ei lunio yn y bedwaredd ganrif ar ddeg ar gyfrif yr arddull gypedol yn fwyaf arbennig. Cynigiodd A. Breeze, 'Hywel ap Dafydd o Raglan ac *OBWV*, rhif 59', *LlCy* 17 (1992–3), 137–9, fod achos cryf dros roi'r cywydd i Hywel Dafï am fod sawl trawiad cyffredin yn y cywydd hwn ac yn y cywydd i Fair Forwyn (cerdd 96). Trafodir y pwnc ymhellach yn A.C. Lake, 'Cywydd Gwenonwy', *Dwned*, 19 (2013), 59–79, ac ategir barn A. Breeze fod modd cyfrif y cywydd hwn yn un o weithiau dilys y bardd.

Dall yw'r byd o deallir (cerdd 98)

Priodolwyd y cywydd i Hywel Dafï ym mhob copi ac eithrio LIGC 13079B a LIGC 15543B sydd yn ddiennw (ond cynnwys LIGC 13079B gywyddau duwiol eraill wrth enw Hywel Dafï), a LIGC 13081B lle y'i rhoddir i Siôn Cent. Fel y nododd M.P. Bryant-Quinn yn ASCent 6, 'Y mae tystiolaeth lawysgrifol gadarn o blaid derbyn mai Hywel ap Dafydd ab Ieuan (Hywel Dafï) yw awdur y cywydd hwn.'

Ein tadmaeth dan Saint Edmwnt (cerdd 24)

Y mae'r cywydd yn anghyflawn ac o'r herwydd yn ddiennw, ond y mae lle i gredu mai Hywel Dafï a'i canodd am mai ei waith ef yw'r saith cywydd blaenorol yn Pen 67 sydd yn ei law.

Gorweddiog y gorweddai (cerdd 100)

Y mae lle i gredu bod dau gywydd wedi eu cymysgu ac efallai mai Ieuan Brydydd Hir a ganodd rai o'r llinellau. Trafodir y ddau fersiwn o'r cywydd yn fanwl yn y nodyn brig.

Gŵr wyf, nid rhaid gorafun (cerdd 96)

Priodolir y cywydd i Hywel Dafï ym mhob copi sydd ar glawr ond dyfynnir un llinell yng ngeiriadur John Davies, Mallwyd, a'i rhoi i Harri Hir.

Lewys a wnâi lys yn ei wlad (cerdd 28)

Diogelwyd yr awdl yn llaw Hywel Dafï yn Pen 67 ond i Huw Cae Llwyd y'i rhoddir yn LIGC 17121D, casgliad a gopïwyd tua chanol yr unfed ganrif ar

bymtheg ar gais Rhoser Fychan, Porth-aml, neu ei fab. Dyfynnwyd ambell ddryll yn Llst 55 hefyd ac enw Huw Cae Llwyd sydd i'w weld yma eto.

Llariaidd farwnaidd Frynach (cerdd 81)

Rhoddir y cywydd hwn i Wilym Tew yn Pen 83, llawysgrif a gopiwyd yn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg.

Mae un gŵr yma'n gorwedd (cerdd 30)

Copiodd Siôn Dafydd Rhys y llinell gyntaf a'r chwe llinell olaf yn Llst 55 ond o dan enw Huw Cae Llwyd. Am fod y cywydd yn cael ei roi i *Ho Davi* yn Pen 67 efallai fod angen bod yn wyliaidwrus ynghylch y priodoli yn Llst 55, a cf. y sylwadau ar y gerdd *Y gŵr ieuanc a grewyd*.

Maredudd, marw yr ydwyf (cerdd 25)

Diogelwyd 48 llinell o'r cywydd yn Pen 67 ond collwyd y diwedd ynghyd ag enw'r bardd am fod cyfres o ddalennau yn eisiau. Copiwyd y cywydd gyda cherddi eraill Hywel Dafï yn Pen 99, ac nid oes lle i amau nad ei waith ef yw hwn.

Mi a' i'r wlad lle mae'r wledd (cerdd 83)

Am fod y cywydd wrth enw *Ho Davi* yn Pen 67 gellir ei hawlio yn hyderus, ond fe'i rhoddir mewn naw llawysgrif i Guto'r Glyn. Dengys y darlleniadau fod yr naw hyn yn rhannu cysail gyffredin. Copiodd John Davies y cywydd yn yr adran ar ganu Guto'r Glyn yn Pen 99, ac o'r herwydd anwybyddodd y cywydd pan gofnododd ei gasgliad o ganu Hywel Dafï yn nes ymlaen yn yr un llawysgrif ar sail y deunydd sydd yn Pen 67. Ni chynhwyswyd y cywydd yn GGI² nac yn GG.net.

O bŵm i wallus a phrif esgeulus (cerdd 91)

Darn o awdl ddiennw yn llaw Hywel Dafï yn Pen 67. Gw. *Ple'r af y gwyliau at y gwalch gwinau*.

Od ymofyn dyn na dau (cerdd 59)

Ychwanegwyd enw Dafydd Llwyd ar ôl enw Hywel Dafï yn y llawysgrif gynharaf sydd, fe ymddengys, yn llaw Rhys Fardd.

O Wysg i'r Ddiserth, os caiff yn brydferth (cerdd 88)

Darn o awdl ddiennw yn llaw Hywel Dafï yn Pen 67. Gw. *Ple'r af y gwyliau at y gwalch gwinau*.

Ple'r af y gwyliau at y gwalch gwinau (cerdd 41)

Darn o awdl ddiennw yn llaw Hywel Dafï yn Pen 67, cf. cerddi 88, 90, 91. Yr un yw'r mesur yn y tri hyn ac awgryma hynny mai'r un bardd a'u lluniodd.

Ni chopïodd John Davies, Mallwyd, y pedwar darn yn Pen 99 er iddo gopïo sawl darn hwy oedd yn anghyflawn a gadael lle ar gyfer y llinellau coll. Tybed a oedd yn barnu nad Hywel Dafï a ganodd y rhain, a hynny am fod y mesur yn afreolaidd? Yn arwyddocaol dewisodd gopïo'r ddau gwpled dienw ar fesur y cywydd sydd yn y llawysgrif, gw. *Tair llaw'n caer fal tri llwyn coed*. O blith y drylliau yn Pen 67 dyma'r unig un y gellir bod yn sicr am y sawl a gyferchir. Tomas ap Siancyn o'r Slwch yw gwrthrych y moliant, a chan fod Hywel Dafï wedi ei gyfarch ar achlysuron eraill bernir yn betrus mai ef a luniodd y darn ynghyd â cherddi 88, 90, 91.

Rhodes Eiddig o gynfigen (cerdd 108)

Sail y priodoli i Hywel Dafï [Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys] yw'r pum copi sydd yn llaw Llywelyn Siôn ynghyd â'r tair ffynhonnell ddiweddarach sydd yn perthyn yn agos iddynt. Y mae'r cywydd yn ddienw yn Llst 135, ond ychwanegwyd yr enw *Huw dafydd* yn ddiweddarach. Y mae'r cywydd yn ddienw yn Bodley Welsh e 2 hefyd ond fe'i priodolwyd ar gam i Ddafydd ab Edmwnd am fod englyn o'i eiddo ef yn dilyn y cywydd. Cofnododd Siôn Dafydd Rhys nifer o linellau'r cywydd yn Llst 55, 56–7, ac yn unol â'i arfer nododd enw'r bardd uwchben y dyfyniadau. Nid enw Hywel Dafï ond enw Ieuan Du ap Dafydd ab Owain Gethin a ysgrifennodd. Bardd o sir Frycheiniog oedd ef a rhestrir y gweithiau a ddiogelwyd wrth ei enw yn MFGLI 1772. Ac eithrio un cywydd i annerch Ieuan Gethin, gw. Ieuan Gethin: Gw 9–10, gwelir bod y cerddi eraill sydd wrth ei enw yn cael eu priodoli i feirdd eraill ac anodd bod yn sicr o'r herwydd ynghylch cylch ei ganu. Ni restrir y cywydd hwn i Eiddig gyda'i weithiau hysbys yn MFGLI. Yn Llst 55 cyplyswyd llinellau o'r cywydd i Eiddig wrth linellau o gywydd i ddiolch am farch, ac y mae'n bosibl fod Siôn Dafydd Rhys yn barnu mai Ieuan Du a ganodd y rhain hefyd. Fodd bynnag, ar y ddau dudalen nesaf, Llst 55, 57–8, ceir sawl llinell sydd yn perthyn i 'Cywydd y Clo' ac y mae'r rhain wrth enw Hywel Dafï. Ceir yma hefyd ddynaid o linellau yr ymddengys eu bod yn perthyn i gywydd gwahanol, gw. Atodiad cerdd VI, adran vii.

Tair llaw'n caer fal tri llwyn coed (cerdd 92)

Dau gwpled yn llaw Hywel Dafï yn Pen 67 ac wrth ei enw, gw. y sylwadau ar *Ple'r af y gwyliau at y gwalch gwinau*.

Y byd rhwng ei bedwar ban (cerdd 101)

Diogelwyd y cywydd mewn rhyw 30 ffynhonnell, a dynmaid ohonynt wedi eu copïo yn yr ail ganrif ar bymtheg. Rhoddir y cywydd i'r beirdd hyn: Hywel Dafï, Hywel ab Adda ab Ieuan ap Tudur, Siôn Cent, Gruffudd Gryg a Hywel Srdwal. Y mae gwahaniaethau o ran hyd y cywydd a threfn y cwpledi, ac y mae hynny yn gysylltiedig â'r priodoli. 'Testunau cymysg iawn' oedd dyfarniad M.P. Bryant-Quinn, gw. ASCent 11. Hywel Dafï a

enwir yn y rhan fwyaf o'r ffynonellau sydd yn cynnwys Pen 84 (chwarter olaf yr 16g.). Enwir Siôn Cent yn CM 3 (yn llaw William Salesbury, c. 1564), Gruffudd Gryg yn Card 2.114 (1564–6), a Hywel Swrdwal yn LIGC 3049D (1560–80). Yn BL Add 14984 (ail hanner yr 17g.) yn unig yr enwir Hywel ab Adda, a dyma'r unig ddarn wrth ei enw yn MFGLI 1581. Y mae'r testun hwnnw yn dilyn yn ffyddlon drefn a darlenniadau'r testunau sydd yn rhoi'r cywydd i Hywel Dafï. Collwyd diwedd y cywydd yn BL Add 14971, a'i gyplysu wrth gywydd arall a briodolir i Iolo Goch.

Y mae'r llawysgrifau yn awgrymu mai Hywel Dafï neu Hywel Swrdwal a ganodd y cywydd. Y mae rhai cyfatebiaethau rhwng y cywydd hwn a chywydd arall i'r byd wrth enw Hywel Dafï, ac ar sail y rhain gellir gwneud achos dros briodoli'r cywydd iddo, gw. nodyn brig cerdd 101. Barnai D.F. Evans, ar sail nifer y priodoliadau yn bennaf, ei bod yn debycach mai gwaith Hywel Dafï sydd yma, gw. GHS 12; hefyd ASCent 11. 'Y mae tystiolaeth y llawysgrifau ar y cyfan yn erbyn eu priodoli i Ruffudd Gryg', gw. DGG² cii.

Y carw cwyrwallt un dwf ag Oswallt (cerdd 90)

Darn o awdl ddiennw yn llaw Hywel Dafï yn Pen 67. Gw. *Ple'r af y gwyliau at y gwalch gwinau*.

Y gleisiad mwnwgl asur (cerdd 82)

Priodolir y cywydd hwn a gopiwyd rhyw ddeg ar hugain o weithiau i Ieuan Tew Brydydd Hen yn Stowe 959 (a Card 2.3), yn LIGC 10893E ac yn LIGC 16964A, ond enw Hywel Dafï sydd i'w weld yn y gweddill. Cysylltir Ieuan Tew â Chydweli ac yno hefyd y trigai Owain Dwnn, gwrthrych y cywydd. Gallai hynny esbonio'r cambriodoli ond y mae ystyriaeth arall hefyd. Lluniodd Ieuan Tew gywydd gan anfon yr eog yn llatai, fel y gwneir yn *Y gleisiad mwnwgl asur*, ond at wraig briod yr anfonodd ef y pysgodyn. Er bod y cywydd hwnnw yn cael ei roi i Ddafydd Epynt ac i Wilym Tew, y mae wrth enw Ieuan Tew yn Stowe 959, sef y ffynhonnell sydd yn priodoli *Y gleisiad mwnwgl asur* iddo, gw. Stowe 959, 119^{r-v}. Y mae rhai rhannau sydd yn debyg yn y ddau gywydd a gallai hynny awgrymu mai Ieuan Tew a ganodd y ddau. Ni olygwyd ei ganu ond ar sail arolwg brysiog o'i gerddi ymddengys ei fod yn ei flodau yn ail hanner y ganrif; tua 1460 yw'r dyddiad a roddir yn CLC² 361. Y mae cyfeiriadau at frwydr Banbri (1469) yn rhai o'i gywyddau a pherthynai nifer o'i noddwyr i genhedlaeth 14 yn achau P.C. Bartrum (WG1; WG2), sef y rhai a aned oddeutu 1470. Bu Ieuan yn ymryson â Mastr Harri, gw. GPhE cerddi 8 a 9, ac *ib.* 113–16. Diogelwyd sawl cyfeiriad at Fastr Harri yng nghofnodion esgobaeth Tyddewi, a pherthyn y rheini i'r cyfnod rhwng 1488 a'i farw yn 1509. Ni ellir bod yn sicr ar hyn o bryd fod Ieuan Tew yn canu cyn gynhared ag 1449, sef dyddiad tybiedig llunio'r cywydd dan sylw, a gellir bod yn weddol hyderus, felly,

mai Hywel Dafï a ganodd y cywydd hwn i annerch Owain Dwnn pan oedd yn Iwerddon yng ngwasanaeth Rhisiart, dug Efrog.

Y Grog aurdroedog drydoll (cerdd 102)

Fe'i priodolir i dri bardd yn y llawysgrifau, sef Hywel Dafï, Ieuan ap Rhydderch a Siôn Ceri. Fe'i rhoddir i Siôn Cent hefyd yn MCF, ond ni ddigwydd ei enw ef wrth yr un copi hysbys, gw. ASCent 12. Ymddengys mai ar sail y golygiad print yn *Gwaith Sion Cent*, gol. T. Matthews (Llanuwchllyn, 1914), yr enwir Siôn Cent yn MCF. Ni nodir y ffynhonnell y seiliwyd y golygiad hwnnw arni yn y gyfrol. I Hywel Dafï y priodolir y cywydd yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau, a chan fod dau gopi yn llaw'r bardd, y naill yn Pen 54 a'r llall yn Pen 67, gellir rhoi'r cywydd iddo yn hyderus. Gellir diystyru'r un priodoliad i Siôn Ceri (yn llaw Wmffre Dafis yn Bodewryd 1) am fod y ddau destun cynharaf wedi eu copïo cyn ei ddyddiau ef. Y mae'n bosibl iddo gael ei enwi am fod Wmffre Dafis yn gwybod iddo gyfarch y Grog yn Aberhonddu, ond cywydd gwahanol yw hwnnw, gw. GSC cerdd 54. Rhoddir y cywydd i Ieuan ap Rhydderch mewn dwy lawysgrif y mae cyswllt clòs rhyngddynt, sef BL Add 14866 a Pen 112 (ond ychwanegwyd enw Hywel Dafï ar ôl enw Ieuan ap Rhydderch yn yr olaf), ynghyd ag un arall. Argraffwyd y cywydd gyda'i waith ef yn IGE cerdd LXXXII er bod y golygydd yn ymwybodol fod testun wrth enw Hywel Dafï yn Pen 67. Hepgorwyd y cywydd pan gyhoeddwyd adran newydd ar ganu'r bardd yn IGE² ac ategwyd y dyfarniad gan R.I. Daniel, golygydd gwaith Ieuan ap Rhydderch: 'Y mae arddull y cywydd yn symlach nag eiddo Ieuan ap Rhydderch a diau mai cywir oedd y penderfyniad i beidio â'i gynnwys yn IGE²', gw. GIRh 38.

Yr un geirwir angiriol (cerdd 62)

Diogelwyd darn di-enw yn Pen 67 ond bernir mai Hywel Dafï a'i canodd.

B: Cerddi ansicr

Bûm annwyl lle bûm unnos (Atodiad cerdd V)

Priodolir y cywydd hwn i bedwar bardd: Hywel Dafï, Huw Arwystl, Gruffudd Gryg a Thudur Aled. Gellir diystyru'r priodoliad i Dudur Aled yn Pen 245, oherwydd cyplyswyd y cywydd *Bûm annwyl lle bûm unnos* wrth gywydd arall, sef *Y ferch hirwen farchwriol*, a rhoddwyd y darn cyfan wrth ei enw. Argraffwyd y cywydd hwnnw gyda gwaith Tudur Aled yn TA cerdd CXXXIII. Ar gymysgu pellach gyda golwg ar y cywydd hwnnw, gw. y sylwadau yn GLMorg 26. Gellir diystyru'r priodoliad i Ruffudd Gryg hefyd. Yr hyn a ddigwyddodd yma eto yn y tri chopi wrth ei enw ef, un yn Pen 241 a dau yn CM 40, oedd fod llinellau'r cywydd *Bûm annwyl lle bûm unnos* wedi eu cyplysu wrth *Y ferch hirwen farchwriol*, ond lle yr oedd y ddau gywydd 'unigol' yn gyflawn yn Pen 245, 24 llinell o'r cywydd *Bûm annwyl*

lle bûm unnos yn unig a gofnodwyd ynghyd â 22 llinell o'r ail gywydd *Y ferch hirwen farchwriol* (y mae 44 ll. yn y testun sydd yn TA cerdd CXXXIII). Er nad oes pennawd yn Pen 241, dengys y brif lythyren fod y llinell *Y ferch hirwen farchwriol* yn ddechrau cywydd newydd, ond cysylltwyd y ddau gywydd yn y ddau gopi yn CM 40 yn ddiarwybod. Ni phriodolwyd *Y ferch hirwen farchwriol* i Ruffudd Gryg yn yr un llawysgrif.

Priodolir y cywydd i Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys yn Pen 99 a Pen 101, ond i Huw Dafî / Dafydd yn LIGC 13072B ac mewn pum testun yn llaw Llywelyn Siôn. Am fod Llywelyn Siôn yn arfer yr enw llawn wrth nodi awduraeth *Y fun un lliw ewyn llif*, gallai'r ffurf *Huw Dafî* mewn pum testun yn ei law awgrymu mai bardd arall oedd hwn, gw. y sylwadau isod ar y cywydd *Un ni phlyg er ofn na phlaid*. Ychwanegwyd yn Pen 99 *Mewn llyfr arall*, y mae *Enw Huw Arwystl wrth y Cywydd rhagflaenol*. Enwir y bardd hwnnw mewn saith llawysgrif. Y mae'r rhain yn ddiweddarach, a chan mai Hywel Dafî a enwir yn y ffynonellau cynharaf, efallai fod yr achos dros briodoli'r cywydd iddo ychydig yn gryfach. O ran yr arddull, ailadroddir yr un gair neu ffurfiau ar yr un gair mewn sawl cwpled: *rhwymiad*, *rhwymo* (ll. 26), *cystudd*, *cystuddiwr* (llau. 13–14), *wyneb* (llau. 15–16), *poen*, *poeni* (llau. 15–16). Ni ddigwydd hyn yn fynych yng nghanu Hywel Dafî, a dyna awgrym nad ef a ganodd y cywydd. Mydryddodd y bardd ei enw yn llinell 38; *Hywel* yw'r enw yn y copïau wrth enw Hywel Dafî a *Huw* yn y copïau wrth enw Huw Arwystl!

Rhown dref a nef yn un wedd (Atodiad cerdd III)

Priodolir y cywydd hwn i Hywel Dafî ac i Lywelyn ap Hywel ab Ieuan ap Gronw. Fe'i rhoddir i Hywel Dafî yn Pen 100 ac mewn llawysgrifau diweddarach sydd yn perthyn yn agos i destun John Davies, Mallwyd, sef Llst 133, LIGC 11816B, Abertawe 1 a Pen 197 (ill dwy yn llaw David Ellis), BL Add 10313, BL Add 14878 a LIGC 841E. Llywelyn ap Hywel a'i canodd yn ôl tystiolaeth Llst 6, Llywelyn Siôn (pedwar copi) ac Wmffre Dafis (Brog I.2).

Cynigir yn betrus fod Llywelyn ap Hywel yn ei flodau tua 1480 yn ôl ByCy 566, ond dangosir yn Ieuan Gethin: Gw xxii–xxxi ei fod wedi dechrau canu ryw ddeng mlynedd ynghynt. Y mae'r rhan fwyaf o'i gerddi yn rhai crefyddol, a gallai hynny fod yn ddadl o blaid rhoi'r cywydd iddo, gw. MFGLI 2443–4; TLIM 29–31. Copiwyd saith o'i gerddi gyda'i gilydd yn Brog I.2, a'r cywydd hwn i'r creiriau yn Rhufain yw'r olaf. Gwyddys bod Hywel Dafî wedi mynd ar bererindod i Santiago, gw. cerdd 94, ac nid annichon iddo deithio i Rufain hefyd. Yn ôl tystiolaeth un cwpled a ddiogelwyd yn Pen 100, aeth y bardd i Rufain rhwng Ebrill 1455 ac Awst 1458, pan oedd Calistus III yn bab. Nid oes unrhyw dystiolaeth fod Llywelyn ap Hywel yn canu yn ystod y 1450au, ond diogelwyd ei ach a'i osod yng

nghenedlaeth 13, sef y rhai a aned oddeutu 1430, gw. WG1 321; WG2 333–4. Cyhoeddwyd ei gywydd i erchi wŷn yn DGGD cerdd 15.

Prudd wyffal y parai ddyd

Mewn un llawysgrif yn unig y rhoddir y cywydd i Hywel Dafî, ond y mae tystiolaeth Llst 135 yn ddadlennol am ei bod yn perthyn i ardal Aberhonddu. Rhoddir y cywydd i Ieuan Dyfi mewn pum copi sydd yn llaw Llywelyn Siôn ac mewn ffynhonnell arall gynnar ac annibynnol, sef Pen 76 (tua chanol yr 16g.). Y mae'r cywydd yn ddiennw yn Brog I.1 (ychwanegwyd *dd ap Gwilim* gan law ddiweddarach) ac yn anghyflawn yn Pen 99. Argraffwyd y cywydd yn HCLl cerdd LXIII gyda gweithiau Ieuan Dyfi. Rhoddwyd ar frig y cywydd yn Pen 99 *Vn da i ferch*. Y mae'r cywydd yn un cyfoethog iawn o ran ei gyfeiriadaeth. Crybwyllir merthyrdod Lawrens a enwir yn y cywydd 'I Rufain a'i Rhyfeddodau', gw. Atodiad cerdd III.

Un ni phlyg er ofn na phlaid (Atodiad cerdd II)

Priodolir y cywydd hwn i erchi tarw i Huw Cae Llwyd, i Ddeio ab Ieuan Du ac i Hywel Dafî. Gadawyd bwlch ar gyfer enw'r bardd ar waelod y cywydd yn LIGC 3049D. Mewn un ffynhonnell yn unig y'i rhoddir i Ddeio, sef Brog I.6, llawysgrif sydd yn perthyn i'r gogledd-ddwyrain. Enwir Huw Cae Llwyd mewn saith ffynhonnell. At hyn, cofnododd Siôn Dafydd Rhys chwech o linellau'r cywydd yn Llst 55, 95, a'u priodoli i Huw Cae Llwyd. Ar y llaw arall, digwydd enw Hywel Dafî mewn pymtheg ffynhonnell, a'r ddwy gynharaf yn eu plith, sef BL Add 14967 a BL Add 14866. Diau mai gwall am Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys yw Ifan ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys LIGC 642B. Y mae pwnc yr awduraeth yn fwy cymhleth am mai Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys yw'r enw a roddir yn BL Add 14866 tra priodolir y cywydd i Hywel Dafî yn BL Add 14967. Awgryma'r enw *hyw davi o wynedd* yn LIGC 13062B fod angen gwahaniaethu rhwng ein bardd ni a hwnnw, a gwelir mai Huw Dafî a enwir yn y pum testun sydd yn llaw Llywelyn Siôn. Pedwar darn sydd wrth enw Huw Dafî o Wynedd yn MFGLl 1356, sef y cywydd hwn, y cywydd *Llywelyn â'r lliw alarch* (a briodolir hefyd i Huw Cae Llwyd ac i Hywel Rheinallt) a dwy gerdd rydd. Anodd gwneud achos o blaid priodoli'r cywydd iddo ef, ond anodd hefyd yw torri'r ddadl rhwng Hywel Dafî a Huw Cae Llwyd am fod cyn lleied yn hysbys am y rhoddwr a'r eirchiad (gw. y sylwadau ar y rhoddwr a'r eirchiad, a hefyd ar ddsbarthiad y cynganeddion yn y cywydd, yn y nodyn brig).

Dirymais oll drimis haf (cerdd 103)

Ar ôl paratoi'r golygiad a rhifo'r cerddi gwelwyd bod y rhan fwyaf o'r cywydd serch hwn yn rhan o gywydd sydd yn cael ei briodoli i Fedo Brwynllys, a hynny mewn dwy ffynhonnell, sef Pen 312 a CM 23. Y mae'r fersiwn hwn yn hwy ac yn cynnwys 16 llinell nad ydynt i'w gweld yn y

testunau wrth enw Hywel Dafî—chwech ohonynt ar ddechrau'r cywydd—er mai'r un yw trefn y llinellau yn y naill fersiwn a'r llall. Prin iawn yw'r gwahaniaethau o ran darlleniadau rhwng y ddau fersiwn. Y llinell gyntaf yn y fersiwn wrth enw'r Bedo yw *Y ddyn fwyn nid anfanol*. Rhaid derbyn felly bod ansicrwydd ynghylch y priodoli yn yr achos hwn.

Y dyn a'r gwallt dan aur gwiw

Cywydd yn dyfalu'r gwallt yw hwn. Fe'i rhoddir i Hywel Dafî (*Huw Dafî*) mewn pum testun yn llaw Llywelyn Siôn (gwallus yw'r tadogi ar Ddafydd ab Edmwnd yn LIGC 970E fel y mynnir yn RWM ii, 484), ond fe'i priodolir i Huw ap Dafydd yn Card 2.114 a Wy 1 a gopiwyd yn ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg. Cynhwyswyd y cywydd yn betrus gyda gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog, gw. GHD cerdd 23 ac *ib.* 10. Fe'i priodolir yn Pen 83, llawysgrif a gopiwyd yn y de ac sydd yn cynnwys llaw Dafydd Benwyn, i Lewys Glyn Cothi. Nid oes yr un cywydd serch y gellir ei dadogi yn hyderus arno ef er bod dau gywydd wrth ei enw ar glawr, gw. GLGC xxxvii. Priodolir y cywydd i Guto'r Glyn hefyd yn MCF er nad oes yr un ffynhonnell yn ei enwi ef.

Y fun addfwyn foneddfawr

Priodolir y cywydd serch hwn i bum bardd, sef Gwilym ab Ieuan Hen, Lewys Morgannwg, Robin Ddu, Llawdden ac Ieuan Tew Brydydd Hen. Fe'i golygwyd mewn atodiad i waith Gwilym ab Ieuan Hen yn GDID Atodiad B1 ar sail testunau sydd yn enwi Llawdden a Robin Ddu yn ogystal â Gwilym ab Ieuan Hen, ond heb gyfeirio at y beirdd hynny. Enwir Lewys Morgannwg mewn un ffynhonnell, gw. GLMorg 26, a Llawdden, yntau, mewn un (ond gthg. GLI 23 lle y nodir bod dwy ffynhonnell yn rhoi'r cywydd iddo). Priodolir y cywydd i Hywel Dafî ar sail y dyfyniadau a gofnododd Siôn Dafydd Rhys yn Llst 55. Enwir Robin Ddu mewn dwy ffynhonnell gynnar, sef BL Add 14866 (1586–7) a BL Add 14999 (ail hanner yr 16g.), ond i Ieuan Tew Brydydd y rhoddir y cywydd yn Pen 76 (canol yr 16g.).

Y fun un lliw ewyn llif (Atodiad cerdd I)

Priodolir y cywydd serch hwn sydd yn disgrifio llygaid duon y ferch i Hywel Dafî mewn deuddeg llawysgrif (tri ar ddeg o gyfrif y darnau yn Llst 55) ac i Fedo Aeddrem mewn un ar ddeg. Y mae canran y groes yn uwch yn y cywydd nag yng nghanu Hywel Dafî a gall hyn awgrymu nad ei gywydd ef yw hwn. Ar y llaw arall, digwydd y gair gwan *fal* yn safle'r acen neu'r odl mewn dwy linell. Gwelwyd sawl llinell debyg i hyn yng nghanu Hywel Dafî, gw. 'Cynghanedd' tt. 42–3. Trafodir y gwahaniaethau rhwng y copïau wrth enw'r naill fardd a'r llall yn y nodyn brig.

Y forwyn, ofwy araul (Atodiad cerdd IV)

Priodolir y cywydd hwn i Fair i bum bardd, sef Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys, Gwilym ab Ieuan Hen, Gruffudd ab yr Ynad Coch, Ieuan Brydydd Hir a Lewys ab Ieuan. Gellir anwybyddu'r priodoli i Ruffudd ab yr Ynad Coch (*fl.* 1277–82, gw. CLC² 289) er ei fod yn cael ei enwi yn BL Add 14979 a gopiwyd yn negawdau olaf yr unfed ganrif ar bymtheg, ac mewn pedair ffynhonnell ddiweddarach. Mewn un copi yn unig yr enwir Lewys ab Ieuan Hen, sef Chirk Castle A5 (*c.* 1630). Dyma'r unig gerdd wrth ei enw yn MFGLI 2233. Anodd yw dadlau o blaid rhoi'r cywydd iddo heb wybod dim amdano. Enwir Hywel Dafï mewn deuddeg ffynhonnell (ond y mae pump yn llaw Llywelyn Siôn) tra enwir Gwilym ab Ieuan Hen mewn wyth. Enwir y ddau mewn llawysgrifau a gopiwyd yn gynnar yn yr unfed ganrif ar bymtheg, sef Llst 6 (1510–30, Hywel Dafï) a Pen 181 (ar ôl 1509, Gwilym ab Ieuan Hen). Dwy lawysgrif gynnar arall sydd yn enwi Gwilym ab Ieuan Hen yw LIGC 17114B (*c.* 1560) a Card 5.165 (1565–72). Ymddengys fod ansicrwydd o gyfnod cynnar ynghylch awduraeth y cywydd. Y mae'n bosibl mai'r cywyddau eraill a ganodd i'r Forwyn Fair sydd yn esbonio'r priodoli i Hywel Dafï. Ar y llaw arall, tâl pwysleisio nad oes yr un cywydd crefyddol ymhlith gweithiau dilys Gwilym ab Ieuan Hen a gyhoeddwyd yn GDID. Mewn un ffynhonnell, sef Llst 125, yr enwir Ieuan Brydydd Hir, ond rhestrodd y copïwr enwau Gruffudd ab yr Ynad Coch a Gwilym ab Ieuan Hen hefyd (ac ychwanegwyd mewn llaw ddiweddarach *medd arall Howel ap dd ap Howel ap Rys*—gwall yn ddiau am Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys). Ni cheisiwyd gwneud achos dros hawlio'r cywydd i Ieuan yn GIBH 23–4 am fod y dystiolaeth mor fregus ac am fod y testun yn wallus, ond y mae angen amodi'r datganiad olaf; nid yw Llst 125 yn fwy llwgr na nifer o'r llawysgrifau eraill a ddiogelodd y cywydd.

*C: Cerddi y mae'n weddol sicr nad gwaith Hywel Dafï ydynt**Anna a wnaeth i nynt*

Bu'r cywydd hwn i Fair Forwyn yn cylchredeg yn helaeth, ac fe'i copïwyd ar ddeugain a phedwar achlysur; at hyn rhestrir y cwpled cyntaf yn Pen 221, sef y mynegai a baratoes John Jones, Gellilyfdy. Rhoddwyd y cywydd i wyth bardd: Iolo Goch, Siôn Cent, Hywel Swrdwal, Ieuan ap Hywel Swrdwal, Ieuan Brydydd Hir, Llawdden, Hywel Gowden Hir (yr unig ddarn wrth ei enw, gw. MFGLI 1639) a Hywel Dafï. Yn ôl D.F. Evans, GHS 11, 'A barnu wrth yr amrywiaeth yn y copïau gwahanol o ran cynnwys a threfn y llinellau, cesglir i'r gerdd gael ei throsglwyddo ar lafar am gyfnod. O ganlyniad, nid yw cymharu'r llawysgrifau yn ateb cwestiwn ei hawduraeth.' Argraffwyd y cywydd yn *ib.* cerdd 21 gyda gwaith Hywel Swrdwal am fod y rhan fwyaf o'r copïau yn priodoli'r darn naill ai iddo ef neu i'w fab, Ieuan, ond rhybuddiodd y golygydd hefyd, 'ni ellir bod yn sicr'. Y mae'n bosibl i'r

cywydd gael ei briodoli ar gam i Hywel Dafï am iddo ganu i'r Forwyn Fair ar fwy nag un achlysur, gw. cerddi 96–7 a hefyd Atodiad IV a roddir i Hywel Dafï ac i bedwar bardd arall. Er pan gyhoeddwyd GHS daeth dau ddryll o'r cywydd i'r golwg yn LIGC 6041D, 55 a Pen 241, 35, sef llinellau 27–8, 49–52. Enw Hywel Dafï sydd wrth y ddau hyn.

Damwain blin yw'r byd yma

Camgatalogio sydd yn cyfrif am roi'r cywydd hwn i Hywel Dafï. Deio ab Ieuan Du a ganodd y cywydd hwn i gymodi rhwng Rhys ap Maredudd o'r Tywyn a Gruffudd Fychan, Corsygedol, gw. GDID cerdd 1. Fe'i diogelwyd mewn rhyw deg ffynhonnell a thrigain ond am fod dalen yn eisiau yn LIGC 13064D cyplyswyd dechrau cywydd Deio a diwedd cywydd marwnad Hywel Dafï i Ieuan ap Hywel Swrdwal, gw. cerdd 86.

Duw Naf goruchaf, dy nawdd—rho arnaf

Gw. DLIM cerdd 80. Awdl 'I Ddeisyf Gras Duw rhag Caru Merch', ond gwaith Syr Huw Dafydd yw hwn ac nis priodolir i Hywel Dafï, gw. isod *Fy Nhad, drwy gennad gennyf—o fawlair*.

Dydi, 'r byd, od wyd ar ben

Cywydd ymddiddan â'r byd yw hwn ac i Wmffre (ap) Dafydd ab Ieuan y'i priodolir yn y chwe ffynhonnell. Camgymeriad oedd ei roi i Hywel Dafï yn MFGLI a MCF ar sail y priodoliad yn BL Add 14996, sef *H D ac Evan*. Diogelwyd y cywydd yn LIGC 19660B (copiwyd ar ôl 1646) sydd yn cynnwys casgliad helaeth o waith clochydd Llanbryn-mair (*fl.* 1620–60) ac yn Llst 42, llawysgrif arall sydd yn cynnwys nifer o'i gerddi, yn llaw Siôn Rhydderch y tro hwn.

Dyn o lwyth Juda yn lân

Darn chwe llinell sydd yn perthyn i'r cywydd 'Anna a wnaeth i nynti', gw. uchod.

Fy Nhad, drwy gennad gennyf—o fawlair

Ni ddylid bod wedi rhestru'r gerdd hon gyda gweithiau Hywel Dafï. Awdl i Dduw ydyw ac fe'i rhoddir i *Howel Ddavydd* yn Card 2.26 ond y mae'n symlach o ran ei mynegiant na chanu'r bymthegfed ganrif. Fe'i diogelwyd hefyd yn Llst 50 dan enw Syr Huw Dafydd, ynghyd â dwy awdl arall a briodolir iddo: un 'I Foliannu Duw a Dychanu'r Pab' a'r llall 'I Ddeisyf Gras Duw rhag Caru Merch'. Bu Syr Huw Dafydd yn cyfnwid englynion â Thomas Powel a Siâms Parry 'Eos Ewias' (*fl.* c. 1570–1625, gw. CLC² 566). Ceir golygiad o'r pum darn yn DLIM cerddi 78–82; gw. hefyd MFGLI 1362. Tebyg mai ef yw'r gŵr 'o Ewas, bardd tra enwog', gw. O. Jones, *Cymru: yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol* (2 gyfr., Llundain,

1875), ii, 661, a chyffesa'r bardd yn ei awdl 'I Ddeisyf Gras Duw Rhag Caru Merch': *Ni bu ddyn mewn gwŷn a gwasg / Fal ydd wy' rhwng Gwy ac Wysg; / Tyr edefyn o'i dynn dasg / Od yw, cyn dirwyn hyd Wysg, gw.* DLIM 82.71–4.

Gwae a fai hŷn dyn no'i dad

Priodolir y cywydd serch hwn sydd yn disgrifio nychdod y bardd a thwyll ei gariadferch i Hywel Dafï yn Brog I.2. Ar y llaw arall enwir Dafydd ab Edmwnd mewn tair ffynhonnell ac argraffwyd y cywydd gyda'i weithiau yn DE cerdd XXIV. Enwir trydydd bardd, Hywel ap Dafydd Llwyd, mewn tair ffynhonnell sydd yn cynnwys Card 2.114 a Pen 76, ac y mae'n debyg fod modd ei uniaethu â *Howel llwyd ap y gof*, awdur y cywydd yn ôl LIGC 9048D. Y mae tri chywydd serch a allai fod yn perthyn i Hywel ap Dafydd Llwyd, a hwn yn eu plith, gw. DLIM cerddi 83–5, ond rhaid bod yn wylidwrus am fod y tri wedi eu priodoli i feirdd eraill yn ogystal. Y mae tystiolaeth LIGC 9048D, a'r ffaith na roddir y cywydd i Hywel Dafï, yn arwyddocaol. Yr oedd Syr John Pryse yn berthynas i'r bardd ac yn y llawysgrif hon y diogelwyd yr unig gopi o gerdd 32.

Gormodd ymadrodd i mi

Dau gwpled cywydd sydd yn rhagflaenu cywydd Hywel Dafï i grog Aberhonddu yn Pen 67.

Hollalluog Dduw trugarog

Yn Card 2.26 y diogelwyd yr unig gopi o'r gerdd grefyddol hon. Am fod y cywydd *Y Forwyn, ofwy araul* yn cael ei roi i *Hwell D ap ifan ap rys* yn yr un adran yn y llawysgrif gyfansawdd hon, gw. Atodiad cerdd IV, y mae'n bur debyg mai bardd gwahanol oedd *Howell Davydd*, awdur y gerdd dan sylw. Ar fesur y cywydd deuaïr fyrion y lluniwyd y gerdd, a diau fod Hywel Dafydd yn un o'r Cwndidwyr a ganai ym Morgannwg yn yr unfed ganrif ar bymtheg neu yn yr ail ganrif ar bymtheg. Mae'n bosibl y gellid ei uniaethu â Syr Huw Dafydd, Gelli-gaer, y diogelwyd dau gwndid o'i waith, gw. MFGLI 1359. Nid oes cofnod ar Hywel Dafydd yn MFGLI ac ni sonnir amdano yn TLIM. Gw. ymhellach y sylwadau ar Syr Huw Dafydd, Ewias, awdur tebygol *Fy Nhad, drwy gennad gennyf—o fawlair a Duw Naf goruchaf, dy nawdd—rho arnaf*.

Lladd pen Gwynedd wen yn ddau

Cywydd marwnad i bedwar bardd yw hwn, sef Dafydd Nanmor, Deio ab Ieuan Du, Ieuan Deulwyn a Thudur Penllyn, gw. DN cerdd XL; GTP atodiad V. Fe'i priodolir i Hywel Rheinallt yn yr holl lawysgrifau, ond yn RWM i, 175 yn yr adran ar LIGC 3049D fe'i rhoddwyd i Hywel Dafï trwy amryfusedd. Cyplysodd J. Gwenogvryn Evans linell gyntaf cywydd Hywel

Rheinallt ynghyd â llinell olaf y cywydd sydd yn dilyn o waith Hywel Dafï (cerdd 66), a rhoes y cyfanwaith rhithiol i'r olaf.

Lluniais oed Ddywllun y sir

Rhoddir y cywydd i Ieuan Tew Brydydd yn ogystal ag i Ddafydd ap Gwilym, ond ni allai T. Parry, GDG clxxix–clxxx, dderbyn bod hwn yn un o gywyddau dilys Dafydd am fod yr arddull yn gypledol a'r mynegiant yn syml. Un hynodrwydd a berthyn i'r cywydd, fodd bynnag, yw'r cyfeiriad manwl at chwedl 'Yr Anifail Hynaf'. Camarweiniol yw'r priodoliad i Hywel Dafï yn LIGC 970E. Yr hyn a ddigwyddodd oedd fod diwedd *Lluniais oed* ar un ddalen a dechrau *Yr ewig wen*, gw. cerdd 105, wedi eu cyplysu. 'Awgryma'r cyfeiriad at lunio oed yn Llandaf mai bardd o Forgannwg oedd yr awdur', gw. D. Johnston, 'Cerddi'r Apocryffa', A94, DG.net. Y mae'n bosibl fod Helen Fulton, golygydd DGA, wedi camddeall un cwpled, ac efallai fod cyswllt â Brycheiniog hefyd yn cael ei awgrymu, sef cynefin Hywel Dafï (er nad oes achos i'w gysylltu â'r cywydd), gw. DGA 26.29–30 *Garwach ydwyf, medd gwerin, / Yn nyffryn crai na phren crin. Ai Yn nyffryn Crai?*

Mae rhyw amwynt i'm rhwymaw

Copiwyd y cywydd hwn wyth ar hugain o weithiau ac fe'i priodolwyd i chwe bardd a hynny mewn llawysgrifau pur gynnar: Dafydd ap Gwilym (yn Pen 82 yn unig), Maredudd ap Rhys (ond nis ceir yn Card 2.68 fel y nodir yn MCF), Bedo Brwynllys (pum copi yn cynnwys BL Add 14967), Ieuan Deulwyn (pum copi; Llst 6 a phedwar yn llaw Llywelyn Siôn), Bedo Aeddrem (CM 5; 'medd rhyw un Hoel Heilin' yn BL Add 14866) a Hywel Heilyn (deg copi yn cynnwys Card 2.114). Fe'i rhoddir i Hywel Dafï yn Stowe 959 yn unig. Anodd gwneud achos cryf o blaid Hywel Dafï ar sail yr un ffynhonnell lawysgrifol er bod Stowe 959 yn ffynhonnell bwysig o ran ei ganu. Llawysgrif sydd yn perthyn i'r de yw hon—fel Llst 6 sydd yn rhoi'r cywydd i Ieuan Deulwyn. Argraffwyd y cywydd yn ID cerdd I, ond y mae tystiolaeth y llawysgrifau yn awgrymu y gall mai cywydd Hywel Heilyn yw hwn. A barnu wrth yr arddull rhaid fyddai gwahaniaethu rhyngddo a'r bardd Hillyn a ganodd ddwy awdl i Ieuan Llwyd o Lyn Aeron yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg, gw. GLIBH 95–119. Ni restrwyd y cywydd ymhlith apocryffa Dafydd ap Gwilym yn GDG a DG.net.

Meddyliwn am dduwiolaeth

Cywydd sydd yn adrodd hanes genedigaeth Crist mewn dull digon uniongyrchol yw hwn. Fe'i tadogir ar Dudur Aled ac ar Robert ap Dafydd mewn tair ffynhonnell yr un. Nis priodolir i Hywel Dafï, ond enwir *Hugh ap Davydd* yn Card 3.37. Priodolir dau gywydd crefyddol arall i Robert ap Dafydd, 'Cywydd y Tri Gelyn' a 'Cywydd ar Ddechreuad y Byd', gw.

MFGLI 2981–3, a diau mai ei waith ef yw'r darn dan sylw. Awgryma ei gywydd i erchi caseg gan Elis Prys, Plasiolyn, mai ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg oedd cyfnod ei ganu.

O! Dduw, on'd trist oedd nad rhydd

Un ffynhonnell weddol gynnar sydd yn rhoi'r cywydd serch hwn i Hywel Dafï, sef Bodley Welsh e 7 (15g./16g.) ynghyd ag un copi diweddarach yn llaw Dafydd Jones o Drefriw, tra enwir Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan mewn pymtheg ffynhonnell ar hugain. Argraffwyd y cywydd gyda'i weithiau yn GILIV cerdd IV. Prawf dosbarthiad y gynghanedd mai bardd o ddiwedd y bymthegfed ganrif neu'r unfed ganrif ar bymtheg a luniodd y cywydd hwn. Cynganeddion cytseiniol yn unig a geir yma, sef croes / croes o gyswllt (94%) a thraws (6%).

Och! Dduw nad atebwch ddim

Rhoddyd y cywydd anghyflawn a dienw hwn yn Pen 114 i Hywel Dafï yn MFGLI am mai ei waith ef yw'r ddau gywydd blaenorol. Y mae'r cywydd yn gyfan mewn sawl ffynhonnell arall ac fe'i priodolir i Huw Cae Llwyd a'i argraffu gyda'i weithiau yn HCLI cerdd XXV. Nid oes achos i amau'r priodoli. Camarweiniol, fodd bynnag, yw'r hyn a ddywedir am wrthrych cerddi XXIV ac XXV yn HCLI. Cywydd moliant i Hywel Dew o'r Argoed yw XXIV, nid cywydd marwnad i Wiliam Fychan (er bod y bardd yn cyfeirio at farwolaeth tad Hywel Dew). Cywydd marwnad i Wilym Dew, tad Hywel Dew, yw XXV, ond Gwilym Fychan yn hytrach na Gwilym Dew yw'r enw a arferir yn y ddwy gerdd. Ar ach y teulu, gw. WG1 104; WG2 210.

Pam yn wadd am radd ymroddi

Iolo Morganwg a ddiogelodd (ac a luniodd?) yr englyn hwn, yr olaf mewn cyfres o dri, sydd yn LIGC 13144A, 395. Fe'i priodolir i Guto'r Glyn, ond ychwanegwyd *H D In Rhys medd rhai lyfrau a gant yr englyn diwethaf*. Y mae'r ddau englyn cyntaf yn rhan o'r ymryson a fu rhwng Guto'r Glyn ac Ieuan ap Gruffudd Leiaf, gw. GG.net cerdd 93, ond lleola Iolo'r ymryson yn *Eisteddfod Gwledd ac wyl wrth gerdd a wnaeth Syr William Herbert Iarll Rhaglan ynghastell Caer dydd*.

Prydu a wnaaf, mwyaf mawl

Gw. GIG cerdd XXVII 'Y Deuddeg Apostol a'r Farn' ac ASCent 10. Fe'i rhoddyd i Hywel Dafï ar gam am fod dalen yn eisiau yn LIGC 13079B ac o ganlyniad cyplyswyd cywydd Iolo a chywydd Hywel Dafï i'r Grog yn Aberhonddu (cerdd 102) pan fynegeiwyd y llawysgrif.

Y ddyn â'r santaidd annwyd

Ar sail y llawysgrifau gellir bod yn weddol sicr mai Gutun Owain a ganodd y cywydd serch hwn (Card 5.10ii *tebig mai Guttyn Owen ai kant*). Enwir ef mewn pedair ffynhonnell ar hugain, a hefyd yn Llst 55 sydd yn cynnwys dyfyniadau o weithiau'r beirdd yn llaw Siôn Dafydd Rhys. Enwir Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan mewn dau gopi, y ddau yn Pen 99, ac enwir Dafydd Trefor, yntau, mewn dau destun sydd yn llaw Wmffre Dafis, gw. GSDT 18. Mewn un ffynhonnell y priodolir y cywydd i Fedo Brwynllys, sef LIGC 9048D sydd yn llaw Syr John Pryse. Yr unig lawysgrif sydd yn rhoi'r cywydd i Hywel Dafî yw Llst 6; *Hyw dafî* yw'r ffurf ar yr enw yno. Rhestrwyd y cwpled cyntaf yn llyfr mynegai John Jones, Gellilyfdy, sef Pen 221. Argraffwyd y cywydd gyda gweithiau eraill Gutun Owain yn GO cerdd I.

Y ferch o'r fynachlog faen

Gwadu cyswllt o fath yn y byd â'i gariadferch a wneir yn y cywydd adnabyddus hwn a gopiwyd ddeugain a phump o weithiau, gw. DGA cerdd 17. Fe'i rhoddir i Ddafydd ap Gwilym mewn deuddeg ffynhonnell ar hugain, i Fedo Brwynllys mewn saith (a phump o'r rheini yn llaw Llywelyn Siôn) ac i Hywel Dafî mewn un, sef Stowe 959 (ond gthg. DGA 180 lle y nodir bod y Bedo yn cael ei enwi mewn naw ffynhonnell a Hywel Dafî mewn tri). Yn Brog I.6 rhoddir y cywydd i Lywelyn ab Itwg, a dyma'r unig ddarn wrth ei enw yn MFGLI 2430. Y mae'r cywydd naill ai yn ddiennw neu yn anghyflawn mewn pedair llawysgrif. Ymddengys mai drylliau o gywydd gwahanol a briodolir i Syr Hywel Hir sydd yn y casgliad o ddyfyniadau yn llaw Siôn Dafydd Rhys yn Llst 55.

Er bod y cywydd yn y prif gasgliadau o waith Dafydd ap Gwilym, yr oedd T. Parry yn hwyrfrydig i'w gynnwys ymhlith y cerddi dilys, yn rhannol am ei fod yn digwydd wrth enw Bedo Brwynllys a Hywel Dafî, ac yn rhannol am fod y ffurf *imi* yn digwydd yn safle'r brifodl, gw. GDG clxxxvii a DGA 17.32. Ni ddewiswyd cynnwys y cywydd gyda chanu serch y Bedo yn CSTB, ac anodd dadlau dros roi'r cywydd i Hywel Dafî ar sail un ffynhonnell (a sylwer bod Stowe 959 yn rhoi *Mae rhyw amwynt i'm rhwymaw* i Hywel Dafî hefyd, gw. uchod). Yr un ystyriaeth o ran y cynnwys sydd yn ddadl o blaid Hywel Dafî yw'r gwrthrych; lleian yw hi, a barnu wrth y llinell agoriadol, ac y mae cywydd arall o waith y bardd, ynghyd â chywydd ansicr ei awduraeth, hefyd yn annerch lleian o'r enw Gwenonwy, gw. cerddi 109–10.

Y gwâr ieuanc a grewyd

Diogelwyd y cywydd hwn yn Stowe 959 ac yn LIGC 728D (nis ceir yn BL Add 14906 fel y nodir yn MCF) a'i roi i Ieuan Deulwyn yn y ddwy lawysgrif. Dyfynnwyd chwech o linellau'r cywydd yn Llst 55 a *Hywel Dafî* a

roddwyd uwch eu pennau. Am fod y testun yn gyfan yn Stowe 959 a LIGC 728D, y naill yn ffynhonnell ddeheuol a'r llall yn ogleddol, tebycach mai Ieuan Deulwyn a ganodd y cywydd. Ond fe'i canwyd i deulu yr oedd Hywel Dafï yn gyfarwydd iawn ag ef. Cywydd moliant ydyw i Watgyn Winstwn o Dre-wyn yng Nghwm-iou a'i wraig Mallt. Ni ddiogelwyd unrhyw ganu gan Hywel Dafï i'r gŵr a'i hynafiaid ond yr oedd y wraig yn ferch i Faredudd ap Morgan ap Dafydd Gam, gw. cerddi 24–6. Yr oedd Siancyn Winstwn, gwrthrych awdl foliant gan Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC cerdd 121, yn ewythr i Watgyn.

Y mae sant atom a'i serch

Cywydd yw hwn i ofyn march gan Fastr Huw Rhaglan, mab Robert Rhaglan ab Ieuan ap Tomas, gw. WG1 426, ac fe'i canwyd ar ran Hywel a Gwilym. Cofnodwyd y cywydd yn Pen 67 yn llaw Hywel Dafï a'i roi i Huw Cae Llwyd, a diogel, felly, ei briodoli iddo, gw. HCLL cerdd XXXI. Rhestrwyd y cywydd gyda gweithiau Hywel Dafï am fod David Ellis wedi ysgrifennu *HCLL* ar frig y cywydd yn CM 12, cyn dileu'r enw ac ychwanegu *HD i Huw ap Robert*. Codwyd y cywydd o CM 12 gyda gweithiau eraill Hywel Dafï yn Bangor 7268.

Yr un iarll a wŷr ein iaith

Cywydd moliant i Wiliam Herbert, ail iarll Penfro, yw hwn. Fe'i rhoddir i Ieuan Deulwyn yn yr holl lawysgrifau ac eithrio LIGC 5273D (copïwyd 1642) sydd yn ei briodoli i Hywel Dafï. Fe'i golygwyd gyda chanu Ieuan Deulwyn yn ID cerdd XXV, ac yn CH cerdd 36. Daeth un copi ychwanegol i'r amlwg er pan olygwyd y cywydd yn CH, ac i Ieuan Deulwyn y'i rhoddir yn LIGC 9176A hefyd. Diflannodd y copi a wnaeth John Jones, Gellilyfdy mewn llyfr cywyddau a gollwyd, ond ar sail copi Thomas Lloyd yn LIGC 717B, gwyddys mai i Ieuan Deulwyn y priodolwyd y cywydd, gw. Pen 221, 73; M.T. Burdett-Jones, 'Trydydd llyfr cywyddau John Jones, Gellilyfdy', YB XVI (1990), 127–40.

dych yu m o cefalw onyo
 a murek galen lwm i qyo
 y seob llesu a seob seiloesag
 on seob yu m seob yu m
 to salu a lous
 y gloy o gorrff goro gois
 a gyy allaw slyr willians
 m seob gory heb slyr yu m
 a murek slyr fy y murek fu
 tobio y murek redy
 onyo ayo murek
 murek seob seob pwr slyr
 murek llesu a seob gyy
 gyy gyy y seob y seob
 murek slyr yu m lous yu m
 o gyy seob a lous
 o gyy gyy gyy gyy

I

Moliant Gwilym Dew ap Hywel ap Llywelyn

- 4 Golau mewn dadl y'ch gwelir,
Gwilym Dew, yn galw am dir,
Mab Hywel, fal angel ynn,
Fu ail Addaf, o Fleddyn,
Llin brëyr, llawen brywys,
Llywelyn, llinyn ein llys.
8 Derwen fawr o'th dir yn faith
Wyd o Wiliam Dew eilwaith.
Hanwyd o lwyth brenhinol
'Lidir deg; mae'r wlad ar d'ól.
12 O roi gynau rhag annwyd,
O brynu nef, brenin wyd,
A thyfu beunoeth hefyd
Am dy ben y mae da byd.
- 16 Nid oes, mi a wn dy ach,
Lety yn dy wlad haeach
Heb ofyn pwy bieufu;
Ni wyddont hwy i bwy bu.
- 20 Adewaist y do ieuaine
Eithr a fo a'i waith ar fainc.
Ergydiaist er eu gadaw
Ergyd draig i'r Argoed draw.
- 24 Trof i ar dy lys araul
O thry'r rhod pan lithro'r haul,
A throi Gwy pan oedd fwyaf
Oedd 'y nhroi oddyno'r haf.
- 28 Uchel fydd cainc ar delyn;
Ucha' dim fydd achau dyn.
Uwch yw awen no chywoeth,
Uwch yw dy ddysg no Chadw Ddoeth.
Doethder, nid un wychder neb,
32 Y saith hen sy i'th wyneb.

- Barn a ddywedy lle bo
 Oni bydd un a'i beiddio.
 Ymryson beilchion o bydd
 36 Yn un llanw a wnai'n llonydd.
 Enwi pob oes o Foesen
 A wnai hyd feibion Noe hen.
 Yn Fedaf y'th wynfydwyd,
 40 Ail Seth neu Eliás wyd,
 A'th eiriau am na thorrynt
 A saif fal gair Sifil gynt.
 Ni thyr dyn ddim o'th air da,
 44 Nid oes dir heb d'yatoria.
 Ni thry y wlad o'th gadair;
 Troi y don yw torri d'air.
 Ar eiriau y'th oreurwyd
 48 Ac ar ddawn rhagori 'dd wyd.
 Un gwag ni châi dy ragor
 Mwy no maen mwya' 'n y môr.
 I'r tân y bydd anianol
 52 Na thry neb eithr yn ei ôl.
 D'ewylllys od ai allan
 Âi dros y tir yn drais tân.
 I'r dyn a fai oer a dig
 56 Bwbach wyd bob echydig.
 Eli rhag trôï'r truan,
 Eliud gylch aelwyd gwan.
 Enaid i'th ddeiliaid i'th ôl,
 60 Enw bedydd 'y nuw bydol.
 Adeiliais yt wawd Iolo,
 Adeiliwyd yd olud Io.

Ffynonellau

A—Pen 67, 208–11 B—Pen 99, 458–61 C—Pen 101, 336–8 D—CM 12, 280–2 E—BL Add 31070, 51^v–54^r

Ffynonellau eraill

F—LIGC 670D, 18–20 G—Bangor 7268, 19–21

Amrywiadau

5 *E* ..brewyr.. 7 *B–E* ..ath dir.. 12 *E* o bryn nef.. 13 *E* ..bennoeth.. 15 *E* ..mi wn.. 16 *B–E* le ty.. 18 *E* ni wyddost hwy i bwy y bu, *B–D* ni wyddant.., *A* ..i bv 20 *C* ..a waith.., *A–C* ..ar y vaingk 22 *A–C* ..yr argoed.., *D* ..ar argoed.., *E* ..or argoed.. 23 *BCE* trof oddi ar.., *D* trof odd ar.. 24 *AE* o

thry r hod.. 26 *A* oedd yn rroi., *E* ..oddiyno.. 31 *A* doether.. 32 *AB* ..hen y
 sy thwynneb, *C* ..y sy i th wyneb 33 *BC* ..lle y bo 35 *E* amryson.. 40 *E*
 ..Sedd.. 42 *E* ..gair oesfawl gynt 44 *D* ..tir.. 45 *A* ni thery., *B-E* ni th dry..
 52 *E* ni.. 53 *A-E* dy wyllys.. 56 *B-E* ..ychydig 57 *DE* eli rhoi rhag troi..
 60 *D* enw n bedydd yn nyn bydol, *E* ..y nyn.. 61 *BC* adeilais.. 62 *A*
 adielwyd ytt., *BC* adeilwyt., *B-E* ..yt..

Moliant Gwilym Dew ap Hywel ap Llywelyn

- Tŷ Gwilym, teg o aelwyd,
 Tebyg i dŷ Gurig wyd.
 Y tēyrn o waed Hywel
 4 Aeth o'i fabolaeth â'r bêl,
 Gŵr enwog o ryw Einion,
 Gorau rhyw hyd gaerau Rhôn.
 Io oludog Elidir
 8 A brŷn ym mhob dyffryn dir.
 Efô wŷr rifo arian,
 Efô wŷl gweryl pob gwan;
 Efô gâr awdl ac araith,
 12 Efô wŷr synnwyr y saith.
 Crwth eilwaith croyw a thelyn,
 Cywydd i Forfudd a fyn;
 Cerddwriaeth llyfr cerddorion,
 16 Canuau'r brudiau o'u bron.
 Efô ostyngodd fost dengwyr
 Ac yntau wnaeth gant yn wŷr.
 O threiir dadl athrawion
 20 Ni threia neb eithr ein iôn.
 O gedais lythr yn eisiau
 Efô a'm dysg pan fôm ein dau.
- Credais yn fwy no'm credo,
 24 Credaf y beiddiaf lle bo.
 Ni pheidia' â'i glod barod bêr;
 Mwy y peidiaf â'm pader.
- Mi af fry i'm tŷ a'm tir;
 28 O'm tŷ allan ni'm twyllir.
 Tair rhodd a fwriodd efô
 Ym unwyl pan fûm yno:
 Bwrw gŵn a bara gwenith
 32 A nobl o aur yn ei blith.
 Cyfoethawg yrhawg fu 'nhro;
 A feddaf a fu iddo.

36 Nid af o'm gwlad brofiadwy,
 Nid rhaid ym west tra da mwy.
 Gwin a brŷn pob dyn o'i du;
 Yntau, Wilym, yn talu.
 40 Bwyd i weiniaid bid yno
 Bynnag fyd ar benaig fo.

44 Darogan, gwynfan gwanfeirdd,
 Y gwelir byd gwaglaw'r beirdd.
 Yn oes Gwilym nis gwelir.
 Iesu a'i rho'n oeswr hir!

Ffynonellau

A—Pen 67, 231–3 B—Pen 99, 468–70 C—Pen 101, 346–7 D—CM 12, 290–1

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 25–6 F—LIGC 22832C, 415–16 G—Bangor 7268, 26–7

Amrywiadau

9 *B–D* ef a wyr.. 10 *B–D* ef a wyl.. 11 *B–D* ef a gar.. 12 *B–D* ef a wyr.. 16 *BD* caneuau., *C* caneuau brudiau.. 17 *B–D* ef a.. 19 *A* o thewir., *B–D* ..athrawon 22 *A* e vom dysc., *B–D* ef a m dysg.. 25 *A* ni ffeidiai glod., *D* ni pheidia i glod.. 27 *A* mi a vry.. 29 *B–D* teirrodd.. 33 *A* ..yn rrawc.. 35 *B–D* ..brofadwy 39 *B* ..weniaid..

Moliant Gwilym Dew ap Hywel ap Llywelyn a Margred ei wraig

Mae deufur ym a dwyfainc
 A thŷ un ffrîw â thai 'n Ffrainc:
 Un dâl neuaddau Calais,
 4 Un swllt neuadd Einion Sais.
 Gwilym a rôl gwlm ar wŷdd;
 Nid un gwlm a dynn gweilydd.
 Margred, dadanhudded hon
 8 Yn dŷ annedd i'n dynion.
 Mab Hywel, ni ochel neb,
 A wnâi hon yn eu hwyneb.
 Merch Siancyn a fyn y farn
 12 O fesur ffiol fasarn.

Addas yw dwyn gair iddi
 Y sy o ddyn i'm swydd i.
 16 Dygom gydgymydogoeth;
 Dylly ym air, dâl fy maeth.
 I'm mau i y mae awen;
 Yntau a'i piau o'm pen.
 A biau'r tafod buan
 20 A biau'r geiriau a gân.

I'r Argoed erioed yr aeth
 Y cerddwyr â'r benceirddiaeth.
 24 Yno ydd awn pan oedd iau
 I gael fy rhoddion gwyliau.
 Nid elw ym anwadalau,
 Ni thorraf wŷyl eithr a fu.
 Ni byddaf fi o'm bodd fud,
 28 Ni bu Wilym heb olud.
 Mae'n gynnor, mae'n agoriad,
 Mae'n glo ar gan mwya'n gwlad.
 Mae'r gallu'n cynyddu'n well,
 32 Â'i ewylllys mae wellwell.

Gweodd ei glos â gwŷdd glân:
 Gwead rhestr o gae Trystan.

- 36 Nid cae mursen ar ben bys
Caead derw o'r coed dyrys.
Ar ei frig cerrig cwarel
Ac yn ei fwd gwin neu fêl.
40 Gwalau megis muriau Môn,
Gwewyd drwyddynt goed rhuddion.
Taprau cwyr ar fagwryrydd,
Tebyg tai Warwig ei wÿdd.
44 Tri philer tarw o Ffyllib,
Tyrau o galch fal Tre-gib.
Conglen ar darren o dir
Caer lydan carw Elidir.
48 Capelau teg, cyplwyd hi,
Capel oedd bob cwpl iddi.
Digon i'w chymydogion
O olau tes weled hon:
52 Iarlles wrth deirlllys Arthur,
Un gwmpas â phlas tai Fflur;
Un fodd â'r graig yn y Fan
Ac un lliw â gŵn lleian;
Un pen Ehangwen o hyd
56 Ac un gaer o gan gwryd.

- Y mae 'n y cwrt ym naw cell;
Yno tynnir naw tunnell.
60 Naw gradd yw ennain Baddon,
Nawradd yw neuadd ein iôn.
Naw pren sy 'ngwlad baradwys,
Naw saig hwn sy nesa' cwys.
Naw ffiol i'm ôl a medd,
64 Naw ton eigion un agwedd.
Nawoes i'r ferch a'i pherchen:
Naw hwy no bywyd Noe hen.

Ffynonellau

A—Pen 67, 234–8 B—Pen 99, 470–2 C—Pen 101, 347–50 D—CM 12, 291–3

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 26–7 F—LIGC 22832C, 417–19 G—Bangor 7268, 28–9

Amrywiadau

4 C ..Einio.. 5 A ..roer gwlm.. 6 B-D ..a dyn.. 16 B-D ..dal y maeth 17 B-D ..au.. 22 A ..bennkeirddyath, B-D ..benkerddiaeth 23 A ..y rawn.. 29 B-D ..egoriad 32 B-D ..y mae.. 37 BC an i frig., D am ei frig.. 39 B-D gwaliau.. 48 D ..pob.. 56 BC ..gwrhyd 58 A-C ..y tynnir.. 61 C ..sy ng[]lad..

Moliant Hywel Dew ap Gwilym Dew ap Hywel

- 4 Aeth arnam unwaith hirnôs;
Rhywyr ynn yw fyrhau'r nos.
O daw gŵyl wedy Gwilym
Hywel y Pasg gwna help ym.
- 8 Hil wyt Hywel, ail Beli,
Hÿn â i'th ofyn no thi,
Ail Adam neu Elidir,
Aelodau y Deau dir.
- 12 Yng nghlod Rhydderch y'th erchais
Oddyna'n swydd Einion Sais.
Ni thymbiais, bawn fyth hebod,
Y cawn dy fath cyn dy fod.
Aeth i'r llan unwaith f'annedd
Pan aeth y neb aeth i'r bedd.
16 Gŵyr Dduw ddydd y sydd ond saith
Yny ddêl f'annedd eilwaith.
Barwniaeth f'arglwydd breinol,
Bid ei oreilid ar ôl.
- 20 Lle'r aeth rhan o'm tir annwyl
Yno'r af finnau yr ŵyl.
Llan wen fu er ys ennyd
Llety i holl Gymru i gyd.
24 I'th gyfoeth pan y'th gafad
Ni wybu'r tir na bai'r tad:
Ni th'wyllwyd unporth allan,
Ni chlôed dôr uwchlaw tân;
Ni bu dylwyth heb delyn,
28 Ni bydd un llaw heb ddwyn llyn.
Chwi biau 'ngherdd fal Merddin
A minnau'r gynau a'r gwin.
Y byd oll a'th biau di,
32 Chwithau dyrau a deri.
Aml yw gwaeth no'th wasnaethwyr,
Ambell yw dy well o wÿr.

- 36 Ado swrn o'r do y sydd
 Ond aros dy gefnderwydd.
 Arglwydd Herbart a'i barti
 A geidw eich iawn gyda chwi.
 40 Ymofyn â'th hŷn a'th iau;
 Doethion a'th ofyn dithau.
 Dysgaist gyfraith ddwyiaith ddig;
 Dos gyda gwŷr dysgedig.
 44 Darllain lyfrau dechrau dydd,
 Dwg arfau plad o gorfydd.
 Rhwyfa dy wayw mewn rhyfel,
 A'r ròd a'r bar, rhed â'r bêl.
 48 Tyn ar flodau'r do ieuainc,
 Tro dy fys mewn troed y fainc.
 N'ad i'r un neidio i'r iau
 Onid ydywch un dadau.
 52 Myn dy le drwy'r gefn heol,
 Myn le i'th iemyn i'th ôl.
 Ennill gair, ennill gariad,
 Ennyn etewyn y tad.
 56 Cefaist ei rent a'i fendith,
 Cai win a fflŵr can i'w phlith.
 Cadw'r wyd aelwyd Wilym;
 Cadwo Duw y ceidwad ym.

Ffynonellau

A—Pen 67, 221–4 B—Pen 99, 466–8 C—Pen 101, 343–6 D—CM 12, 288–9 E—BL Add 31070, 66^r–68^r

Ffynonellau eraill

F—LIGC 670D, 23–5 G—Bangor 7268, 25–6

Amrywiadau

2 BC rhyhwyr., E ..yw byrhau.. 3 E daw gwyl.. 10 BE oddiyna., C ..Einio.. 15 A–C gwr dduw., DE gwirdduw., BC ..or saith, DE ..o saith 17 B–E barwniaeth arglwydd breiniol 22 DE lletty holl., A–E ..gymry.. 25 A–D ni thyllwyd.. 26 D ..y tan, E ..uwchlaw r tan 31 E ath lawned oth haelioni 32 E y byd oll ath biau di 33 A ..gwith.. 34 C ..dy well 36 CD ..dy gefnderydd 37 D arglwyd.. 44 A ..plat., DE ..gwlad., E ..a gorfydd 46 A–D a rrod.. 47 DE ..to., C ..ieuangc 50 C ..ydych.. 51 DE ..drwy gefn.. 52 DE ..ith undyn., B–DE ..oth ol 53 B–E ynnill..ynnill.. 55 A–E ..rend.. 58 DE cadwed..

Marwnad Hywel Dew ap Gwilym Dew ap Hywel

- Och! Iesu, pam na cheisir
 Undyn hael gan Fab Duw'n hir?
 Ni roddir er hir barhau
 4 Dynion doethion ond weithiau.
 Mi a wylais am Wilym
 Wedy'*i* dad na adwyd ym.
 Dyn wyf wedy'*i* anafu
 8 Dwyn Hywel ddoeth dan hwyl ddu.
 Bwrw Hywel eiriau melys,
 Bwrw'r wlad fawr i'r llawr a'r llys;
 Bwrw'r dynmas, brau yw'r dynnod,
 12 Bwrw darn o'r haearn a'r ròd.
 Tre annistaw, trin astud,
 Dwrstan faith a droes Duw'n fud.
 Brawdfaeth penceirddiaeth cerddawr,
 16 Brudiau'n fud holl Brydain fawr.
 Eli'r byd aeth i lawr bedd,
 Enog, Urien mae'n gorwedd.
 Dwy wlad am waed Elidir,
 20 Dau lu'n gwisgo du o lir.
 Bwrw ochi 'nhir Brychan hen
 A dermysgodd dir Masgen.
 Ni chwynwyd teirach Einion
 24 Ond er lladd y dröell hon.
- Pe bai gwysel Hywel hen,
 Mwya' llyfr yw, 'mhwll Hafren,
 Gwae ninnau gau ynn ennyd
 28 Genau gŵr a'i gwnâi i gyd.
 Ysgwieriaid, gwylliaid gynt,
 Asglodion ysgol ydynt.
 Ysgol fawr yn disgwyl fu
 32 A bod esgyb i'w dysgu.
 Crino mae pob carennydd,
 Cynhennon ynfydion fydd.
 A wnâi heddwch anhuddwyd;
 36 Pwy'n rhydd a ddwg pen y rhwyd?

40 Un ederyn, ond aros,
A dynn ein gwlad wen yn glòs.
Pren oedd mal nawpren Addaf;
Pren o'i gyff peran a gaf.

44 Fo welid gŵn felwed gynt
Amdanaf lle'm adwaenynt.
Weithian, gwn, bychan, gwan bach,
Gan bwyll ym gael gŵn bellach.
48 Os fy ngwrthod i'm tlodi
A wna'r mab unair â mi,
Nid oes i'm einioes ond Mawd,
Ond yr unDduw a'r Drindawd.

52 Nid aeth o'i gwrđ fendith gwan;
Ef âi'r tlawd i'r fort lydan.
Ni bu 'n y dref gynefin
Na bai ei bwrs wrth bib win.
O dai'r byd y'i rhoed i'r bedd
I dŷ Dduw wedy'i ddiwedd.
56 Rhoes win o lyn Rhin i'n rhaid;
Gwin o Rôn gwyn i'r enaid!

Ffynonellau

A—Pen 67, 108–11 B—Pen 99, 412–14 C—Pen 101, 292–4 D—CM 12, 240–1

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 59–61 F—Bangor 7268, 62–4

Amrywiadau

2 *A–D* ..vab dv.. 3 *B–D* ..i hir.. 4 *A* ..on weithiav 6 *A–D* wedy dat.. 7 *A–D* ..wedy anafv 12 *A* ..a rrot, *B–D* ..ar rhod 13 *D* trin.. 15 *B–D* ..penkerddiaeth.. 16 *D* brudiai.. 24 *D* onid.. 26 *B–D* ..llyfr ym mhwill.. 27 *B–D* ..gau vn.. 28 *BC* genau r gwr.. 39 *B–D* ..fal.. 40 *D* ..oi gylch.. 41 *D* ..felwaed.. 42 *BC* ..lle i m adweynynt 48 *A* ..an drindawt 49 *B–D* ..oi gwrt.. 50 *D* ..iw fort.. 53 *A* ..y roet., *BC* ..y rhoid., *D* ..y rhoed.. 54 *A* ..wedy ddiwedd 55 *B–D* ..o lan., *A* ..ynn rraid

Marwnad Rhys ap Hywel ap Dafydd

- Cwyno'r wyf rhag gwayw 'n yr ais,
 Crofen yw corf fy nwyais.
 Mae ysig ym mrig 'y mron,
 4 Mae 'neurudd fal main oerion.
 Diwedd Rhys duodd yr haf,
 Dydd oedd fal diwedd Addaf.
 Hil oedd i Hywel addwyn;
 8 Hiraeth am dadmaeth sy i'm dwyn.
 Wyr Dafydd eiriau dwyfol,
 Ofer ym fyw ar ei ôl,
 Coron ar fy nynion i,
 12 Câr i Bawl, carw y Beili;
 Cwnstabl ar bob parabl pêr,
 Cefnderw i bob cyfiawnder.
- Doethaf wedy Addaf oedd
 16 Eithr Bedaf, athro bydoedd.
 Trywyr a fu'n torri'r farn,
 Trech ydoedd no'r tri chadarn.
 Tewdwr Mawr, Tudur ym Môn
 20 A Selyf ac Absalon,
 Pedwar enw'r pedair ynys,
 Pumed a rodded i Rys.
- Nid aid â'i ddeiliaid na'i dda
 24 Yn Nwy Elfael yn nalfa,
 Na thir y Mars na thai'r medd,
 Na thai gwin eithia' Gwynedd.
- Mis Awst gan mwya' y sydd
 28 Mal Ionawr ym Maelienydd.
 A gano mwy gwyn i'm iôr,
 Cwyned lef cenedl Ifor.
 Ym Marthin, y mae 'Merthyr
 32 Ddagrau gwaed ar ddeg o'r gwŷr.
 Pedwar daly pedair dolef,
 Pedwarban y llan dan llef;

- 36 Pedeirbord fal pedwarbys
 O'r un pren ar wyneb Rhys.
 Fy un llaw, fy un llywydd,
 Fy lles erioed, fy llys rydd;
 Fy meirch, fy ychen, fy maeth,
 40 Fy nghŵn hely, fy nghynhaliaeth;
 Fy un ewythr, fy niwyd,
 Fy lle gŵyl felly i gyd.
- F'athro llwyd ef aeth i'r llan;
 44 Yna torred ein tarian.
 Torres gwayw plaid Rhys gywir,
 Torred un twred ein tir;
 Torres dwrn y tair ystâl,
 48 Taro'r Cwmwd trwy'r cymal.
 Peri wylaw, dulaw dig,
 Poeni deufab pendefig.
 Llefain o'r wlad wastad wiw,
 52 Llef a dolur, llif diliw.
 Py wlad y mae'n peniadur?
 Paham y cawn gam neu gur?
 Yng nghôr Duw mae 'ngharw dwywol;
 56 Wyth o'i wŷr a ddoeth i'w ôl.
- Nos Iau pan ddoeth i'r neuadd
 Ef a droed i'r nawfed radd.
 Nos Basg y nesa' y bu
 60 I'm Brenin am ei brynu.
 Dyfynnodd i'w dai f'annwyl;
 Da o le mae'n daly ei ŵyl.
 Yma mae'i gŵn a'i emys
 64 Ac yno trig enaid Rhys.

Ffynonellau

A—Pen 67, 149–53 B—Pen 99, 428–30 C—Pen 101, 305–7 D—CM 12, 254–6

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 68–9 F—Bangor 7268, 72–3

Amrywiadau

2 B–D crafen.. 3 C ..fy mron 8 A–D ..sy m dwyn 12 D ..o Bawl.. 13 C ..parab.. 14 A kefderw.. 21 A pedar enw., B–D ..enw pedair.. 23 A ..ai

deiliaid., *D* ..ai dda 24 *A* yn wy elael.. 26 *B-C* ..eitha.. 27 *A* ..gan mwy sydd 30 *B-D* caned., *C* ..cened.. 32 *D* ..o wyr 33 *A-C* ..dala., *D* ..dal.. 38 *D* ..rhydd 40 *A* ..hela., *B* ..fy nghynheiliaeth, *C* ..fy nghynheilaeth 44 *A-C* yna i torret.. 48 *D* taro r cwm nid trwy r cymal 49 *D* ..dwylaw.. 52 *C* ..a ddolur., *D* ..dolau llif.. 53 *D* pa., *B-D* ..pennadur 54 *C* ..y carwn gam.. 56 *A* ..ddevth., *B-D* ..ddaeth.. 57 *B-D* ..ddaeth., *D* ..is neuadd 59 *B-D* ..yn nesa.. 62 *A-C* ..dala., *D* ..dal.. 63 *A* ..mae gwn., *BC* ..y mae.. 64 *A-C* ..y tric..

Marwnad Hywel ap Rhys ap Hywel

4 Trabluddus yw teirw Bleddyn:
 Trabludd a wlych deurudd dyn.
 Treisio'r haul a'm troes i'r rhwyd,
 8 Troi niwl at yr hen aelwyd.
 Hywel ap Rhys, helpwr oedd
 Y rhieni yr hanoedd.
 Marw yw'r gŵr, mawr wae'r gwirion,
 12 Gorau ei saig o'r oes hon.
 Arafa' dyn ar fwyd oedd,
 Yn y gad penaig ydoedd.
 Ni bu well o'r dröell draw
 16 Fraich dyn ag fu farch danaw.
 Trahaearn, Badarn bydoedd,
 Tra fu Rys gartref yr oedd.
 Tra fu Hywel, f' amgeledd,
 O Rys ni roed bys i'r bedd.

 Pan gladdwyd, y pen gloywddu
 Yn llwyd aeth wedy'r lliw du.
 20 Pwy fry o Gymru a gad
 Yn eu galar yn gwylïad?
 Dyn blin o Gaerfyrddin fawr,
 Dyn o Iâl dan ei elawr;
 24 Dynion Gwent yn dwyn un gŵr
 Wedy cynnull deg kannwr;
 Dynion o Fôn ar ei fedd,
 Dynion Gŵyr, deunaw, 'n gorwedd;
 28 Dwylan Hodni yn criaw,
 Dwylan Wysg fal daly y naw.

 Madog, arglwydd, a wyddiad
 O Rys y dôi wr o stad.
 32 Torres aelod tir Selyf;
 Tir na thai i'r tarw ni thyf.
 Aeth o'r Ddiserth hyd Ferthyr
 Lif Noe gan lefain ei wŷr.

36 Aeth glaw i'n curaw 'n y côr;
 Aed i nef waed hen Ifor.
 Nid âi Ddwywent un fendith
 Heblaw bryn y Beili-brith.
 40 Haul oedd dros yr Heledd draw,
 Dŵr oedd dros daear iddaw.
 Pyrth hwn fu'n porthi henwyr;
 Porth nef fo'n gartref i'r gwŷr!

 Er nad oes yn ein oes ni
 44 Ŵr o baladr i'r Beili,
 Mae mab arglwydd yn llwyddiaw
 Tal-y-llyn; nis tolia llaw.
 Am war y coed mawr y caf
 48 Wreichionen o'r ach hynaf.
 Wyrion, kannwr yn cynnal,
 A neiaint hwn a wnânt dâl.
 Merched Hywel a wela,
 52 Meibion o'i galon a gaf.
 O'r merched fo gair marchog
 A biau'r groes y bu i'r Grog.

Ffynonellau

A—Pen 67, 157–60 B—Pen 99, 431–3 C—Pen 101, 308–9 D—CM 12, 256–8 E—BL Add 31070, 41^v–43^v

Ffynonellau eraill

F—LIGC 670D, 70–1 G—Bangor 7268, 74–5

Amrywiadau

1 A ..bl[]ddy[] 3 DE ..a n troes., A ..troes yr []yt 4 A troi n vl., C tri niwl.. 7 E marw r gwr.. 9 A []rafa dyn.. 10 A []n y gat.. 12 A []raich dyn..varch dan[]w, D fraich ag bu farch., E ..ag ni bu.. 13 A []rahayarn.. 15 DE ..ymgeledd 19 A–D ..gymry.. 20 BC yn y galar i n gwelad, DE yn y galar yn gwelad, A ..gwelat 28 A–C ..dala., DE ..dal.. 31 E ..aelwyd.. 34 E lif noe lefain.. 37 A nidai ddwywend., BC nid ai i ddwywent., DE nid ai i ddwywend.. 42 A ..vor gartref.. 43 A ..yn yn ooes ni 45 B–E ..llwyddaw 48 DE ..or wrach hynaf 50 A a niaint., B–E a maint hwn ym a.. 54 A–E ..y bv r groc

Moliant Morgan ap Rhys ap Hywel a Lleucu ei wraig

- Mae ymddiddan am ddeuddyn
 Ni bu eb dâl i bob dyn:
 Morgant, llawer mwyniant medd
 4 Aeth i'n rhaid o'th anrhydedd;
 Lleucu yn anrhegu'n rhad,
 Llin Rhys a wellhâi 'nhrwsiad.
 8 Wŷr Hywel a'n mawrhaodd;
 O'i law y rhoes lawer rhodd.
 Hael yw gwylan hil Gwilym;
 Honno a roes henaur ym.
 12 Wŷr Dafydd aeth ar dyfiad;
 Ei lys oedd lwyrywys i'w wlad.
 Hynod yw yn hyn o dir
 Haul lwydwen hoyw Elidir.
 Aelodau hyn o wledydd
 16 A'r ddwy sir iddi y sydd:
 Tawy ledw, tai Elidir,
 Tywi, dwylan Hodni hir.
- Os gwreigdda i wrda aeth
 20 Nid rhagor ond rhywiogaeth.
 Os gŵr gwych sy i garu gwen
 Iarll a weddai i wŷr Llawdden.
 Rhydderch wyd i'th broffwydi,
 24 Arddun ei hun ydyw hi.
 Lleucu dawel yw Elen,
 Ifor ywch chwi i'r ferch wen.
 Da oedd gael deudda i gyd;
 28 I'r dynnas mae ynn gadernid.
- Ti biau swyddau a serch,
 Tyrau meinin tir Maenerch.
 Dolywernen daly arnad,
 32 Dadleuau'r teidiau a'r tad.
 Breiniau tiredd a brynynt
 Brychan ac Ysgordan gynt.

36 Rhyw iawn daly o'r hen dylwyth,
Rhan Madog daleithiog lwyth.
Tri phlwyf, yr wyd yn blwyfol,
Trychant a'u daliant yn d'ôl.
40 Cyfod rent dy ddau hendad,
Cyfanna lys, cefn y wlad.

Carw o Fadog, cryf ydwyd,
Coron aur cywirion wyd;
44 Oen Duw gwâr, y rhygarw hen,
Arth gwynias wrth y gynnen;
Angel hoyw yng Nghilhywi,
Un plufyn aur i'n plwyf ni.

48 *Mudont dai* Gastell Madog
Mal tŷ y Greal neu'r Grog.
Tebyg yw'r tŷ cerrig cau
Hwn i lys hen Elisau.
52 Dau lu fydd ar dâl y fainc:
Llu daear llewod ieuainc,
Llu'n myned fal y rhed rhod,
Llin dau Ifor, llun dyfod.
Rhowch win i'ch gwerin a'ch gwŷr;
56 Chwi yw gwinwydd chweugeinwyr.
Cynheliwch wledd lle gwedda;
Cynnaid yw'ch ciniawau da.
Cant awdl oedd i'ch cyndeidiau;
60 Cannyn a'ch dilyn eich dau.
Can haelwyd da cynhalioch!
Canol byd kannwyl y boch!

Ffynonellau

A—Pen 67, 308–12 B—Pen 99, 509–11 C—Pen 101, 383–5 D—CM 12, 322–4

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 44–5 F—LIGC 22832C, 412–14 G—Bangor 7268, 49–50

Amrywiadau

2 B–D ..heb.. 3 A ..mynyant.. 4 A ..yn rraid.. 5 B–D ..in anrhegu.. 6 C llin Rys.. 12 A–C ..y wlad, D ..ei wlad 20 D ..rhywogaeth 21 AD ..sy garv gwenn, BC ..y sy garu gwen 22 A ..weddei wyr.., B–D ..a wedda i wyr.. 24 A ..e hvn.. 26 B–D ..ych chwi.. 28 D i deyrnas.., A–C ..deyrnas.. 31 A

..dala., *B-D* ..dal.. 33 *B-D* ..tiroedd.. 34 *D* ..Ysgorgan.. 35 *A* ..dala., *D*
 ..dal.. 37 *B-D* ..wyt.. 39 *D* ..rend.. 43 *A-D* ..y rrygar hen 46 *A* ..yn plwyf..
 47 *A-D* medon tai.. 57 *BC* ..lle y gwedda 59 *A-C* ..kyntteidiav, *D* ..oedd
 cyntidiau 61 *A-C* ..da y kynhalyoch

Marwnad tri mab Morgan ap Rhys ap Hywel

- Y mwya'i bwys am y byd,
 Ac â darn o'i gadernid,
 Arwyddion Duw ar ddynd doeth
 4 A rydd drennydd neu drannoeth.
 Gwrid a chwys o gryd a chwydd,
 Gwenwyn wybr a gny'n ebrwydd.
 Ergyd trwm aeth ar goed Rhys
 8 Ladd ac adladd y gydlys.
 Cynnen aerfen a orfu,
 Cadgamlan plant Forgan fu.
- Tri ar y bar fu'n troi'r bêl,
 12 Trywyr hefyd trwy'r rhyfel.
 Ym Merthyr y'n cymurthwyd;
 Ynghudd, Maredudd, yr wyd.
 Nid â'r oes hon i dŷ'r saint
 16 Yn y Cwmwd un cymaint.
 Tras y Dinas a'i 'dwaenai;
 Tomas o'r Dinas nid âi.
 Rhoed olew ar hyd elain
 20 Nesaf i'r hynaf o'r rhain.
 Os Rhys frywys fu'r ieuaf
 Am Rys o'r ynys yr af.
 Dau genau i dŷ Gynog,
 24 Trydydd i grefydd tŷ'r Grog.
- Llawer cwyn, llai yw'r canu,
 Lladffa fawr lle 'dd wyf a fu.
 Ni wn obaith o'n gwaith gwan
 28 Dros aeth bedeiroes weithian.
 Grynau had Goronwy hen
 A gadeiriodd gwaed Urien.
 Dwyn teŷrmedd hil Bleddyn,
 32 Dadwraidd hil Dewdwr oedd hyn.
 Tri a dynnwyd, troed Einion,
 Tair tarian Brychan o'u bron;

- 36 Tri eginyn teirw Gwynedd,
Tri hebog Fadog o'i fedd.
Canu mae pob datgeiniad
Cyrn glaw ym mhob cwr i'n gwlad.
Trist yw'r gaer o'r trwst ar gyrn,
- 40 Torri coed deri cedyrn.
Ni thau Hodni yn criaw,
Ni ad ei bloedd dŷ heb law;
Castell Madog i'n gogylch,
- 44 Cilhywi'n gewri ar gylch.
Ni rown Forgan er cannwr
Neu Ifor gynt. Nef i'r gŵr.
- 48 Pumaib a roed i'm pennaeth;
Pumrhan yn ddwyran ydd aeth.
Torri daear trwy dywod,
Tri o'r rhain, a wnaeth tro'r rhod,
A'r ddeufab aen' i'r ddwyfainc,
- 52 O gorff Rhys, drwy Loegr a Ffrainc.
Daw un gŵr i'n dwyn o gaith;
Dêl o Wilym dâl eilwaith.
Du fu'r nos; Deifr â'n isel;
- 56 Dafydd a'i gwna'n ddydd ban ddêl.

Ffynhonnell
Pen 67, 80–4

Darlleniadau'r llawysgrif

12 ..trwy r hyfel 20 ..or hain 37 kannv.. 38 ..kwrr yn gwla[] 39 ..trwst ar gyr[] 48 ..yr aeth 50 ..or hain.. 56 ..a gwna..

Moliant Gwilym ap Morgan ap Rhys a Dafydd ei frawd

- Mae had yng Nghastell Madawg,
 Un had ag ederyn hawg.
 Had Forgan ân' hyd Fyrgwyn,
 4 Ap Rhys, gwŷr a wŷr pris gwin.
 Had Rys yw fy hyder i,
 Had dau Ifor hyd Dyfi.
 Had Elidir hir yw'r rhain,
 8 Had y ddeuRys hyd ddwyrain.
 O'r tylwyth, ir wyt, Wilym,
 A dalai rodd dail aur ym.
 Deufab ac un pendefig,
 12 Dafydd, y trydydd y trig.
 Nesa' plaid a gynhwysir
 Adar Rhys gyda'r neidr hir:
 Dau faedd o lwyth Dafydd lân,
 16 Dau o bur achau Brychan;
 Colofnau, dreigiau 'n y drin,
 Corfau urddas Caerfyrddin;
 Colfau hirion Goronwy,
 20 Coed o Waithfôed a wnaeth fwy.
 Os cysgu y bu 'n y bedd
 Dir y Blaenau dair blynedd,
 Y do o frig Deau fry,
 24 Da dihuna'r do hynny.
 Gwreichion Uwch Aeron ywch chwi,
 Goleuhêwch Gilhywi.
 Gwnewch Gastell wellwell i wan,
 28 Madog, gywoethog weithian.
 Nid âi i'r fainc dri ar farn
 Eithr Hywel a Thrahaearn.
 Nid â dyn i naid ei dad
 32 O dai Wilym *un* daliad.

 O'th oedais wyth ddiwedydd
 Tre'rtŵr sy'n torri'r oed dydd.
 Mae chwedl, nid am echydig,
 36 Mawr o baut ddwyawr yn ddig.

- Ni byddaf mwy no'm boddi
 Herwr uchelwr fal chwi.
 Gŵyl Fihangel o'm gelwid
 40 Gwaethaf ba llawnaf fo'r llid.
 Bwrw a wnafl ym marn Dafydd
 Nad wyd waeth newidio dydd.
 Mae'n unwyl yn ddwywyl dda
 44 Mair a Chynidr, merch Anna.
 Gŵyl Fair rhaid ym gael y farn
 Rhag oedi mab rhy gadarn;
 Barnu'n bod yn gymodol
 48 Rhag bod un ethrod yn ôl;
 Barnu er ym ganu'n gall
 Na thorrwyf unwaith arall.
 Ni'm gad mab dy dad heb dŷ;
 52 Mae ym gydwm o'm gedy.
 Y rhyw fach aeth rhof a chwi,
 Nid â diriaid i'w dorri.
 I'ch mabolaeth yr aeth rhôm;
 56 I henaint nis gwahanom.

Ffynonellau

A—Pen 67, 92–5 B—Pen 99, 408–10 C—Pen 101, 289–92 D—CM 12, 235–7

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 57–8 F—Bangor 7268, 59–61

Amrywiadau

6 *A–D* ..ddav yvor hyd ddyvi 7 *ACD* ..yw r hain 10 *D* a dala rodd.. 11 *C* ..or vn pendefig 13 *D* nesaf.. 14 *A* a dar...meidr... 15 *D* ..o lwyth lan 18 *A* ..kaer verin 21 *D* os cysgu bu yn y bedd 24 *BC* da y dihuna.. 25 *BC* ..vch aeron.. 27 *A* ..galltell.. 28 *B–D* ..gywaethog.. 29 *B–D* ..ir farn 32 *B–D* od ai.., *A–D* ..yn dalyat 35 *B–D* ..ychydidig 36 *A* ..dwyar.. 40 *BC* ..bo.., *D* ..bo r llawnaf.. 47 *D* [47–8] 48 *BC* ..athrod.. 49 *C* ..er ymganu.. 52 *B–D* ..godwm.. 55 *D* och mabolaeth..

Moliant Gwilym ap Morgan ap Rhys

Y mae 'Merthyr yn wŷr nod
 Wyrion Dafydd, rai, 'n dyfod;
 Rhai'n tyfu yn rhent Ifor
 4 A roes es dwyoes f'ystôr.
 Morgan gynt rôi ym ergyd
 A gŵn hir digon ei hyd.
 Wrth rodd y'm galwodd Gwilym
 8 Eb lai rodd no nobl aur ym.
 Hil Rys, Fêl Ynys flaenawr,
 Hebog Castell Madog mawr,
 Wŷr Hywel, Fihangel hyd,
 12 A'i etifedd *wyd* hefyd.

Merch Wallter o'i haelder hi
 A gynyddodd gwin iddi.
 Nid âi'i châr o dŷ 'Ngharad,
 16 Nid aeth wŷr heb dŷ ei thad.
 Wŷr *wyd* Rys, aur hyd yr ên,
 Wŷr Rys arall yw'r seren.
 Honno'n rhoi'r ginio i'r gwan,
 20 Hwnnw'r aur hen a'r arian.
 Ni châr ei phen air gweniaith,
 Nis câr ei chymar ychwaith.

Od ery dyn wrth d'air di
 24 N'ad i arian ei dorri.
 Dwyn rhag camwedd dy gleddau;
 Deufin hir a wna d'ofnhau.
 Dwg i'r ffair dager a ffon;
 28 Na ddwg arf am dda gwirion.
 Dyro fwyd i rai o Fôn,
 Dyro'r dillad i'r deillion;
 Dyro win, cynefin *wyd*,
 32 Dyro adar, dewr ydwyd.
 Ugain dolef gan delyn
 A dâl pwyth dros dy help ynn.

- 36 A delais i'ch ardaloedd
O daliad ywch—dlyed oedd.
Am Forgan bu ym fawrgwyp;
Ni roed i'w gân erioed gwyp.
Brath ffon fu 'n 'y nwyfron i;
- 40 Mwya' unbrad fu 'Manbri.
- Duw ni fwrw dy niferoedd;
Dy aros hir i'th dras oedd.
Digon oedd dy gynyddu
44 Dros fil o'r pedeiros fu.
Gweled y ferch sy i'm perchi
Yw gweled dawn ei gwlad hi.
Dy weled hwnt i dlawd hen
48 Gweled euro gwlad Urien.
Mae o ogyrch ym egin
Goronwy Goch fal grawn gwin.
Ef a leinw drwy'r Fêl Ynys
52 Elidir hen aelwyd Rys.
O pwysir gŵr hir yrhawg
Trwm wyd lle bu'r tri Madawg.
Had deuwr aeth hyd Deau
56 Ac epil un i gwpláu.

Ffynonellau

A—Pen 67, 165–9 B—Pen 99, 435–7 C—Pen 101, 312–14 D—CM 12, 260–2

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 72–4 F—Bangor 7268, 77–8

Amrywiadau

1 *D* y mae n Merthyr.. 5 *A–C* ..a roi.. 8 *D* ..i rodd.. 9 *D* ..fal ynys.. 12 *A–D* ..wyt.. 15 *A–D* nid ai char.. 16 *A* ..y wr.., *BC* ..ei wr.. 17 *A* ..wyt.. 19 *B–D* ..rhoi ginio.. 24 *D* nid a arian iw dori 25 *C* ..gledda 36 *D* ..dyled oedd 37 *A* ..y bwm vawr gwyp, *B–D* ..y bum fowrgwyn 38 *A–D* ..y gar.., *B–D* ..gwyn 40 *BC* ..vnbrath.. 45 *A–D* ..sy m perchi 52 *A–D* ..rrys 54 *A* ..wyt.. 56 *BC* ..ei gwplau

Gofyn wyth ych dros Wilym ap Morgan ap Rhys

- Mawr yw'r bâr am wŷr o'r byd,
 Mwy yw'r rhyfel mawr hefyd.
 Nid da cae un tŷ cywair;
 4 Eisiau i neb hau a'i pair.
 I fab Rys e fu bresen
 A theiriau fawr aeth i'r fen.
 Mae'r had yng Nghastell Madawg;
 8 Ni ellir hau oll yrhawg.
 Minnau, Gwilym, yn gwyliad
 Banerau'r tyrau fu i'r tad.
 Er bod i orfod arfau
 12 Ni bu un ych dan ben iau.
- Ni chair arch wych er erchi
 Eithr o dda f'ewythredd i.
 Cae mawr o fewn Cymru fydd
 16 Ceirw 'Lidir rhag gorwledydd.
 I'r un gŵr yr â'n geraint
 Rif Ynys Enllif o saint.
 Wyth o'r un llwyth a ry 'n llaw,
 20 Wyth o dylwyth Llandeilaw.
- Ych Morgan, fwbach mawrgau,
 A dry'r wyth neu dorri'r iau.
 Os mab Rys ym a'i brysia
 24 At wŷr Rys eto yr a'.
 Eidion Rydderch, anerchwch,
 A dry'r saith neu dorri'r swch.
 Ni bu demig mab Domas
 28 O Dref-gib heb darf i'w gas.
 Ych Siôn, bâr union breiniol,
 Ych Harri wych ar ei ôl.
 Y tad a wnâi'r wlad lydan;
 32 Ef a wna'r himp fwy no'u rhan.
 Gruffudd mab Maredudd rym,
 Siôn Du, galon deg Wilym.

36 Ni bydd mab Siwan fanol
 Na hydd Maredudd ar ôl.
 Ni bydd dig pendefigion
 Er torri fry'r tir o'i fron,
 40 Nid er rhagor p'un orau,
 Ond o frys wŷr Rhys ar hau.
 Am Siôn a'i feibion efô
 Y mae'r sôn drwy'r Mars yno.
 44 Uwch y gwelaf ych Gwilym
 No'r gorwydd seithmlwydd sy ym.
 Llywelyn felly eilwaith,
 Du, a roes un gyda'r saith.

48 Wyth dragwn ar waith dreigiau,
 Ellmyn a dynn ac a dau.
 Eirth o goed, wartheg, ydynt,
 O deirw y'u cad Warwig gynt;
 52 Meiri coedydd mawr cedyrn,
 Morfeirch a'r ceirch ar eu cynn;
 Hwsmyrn ar bob tyddyn ton,
 Haid o Dwrcïaid ceuon;
 Tyrchod yn datod ynn dir,
 56 Torlydain, teirw Elidir.

Mae ym gyrfer arferol,
 Trwyn hir yn torri 'n eu hôl.
 60 Y ddau filwg oedd felys
 I dorri grwn drwy ei grys.
 Cyllell gau mewn gwrymau'r graig
 A'i threinsiwr aeth i'r unsaig,
 A charn hon o las onnen
 64 A chau ei ffod uwch ei phen.

Un ac un yn ei ganol,
 Dau a dau'n tynnu'r did ôl.
 68 Wyth dôl ar waith y delyn,
 Yn yr wyth dôl anrhaith dyn.
 Bid aradr, wŷr bedeiriau,
 Bid ar hur bedwar i'w hau.
 Bid yrhawg bywyd a'u rhoes
 72 A bid erydr bedeiroes.

Ffynonellau

A—Pen 67, 216–20 B—Pen 99, 463–6 C—Pen 101, 341–3 D—CM 12, 285–7 E—BL Add 31070, 57^v–60^v

Ffynonellau eraill

F—LIGC 670D, 22–3 G—Bangor 7268, 23–5

Amrywiadau

1 *DE* ..boen., *E* ..am wyr y byd 2 *AE* ..yw rhyfel.. 3 *B–E* ..kau.. 4 *A* eissie n e pav.. 10 *E* banerau tyrau., *A* ..vvr tad, *DE* ..bu r tad 17 *A* ..y rawn.. 23 *E* ..brysiat 25 *E* ..Rhydderch., *B–D* ..annherchwch 27 *B–E* ..dymig.. 31 *A–C* ..a wna ir wlad.. 32 *E* ef a wnai r imp fwy na i ran, *B–D* ..wnai.. 33 *E* ..fab.. 34 *D* Sion da.. 39 *D* ..er rhag pun., *E* ..er pun ydyw r orau 40 *C* ..wyr ar hau 42 *C* ..drwy Mars.. 43 *BDE* ..ach., *C* ..gwelaf Gwilym 44 *C* ..seithmlwydd 47 *E* ..dragwr.. 49 *DE* arth o goed wrth og.. 50 *A–E* ..i kad.. 56 *E* torr lydan.. 58 *B–E* ..yn troi., *E* ..ar eu hol 61 *A* ..grymav., *B–D* ..gryniau., *E* ..grymiau.. 62 *B–E* a threinsiwr.. 64 *E* ..y ffod.. 65 *A* vn a gwn., *E* ..yn y ganol 70 *E* ..bedair..

Moliant Tomas ap Siancyn Fychan ap Siancyn

- 4 Tomas â'i wayw glas a'i gledd
 A wnâi gaer yn ei gorwedd,
 Eginyn Siancyn, os iach,
 Ag a'i fodd yn gyfeddach.
 Am Ruffudd deurudd dirion
 Ac Einion Sais y gwnân' sôn.
 8 Gwaed Dafydd a gyd-dyfint,
 Gwaed Rhys Goch oedd gytras gynt.
- 12 Carw gwlad Forgan gyfannedd,
 Caregl ynn wyd, câr Glyn-nedd;
 Tanllyd yn lle cyfyd cam,
 Tanllwyth wyd henllwyth Adam.
 Os am ynys ymwenir
 Â gwayw 'n y rhest gan w'r hir.
 16 Bar Wysg ac Aberysgir
 A bair yn fân ei bren fyr.
 Triael oedd yn rhoi traul ynn;
 Ti fydd trydydd o'r tridyn.
 20 Dafydd Llwyd sy 'nglan Dyfi;
 Dafydd frawd Dafydd wyt ti,
 Iolo y tir a'r wlad hon
 Heb un well ei benillion.
 24 Ni bydd cywydd mewn cawell,
 Ni bu i Sypyn englyn well.
 Gair o'th ben a ysgrifennwn;
 Awyr a thir oedd werth hwn.
- 28 Dwfr uchel wyd o Frychan;
 Dŵr oedd wŷr Tewdwr a'r tân.
 Dy droed erioed ar adwy,
 Dy wayw ar faes—caud air fwy.
 32 D'eryd aeth tros wlad Wrgan,
 Dy wŷr o Ferthyr i'r Fan.
 Weithiau y gwnaut driniau trwch
 A da'r byd nis darbodwch.

- 36 Weithiau eraill, e'th eurwyd,
Hwsmon â chan eidion wyd.
Teg yw'r gwartheg o'r gorthir,
Teg yw'r tai, nid hagr y tir.
Cynnar o'r henar yr haf
- 40 Y cawn hau 'n ôl cynhaeaf.
Odid borau i'th neuadd
Na chafad gleisiad o gladd.
Nid ai i'r man o dri mynydd
- 44 Â chi hir na laddech hydd.
Efo wna dyn fwy no dau;
Chwi a wnaethoch hyn weithiau.

- 48 Os y merched a gredir
Un dewis wyd ein dwy sir.
Nid dewr dyn, mae'n tir danad,
Nid doeth dyn ond ti a'th dad.
Campus wyd, ieuanc himpyn,
O'th gampau da ni'th gwypm dyn.

Ffynonellau

A—Pen 67, 121–5 B—Pen 99, 419–21 C—Pen 101, 296–8 D—CM 12, 246–8 E—BL Add 31070, 49^r–51^r

Ffynonellau eraill

F—Gwyn 7, 89–91 G—LIGC 670D, 62–3 H—Bangor 7268, 65–7

Amrywiadau

3 *E* ..oes iach 4 *A–E* a gai fodd., *BD* ..ynn gyfeddach 8 *A* gaet..gyt rras gynt 10 *A* ..yn.. 11 *A* ..kyfyfyt kam 13 *A* ..i ymwenir 14 *E* ..yn rhest.. 15 *A* ..aber ysyr 24 *A* ..by sipyn.. 27 *A* dyfwr vchel wyt.. 30 *A* ..kaet., *B–E* ..caid.. 32 *C* ..o ferth ir fann 33 *A* ..gwnaet trinia trwch, *BD* ..gwnait., *E* ..gwnaist., *C* ..gwnait drini trwch 34 *A* ..nis darbedwch, *B–E* ..nid arbedwch 35 *A* ..e thevryd, *B–E* ..ith eurwyd 36 *A* hwssmwmmon.. 37 *E* ..o gorthir 39 *C* ..or heiniar., *D* ..or heniar., *E* ..yw r heiniar.. 40 *E* cawn hau yn ol.. 42 *E* ..glad 43 *B–E* nid ai r mann., *E* ..o dir., *C* ..mynydd 44 *B–E* ..leddwch.. 45 *B–E* ef a wna.. 48 *A* ..yn dwy sir, *BC* ..in dwy sir, *DE* ..on dwy sir 49 *DE* ..mae r tir.. 50 *DE* nid aeth dyn.. 51 *B–E* ..impyn

Moliant Syr Morgan ap Rhys, ficer Merthyr Cynog

- Syr, un o drasau'r ynys,
 Morgan ym mhob rhan ap Rhys,
 Wyr Roser, câr i'r Iesu,
 4 Egin Hywel Gethin gu,
 Dyn a rydd Mab Duw 'n ei rith
 Drwy'r gwin a'r dŵr a'r gwenith;
 Dyn a wŷr dan ei eiriol
 8 Dwyn i nef dynion 'n ei ôl;
 Micar da ei Gymrâeg,
 Merthyr, rhwng dwy Ysgir deg.
 Esgob a fu'n ei wisgaw;
 12 Y sy o lôn is ei law.
- Ei smonaeth wrth ddrws mynwent
 Y sydd gwell no swyddau Gwent.
 Euro'r adail yr ydwyf;
 16 Urddas a wna'r plas i'r plwyf.
 Cloddiau dwbl—oes clawdd debyg?—
 Coed braisg yn caead y brig;
 Garddau—chwarterau torred,
 20 Gwelyau'r llysiâu ar lled.
 Cydwnïad rhwng coed newydd
 Caer fawr plas y ficar fydd.
 Bwrw swnd a beris yndi,
 24 Briwio calch hyd ei brig hi.
 Pond da lled, penty llydan,
 Parlwr yr eglwyswr glân?
 Simnai sgwâr fal tai 'Mharis;
 28 Ni wŷr Ffranc hanner ei phris.
 Maint llong yw ei mantell hi,
 Main nadd o'r tu mewn iddi.
 Lle'r tân i'n cadw rhag annwyd,
 32 Lle'r ford a phob lliw ar fwyd.
 Gwely parch i fab marchog,
 Gwydr glas yw godrau ei glog.
 Lle'r cwpwrdd fal llawr capel
 36 Lle 'dd af at bob llu a ddêl.

O deffry'n brudd dyffryn Brân
 Lle dêl y gwna llu dwylan,
 Lle bo rhyfel mogelyn',
 40 Llu'r Fforest oll ar ffrwst ynn.
 Dwyfil o dylwyth Dafydd
 Ap Rhys falch, parhäus fydd.

Y llan fu i Frychan freichir,
 44 Y gwaed o'r tad a geidw'r tir.
 Ni bu yno ond bonedd
 Brychan wrth un ban i'r bedd.
 Nid iawn bod un dyn bydol
 48 O ben ach na bo 'n ei ôl.
 E ddaw'n gâr uddun' i gyd;
 Ni ddaw arall; ni ddeiryd.

Yn ddisgybl, er ban ddysgodd,
 52 Mab Rys, ni bûm i heb rodd.
 Er pan gafas ei gasul
 Y gwnaeth wasanaeth dduw Sul.
 Gadu o'r Sul gyda'r saint
 56 I mi hwnnw i'm henaint.

Ffynonellau

A—Pen 67, 170–4 B—Pen 99, 437–9 C—Pen 101, 314–16 D—CM 12, 262–4 E—BL Add 31070, 46^v–48^v

Ffynonellau eraill

F—BL Add 15003, 59^{r-v} G—LIGC 670D, 74–5 H—Bangor 7268, 78–80

Amrywiadau

1 B–E yr vn.. 2 D ..Rys 3 DE ..Rosier., A–C ..yr Jessv 6 E ..a gwenith 8
 B–E ..dynion iw ol 9 DE bicar.. 13 A y ysmonaeth., E ei smanaeth.. 16 E
 ..ar plwyf 17 A kloddyaw.. 18 DE ..yw.. 24 B–E briwo.. 25 E ..llid.. 26 C
 ..yw r.. 27 E ..Paris 29 A ..llong yn y mantell., BC ..llong yn ei mantell..
 34 A ..godrav gloc 35 BC lle ir cwpwrdd.. 36 B–E lle dd a.. 38 BC lle y del..
 40 D ..fforest ar ffrwst.. 42 B–D ..Rys., DE ..a fydd 43 A ..vv vrychan.. 49
 A ..vddyn., B–E ..iddyn.. 52 E mab Rhys.. 53 A ..y gassvl

Moliant Hywel ap Morgan ap Dafydd a' i ddau frawd

- Y trimaib lle mae'r tramwy
 A bery'n hir eu barn hwy,
 Teca' tri rhwng dau briawd,
 4 Tri thegan Morgan a Mawd.
 Y ddau fu'r haul a'r lleuad
 A'r tri sy'n oleuni i'r wlad.
 Trydydd Hywel, aur melyn,
 8 A'r trydydd Dafydd wyd ynn.
 Llewod brwydr mewn llid bredych
 Llywelyn a Watgyn wych.
 Tri o'r un trwy wirionedd,
 12 Trychant a fagant ar fedd;
 Tri annedd uwch tir neu ddau,
 Tair gwledd yw'n annedd ninnau.
- Ni throi, Hywel, lle delych,
 16 Dy wayw ysgwâr ond i was gwych.
 Oen Duw dof wyd yn dy dir
 A tân onn o'th enynnir.
 Niwr mil am dy aur melyn
 20 Na bo'n fêl ar ben ei fys.
 Pawb â'n ddidig i'th frigyn
 Eithr os dig ni'th erys dyn.
- Trille sy'n torri allan:
 24 Tair ach Rhys yn troi i'ch rhan.
 Trwy eiriau llid y try'r llaill,
 Trwy gariad y trig eraill.
 O filwyr, prif afaelaid,
 28 Mae'r Iesu'n amlhäu 'mhlaid.
 Ni wnafron yn feistri;
 Ni wnâi chwech ym a wnaech chwi.
 Brawdfaethi ym ni o'n iaith
 32 Ac o unwaed ugeinwaith.
 Minnau wnawn, bes mynnwn i,
 Foethau fwy no'm brawdfaethi.
 Ef a grinai rhai o'r onn
 36 A'r llwyn arall yn irion.

- Os dengoes a ostyngwyd
 Fo'i tyn y gwŷr hyn o'r rhwyd.
 Dyn a gyfyd yn gyfion;
 40 Da y dehea'r do hon.
 Er a drig o genfigen
 (Nid hwyrach bod rhai uwchben)
 44 Osglog yw Brycheiniog chwyrn,
 Osglau rhwng cadau cedyrn.
 Ni bu osgl ywch heb asgwrn;
 Esgeulus yw osglau swrn.
 48 Egin Urien o henwaed
 A rôn' estronion is traed.
 Ceirw a adran Caerwedros,
 Ceyrydd had Ruffudd, hyd Ros.
 Tri chenau teirach Einion
 52 Trwy ffens a wŷr torri ffon.
 Trigeinffon ânt trwy ganffair;
 Tri oesi cewri y'ch cair!

Ffynonellau

A—Pen 100, 33–5 B—Llst 133, rhif 11 C—LIGC 2023B [= Pant 56], 277–80 D—BL Add 14991, 270^r

Amrywiadau

1 *A–D* ..trimab.. 6 *B–D* ..oleuni r wlad 7 *B* ..au melyn 8 *D* ..yn 10 *A–D* ..nai watgyn.. 13 *ACD* ..ywch.. 14 *B* tair gwlad.. 15 *A–D* ..lle y delych 19 *A–D* ni wyr.. 24 *A–D* ..iach., *B* ..yn tro.. 31 *B* brawdfaethu.. 33 *ACD* ..a wnawn.. 35 *ACD* ..rai.. 38 *A–D* e i tynn., *CD* ..ir rhwyd 45 *A–D* ..vwch.. 48 *A–D* a rhon.. 53 *B* ..a ant..

Moliant Hywel ap Morgan ap Dafydd a Sioned ei wraig

- Mae dau ddyn i'm diddanu:
 Hywel a'i dad, gŵr hael du.
 Hywel a merch Lywelyn,
 4 Haela' dau fu ar helw dyn.
 Ni bu defym, fab Dafydd,
 Na bai ei draul i'r byd rydd.
 Lleuad Rys, mae'i llaw drosam,
 8 Llwyd, merch un gyllid â'i mam,
 Nid â ulw dros dy aelwyd
 Onid tri bêr yn troi bwyd.
 D'aur da aeth am dair diawd,
 12 D'arian fal Morgan a Mawd.
 Ni chaid deurwn o'ch tiredd
 Na chaud yn wâr ych dan wedd.
 D'unllaw a geidw'r hen danllwyth;
 16 Dêl beirdd i'th *dai* a dâl bwyth.
 Ymddiried ym a dderyw
 Ac nid am swydd; arglwydd yw.
 Nid tref tad dros un wlad lwydd
 20 I daeogwaed y digwydd.
- Y mae gair am gywired
 Eich ffydd a'ch crefydd a'ch cred.
 N'ad i wyrion ei dorri;
 24 Nis gad dy dad i dydi.
 Er a dreiglais ar draglaw
 Nid aeth â'm lluniaeth o'm llaw.
 O bu'r llwyn o berllanwydd
 28 Y llys oll yn fy llaw sydd.
 Dof i'r wlad â cherdd gadair;
 Deuddyn o'r Peutun a'i pair.
 Darllewyr a dyr lliain;
 32 Ni thyr rhwym a wnaeth y rhain.
 Sôn yn isel gan delyn,
 Sioned a'i merched a'i myn.
 Aeth ynof o iaith Wynedd,
 36 Hon, hi a'i meibion, a'i medd.

- 40 Mae'n ieuanc o'r min awen
Er bod 'y nhafod yn hen.
Nodaf â cherdd eneidïol
Nod ar fy mheunod i'm hôl.
- 44 Duw, ni magwyd un megis
Dafydd nai Ruffudd neu Rys.
Ni aned dyn onid ti
A wna rhan un o'r rheini.
Yn oen gŵyl yn ein golwg
Ac yn wayw dur lle gwnaud wg;
Yn aur gledd hen arglwyddi,
- 48 Yn fw i Sais yn f'oes i.
Hir oedd Elidir lwydwyn;
Hwy fo dy oes hefyd ynn.
Hebog Tyfaelog felyn,
52 Hebod ni chân tafod dyn.

Ffynonellau

A—Pen 67, 88–91 B—Pen 99, 406–7 C—Pen 101, 287–9 D—CM 12, 234–5

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 55–6 F—Bangor 7268, 58–9

Amrywiadau

6 A–C ..y dreyl., D ..y traul.. 7 A ..mae llaw.. 10 A ..yn tri byt 14 A ..chayt., B–D ..chaid.. 16 A del bairdd yth i daly bwyth, BD/C del beirdd yt i dalu ei bwyth / bwyd 19 A ..vn wlat lwyd[] 22 A ..ac krefydd ac kret 23 D ..y wyrion.. 24 A–C ..tydi, D ..y dydi 31 A darlleywyr.. 44 A ..vn o rreini 46 A ..gwnaet., D ..gwnaid.. 50 A ..hefyd yn 51 A–D ..tafaelog..

Moliant Gwilym Fychan ab Ieuan ap Gwilym

- Y gŵr y sydd un gerrynt
 Â'r ddraig goch oedd o Roeg gynt,
 Gwilym fyth yn galw ym fedd,
 4 Fychan, ail Gynan Gwynedd;
 Carw o Ieuan glân ei glod,
 Corf o Wilym, cryf aelod;
 Blodeuyn a rhosyn Rhys,
 8 Baladr onn blodau'r ynys;
 Fflŵr-de-lis llwyth Elisau
 Ag a phawb yn ei goffáu.
- Ieuan ydoedd ein ceidwad
 12 Pan fu a'i lu dros y wlad.
 Canwaith y bu 'mhob cynnen;
 Eithr pawb ef a'i gwnaeth i'r pen.
 Daly sis wrth Baris y bu
 16 Ac yn Rhôn â gwayw'n rhannu.
 Troes ei ddwylo tros Ddilyn;
 Troi mae'r rhod bob term ar hyn.
 Neidiodd gwrs y planedau;
 20 Nid gwaeth er a wnaeth yn iau.
 Arwydd rhyfel a welas;
 Ef wyddiai frud Adda Fras.
 Ffordd y bu briffyrdd i ben
 24 Ffo'r ddwywlad, fal ffyrdd Elen.
 Etewyn mellt mewn ton môr
 Wedy gorfod y garwfor.
- Mae'n eistedd yma'n wastad;
 28 A wnêl ef un yw ei wlad.
 Os gwin a fyn ar giniaw
 O'r gell, o'r dunnell y daw.
 Os medd a'i gyfedd o gym
 32 Aur a deifl ar ei defyrn.
 Mêl cwyrmaid mal y carwn,
 Eog a hydd a gâi hwn,

- 36 A'r gwenithdir hir i'w hau
Am y lan â'r melinau.
Gwledd-dai lle bu'r arglwydd-dad,
Gwledd mwy no gwledd mewn eu gwlad.
Ni awn, bawb, yno i'n bwyd
- 40 Megis i'r tai y'n magwyd.
Eisiau ariant, ni sorrwn,
Eisiau rhent nid oes ar hwn.
Gafael y mab ar gyfoeth,
- 44 Anwybod yw i neb doeth.
Rhwyfo'r môr nes rhifo'r main
Wedy rhifo da Rhufain.
Mae iddo ben cymen call
- 48 A gwerin fwy nog arall.
Mae dwylo ym, adolwyn,
A ry y da er eu dwyn.

- 52 Ninnau'n feibion un febyd
Ac ar gost y gŵr i gyd.
Y mab digrif yn ddifalch
A minnau o foethau'n falch.
Efô'n gall er ofn gwylliaid;
- 56 Call i gadw'r angall oedd raid.
Dug yn rhyfel bêl y byd;
Wedy rhyfel dewr hefyd.
Drycha, ei radd, dorch o ruddaur;
- 60 Dwyn iddo gadwyn ac aur.

Ffynonellau

A—Pen 67, 304–8 B—Pen 99, 507–9 C—Pen 101, 381–3 D—CM 12, 320–2

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 43–4 F—LIGC 22832C, 409–11 G—Bangor 7268, 47–9

Amrywiadau

6 *D* ..waelod 7 *A* blodevn.. 15 *A* dala sis., *D* dal.. 18 *D* ..mae rhod.. 19 *BC* ..plaenedau 22 *A* ef wyddyai vryd., *B* e wyddai fryd., *C* a wyddai fryd., *D* a wyddai.. 23 *D* ..ei ben 24 *B–D* ..ffordd.. 28 *A* ..y wlad 33 *BC* ..aml y carwn, *D* ..aml ei carwn 37 *BC* ..lle y bu.. 38 *A* ..mewn i gwl[] 47 *D* ..cynnen.. 49 *B–D* ..im adolwyn 56 *C* ..gadw r oedd.. 57 *B–D* dwg.. 58 *B–D* wedi r rhyfel..

Moliant Siôn Fychan ap Gwilym ap Ffyllib a Marsli ei wraig

Silin gwŷr Cantre Selyf,
 Siôn o'r gwaed union a dyf,
 Hael a galawnt, hil Gwilym,
 4 Hebog Brycheiniog, braich ym,
 Wŷr Ffyllib a'i gorff eilwaith,
 Eryr o'r hen sawdwyr, saith,
 8 Egin Meurig yw'n mawredd,
 Ddu, yn ein magu â medd.
 Os Trahaearn fu'n barnu
 Iefan ei fab ei ofn fu.
 Madog ym Mrycheiniog chwyrn
 12 Trwy'r heol fu'n troi'r hëyrn.
 Nid anturiai dyn tirion
 Trwy sias lle'r anturiai Siôn.
 Oferedd yw i farwn
 16 O ddala tŷ ddilid hwn.

Ni ffaelodd i ferch Ffyllib
 Na gynau parch na gwin pib,
 20 (Cannwyll o hil Watgyn Llwyd,
 Cynhaliodd dir can haelwyd),
 Merch hirwen mawr ei chariad,
 Marsli, hil arglwyddi'n gwlad.
 Ieirll yw'r hŷn o'r lle'r henyw;
 24 Ar y Llys-wen iarlles yw.

Ym Mrycheiniog enwog ŷnt,
 O'r rhai hynaf yr henynt.
 Sôn o'u holl dynion, ill dau,
 28 Siôn Fychan, y sy'n feichiau.
 Os ieuanc y'm croesawodd
 Hŷn o'i rent ei henw a'i rodd.
 Oes a erys ei wyrion;
 32 Âi aros aur i'r oes hon.

Eu deudad oedd o Dewdwr;
 Dwy gad a gad o'r un gŵr.

- 36 Carennydd newydd a wnân';
Ni thyr mwy no gwaith arian.
Blodau cyn afalau fydd;
Blodau wna'r blaid o newydd.
Aeron o'i blant o'r un blaid
- 40 A wna wyrion yn euraid.
Dau wr y sy gyda'r saint,
Dau o'r rhai gorau'n geraint.
Dau a wnaeth Mab Duw yn nes,
- 44 Duw Dad ynghyd a'u dodes.
Llan-goed fal llwynau Godwin,
Llawn gwŷdd a pherllannau gwin,
Lle iawn gostio llyn gwastad,
- 48 Lle bu yr iarll du a'i dad.
Os hen yw'r llys hyn a'r llan
O hen feddiant hŷn fyddan'.
Hen yw'r Iorddonen a'r ddâr;
- 52 Hŷn fo'r ddeuddyn no'r ddeuddar.

Ffynonellau

A—Pen 100, 31–3 B—Llst 133, rhif 10 C—LIGC 2023B [= Pant 56], 273–7 D—BL Add 14991, 269^v E—Pen 60, 5

Amrywiadau

5 *AB* ..oi gorff., *CD* ..o gorph.. 8 *D* ddyn ein magu.. 9 *D* o Trahagarn.. 13 *E* nyd antyrya 17 *CD* ni ffaeliodd.. 18 *B* ..gynai.. 23 *A–D* jarll.. 27 *A–D* don.. 30 *A–D* hyn na i rent.. 31 *AB* ..i wyron 32 *A–D* ..yr oes.. 35 *E* kyrenydd ywnan 36 *A–D* ..na.. 41 *E* dey wr sydd.. 43 *E* dey wnayth mab 48 *CD* ..du i dad 49 *E* os hen yw r llys hyn 50 *C* ..fyddant 51 *E* hen yw yr ddoen ar dd[], *A* ..Iorddenen.. 52 *A–D* ..na r..

Marwnad Gwladus Gam

- Ar waith aur a myrr a thus
 Y daw'r glod i dair Gwladus:
 Un o ferched hen Frychan
 4 I Wynllyw rhoed yn lle rhan.
 Caid wellwell o'u cydallu,
 O'u cad deg, fab, Catwg fu.
 Mynagi'r ail, myn y Grog,
 8 Oedd Wladus Ddu ddyledog,
 Gwraig Roser Mortmer y medd,
 Obry'n hynaif brenhinedd.
 Trydedd, mam bonedd heb au,
 12 Santes oedd megis hwyntau,
 Priod Wiliam, pryd Elen;
 Mam Arglwydd Wiliam oedd wen.
 Diaml wedy Dâm Wladus
 16 Dyn mal hon, dwy ael lon *lus*.
- Duwiol ar ôl Syr Wiliam
 Oedd gorff merch Syr Dafydd Gam.
 Medru mantell a modrwy,
 20 Arbed merch heb wŷr byd mwy.
 Gwrthod, a chydfod â'i chob,
 Aur wisgoedd, ar yr esgob;
 Erlyn Duw ar liniau dwys,
 24 Urddo, treiglo tair eglwys.
 Rhannu gwin, aur hon a gaid,
 Rhestr o gan, rhost i'r gweiniaid.
 Offrwng cwyr, cyfrwng côr cau,
 28 A phrynu yfferennau.
 O'i chardod a'i chywirdeb
 Y cair nerth os cywir neb.
- Caf rin dau Ferddin; da fydd
 32 O lin Gwladus lanw gwledydd.
 Llanwasant fal llin Eisag
 Gymru heb un gwely gwag.

36 Llanw aur frig, o'i llin ar frys
 Y llenwir yr holl ynys.
 Ciglau dair cogail y daw
 Cymru wŷdd lle caem wreiddiaw.
 40 Esyllt o draeth Dindaethwy
 Ac Elen ferch Goel yn fwy.
 Hil Wladus dan haul Edwart
 Y troed i ddwyn trydedd wart.

44 Argoel oedd fod arglwyddi,
 Chwech, ar ei phwll o'i chorff hi,
 A dygyfor mewn côr cau
 O ddwsain arglwyddesau.
 48 Ac nid hawdd ym o gnawd hon,
 Rhof a'r aur, rhifo'r wyrion.
 Gan ddued yr holl wledydd
 Lliw du a dywylla dydd.
 Clywch dyrfau y clych dirfawr
 52 Gladdu mam arglwyddi mawr.

Bu druan bod i riain
 Bais derw o fewn albastr fain;
 56 Tŷ pridd rhwng taprau addwyn,
 To du, gwae Ddwywent o'i dwyn.
 Fe lenwid o felynaur
 Wely maen Syr Wiliam aur.
 I'w phryd teg a'i phriod hi
 60 Aed wyth gant fendith genti.
 Duw aeth â'r llywodraethwr;
 Aed Duw â gwen at ei gŵr.

Ffynonellau

A—Pen 60, 9–12 B—Stowe 959 [= RWM 48], 231^v–232^f C—LIGC 13166B, 12–14 D—Pen 86, 314–16 E—LIGC 13068B, 62^v–63^v

Amrywiadau

1 *B* o waith..., *C* am waith..., *D* am ryw waith avr myr..., *A* ..aur a mu[] 2 *BCE* y doer glod..., *A* ..gwladu[] 3 *A* ..hen vry[] 4 *A* i wnlli rroet..., *B* ..y Roed ynn..., *E* ..roed yn lle y rann, *C* ..yn lleir Rann 5 *BE* kad..., *D* wellwell i kaid o allv, *A* ..yw kud [] 6 *A* i kad..katwg [], *B* y kad teg..., *C* y kad twc teg fab..., *D* oi gwaed teg vab gatwg..., *E* kad wg vab kattwg y vy, *B* ..ddy 7 *ACD* manegi, *BE* mynegi..., *A* ..ail [] 8 *A* ..gladus du ddyled[], *E* ..ladys..., *B* ..delyedog, *C* ..ddailiedog, *D* ..ddeiledog 9 *A* ..rosor [] y medd, *B* ..mortmer

medd, *E* ..ai medd 10 *A* a bair..bre[]edd, *B* obry o hynedd., *E* o brenn hynod.. 11 *A* trydedd [], *B* u drydedd mam bonedd y bay, *E* ..lle bay 12 *A* ssantes y[], *D* santaidd oedd., *BC* ..yw.. 14 *C* ..arlwydd.. 15 *B* ..wedyd am., *C* ..wedy aml wladys, *D* ..wedyd am wladys, *E* ..wedy am wladys 16 *E* bin val honn dwy aylonn lys, *A* ..dwyael lonn, *B-D* ..lys 17 *A* [] ar ol., *B* dywol., *D* di fyl.. 18 *A* [] merch syr dd[] 19 *A* [] jedru., *C* medyr y mantell.. 20 *A* [] mech heb., *C* barbed merch., *E* byred.. 21 *B* [21-4], *C* [21-2], *A* []wrthod., *D* ..i chob 22 *A* []ur wisgoedd., *D* avr a wisgodd ar esgob 23 *E* er lynn.. 24 *A* erddaw.. 25 *E* 27-8, 25-6, *C* ..avr honno gaid, *B* ..u gaid, *E* ..y gaid 26 *E* rest o gann roest., *A* ..gam rrost ir gweinaid, *B* ..gwained, *CE* ..gweinaid 27 *A* []wm kwyr., *BDE* offrwm., *B* ..kyfrwng kwyr kav, *ADE* ..kyfrwm.. 28 *E* a fryni y feren nnay, *C* a ffryny r., *A* ..effernau 30 *AC* ..merch., *E* ..nawdd.. 31 *D* kof rrin., *C* ..Rin., *A-E* ..vyrddin.. 32 *C* y lanw dofr o lwyn dafydd, *E* lin gwladys loned.. 33 *C* llanwasson., *E* llanwassan.. 34 *ACD* gymry., *B* kymry., *E* kymru.. 35 *C* [35-6], *D* llawn avr frig oel yn ar frys, *A* ..au vric.. 36 *A* [] llenwir.. 37 *B* [37-8], *C* kigle dvr., *D* keinglav dair kongl., *E* kiglay dawn..o daw 38 *A* kymry wydd i kaem wraiddaw, *C* kymry..o kaem wruddaw, *D* kymry..lle i kaem., *E* ..wydd kaem le wreiddaw 39 *C-E* ..tindaethwy 40 *A* ..ver goel.. 41 *B* ..hael., *D* ..havl ydyw 42 *ABE* yw troet., *D* []w traed i ddyn trydydd yw, *BC* ..trydydd., *E* ..ddart 43 *E* argol..arlwiddi 44 *A* hwech., *C* ..oi gorff.. 45 *E* a du gyfor., *A* ..men., *C* ..fewn.. 46 *A* oddassein., *B* o ddassain., *C* o ddaissain arlwyddessav, *D* vrddassaidd., *E* yrddasol.. 48 *E* rof., *C* ..aer., *E* ..rifo., *BCE* ..wyrion 49 *C* [49-50], *D* gan amled trwy r holl.. 50 *B* lliw dy n dywylla dydd, *D* ..i dywyllv., *E* ..y dywylla.. 51 *C* ..darfy y klych., *B* ..dyrvay klych., *D* ..dyrfav klych awdyrfawr, *E* ..dyrvay klych daiarvawr 53 *C* ..ar riain 54 *C* ..alblaestr., *D* ..alablastr., *E* ..alablaster.. 55 *A* [] pridd rwng tapr addwyn 56 *A* [] gwae., *B* to dy gway [] oy dwyn, *D* ty rrent gwae deirgwent i dwyn 57 *A* []e lenwid., *D* ..yn felynavr 58 *D* wely mam wiliam o avr, *E* ..mam syr.. 59 *A* []w tec., *B* y choffr teg., *C* y ffryd., *E* y chorff teg.. 60 *BE* aent.. 61 *CD* ..ai., *A* ..llyodraethwr, *B* ..llywdraythwr 62 *BE* ..y gwr

Trefn

B 1-20, 27-8, 25-6, 29-36, 39-62.

Moliant Morgan ap Dafydd Gam ac Ieuan ei fab

- 4 Y mae gwerin i'm gwarded,
 Ucha' gradd eu hach o Gred,
 Pawb olynol, pobl Einion,
 A lywia tir y wlad hon.
 Gras y deŷrnas arnam
 A dyfodd gair Dafydd Gam.
- 8 Morgant aeth â'r moliant mau,
 Ei fab, Ieuan, ef biau.
 Epil Gwallter ap Gwilym,
 Onid ef oes enaid ym?
 12 Y dref lle mae'i gynefin,
 Yno darfu gwerthu'r gwin.
 Yn Rhufain y mae'n rhyfedd
 A dâl o aur mâl er medd.
 Ym Myrgwyn mae enw Morgant
 16 Ffordd y sôn dynion gan dant.
 Rhois ei glod, parod o'm pen,
 Rhagoriaeth anrheg Urien.
 Urien yw ar win newydd,
 20 Ieuan ei fab Owain fydd.
 Ieuan a dynn ar un dewr;
 Ni thry troed eithr at dradewr.
 Y gŵr a'i dad a gâr doeth;
 24 Ni bydd trydydd ond tradoeth.
 Ni wnâi un brawd, dynrawd dur,
 A wna brawd a naw brodyr.
- 28 E wnaid, ac nis newidiwn,
 Caer-ludd o'r cwarel a wn.
 Cefais lle bûm yn cyfedd,
 Cwarel main, cwrel a medd.
 Ni thorrais heb waith arian
 32 Un garreg lech dan gwr glan.
 Torri cwarel Llywelyn,
 Tragwydd ni dderfydd ynn.

- 36 Llawer câr o'r un cwarel
A phob un a gaiff y bêl.
Mae 'n Llanddwy ddeufwy o dda
No thri gwerth Groeg a Throea.
Yn y cefn yno cafad
- 40 Y main gwns mwya' 'n y gad.
Mwyn cerrig fydd main cwrel;
Ieuan yw mwyn gwin a mêl.
Ni a gawn, naw ugeinwyr,
44 Yma waith bai mwy o wŷr.

- Os ar gyfraith y gweithir
Ysgol yw'r tad, osgl o'r tir.
Tyr meibion gyrddion y gŵr
48 Bwynt dadl fal meibion Tewdwr.
Y rhain ydyw main y mur,
Yntau yw'r gaer ar antur.
Y gŵr yw gwraidd y gaer gron,
52 Hwyntau yw'r tyrau taerion.
Ieuan yw tarian pob tŵr;
Ni roid Ieuan er deuwr.
Ni newidiwn hwn yr haf
56 Â deuddeg wedy Addaf.
Doeth i'w lys fendith ei wlad,
Dwy restr, fal i dai'r Ystrad.
Daw ym aur o dai 'marwn;
60 Deuoed yr hydd doed ar hwn.

Ffynonellau

A—Pen 67, 312–16 B—Pen 99, 511–14 C—Pen 101, 385–8 D—CM 12, 325–7

Amrywiadau

11 A–D ..mae gynnefin 12 BC ..y darfu.. 28 C ..o wnn 29 BC ..lle y bum..
39 A–C ..yno i kafat 40 B–D ..maen.. 44 BC ..be mwya o wyr, D ..be mwya
wyr 45 B–D os or gyfraith.. 58 C ..fal i dair ystrad

Moliant i bedwar mab Morgan ap Dafydd Gam

Mi a gawn yma gannwr
 I rannu gwin o'r un gŵr.
 Morgan, daear Brychan bris,
 4 O'r gŵr du mae'r gwŷr dewis.
 Gair a dyf am geirw Dafydd
 Gam yn Rhôn, gwayw ymwan rhudd,
 Tyrau aer er torri onn,
 8 Tariannau, teirw o Einion.
 Er bod wrth dŷ'r Trindod draw
 Blaid ieuainc yn blodeuaw,
 Pedwar sy i'm gwanar gwiw
 12 Yn wahoddwyr ynn heddiw.

Ieuan, hwn yw'r un hynaf,
 Unben, caterwen coed haf.
 Gwallter ar emys gwylltion,
 16 Gorau hyd ym manau Môn.
 Maredudd nis mawr oediwn,
 Mabsant yw ar hollblant hwn.
 Ieuf y galwaf Gwilym,
 20 Hyna' yr aeth ei henw a'i rym.
 Undad fal meibion Cadell,
 Unfam ŷnt; ni bu fam well.

Mi a gefais am gyfedd
 24 Rhan mab o'u harian a'u medd.
 Mi a gaf am eu gofyn
 Gariad gwŷr y teirgwlad hyn.
 Y rhai dewraf o'r heol
 28 Yn un haid ân' yn eu hôl.
 Ni bu, llin Faredudd Bŵl,
 I'n gwlad fagad un fwgwl.
 Ni chair na siac na churas
 32 Yn fy nghylch er ofn fy nghas.
 Nid elw i neb lle dêl nos
 'Y nigio a hwy'n agos.
 Myfi fydd clochydd eu clod,
 36 Hwyntau ag arfau'n gorfod.

- Gwâr iawn wrth rai gwirioniaid
 Ac ar eu cas geirw y'u caid;
 Dyrifo da dra fo dydd
 40 A rhoi llyn i'r holl winwydd.
 Ac o derfydd hirddydd haf,
 Iddo nos a ddaw nesaf
 Yn nhŷ'r gwin y hea'r gwŷr
 44 Wrth gannwyll werth ugeinwyr.
 Ni chysgai a fynnai fedd;
 Ni chwsg gwŷr; ni chais gorwedd.
 A wnêl un yn nhâl ynys
 48 A wna'r llall ban ân' i'r llys.
 Ynt-wy a fydd un â'u tad,
 Yntau arglwydd ein teirgwlad.
 Pob un yn gyfun i gyd
 52 A geidw arnun' gadernid.

 Pob ddau y bydd blodau'r blaid,
 Pedwar gwn, Pedr, y gweiniaid;
 Pedwarcarw rhwng pedeircad,
 56 Pedwar cyrn tēym y tad;
 Pedwar Hu'n pedair heol,
 Pedeirgwlad eu had o'u hôl;
 Pedwar angel un wely,
 60 Pedwar ban gwlad Frychan fry;
 Pedwar cant dan feddiant fydd,
 Pedair llaw'n pedwar llywydd;
 Pedwar hydd—nawdd Pedr i'w hil—
 64 O'r pedwarmaib pedeirmil!

Ffynonellau

A—Pen 67, 316–21 B—Pen 99, 514–16 C—Pen 101, 388–90 D—CM 12, 327–9

Amrywiadau

4 *ABC* ..y mae.. 6 *A* ..rvdd 7 *A* ..yr torri.. 8 *D* ..teirw Einion 9 *B–D* ..drindod.. 11 *BC* ..y sy.., *D* ..y sy m.., *A* ..y sy m gwannar gwi 12 *A* ..yn.. 17 *B–D* ..oedwn 18 *A* ..hwnt 24 *B–D* rann mab.. 27 *B–D* ..ar heol 30 *B–D* ..fygwl 32 *B–D* ..rhag ofn.. 36 *D* hwythau.. 37 *A* ..gwirionnaid 38 *B–D* ..garw.., *A–C* ..i kaid, *D* ..eu caid 40 *B–D* ..yr holl.. 42 *A* yddaw.., *B–D* iddaw.. 46 *D* ..gwr.. 49 *B–D* hwynt hwy.. 52 *B–D* ..amyn.. 53 *A* ..i bvdd.. 64 *D* pedwarmaib fo pedeirmil

Marwnad Ieuan ap Morgan ap Dafydd Gam

- Y gŵr a'i grys dan graig ro,
 Er ei fwyn yr af yno.
 Bwrw Ieuan, Elystan law,
 4 A bwrw deuddeg brawd iddaw.
 Bwrw Wiliam a bair wylo,
 Benrhaith; ni ŵyr neb yn Nhro.
 Truan yw unTro newydd;
 8 Tewi am waith Fanbri fydd.
- Meibion oedd yn eu mebyd,
 Morgan, dros bedwar ban byd.
 12 Gwedy Briaf, hil Ddafydd
 Gam, nid oes gyman na dydd.
 Eisiau Ieuan, ysywaeth,
 Y swyddau oll y sydd waeth.
 Ef aeth ein sir fyth yn sied;
 16 Yr wyf finnau ar fyned.
 Duo gynau'r do ganol,
 Duo wnaeth Deau 'n ei ôl.
 Nid â un o'r do anael;
 20 Ni ad Duw'n hen fod dyn hael.
- Da adeila Duw hudoliaeth;
 Dechrau'r planedau a wnaeth:
 24 Dyrchaf y naill dywarchen
 A dwyn y llall dan y llen;
 Torri onwydd, tri anian,
 A gadu gwern yn goed gwan;
 Torri'r deiri trwy'r dwyrain
 28 Heb dorri'r drysi na'r drain.
 Dwyn ei golau o'r lleuad
 Yw dwyn o'i lys dawn y wlad.
 Troi 'mhen i'r chwarren a'r chwydd,
 32 Torri'r asgwrn trwy'r ysgwydd.
 Eiry gwaniwyn oer a gwynais;
 Yr hydref oll rhew drwy f'ais.

36 Cul iawn yw'r calan newydd;
Can mwyaf f'oes cyn Mai fydd.

40 Od aeth Ieuan a'i annedd
I Lan-faes wrth lunio ei fedd,
Tŷ noeth yw'r Peutun weithian;
Treio mae'r ginio i'r gwan.
Aed tlawd, os Duw a'i tloda,
I'r lle 'dd êl eraill â'i dda.
Awn i'w ofyn i nefoedd;
44 Nef fu 'n y dref ynn dra oedd.

48 Y mae Gwilym i'm gweled
Yn wylaw a'r llaw ar lled.
Morgan, wŷr Morgan arall,
Mawr yw'r llef o'r môr i'r llall.
Ninnau, o down yn un dydd
Lle gwelon' bob llu ei gilydd,
Oed dydd sy rhwng plant Addaf
52 A'r dydd o'r newydd a wnafl.
Marchogion fu'i gyffion gynt,
Eraill heddiw'n ieirll oeddynt.
Arian oedd ar wŷn iddo;
56 Aur ar ei fab a'r wŷr fo!

Ffynonellau

A—Pen 67, 130–3 B—Pen 99, 424–6 C—Pen 101, 301–3 D—CM 12, 250–2

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 65–6 F—Gwyn 7, 95–8 G—Bangor 7268, 68–70

Amrywiadau

6 *A–D* ..yn rro 7 *A* ..yn tro., *B–D* ..ein tro.. 11 *B–D* ..dafydd 14 *A–C* ..y
sy.. 17 *A–C* ..gynnav.. 21 *A* da i deila., *BC* da y deila., *D* da deilia.. 22 *BC*
..plaenedau.. 26 *A* ..gady.. 27 *B–D* ..deri.. 28 *B–D* ..ar drain 30 *B–D* ..ei
wlad 33 *B–D* ..gwanwyn.. 34 *A* ..dwy vais 38 *A–D* y lan vaeth.. 41 *A*
..tlawt..tlota 43 *A* awn y ofyn y nefoedd 50 *BC* lle y gwelon., *D* lle
gwelom., *A* ..yw gilydd 52 *B–D* ..o newydd.. 53 *A–D* ..vv gyffyon..

Moliant Dafydd ap Morgan ap Dafydd Gam

Mae o drumoedd ym dramwy,
 Filiwn, i gaer o flaen Gwy.
 Ni bu'r Mynydd Du heb dân
 4 A haid o wylliaid allan.
 Ni chaiff diriaid, drinaid trwch,
 Fan rhydd ar fin yr heddwch.
 Llonydd llaw Ddafydd lle 'dd êl
 8 Y gwna'r hafog neu'r rhyfel.
 Llaw Morgan, llym ei ergyd,
 Llawer rhodd oll ar ei hyd.
 Llaw Einion â'r onn neu Rys,
 12 Llaw Ronwy'n gwellhau'r ynys.
 Lled mawr yn llaw Adam oedd,
 Llaw Rys nid llai a roesoedd.
 Llaw Wilym tad Llywelyn,
 16 Llaw'r wŷr yn rhoi llawer ynn.

Diog wyf; da a gefais;
 O'r lle cawn eraill a'i cais.
 Nid er cas fu'n odrig hyn
 20 Ond o arbed yn derbyn.
 O chadwaf un gaeaf gylch
 —Nos da i'r mab!—nis diyloch.
 A gedwais o gwrteisi
 24 Ymliw mawr sy i'm ôl â mi.
 Fy noblau, chweugeinau gynt,
 Y sy i eraill es hirynt.
 Arbed am felfed ym fu
 28 Ac eirchiaid yn ei gyrchu.
 Er ym geisiaw o'i law les
 Ni fynagwn fy neges.
 Ef a wyddiad ei dad well
 32 Nog o omedd neu gymell.

Dedwydd yw bronnydd y bryn
 Ar y gwinwydd a'r gwenyn.

- 36 Os Dafydd ni bydd heb win
Ni bu'r bryn heb aur brenin.
E ddaw'r mêl iddo o'r môr
Ac anrhegion gwin rhagor;
Pysgod, o dyfod, y don,
- 40 O dir gwyllt adar gwylltion.
Treulio 'dd wyf trwy law Ddafydd;
Treuler ar hyder a'i rhydd.
- 44 Rhyfedd yw rhinwedd y rhod;
Rhai fydd yn un rhyfeddod.
Rhai'n tlodi o'u rhent lydan
O rwn a fydd yn rhoi'n fân.
Rhoddi i bawb yn rhwydd y bydd
- 48 A rhoi'n tyfu rhent Dafydd.
Arbed aur aeddfed yr wyf
Er eu daly'r awr y delwyf.
Berhôn i mi dorri dydd
- 52 Ni thyr dwyfath aur Dafydd.
Afon yw'r mab fwy no'r môr.
A fu i'r eigion fwy ragor?
E fydd gŵr fal Dafydd Gam,
- 56 Efo lwydia fal Adam.

Ffynonellau

A—Pen 67, 254–8 B—Pen 99, 481–3 C—Pen 101, 359–61 D—CM 12, 302–4

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 33–5 F—Bangor 7268, 36–7

Amrywiadau

8 *D* y gwna rhafog neu rhyfel 16 *A* ..llawr yn 18 *BC* ..y cawn.. 21 *A* [] chadwaf.., *BC* o chadwaf.. (ond ysgrifennwyd *ni* uwchben *o* yn *B*), *D* ni chadwaf.. 24 *AD* ..sy m ol.. 25 *B–D*chweugeiniau.. 26 *A* y sy eraill.. 32 *C* ..o gymmell 37 *A* ..y ddaw or mor 39 *A* ..dywyot y donn, *B–D* ..dywod.. 42 *D* treulier..y rhydd 46 *A* o rrwnn.., *B–D* or hwn.. 47 *D* ..bawb rhwydd.. 49 *B–D* ..addfed.. 50 *A* ..dala.., *D* ..dal.. 51 *D* lle rhon.. 53 *A* []von yw r mab.. 54 *A* a vv r eigion.., *BC/D* a fu r eigion fwy ei ragor / fwy ragor 56 *B–D* ef a lwyda.., *A* ..lwydia lal adam

Moliant Maredudd ap Morgan ap Dafydd Gam

- Ein tadmaeth dan Saint Edmwnt
 A elwid dawn y wlad hwnt,
 Maredudd, Gymru adain,
 4 Mal Galâth, amlwg ei lain,
 Gwalch Morgan, Gwalchmai ergyd,
 Gwrda yn rhoi bara i'r byd.
 Glain Dafydd, aur rhudd yrhawg,
 8 Gam wyd, hael wrth gymodawg;
 Blodeuyn dwyblaid ieuainc,
 Blodau i holl ffrwythiau Ffrainc.
 Pwy mor hael hyd wlad Faelawr
 12 A phwy un faich ei ffon y fawr?
 O daw egin mewn digoed
 O bren cyff brenin y coed,
 Ni ffaela cainc, ni phlyg hwn,
 16 Ni ffaelud ar ddaly ffelwn.
 Ceisiad wyd rhag cas o daw
 Ac lutenont, gwlad danaw.
 Be baud heb swydd un flwyddyn
 20 I'th ôl 'f âi'r heol er hyn.
 Ni thrig mab yn ei fapais,
 Ni'th ludd na thrabludd na thrais.
 Mab y'th welais, ni'th dreisiwyd,
 24 Meistr ym i'th rymuster wyd.
 Y dedwydd, mynydd a môr
 A'i pyrth ef fal parth Ifor ...

Ffynonellau

A—Pen 67, 321–2 B—Pen 99, 516–17 C—Pen 101, 390–1

Amrywiadau

1 BC ..sant.. 6 BC ..fu n rhoi.. 8 BC ..gymydawg 10 B ..ffrwythau.., C ..ffrwthau.., A ..ffaingk 12 BC ..ei ffonn fawr 16 BC ..er daly.., A ..ddala.. 22 A–C ni lvdd.., A ..na thais 26 BC ..porth Ifor

Gofyn cymod Maredudd ap Morgan ap Dafydd Gam

Maredudd, marw yr ydwyf,
Mal yr oen o'r deml yr wyf.

4 Mab â dur iddo 'mhob dart,
Morgan, wyd, mawr gan Edwart,
Gwalch Dafydd, ddedwydd ydyw,
Gam, o'r un fam orau'n fyw.
8 Mae 'n dy ffon bwys dwy onnen
A mwy no'i phwys mewn ei phen;
Pen glas ar baladr asur,
Pais o gylch d'ais o glych dur.

12 Y mae trychant i'm trochi;
Ni allodd un fy lladd i.
O gwnaed ym ar gnawd amarch
Ni wn pwy ym a wna parch.
16 Od wyd ddig wedy dy dda
Oed yw ym ado yma.
Segur yw 'nigasogion
Er hely Huw o'r heol hon.
Os ymhell y'm cymhellir
20 Enbyd yw na wn ba dir.
Na fwrw o'm blaen un ddraenen;
Ni'm dawr o'm hól dorri 'mhen.
Mae poen ym ym mhob hanner
24 Fal poen am yr afal pêr.
Pumis f'ymlid i ddidach;
Pumoes byd fu'r pumis bach.
Aros arwydd o'r seren
28 Ydd wyf, hwy nog Addaf hen.
Oed ym hun wedy 'mhenyd;
E ddarfu ym balu'r byd.
Tithau a'm prynaist o'th eistedd
32 Er llawer morc garllaw'r medd.
I'th law yr aeth lawer oes;
Mae a fynnych am f'enioes.

- 36 Ymryson â dynion dig,
Nid aeth rhof ond o'th ryfyg.
Byddwn falch, ni beiddiwn fod,
Be bai 'nhyb y bawn hebod.
- 40 Anaml yw gwin i'r min mau
Er nad oes arnad eisiau.
Mil a gais mêl ac osai
O'th gyrn llawn—a'th gân yn llai.
Na rwystr i win yr ostri
- 44 Na thâl y fainc i'th ôl, fi.
Mawr yw lladd can mwya'r llu,
Mwy bechod yw 'mwbachu.
Moes dy weled, Faredudd,
- 48 Moes onid oes enwi dydd ...

Ffynonellau

A—Pen 67, 273–6 B—Pen 99, 492–4 C—Pen 101, 366–8

Amrywiadau

2 C ..or deml wyf 9 A ..baldr assur 10 A ..y glych dur, BC ..i glych dur 18
A ..hela.. 31 A–C tithav m prynaist.. 42 C ..llawen.. 43 A na rwystr y win..
45 BC ..ganmwya..

Marwnad Maredudd ap Morgan ap Dafydd Gam

Magu ynof mae gwenwyn;
 Mae'n glais i'r ddwyais ei ddwyn.
 Heddwch nis gwelwch, os gwir,
 4 Am a laddwyd ymleddir.
 Mae'n drist gwŷr Mynyw drosto,
 Mab Forgan; truan fu'r tro.
 Ef, a'i frodyr, Faredudd,
 8 Â Gwynedd oll y gwnâi ddydd.
 Ni wnâi'r llu fo'n wŷr lleas;
 O frad a lledrad y'i llas.
 A roes Edward i'r sawdwyr
 12 Trwy law y rhoes traul i'w wŷr.
 O daw'r tri o dir Troea
 Gwae'r dug am ysgwïer da.

Un llif Noe yr â'n llef ni
 16 O'r Fan hyd ar Efenni.
 Llef pob un, llif pibonwy,
 Llai a wnâi Fenai yn fwy.

Ni chyhyrddai â cherddawr
 20 Onid i mewn gwindy mawr.
 Gwin newydd a gâi 'Nwywent;
 Ef aeth gwin o gyfoeth Gwent.
 Maddau es dyddiau eisteddwyr,
 24 Maddau'r gwin a maeddu'r gwŷr.
 Hoelio'r gwindai, hely'r gwyndud,
 Holi'r beirdd a'u hely o'r byd.
 Englynion yn fudion fydd,
 28 Ymiacháu'r ym â chywydd.
 Yn iach ynau na cheiniawg,
 Chweugaint, aur cymaint â'r cawg.
 Yn iach felfed ddwbleddi,
 32 Yn iach gyfeddach; gwae fi!
 O rhoes llawer i'n gwerin
 Yntau roes ganpunt ar win.

- 36 Can Nadolig, hen dylwyth,
Can Pasg, ni chair canu pwyth.
- 40 Yn llew coch 'n y llu y'i cad,
Oen Duw eilwaith i'n dwywlad.
Y naw gorau 'n ei guras,
Ni thynnai'r saith hwn, ar sias.
Bwrw i'r llawr y bar a'r llys,
Bedd ar holl fonedd f'ynys.
Beichiau trwm a buchid draw,
44 Bychan oedd, Drystan, drostaw.
- 48 Ni wn i le i ddial
Oni ry Duw ynn ryw dâl.
Iarll enwog o ieirll Einiawn,
Ond o waed ieirll ni wnaid iawn.
- 52 Gwatgyn, flodeuyn Dwywent,
Gwahodd fi i'm rhodd a'm rhent.
Na fyn air tw'n fwy no'r tad,
Na chornel na chae arnad.
Ni chaewyd drws na choed draw
Na maen cornel mainc arnaw.
56 Na chilia, 'n un dyrfa 'n d'ôl,
Na chudd dy ddeurudd wrol.
N'ad i wÿdd Dafydd, er dig,
Gam orwedd, na gwayw Meurig.
60 Dyrcha o waed y dorch wen,
Dyrchaf eilwaith dorch felen.
Dyred ymlaen pedeirach;
Dy dad i nef doed. Yn iach!
- 64 Od aeth ein lluniaeth o'n llaw
Aed ei elyn i'n dwylaw.
Yng ngras merch Domas y dêl
A'n bwâu ninnau'n annel.

Ffynonellau

A—Pen 67, 277–81 B—Pen 99, 495–7 C—Pen 101, 368–71 D—CM 12, 310–13 E—Pen 124, 305 (*collwyd rhannau o'r testun, llau. 29–38, oherwydd traul*)

Ffynonellau eraill

F—LIGC 670D, 38–9 G—Bangor 7268, 40–2

Amrywiadau

4 *E* ..a leddir 5 *C* ..gwy Mynyw.. 6 *B-E* ..Morgan.. 7 *A* ef ai vryr.., *B/CD* ef ai frud / fryd i feredydd, *E* efe..o freddydd 8 *E* ..i gwnai n ddydd 9 *E* [9–14], *A* nin wnai.. 10 *D* ..lladrad.., *A-D* ..y llas 12 *A* ..y wyr 13 *B-D* od ai r tri.. 15 *A-D* yn llif.., *E* fal llif noe yw n llefain ni 16 *E* ..y fenni 17 *E* ..pob llif.. 19 *E* ni chyhyrdda.. 20 *A* ..gwiny.., *C* ..gwndy.. 23 *E* maddau dyddiau r eisteddwyr 24 *A* ..maddy r gwyr, *D* ..meddwi.. 25 *E* hoelio gwindai hela gwendyd, *A* ..hela.., *B-D* ..gwyndyd 26 *A-CE* ..hela.., *D* ..hel.. 27 *E* 28–27, *E* angylion.., *B-D* ..ynfydion.. 28 *E* yn iachau imi.. 29 *A* ..ynnav.. 30 *A* chwygaint.. 33 *E* e roes.., *D* ..ir gwerin 34 *E* ..a roes.. 35 *D* tan nadolig.., *E* ..cann dylwyth 36 *E* ..chaid.. 37 *E* llew coch.., *A-CE* ..llv i kat, *D* ..yn y lle cad 38 *A* ..yn dwylat 39 *E* [39–40] 40 *B-D* ..or sias 42 *E* i fedd fonedd holl fynys 43 *CD* ..trwn.. 46 *E* ..rydd.., *A* ..yn.. 49 *E* Watkyn blodeuyn.. 50 *E* ..ag im rhent 51 *A* na vann.., *E* na myn gair twn mwy.. 52 *DE* ..chau.. 53 *E* na.. 55 *E* 56–55, *E* na chilia un dyrfa.. 59 *E* dyrcha i waed.. 61 *E* ..o flaen pedeiriach 64 *E* doed.. 65 *E* ..merch y del 66 *A* an bwa e n nine.., *E* ninnau an bwa n annel

Moliant Gwallter wŷr Dafydd Gam

- Y brawd Wallter, f'ederyn,
 Brodyr oferwyr a fyn.
 Fy mryd ar ôl Maredudd
 4 Erioed a rois ar dy rudd.
 Nid enynnwyd edn Einion
 I dŷ'r saint hyd yr oes hon.
 Am fugail Pedr mae edrych
 8 Ac am wŷr Dafydd Gam wych.
 Mae sôn gan dlodion dy wlad
 A Dwy Wynedd amdanad.
 Dolur am dy hen dylwyth;
 12 Dêl byd ywch i dalu'i bwyth.
 Da yw'r hŷn y ddi'r rheini;
 Y do hen aeth Duw â hi.
- Ni bu windy y bai undyn
 16 Na bai ystôr yt bwys dyn.
 Pond mawr traul dy ddeheulaw
 Pe baud o rent y pab draw?
 Dy gryfed yn dy grefydd
 20 A drôi y ffeilst draw i'r ffydd.
 Mân yw disgybl yn d'ysgol;
 Mae 'nhyb fod esgyb yn d'ôl.
 Dy lisiens a'th gomensiad,
 24 Da fuost roi cost lle cad.
 Llithiau, gosber, yfferen,
 Llythr y pab oll aeth i'r pen.
 Bod ywch wneuthur priodas,
 28 Bedydd o grefydd a gras,
 Bod yn frawd trwy'r byd yn frau
 Ac yn gurawdr gwyn gorau.
 Dyro'r gwaed o'r dŵr a'r gwin,
 32 Duw lwyd a wnaud o Ladin.
 Bid yn nefol yt foliant!
 Bydol sy i'th ganmol saith gant.

- Er dwyn corun, rhag gwŷn cas
 36 Dan y corun dwyn curas.
 Na choll air aeth uwch eu llaw
 A enilliaist cyn eilliaw.
 Dwyn cledd y senedd dduw Sul,
 40 Doe 'n y cysegr dwyn casul.
 Bwced llydan anianol,
 Bwa a saeth dda y sy *i*'th ôl;
 Gŵn gaeaf *i*'w gau'n gywir,
 44 Gŵn haf ac ysgïen hir;
 Llaw ar bin *i* wellhau'r byd,
 Ar y llyfr arall hefyd.
- Ni ad na'th lygad na'th law
 48 Pylu tylwyth plwyf Teilaw.
 Da yw'r maen, medd Pedr, *i* mi,
 Dewr oeddu't gyda'r weddi.
 Dy law er bedyddiaw dyn
 52 A ry'r dolur ar d'elyn.
 Dy dafod ystod Awstin,
 Dy omner lle gwerther gwin.
 Trwy ffair y medrud droi ffon,
 56 Trwy deg ti a ry digon.
 Trwy fodd y torry y farn,
 Trwy gas y tyr y gisarn.

Ffynonellau

A—Pen 67, 48–52 B—Pen 99, 394–6 C—Pen 101, 275–7 D—CM 12, 223–4

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 7–8 F—Bangor 7268, 6–7

Amrywiadau

1 *D* ..aderyn 9 *D* ..am dlodion.. 12 *A* ..i daly bwyth 13 *A–D* ..y doi r haini
 15 *D* ..windy bai.. 17 *C* pand.. 18 *B–D* pe baid.. 20 *A* a droi r ffailst., *B–D*
 a droai r ffeilst., *C* ..or ffydd 21 *B–D* ..mwy n dysgol 25 *D* llithau., *B–D*
 ..offeren 27 *A* ..wnevth priodas 32 *A* ..wnaet., *D* ..wnaed.. 34 *A–D* ..syth
 ganmol.. 35 *A–C* ..gwynn.. 36 *D* dwyn corun.. 37 *C* ..aeth aeth.. 38 *C* a
 ennillaist., *D* a ynillaist.. 39 *B–D* ..i senedd., *A* ..duw svl 40 *C* ..cessegr..
 42 *A* bwa saeth dda y sy thol, *B–D* ..dda sy th ol 44 *D* ..ar.. 48 *A* ..tylwyt.,
B–D ..plwy.. 54 *B–D* ..amner.. 55 *D* ..medrid.. 58 *BC* ..y torri ag isarn, *D*
 ..gas torri ag isarn

Awdl foliant i Lewys Hafart

- Lewys a wnâi lys yn ei wlad—ei hun
 Lle hanoedd ei hendad;
 A adwyd un wedy'i dad
 4 Onid Wiliam un daliad?
- Taliad gan Dduw Dad pond oes—i'r Hafart
 Yn Rhufain am a roes?
 O bydd ei wŷyr heb ddwy oes
 8 Bid i'w orwyr byw deiroes.
- Teiroes yn unoes yn wyneb—y gŵr
 A garai ddoethineb;
 Un gardod, un gywirdeb
 12 Â Lewys ni welais neb.
- Oes neb un wyneb yn naioni—byd
 Er bod swrn yn rhoddi?
 Awn i'r unwledd â'n gweddi,
 16 Awn, bawb, i'w dref, awn bob dri.
- Triphwnc gwedyn, tra hoffer,
 A wna eistedd yn westwr:
 Talu am waith talm o wŷr
 20 A weithia'r main aeth i'r môr;
 Naddu'r maen ni ddaw o'r mur
 Â phren teg a phrynu tir.
- Y tir a rannwyd trwy yr ynys
 24 A rannwyd iddo'n anrhydeddus;
 O bu 'n y ddwywlad na bai'n ddilys,
 Ni bu heb wystlo ar bob ystlys,
 28 Da fry a ddyly 'mhob ddwylys—o'r sir,
 Am dir y dlyir da i Lewys.
- Efô gâr moliant a gair melys*
A'i wŷr i ymwan ar ei emys;

- 32 *Efô gâr, breued fydd gair brywys,
Er hynny geiriau yr Hen Gyrys;
Cryfion, rhai gweinion rhagynys—Gamber,
Clêr a gâr lawer ddwyn gair Lewys.*
- 36 *Ni bu anturiwr ar bwynt dyrys,
Ni bu oen llariaidd erbyn llwyrwys;
Ni bu delynior, myn Saint Iorus,
A eurai fodfedd ar ei fawdfys;
40 *Ni bu'n brydydd rhydd, hil Rhys—ap Tewdwr,
Ni bu'n deuluwr neb ond Lewys.**
- 44 *Ni rôi wŷr Dwywent ar aur dywys
A roddai ungwr, aur a ddengys;
Ef aeth i rannu'r fath i'r ynys,
Efô â wellwell wrth f'ewyllys;
Nid aeth un heb faeth yn foethus—o'r glêr,
Ef aeth i lawer ei fath, Lewys.*
- 48 *Aeth aur o bumbath ar ei bumbys,
Aur o bedeirbath ar bedwarbys,
Arian hyd ruban ar ei dribys
Ac ar ei ddwyfawd heb gau'r ddeufys;
52 *Aur newydd a fydd ar fys—o'i omner
A'r aur a liwier ar war Lewys!**
- 56 *Y saith oedd uniaith a fu ddawnus,
Y naw oedd ddewraf eithr nai ddeuRys;
Ni wnâi'r naw a'u llaw yn eu llewys
A wnâi ei unllaw yn ei wenllys;
Pawb a red i led ei lys—fal gwaered,
Ni red fawr ddlyed ar feirdd Lewys.*
- 60 *E fu ddau Einion yn feddiannus,
Y ddau Faredudd oedd fwriadus,
Y gwŷdd o Fadog oedd ddefodus
A drôl y llwynau drwy'r holl ynys;
64 *Mordaf fu'r haelaf, rheolus—am arch,
Hynaf fu Lywarch, hŷn fo Lewys.**

Lewys a wnâi lys yn ei wlad, &c.

Ffynonellau

A—Pen 67, 183–6 B—Pen 99, 443–5 C—Pen 101, 320–22 D—CM 12, 266–8 E—LIGC 17121D [= Gwysanau 38], 75–7

Ffynonellau eraill

F—LIGC 670D, 9–10 G—Bangor 7268, 8–9

Amrywiadau

1 *E* ..ynai.. 2 *E* lle hanodd.. 3 *D* adawyd un.., *AE* ..wedy dad 4 *A* ..yn dal, *B–D* ..yn daliad 5 *E* ..tad onv does.., *D* ..Dad nid oes.., *A* ..ponnydoes.., *BC* ..pan nid oes.. 6 *E* ..am y rroes 7 *E* ..ddwvoes 8 *E* bid y orwvr ef bedair oes, *A* ..y orwvr.., *B–D* ..orwvr bedeiroes 10 *E* y garai.. 11 *E* yn gardod yn gowirdeb 13 *E* nid oes yn wvneb wrth yn enwir bvd 15 *E* awn yn vnwedd yn gweddi, *A* ..yn gweddi, *BC* ..in gweddi 16 *AE* ..y dref.., *C* ..awn dri 17 *A* ..gwedy n.., *BC* ..gwedi n.., *D* ..wedi n.., *E* ..wedvn.. 18 *E* yna eiste vn westwr 20 *E* y weithie r maen.. 22 *A* a prenn teg a prynnv.., *E* a braintec y brvn y tir 23 *E* ..y rranwvd vn trwv r ynvs 24 *E* y rranwvd.. 25 *E* obv nv ddwvwlad na bav ddylvs 26 *E* ..eb.. 27 *E* ..yddvlv.., *D* ..y dyly mhob dwylvs.. 28 *C* a dir.., *DE* ..y dylir.. 29 *A* ve gar.., *B–D* e gar y moliant.., *E* ef y gar.. 30 *E* [30–1] 31 *A* ve gar.., *B–D* fe gar a breued fo.. 32 *E* ..geirav.. 33 *C* ..rhai gweini.., *E* ..gweinon.. 34 *E* ..y gar.. 35 *E* [35–6], *D* ..anturwyr.. 36 *A* ..llaryaid.., *D* ..llwyrys 37 *A–D* ni bv n delynnor.., *E* nybvn delvnor.., *D* ..myn sain.. 38 *E* na evrai.. 39 *E* ..rrvdd hil rrvs yb tewdwr, *A–D* ..rys.. 41 *E* nv roi..ar war diwvs 42 *E* y rroddai yn gwr avr y ddiengis 43 *E* ..y rranv.. 44 *B–D* ef a a wellwell.., *E* efa wellwell.. 45 *A* ..heb vath.., *E* ..eb faeth.., *B–D* ..yn fwythys.. 46 *E* ..y fath.. 48 *B–D* ..bedwarbath.., *E* ..arv bedwarbvs 49 *E* arian hyd triban arv tribvs 50 *E* ..ddevfawd.. 51 *E* ..y fvdd ar fvs o omner, *B–D* ..amner 52 *E* ..y liwier.. 53 *E* y daith fv ynwaith oedd feddianvs, *A* ..vniaeith.. 54 *E* ..evthr neddvrvs 55 *E* ..llaw y fai nvlvs 56 *E* ynai av wenllaw ynv ynllvs 57 *E* pawb y red ar led ywlv fal gwared 58 *E* ny rred fawr ddlved.. *D* ..ddyled.. 59 *E* ..eionon.. 60 *E* efv ddav.. 62 *A–D* a droi r y llwynnev.., *E* y droi.., *C* ..drwy holl ynys 64 *E* hen yfv lowarch hvn yfo lewvs

Awdl farwnad Gwenllïan Hafart

- 4 Nid â na bara neu beren—gyfan
 Nac afal o frig pren,
 Na dim diod i'm dwyen,
 Nid aeth, heb hiraeth i'm pen.
- 8 Nid af o galwaf y gwyliâu—i'r gaer
 Na thai'r gŵr a'm piau;
 Ni wn ofyn dyn na dau,
 Ni ofynnan', un, finnau.
- 12 Er na'm gofyn dyn o dir—yr Hafart,
 Mae'n rhyfedd na'm gwelir,
 Anodd ydyw 'n y ddeudir
 Ymiacháu â'i omach hir.
- 16 Dihir ym yw'r tir teiran—y gwyliâu
 Lle gwelais gael arian;
 Drwg fu i mi farw Gwenllïan,
 Drwg fydd dragywydd dro gwan.
- 20 Un gwan o chwynfan, ni chenfydd—ei raid,
 A dynn ei lygaid yn lawogydd;
 Os claf y canaf lef cynydd—haeach,
 Os iach llef oerach sy i'm lleferydd.
- 24 Morgan, bawd arian, o'i bedwerydd—plas,
 Mab Tomas a las a'i luosydd;
 Morynon, meibion, ymwybydd,—a'u plaid,
 Mil yn ymddifaid am lin Ddafydd.
- 28 Eu plant a dyfant, Duw Dofydd—a'u gad,
 I'r tad y bu'r brad, oedd bur brydydd;
 Galargwyn yw dwyn adenydd—ei blaid,
 Galanas gleisiaid glan Wysg glosydd.

- 32 Hodni yn llenwi, nid llonydd—fy mron,
 Hon a wnâi 'nwyfron innau'n efrydd;
 Gwayw galar i'm gar, ymgerydd—a wnaeth,
 Gwaeth no llawer saeth fai'n llaw'r saethydd.
- 36 Deigrau fu 'mannau fy 'mennydd—a'm pen,
 Dŵr yw o'r halen drwy'r heolydd;
 Pob nant a rodiant, waeredydd—sugnau,
 Paderau, dafnau'r pedwar defnydd.
- 40 Môr donnau Ddifiau a ddyfydd—yng Ngwy,
 Mwyfwy bibonwy i'm byw beunydd;
 Nid â'r durew tew na'r tywydd—yr haf,
 Nid â eiry gaeaf yn dragywydd.
- 44 By les ynn gael llyn? Llawenydd —nis caf.
 Ba wna? Ba ddywedaf heb ddiodydd?
 Colli da'r India 'n yr undydd—nid da,
 Cael da'n un dyrfa, hyn a'n derfydd.
- 48 Hudol yw'r byd ffôl i'm ffydd,—ysywaeth,
 Hudoliaeth waethwaeth fal cyweithydd;
 O darfu a fu, a fydd—o bob tu,
 Or hwn a ddarfu'r rhain ni dderfydd.
- 52 O'r wlad y cyrchaf orwledydd—ar frys
 Na wŷs i'n hynys 'y nihenydd;
 Pam nad awn od awn i'r dydd—a wnaethon'
 Rhyngom lle gwelon' bob llu ei gilydd?
- 56 Lle mae hon, goron ar geyrydd—y saint,
 Un fraint â'i cheraint a'i chwiorydd,
 Â thŷ a gwely, digywilydd—bwys,
 A chrwys paradwys rhwng parwydydd,
- 60 Gyda'r forwyn fwyn dan fynydd—Sina,
 Gydag wŷr Anna a'i garennnydd,
 ('Y nghnawd i Drindawd wedy'r undydd—dig)
 Ym mrig ne' y trig ag enaid rhydd.

64 Ef fydd enaid rhydd i'r trŵn
 Od â ffeiriad i fferen;
 E ry gŵr y wraig arian,
 Ef a rôl'i gwas fara a gwin.

Nid â na bara neu beren, &c.

Ffynonellau

A—Pen 67, 39–43 B—Pen 99, 390–2 C—Pen 101, 270–2 D—CM 12, 218–20

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 4–5 F—Bangor 7268, 2–4

Amrywiadau

3 *A* ..yn dwyen 15 *A* drwc vwm i.., *D* drwg i mi.. 17 *A* ..ni chennvyd.. 19 *A* ..kynnyd.. 20 *A–D* ..sy m lleferydd 22 *A* ..ai lvoessydd 23 *B–D* morwynion.. 25 *A–D* y plant.. 27 *B–D* dwyn Maelgwyn yw dwyn.. 28 *D* ..glan wisg.. 32 *B–D* ..fu n.., *A* ..seythyd 33 *B–D* ..fu m mannau.. 35 *B–D* ..redant.., *C* ..waredydd.. 40 *A* ..eiri..ynn dra gywydd 41 *B–D* ba les.., *C* ..yn gael.. 43 *A* ..India n nyr vn ddydd.. 48 *A* ..ni ddarvv r hain a dderydd, *B–D* ..ni ddarfu.. 49 *C* or wlad y cyrch.. 50 *A* ..yn hynnys yn i hennydd 51 *A* ..wnaethont, *B–D* ..wnaethom 52 *BC* ..lle y gwelom.., *D* ..lle gwelom.., *A* ..bob llv gilydd 54 *D* ..ei cheraint.. 59 *B–D* ..y drindawd.. 63 *BC* ..i wraig.. 64 *A–D* ..roi gwas..

Marwnad Gwallter Hafart ap Siancyn Hafart Hen

- Mae un gŵr yma'n gorwedd
 Â dôr faen dew ar ei fedd.
 Yr haf mae gaeaf o'i gŵyn,
 4 Oer a gwynnog yw'r gwaniwyn.
 Dwyn Gwallter, Mab Duw'n gwylltu,
 Dialedd am falchedd fu.
 8 Diryfedd, mau chwerwedd chwyrn,
 Friwio coed wrth fwrw cedyrn.
 Bwrw y wlad fu'r ymadaw
 A bwrw y dref â'r bar draw.
 12 Bwrw ein llety, Gymry, i gyd
 Yw bwrw Hafart, brau hefyd.
 Llen gêl aeth rhôm a'i wely.
 Llaw na throed o'r llen ni thry.
- 16 Nid â ef o dŷ Iefan;
 Nid âi yr wyth da â'i ran.
 Y naw da yn y diwedd,
 Ni lanwai bump lun y bedd.
 20 O naw aelwyd ni welwn
 'Normant oll un o'r maint hwn.
 Delw gadarn Trahaearn hir,
 Am ei ddelw y meddylir:
 24 Marchog, blodeuog blu da,
 Madog, waed rhywiog Troea.
- 28 Ni mynnai i'r war ond arian;
 E'i mynnai'r glêr mewn aur glân.
 Ef allai'r tad profiadwy
 Wisgo gard rhwng Wysg a Gwy.
 Y ddwy gamp a weddai i gyd
 Oedd ar Hafart ddewr hefyd:
 32 Mabolaeth a wnaeth yn iawn,
 Os gwrolaeth sias greulawn.
 Nis trôl un es tri Ionawr;
 E drôl â'i fys Droea fawr.

36 Nes ei eisiau'n oes oesoedd
Ni wyddiai neb py ddyn oedd.

40 Y pysg ffyrfaf o'r afon,
Nid er dysg y neidia'r don.
O thyf dyn o'r wythfed ach
O'i naturiaeth nid hwyrach.
Y mae pumaib yn feibion;
Pennaf, os hynaf, yw Siôn,
44 Dyn i fwrw aur dan ei frig,
Dyn a dâl duw Nadolig.

48 Nid aeth llywodraeth lladron
Yn drais hir hyd yr oes hon.
Oni ddaw ynn wýdd ieuainc
Aeth yn fud weithian y fainc.
Aeth heb arian am ganu
Ac nid af heb ddwyn gŵn du.
52 Aeth rhew gwlyb, aeth eiry a glaw,
Aeth gwynt â'n cywoeth gantaw.
Aeth wylo crwth a thelyn,
Aeth y farwolaeth fawr ynn.
Aeth cerdd tafod yn dlodach.
56 Aed ef i wlad nef. Yn iach!

Ffynonellau

A—Pen 67, 112–15 B—Pen 99, 414–16 C—Pen 101, 294–6 D—CM 12, 242–3

Ffynhonnell arall

E—LIGC 670D, 61–2

Amrywiadau

4 *B–D* ..gwanwyn 7 *D* ..mae., *A* ..mav chwyrn 8 *A* ..koet wrth vwr., *B–D* friwo.. 14 *B–D* ..llan.. 21 *B–D* ..drahaiarn.. 25 *A–D* ni mynnai r warr.. 26 *A* e mynai., *B–D* ei mynnai.. 27 *B–D* ..profadwy 29 *A* ..a weddai gyt 36 *B–D* ..wyddai neb pa ddyn.. 39 *C* o thyf dy.. 40 *A* oi nadtvryaet.. 41 *D* ..o feibion 42 *A* pennanaf...y Johon 45 *A* ..llywodraeth r lladron 47 *A* ..ddaw yn.. 51 *A* ..eira.. 52 *D* ..cywaeth.. 55 *B–D* ..dafod..

Moliant Llywelyn ap Gwilym a Siwan ei wraig

Y gŵr â'r menyg arian
 Yn gyrru'i feirch y geirw i'r Fan,
 Llywelyn, Gynfelyn fodd,
 4 Lle'r wyd pob llu a redodd.
 Duw a'th roes, nid â o'th rym,
 Dirgelwch daear Gwilym;
 8 Colfyn o Rys frywys frig,
 Carw o Adam caredig,
 Gwreiddiaist o Hywel Felyn,
 Gwraidd arglwyddiaidd i ddyn.
 12 Da oedd gael diwedd gwyliau
 Dyn ar Rys a dynnai'r iau.
 Awmal wyd nawmil o wŷr,
 Aerwy sidan ar sawdwyr.
 16 Brawd Edern o bryd ydwyd,
 Blaen draig y blaeneudir wyd.

 Dilynais dy lawenydd,
 Ymddilyn gwenyn a gwŷdd.
 20 Bywyd ynn lle bo d'annedd
 Brodir a mynydd-dir Nedd.
 Gorau yw blaeneuau i'n iaith
 A'r dolydd lle bu'r dalaith.
 Gwell i ddyn, gannyn gynnal,
 24 Erw o'r Fan no thair o'r Fâl.
 E gair hwnt i ar gwr hon
 Fagiad i wŷr arfogion:
 Ceiriyrch unlliw â'r cwrel,
 28 Ceirw a'r myllt, y cwyr a'r mêl.
 Cyrchu'r Mynydd Du â'r da,
 Cynhiriaid fal ceirw'n herwa.
 Magu'r gwartheg yn egin
 32 A bair aur i'w bwrw ar win.
 Gellid eu dwyn, gwyllt a dof,
 I'th gegin ym Mhorthogof.

- Ewythr wyd holl dylwyth Rys
 36 A'th allu i'th ewyllys.
 Dy feibion yn digoni,
 Dy weywyr onn, ni'm dawr i.
 Dy wraig i'r Deau a ran
 40 Ac i Wynedd, merch Gynan.
 Af at Siwan am annedd;
 Ail Anna yw o lan Nedd.
 Dyn a ran dawn i'r ynys,
 44 Dwynwen, ar holl dynion Rhys.
 Wŷr Ieuan yw o'r iawn ach;
 Un o'u tylwyth nid haelach.
 Ei haur a gefais i'w hau
 48 Ac yn ieuanc giniawau.
 Rhaid iddi 'mhob rhyw dyddyn
 Ugain llong i gywain llyn;
 Ugain tunnell, gwynt annel,
 52 Chweugain march i gywain mêl;
 Ugain ben i gywain bwyd
 A'i roi 'n ôl i'r un aelwyd.
 Naw ugeinyn i ganu,
 56 Nawcant wyl dy fabsant fu.

- Da yw gorddyfn dy gerddwr;
 Dy rodd a'm nerthodd yn wŷr,
 Ac ni'm gad, gariad Garwy,
 60 Dy olud mawr yn dlawd mwy.
 Da yw d'allu, doed wellwell;
 Dy hŷn, Lywelyn, oedd well.
 Da oedd Siwan pan aned
 64 Od oedd dda gwreigdda o Gred.
 Dau dda'n un ywch a unir,
 Da Siob, a chael dwyoes hir.

Ffynonellau

A—Pen 67, 245–50 B—Pen 99, 477–9 C—Pen 101, 354–7 D—CM 12, 297–300 E—BL Add 31070, 60^v–63^v

Ffynonellau eraill

F—LIGC 670D, 30–2 G—Bangor 7268, 4–6

Amrywiadau

2 *A* yn gyrry vairch y geirw r vann, *BC* ..yn geirw y fann, *DE* gyr ei feirch yn geirw i fan 4 *E* ..llu redodd 6 *A* dirgelwc.. 7 *B-E* colwyn.. 10 *E* gwyradd arglwyddiaidd ddyn, *D* ..arglwyddiaidd ddyn 11 *C* ..oedd diwedd.. 18 *A-C* yn ddilyn., *DE* yn dilyn.. 20 *D* ..medd 21 *A* ..blaenvav n iaith, *B-E* ..blaeneuau n iaith 22 *A-E* no'r dolydd.. 24 *E* ..no thir.. 25 *A* ..hwnt ar gwr., *B-C* ..oddi ar., *D* ..oddar.. 27 *B-D* ceirieirch., *E* ceirwieyrch.. 28 *D* ..or myllt., *E* ..a myllt..a mel 32 *A* ..y bwrw.. 35 *AE-C* ..rrys 37 *D* ..ynn digoni 38 *B-E* ..wewyr.. 41 *E* ..ag annedd 44 *D* Dwynen.. 45 *E* 46-45 47 *BC* eu haur.. 48 *D* ..ieuaingc.. 51 *A* ..gwynn tannel, *B-E* ..gwin tannel 54 *A-C* ..yr vn aelwyt 55 *A* naw vgain yn i ganv 61 *E* ..di allu.. 65 *DE* ..ych.. 66 *A* ..Job..

Marwnad Llywelyn ap Gwilym ap Rhys Llwyd

- Ewythr i bawb aeth i'r bedd;
 Athrist wyf am ewythredd.
 Ystôr deg yn Ystrad ym
 4 Ddoe o genedl oedd gennym.
 Wylo 'n ei ôl, fil, â naint
 Am un ewythr mae neiaint.
 Llif a wnaeth llef ei nithedd
 8 Yn Wysg a Thawy a Nedd.
 Dialef ar waedoliaeth
 Einion Sais i'n ynys aeth,
 Aelodau o hil Adam,
 12 Marw'r pen, Mair a wŷyr pam.
- Ail Rys Llwyd, â'i law roes llyn,
 Ail Wilym fu Lywelyn.
 Ail eto Eli ytwyf,
 16 Wylwn, ac ail Ënog wyf.
 Brawd, gwayw nychdawd gyn echdoe,
 I'r forwyn wyf ar fôr Noe.
 Wylo, cwyno o canaf,
 20 Canu yn ôl cwyn fy naf.
 Dwfr noeth yw'r dafarn weithian
 Dwyn cog Brycheiniog a'i chân.
- Derwen i'm hen ederyn
 24 A dorres; Duw, mae'n drist dyn.
 Ni *chad* heb lad o bob le
 Filltir yn Ystradfellte.
 Marchnad heb win yw'r Dinas,
 28 Marbl gwlyb ym yw'r Beili-glas.
 Llai a dwng llw diangof,
 Llwybrnych wyf, llai barn a chof;
 Llai afael yng nghynllyfan,
 32 Llai dwyn cyrn, llai dyn a'u cân;
 Llai medd yng nghyrn, cyfedd cau,
 Llai gwin rhwng llaw a genau;
 Lleilai gwedy Llywelyn
 36 Llef ar dant a llafar dyn.

40 Llawendrist wyf; llanw dros dir,
Wedy trai y datröir.
Dros dad beilch, dristyd o bydd,
Mae o'i lin ym lawenydd:
Mae'r chwemaib mor wych yma,
Mae'r *chwech* at hyn merched da.

44 Mewn diwedd anrhydeddus
Mae'r tad rhwng y myrr a'r tus.
Ar ôl gwin, arwyl y gŵr,
A chan a rhost, a chynnwr,
Ac uncar aeth *ugeincant*
48 I dŷ *main Sain Domnig* sant.
Nid edwyn ordwr nad ydoedd
Ar gân o'i flaen organ floedd.
Dynion rhyddaw a'r awyr
52 A du 'n eu cylch yn dwyn cwyr.
Pedwar maib, fu waith caib côr,
Dan wylo'n dwyn ei elor
Lle gwnaeth rhwng pedwar carreg
56 Byr oed dydd â'i briod teg.
Rhyfedd yn y bedd na bu
Siwan yn ei resawu.
Hir oedd i hon, Non Glyn-nedd,
60 Aros hwn yn nhir senedd.
Oed *a* wnaethont; aen' weithian
I wlad nef; ail oed *a* wnân'.

*Ffynhonnell*LIGC 9048E [= Balliol 353], 28^{r-v}*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 a thrist.. 3 ..ynnm 5 ..vil a wneint 6 ..nieint 7 ..y nithedd 9 ..ar
wadoliaeth 20 ..kwyn y naf 22 ..roc brychennok ychan 23 ..yderyn 24 y
dorres.. 25 ny ad heb ladd.. 29 ..y dwng.. 30 ..nychwyf.. 31 ..avel.. 37
llawendrisr.. 40 ..ynnm.. 42 ..whech.. 47 ..aeth oigainkant 48 ..maen sannt
domnik.. 58 ..yny Ryssawu 61 ..y wnaethont ayn waithan 62 ..y wnan

Marwnad Llywelyn ap Gwilym a Siwan ei wraig

Mi a wn lle mae annedd
 Dynion y byd yn un bedd:
 Gŵr a marchog i'r merched,
 4 Gŵr a gwraig orau o Gred.
 Wedy marw Adam wrol
 E fu Rys fyw ar ei ôl.
 Llen gêl aeth ar Lywelyn,
 8 Llif Noe a wna'r llefain ynn.

Na chroesëwch farch Siwan;
 Ni ddoeth â'r llwyth; aeth i'r llan.
 Gwan yw 'mhen gwyno 'mheunes,
 12 Gwae'r grudd gan y gwayw a'r gwres.
 Meirw'r tadmaeth a'r famaeth fau,
 Mi a fethais am foethau.
 Noblau fu 'nhegannau gynt;
 16 Eisiau arian es hirynt.
 Merddin Wyllt Amhorfryn wyf
 Ar fan hyd pan derfynwyf.
 Nid â 'nhroed o goed y garth
 20 Wedy'r angel o Dringarth.

Y tŷ aeth yn draeth ynn draw,
 Wyth ugeinty aeth gantaw.
 Nid trais dŵr a wna'n tristáu
 24 Eithr Duw'n anrheithio'r Deau.
 Wyth ben fu dylwyth y byd;
 I'r wyth hyn yr aeth ennyd.
 Wyth ugeinmil a hiliant;
 28 O'r wyth plwyf yr aeth y plant.

Ni bu gwan heb ei giniaw
 O afon Drent i'r Fan draw.
 Mae'n fwy syched cerddedwyr,
 32 Mae'n llai'r perchen tai a'i tyr.
 Ni rôi o'u bath wŷr y byd
 A roes hon er ys ennyd.
 Nid rhaid i'r enaid ronyn
 36 O chaiff a roes o'i choffr ynn.

Brad oedd i'r Ystrad rwystraw
 Brwydr drom rhôm a'r brodyr draw.
 Ymbwyo yma buom
 40 Er cau y trap a'r coed rhôm.
 Y dynion ni'm hadwaenynt
 Er sôn am hen gofion gynt.

Yr oedd addo i'r ddeuddyn
 44 Tir y saint y teiroes hyn:
 Tŷ Sain Domnig i drigaw
 I leuad Rhys i'w wlad draw.

Da wr oedd mewn dur iddi,
 48 Ys da wraig oedd i'm meistr i.
 Pan aeth ef i'r wlad nefol
 Aeth i nef hithau 'n ei ôl.
 Hwn fydd yn ei hen feddiant,
 52 Hithau sy 'nghywoeth y sant.
 Hwyl ddu o'i thŷ aeth â hi.
 Haul Lyn-nedd, hwyl wen iddi.

Ffynonellau

A—Pen 67, 250–4 B—Pen 60, 20 (*llau. 1–8*) C—Pen 99, 479–81 D—Pen 101, 357–9 E—CM 12, 300–2 F—BL Add 31070, 63^v–66^r

Ffynonellau eraill

G—LIGC 670D, 32–3 H—Bangor 7268, 34–6

Amrywiadau

2 *B* ..mewn vn bedd 8 *B* ..wnaeth llefai[], *F* ..wnai.. 10 *EF* ni ddaeth.. 12
A ..ar gw[] 13 *A* ..vamaeth va[] 16 *F* ..er hirhynt 17 *A* ..ymhevrddvn wyf,
C–F ..ym heurddyn wyf 21 *AF* ..yn draw 24 *EF* ..anrheithio Deau 32 *F*
 ..llai perchen.. 35 *E* nid i r enaid.. 36 *F* ..ei choffr.. 38 *F* ..ai brodyr.. 39
AC ..i bvom, *D* ..y buam 40 *A* ..rron 41 *E* ..nim adwaenynt, *F* ..nid
 adwaenynt 45 *EF* ..sant., *F* ..Domig.. 46 *A* y levd., *AC–F* ..rrys y wlad.. 51
D ..yn ei feddiant 52 *F* ..nghywoeth sant 53 *ACE* ..oi thv., *F* ..aeth hi

Moliant Siancyn ap Llywelyn ap Gwilym a Wiliam ei frawd

- Mae 'n y seler dabler deg
 A deuddis yn bwrw deuddeg.
 Y mae yn gwarae â'r gwŷr
 4 Ddeuchwech o gyfeddachwyr,
 Ac ar ôl rheol y rhain
 Wŷr ragor bedwar ugain.
 Am ddeuwr mae ym ddewis;
 8 Mae 'n y llaw fau y ddau ddis.
 Siancyn, mor derwyn â'r dur,
 Yw fy nis o faen asur.
 Urddas y bobl a'u irddail,
 12 Wiliam wŷr Adam yw'r ail.
 Egin digel Llywelyn
 A ddeil tir y ddwywlad hyn.
 Wyrion Rhys â gair yn rhad
 16 A ry dramgwydd i'r dromgad.
 Ef a lanwai'r Fêl Ynys
 O arian rhodd wyrion Rhys.
 Ennill da a wnân' ill dau;
 20 Cydennill y'm caid innau.

 Ennill yr wyf y naill rod
 A'r ddau yn prynu'r ddiod.
 Ar dri y'm meddwir o drais,
 24 Ar bedwar nid arbedais.
 O gwnair hafog na rhyfel
 Iddo ar bump ydd â'r bêl.
 Ar chwech y gwelech roi gwin
 28 Yn ffrydiau rhwng cyffredin.
 Ar saith y gyrrais wythwyr
 I dŷ'r gwin yn ôl da'r gwŷr.
 Ar wyth yr awn, bawb, i'w radd,
 32 Ar naw yr awn i'r neuadd.
 Ar ddeg na deuddeg nid ân'
 I welyau wŷl Ieuan.

- 36 Gwarëwch, gwyliwch i gyd,
Ar win Byrgwyn bob ergyd.
Aeth i'r glêr llawer lleuad
Aur tawdd wrth chwarae â'r tad.
Ni a rifwn, wŷr ofer,
- 40 Ugain punt ar y gwin pêr.
Bwrw Rhosiel a'r gwin melys;
Ni fwriwyd trai ar ford Rhys.
Gorau yw ergydiau gwŷr
- 44 Ar filiwn o ryfelwyr.
Y naill awr cynnull arian
A'r llall heb ddeall lle 'dd ân'.
Heddiw ennill ym ddillad,
- 48 Yfory'n rhoi'r rheini'n rhad.
Arian gynau roen' gennym,
Arian a'r aur a roen' ym.
Nid rhaid ym brynu tridis;
- 52 Ni wn be prynwn eu pris.
Dewis fy neuddis a wnaf.
Deuswllt yw'r ergyd isaf.

Ffynonellau

A—Pen 100, 20–2 B—Llst 133, rhif 6 C—LIGC 2023B [= Pant 56], 257–61 D—Pen 114, 188–9

Amrywiadau

3 *D* ..gware om gwir 4 *D* ..yn gefeddachwyr 6 *D* gwir ragor ddeg ar vgain
7 *D* ..mae ynn.. 8 *D* ym llawr y may ddav ddis 9 *D* ..a dyr 11 *D* vrddas pob
pebil yr ddail, *BC* ..ar irddail 13 *D* []yn ddigel., *C* ..Lywelyn 14 *D* []la
tir.. 15 *D* ..ai avr.. 16 *D* a roy., *C* ..drymgwydd.. 17 *D* e fe a.. 19 *A–C*
ynnill., *D* dyall da a wnant wy eill dav 20 *A–D* cydynnill.. 21 *A–D* ynnill..
23 *D* ..yn meddwi.. 24 *D* ..nis.. 25 *D* ..a rhyfel 26 *A–C* e ddaw ar bvmp.,
D i ddaw..y ddav ar bel, *C* ..ydd a ar bel 29 *D* ..wythwir 30 *D* o dy..da yr
gwir 31 *CD* ..i radd 35 *D* gwarywn gwiliwn.. 38 *D* ..wrth warav ay tad 39
D mine rifwn.. 40 *D* ..ar gwin.. 41 *D* ..rasiel., *A–D* ..ar win.. 42 *D* ..vwrd..
43 *D* ..ergydyer gwyr 45 *D* ..awr yn kynnyll.. 46 *A–D* ..bleydd an 47 *D*
..yn ynnill., *A–C* ..ynnill.. 48 *B* yfory rhoi., *C* ..rhoi rheiny.. 49 *A–C* ..a
roen., *D* ..gynny rhoen.. 50 *D* ar wan avr y rhoen ym 52 *D* ..besprynnwn y
pris

Moliant Tomas ap Trahaearn ap Gwilym

- Y dyledog diledach
 O hil a gwraidd Hywel Grach,
 Tomas â'r medd purlas pêr
 4 Ac yn solas gwin seler,
 Hil Drahaearn ap Gwilym
 Yn rhoi ei dda yn rhwydd ym;
 Carw penuchel ei helynt,
 8 Coron hil Gwgon hael gynt;
 Wŷr Forgan, arf y fawrgad,
 Un blaidd dros wyneb y wlad;
 Hil Moelwyn, gwreiddyn y gras,
 12 Hen gyfoeth hwn a gafas.
 Ceidwad pawb fu'r Brych cadarn;
 Cadwai a fynnai o farn.
 Da yw'r Brych o dir Brychan
 16 Aeth â'r wlad i eithia'r lan.
 Anos yw d'aros no'r don
 A foddai lyn Syfaddon.
 Dyn dewr fydd da dan daro;
 20 Dyn llwfr ffalst dan llef ar ffo.
- Cael milwriaeth a wnaethost,
 Canu dy gyrn cyn dy gost;
 Cyfedd, eistedd yn wastad,
 24 Cynnal gwledd mewn canol gwlad:
 Cwrt main lle'r aeth ceirt â mêl,
 Caerllion cyriau Llywel.
 Mil i'r wledd a ddaeth heddiw;
 28 Mawr fu'r rhan ym Marf-y-rhiw.
 Dwy fil ân', diofal ynt,
 Draw i swper dros Epynt.
 Rhaid oedd i'r gweiniaid dy gael;
 32 Nid rhaid i weiniaid anael.
 Rhydderch y'th elwir heddiw
 Yn rhodio bron y Rhyd-briw.
 Nudd Hael wyd i'r neuadd hon
 36 Neu'r llew a fu 'Nghaerllion.

- Arfau Gwynedd a weddynt
 Ar darian hil Gynan gynt.
 Arfau Rhys a orfu'r rhain
 40 Yn oes brwydr Ynys Brydain.
 On'd ydych o hen Dewdwr
 Nid oes gorff un dewis gŵr.
 Da fu ddechrau dy fywyd,
 44 Da fydd ywch beunydd eich byd.
 Ni fynnod fod yn fanol;
 Nis myn ywch undyn i'ch ôl.
 Rhoi'r llynedd—nis rhyfeddyn'—
 48 Yleni rhoddi er hyn.
 Rhoi'n ieuanc, rhyw ynn ohir,
 A rhoi'n hen a pharhau'n hir.
 Ni'th roddwn, farwn y fainc,
 52 Er dwyoes o'r do ieuainc.

- Hen yw'r ceirw, hŷn no'r cewri,
 Hen fych fal y hunwyf i.
 Hendda wyd, hyn a ddwedir,
 56 Hŷn fych no dyn yn dy dir.

Ffynonellau

A—Pen 67, 238–41 B—Pen 99, 472–5 C—Pen 101, 350–2 D—CM 12, 293–5 E—Pen 55, 149–51

Ffynonellau eraill

F—LIGC 670D, 28–9 G—LIGC 22832C, 420–2 H—Bangor 7268, 29–31

Amrywiadau

1 *E* ..dylyedoc.. 5 *A* ..drahahaeyarn.., *E* ..dyrhayarn ab.. 11 *E* ..ymoylwyn..
 13 *E* ..yw r.. 14 *E* ..y vynei.. 15 *E* da vy r brych.. 16 *B–D* ..eitha.. 17 *D*
 aros.. 18 *A* ..soddafon 19 *D* ..fydd dan.., *E* ..vyd ad andaro 21 *E* ..y
 wnaythosd 22 *E* kanyd cyrn.. 23 *E* ..y wasdad 25 *E* kwrt mawr.. 27 *E*
 ..ydd ayth.. 28 *D* ..fu rhan.., *E* ..vy rhodd.. 31 *B* ..gweniaid ei gael, *E*
 ..gweiniad.., *CD* ..ei gael 32 *B* ..weniaid.. 36 *E* neyr llw.. 37 *B–D* ..feddynt,
E ..y weddynt 38 *E* ..hil gwgan.. 39 *E* arvy.., *B–D* ..a orfu rhain 41 *A*
 ..ydywch.. 43 *E* ..ddechrev yt yw ywyd, *A* ..dy vyd 49 *A* ..yn oir 55 *E* ..hyn
 y ddwedir

Marwnad Tomas ap Trahaearn ap Gwilym

- Gwae fi wyl Ddewi a ddaw
 Am ogedyrn sy i'm gadaw.
 Y tymor a ddug Tomas
 4 A dry ym lif o'm drem las.
 Llin Drahaearn, ddwyddarn ddur,
 Llin Wilym, nid llai 'nolur.
 Llawer rheg ar y lloer hon
 8 Uwch 'y mhen. Och am hinon!
- Y bedd o saith droedfedd draw,
 Y mae'r undyn mawr yndaw.
 Ewythr y byd aeth i'r bedd;
 12 Mewn hwnnw y mae'n hannedd.
 Llawer nai gerllaw'r neuadd
 Yn un llid a dŵr Noe'n lladd.
 Drycin yw ar blaid Ricart;
 16 Dawn Gwent a ddug Duw o'n gwart.
 Y mae'n frath ym yn y fron
 Fwrw gogof ar ryw Gwgon.
 Coed meirw, cawodau moroedd,
 20 Cist llew o Dre'rcastell oedd.
 Blin o beth, i'r blaen y bu,
 Na bai'i gleddyf heb gladdu.
- Ni adai Dduw oedi'i ddydd
 24 O bai Lywel heb lywydd.
 Ef âi'n gynt er ofn ei gas
 At un gwan no'r tân gwynias.
 Troed wyneb y tir dano;
 28 Troea fawr nis trôï efô.
- Y llan oedd ger ein llaw ni,
 Ni'm edwyn undyn yndi,
 Llif glaw a llef a glywynt
 32 Lle bu'r gerdd ym mhob llwybr gynt.
 Yma 'dd wyf fal amddifad
 Am nad oes ym fam neu dad.

- 36 Pawb a'm gwrthod i'm tlodi;
Y mae ar Dduw fy mwrdd i.
- 40 Morgan, atan ym ytwyd
Fal tân hen Elystan lwyd.
Darn fawr wyd o aur neu fêl,
Dwrn llew a derwen Llywel.
Cadw'r swydd lle cydorseddir,
Cynnau'r tân rhag gwanhau'r tir.
Ymlid y llu 'mhlaid y llall,
- 44 Aros herwyr wers arall.
O'r Rhyd-briw o rhoed brëyr
Yn Llan-faes dan y llwyn fyr,
Gwnaeth nef iddo dref a drig;
- 48 Gwnâi dâl ynn gan Nadolig.
Rhoed gwledd yn niwedd ein iôn;
Rhy gynnar fu i'r rhai gweinion.
Gwledd fawr wrth ei gladdu fo,
- 52 Gwledd oedd gan f' Arglwydd iddo.

Ffynonellau

A—Pen 67, 242–5 B—Pen 99, 475–7 C—Pen 101, 352–4 D—CM 12, 295–7

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 29–30 F—LIGC 22832C, 422–4 G—Bangor 7268, 31–2

Amrywiadau

2 *A–D* ..sy m gadaw 4 *D* ..o drem.. 7 *C* ..rheg a y lloer.. 9 *C* y bedd y saith.. 14 *D* ..llid dwr., *B–D* ..in lladd 17 *D* ..frath yma n y fron 19 *A* ..kawadav.. 22 *A–D* na bai gleddyf.. 23 *A–C* ..oedi ddydd 27 *A–D* troid.. 28 *C* tria.. 33 *D* ..ymddifad 35 *C* ..am gwrth im.. 37 *BC* ..adtan.. 41 *B–D* ..lle y cydorseddir 45 *A* o rryd briw.. 46 *D* yn y llan faes.. 47 *A–D* ..yddaw n dref.. 48 *A* gwa dal yn., *B–D* gwna.. 50 *D* ..gynar i r rhai., *A* ..y rrai.. 51 *BC* ..efo

Awdl foliant i Forgan ap Tomas Llwyd

- Einion ap Gwalchmai, fu a'i annedd—gynt
 Yn gyntaf yng Ngwynedd,
 A fynnai wŷr cyfannedd
 4 A bod ymysg bedw a medd.
- Medd a gawn i'n meddwi i gyd
 A mêl cwyr yn aml y cad;
 O'r berllan, gorau ban byd,
 8 Mae'r wledd i gan mwya'r wlad.
- Mae rhai eiddunai ddwynos—o'r gaeaf
 Yn gyhyd ag wythnos;
 Morgan a ddywaid gannos,
 12 'Mair, beth a wnair byth â nos?'
- Deubeth yn unnos a dybiwyd—na chaid
 Mwy no chwedlau'r proffwyd:
 Mais llanw y mis y lluniwyd
 16 A mais llyn mab Domas Llwyd.
- Mab Domas, cafas yn ôl cyfedd—gwin,
 A genais bum mlynedd;
 Minnau gefais dros eistedd
 20 Na bawn fyth heb win neu fedd.
- Cawn ŵyl heiliad, cynnil holion,
 Cawn adeiliad, can hudolion;
 Caf elw cyfeiliad, can helw cynheiliad,
 24 Aurdeiliad urddolion.
- Caf ddechrau gwyliau, galon—Iforaidd,
 Lle i fwrw englynion;
 Cael yn agos celenigion,
 28 Celu eirchiaid, cael a archon';
- Cael enw rhagor, cael anrhegion,
 Cael cadw moethau, cael cydmeithion;

32 Cael medd a chyfedd a chofion—am win
A mynych wahoddion.

36 Cael y mae'r gwarae gyda'r goron,
Cafas draw urddas drwy Iewerddon;
Cara' i y doethaf o'r ceirw doethion,
Carodd yng ngwyliau cerdd engylion:
Cerdd dafod herod, tirion—ardduniant,
Cerdd dant, cae ariant y cywirion.

40 Diffygiai o thygiai gyfoethogion,
Dirmygai a ddygai o arfogion;
Dyblygai, debyga' i, dew hebogion,
Diwygiai, dygai i ddlyedogion;
44 Dreigiau, gwres eigiau, gwresogion—seigiau,
Creigiau, da seigiau i dywysogion.

48 Nerthog i'r anghenogion
A deg o'i gymydogion.
Nid agos dlyedogion
Un agwedd o Gristnogion.

52 Ni ry nâg er anogion
Y sy ddig o swyddogion,
Na dug na gramadegwyr,
Na chwegwyr o farchogion.

56 Er rhodd yr haeddwch, yn rhydd ynn rhoddwch
Aur rhudd er heddwch, rhwydda' rhoddion;
O flaen aflonydd oedd enw Eiddionydd,
Ef a wnâi i lonydd ofn ei linon.

60 Onnen a wnâi yr un anian â Nudd
A'i gyrrai'n brudd i ger ein bron;
Ai llai â gair no'r llew o gudd
Â'i baeled rudd a'i baladr onn?
Ail Gwair yw'n crair, e'n cair lle'n pair
A'i air a wnair hyd ar dŷ Non;
64 Od air i'r ffair, ym teirdelw Fair,
Nid air o'r ffair heb dorri'r ffon.

Ffonnod a rydd, hoff yn y drin,
E gaid ei win a'i gadwayw onn,

- 68 A'i dai yn rhydd, nid ydyw yn Rhin
 Â'r enw, yw Sin i'r ynys hon.
 A rhoi mae'r hydd wirod o wÿdd,
 Fal geirw y tyf o gyrrau ton;
 A fu, a fydd a ddêl i'w ddydd,
 72 Y sawl y sydd â solas hon.
- Honno barodd hwn y borau,
 Ni châi dorau na choed irion;
 Rhan a garodd o'r hwn gorau
 76 A rhagorau y rhai gwirion.
 Garw y gyrrai, 'r gaer a agorai,
 Gwÿr a huriai, gwewyr hirion;
 Mawr ymyrrai, mwy'r ymwrïai,
 80 Mawr anturïai 'marwn tirion.
- O dirioni y daw'r anant,
 Pawb a ganant, pab y gweinïon;
 Am ddaïoni 'r ymddiddanant,
 84 Yr ymwanant wewyr meinïon.
 Yn ael glennydd fâl ysblennydd
 Y nos drennydd [];
 Ysgrifennydd, goresgynnydd,
 88 A'i garennnydd hyd Gaereinion.

Einion ap Gwalchmai, fu a'i anedd, &c.

Ffynonellau

A—Pen 67, 225–30 B—Pen 85 ii, 4–6 C—Gwyn 1, 66^r–67^r D—BL Add 14971 [= RWM 21], 241^v–244^r E—LIGC 6209E, 243–4 F—Pen 101, 262–5 G—BL Add 31070, 13^v–18^r

Ffynhonnell arall

H—LIGC 642B, 114^v–115^v

Amrywiadau

1 B Einon..., F ..ab..., A ..gwlcmai..., C ..fv anedd..., DEG ..fv ei..., F ..anned..
 2 DE ..yn Gwynedd 3 B afanai..., C afanav..., DE a vynnnav.. 5 A–C ..yn meddwi..., DE ..ein meddwi..., F ..in meddw..
 6 C–G ..kwyr aml.. 8 C–G i mae r wledd ganmwy..., F ..ir wlad, G ..ganmwy n r wlad 9 B [] rai addvnau..., A ..evddvnai..., CDFG ..addvnai..., E ..oeddunau.. 12 F ..wnair a nos 13 C ..chais 14 B–G ..chwedl y proffwyd, A ..proffwy [] 15 B a mais llanw..., F mai llaw y nos lluniwyd, A ..y ms..., D ..y mis llwniwyd, E ..llanw

nos llwniwyd, *G* ..yn nos lluniwyd 16 *F* am ais llaw., *C-E* ..llawn., *G* ..llaw., *B* ..tomas.. 18 *A* a gennais., *FG* a gefais.. 19 *D-G* mi a gefais am gyfedd 20 *A* ma bewn., *B* ..eb win.. 21 *DE* ..kynnl., *G* ..kynnal.. 22 *CEG* ..adeilad.. 24 *A* evr ddeiliad.. 25 *DE* [], *FG* [25-6], *B* ..gwiliat.. 26 *BC* le.. 27 *C* ..ynn agos., *B-EG* ..kylenigion, *F* ..calennigion 28 *C-G* ..eirchiad.. 30 *C-G* ..mwythe., *EG* ..kymdeithion 33 *C* ..yma r gwarae., *D-G* ..y mae gwarae., *A* ..gwarav.. 34 *B-G* ..ywerddon 35 *D-G* karaf., *C* ..doeth ar keirw.. 37 *BD-G* ..tafod., *C* ..vrddiniant, *DE* .. orddiniant 38 *B-G* ..tant., *D-G* ..kae warant.. 39 *DE* defficiae., *DFG* ..a thygiae.. 41 *ADE* ..tebygai tew., *B* ..tybyga tew., *C* ..tybvgai taw., *FG* ..dybygai tew.. 42 *A* di ygai., *BDF/C* diwygai / diwgai dygai ddyledogion, *E* kreigiae dygae ddyledogion, *G* ..dygai ddyledogion 43 *B-G* kreigiav., *A* ..gres eigiav., *B* ..gwres seigiav.. 44 *B-G* ..tew seigiav tywysogion 45 *A-C* ..yw r anghenogyon, *G* ..ir anghenion 46 *B* ..gymedogion 47 *B-G* [47-8], *A* ni d a gogos.. 51 *A* ..duc n grymadegwyr, *F* ..gramadegwr 52 *F* ..o farchion 53 *F* ..ir heddwch., *A* ..yn rroddwch, *C-G* ..yn rhwydd i rhoddwch 54 *B* avr hydd., *C-G* ..rhwydd a rhoddion, *A* ..rroddyddyon 55 *B* ..enw i ddiwynnydd, *C* ..enw i ddevnydd, *DEG* ..oedd i ddiwynnydd, *F* ..oeddiwynnydd 56 *A-G* ..wnai lonydd.. 57 *B-E/FG* ..a wnaid vn / yn anian.. 58 *E* ..yn brud ei gar y bron, *B* ..brvdd gar., *A* ..i gyr., *D* ..ei gar., *FG* ..o gar.. 59 *D-G* ..a gaid no llew., *C* ..na llew.. 60 *F* ai bael rudd., *G* ..nudd.. 61 *D-G* ail gwnair yn krair., *B-G* ..an kair lle pair 62 *F* a air., *C* ..dv nonn 63 *BD-G* ..myn tair., *C* ..myn krair.. 64 *BC* ..ir ffair., *G* ..o ffair., *B* ..eb., *DEG* ..heb dorri ffonn, *F* ..dorri ffenn 65 *BC* ffonnod rydd.. 66 *BD-G* a gaid ai win., *C* ai gaid., *A* ..gadwae onn 67 *F* ..nid yw.. 68 *B-E* ar enw sin., *FG* ar enw o Sin., *ABD-G* ..yr ynys.. 69 *BF* [69-72], *C-EG* [69-70] 71 *C-EG* ..a ddaw i ddydd 72 *C-E/G* ar sawl.or / ir solas.. 73 *B-G* honn a barodd hynn., *A* ..bore, *B* ..yn y borav 74 *A-G* ni chae.. 75 *F* ..y garodd., *A* ..o rrwnn.. 77 *A* ..a ygorai, *B-G* ..gaer agorai 78 *BDE* ..ai hiriai., *G* ..hyrriau., *B* ..hurion 79 *A* ..ymorryai, *B-G* ..ymorai 80 *B-F* mwy r anturiai.. 82 *B* ..gwenion, *F* ..gwennon 83 *B-G* am ddaioni ymddiddanant 84 *B-E* ir ymwanant.. 86 *A* ..val nas trennyon, *BCF* ..val nas drennon, *DE* ..val nos drennon, *G* ..val nas dreinion 87 *A* [87-8], *B* ..orysgennydd, *C* ..or ysgennydd, *D-G* ..arysgennydd 88 *G* ..Caereinion

Gofyn chwe ych dros Domas ap Siancyn ap Madog

- 4 Tomas ddulas lle 'dd elwyf,
 Gŵr mawr ei saig o'r Mars wyf,
 Epil arglwydd yn llwyddiaw,
 Yr Yslwch air is ei law;
 Hu Gadarn â haearn hir
 Er rhoi'i fryd ar hau'i frodir.
 Ni lafuriwn le i fara
 8 O chawn dir ac ychen da.
 Blin yw i mi ar driar
 Ychena byth. Na chawn bâr!
 Rhyfedd, a mi'n rhoi hefyd,
 12 Na chawn bwyth ych yn y byd.
 Mae ym mrig Ceredigion
 Bâr a dry'r talar drwy'r ton.
- 16 Os chwech gogytrech a gaf
 Ar y Cantor mae'r cyntaf.
 Ych a gaf Rhys ap Dafydd;
 Eidion yn y bôn y bydd.
 20 Doe e luniwyd dôl onnen,
 Fliant, i'r ych o Flaen-tren.
 Ych Ieuan Llwyd uwch ein llaw,
 Ni ddyladdai'r ddôl iddaw.
 Dôl onn fydd hyd ei liniau
 24 Ac ar un corn gŵr yn cau.
 Dêl o aelwyd Lywelyn
 Dafydd yn bedwerydd dyn.
 Deugarw holl Geredigion,
 28 Dau dan yr uniau a rôn'.
 Mae'r iau drom i ych Domas
 Fychan, a glaif awchwyn glas.
 Mab Ddafydd, esillydd serch,
 32 Mae'n cyrhaeddu mainc Rhydderch.
 Y mae 'mhâr, mab a garwn,
 Ffyllib hael gyffelyb hwn.
 Rhuban Domas Fychan fydd,
 36 Rhys yw 'n ynys Wynionydd.

Bardd fûm i yn ysbïo
 Bob ddau freninbrennau'n bro.
 Nid etholaf bren afall
 40 Onid o'r llwyn y daw'r llall.

O chyffroan' chwe phrior
 Uwch yw'r cyrn no chwech o'r côr.
 Bob chwech y cydymdrechant,
 44 Bob ddau i'r uniau yr ânt,
 Tywarchorion, tyrch euraid,
 Tidiau yn gyplau pan gaid.
 48 Trichwpl ynt o'r tir uwchel,
 Teiriau yn ddarnau pan ddêl;
 Esgobau'n llanw ysgubawr,
 Esgyb y fen, ysgub fawr;
 Adar yn cael oedran cig
 52 A'r adar yn eredig.

Mae i mi ddwy arglwyddiaeth
 Heb un gŵys dan neb yn gaeth:
 56 Dau dyddyn hen Fleddyn flaidd,
 Deudri oedd raid eu dadwraidd.
 Os a genais egina
 Ni chanwyd hyn o chwant da:
 Chwant canu moliant i'm iaith,
 60 Chwant hau moliant ym eilwaith;
 Erchi rhodd gormodd yn gall,
 Rhoi dwyrodd yn rhaid arall.
 Arch o gŵn neu feirch a gaf
 64 Ond yr ychen yn drechaf.

Ffynonellau

A—Pen 67, 212–16 B—Pen 99, 461–3 C—Pen 101, 338–40 D—CM 12, 283–5 E—BL Add 31070, 54^v–57^r

Ffynonellau eraill

F—LIGC 670D, 21–1 G—Bangor 7268, 21–3

Amrywiadau

3 B–E ..llwyddaw 4 A ..ai r is.. 6 A–E er roi vryd.., A ..ar hav vrodir 7 BC ni a lafuriwn.. 9 DE ..am driar 13 C ..caredigion 14 E ..a dry talar.. 17 A ..rys.. 19 A–E ddoe..ddol.. 23 DE del on.. 26 E Dafydd yw.. 31 B–D ..dafydd.., CD ..eissillydd.. 32 B–D ..Rydderch 35 B–E ruban.. 36 A–C ..wenionnydd 42 CE ..ir cor 43 E ..y cyd ymderchant 46 B–E tidau.. 47 B–

D ..vchel 52 *C* ar yn adar.. 52 *B–E* ..aredig 53 *ADE* mae mi.. 56 *CD* ..raid
iw dadwraidd, *E* ..rhaid.. 57 *DE* os y genais.., *BC* ..a egina 63 *A–E* ..oi
gwn.., *B–D* ..ne i feirch.., *E* ..neu i feirch..

*Diolch i Domas ap Siancyn ap Madog am ŵn a dychan i Hywel Dafï
gan Huw Cae Llwyd*

- 4 Tomas, grair, twymwaisg ei rodd,
Trwy sidan *a*'m trwsiadodd,
Impyn Siancyn es encyd,
Amhadog, i'm hudo i gyd,
Ef a rôl yn frau i'w was
Wisg o'r damasg, ŵyr Domas.
8 Dawnus ytyw dan satan
I drwsio'r tlawd, Risiart lân.
Rhoi aur ddail, rhyw urddolion,
Rhoi ei phwys nes byrhau ffon.
- 12 Mae'n fawr gennyf fy llawrodd;
Mae un *trist* rhag maint y rhodd.
Edifar gan Huw Dafï
Arbed man o'r byd i mi.
16 Hap neu ddawn *i mi* pan ddêl—
Y maen haearn mewn Hywel.
Gweled y bu 'mysg lluoedd
Gŵn da ym—gwayw yndo oedd.
20 Ni chawn bais un o'r gweison
Na bai'n frath dan ben ei fron.
Beth a fwrw ym byth o frad?
Banw o Loegr, baw 'n ei lygad!
- 24 Yn deg y dywaid chwegair
I geisio'*i* goelio, pob gair.
Diosg cap, dewis cipiwr,
Dwyn y gŵn *i amdan* y gŵr.
28 Y mae'n llwtwn mewn llety
Am erchi *torch* merch y tŷ.
Ni ad Huw roi wy mewn tân
Na bo yntau wrth bentan.
32 Os rhanc bodd, *o* cais rhoddion,
Ni bu yn sen neb un sôn.
Os *dall*, pan fai'n castelli,
Am y ddwbled felfed fu,

- 36 Gwell, myn fy nghred, ddwbled dda,
Groen hydd no gŵr yn heidda.
Nid ydyw yn wastadaidd
Dwyn felfed *du* dan flawd haidd.
Cyrched i'r Mars a'r garsiwn;
40 Can lle y bu'n cynnull hwn.
Y Tŵr oedd, eto yr â,
Y lytwn, i ailyta.
- 44 B'wedd *byn*nag y *myn*nagwn
Y bo'r rhodd *i*'r mab oer hwn,
Boed, arglwydd, lawer blwyddyn
I bôr hael a barodd hyn.

Ffynhonnell

Stowe 959 [= RWM 48], 209^v–210^r

Darlleniadau'r llawysgrif

1 ..twymwaissg irroedd 2 ..ym trwssiadodd 5 ..y was 7 daw nys.. 8 y
drwissior tlawd.. 12 mae vn yn drist.. 15 ..ddawn yn pynn ddel 16 y mann
hayarn.. 20 ..y vronn 24 y gaissio goelio.. 26 ..gwn om dan.. 28 ..twrch..
29 niaid tyw Roi wi.. 31 ..y kais Roddyon 33 os dyll.. 35 ..myn vngred..
37 ny dyw diw yn.. 38 ddwyn velved ty.. 39 ..garsswn 42 y lettwn.. 43
bwedd gynneg y manegwnn 44 ..ar mab.. 46 ..u baroedd..

Moliant Tomas ap Siancyn ap Madog ac ateb i Huw Cae Llwyd

Y carw ieuanc o'i reol
 A ry nerth i wŷr 'n ei ôl,
 Tomas gyweithias goethair
 4 Yn torri ffyn ynn trwy ffair,
 Epil arglwydd yn llwyddiaw,
 Aur y Slwch a roes o'i law;
 Wŷr Domas, darian fras fraith,
 8 O'r marchogion mawr chwegwaith;
 Egin Madawg yn mudaw
 Â'r gwin drud o'r Gïen draw.
 O'r rhyw y mae wŷr Hywel
 12 Eidionnau mawr a dynn mêl.
 Troi bar at bob tŵr y bydd,
 Torri'i garets trwy geirydd.
 Trwy ddig mae'n ffyrnig â ffon,
 16 Trwy deg yntau ry digon.

Mae dillad marchnad am wŷr;
 Mewn y dillad mae'n dwyllwr.
 Er nad eirch arian na'i dir
 20 Ef a ddeisyf y ddwysir.
 Oni welir dyhiryn
 Nes cael y da—nis clyw dyn.
 Yn Nhredwrstan bu'n dannod
 24 Yn nhir Mars yn hwyr 'y mod.
 Y mab hael ymapelodd
 I geisio rhwystro fy rhodd.
 Wrth ôl, yn fy mabolaeth,
 28 'Y nhroed i'r Argoed yr aeth.
 Os gŵn a roes gyn yr wyl
 E roes dau er ys dwywyl.
 Hug pan brynid o sidan
 32 Huw Cae Llwyd âi â'r hug i'r llan.
 Nid eisiau gynau pan gad
 Eithr y dall aeth â'r dillad.
 Troi'i dudedd nid rhaid iddaw
 36 Yr wyl na'r ddwywyl a ddaw.

Yr hoel êl yn eu gwehelyth,
Yn ffest o fewn y ffust fyth.

- 40 Efô wyl feiau Iolo;
Ni wyl ef fai a wnêl fo.
Ei gerdd a fyn fal gardd fêl;
Ei gasáu a gais Hywel.
44 Rhoi iddo pan ddelo i ddir
Ei ewylllys ni ellir.
Pall iddo, pell oeddwn,
Pa well i hael pallu hwn?
Nid arbed dwbled na dau
48 Er y gwn a roed gynnu,
A chrys a circh ef i'r wraig;
Nes myned hwn nis mynaig.
- 52 O phryn dwbled lled no'r llall
Ystoriad rhag gwest arall.
Gwisged glog wrth farchogaeth
Onis gwyl hwn un wisg waeth.
56 Waethwaeth fydd ein hynt weithion
O daw i'r swydd wedy'r sôn.
Swllt fydd ar gywydd i'r gwr
A deusllt i'r lardeiswr.

Ffynhonnell

Stowe 959 [= RWM 48], 210^v–211^r

Darlleniadau'r llawysgrif

1 ..Reol 2 yry nerth.. 4 ..ffynn yn.. 6 ayr y sslwych y roes.. 10 ..geien.. 11
o Ryw.. 12 ..u dynn.. 14 torri gareds hen gayrydd 16 ..Ry.. 20 ef
eddaissif.. 24 yn hir mars.. 25 ..ymapeloedd 26 y gaisso Rwestro.. 29 ..a
Roes kynn.. 30 e Roes.. 35 troi dydded.. 36 ..y ddaw 38 ..evyst vydd 40
..e vai u wnel u vo 41 y gerdd u vynn.. 43 ..pann delo y dir 45 pally yddo..
48 ..u Roed.. 49 ..u yrch ef.. 52 ystored.. 54 ..hwn wisc.. 55 ..waithan 56
..wedr sson

Moliant Tomas ap Siancyn ap Madog

- Ple'r af y gwyliau at y gwalch gwinau
 Lle caf aur a gynau a gwin er a ganwyf?
 Tomas fab Siancyn, mal Caw o Brydyn,
 4 Ef yw etewyn Cymry o'u tywys;
 Eyr o Fadog, piler o Gradog,
 Maen blif i'r marchog megis mab Meirchion,
 Ac wŷr i Domas, gwawr y Tyle-glas,
 8 A braich y Dinas, hil Brychan danawl.

Ffynhonnell
 Pen 67, 95–6

Darlleniadau'r llawysgrif
 7 ..tvlav..

Moliant Ffyllib Fychan ap Tomas Fychan ap Ffyllib Fychan

- Perthyn arnad ein porthi;
 Porth Duw i'r lle'm porthwyd i.
 Ffynnodd dy ben-tŷ gennyd,
 4 Ffyllib, radd Raffael o'i bryd,
 Llew o wŷth gryd â llath gron,
 Llin Tomas, llafnau twymon.
 Wŷr Ffyllib, oroff eiliad,
 8 Yw'r un gŵr gorau 'n y gad.
 I Watgyn Llwyd ydd wyd wŷr,
 Ieuan ben arian orwyr,
 Y gŵr yn rhaid y goron,
 12 Dewr, aeth drwy'r frenhiniaeth hon.
 Llin Siancyn, Gynfelyn farn,
 Water ydwyd, wayw tridarn.
 Pwysud ar gad, wastad wart,
 16 Mal y pwysodd mil Pisiart.
 Llew 'n y ddadl, llonydd ydwyd,
 Ac yn y sias fal gwns wyd,
 Colfyn tylwyth Bleddyn blaid,
 20 Cawrda' llwyth y Rhicardiaid.
- Llawer man y'th foliannwyd;
 Llafn aur yng nglan Llynfi wyd,
 Tegan o Gellan-y-gog,
 24 Talgarth, Deheubarth hebog.
 Dwyfil y sydd yn d'ofwy
 O Lan-goed i ddwylan Gwy.
- Y doniau wrth lyfr Daniel
 28 A ran Duw i'r un y dêl.
 Ni thariodd na'th rodd na'th ran,
 Ni theriaist neb o'th arian.
 Dy arian aeth i'm dwrn i,
 32 Dy win Gasgwin, fâl gwisgi.
 D'ynau pan fôn' amdanaf,
 Tebyg fy rhyfyg i'r haf.

- 36 Pedwar arwydd o'r flwyddyn
 A fydd mewn defnydd pob dyn:
 Cynhaeaf, gaeaf i gyd,
 Gwanwyn, haf, gwynion, hefyd.
 40 Meddant hwy, mae'r rhan fwyaf
 Mewn dy ddefnydd hirddydd haf.
 Gwisgaist i'th wlad brofadwy
 Wisg y gog rhwng Wysg a Gwy.
 Ni'th gaid, y byd ni'th gadwai,
 44 O wŷdd mân hyd ddiwedd Mai.
 Aeth yt gariad i'th adail
 Hyd ydd aeth hedau o ddail.
 48 Odid a wŷr, nid wyd waeth,
 Yn y tir un naturiaeth.
 Oen ar dafarn y'th farnwyd,
 Angel o ddyn yng ngwledd wyd.
 Yn y drin dy enw a dry,
 52 Gŵr llidiog arall wedy.
 Un fetel y'th ddyfelir
 Â draig o dân drwy goed ir.
 Un ddolef yn ymddilin
 56 Ag yw'r gwŷdd a ddygai'r gwin.
 Un waith wyd â'r gwenithyn.
 Bydd un frig â'r caprig gwyn!

Ffynonellau

A—Pen 100, 38–41 B—Llst 133, rhif 13 C—LIGC 2023B [= Pant 56], 284–8 D—BL Add 14991, 271^r E—Pen 60, 4–5 F—Pen 60, 21

Amrywiadau

3 *D* hynnodd., *A–D* ..dy ben tu.. 4 *CD* ..rodd.. 5 *A–D* ..wyth gradd.. 7 *A–D* ..aur hoff eiliad 8 *B* ..y gradd 9 *F* ..yr wyd.. 10 *D* ..bon arian.. 14 *A–D* ..ydwyt.. 15 *A–D* pwysed., *CD* ..or gad.. 17 *E* ..dadal.. 19 *A–D* collwyn., *F* []olfyn.. 22 *A–D* ..llyfni.. 23 *E* tec anoc ellan.. 24 *D* Talgaith.. 25 *CD* dwfil.. 27 *EF* donyey.. 29 *CD* ni thraiodd., *F* nyth arydd.. 32 *AB* ..fel.. 35 *A–D* ..y flwyddyn 38 *E* ganwyn.. 39 *A–D* ..hwy y rhan.. 40 *A–D* yn dy ddefnydd.. 43 *A–D* ni th gad.. 44 *E* oydd man.. 45 *F* []yth yt garyad.. 46 *D* ..hedan.. 47 *E* ..owyr.. 48 *A–D* ..dy naturiaeth 49 *A–D* oen i r dafarn., *E* onyn ar dafarn., *F* []n ar dafarn.. 51 *F* []ny drin., *E* ..y dry 57 *E* ..wyt ar genithyn 58 *E* ac vn fric

Moliant Tomas Gwnter a Mawd ei wraig

- Triphlas oedd i Domas deg
 Oni chawn un ychwaneg.
 Ffylib rhag i neb ffaelu
 4 Â'r aelwyd fawr i'r wlad fu.
 Aeth rheolaeth ar Wiliam
 Reoli'r gŵr êl ar gam.
 8 Taer yw'r Gwnter pedwerydd,
 Tomas, tros Euas y sydd,
 Iawn etifedd Gwent hefyd
 Ac yntau, gâr Gwent i gyd.
 12 Gwilymiaid, macwyaid call,
 A Gwnteriaid Gwent arall.
- Ucha' gradd o achau grym
 Yw hyd Galais waed Gwilym.
 16 Efo ddeily hwn feddwl hir;
 Am a ddeily y meddylir.
 Cyfaddef, cof a wyddiad,
 Cyfraith ddilediaith ei wlad.
 20 Rhiniau, defodau Rheinallt,
 Ef â y rhain dros fôr hallt.
 Nid â'r deuddeg o'i wregys,
 Nid â'r farn ond ar ei fys.
 24 Euog yn ofnog a wna
 A chywir a iachaa.
- Trywyr o'r cyffion trahen
 O dri gwaed a ladd draig wen.
 28 Coffrau'r rhain fu'n cyffro rhodd;
 Cwpl ieuanc a'i cwplaodd.
 Gwaed Wiliam a gydelwir,
 Gwaed Ieuan hael, gadwyn hir;
 32 Gwaed Tomas a gyd-dwymian'
 A'r plas o'r Tyle-glas glân.
 Ni wÿs, unsaig yn siawnsil,
 Eisiau 'n ei fyrddau o fil.

- 36 Gwyl wên pawb a'm gwyl yno;
Gwyl fyth fydd tra gwelwyf fo.
Moethus wyf lle bûm weithiau;
Mawd a wnaeth f'amawd yn iau.
40 Bara gwyn fal bro Gwynedd,
Bragawd o law Mawd a'i medd.
Er f'anfoes am a roesant
Er clod o'r tafod i'r tant,
44 Ddeugain haf ni ddigiwn hon:
Haws yw digio cystogion.

- Mynych y gwneuthum unoed
Â'r gŵr a'r mab gorau ermoed.
48 Amod aeth rhof a'i iemyn;
Nis torro Duw nis tyr dyn.
Edolwyn fu ym nad elwyf
O'r un plas gorau 'n y plwyf.
52 Nid anodd gwahodd dyn gwan
Ni thwyllir o'i nyth allan.
Yr wyf yma ar f'amod
Yn fy myw o myn fy mod.
Ni faddau finnau o'i fodd,
56 Ni faddeuaf a addawodd.

Ffynonellau

A—Pen 67, 176–80 B—Pen 99, 439–41 C—Pen 101, 316–18 D—CM 12, 464–6

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 75–6 F—Bangor 7268, 80–1

Amrywiadau

3 B ..ffaela 5 D ..reolaeth.. 7 A ..pedwarydd 9 A ..gwent 11 BC
Gwilymmaid.., D ..macwyiaid.. 13 D ucha grudd.. 15 A efa ddeila.., B–D
ef a ddeil.. 16 A ..ddeila.., B–D am a ddeil.. 17 D ..caf.. 18 C ..dilediaith..
21 C ..a deudeg.. 23 D [23–4] 27 A–C koffrav rrain.., D coffrau rhai.., B–D
..cyffroi r rhodd 28 D ..ieuaic.. 31 B–D ..gydtwyman 32 A ..tvlev.., B–D
..tylav.. 33 A ..siawnsvil, B–D ..siawnswil 37 B–D mwythvs.. 38 D ..f
amod.. 42 D ..ar tant 45 D ..y gnwnaethum.. 47 A–D ..ai emynn 48 B–D
nas.. 49 D ..fu nad.. 56 D ni faddeuaf addawodd, A ..a ddawodd

Marwnad Owain ab Ifor ap Rhys

- Hudol, angiriol gerrynt,
 Henfyd, anhyfryd yw'n hynt.
 Un, er cryfed fo'n dwedyd,
 4 Y gneuen fach a'i gwna'n fud.
 Tra fu ddau mewn trefydd ynn
 Ni bu Ifor heb ofyn.
 8 Mawr yw'n rhaib am wyrion Rhys;
 Marw yr un mawr wae'r ynys.
 Dwyn y naill o'n dynion ni
 Yw dadwreiddio'r do drwyddi.
- 12 Drwg o sias rhwng dreigiau sydd
 O trig Owain tragwydd.
 Ni bu faes y bai'i aesawr
 Heb olau'i feirch a'i balf fawr.
 16 Ni bu ei dad heb wayw dur,
 Ni bu yntau heb antur.
 Er ei fod yn od i'n iaith
 I roi 'nghefn yr anghyfiaith,
 Ni ddôi hwn i ddihenydd
 20 Onid i Dduw nodi'i ddydd.
- Ni bu mab â bwa main
 Yn ei law yn ôl Owain.
 24 Ni cheisiaf farch, achos fydd,
 Na'r ci ieuanc er cywydd.
 Owain a'i frawd a rô'n frau;
 Am a roesont mae'r eisiau.
 28 Mi a lef am hil Ifor;
 Mae 'n Llan-ystyffan fy stôr.
 Dyrnod a roed i'r dynas
 Dorri cledd daear y Clas.
 32 Anhyfryd o Fochryd fu
 I Gelyddon ei gladdu.
 O Dref-wern, ail Droea fawr,
 Ef â wylo hyd Faelawr.

36 Dŵr yw'r byd hyd ar Dre'r-badd;
Dŵr Noe sy'n duo'r neuadd.

Pwyllwn, gweddiwn Ddewi
A Duw o nef lle down ni.
40 Nid oes yn yr oes yr aeth
O'r anturwyr ond hiraeth.
Ef a wna Duw ofni dydd
Y gwelom, bawb, ei gilydd.
Owain yno â'n unawr
44 O farw yn fyw i'r Farn fawr.
Os Duw a gais sawdio gwŷr
Aed Iesu â'n dewiswyr.
Nid âi Styffan heb gannwr;
48 Ni a wnawn gant o'n un gwŷr.

Ni chad o'i wlad fflwr de lis
Ond o Owain, un dewis.
Ni chawn fweled i'n gwledydd
52 Ond Duw a'i Fab yntau fydd.
Duw ym a roes dau yma,
Digon i ddynion o dda;
Hywel a'i fab hael efô,
56 Hael iawn oedd, hwyl wen iddo.

Ffynonellau

A—Pen 67, 29–32 B—Pen 99, 388–9 C—Pen 101, 266–8 D—CM 12, 216–18

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 3–4 F—Bangor 7268, 1–2

Amrywiadau

1 *D* ..an guriol.. 13 *A* ..i bai aessawr, *B–D* ..y bai faesawr 14 *A* heb olav vairch.. 17 *B–D* ..yn nod.., *A* ..yn iaith 20 *D* ond i Dduw.., *A* ..nodi ddydd 23 *A* ni cheissia varch.. 26 *B–D* ..roesant.. 29 *D* ..dernas 34 *B–D* ef a wyla.. 35 *D* ..hyd at.. 37 *C* pwellwn.. 42 *C* y gwelwn.., *A* ..yw gilydd 43 *B–D* ..ai n.. 47 *AD* ..ganwr 53 *D* ..y roes.. 55 *D* ..ei fab.., *A* ..hael e vo

Moliant Gwilym ap Rhys a Syr Siôn ei frawd

Y ddau frodyr ddifredych
 A bery eu clod fal brig clych,
 Un 'n y nef a'i enw yn wâr
 4 A'r llall yn deall daear.
 Syr Siôn mewn gwisg canonwr,
 Sant ar ogoniant yw'r gŵr.
 Gorau yw'r ail gŵr ei rodd,
 8 Gwilym yw'n galw ym wahodd.
 Ni wn fonedd yn f'ynys
 Na bo'n rhan i feibion Rhys.
 Meibion, feirch gwelwon, Gwilym,
 12 Wyrion a roed o'r un rym.
 Trwm yw ergyd rhyw Morgant;
 Trywyr hyd hyn fu'n troi'r tant.
 O Elystan yr hanoedd,
 16 Afal aur o Elfael oedd.

Yr wyf yma ar f'amod;
 Mae hen genfigen fy mod.
 O'r llin ir i'r llwyn arall
 20 Agos yw'r llios i'r llall,
 O blas golau i'i gilydd,
 O frodir i heldir hydd,
 O feddyglyn gwyn ganawr,
 24 O gwrw i fedd, gyrfa fawr,
 O'r cig, bendefig dwyfol,
 O'r can i'r arian ar ôl.
 Da yw'r bara a burwyd
 28 A'r saig fawr wresog o fwyd.
 Yfais lyn, dywyn diwall,
 O'r tair llong o'r tŷ i'r llall.
 Mi a' i'r plas mwya' o'r plwyf;
 32 Ni ad Wiliam nad elwyf.
 Ni bydd hir un filltir fach
 Ag a fydd o gyfeddach.

- 36 Parcau Siôn a'i hwsmonaeth,
 Pumparc yn unparc a wnaeth.
 O gwewyd tai o goed *hir*
 Â choed ablach y dyblir.
 Os y llygion aflonydd
- 40 A gynnal dig ganol dydd,
 Cystal yw â'r cwystil hir
 Â Gei Warwig o gyrrir.
 Mewn gwrolaeth mae'n greulawn
- 44 Eithr o ddysg athrawaidd iawn.
 Ni wŷr ddeuaire ar ddiod;
 Fo wŷr y rhif ar y rhod.
- 48 *Bond da oedd bwyntio uddun',*
 Bydol a nefol, yn un?
 Y gŵr bydol heb doliaw,
 Y gŵr o lēn ger ei law.
 Da nerth ei aberth i wŷr;
- 52 Duw'n borth i dai'n aberthwr.
 Bwyd a roes er ban droes draw;
 Bid ei rodd gan Bedr iddaw.
 Siôn a dâl dros win i'w dŷ,
- 56 Nid âi Wiliam heb dalu.
 Duw a rodded aur *uddun'*,
 Dau lu nef a'u dalio'n un.

Ffynonellau

A—Pen 100, 51–3 B—Llŷst 133, rhif 18 C—LIGC 2023B [= Pant 56], 302–6

Amrywiadau

5 C ..yngwisc.. 8 C ..galw am.. 11 B ..gwelwn.. 19 C or llin ir llwyn.. 21 A–C ..golas i gilydd 22 B ..heldir hir 37 A–C ..o goed tir 42 A ..cei.. 47 A–C pond da oedd pwyntio iddyn 57 A–C ..iddvn 58 A–C dau lyn..

Moliant Rhoser Fychan ap Syr Rhoser Fychan

- Maestr Roser a bryderwyd,
 Maen dros iaen man dyrys wyd.
 Arfer Syr Roser rasol,
 4 Arfau'r hen deidiau rho 'n d'ôl.
 Lle nid âi un o'th unoed
 Gantun' yr aech gynt no'r oed.
 Neidr fawr a wnâi d'arferoedd,
 8 Ym mrig Moreiddig yr oedd.
- D'air a glywir heb hiroed
 O chlywir cyrn uwchlaw'r coed.
 Dy rym od air i ymwan
 12 Derwen yw 'mysg y drain mân.
 Mwya' curas, ym Caron,
 Sy o'th fraich aswy i'th fron.
 Mwya' dwylo'n ffrwyno Ffranc,
 16 Mwya' baeard mab ieuanc.
- Ban fu dramgwydd f'arglwyddi
 A'm rhoi i lawr o'm rhôl i,
 Am urddau saint mawr oedd sôn,
 20 Am Roser mwy fu 'mryson.
- Y mab hynaf i'm pennaeth,
 Uchaf er Addaf yr aeth.
 Tri o un waed yn troi'n wŷr,
 24 Ti yw'r ieuaf o'r trywyr.
 Ôl y ddau ganol a gaf
 Ar henol fy meistr hynaf.
- Y fath lanaf y'th luniwyd,
 28 Y garwaf oll ag arf wyd.
 O bu i'r wlad neb ar ledwg
 Ef â 'n dy ras rhag ofn drwg.
 Mawr yw d'ofn, fy mur dwyfol;
 32 Mwy no Glyndyfrdwy yw d'ôl.

- 36 Nid er d'oed y nodir dyn
 Ond o'th ryw gyn d'athrywyn.
 Colfyn ieuanc, glaif newydd,
 Cadarn yw d'isarn mewn dydd.
 Myn yr haul, nid wyd greulawn
 Er taro Sais trahaus iawn.
 Eich tad ni bu er Cadell
 40 O feirch a gwŷr farchog well.
 Mwyfwy weithion ohonun':
 Mae naw ohonaw ei hun.
 Y blodau 'mherllannau'r llyn
 44 A gyrhaeddais eu gwreiddyn.
 Nid haws torri'r llwyn gwiaill
 No thorri'r deri a'r dail.
 Hwde'r ardd, had yr urddol,
 48 Hwdau wŷr Deau ar d'ôl.
 Hyder Olifer neu Les,
 Hwdau finnau 'n dy fynwes.
 Dos yn swydd yr Arglwydd Rys;
 52 Dy genedl yw'r deg ynys.
 Od ai'n ganmlwydd heb swyddau
 Na ddos o un nos yn iau.

Ffynonellau

A—Pen 67, 268–72 B—Pen 99, 490–2 C—Pen 101, 364–6 D—CM 12, 308–10

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 36–7 F—Bangor 7268, 39–40

Amrywiadau

1 B–D mastr., D ..Rosier.. 3 D ..Rosier.. 4 A arver.. 6 A–D gantyn., B–D ..yr ai n.. 9 A ..glwir.. 10 BC ..vch law.. 18 D ..y lawr.. 20 D ..Rosier., B–D ..mwy yw mryson 29 A–D o bvr wlad.. 42 A ..e hvn 48 A hwtev., D ..yn d ol 49 A ..elifer.. 50 A hwte..

Moliant Syr Rhoser Fychan ap Syr Rhoser Fychan

Y gŵr rhwydd a gâr heddwch
 Ac yn y drin y gwnai drwch,
 Syr wyt ti, ni sorrut wan,
 4 Roser, betruster Trystan.
 Uchaf gŵr achau ei gig
 Fu er Addaf Foreiddig.
 Os hir dwyfainc Syr Dafydd
 8 Hwyr yw dy gwrd o hyd gwŷdd.

Astudio bŵm d'ystod bell
 A deallu'r aud wellwell;
 Darllain brudiau'r deheudir,
 12 Dwedyd i'r Gwyndyd air gwir.
 Nid o wg na diogi
 Y'th yrrodd Duw i'th radd di.
 Nid o gysgu y bu ben
 16 Eithr canwaith gwneuthur cynnen.

Troi a wnaut ti trwy naw ton,
 Rita Gawr, at y goron.
 Tir Edwart fu'r tair adwy;
 20 Tri hyd y môr nid rhaid mwy.
 Dy gledd fu ddiwedd ddwywaith
 Anwiredd fawr y Nordd faith.
 Gwayw 'Ngwynedd rhag ynganu
 24 A tharian fawr i'th ddwrn fu.
 Ofni mil o hafnau môr
 Ar ddau lechwedd ddilachor.
 Didrahaus y doud er hyn
 28 Er rhoi'r dolur ar d'elyn.
 Rhag traha neu reg truan,
 Rhag i'th wŷr roi gwth i wan,
 Rhag dwyn un gwenwyn mewn gwin,
 32 Rhag adwyth ar ryw Godwin,
 Da i Wynedd fu d'eni
 A deau hwnt gyda hi.

- 36 Boni wŷs drwy Bowys bant
Beth fydd? Maen' bawb i'th feddiant.
- 40 Glaif dur y gwelaf dy wg
Ac aur da yw'r gair dŵwg.
Efo dyr llif y deri;
Ni thyr dyn ddim o'th air di.
Ni rannwyd dŵr o'r naw ton
A gadwyno gwaed Einion.
44 Cadeiriwyd gwaed Cadrod gynt,
Coed o'r neidr cedyrn ydynt.
Y trydydd wyd, troed i ddyn,
O'r tri broder trwy Brydyn.
48 Mae'r tir i'r iarll hir gerllaw,
Y mae'r don a'r môr danaw.
Bid dynion y byd danoch
A bid eu rhent drwy'r byd rhoch.
52 Bid wyth wlad a'u bwyd i'th wledd,
Bid Dduw lle bo dy ddiwedd.

Ffynonellau

A—Pen 67, 193–7 B—Pen 99, 450–2 C—Pen 101, 327–9 D—CM 12, 273–4

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 13–14 F—Bangor 7268, 13–14

Amrywiadau

2 B–D ..gwna.. 4 D Rosier.. 5 B–D vcha.. 9 BC ..y bum.. 11 BC ..brudiau deheudir 12 A ..gwyndud.. 19 A ..edwaert.. 21 A ..vv ddiw ddwywaith 23 A ..rac.. 26 D o ddau.., C ..ddilachar 27 A ..doed.. 28 A yr roi r dolur.., BD i roi.., C o roi.. 29 A rac tra.. 30 A rac.. 31 A rac.. 32 A rac.. 33 D da y.., B–D ..Wynedd dy eni 35 A bonywys.., B–D o boniwys.. 39 B–D ef a dyrr.. 46 A–D ar tri.. 48 C ..mor daw 50 A–D ..y rent.. 52 B ..diwed

Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan

- Mae perllan ym Morgannwg,
 Mil o wŷdd aur aml a ddwg,
 Pêr bren a wna himp o'r brig
 4 A'i wreiddyn o Foreiddig.
 Piau'r llwynau perllanwydd?
 Perllan Roser Fychan fydd.
 Cadw fal parc, coed afal pêr,
 8 Iesu, ryswydd Syr Roser.
- Mae o wely y milwr
 Wyth neu naw; aeth un yn wŷr:
 Yr etifedd yw'r tyfiad
 12 O flodau aur fal ei dad.
 Teimlwr aur tew, aml ei ras
 Yw tymyr y Maestr Tomas.
 Profer, nid himp ar efydd,
 16 Peren o fab—barwn fydd.
 Ei brofi 'dd wyf yn brif ddyd
 A'i gnoi, wellwell gnewyllyn.
 Tyfodd y draen, a'i flaen, flaidd,
 20 Arno, nid annheyrnaidd.
 Tros deuparth Talgarth y tyf,
 Tros eilwaith Cantre Selyf.
 Da gweddai, hyd y gwyddiwn,
 24 Tir Ralff a Thre'rtŵr i hwn.
 Ef aeth gwlad Forgan danaw
 A'i frig aur dros fro Gŵyr draw.
 Pendefig, pwy un dyfiad
 28 Eithr dau ewythr a'i dad?
 Llew a'i onnen yn llannerch,
 Angel mwyn yng ngwely merch.
 Mal y siop yn ymyl Sieb
 32 I rianedd yw'r wyneb.
 Metel o Walchmai ytyw,
 Modd Galâth, medd a'i gwŷl, yw.
 Er yn nawmlwydd y gwyddiwn
 36 Mae Cai Hir yw'r macwy hwn.

- Darogenais drwy gynnydd
 Dragwn o fab; drogan fydd.
 Weithian darogan, dewr wyf,
 Syr at Tomas yr ytwyf.
- 40
- Pêr blasus, parabl isel,
 Y mae'n ddoeth o'r min a ddêl.
 Diwynnog yw dadannudd;
 Dawn a gras Duw yn y grudd.
 Syr Roser y sy rasol,
 Syr Tomas o'i ras ar ei ôl.
 Ceidw Duw'n gwalch, *deincodyn* gwyn,
 Costart iefanc o Iestyn;
 Blodeuyn o Gynfyn goed,
 Barwn hengyff brenhingoed.
 Tyfodd o goed Dafydd Gam
 Teyrnaidd; rhad Duw arnam!
 Da wraidd a dyfodd drwyddun',
 Y coed a wnaeth ein cadw'n un.
 Cynyddu Cymru y'i caid;
 Cair fforest o'r cyff euraid.
- 44
- 48
- 52
- 56

Ffynonellau

A—Brog I,2, 410^r–411^r B—LIGC 3056D [= Mos 160], 359–60 C—Llst
 118, 185–6 D—J 101 [= RWM 17], 543–4 E—LIGC 5273D, 46^v–47^r F—
 LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwlech 1], 280–1 G—LIGC 16129D, 158–
 9

Amrywiadau

1 C [1–2] 2 F ..wydd aml., E ..mel a ddwg, G ..a dwg 3 E per bren a himp..
 5 D pibav., F ..perllannoedd 6 BF ..Rossier., E ..Roger.. 7 BFG ..afl.. 8 F
 y sy rwyswydd., G ..rysswyd., EF ..Rossier 10 G ..aeth yn vn wr 11 G y
 etivedd., AD ..yw tyfiad 13 E ..oi ras 14 A–G ..tymyr maestr.. 16 A–DG ..a
 fydd 20 E arnat., G ..anheurnaidd 21 G [21–2], BCEF dros., E
 ..ddeuparth Targarth.. 22 B–F dros., E ..Cantref., F ..gantre.. 23 F da i
 gweddau., A–F ..gwyddwn, G ..yt i gweddiwn 24 ACDFG tir halff., B tir
 halff.. 26 ACD ..gwyhyr.. 28 F uthr., AD ..ewyrth.. 29 E ..ai cynnen.. 31
 A–EG ..i siop.. 33 G ..ydiw 34 G [34] 35 D er y naw mlwydd., A–F
 ..gwyddwn, G ..i gwyddlon 36 CE mai.. 38 E dragwn fab., ABDEG
 ..darogan.. 39 G ..dewr nyf 43 G [43–4], A–E dywnnig, F dydwynig., E
 ..dadannadd, F ..dydennydd 44 BC ..daw n., E ..gradd 45 E ..Roesser., F
 ..Rosier.. 47 B ..duw gwalch., E ..gwalch cyd od yn, A–DF ..eidodyn., G
 ..kidodyn.. 48 C [48] 50 F ..hengyf., G ..hengyrff.. 52 AD teyrnaidd., E
 ..rat duw arnan 53 C ..a dyfodd, ABD–F ..drwyddyn 54 AD ..in cadw.,

BCE–G ..yn kadw.. 55 *G* ..kymry.., *A–G* ..i kaid 56 *F* cau r fforest.., *G* i kair.., *F* ..cyrff..

Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan

Y ceiliog gloyw o'r gogledd
 A neidr fain dan odre'i fedd,
 Maestr Tomas, guras y gad,
 4 Mae'r dynion hyd Hymr danad.
 Ach Foreiddig dda ddigon
 A'r wyth brenhinllwyth yn hon.
 Awyr wyd o dir Ieuan,
 8 Môr o waed Ifor neu dân.
 D'air chwimwth wrth d'orchymyn
 A drôl y North draw yn un.
 A dro'r bêr dan odre'r barth,
 12 Ni hybir mwy 'Neheubarth.

Ymdynnu bu Gymru i gyd;
 Ni bu 'mdynnu ond ennyd.
 Dyrnod gwas, addas uddynt,
 16 Hir ei gas fu'r herwa gynt.
 Os hen gynfigen, gwan fu,
 Y mae weithian yn methu.
 Dwywent a lŷn dan dy law,
 20 Dy was—mae'r Dinas danaw.
 Caerdyf, agor ei dorau,
 Cyntaf cynhaeaf, cyn hau.
 Ystyra 'Mhowys d'orwydd,
 24 Edrych ble deisyfych swydd.
 Nid ai i Loegr drwy goegryd
 Ond trwy Gaer â'n tir i gyd.
 Mae darogan ynn ganmlwydd
 28 Yr ai'n sant wrth arwain swydd.

Gwastad yw pumwlad, heb hon,
 Eb ddinistr neb o ddynion.
 Rhaid i gryf barhau dy gred
 32 Rhag eillio'r rhai a gollod.
 Mae'n dy ddewis, da fis fu,
 Ai ein gwrthod ai'n gwerthu.

- 36 Pe bai golli pob gwylliad
Pa wŷr a ludd cwympo'r wlad?
Ni wn i wlad yn ddien
Nid da i'r byd dorri ei ben.
O phery lladd a ffo'r llaill,
40 Er bod arf, arbed eraill.
O chefaist oruchafiaeth,
Er sôn rhai gweigion, nid gwaeth,
Ni'th wŷl, capten i'r brenin,
44 Nad êl i lawr dâl ei lin.
Cymhwysach yw'ch comhisiwn
No geiriau ffeilst am gorff hwn.
O caewyd drws y coed draw
48 N'ad un tyllad i'n twyllaw.
Na chred dwng na chariad dyn
Aeth o hirbwyll i'th erbyn.
Cymer yn dyner danad
52 A chymer bryder rhag brad.
Troi 'ngham a wnaetham i'n iaith;
Tro'n iawn ein tir ynn unwaith.
Maddau'r cam lle bu'r tramwy
56 Ac yn ôl maedd a'i gwnêl mwy.

Ffynonellau

A—Pen 67, 197–200 B—Pen 99, 452–4 C—Pen 101, 329–31 D—CM 12, 274–6

Ffynonellau eraill

E—Gwyn 7, 102–4 F—LIGC 670D, 14–16 G—Bangor 7268, 14–16

Amrywiadau

2 *A* ..odrev vedd 3 *B–D* maestr.. 5 *A* ..voric.. 9 *A* ..dorthymvn 12 *A* ..nehevbath 13 *A* ..gymrv gyd 15 *B–D* ..iddynt 17 *C* ..genfigen.. 19 *A–D* dwywend.. 21 *A–D* ..y dorav 23 *C* ysturia.. 24 *BC* ..ble y deisyfych.. 27 *A–C* ..yn.. 30 *B–D* heb.. 32 *A* ..eillio r ai.. 38 *A* ..torri ben, *BC* ..torri.. 45 *A–C* ..kymhissiwn, *D* ..comisiwn 49 *A–D* ..twng.. 52 *C* ..chymmer rhag brad 53 *A* ..yn iaith, *BC* ..ein iaith, *D* ..an iaith 55 *A* ..lle bv n..

Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan

- Yr etifedd o Fleddyn
 A'i swydd uwch y sy o ddyn,
 Meistr Tomas, wynias onwydd,
 4 Meistr, o Sais, i'n mwstro sydd.
 Hen oedd gaterwen y Tŵr,
 Hŷn d'adail no hen Dewdwr;
 8 Hil Fleddyn, hil Iestyn lwyd,
 Hŷn Foreiddig hen freuddwyd.
 Ar farch uchel y'th welwn
 A'r gawad aur i gau d'ŵn.
 Breuddwyd Eli, bridd dulas,
 12 Ac Enog hen rhag un cas.
- Daly un ffon yn dy law'n ffest;
 Dy ddyrchaf nid oedd orchest.
 Darostwng drwy dir Iestyn
 16 Dreiswyr a herwyr er hyn.
 Ni bu'r eilmab wrth barlment
 Na bai was i'r mab o Went.
 Ni bu amod ywch fod fis;
 20 Bod wedy'ch amod chwemis.
- Sir Gaer ar sor y'i gyrrwyd;
 Sorri oedd iawn os rhydd wyd.
 Os gwŷr Bwystr y sy i'th rwystro
 24 Llundain fawr llawn o dân fo.
 Bilau bychain am d'ainioes;
 Bychan fydd i'w rhan a'u rhoes!
 Llawer gair a wnair y nos
 28 Ni ddaw ungair i'w ddangos.
 Dau aeth i'r llyfrau ar lled;
 Dan gesail y dangosed.
 D'egus anrhydeddus di,
 32 Dy lawned o haelioni.
 Cynnull arian a'u rhannu;
 Clod fawr am rai caled fu.

36 O bu yt dda, lle baut ddig,
Ni chadwyd eithr ychydig.

Er eu cost mawr a'u cystudd
Nid hwyrach rhoi yt dorch rudd.
Nid rhaid yt ond torri dart
40 Brynu nod Brenin Edwart.
Ar dy gledd nis rhyda glaw;
Ef â'r oddaith fawr iddaw.
Ni wÿs dyn yn oes d'wyneb
44 Yn ôl Sais fu 'n heol Sieb.
Â naid o'r fainc y neidr fu
Ar un piner yn pennu.
Ni bu 'n Llundain w'r breinol
48 Ond yr un dug heb droi 'n d'ôl.

Os ar Ddewi gweddiâis
Efo wna'r sant fwy no'r Sais.
Ni bu drist dy wyneb draw
52 Nad trist wynebaw trostaw.
Ni a chwarrddwn o'ch urddas;
Fe wyl ddeugeinwyl dy gas.

Ffynonellau

A—Pen 67, 200–4 B—Pen 99, 454–6 C—Pen 101, 331–3 D—CM 12, 276–8

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 16–17 F—Bangor 7268, 16–17

Amrywiadau

4 *A* ..yn mwstro.., *BC* ..in mwstrio.. 10 *A* ..gae.. 12 *A* ..rac.. 13 *A* dala.., *D*
dal.. 17 *C* ni bu eilmab.. 19 *B–D* ..iwch.. 21 *A–D* ..i gyrrwyd 23 *A–C* ..y
sy th rwystro, *D* ..y sy ch rwystro 24 *D* ..yn llawn dan fo 25 *A* bilhav.., *B–D*
biliau.. 26 *A* ..y rran ai roes, *B–D* ..eu rhan ai rhoes 27 *A* ..a neir.. 28 *AD*
..i ddangos 34 *C* ..roi.. 35 *B–D* ..bait.. 47 *B–D* ..breiniol 50 *B–D* ef a wna..
52 *A* no tristyon neb trostaw

*Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan
a dychan i Fedo Brwynllys*

4 Y dyn a'i had o Noe hen,
Ac o Iorwerth ac Urien,
Os tân sy i'r daroganwr
Y neidr yw'r tân o Dre'rtw'r.

8 Moes d'air twym, y Meistr Tomas,
Mogel sy i'th gwysel o'th gas.
Mae'n aros mwy no'i wryd
Yn dy bais, enaid y byd.
12 Cyd boed ofnog o'i ogof
A ddalio ci pan ddêl cof,
Nid ennil un dan y llall
Heb anturio bwynt arall.

16 Nid âi eli rhwng dwywlad
Ond y dydd a wnâi dy dad.
Eli wyd ti i'r wlad hon
Rhag gorwedd rhai cywirion.
Nid ai i un gaer heb dân gwns,
Nid â'r balf o'r dur bwliwms.
20 Nid aeth dysg ar dy waith di
Eithr edrych ar waith Rhodri.

24 Mi a gefais ymgyfarch,
Maint fu i'm henaint fy mharch.
Nid aen' o'th wlad un i'th wledd
Yn 'y mlaen es naw mlynedd.
Bedo, tra fu'n wybodol,
Brwynllys o'm hystlys âi i'm hôl.
28 Os dieithr fu es dwywyll
Y drydedd, rhyfedd fu'r hwyl,
I'r bwrdd uwchlaw'r beirdd a chlêr
Wedy ei osod o iser.
Ni byddai 'n ôl o'n bodd ni,
32 Ni bu orchest ei berchi.

- Mae o led yn y Bedo
 A gaeai'r drws ar Gaer Dro.
 Ni saif fellŷn is fy llaw,
 36 Nis gadwn i'n ysgydiaw.
 Nid aing deuftras dan lastir
 Yn neupen sachlen o'r sir.
 Torri maes, taer ymesyd,
 40 Tir gŵydd yw'n taro i gyd.
- Chwithig gennwch waith cannwr
 Eithr y gerdd a nithio'r gŵr.
 Mae'n rhaid lle bo mwya'n rhan
 44 O'r hen aur fod rhan arian.
 Chwi a allech ei ellwng
 I dref ei dad ar ei dwng.
 Ni chawn gennwch un gennad
 48 Iddo er gorlidio'r wlad.
 Oni'n harbed y Bedo
 Gwell yw o bell nog lle bo.
 Cynnwys arglwydd es blwyddyn
 52 Ar ael tir yw'r erlid hyn.
 Gosod barlwr i'r gŵr gwych
 Yn y man yna y mynnych.
 Nid af finnau o'r neuadd.
 56 Ni rof fy lle er fy lladd.

Ffynonellau

A—Pen 67, 259–63 B—Pen 99, 486–8 C—Pen 152, 321 (*llau. 1–19*) D—
 CM 12, 304–6 E—Pen 54 i, 11–12 F—Brog I.2, 461^v (*camrwymwyd y*
dalennau) G—Llst 118, 182–3 H—J 101 [= RWM 17], 616–17 I—Bangor
 (Mos) 9, 92^{r-v}

Ffynonellau eraill

J—LIGC 428C, 345 K—LIGC 670D, 35–6 L—Bangor 7268, 37–9

Amrywiadau

3 *A*—*sy r dyrogannwr, CF-I* ..y sy r droganwr 5 *D* moes twym y meist.,
CF-I ..twym maestr., *A* ..y meist. 6 *A-DFGI* ..sy th gwysel., *CF-H* ..ath
 gas 7 *BD* ..wrhyd 9 *CF-I* ..o ogof 10 *I* ..ban. 11 *BDFH* ..ynill. 12 *CF-I*
 ..pwynt. 15 *CF-I* [15–16] 17 *A* ni dav., *CFHI* nid ai vn gaer. 18 *A* ni da.,
AB ..bal. 19 *CF-I* ..yn dy. 20 *DI* ..Rodri, *H* ..rodri 21 *CF-I* [21–2] 23 *G* [
] oth wledd, *A* ni devn., *BD* nid awn., *C/FHI* nid an / a ith wlad vn oth
 wledd 24 *C* [24–56], *BD* ..ddeunaw mlynedd 25 *BDFHI* ..fu wybodol 26 *G*

[]ys nev im hol, *AD* ..ai m hol, *FHI* ..hystlys nev m hol 28 *I* ..drydydd Ryvel.. 29 *F-I* ..ywchlaw beirdd.. 30 *ABDFHI* wedy ossod.., *BDF-I* ..isier 32 *FG* ..i berchi 33 *D* ..ei led.. 36 *F* [...], *A* ..yn ysgydyaw, *BD* ..ein ysgydiaw, *GH* ..esgydiaw 37 *D* nis ainc.., *F-I* nid ein devfras.. 38 *A* y nevpenn.. 41 *B* ..cennwch.., *D* ..cenwch.., *FGH* ..cennych.., *I* ..kenny chwaith canwr, *DEG* ..canwr 42 *F* [...], *G-I* ..nithiai r gwr 43 *I* maen raid..mwya ran, *F-H* ..mwya rhan 44 *ABDF-I* ..rrai n aryan 45 *F-I* [45-6], *D* ..ollwng 47 *FGI* ..gennych.., *I* ..ganad 48 *H* ..gorlidio wlad, *I* ..gorliddio r wlad 49 *F-H* o mynn arbed.., *I* omin arbed.. 50 *B* ..lle y bo 51 *F-I* [51-2] 54 *D* ..yna mynych, *H* ..ynn i mynych 56 *A* ni ro..

Trefn

C 1-12, 19-20, 17-18, 13-14, 23

F-I 1-12, 19-20, 17-18, 13-14, 23-36, 41-4, 47-8, 37-40, 49-50, 53-6

*Moliant Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan
ac ateb Bedo Brwynllys*

- 4 Tarian gynt, wyrion a gaid
 At Einion o'r Brytaniaid:
 Y neidr winau'n dri anian,
 Wydr ei thyrch a dur a than.
 Dy enwi'n dân dynion dig;
 Dwfr oeddud o Foreiddig.
 Tal wyd goris dy fiswr,
 8 Tomas, ar gant mesur gŵr,
 Sampler Syr Roser ar wýdd,
 Saeth lydan saith o wledydd.
 Ni bathwyd, neb a weithiodd,
 12 Bwyall i fab well ei fodd.
 Ai trahäus bod rheol,
 Môr a thir, Cymru i'th ôl?
 Elwau o'r banc i lawr bid
 16 On'd oedd elw ynn dy ddilid.
- Mae un gŵr yt i mewn grŵn
 Am y radd yma'r oeddwn.
 20 Hywel sy uchel ei sôn,
 Dafi, naddwr defnyddion.
 Ystiwart yn oes deuwr
 Yw'n rhuo'r tai yn Nhre'rtŵr.
 Iawn oedd ei awenyddiaeth;
 24 Ei foesau ef y sy waeth.
 Ni ad dieithr ond dwyawr
 Sathru'r llys o eithia'r llawr.
 Nid â'r rhwyd onid â'i rhan.
 28 Ond felly nid af allan.
- Rhy edifar, Huw Dafi,
 Yr aeth ei foes wrthyf fi.
 32 Am a roddes o'i greso
 Mae ar y drws ym ar Dro.
 Y pen pres neu Daliesin,
 Neu ŵr a fai'n aur ei fin,

36 Ni fyn ar undyn wrandaw
Oni châi lyn uwch ei law.
Ba ddrwg, a boddi yr awr,
Er ei ellwng i'r allawr?
40 Ys da un yw, bost a wnaeth,
Ond diwyro'r naturiaeth.

Mae'n hudol, mi a'i hadwaen,
Ymbil a wŷr am y blaen:
44 Yn llwynog o'r naill anian,
Yn fêl y cyrn fal y cân.
Ys da le ar ystôl oedd
Y lle isaf o'r llysoedd.
Os blin yw'r dewin nad af
48 Nid blinach ond nad blaenaf.
Os er oed y cais ei ran
Mae'n edrych mwy no'i oedran.
Da gwn ar hyd ei ganol
52 Ei amcan ef o'm câi 'n ôl.
E'm câi innau'n amcanu
Nad a' byth i'r nod y bu.

Ffynonellau

A—Pen 67, 264–8 B—Pen 99, 488–90 C—CM 12, 306–8 D—Pen 54 i,
12–14 E—Brog I.2, 477^r (*camrwymwyd y dalennau*) F—Llst 118, 183–4
(*collwyd rhannau o'r testun ar waelod 183 a brig 184*) G—J 101 [= RWM
17], 617–18 H—Bangor (Mos) 9, 92–4

Ffynhonnell arall

I—LIGC 670D, 97–8

Amrywiadau

1 *E–H* ..dwyryon.. 2 *B* ..Bruttanaid 4 *EG* ..oi thurch.., *F* ..ai thyrch.. 6 *C*
..oeddit.., *EG* ..oeddynt.., *A–CH* ..voriddic, *F* ..foreddig 7 *EGH* talwyd.., *C*
..wyt.., *EG* ..dy filwr 8 *E–H* ..fessur.. 9 *C* ..Rosier.., *GH* ..ai wydd 10 *G*
..saith wledydd 11 *EGH* ni fathwyd.. 12 *C* ..ei fab.. 13 *EGH* nid.., *H*
..tarhaws.. 14 *AH* ..kymry.. 15 *E–H* elwa r banck.. 16 *AE* ..elw n dy.., *BC*
..in dy ddilid, *F–H* ..yn dy.. 17 *B* ..grwnn 19 *H* ..vwchel.. 21 *A* ystiwert..
22 *C* yn rhuo.. 23 *H* ..awenythiaeth 25 *A* ni eid.., *H* ni ad ti eithr.., *G*
..dieith.. 26 *EG* ..llys eithr ir llawr, *BCFH* ..eitha.., *D* ..itha.. 27 *CE–H* nid a
rhwyd.., *F* ..ond.. 29 *E–H* [29–30] 31 *F* ..Roddes o resso, *EG* ..o roeso, *H*
..o resso 32 *H* ..ymar dro 34 *H* ..vai aur.. 35 *A* ..warandaw 36 *A* ..li n.., *B–*
H ..lin.. 37 *E–H* ba ddrwg yw a boddi r awr 38 *E–G* ..ollwng.. 39 *F* ys da

vn bost.. 41 *A* ..minav hadwaen, *B* ..minnau ai hadwaen, *C* ..minnau i hadwaen 43 *E-H* ..y naill.. 47 *G* ..naf af 48 *BC* nid blin ond am nad.. 49 *E-H* ..ar oed.. 51 *EGH* da i gwnn hyd i gannol, *F* [] gwn hyd at ganol 52 *H* ..ny ol 53 *A* ..innav nym kannv, *E* em cai mav n amcanv

Trefn

E-H 1-6, 9-12, 7-8, 13-26, 31-2, 27-8, 33-6, 39-40, 43-4, 41-2, 37-8, 49-50, 45-8, 51-4

*Moliant Syr Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan
a dychan i Fedo Brwynllys*

- Syr Tomas, gwanas i'r gwŷr,
Fychan, tarian anturwyr,
Yn y Tŵr, yno taria',
4 Ni bydd un dydd heb win da.
Try ar hyd ein tir i'w hau,
Tai'r seintwar, traws hwyntau.
Ar win neidr, aren ydwyf,
8 Ac ar gwrw'r Mars gwargrwm wyf.
Brwynllys, oedd fab, o'r winllan
A fyn o'i rwys fwy no'i ran.
Nid mwy 'n ei gyfrwy no'r gŵr;
12 Mae'n chwennych mwy no channwr.
Nobl gyfan yn abl gafas
A gofyn gŵn am gefn y gwas:
Simwr sawdwr o sidan
16 A'r ddwbled o'r melfed mân.
Mwy'r puchan yn ei ganwyl
No dau o'i rodd wedy'r ŵyl.
[] oedd fyned ymaith
20 [] iach yno'n iaith.
Sarrug fydd rhai yn sorri
[].
- Mewn dy gwrt, nid mân dy gost,
24 Oes dynion nis adwaenost?
Mae'n eistedd yma'n wastad
Mal dyn fai 'n ymyl ei dad.
Ef o Wynedd, gâr arall,
28 Â'n ŵr llys o un i'r llall.
Mae sôn dynion amdanaw
Yma na thrig mwy no thraw.
Ni beiddiaf eich rhybuddio
32 Rhag ei fâr a'i wg efô.

Mawr yw hanes Taliesin;
Mae awen fwy mewn ei fin.

- 36 Pa les er maint fo'r sesiwn?
 [] dy goffrau hwn.
 Os mawr deutal y dalaith
 Efô a wyl ym fwy waith.
 40 Nid mawr heb un a wŷr benyd
 Gant gŵyl da Gwent i gyd.
 Astudio []
 Ydd wyf yrhawg ddifer hwn.
 Ni bu []
 44 Na dig ond ychydig chwant.
 E gân deulais gan delyn;
 Ni wŷr y llaw arall hyn.
 Cwnsel yn isel yw'r naill,
 48 Sŵn mawr wrth sôn am eraill.
 Bwrw dwfr yn Aberdyfi
 Yw bwrw y da i'm brawd i.
 []]
 52 Fyth o'i gof fath a gafas.
 Nac ymddiried i'r Bedo
 Led ei fys o'i wlad efô.
 Er sôn am frain Owain wych
 56 Am y neidr y mae'n edrych.

Ffynhonnell
 Pen 55, 179–81

Darlleniadau'r llawysgrif

3 nnyt wr ynot arya 5 tri.. 6 teir sein tarw.. 7 ..nei dir.. 8 ..gwrw mars.. 10
 e vynnai rwys.. 11 ..no gwr 12 ..chanwr 13 ..gyfan abal y gafas 14
 ..gywn.. 15 ssinwr sawdiwr.. 17 mwy yw r pychan.. 18 no dey.. 19 [] in
 oedd vymed.. 20 [] ban ain iach.. 22 [..]sdeg [.] ystir eis di 23 maend y
 gwr.. 27 ..gar all 36 ni ffar hai dvg offrey hwn 39 nid mawr heb vn a wr
 bennyd 41 ystydio pe [] 43 ny bu [..] or [.]or yanv 45 e gandeyleis gi an
 delyn 46 in wyr yll awar allhyn 51 myrder [..] yg [..] adogas 52 vythoi
 gof..y gafass

Moliant Syr Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan a diolch am ŵn

Y marchog ym a erchis
 Na bawn o'i fwrdd heb win fis,
 Syr Tomas wewyr twymion,
 4 Syr, orau syr o'r oes hon,
 Mab Syr Roser a'n gweryd,
 Fychan, dros bedwar ban byd.
 Derwen ir wrth daro'n iau,
 8 Dŵr môr wrth dorri muriau.
 Enynnwyd tân ynot ti
 Ni wŷr eiddil ei roddi.
 Heddwch a fynnwch ei fod
 12 Er o dân a roed ynod.
 Tanllwyth ddiadwyth ydwyd
 O dân onn; mab y dyn wyd.
 Ni'th fwrw dyn wrth frad ynod
 16 Oni fwrw'r haul fawr a'r rhod.
 Ni thalwyd aur i'th law di
 Ond a roddud ynn drwyddi.
 Ni wyddost dy gost i gyd;
 20 Ni wŷr llyfr na iarll hefyd.
 Deunaw dysgl a dwy'n disgyn
 Wrth naw saig drwy'r wythnos ynn.
 Pob ddwy fal seigiau'r fwyall,
 24 Pob un o'r Llun hyd y llall.

Cael yn un calan Ionawr
 Cylennig o'r Ferwig fawr.
 Ar fy mys dyrifo morc,
 28 Wrth ei chymell gwerth chwemorc.
 Llen o wyrdd, llin Iewerddon,
 Lliw garddau had Lloegr oedd hon.
 Llaw, 'r ddwy gyllell a'r gwellau,
 32 A'i gwnïai'n ŵn a'm gwnâi'n iau.
 Maen a wyddam ei nyddu
 O'r India Fawr i Went fu.
 Dau ŵn yn ungwn a wnâi
 36 Ac i Addaf y gweddai.

- Mae lleuer o'r hanner hwnt,
 Mewn y damasg maen diemwnt.
 Nid oedd fras nydwydd ei frig,
 40 Ni roed dwbl erioed debyg.
 Esgyll ar liw tefyll tân,
 Isa' edau yw sidan.
 Glöyn Duw gwyn i doi gwar,
 44 Gleiniau dieithr gwlan daear;
 Gwellt Troea fal gwallt rhiain
 O bryd y mab mewn brwyd main;
 Palis sirig, plas arab,
 48 Plu'r paun yng nghapelau'r pab.
 Pond wy' debyg Sain Grigor
 Pan fu yn canu mewn côr?

 E'm câr gwragedd bucheddol,
 52 Efo red merched i'm ôl.
 Aur ac asur a gawsam,
 Edafedd gwisg Dafydd Gam.
 Sirian teg nis rhôl ond dyn
 56 O Foreiddig fai'i wreiddyn.
 Nod ar wasg neidr a wisgaf,
 Nod ar gerdd i'r neidr a gaf.
 Nod yw ar lun y neidr las,
 60 Nod arnaf oen y dymas.

Ffynonellau

A—Pen 67, 125–9 B—Pen 99, 421–3 C—Pen 101, 298–301 D—CM 12, 248–50

Ffynonellau eraill

E—Gwyn 7, 92–5 F—LIGC 670D, 63–5 G—Bangor 7268, 67–8

Amrywiadau

1 *A* ..ym archis 3 *A* ..twynnyon, *B–D* ..twymon 4 *B* sr.. 5 *D* ..Rosier.. 11 *A* ..vynnwch i vot 13 *B–D* ..diadwyth.. 18 *A* ans.., *B* ..roddid.., *C* ..roddes.., *D* ..rodded.. 19 *D* ..y gost ei gyd 20 *A–D* na wyr.. 23 *D* pob dwy.. 25 *A* kal.. 26 *B–D* calennig.., *A* ..verwir.. 28 *A* ..chemork 29 *BC* ..Iwerddon, *D* ..Iuwerddon 30 *A* ..garav.. 32 *BC* ..wn gwnai.., *D* ..un gwnai.. 33 *D* ..wyddem.. 34 *A–D* ..wend.. 36 *BC* ..Addaf da y gweddai, *D* ..Addaf da gweddai 37 *D* ..ar.. 38 *D* mewn damasg.. 39 *A–D* ..nidwedd.. 44 *AD* ..dieith.. 49 *B–D* ..wyf.. 52 *A* e vo ret merch merchet.., *B–D* ef a red.., *C* ..im hol 56 *A–D* ..vai wreiddyn 60 *C* ..deyrnas

Moliant Syr Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan

Yr awyr am dir Ieuan,
 A'r dŵr o Dre'rtŵr a'r tân,
 Un o'i ddeiliaid, ni ddaliwn
 4 Ym mhlas Syr Tomas air tw'n.
 Arf a dynn ar a fo dig,
 Aur o'i ddeuddwrn ar ddiiddig.
 Ni wn dan, tarian y tad,
 8 Goron Loegr gŵr un lygad.
 Gwrol a dynn gweryl da
 Ac â'r ffon y gorffenna.
 Un llaw iddo'n lluyddwr
 12 Ac yn ei gorff egni gŵr.
 Ei glod ar hyd Gwlad yr Haf;
 Ar hyd Gwent y'i rhoed gyntaf.

Llundain, mae eraill yndi,
 16 Nid rhydd neb o'n tیرهdd ni.
 Od aeth afreolaeth fry
 Ef â'n ebrwydd ofn obry.
 Pwy'r un a helpa'r ynys?
 20 Ple'r awn? Ymapelu'r ys.
 Nac aud orig o diredd
 Cymru mawr, Cymro a'i medd.
 O chymerir mae ynn dir da,
 24 Os ei wrthod y syrthia.

Gwnaed lu o'i genedl ieuainc
 A brŷn ffrwyth holl brennau Ffrainc.
 Anaml yw sôn am lu sêr
 28 Onid trasau plant Roser.

Gwae'r Sais a ddêl i'w geisiaw
 A gwŷr ei wlad ger ei law.
 Nid â pen dros Hafren hir
 32 O'i waedoliaeth o delir.

- Ni chad na'i hendad na'i hŷn
 Eb ymladdau bum mlwyddyn.
 Nid arestiwyd yr Ystwyll,
 36 Ni chad ei dad, ond o dwyll.
 Ofn hud a fu 'neheudir
 Er pan golled Dyfed hir.
 Aed rhai i'r ffyrdd draw ar ffo;
 40 Yntau erys yn taro:
 Rhoi dyrnod Lawnslod â'i law
 Rhag bod un dyrnod arnaw.
 Diryfedd oedd dra fai ddig
 44 Na orfyddai wŷr feddyg.
 Bu ben cyngor i'r goron,
 Bid ei help drwy'r byd i hon.

- Rheolwch dir a heli
 48 A gedwch ef gyda chwi.
 Efo fydd llu bedydd byd
 Yn ôl caer Lincol encyd.
 Astudiais, nis dywedaf,
 52 Hyd pan weler hanner haf.
 Ni chreded singned na sêl
 Nac unSais yn ei gwysel.
 Ni wŷr mil beth yw'r malais;
 56 Ef a wŷr swrn ddifer Sais.

Ffynonellau

A—Pen 67, 134–7 B—Pen 99, 426–8 C—Pen 101, 303–5 D—CM 12, 252–4 E—Stowe 959 [= RWM 48], 212^v–213^v F—BL Add 31070, 39^r–41^r

Ffynonellau eraill

G—Gwyn 7, 98–101 H—LIGC 670D, 67–8 I—Bangor 7268, 70–2

Amrywiadau

2 *F* ai dwr.. 5 *E* ..u dyn ar u vo.., *F* arf y dyn.. 7 *E* ny does tan.. 9 *D* ..e dyn.., *E* ..y dynn.. 11 *E* ..ydday n llyeiddiwr 14 *A–F* ..y rroet.. 16 *A* ni rrydd.., *EF* ..tiroedd.. 18 *E* van ebrwydd.. 19 *E* ..ay helpa.. 20 *A* .. yn a pely r ys, *B–DF* ..ein apelu r ys, *E* ..yna pely rys 21 *F* ..aed.., *E* ..oe diredd 22 *A–DF* kymmry.., *E* kymro..kymry.. 23 *F* o cymmerir.., *A–F* ..mae n dir.. 24 *A–DF* ..ni ssyrthya 25 *A* gwnaet.., *E* ..o genedl.. 26 *E* y brynn.., *B–D* ..brenniau.. 27 *C* ..son lu.. 28 *E* ond yw.., *A* ..rroysser, *DF* ..Rosier 29 *A–F* ..y geissiaw 30 *A–C* ..y wlat.., *E* ..y lys gair.. 32 *E* oy gwaydolyaeth.. 34 *B–F* heb.., *A* ..pymhlwyddyn, *B* ..mhlwyddyn, *C* ..bum mhlwydd 35 *C* ni a restiw.., *E* nyd ar roest wnd.. 36 *DF* ..oi dad.. 37 *E* ofn hyd vy n y heidir

38 *E* ..hyved.. 39 *A* aet rai., *DF* ..ir ffydd.. 40 *A* ..vn taro 41 *E* ry ddyrnod..
 43 *AD* diryfedd dra vai., *F* ..yw., *E* ..try vai.. 46 *C* ..o honn 47 *E* riolwch.,
F rheolaeth.. 49 *B–F* ef a fydd.. 50 *F* ar ol., *E* ..kar.. 51 *B–D* a studiais., *E*
 ystydyais.. 53 *B–E* na., *BC* ..signed., *D* ..na signed., *E* ..na ssained.. 56
DF ..ddifa r sais, *E* ..ddeiver sais

Moliant Siôn Fychan ap Syr Rhoser Fychan

Y gŵr o gorff gorau gaid
 A dyr allan drwy wylliaid,
 Nid oes gaer heb d'ysgyrion
 4 Na maes drwy sir, y Maestr Siôn.
 Tebyg i Foreiddig fawr
 Onid d'aros un teirawr;
 8 Un wŷdd Dafydd pan dyfynt,
 Un lawfron ag Einion gynt.
 Gwregys y chwellys ywch chwi
 Am ddwyfron Llanymddyfri;
 O Gaerfyrddin i Linwent,
 12 O gestyll Gŵyr Gastell Gwent.

Y gaer a wnaeth ein gwŷr ni
 A ddadwreiddwyd ddoe drwyddi.
 Chwithau, un o nodau'n iaith,
 16 A drosolia'r drws eilwaith.
 Aig o Ifor a gyfyd
 A dreia'r bar ynn drwy'r byd—
 20 Naw maib heb un rhaib yrhawg
 A naw merched un marchawg.
 Ni ddaw hun i'r ddau hynaf;
 Tros y nos wtres a wnafr.
 Y ddau ieuaf ni ddiainc
 24 Heb brynu ffrwyth prennau Ffrainc.
 Aech i Rufain, a'ch rhifaw,
 Bob ddau fal y dreigiau draw.
 Yn rhaid Edwart a'i barti
 28 Na ado'r naill o'm dwrn i.
 Ni ad ei gariad heb gof,
 Domas hir, drwy Dems erof.
 Nid ewch chwithau, cleddau clod,
 32 Nos i Ddofr nes ei ddyfod.
 Daly i'th lys dylwyth y wlad
 Dra fo 'n Lloegr draw f'un llygad.

- 36 Câr i hednod Caer Hodni,
 Cell yw ei chastell i chwi.
 Gwisg saled fawr yr awron
 A neidr hir dan odre hon,
 40 Eich bwaau, ni'ch beiynt,
 Eich hëyrn awch hirion ŷnt.
 Olau dy isarnau sydd
 Ar aelodau gorwledydd.
 Dy wŷr, chweugeinwyr, gennyd,
 44 Dy feirch, chweugeinmeirch, i gyd.
 Ni thyr brigyn o'ch hŷn chwi
 Na bo derwen heb dorri.
 Yn eu hyder yn hadu
 48 Y mae ynn fil am un a fu.
 Draen hir wyd i ran Harri,
 Dwrn aur ein pedeiran ni;
 Pawl onn yn llawfron y llall,
 52 Palf eryr mewn pluf arall.
 Ucha' undorch fu i'ch hendad
 Ond y dorch dan ên dy dad.
 Y drychafiad fu i'r tad tau,
 56 Ni ostyngir nes d'angau.

Ffynonellau

A—Pen 67, 190–3 B—Pen 99, 448–50 C—Pen 101, 325–7 D—CM 12, 271–2

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 12–13 F—Bangor 7268, 11–13

Amrywiadau

1 *BC* ..a gaid 4 *A–D* ..meistr.. 6 *A–D* onyd aros., *B–D* ..deirawr 9 *D* ..yn
 chwellys., *B–D* ..ych chwi 12 *C* ..i gastell.. 13 *A* ..yn gwyr ni 14 *B–D* a
 ddadwreiddiwyd.. 15 *C* ..vn nodav.. 18 *C* a dreia r ynn., *A* ..yn.. 19 *A* ..yn
 rrawg 22 *A–C* dros.. 24 *BD* ..prenniau, *C* ..prennia.. 25 *C* aeth., *B–D*
 ..rifaw 27 *A* yn rred.. 28 *A* nada r neill., *B–D* nid a yr naill.. 33 *A* dala., *D*
 dal.. 35 *B* ..ei hednod., *A* ..kaer chodni 40 *A* ..hayrn.. 41 *A* olev dy i
 sarnav.. 45 *D* nis tyr.. 47 *A* ..hannv 48 *AB* y mae n vil., *CD* y maen fil..
 49 *C* ..wyr., *D* ..ar ran.. 50 *A* ..pedeiran i, *BC* ..pedeirran.. 51 *C* ..y
 llawfron., *D* ..llawffon.. 53 *D* uchaf., *A* ..vv ychendam 54 *D* ..ei dad 55 *BC*
 y dyrchafiad., *D* dyrchafiad fu ir., *A* ..vv r tad.. 56 *A* ..mes dangev

Moliant Siôn Fychan ap Syr Rhoser Fychan

- I'm cawell y mae cywydd:
 Henwau saint yn hwinnw sydd.
 Mae storïau saint, y Meistr Siôn,
 4 Nid oedd afryw, 'n dy ddwyfron;
 Coffa 'mhob gorseddfa sant
 O wynieithoedd a wnaethant.
- Nid soriant am feddiant fydd
 8 Ond eiriol rhwng cefnderwydd.
 O frig Moreiddig mae'r ach,
 (Ni wnawn Einion yn wannach)
 Rhicerdiaid, Pitsierdiaid, Siôn,
 12 A Gwateriaid gwaed tirion.
- Y mae gwin ym ugeinwaith,
 Bob dydd ar y sydd o'r saith,
 Beunydd o newydd i ni,
 16 Bedair gwledd, byd arglwyddi.
 Y mae dillad am dwyllwyr,
 Mae brad yn wastad gan wŷr.
 Na yrr o'th gwrt ŵr a'th gân
 20 Er deuddeg o'r diweddar.
- Brodyr a chefndyr ywch chwi;
 O dir Gŵyr hyd ar Geri,
 Yn unawr y'n gwenwynwyd
 24 Eich dwyn hyd yn nhrwyn y rhwyd.
 Chwi a allech o wylliaid
 Lygru plant holl Loegr a'u plaid.
 Ffrwyno cyfoeth Ffrainc hefyd
 28 A phrynu holl Gymru i gyd.
 Od ywch aml, oedwch ymwan,
 Nedwch i raib nodi'ch rhan.
 Mogelwch, na sorrwch saint,
 32 Dwyll ac amwyll gogymaint.

- Y carcharor o'r môr maith
 A ddug gwin ym ddeg canwaith.
 Bodlon yw'r estronion draw
 36 Bai tristach fai'n byd trostaw.
 Wiliam Iarll a eilw am wŷr
 Er y brudiau a'r bradwyr.
 Cais iacháu pob cas a chwyn,
 40 Cadwynwch eich cydwenwyn,
 A'r cledd a droech o'r Clawdd draw
 A'th wayw'n danllwyth yn d'unllaw.
 Gwna'n iach holl gynnen ein iaith;
 44 Na wna Glawdd Offa'n ddiffaith.
 A droes o frad neu drais fry,
 Dy ras unwaith dros hynny.
 Cymer, oen Duw, Cymru 'n d'ôl,
 48 Cadw'r ardd a'r coed o'r urddol.
 Rhifo gewch yr haf i gyd
 Fwâu Rhufain fawr hefyd.
 Gïen oll ymgynulliant,
 52 Gŵr o Dre'rtŵr a dry'r tant.
 Er bod dicter rhwng ceraint,
 (Efo fu 'msaethu rhwng saint)
 Ewch yn un o chawn ennyd
 56 A ninnau gawn win i gyd.
 Y ddau lwdn oedd ddiledach,
 On'd ewch yn un—dowch yn iach.

Ffynonellau

A—Pen 67, 186–90 B—Pen 99, 445–7 C—Pen 101, 322–4 D—CM 12, 268–70

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 10–11 F—Bangor 7268, 10–11

Amrywiadau

3 B–D ..i meistr.. 8 D ..cefnderydd 11 B–D Rhickierdiaid.., D ..Pirsieriaid..
 20 C ..deuddeug.. 21 A ..yw chwi, B–D ..ych chwi 28 A ..gymrv gyd 30 A
 ..y raib nodi chan, B–D ..nodi ch ran 34 D ..yn ddeg.. 35 B–D ..fai.. 36 B–
 D be tristach.. 39 B–D ..cwys.. 40 A kadwynnw.. 45 A ..nei drais.. 47 AD
 ..kymry.. 49 BC ..a gewch.. 51 B–D ..ymgynnullant 54 BD fe fv., C fo fu..
 57 A–C ..a oedd..

Marwnad Siôn Fychan ap Syr Rhoser Fychan

Ymladd a fu ar luoedd
 Ac arfau Duw'n gorfod oedd.
 Cnau anfonos yr Iesu;
 4 Cynhaeaf oer i'w cnoi fu.
 Llwyn Roser aur goler gynt,
 Llu gwreidda yn Lloegr oeddynt.
 Ai dieithr gynau duon
 8 Os daear sydd ar Faestr Siôn?
 Aeth pren aeron fis Ionawr
 O'r llwyn a fu'n berllan fawr.
 Torres ar had Rhoser Hen,
 12 Torri aelod tir Elen.
 Llys oedd yn frywys ynn fry;
 Lladd Siôn yn lluddias hynny.
 Llai yw yno'r llawenydd;
 16 Llaw Sais ar bob lle y sydd.

Am weiddi 'Nghaer Hodni hen
 Y rhoed och yn Rhydychen.
 Gwae fy nghalon dan fron frau;
 20 Gweddw yw'r gaer guddio'r gorau.
 Trithwr oedd gynt fal Traethen,
 Tri phorth wedy torri'i phen.
 O daw eilwaith dialedd
 24 Gwae'r bwch am y gŵr o'r bedd.

Duw Sul y dywedai Siôn
 Y dôl i'r gaer i gadw'r goron.
 Dydd drin Mab Duw oedd drannoeth:
 28 Dyrnawd o ddyddbrawd a ddoeth.

Merched am fab y marchog
 Yn offrwm ar grwm i'r Grog.
 Ni fynnai'r Grog gael gogan
 32 Werthu'r gŵr a nerthai'r gwan.
 Er bod arian rhiannedd
 Fwy no'i bwys ar faen y bedd,

36 Ar ei fodd ni ryfeddwn
I Dduw a'i saint ddewis hwn.

40 Dechreunos y dychrynaf;
Drwy nos wylo dŵr a wnaf.
Llif i'r fynwes fal cesair,
Llefain y pylgain a'i pair.
Os diddig ban eisteddai
Nesaf i'r isaf yr âi.

44 Ofer oedd o Foreiddig
A fu o ddyn ban fai ddig.
Duw ni wnaeth mab dyn yn ôl
Einion Yrth yn un warthol.
48 Arfau Coel, gŵr arfog gynt,
I ysgwyddau nis gweddylnt.
Wedy'r naw ni edir neb
Yn ei ynys un wyneb.
52 Meirw oedd saith am orwedd Siôn;
Meirw yw'r wythwyr mawr weithion.
Nid llai'r bedd lle'r aeth, meddynt,
No bedd Owain Gwynedd gynt.
Aeth y Dinas faith danaw.
56 Aed ef i bob nef o'r naw.

Ffynonellau

A—Pen 67, 76–80 B—Pen 99, 402–3 C—Pen 101, 283–5 D—CM 12, 230–1

Ffynonellau eraill

E—LIGC 670D, 52–3 F—Bangor 7268, 55–6

Amrywiadau

4 B–D ..eu cnoi.. 5 A ..rosser.., D ..Rosier.. 6 B–D ..gwreiddia.. 7 D ai dieith.. 8 A ..vestr.., B–D ..feistr.. 11 D ..Rosier.. 13 A ..yn vry 18 CD y rhoid.. 22 A–D ..torri ffenn 24 D mae.. 26 A–D i doi r gaer.. 27 A ..dranoth 30 B–D ..yn grwm.. 44 A ..ddyn ban ddcic 48 B–D iw ysgwyddau.. 52 B–D meirw r wythwyr..

Moliant Brycheiniog

- Od ymofyn dyn na dau
 Ba diroedd i'n byd orau,
 Tir Brychan, tair bro uchel,
 4 O dir y byd aed â'r bêl.
 Gorau man ffordd y cân cog,
 Wybr a chan, yw Brycheiniog.
 Brwd a rhost a bordau rhydd,
 8 Brag gwenyn a brig gwinwydd.
 Gorau ansodd ddigrynsaig,
 Gorau 'mhob gradd gŵr mab gwraig.
 Eglwyswyr ag alusen
 12 I alw saint 'mhob eglwys wen.
 Gwn achau'r gwŷr; gwnewch ar gân
 Glod i ferched gwlad Frychan.
 Aeth gair yng ngwaith y goron
 16 Am wŷr a chŵn a meirch hon.
 Gorau man am gôr Mynyw,
 Gwellt, gwair, ŷd, gwyllt a gwâr, yw.
 Afonydd berw mynydd brau,
 20 A llynnoedd a pherllannau.

 Dŵr iddi, *neud* arweddiad,
 Â'i dŵr y gwlych *pedair* gwlad.
 Pedryfal, pedair afon,
 24 Parawys ŷnt, priod sôn:
Neifion, Offrates nesaf,
 Nedd, megis Teigrys yw Taf;
 Tawy'n wydr Teon ydyw,
 28 Ffeison Wysg a'i phais wen yw;
 Urddonen, groyw ddwfr gloyw glân,
 Ac ail daear gwlad Ieuan;
 Bro wen deg y bryniau da,
 32 Brychandir, braich o India.
 Tri chantref, tangnef hyd dôl,
 Trŵn Cynog, tre 'n eu canol:
 Tref gaerog trwy fagwriaeth,
 36 Tref wen lle bŵm gynt ar faeth.

Heol lawn o hil Einion,
 Hardd fydd had Dafydd hyd hon;
 Had tri Thrahaearn, barn bêr,
 40 Had Rys hewyd a Roser;
 Hil Adam, mil aed a mwy,
 Had dau Owain hyd Dawy;
 Gwganiaid, Bledrïaid blant,
 44 Bryfaelïaid o brif foliant;
 Milioedd o fonedd Bleddyn,
 Myrdd o gorff Moreiddig Wyn;
 Cenhadwyr blant, Cynidr blaid,
 48 Ba ran uwch no'r Brynaciaid?
 Blodeuant, blodau ieuainc,
 Bob llwyth gyda ffrwyth gwaed Ffrainc.
 Hafardiaid, heaf wyrda,
 52 Walbïaid, Gwnteriaid da;
 Llu o blant Bwrchill a'i blaid,
 A Swrdwals a Phitsierdiaid;
 Awbrai'n hynaif brenhinwaed,
 56 Ysgŵls nid oedd is eu gwaed.

Tri bonedd, brenhinedd bro,
 Aeth yn un weithian yno:
 Caradog cafas, fras ei fraich,
 60 Brychan, brawn breichiau Brynaich;
 Cwncwerwyr, hil Bedwyr had,
 Normandi, a'i rym undad;
 Had ystâl Brutus dylwyth
 64 A'i wraig lân o Röeg lwyth.

Caner a chadwer fy chwedl,
 Cadw, Gynog, ein cydgenedl.
 Gardd Frychan, gwreiddfawr achau,
 68 Ar ddiwedd f'oes fo'r ardd fau.
 Ystôr a swllt ostri saint
 Ym yw honno i'm henaint.

Ffynonellau

A—Pen 54 i, 273–7 B—Pen 96, 623–5

Amrywiadau

1 A [1–6] 3 B ..vwchel 7 A ai brwd ai rrost bordav.. 10 B grym hob gradd
 gorav mab gwraig 11 B ..allvssen 12 AB galw saint.. 16 B ..a chwnn.. 17

B [17–20] 21 *A* ..nid arweddyad, *B* ..iddi ydyw r weddiad 22 *AB* ..bedair..
 23 *B* [23–4], *A* pyd dryfal.. 25 *A* ffvon ffrades pwy nessaf, *B* ffeission.. 27
A taw yn wydr.. 28 *B* ..wyd.. 29 *B* ..hoiw ddwfr.. 31 *A* ..brynnav.. 32 *A*
 ..braic.. 33 *B* ..tyng nef.. 34 *B* trwyn.. 38 *B* ..yt honn 40 *B* ..Rrys..Rrosser,
A ..o roysser 42 *AB* ..hyd tawy 43 *A* gwgawnaid.. 46 *B* ..oi gorff.. 47 *A*
 kynedyr.. 48 *A* by ran..brynachaid, *B* bay rann.. 49 *A* blodant.. 51 *B*
 ..wyrdaf 54 *B* a swrdwal ffitserdiaid 55 *B* ..hynoedd.. 56 *B* ..nid yw.. 57 *A*
 ..brenhinoedd.. 60 *B* ..bronn... *AB* ..yn brynaich 61 *A* kwnkerwyr.. 62 *B* o
 nor mandi n rym., *A* ..nai rym.. 64 *B* ai wraig o liw roeg ai lwyth 65 *B*
 ..gadwer.. 67 *B* ..jachav

Deisyf heddwch rhwng Brycheiniog a Morgannwg

4 Llyma un lle mae i'w wedd
 O ddau olau ddialedd.
 Â Duw efô aed o'i fâr,
 A diwedd nef a daear.

8 Mae anghydfod rhwng brodyr,
 Mae alaeth gwaed ymhlith gwŷr:
 Mwyfwy bâr, leilai cariad,
 Mae byth wg rhwng mab a thad.
 Anwadal yw'r planedau,
 Aeth y gwir yn weniaith gau;
 12 Cariad fal haidd heb wreiddyn,
 Crinodd dail carennydd dyn;
 Y ddwywlad yn gribddeilwyr,
 Yswydd gwael yw swydd y gwŷr.
 16 Gwelich addwyn ogyrch oeddynt,
 Brain Owain ab Urien ŷnt.
 Brenin heb gyfundeb fo,
 Brenhiniaeth brain yw honno.
 O'i wahaniad ei hunan
 20 Y dinistrir tir fal tân.
 Cymry gwedy hen Gadell,
 Na baent un ni buont well.
 Hawdd fydd—hedd a fo uddun'!—
 24 Angau i'n tir anghytûn.

28 Duw a ran dorri unwaith
 Y gaer o fewn ar Loegr faith.
 Caer Frutus, corf aur eto,
 Cyfan o fewn cyfun fo.
 Rhwymer, gludier y gwledydd,
 Rhoed Duw rhwng pob rhai oed dydd.
 Gwlad Frychan a Morgannwg,
 32 Gwir Dduw gain, gwahardd eu gwg.
 Chwirydd gynt, chwerw wedd gaeth,
 Ac eleni gelyniaeth.
 Barn gwŷr a bair ynn gariad;
 36 Ym marn y gwŷr Mair a'n gad.

- Pedwar a farn cyn peidio;
 Poed ar farn y pedwar fo:
 Dewi o ddifri a ddaw
 40 I oed dwylan at Deilaw.
 Catwg lwyd, catwo gwledydd,
 Cynog yn dafodog fydd.
 Nai fab chwaer, wyneb iach wyd,
 44 Gatwg, i Gynog ytwyd.
 Ewythr wyd, nid ethrodyn',
 Dewi lwyd, i Deilo wyn.
 Un dadwys, un waed ydywch,
 48 Y ddwy wlad oedd ddeiliaid ywch.
 Perwch—gwel heddwoch no lladd—
 Wÿs i'r gydlys rhag adladd.
 I'ch plaid, o bydd rhaid brawdwr,
 52 Bydded Duw *yn* bumed ŵr.
 Dwg, o rhodded dig rhyddun',
 Duw i ni a Dewi'n un.
 Dyged yn gymydogion
 56 Duw ni fal Dewi a Non.
 Pacs a wnaeth—pa gusan yw?—
 Addig maddedig ydyw.
 Pâr Duw *ynn*, fal pardwn fydd,
 60 Ei gael rhwng pawb a'i gilydd.
 Anfad gyngaws a gawsom;
 Angel rhoed efengyl rhôm.

Ffynonellau

A—Card 5.44, 177^v–178^r B—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 346–7 C—
 LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], rhif 191 D—Llst 48, 33–5 E—
 Llst 134, rhif 216 F—LIGC 13061B, 45^v–46^v G—LIGC 5474A [= Aberdâr
 1], 676–9 H—CM 109, 39–41 I—BL Add 31070, 68^v–71^r

Amrywiadau

1 *GH* ..lle mae n ei wedd, *A-FI* ..mae i wedd 3 *GH* ..efo red., *ABF* ..au var,
I ..ai far 4 *AC-E* ..byd.. 7 *A-H* vwy vwy.. 10 *GHI* ..weniaeth.. 12 *ACH*
 krinoedd.. 13 *BFI* ..gribadwyr 14 *A-FI* a sydd gwael., *GH* y sydd gwael.,
I ..y swydd.. 15 *E* ..yddynt 16 *F* ..ap., *G* ..vriein.. 19 *G* or gwahaniad., *H*
 oi gwahaniad.. 20 *I* i dinistre tir fal y tan 21 *BCEF* kymrv.. 22 *A-CEF* na
 baint., *D* na braint., *GH* ..ni buant.. 23 *BEFI* ..hedd vo., *E* ..yddyn, *I*
 ..iddyn 24 *A-FI* ..yn tir., *GH* ..ein tir.. 25 *BEF* ..a Rann.. 27 *I* caer frytyr.,
FI ..korff.. 30 *F* ..rai.. 31 *I* gwlan.. 32 *FI* ..y gwg 33 *A-I* ..chwerwedd.. 35
A-I ..yn gariad, *GH* ..in gariad 37 *AC-E* ..paido 41 *A-FI* ..a gatwo., *GH*

..cattwo wledydd 42 *E* ..dyvodog., *GH* ..dafodiog.. 44 *I* Catwg., *GH*
 ..Gynnon.. 45 *BFI* ..ni ethrodyn, *GH* ..wyt nid athrodyn 47 *BFI* ..dadws.,
A-CEFI ..ydych 48 *A-E* ..ddailaid., *F* ..ddailaidd., *G* ..ddeilied., *I*
 ..ddialaidd., *A-CEFI* ..ych 49 *A-H* ..na lladd 50 *EI* wyr., *BF* ..ir Gadlys., *I*
 ..i Gadlys.. 51 *A-FI* ych plaid., *AC* ..raid.. 52 *A-FI* ..y bvmed., *GH* ..y
 pumed.. 53 *G/H* drwg y rhodded drwg / dig., *D* drwg i., *I* ..o rodded., *CD*
 ..rodded dig ryddvn, *I* ..ruddun 55 *BFI* ..gymodogon 56 *ACEFHI* duw i ni.,
B duw y ni.. 57 *HI* pab.. 58 *A* ..madedig., *BFI* ..nodedig.. 59 *C/ABEFI* par
 duw val pardwn vydd / a vydd, *D* ..duw yn val., *GH* ..in.. 61 *A-CEFI*
 ..gyndraws., *A-I* ..gawson 62 *A-I* ..Ron

Nodiadau

1

Dyma'r cyntaf o bum cywydd a ganodd Hywel Daf i deulu'r Argoed ym mhlwyf Llanfihangel Fechan, i'r gogledd o dref Aberhonddu, gw. cerddi 1–5. Canodd y bardd ar dri achlysur i Wilym Dew, a chanodd gywydd moliant a marwnad i'w fab Hywel. Cyfeirir at y canu i'r teulu yn yr ymryson a fu rhwng Hywel Daf i Huw Cae Llwyd yn y Slwch, gw. cerddi 39–40. Yno cyhudda Hywel Huw Cae Llwyd o'i ddilyn i gartrefi ei noddwyr, a chyfeiria yn benodol at yr Argoed. Cofnodwyd y tri chywydd i Wilym yn Pen 67, ac y mae dau ohonynt, cerddi 2–3, yn dilyn ei gilydd yn y fan honno. Ar ddysg a doethineb Gwilym y mae'r pwyslais yn y cywydd cyntaf hwn. Mawrygir y croeso a'r diddanwch gwâr yn y cartref yn yr ail gywydd, a phensaernïaeth a chadernid y cartref yw pwnc y trydydd.

Yr oedd Gwilym Dew yn fab i Hywel ap Llywelyn ap Hywel Fychan ap Hywel ab Einion Sais ... Bleddyn ap Maenyrch, gw. WG1 104; WG2 210. Ei ewythr, brawd ei dad, oedd Dafydd Gam, ac ar ganu'r bardd i'w ddisgynyddion ef, gw. cerddi 19–27. Ni thrafodir y canu i'r Argoed yn NBBM.

- 2 **Gwilym Dew** Ni ddefnyddiwyd y ffurf hon ar ei enw yn y ddau gywydd arall. Nid yw hi'n glir pwy yw'r Gwilym Dew (ll. 8) y disgynnai ohono.
- 3 **Hywel** Lladdwyd Dafydd Gam, ei frawd, yn Agincourt yn Ffrainc yn 1415, gw. ByCy 93. Y mae'n bosibl mai Hywel yw'r *Howel Dewgh* a ymunodd â'r un cyrch, gw. SLME.
- 4 **Addaf** Yr oedd yn enwog am ei ddoethineb, a'r *tri dyn a gauas Doethineb Adaf* oedd Cado Hen, Beda a Sibli Ddoeth, gw. TYP³ 135. Enwir y tri hyn yng nghwrs y cywydd er nad yw'r enwau yn digwydd gyda'i gilydd, gw. ll. 30 *Cadw*, ll. 39 *Bedaf*, ll. 42 *Sifil*. Crybwyllir henaint Adda yn 23.56n.
- 5 **brywys** Y mae'n gyfystyr â 'bywiog, egniol, pybyr', gw. GPC 334. Gall y gair gynnwys sillaf leddf neu dalgron, gw. J. Morris-Jones: CD 242. Digwydd y gair bum gwaith yn y canu, a digwydd bob tro naill ai yn safle'r brifodl neu yn safle'r odl mewn cynghanedd sain, yn odli â *llys / Rhys / Cyrys*. Fe'i trinnir bob tro yn sillaf dalgron.
- 9 **hanwyd** Ffurf 3 un.pres.myn. *hanfod*, gw. GMW 147; G 764.
- 10 **Lidir** Mam Gwilym oedd Margred, merch Gwilym ap Ffyllib ab Elidir

- Ddu, gw. WG1 330–1. Enwir Elidir a'i fab Ffyllib yn y cerddi eraill i'r teulu. Dywedir iddo fynd ar bererindod i Gaersalem ac fe'i disgrifir yn Farchog y Bedd. Yn nyddiau Gruffudd ap Nicolas ap Ffyllib y daeth y teulu i amlygrwydd. Enillodd Gruffudd rym anghyffredin yn rhinwedd ei swyddi cyhoeddus, a thra oedd eraill yn ymladd yn Ffrainc yr oedd Gruffudd yn ymgyfoethogi gartref a chylch ei awdurdod yn lledu o ardal Llandeilo i weddill sir Gaerfyrddin ac i rannau eraill o'r Deheubarth, gw. pennod 1 yn R.A. Griffiths: RhTh. Priododd nifer o ddisgynyddion Gwilym ap Ffyllib ag aelodau o deuluoedd Brycheiniog, gw. 'Rhagymadrodd' td. 24.
- 11 **gynau** Dywed y bardd iddo dderbyn gŵn yn rhodd gan Wilym yn y cywydd nesaf, gw. 2.31.
- 16 Bai crych a llyfn; gw. 'Cynghanedd' td. 42. Diwygiwyd y ll. yn Pen 99, ond er bod y gynghanedd yn gywir nid yw *Le ty' yn dy wlad haeach* yn welliant.
- 17 **pieufu** O gyfnod cynnar dechreuwyd ychwanegu ffurfiau *bod* at *piau*, gw. GMW 80–1.
- 19 **adewaist** Rhestrir *adaw*, *ado* yn GPC² 32–3 a nodir hefyd yn GPC 1367 fod *g* wedi tyfu o flaen *ado* i roi *gadaw*, *gado*. Berf arall yw *gadael*, *gadel*, *gado*, *gadu*, gw. *ib.* 1367. Gwelir bod y bardd yn arfer *ado* (4.35), *gado* (86.62) a *gadu* (14.55) ond rhan fynychaf ni fydd modd gwahaniaethu rhwng *ado* a ffurfiau treigledig *gado*, *gadu*. Am fod ystod ystyr y ddwy *f.* yn debyg anodd onid amhosibl fyddai eu dosbarthu ac felly ni restrwyd enghrau. o'r berfau hyn yn yr adran 'Geirfa'. Yn y canu cyfleir yr ystyron, gan ddilyn y cofnod yn GPC ar *gadaw*, *gado*, i. 'caniatáu, goddef'; ii. 'mynd i ffwrdd gan adael (peth neu berson) ar ôl'; iii. 'ymadael â, cefnu ar, rhoi i fyny'; iv. 'bwrw, tybio, cyfrif'; gw. ymhellach 95.11n.
- to** 'Cenhedlaeth, llinach', gw. GPC 3511–12. Eb. yw *to* yn ddieithriad yn y canu pan fydd yn cyfleu'r ystyr hon, gw. 'Geirfa'.
- 19–20 Dywed y bardd fod Gwilym Dew wedi gadael ei gyfoedion ar ôl ac wedi ymuno â'r sawl a oedd eisoes wedi codi i safle o bwys.
- 23 **i ar** 'Oddi ar', gw. GMW 199–200; GPC 1993. Diwygiwyd yn *oddi ar* yn Pen 99. Digwydd y ffurfiau *i am*, *i ger* ac [*o*] *i dan* yn y canu hefyd, gw. 37.58n, 39.26n, 95.62n. Rhoddir enghrau. cynnar o'r ffurfiau *i am*, *i ar*, *i dan*, *i gan*, *i rhag*, *i wrth* yn J.E.C. Williams, '*DE yn y Gymraeg', B xiii (1948–50), 5–10.
- Gwelir mai'r gair gwan *ar* sydd yn cynnal yr odl gyntaf yn y gynghanedd lusg, cf. 68.55 *Od oes nef ar ddaearen*, 70.48 *Hyd ar ddaear Iddewon* (sain), 82.8 *Y bûm ar dalar y don* (sain). Gwelir llau. tebyg i hyn yn y canu mewn cynganeddion cytseinol ac odledig fel ei

gilydd; gw. ymhellach ‘Cynghanedd’ tt. 42–3.

23–6 Mynega'r bardd ei ymlyniad wrth Wilym Dew a'i gartref mewn cyddestun lleol a chartrefol trwy enwi afon Gwy, er mai afon Wysg sydd yn llifo heibio Aberhonddu. Ailadroddir y syniad, mewn ieithwedd grefyddol y tro hwn, yn y cywydd nesaf, gw. 2.23–6.

30 **Cadw Ddoeth** Gw. ll. 4n. Rhaid cyfrif *Cadw* yn air unsill, cf. GLMorg 1.24.

31–2 Cf. 2.12 *Efō wŷr synnwyr y saith*.

32 y **saith** Saith Doethion Rhufain. Yn y chwedl ‘Saith Doethion Rhufain’ ceir cyfres o hanesion a adroddir gan y doethion er mwyn ceisio atal y brenin rhag dienyddio ei fab a gyhuddasid o dreisio un o'i ordderchwagedd, gw. *Chwedleu Seith Doethon Rufein*, gol. H. Lewis (Caerdydd, 1967), ac ymhellach GLMorg 15.23–4n.

33 Ychwanegwyd y at *ddwed* yn Pen 67 er mwyn sicrhau bod hyd y ll. yn rheolaidd.

37 **pob oes o Foesen** Ffurf Gym.C. ar enw Moses, y gŵr a arweiniodd yr Iddewon o'u caethglud yn yr Aifft, gw. ODCC³ 1118. Gallai gyfeirio at wybodaeth ysgrythurol Gwilym Dew, ond adleisir hefyd y syniad traddodiadol am raniad hanes y byd cyn dyfodiad Crist yn bum oes, gw. GPC 2928; GIBH 8.9n; cf. 25.26 *Pumoes byd fu'r pumis bach*. Cynrychiolai'r cyfnod rhwng Adda a Noe yr oes gyntaf, rhwng Noe ac Abraham yr ail, a'r cyfnod rhwng Abraham a Moesen oedd y drydedd oes.

38 **Noe** Gw. ll. 37n. Cyfeiria Hywel Dafi at ei henaint yn 3.66n, at y dilyw yn 7.34n, ac at y gigfran neu'r golomen a anfonodd Noa o'r arch i chwilio am dir yn 81.66n. Noa oedd y ddegfed genhedlaeth yn dilyn Adda, gw. ODCC³ 1157. Ganed iddo dri mab, gw. Gen 6.10 *A Noa a genhedlodd dri o feibion, Sem, Cham, a Japheth*. Ar y gred mai disgynyddion Gomer, mab Japheth, oedd y Cymry, gw. C. Davies, *Adfeilion Babel* (Caerdydd, 2000), pennod 3.

39 **Bedaf** Gw. ll. 4n. Fe'i disgrifiwyd yn ‘the foremost and most influential scholar from Anglo-Saxon England’, gw. ODCC³ 177.

40 **Seth** Mab Adda. Y mae'r cyfeiriadau ato yng nghanu'r beirdd yn lluosog ar gyfrif yr hanes am y modd yr anfonwyd ef gan ei dad i baradwys i gyrchu olew trugaredd, gw. 99.1–2n, 100.16n. Trafodir y chwedlau am Adda ac Efa a'u plant gan P. Williams, ‘O baradwys i benyd’, *Traethodydd*, 2015, 25–42.

Elias Un o brif broffwydi cenedl Israel, gw. ODCC³ 539. Gall mai ffurf ar ei enw yw *Eli*, gw. ll. 57n, 5.17–18n; GB 510–11 ac ymhellach GLGC 1.23n. Disgrifir y modd yr ymwahanodd ef a'i olynydd Eliseus yn 2 Br 2.1–18 *Ac Eleias a ddyrchafodd mewn corwynt i'r nefoedd*.

- 42 **Sifil** Y mae'r adf. *gynt* yn awgrymu mai cyfeiriad at gymeriad o'r gorffennol sydd yma, a digwydd mewn adran sydd yn rhestru cymeriadau a oedd yn enwog am eu doethineb a'u duwioldeb. Am fod y bardd wedi cyfeirio eisoes at Adda, ac wedi enwi dau o'r *tri a gauas Doethineb Adaf*, dichon mai ffurf ar *Sibli* yw *Sifil*, gw. TYP³ 499. Ond gellid hefyd e.c. 'cyfraith, cyfraith Rhufain', gw. GPC 3274. Diweddarach (dechrau'r 17g.) yw'r enghrau. cynharaf o'r e.c. *sibyl* 'proffwydes (oraclaidd), dewines' yn *ib.* 3268.
- 43 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 44, 52.
- 51 **anianol** 'Yn perthyn o ran gwaed', gw. GPC² 310, ond yma 'yn perthyn o ran natur neu gynneddf'.
- 57 **Eli** Gallai fod yn e.c. 'ennaint', gw. GPC 1206, ond gelwir Hywel ap Gwilym yn *Eli* ac yn *Enog*, gw. 5.17–18n. Gall *Eli* fod yn ffurf ar *Elias*, a chan ei fod wedi ei enwi yn ll. 40n efallai mai'r gŵr a oedd yn offeiriad yn Seilo ac yn farnwr ar Israel yw hwn. 'Diau fod Eli yn ei ddydd yn ŵr o gryn ddyllanwad', gw. GB 511.
- 58 **Eliud** Sant sydd yn fwy adnabyddus wrth ei enw anwes, sef Teilo, a ffurfiwyd trwy ychwanegu'r rhagddodiad *ty-* at yr elfen *el* + y terfyniad *-iaw*, gw. BDe 42, a cf. y ffurf *Tyfaelog* yn 16.51n. Ar hanes y sant ei hun, gw. LBS iv, 226–43.
- 60 **'y nuw bydol** Tybed ai cyfeiriad at Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, yw hwn am ei fod ef a Gwilym Dew yn rhannu'r un enw bedydd? Os felly canwyd y cywydd cyn ei farwolaeth annhymig yn 1469. Ar ganu'r bardd iddo, gw. cerddi 66–9. Cafodd y bardd achlysur arall i enwi Arglwydd Herbert mewn cywydd i Hywel Dew, mab Gwilym Dew, gw. 4.37n.
- 61 **Iolo** Y bardd Iolo Goch, ac arno gw. CLC² 363–4; D. Johnston, *Iolo Goch* (Caernarfon, 1989). Naturiol tybio y byddai Hywel Dafi yn gyfarwydd ag enw bardd yr awgrymwyd bod ei waith yn gysail ar gyfer holl ganu mawl y 15g. a'r 16g., ond a oes yma awgrym fod Hywel yn gyfarwydd â chywyddau unigol, megis y cywydd i ofyn march lle y myn Iolo: *Hwy y pery na haearn / Gwawd na march, gwydn yw fy marn*, GIG XII.15–16. Ymddengys fod yr un syniad yn cael ei ailadrodd yma, ond mewn dull mwy cynnil, ac yn ll. 29 *Uwch yw awen no chywoeth*. Cyfeiria Hywel Dafi at Dudur a Goronwy mewn dau gywydd arall, sef o bosibl Tudur ap Goronwy a Goronwy ei fab, gw. 6.19n, 62.19n, a gwyddys i Iolo gyfarch y teulu, gw. GIG cerddi V, VI.
- 61–2 **Adeiliais ... / Adeiliwyd** Rhestrir y ffurfiau *adeilio* ac *adeilo* yn GPC² 39. Y ffurfiau a gofnodwyd yn Pen 67 oedd *adeilies* ac *adieliwyd*, yr olaf yn ddiau yn wall am *adeiliwyd*. Ymddengys mai *adeila* y bwriedid ei gyfleu yn 22.21 *Da adeila Duw hudoliaeth* (Pen 67 *da i deila*). Gw. ymhellach 'Rhagymadrodd' td. 38.

61–2 **yt ... / ... yd** Diwygiwyd y rhagenw yn ail fraich y cwpled er mwyn y gynganedd, ond digwydd *yd* ar achlysuron eraill, e.e. 66.49 *Duwolaid* oedd *yd*, *Wiliam*, cf. Atod.II.19 *Erchi yd arch o eidion*.

62 **golud Io** Cyfeirid at dduwioledeb ac at ddewrder Job, gw. GLD 15.5n; GSH 12.58n, ac at ei gyfoeth hefyd, cf. 2.7 *Io oludog Elidir*. Gw. ymhellach A. Breeze, ‘Aur Job’, *LICy* 17 (1992–3), 134–7. Yr oedd Job hefyd yn enwog ar gyfrif ei ddoethineb, cynneddf a fawrygir yn y cylch o gerddi i deulu'r Argoed.

2

Y mae'r cywydd hwn yn fyrrach na'r rhan fwyaf o gywyddau'r bardd a gofnodwyd yn Pen 67, ond ymddengys ei fod yn gyflawn. Ychwanegwyd y sylw *Cowydd da i Wilim* yn Pen 99. Trafodir y cywydd hwn a cherdd 3, a chynigir golygiad ohonynt, yn ysgrif D.J. Bowen, ‘Tri chywydd gan Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys’, *Dwned*, 5 (1999), 71–88.

1 **tŷ Gwilym** Cyffredin oedd treiglo'r e.p. mewn ymadrodd genidol yn dilyn eb. ond digwydd hynny yn achlysurol hefyd yn dilyn eg., gw. Treigladau 105–6, 108–9. Ni threiglir yma ond gthg. *tŷ Gurig* yn ail fraich y cwpled, 5.54 *I dŷ Dduw wedy'i ddiwedd*, 9.23 *Dau genau i dŷ Gynog*, 62.19 *Mawr fu'r sôn am dŷ Ronwy*, 99.2 *A dyfasai'n dŷ Foesen*. Fel arfer cysefin yr e.p. sydd yn dilyn eg. mewn ymadrodd genidol yng nghanu'r bardd, ond manteisir ar y cyfle i dreiglo fel y prawf y parau a ganlyn: i. *had* 15.50 *Ceyrydd had Ruffudd, hyd Ros*, 59.38 *Hardd fydd had Dafydd hyd hon*; ii. *hil* 8.9 *Hael yw gwylan hil Gwilym*, 22.11 *Gwedy Briaf, hil Ddafydd*; iii. *wŷr* 8.11 *Ŵyr Dafydd aeth ar dyfiad*, 40.7 *Ŵyr Domas, darian fras fraith*; iv. *hebog* 9.36 *Tri hebog Fadog o'i fedd*, 18.4 *Hebog Brycheiniog, braich ym*. Yn achlysurol treiglir yr e.p. yn dilyn e.ll. hefyd, gw. 10.32 *O dai Wilym un daliad*, 74.44 *Parau Grist yn pori grug*, 94.32 *A dynion G'redigion deg*.

3 **Hywel** Gw. nodyn brig cerdd 1. Yr oedd Dafydd Gam yn frawd iddo.

5 **Einion** Einion Sais. Ar y cyswllt, gw. nodyn brig cerdd 1. Y mae'r cyfeiriadau ato yn niferus iawn yn y canu i'w ddisgynyddion. Yn ôl Theophilus Jones bu'n gwasanaethu yn Crécy a Poitiers a meddai ar diroedd helaeth yn Nefynnog, gw. HCBrec i, 159–60. Enw arall ar gastell Rhyd-y-briw oedd Castell Einion Sais, gw. 35.34n.

6 **Rhôn** Gw. 1.3n a'r awgrym fod Hywel wedi bod yn ymladd yn Ffrainc gyda'i frawd Dafydd Gam.

7 **Elidir** Gw. 1.10n.

11–16 Ceir yn y llau. hyn, ac yn llau. 29–32, ‘ddisgrifiad gan fardd digon cyffredin o aelod digon cyffredin o'r dosbarth annibynnol hwn [o uchel-

- wyr]’, gw. BHLIG 116–17.
- 11–22 Dyfynnir y llau. hyn yn PC xvi–xx mewn trafodaeth ar ddysg y beirdd a’u noddwyr.
- 12 **synnwyr y saith** Cynigiodd D.J. Bowen, ‘Tri chywydd gan Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys’, *Dwned*, 5 (1999), 82, y dylid deall yma’r saith gangen ar ddysg, y saith gelfyddyd freiniol, ond gan fod cynifer o gyfeiriadau yn y canu at Saith Doethion Rhufain, awgrymir bod y bardd yn eu henwi hwy er mwyn pwysleisio craffter a doethineb ei noddwr, cf. 1.31–2 *Doethder ... / Y saith hen sy i’th wyneb* yng nghywydd cyntaf Hywel Dafï i Wylm Dew. Deellir hwn yn gyfeiriad at Ddoethion Rhufain yn PC xvii–xviii.
- 14 **Morfudd** Cariadferch Dafydd ap Gwilym. Nid yw’r cyfeiriadau ati yng nghanu’r beirdd yn niferus iawn, ond cf. GDID XIX.49–50 *Pleth Degau’n plethu deugoed, / Pleth Forfudd ar wýdd a roed*. Crynhoir yr hyn sydd yn wybyddus amdani yn ysgrif D.F. Evans, DG.net, ‘“Myn Pedr, ni wn pwy ydwyd”, ar drywydd Dafydd ap Gwilym’, 13–17. Copïodd Hywel Dafï gywydd Dafydd ‘Hwsmonaeth Cariad’ sydd yn enwi Morfudd yn Pen 67, gw. DG.net cerdd 109; Peniarth MS. 67, cerdd XIV.
- 15 **cerddwriaeth** ‘Cerddoriaeth, prydyddiaeth, crefft neu gelfyddyd cerdd dafod a cherdd dant’, gw. GPC 467.
- 16 **canuau** Un o ffurfiau ll. *canu*, gw. GPC 419. Mabwysiadwyd y darlleniad *canuau* yn Pen 99, sef un o ffurfiau ll. *cân*, gw. GPC 407.
- 17 **dengwyr** Bydd ffurf l. yr e. yn dilyn y rhifolion yn gyffredin mewn Cym.C., gw. GPC 917; GMW 47; Treigladau 131. Yng nghanu Hywel Dafï digwydd y ffurfiau ll. *gwýr, brodyr* a *maib* yn gyson (er nad yn ddieithriad) yn dilyn y rhifolion, e.e. i. *gwýr* ll. 17 *dengwyr*, 6.17 *trywyr*, 8.56 *chweugeinwyr*, 58.52 *wythwyr* ond gthg. 21.1, 103.28 *cannwr*, 79.43 *pumcannwr*; ii. *brodyr / broder* 20.26 *naw brodyr*, 45.1 *dau frodyr*, 47.46 *tri broder*; iii. *maib* 9.47 *pumaib*, 21.64 *pedwarmuib*, 32.41 *chwemaib* ond gthg. 9.51 *deufab*. Llai cyffredin yn y canu yw’r ffurfiau yn 21.56 *pedwar cyrn*, 56.20 *naw merched*, 56.44 *chweugeinmeirch*.
- 19 **o threir** *o thewir* a ysgrifennwyd yn gyntaf, ond diwygiwyd gan law ddiweddarach yn *o threir*, a dyma’r darlleniad a ddilynwyd yn Pen 99. Y darlleniad hwn hefyd sydd yn sicrhau bod cynghanedd reolaidd yn y ll. Cyffredin oedd treiglo’n laes yn dilyn y cys. *o* [= ‘os’], gw. Treigladau 374–5, ond dewisa’r bardd beidio â threiglo ar sawl achlysur hefyd, gw. 11.53n. Gyda golwg ar y ffurf ddiwygiedig, diau mai *treio* ‘rhoi prawf ar’ sydd yma, gw. GPC 3578 d.g. *treiaf*² lle y dyfynnir enghrau. o’r 15g., yn hytrach na *treio*¹ ‘adlifo, cilio’.
- athrawion** Rhestrir *athrawion* yn un o ffurfiau ll. *athro* yn GPC² 531–

- 2, ond y cwpled hwn yw'r unig engh. gyfoes a restrir. Ond yn 79.60, sydd unwaith eto yn llaw'r bardd, ceir *athrawaeth*. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.
- 20 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn ll. 36.
- 23 **credo** 'Crynodeb ffurfiol o'r athrawiaeth Gristionogol, cyffes ffydd', gw. GPC 586. Yr oedd datgan Credo'r Apostolion yn rhan ganolog o'r gwasanaeth bedydd yn yr eglwys, gw. ODCC³ 430. Er gwaethaf y ll. gyntaf, cywydd crefyddol yw'r cywydd sydd yn dechrau â'r ll. *Credaf i Naf o nefoedd* a briodolir i Ddafydd ap Gwilym ac i sawl bardd arall, nid cywydd sydd yn mydryddu'r credo. Ond y credo ei hun yw pwnc cywydd a roddir i Ddafydd ab Edmwnd yn BL Add 15010, 23^r ac sydd yn dechrau *Credaf yn un Duw croywdad / olhalhuawg rowiawg rad / creawdwr awdwr ydoedh / dauar a nef da ran oedh / credaf yn Iesu yn hroywder / i un mab yn arab ner / a gad o rad nis gwadan / yr ysbryd gloyw hyfryd glan*.
- 25 **ni pheidia'** Ymddengys mai ffurf 3 un.amhff.myn. sydd yn Pen 67, ond person cyntaf y f. sydd yn y tair ll. arall, llau. 23–4, 26, ac felly dilynwyd y diwygiad a gynigiwyd yn Pen 99, sef *Ni pheidia' â'i glod*.
- 26 **pader** 'Gweddi', ond yn benodol Gweddi'r Arglwydd yn dilyn geiriau agoriadol y weddi honno yn Llad., sef *Pater Noster*, gw. GPC 2666; ODCC³ 996.
- 28 **twyllir** Ailadroddir y syniad yn yr ymryson rhwng Guto'r Glyn a Hywel Dafî, gw. 67.71–2 *Och am rai (o chaem ei ran!) / A'i twyllai o Went allan*, ac ateb Hywel Dafî yn 68.37–8 *Bryd swrn o baradwys Went / 'Y nhwylllo; hyn ni allent*. Cf. hefyd 43.51–2 *Nid anodd gwahodd dyn gwan / Ni thwyllir o'i nyth allan*. Ond y mae'r trawiad yn un cyffredin. Dau fardd arall sydd yn ei arfer yw Llywelyn ap Gutun ac Ieuan Deulwyn, gw. GLIGt 16.3–4 *Llawer dydd â'th gywydd gwan / Y'm twyllaist o'm tŷ allan*; ID XII.26 *ni thwyllir oi thy allan*.
- 32 Am ei fod yn enwi Morfudd, cariadferch Dafydd ap Gwilym, yn ll. 14, nid annichon fod Hywel Dafî yn dwyn i gof gywydd Dafydd i ddiolch i Ifor am fenyg, DG.net 15.16 *A mwnai ym mhob maneg*. Ailadroddir un o lau. Dafydd mewn cywydd arall o waith Hywel Dafî, a barnai E. Rolant fod yr adleisio yn fwrriadol, gw. 80.21n. Y mae lle i gredu bod Hywel Dafî yn gyfarwydd â rhai o gywyddau Iolo Goch hefyd, gw. 1.61n.
- 35 **profiadwy** Ymhlith yr ystyron a roddir i *profadwy* ceir 'y gellir rhoddi prawf arno; wedi ei brofi a'i gael yn dderbyniol (am berson); cymeradwy'. Nododd D.J. Bowen, *op.cit.*, mai yn Pen 67 y digwydd yr unig engh. o'r ffurf *profiadwy* a restrir yn GPC 2902 lle y dyfynnir y ll. hon d.g. *profadwy, profiadwy*. Digwydd drachefn yn 30.27 *Ef allai'r tad profiadwy*. Ar arfer y bardd o ychwanegu / hepgor <i>, gw. 'Rhag-

- y madrodd' td. 38 a cf. *athrawion* yn ll. 19n.
- 40 **bynnag fyd** I'r 18g. y perthyn yr enghrau. o'r ymadroddion *bynnag beth* a *bynnag pa'r fodd* a ddyfynnir yn WG 293–4. Am engh. gynharach, o bosibl, cf. GLILL 13.35 *Arbennic aerbynnac g6nel* a'r awgrym *petrus* yn G 86 mai ffurf ar y rhagenw *bynnac* sydd yma.
- 41 **cwynfan** Gellid naill ai ffurf dreigledig *cwynfan* a allai fod yn ferfenw neu yn e., gw. GPC 654, neu ffurf gysefin *gwyn + man*. Awgrymir mai'r gyntaf sydd yma, fel yn 29.17 *Un gwan o chwynfan, ni chenfydd—ei raid*.
- 43 **oes Gwilym** Treiglo'r e.p. yn dilyn eb. mewn ymadrodd genidol oedd yr arfer, gw. 2.1n, ond ni ddigwydd hyn bob tro yn y canu. Dengys y gynghanedd fod rhaid wrth y gysefin yma ac yn 6.45 *Torres gwayw plaid Rhys gywir*. Ceir enghrau. o dreiglo ac o gadw'r gysefin yn dilyn *hil* (a all fod yn eg. neu yn eb., gw. GPC 1866): 9.31 *Dwyn teyrnedd hil Bleddyn*, 18.3 *Hael a galawnt, hil Gwilym*, 9.32 *Dadwraidd hil Dewdwr oedd hyn*, 50.7 *Hil Fleddyn, hil Iestyn lwyd*.

3

Ceir testun o'r cywydd hwn yn D.J. Bowen, 'Tri chywydd gan Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys', *Dwned*, 5 (1999), 71–88. Ar gartref y noddwr y mae'r pwyslais yn y cywydd hwn, ac fe'i cyffelybir i Ehangwen, neuadd Arthur, i lys iarll Warwig, ac i adeiladau Caerfaddon. Yn adran agoriadol y cywydd (llau. 5–12) cyferchir Gwilym Dew a'i wraig, Margred, am yn ail fesul cwpled.

- 3 **un dâl** Gall *un*, pan fydd yn gyfystyr â 'cyffelyb', beri treigladd meddal i'r eg. sydd yn dilyn, gw. Treigladau 39–40, ac am enghrau. eraill cf. ll. 6 *Nid un gwlm a dynn gweilydd*, 4.50 *Onid ydywch un dadau*, 10.32 *O dai Wilym un daliad*. Ni restrwyd pob engh. am fod y treigladd yn un mor gyffredin.

tâl Gellid naill ai 'talcen' sydd yn ategu'r disgrifiad *un ffrïw* yn ll. 2, neu 'taliad' (am fwyd a diod), ystyr sydd yn ategu *un swllt* (ll. 4), gw. GPC 3424–5 d.g. *tâl*^{1,2}.

Calais Rhaid ynganu'r gair fel y sillefir ef er mwyn sicrhau odl. Felly hefyd ar saith achlysur yn y cywydd 'Sawdwy'r Calais' o waith Robert Leiaf, gw. *Llen Cymru*, gol. T.G. Jones (Caernarfon, 1921). Cf. y modd yr odli'r *Calais / trais* yn GLGC 31.7–8, a'r gyfatebiaeth gynganeddol yn *ib*. 69.8 *yw Calais wen Cil-y-sant*.

- 4 **neuadd Einion Sais** Gw. nodyn brig cerdd 1 ar y cyswllt. Y Castell Du neu gastell Rhyd-y-briw oedd pencadlys Einion Sais, gw. 35.34n.
- 5 **cwlm** Eg. yn unig yn ôl GPC 640, felly anwybyddwyd y fannod sy'n

rhagflaenu'r e. yn Pen 67. Ychwanegwyd llythrennau yn ddiangen yn y llsgr. ar achlysuron eraill, gw. A.C. Lake, '“O gedais lythr yn eisiau”': llawysgrif Peniarth 67 a'i disgynyddion', LICy 37 (2014/15), 1–18.

- 6 **gweilydd** Dyfynnir y cwpled yn GPC 1619, a rhoddir i *gweilydd* yr ystyron 'gwag, dihidio, ofer'. Awgryma orgraff Pen 67 a *dynn gweilydd* mai bf. wedi ei holynu gan e. sydd yma, a bernir felly fod swyddogaeth enwol i *gweilydd* 'gŵr ofer, disylwedd'. Mabwysiadwyd y darlleniad *dyn gweilydd* yn Pen 99.
- n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 26, 28.
- 7 **Margred** Gwraig Gwilym ap Hywel, er mai dyma enw mam Gwilym hefyd. Ni chafodd ei henwi yn y ddau gywydd blaenorol. Ei thad oedd Siancyn (ll. 11) ap Rhisiart ap Siancyn o Aberysgir, gw. WG1 88. Canodd Hywel Dafi i'w nai, sef Tomas ap Siancyn Fychan ap Siancyn, gw. cerdd 13.
- 10 **eu hwyneb** Mabwysiadwyd y rhagenw 3 ll. gan farnu ei fod yn cyfeirio yn ôl at *dynion* yn ll. 8.
- 17 **i'm mau i** Dilynodd Pen 99 ddarlleniad Pen 67, ond yna dilewyd *m* yn *mau*, a'r darlleniad *au* a ddilynwyd yn Pen 101 a CM 12. Ymddengys nad oedd John Davies yn gyfarwydd â'r ffurf enwol *mau* wedi ei dilyn gan ragenw ôl, ond yr oedd yn ffurf gydnabyddedig a dyfynnir enghrau. eraill yn GPC 2377. Ar *au* 'afu, iau', gw. GPC² 535.
- 21 **yr Argoed** Cartref Gwilym ap Hywel. Gw. nodyn brig cerdd 1.
- 22 Digwydd yr un ll. yn un o gywyddau Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 199.13.
- 23 **ydd awn** Diwygiwyd y geiryn berfol *yr* sydd yn digwydd yn Pen 67 yn *ydd* yn Pen 99 er mwyn sicrhau cynghanedd reolaidd.
- 27 $n = m$, neu *n wreiddgoll* ac *m ganolgoll*. Y mae dynaid o lau. yn y canu sydd yn debyg i hon. Gw. ymhellach 'Cynghanedd' tt. 1–2, 44. Y mae'n ddichonadwy mai croes o gyswllt ac ynddi gyfatebiaeth $n = m$ sydd yn ail fraich y cwpled.
- 28 *n wreiddgoll*, neu gynghanedd groes o gyswllt ac *n* yn ateb *m*, cf. ll. 27n.
- 30 **can mwya'** Y mae *can mwyaf* yn gyfystyr â 'y rhan fwyaf' neu 'yn fwyaf, yn bennaf' yng nghanu Hywel Dafi, cf. 6.27 *Mis Awst gan mwya'* y sydd, 22.36 *Can mwyaf f'oes cyn Mai fydd*, 25.45 *Mawr yw lladd can mwya'r llu*, 37.8 *Mae'r wledd i gan mwya'r wlad*. Gw. GPC 1379 lle y rhestrir yr ymadrodd *gan mwyaf, can mwyaf*.
- 34 **cae Trystan** Arferai cariadon gyflwyno cae i'w gilydd yn arwydd o serch, cf. DG.net cerddi 19, 94. Gall *cae Trystan* olygu cae a roes neu a dderbyniodd Trystan. Ni ddiogelwyd cyfeiriadau at *cae Trystan*, ond cf. *cwlm Trystan* yn GHS 25.45–6 *Clymau, trostiau, cwlm Trystan, /*

- Croestai yn glòs, Cristion glân.* Arwyddai *cae Esyllt*, cariadferch Trystan, rywbeth dethol a gwerthfawr. Ar y ddau gymeriad, gw. TYP³ 331–4, 349–50, ac am rai cyfeiriadau at *cae Esyllt* yng nghanu'r beirdd, gw. GLGC 237.38; GG.net 126.36; GDID XX.18. Cyferbynnir *cae Trystan* yma â *cae mursen* yn y cwpled nesaf. Gall fod yn arwyddocaol fod Trystan yn cael ei restru yn y Trioedd ymhlith *Tri Thaleithyaðc Cat Enys Prydein*, gw. TYP³ 41–2.
- 38 **mwd** ‘Nenfwd neu do bwaog’, gw. GPC 2506; y cwpled hwn yw'r engh. gynharaf a ddyfynnir. Peth gweddol brin oedd neuadd ar y llawr cyntaf a seler ac iddi do bwaog oddi tani, ac efallai na ddylid dehongli'r cwpled hwn yn llythrennol, gw. P. Smith, *Houses of the Welsh Countryside* (second ed., London, 1988), 372–4.
- 39 **gwalau** Diwygiwyd yn *gwaliau* yn Pen 99, ond yn GPC 1564 rhestrir *gwalau* a *gwaliau* yn ffurfiau ll. *gwal*. Ar ychwanegu / hepgor <i> yn Pen 67, gw. ‘Rhagymadrodd’ td. 38.
- Môn** Nid oes tystiolaeth i Hywel Dafï ymweld â Môn ac nid oes yr un gerdd o'i waith ar glawr i noddwr o'r ynys. Enwir Môn yn ôl pob tebyg er mwyn cyfleu'r syniad fod rhaid teithio ymhell i weld cartref tebyg i'r Argoed. Fodd bynnag, gwyddai'r bardd am ddisgynyddion Ednyfed Fychan, gw. 62.19n.
- 42 **tai** Esboniodd I.C. Peate, *The Welsh House* (Llannerch, 2000), 113–14, fod y cyfeiriadau at *dai* yn lluosog yng nghanu'r beirdd am fod y cartref traddodiadol yn cynnwys nifer o adeiladau annibynnol. Cf. 85.78 *I dai diddos dy dyddyn*.
- Warwig** Lle sydd gryn bellter i ffwrdd—a'i enwi, felly, yn ffordd o gyfleu helaethrwydd grym a dylanwad y noddwr—yw hwn yng ngolwg Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 126.27 *ar gwmin werin hyd gaer Warwig—gron*. Efallai mai cyswllt Richard Neville (1428–71), yr unfed iarll Warwig ar bymtheg, â'r rhan hon o Loegr, sydd yn esbonio'r cyfeiriad y tro hwn. Yr oedd yn ffigwr blaenllaw iawn ond byddai'n gyfarwydd i'r Cymry am ei fod yn hawlio arglwyddiaethau'r Fenni a Morgannwg, gw. DNB² 40, 528–37. Yn ôl iarllles Warwig, *Warwick Castle and its Earls* (London, 1903), 146, ‘There was now no greater landowner in the country’. Ar ei orchymyn ef y dienyddiwyd Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, gw. WWR² 106–7, ac awgryma'r cyfeiriad canmoliaethus hwn fod y cywydd wedi ei ganu cyn 1469. Dywed Guto'r Glyn iddo ymweld â thref Warwig wrth iddo werthu defaid ar ran Syr Bened, gw. GG.net 44.24.
- 43–6 **Ffyllib, / ... Tre-gib, / ... Elidir** Dau o hynafiaid Gwilym o du ei fam, gw. 1.10n. Yn Nhre-gib ger Llandeilo y cartrefai ei theulu.
- 48 **cwpl** GPC 645, ‘Un o ddwy geibren ar ogwydd yn cyfarfod â'i gilydd ym mrig adeilad ac wedi eu cysylltu ynghyd yn y bôn gan rwymbren yn

gorffwys ar y muriau er mwyn bod yn brif gynhaliaeth i'r to'.

- 51 **teirlllys Arthur** *Teir Prif Lys Arthur: Kaerllion ar Wysg yg Kymry, a Chelli Wic y Ghernyw, a Phenryn Rioned yn y Gogled*, gw. TYP³ 223. Ar Arthur, gw. WCD 26–9; CLC² 26–8.
- 52 **plas tai Fflur** Tŷ'r Sistersiaid yn Ystrad-fflur.
- 53 **y Fan** Gw. 31.2n.
- 55 **Ehangwen** Enw neuadd Arthur, gw. WCD 28, a cf. GGH 38.51–2 *Newydd yw y neuadd wen, / Naw ehangach no 'Hangwen*. Yn chwedl 'Culhwch ac Olwen', enwir *Gluydyn Saer a wnaeth Ehangwen neuad Arthur* ymhlith y marchogion a fydd yn cynorthwyo Culhwch i ennill Olwen yn wraig, gw. CO 10.
- 57 **cwrt** Arferir y ffurfiau *cwrt* a *cwrđ* yn Pen 67, gw. 'Geirfa'. Prawf y gynghanedd mai *cwrt* yw'r ffurf gywir yn 35.25 *Cwrt main lle'r aeth ceirt â mêl* tra ategir dilyrwydd *cwrđ* gan y brifodl yn 89.26 *A llawer cainc gerllaw'r cwrđ*.
- 60 **nawradd** Y gysefin sydd yn dilyn *naw* fel arfer, gw. Treigladau 135, a cf. *naw gradd* (ll. 59), *naw pren* (ll. 61). Ond yr oedd y ffurf gyfansawdd *nawradd* yn gyffredin, gw. GPC 2559.
- 61 **naw pren** Y tri hedyn a gafodd Seth ym mharadwys ac a dyfodd yn dri phren, gw. 99.1–2n a cf. 5.39 *Pren oedd mal nawpren Addaf*.
- 66 **Noe hen** *A Noa a fu fyw wedi'r dilyw dri chan mlynedd a deng mlynedd a deugain. Felly holl ddyddiau Noe oedd naw can mlynedd a deng mlynedd a deugain; ac efe a fu farw*, gw. Gen 9.28–9. Cf. GLGC 76.25 *cwyn Noe hen cyn no hynny, ib. 123.91–2 Uddynt oes Moesen, / a hyd oes Noe hen*.

4

Ymddengys fod y cywydd hwn wedi ei ganu yn fuan wedi marwolaeth Gwilym Dew, tad Hywel Dew, a gŵr a gyfarchwyd gan y bardd ar dri achlysur, gw. cerddi 1–3. Ond ni ddiogelwyd cywydd marwnad o waith Hywel Dafí i Wilym. Bardd arall a ganodd i Hywel Dew oedd Dafydd Epynt. Cyfeiria at y parch a oedd i Hywel ym myd y gyfraith, gw. GDEp 6.39–40 *Os brawdwr, os brau ydwyd, / Ysgwier braisg i'r bar wyd*, ac awgryma'r golygydd fod Hywel wedi dal swydd gyfreithiol o ryw fath. Awgryma hefyd fod peth ansicrwydd ynghylch gwrthrych y cywydd hwn a'r nesaf o'r eiddo Hywel Dafí, gw. *ib.* 105, ond er nad enwir y cartref, sef yr Argoed, yn y ddau gywydd i Hywel, y mae'r cyfeiriadau achyddol yn ddigon clir a diamwys.

- 1 **arnam** Ffurf 1 ll. yr ardd. *ar*, gw. GMW 58. Digwydd yn safle'r odl yn 20.5–6 *Gras y deyrnas arnam / A dyfodd gair Dafydd Gam*, a thrachefn

yn 48.51–2 lle yr ailadroddir yr un cyfuniad *Tyfodd o goed Dafydd Gam / Teyrnaidd; rhad Duw arnam!*

2 **yw fyrhau** Ni ddisgwylid treigladau yn dilyn *yw*, ond am engh. arall bosibl, gw. 75.35n. Gellid diwygio yn *Rhywyr ynn i'w fyrhau'r nos* neu *Rhywyr yw ynn fyrhau'r nos*. Os yr olaf rhaid derbyn ll. ac ynnddi'r bai crych a llyfn, ond digwydd y bai hwnnw mewn dyrnaid o lau. yng nghanu Hywel Dafï, gw. 'Cynghanedd' td. 42.

5 **ail Beli** Y gystrawen wreiddiol oedd cadw'r gysefin yn dilyn y trefnol *ail*, gw. Treigladau 40–1 a cf. 45.7 *Gorau yw'r ail gŵr ei rodd*, 105.40 *Yr ail dydd fo arwyl d'ŵr*. Cedwid y gysefin hefyd pan fyddai *ail* yn cyfleu'r ystyr 'rhywun cyfartal â', gw. Treigladau 43. Erbyn cyfnod y Cywyddwyr, fodd bynnag, ceid treigladau yn achos y naill gystrawen a'r llall. Cedwir y gysefin yma wrth gyfleu'r ystyr 'rhywun cyfartal â', ond gthg. 17.4 *Fychan, ail Gynan Gwynedd*, 32.14 *Ail Wilym fu Lywelyn*. Treigilir ar ôl y trefnol yn 44.33 *O Dref-wern, ail Droea fawr*, 69.5–6 *Ninnau a wnawn ... / Ail gronigl i Loegr unwaith*.

Beli Gallai fod yn gyfeiriad naill ai at Feli ap Dyfnwal neu at Feli Mawr, mab Manogan. Yr olaf oedd tad y ddau frawd Lludd a Llefelys a roes eu henwau i'r chwedl 'Lludd a Llefelys', gw. TYP³ 288–91; WCD 38–9. Cyfosodir y ddau frawd Lludd a Llefelys yn un o gywyddau'r bardd, gw. 80.54n.

6 'A hŷn na thi i'th ofyn'.

7 **Adam** Disgynnai teulu'r Argoed o Hywel ab Einion Sais. Rhys ab Einion Sais, brawd Hywel, oedd tad Adam, sef un o hynafiaid Hywel Dafï ei hun, gw. WG1 107.

Elidir Gw. 1.10n.

9 **Rhydderch** Fe'i henwir, ynghyd â Nudd a Mordaf, yn y triawd *Tri Hael Enys Prydein*, gw. TYP³ 5, 493–5 a 13.17n.

10 **Einion Sais** Gw. nodyn brig cerdd 1 a 2.5n.

15 **gŵyr Dduw** Gw. 45.45n.

18 **goreilid** Rhoddir yr ystyron 'poen, gofid, gwasgfa, gormes; baich, pwys, trymder' yn GPC 1473.

22 Cf. 57.28 *A phrynu holl Gymru i gyd*.

Cymru Arferid y ffurfiau *Cymru* a *Cymry* wrth gyfeirio at y wlad, ac yn ddiweddarach y dechreuwyd arfer *Cymry* wrth gyfeirio at y bobl, gw. GPC 771. Er mwyn sicrhau nad oes amwysedd, mabwysiadwyd *Cymru* yn y golygiad wrth gyfeirio at y wlad, a *Cymry* wrth gyfeirio at y bobl, ond os cofnodwyd y naill ffurf neu'r llall yn wahanol yn y llsgrau., nodwyd hynny yn yr 'Amrywiadau'.

23 **cafad** Ffurf fwyaf cyffredin *cael* yn yr amhrs.grff. *yw cad* ond nodir y

ffurf *caffat* yn G 94 hefyd. Y mae'r odl yn mynnu'r ffurf afreolaidd *cafad* yma a cf. 13.41–2 *Odid borau i'th neuadd / Na chafad gleisiad o gladd*, 20.39 *Yn y cefn yno cafad*. Hefyd IGE² LXXVII.50 *Llyfr mad, a gafad o'i goffr*. Y ffurf *cad* sydd yn 7.19 *Pwy fry o Gymru a gad*, 12.50 *O deirw y'u cad Warwig gynt*, 18.34 *Dwy gad a gad o'r un gŵr*, 55.33 *Ni chad na'i hendad na'i hŷn*, 95.61 *Hyd pan gad, daliad dilys*.

- 25 **ni th'wyllwyd** Pen 67 *ni thyllwyd*, ac fe'i dilynwyd gan Pen 99. Diau mai'r f. *tywyllu* sydd yma yn hytrach na *twyllo*, ond cf. 2.28n *O'm tŷ allan ni'm twyllir*.
n wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 26, 27, 28.
- 29 **Merddin** Cyfeiria Hywel Dafu yn 19.31n at ddau Fyrddin, sef Myrddin Wyllt, mab Morfryn, a'r dewin Myrddin a enwir ym Mrut Sieffre, ac ar y ddau gw. WCD 492–500. Cynullwyd rhai cyfeiriadau sydd yn dwyn i gof ddoniau Myrddin Wyllt fel bardd ac fel dewin yn TYP³ 458–62. Ond bernid bod Myrddin Emrys yn fardd hefyd. Yn ôl un o'r Trioedd, *Tri Bardd Kaw oedd yn Llŷs Arthur: Myrddyn vab Morvryn, Myrddin Embrys, A Thaliessin*, gw. *ib.* 228. Cf. hefyd GLMorg 44.49–50 *Mawrddawn wawd Myrddin ydwyf / A'r brud i Iarll Harbard wyf*.
- 31–2 Y mae'r cwpled yn bur wahanol yn BL Add 31070.
- 37 **Arglwydd Herbert** Am gyfeiriad arall o bosibl at iarll Penfro yn y canu i'r teulu, gw. 1.60n. Yr oedd Hywel ap Gwilym Dew a Wiliam Herbert yn gyfynderwyr. Rhaid dyddio'r cywydd ar ôl mis Gorffennaf 1461 pan ddyrchafwyd Wiliam Herbert yn arglwydd, a chyn 1468 pan wnaed ef yn iarll, gw. nodyn brig cerdd 66.
- 41 **cyfraith ddwyiaith ddig** Ceir cyfeiriadau eraill at feistroli'r ddwy gyfraith, sef Cyfraith Hywel a chyfraith Lloegr, gw. GHS 13.43–4 *Efō a fedrai drōi / Y ddwy gyfraith i'n iaith ni*. Yr hyn sydd yn anarferol yn y cyswllt hwn yw'r a. *dig* sydd yn awgrymu bod y cywydd wedi ei ganu ar adeg pan oedd cryn ddrwgdeimlad rhwng y ddwy genedl. Posibilrwydd arall yw mai'r gyfraith sifil a'r gyfraith eglwysig sydd dan sylw, cf. GLMorg 22.94 *Rhetric, sifil a chanon*.
- 45 **mewn** Dilynwyd ffurf y llsg. Ar gyswllt *mywn* â'r de, gw. P.W. Thomas, 'Cysylltiadau daearyddol *Chwedlau Odo*', YB XIX (1993), 70.
- 45–6 Awgryma Dafydd Epynt, yntau, fod Hywel Dew wedi cael profiad milwrol, gw. GDEp 6.13–14 *Os da gor-ffwys deigr a ffon, / Da yw'r aradr yr awron*.
- 46 **ròd** Gweddai'r ystyr 'tarian' yma, gw. GPC 3083–4 d.g. *rhod*, er mai yng nghanu'r Gogynfeirdd y digwyddai, a barnu wrth yr enghrau., ond awgryma orgraff Pen 67, *a rrod*, y gellid darllen *a'r rod a'r bar*. I'r 16g./17g. y perthyn yr engh. gynharaf o *ròd* 'gwialen bysgota' < S. *rod*, gw. GPC 2987, a phrin iawn yw'r defnydd o'r S. *rod* 'the shaft of a

- spear', gw. OED² xiv, 28, er bod yr engh. gynharaf yn perthyn i tua 1400, ond dyma'r ystyr sydd yn gweddu orau yma, a thrachefn yn 5.12 *Bwrw darn o'r haearn a'r rôd*, a 81.14 *Rhydlafer, wayw rôd lifaid*. Yn GLI 1.75n *Mi a af yr haf llei mae'r rhòd—bennaf*, deallir *rhòd* yn fenthyciad o'r S.C. *rod* 'crucifix'.
- 48 **mainc** Cyd-destun cyfreithiol, a dysg a doethineb y noddwyr, a gyfleir fel arfer gan y cyfeiriadau at fainc, cf. 10.29 *Nid âi i'r fainc dri ar farn* a GLMorg 3.41–2 *Ni wnaen' hwy, wrth bin haearn, / A wnai ar fainc pan roi farn*. Gall gyfeirio hefyd at y neuadd, gw. RWM i, 424 (lle y dyfynnir rhan o eirfa sydd yn Pen 55): *pedeir gradd llys arglwydd ... kyntedd yr iymyn, y radd yr yscwiereid, y feink yr magwyeid (marchogyon), lleithig yr teyrnedd*.
- 53 **ennill gair** Disgwylid treiglad i wrth. y f. 2 un.grch., megis yn ail ran y ll., *ennill gariad*, ond y mae'r gynghanedd yn hawlio'r gysefin. Gellid diwygio yn *ennill gaer*, ond ni fyddai hynny'n gwella'r ystyr.
- 55 **rhent** Pen 67 *rend*, ac fe'i dilynwyd gan Pen 99, ond diwygiwyd yma yn *rent* am fod llau. eraill sydd yn cynnwys y gyfatebiaeth *nt = nd*. Am enghrau. eraill mewn cynghanedd lusz, cf. 7.37 *Nid âi Ddwywent un fendith*, 8.39 *Cyfod rent dy ddau hendad*. Digwydd yr unrhyw gyfatebiaeth mewn cynganeddion cytseiniol hefyd: 8.59 *Cant awdl oedd i'ch cyndeidiau*, 49.19 *Dwywent a lŷn dan dy law*, 54.34 *O'r India Fawr i Went fu*. Gwelwyd un engh. mewn cynghanedd groes o gyswllt, sef 32.61 *Oed a wnaethont; aen' weithian*. Ond y mae'r gyfatebiaeth yn rheolaidd yn 55.14 *Ar hyd Gwent y'i rhoed gyntaf*, 69.25 *Treiglo o Gent i Raglan*. Cf. GG.net 114.57 *Saint mynaich sy'n damunaw*. Am enghrau. diweddarach, gw. GLMorg 23.9n a GSC 15. Gwelir mai geiriau sydd yn cynnwys y cyfuniad *nt* sydd yn yr holl enghrau. hyn. Gw. 'Cynghanedd' td. 43 lle y dyfynnir llau. sydd yn cynnwys y cyfuniad *nc*. Trafodir y gyfatebiaeth yn J. Morris-Jones: CD 218–19, lle yr awgrymir mai yng ngwaith 'dau neu dri o feirdd canol y ganrif' y digwydd hyn, ond yr oedd yn arfer eithaf cyffredin.
- 56 **fflŵr** I'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf o'r gair *fflŵr*¹ 'blawd' yn GPC 1298 tra ceir enghrau. cyfoes o *fflŵr*² 'blodau, blodeuyn; dewisbeth, goreubeth'. Ond y mae'r a. *can* 'gwyn' sydd yn dilyn yn awgrym cryf mai'r cyntaf sydd yma.
- 57 Rhaid cyfrif *cadw* yn air deusill.
- 58 Y mae ll. nid annhebyg yn cloi un o gywyddau Huw Cae Llwyd, gw. HCLI XXXVII.48 *Cadwed Duw y ceidwad hwn*.

5

Gellir bod yn weddol sicr mai Hywel Dew, mab Gwilym Dew ap Hywel, gw. cerddi 1–4, a farwnedir yn y cywydd hwn. Enwir ei wraig weddw, Mawd, yn llinell 47, ac fel yn y cerddi eraill i deulu'r Argoed pwysleisir y cyswllt gwaed ag Einion Sais (ll. 23) ac Elidir Ddu (ll. 19). Mawrygir doethineb a dysg gyfreithiol Hywel yn y cywydd moliant iddo, gw. 4.39–48, ac yn y farwnad gresynir bod *cwnsel* Hywel wedi ei gladdu (llau. 25–6).

2 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 23, 24, 48, 52.

8 **hwyl ddu** Gw. 33.54n.

8–9 **Hywel ... / ... Hywel** Ymddengys mai gwrthrych y cywydd yw'r ail Hywel, ac mai ei daid yw'r cyntaf.

13–14 **Tre ... / Dwrstan** Tredwstan, gw. 40.23n.

17–18 **Eli ... / Enog** Nid oes cyswllt amlwg rhwng y ddau *ŵr* hyn yn y Beibl, ond dywedir i'r naill a'r llall esgyn yn syth i'r nefoedd, gw. Gen 5.24; 2 Br 2.1. Ymddengys na wyddai Hywel Dafi mo hyn am ei fod yn datgan *Eli'r byd aeth i lawr bedd*. Cyplysyr y ddau mewn cyfres o gwestiynau ac atebion a ddiogelwyd yn Hafod 16 *Pwy yssyd yn wylaw yn wastad ymparadwys. Ely ac enoc*, gw. T. Parry, 'Y Gorcheston', B v (1929–31), 138–40; C.E. Byfield and M. Bayless, 'Y Gorcheston: the Welsh *Loca Monachorum* texts, translations and commentary', SC xxx (1996), 197–222. Fe'u cyfosodwyd gan Lewys Glyn Cothi, gw., e.e., GLGC 193.25–6 *Ail fyddaf drwy'r haf yrhawg / Eli gynnill ac Enawg*. Digwydd y ddau enw mewn cywydd marwnad arall a ganodd Hywel Dafi, gw. 32.15–16 *Ail eto Eli ytwyf, / Wylwn, ac ail Enog wyf*, a cf. 50.11–12 *Breuddwyd Eli, bridd dulas, / Ac Enog hen rhag un cas*. Yr oedd Enoch, tad Methusela, yn un o batriarchiaid yr Hen Destament, a dywedid iddo 'rodio gyda Duw', gw. GB 518; ODCC³ 547. Gall *Eli* fod yn ffurf ar *Elias*, un o brif broffwydi cenedl Israel, er mai *Elias* yw'r ffurf yn 1.40n. Swyddogaeth Eli ac Enoch yma yw delweddu penaduriaeth Hywel Dew.

18 **Urien** Gw. ll. 22n.

19 **Elidir** Gw. 1.10n.

20 **du o lir** 'Brethyn du a werthid yn nhref Lyre neu Lierre ym Mrabant yn y Canol Oesoedd', gw. GPC 279 d.g. *blac-y-lir*.

21 **tir Brychan** Sant a gysylltir yn ddaearyddol â Brycheiniog ac a roes ei enw i'r rhan honno o Gymru, gw. LBS i, 303–21; CLC² 66–7. Cafodd nifer o blant a'r rhan fwyaf ohonynt yn saint, gw. 71.85n.

22 **termysgodd** Nis nodir yn ffurf amr. ar *terfysgu* 'cynhyrfu, brawychu' yn GPC 3484, ac efallai mai ffurf a lurguniwyd er mwyn cwblhau

gofynion y gynghanedd sydd yma.

Masgen Ffurf ar *Pasgen* ond odid, a cf. 81.42 *Cun Masgen lun Misgyn wlad*. Ceir y ffurf gysefin *Basgen* (neu *Masgen*) yn ID XXX.37 *try vyssgwr tor o vassgen*. Gallai gyfeirio at *Basgen* ap Gwrtheyrn a fu'n rheoli teyrnasoedd Buellt a Gwerthrynion yn ôl yr 'Historia Brittonum', gw. WCD 527. Dewis arall fyddai ei uniaethu â *Phasgen*, mab Urien Rheged, gw. *ib.* 528. Yr oedd Margred, nain Hywel Dew, yn ferch i Wylm ap Ffyllib ab Elidir Ddu o dylwyth Einion ap Llywarch a olrheiniai ei ach hyd at *Basgen*, gw. WG1 324 a thabl 51; 20.18–20n. Am gyfeiriad arall ato mewn cywydd i un o ddisgynyddion Elidir Ddu, cf. GLGC 34.31–2 *Basgen fab Urien un barch / hyd ganfed o waed Gynfarch*. Enwir Owain ab Urien, brawd *Pasgen*, mewn mwy nag un cywydd, gw. 'Enwau personau'.

- 23 **Einion** Einion Sais, gw. nodyn brig cerdd 1 a 2.5n.
- 24 **tröell** Cyfeiriad at y tair merch sydd yn cynrychioli ffawd ac a ddelweddir yng nghyd-destun gwau a thorri edau einioes, a cf. GG.net 24.41–50n. Am enghrau. eraill o'r un syniad yng nghanu Hywel Dafï, cf. 7.11–12 *Ni bu well o'r dröell draw / Fraich dyn ag fu farch danaw*, 61.7–8 *Gŵn Tomas am gant iemon / A dry lliw y dröell hon*.
- 33 **carenydd** Gellid yr ystyr 'perthynas; câr', ond efallai mai 'cyfeillgarwch' sydd yn gweddu orau yma, gw. GPC 426.
- 34 **cynhennon** Rhestrir y ffurfiau ll. *cynhennon* a *cynhenion* yn GPC 795. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.
- 36 **dwg pen** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. Treigladau 189.

pen y rhwyd Manteisiodd Hywel Dafï ar y ddelwedd gyfoethog hon ar fwy nag un achlysur. Yn y cwpled hwn cyfleir y syniad fod y noddwr yn dal y rhwyd ac yn rheoli â llaw gadarn. Ar y llaw arall gall delwedd y rhwyd gyfleu'r modd y daliwyd ac y cosbwyd pob un yn sgil marwolaeth y noddwr, gw. 7.3 *Treisio'r haul a'm troes i'r rhwyd*, 57.24 *Eich dwyn hyd yn nhrwyn y rhwyd*, 99.43–4 *Mwy fydd cwyn a gynllwynwyd / Êl, fal dur, Hywel, i'r rhwyd*, a cf. GG.net 24.2 *Dwyn yr holl dynion i'r rhwyd*; GRhB 24.1–2 *Morgan Gamais e'ch treiswyd / o waith rhy a wnaeth y rhwyd*; GIGeth 10.51–2 *Felly'r âi'r rheiny i'r rhwyd: / O'n tri Owain y'n treiwyd!* Sicrhau gwaredigaeth rhag helynt oedd un o rinweddau Hywel ap Morgan a'i frodyr yn 15.38 *Fo'i tyn y gwŷr hyn o'r rhwyd*. Awgrymu'r awydd i fanteisio ar haelioni Tomas Fychan a wna Bedo Brwynllys yn ei ymryson â Hywel Dafï yn 52.27 *Nid â'r rhwyd onid â'i rhan*.

- 37 **un ederyn** Un plentyn yn unig a oedd gan Hywel a Mawd yn ôl tystiolaeth WG2 210, sef mab o'r enw Gwilym.
- 39 **nawpren Addaf** Gw. 99.1–2n a cf. 3.61n.

- 41 **felwed** Nodir y ffurfiau *felwed* a *felwed* yn GPC 1268. Unwaith yn unig y digwydd *felwed* yng nghanu'r bardd. Ar *felwed*, gw. 'Geirfa'.
- 46 y **mab unair â mi** 'Y mab o'r un enw â mi', sef Hywel.
- 47 **Mawd** Merch Rhoser ap Madog ap Rhisiart, a gwraig Hywel Dew, gw. WG1 95; WG2 189.
- 49–50 **o'i gwrd ... / ... i'r fort** Dilynwyd darlleniad y llsg. Digwydd *cwrt* a *bord* yn y canu, gw. 3.57n a 35.25 *Cwrt main lle'r aeth ceirt â mêl*, 34.42 *Ni fwriwyd trai ar ford Rhys* (ond nid yw'r gynganedd yn mynnu *bord* yn yr olaf).
- 54 **tŷ Dduw** Cf. 6.55 *côr Duw*. Gall gyfeirio at unrhyw eglwys, wrth reswm, ond cf. y cyfeiriadau at Dŷ Ieuan ac at Dŷ'r Grog, sef Eglwys Ioan yn Aberhonddu, gw. 'Geirfa', 'Enwau personau'. Yn y farwnad i Rys ap Hywel, dywed Hywel Dafï *Yng nghôr Duw mae 'ngharw dwywol*, gw. 6.55, ond ymddengys mai yn eglwys gyfagos Merthyr Cynog y claddwyd ef.
- 55 **rhoes win** Cadw cysefin y gwrth. oedd yr arfer yn dilyn ffurfiau 3 un.grff. yn diweddu ag *-es*, a dyna a wna'r bardd fel arfer, e.e. 26.12 *Trwy law y rhoes traul i'w wŷr*, 26.33 *O rhoes llawer i'n gwerin*, 32.13 *Ail Rys Llwyd, â'i law rhoes llyn*. Yr oedd y treigladau yn dechrau ymsefydlu erbyn y cyfnod hwn, fodd bynnag, gw. Treigladau 216, a threiglir gwrth. *rhoes* ar dri achlysur; yn y ll. hon ac yn 8.8 *O'i law y rhoes lawer rhodd*, 26.34 *Yntau roes ganpant ar win*.
- 55–6 **glyn Rhin ... / ... o Rôn** Dau ddyffryn sydd yn enwog ar gyfrif eu gwin heddiw fel yn yr Oesoedd Canol, sef dyffryn afon Rhein sydd yn llifo i gyfeiriad y gogledd trwy'r Almaen nes cyrraedd ei haber yn yr Iseldiroedd, ac afon Rhôn sydd yn llifo i'r de trwy Ffrainc nes cyrraedd Môr y Canoldir nid nepell o Arles.

6

Dyma'r gyntaf o saith cerdd a ganodd Hywel Dafï i dair cenedlaeth o'r teulu a gysylltir â'r Beili-brith sydd ar lan ddwyreiniol afon Honddu yng nghyrrion uchaf Dyffryn Honddu. Yr oedd Rhys, gwrthrych y farwnad hon, yn fab i Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Trahaearn ap Madog o'r Cwmwd ... ap Madog ap Maenyrch, gw. WG1 663–4. Canodd Hywel Dafï farwnad i'w fab, Hywel ap Rhys, gw. cerdd 7, a moliant i fab arall, Morgan ap Rhys, ac i'w feibion yntau, gw. cerddi 8–12.

Bu'r cartref ym meddiant disgynyddion Maenyrch hyd at ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg. Y mae'r cartref presennol yn perthyn i'r ail ganrif ar bymtheg ond fe'i hadeiladwyd ar safle neuadd ganoloesol bur sylweddol a oedd wedi ei chodi erbyn tua 1500, gw. BWPowys 363; S.R. Jones and J.T. Smith, 'The houses of Breconshire, part III', *Brycheiniog*, xi (1965), 70–2.

Ni thrafodir y cerddi i'r Beili-brith yn NBBM, ond ymdrinnir â thri o'r cywyddau, sef cerddi 8, 10, 11, yn yr adran ar Gastell Madog, *ib.* 67–75. Ni lwyddwyd i adnabod y gwrthrych ym mhob achos, yn rhannol am fod y penawdau sydd yn CM 12 yn gamarweiniol, ac yn rhannol am fod ymgais wedi ei wneud i uniaethu gwrthrychau'r moliant â hynafiaid Tomas Powel a adeiladodd dŷ newydd ar safle'r hen gastell yng Nghastell Madog yn 1588, gw. BWPowys 360–1. Trafodwyd y cywydd hwn o dan Elfael yn NBBM 430–1, a thrafodwyd cerdd 7, hithau, ar wahân heb sylweddoli mai i'r un teulu y canwyd hi, gw. *ib.* 64–5.

- 1 **gwayw** Fe'i dosbarthwyd yn yr eirfa o dan yr ystyr 'poen, dolur', ond gellid 'gwaywffon' yma.
- 5 **yr haf** Yn ystod yr haf y bu farw Rhys, a cf. llau. 27–8.
- 9 **dwylfol** Y mae'r gynghanedd yn galw am y ffurf hon yma, ond yn ll. 55 rhaid wrth y ffurf amr. *dwylwol* 'buceddol, defosiynol', gw. GPC 1108.
- 12 **câr** Yng nghanu'r bardd y mae'n gyfystyr â i. 'cyfnesaf, perthynas trwy waed' neu ii. 'cyfaill, cydymaith, anwylyd', gw. GPC 422, ond ni ellir bod yn gwbl sicr bob tro pa un o'r ddwy ystyr a gyfleir.
- Pawl** Nid yr apostol ond y sant Paulinus neu Beulin, nawddsant Llangors. Fe'i coffeir yn fwyaf arbennig yn sir Gaerfyrddin ac yn ardal Llanymddyfri. Ymddengys ei fod yn hanu o Benychen ac iddo astudio o dan Illtud yn Llanilltud. Tebyg mai ef a roes ei enw i San Pol yn Llydaw, gw. LBS iv, 72–5, 75–86; WCD 529–31; G.H. Doble, *Lives of the Welsh Saints*, ed. D.S. Evans (Cardiff, 1971), 146–61. Yr oedd yn un o'r rhai a roes hyfforddiant i Ddewi: *Odyna yd aeth Dewi hyd att athro a elwit Paulinus*, gw. BDe 5.
- y Beili** Fferm y Beili-brith oedd y fwyaf ond un ym mhlwyf Merthyr Cynog yn ôl map degwm 1840.
- 14 Bai crych a llyfn; gw. 'Cynghanedd' td. 42.
- 17 **torri'r farn** 'Datgan neu draddodi dyfarniad', gw. GPC 3532, a cf. GG.net 104.55–6 *Duw o'r byd i dorri barn / Aeth ag Edwart ddoeth gadarn*, 114.2 *Awdur byd i dorri barn*.
- 17–22 **Trywyr ... / ... / Pumed** Anodd atalnodi llau. 15–22 yn foddhaol am nad yw'n eglur a yw Rhys yn cael ei bortreadu yn bumed gŵr doeth neu yn bumed gŵr cadarn. Bernir bod y bardd yn cyfeirio yn y lle cyntaf at dri gŵr doeth (ll. 17 *trywyr*) er mai dau a enwir, sef Addaf a Bedaf, gw. TYP³ 135, a cf. 1.4n lle yr enwir y ddau hyn ynghyd â Chado a Sibli. Yna dygir i gof y triawd *Tri Dyn a gauas Kedernit Adaf*, gw. TYP³ 129–30, a mynnir bod Rhys yn fwy grymus na'r tri. Nid enwir yr un o'r tri, sef Ercwlff, Ector a Samson, ond enwir pedwar yn llau. 19–20 a oedd yn hynod ar gyfrif eu grym, sef Tewdwr a Thudur, Selyf ac

Absalon. Gwelir bod dau yn perthyn i Gymru a dau yn gymeriadau a enwir yn yr Hen Destament. Yna ychwanegir enw Rhys at y pedwar hyn yn bumed gŵr cadarn. Mewn awdl a ganodd Lewys Morgannwg, cyplysir Selyf ac Absalon â milwyr ac arwyr chwedlonol, gw. GLMorg 1.37–8 *O bu ŵr Sioswy a brau Siason, / Ac o bu Selyf ac Absalon ...*

- 19 **Tewdwr Mawr** Tad Rhys ap Tewdwr a ddaeth yn frenin Deheubarth, gw. ByCy 790 a'r achres yn J. Davies: HC 80–1. Priododd Bleddyn ap Maenyrch ag Elen, merch Tewdwr Mawr, gw. WG1 85, 847.

Tudur ym Môn Tudur (m. 1367) ap Goronwy ap Tudur Hen yn ddiau. I'r teulu hwn y perthynai Penmynydd, Trecastell ac Erddreiniog. Ar y canu i'r teulu, gw. GGMD i, 11–12, ac ar hanes y teulu, gw. AWH penodau VI a VIII. Wrth gyfarch Tomas ap Ffelpod cafodd Hywel Dafi achlysur i gyfeirio at gartref Goronwy ap Tudur, gw. 62.19n *Mawr fu'r sôn am dŷ Ronwy*. Am ei fod yn enwi Iolo Goch yn un o'i gywyddau tybed ai trwy ei ganu ef y gwyddai Hywel Dafi am y noddwr hwn? Gw. 1.61n.

- 20 **Selyf** Mab Dafydd a Bathseba a thrydydd brenin Israel. Fe'i cysylltir yn fwyaf arbennig â'r deml a adeiladwyd yng Nghaersalem, gw. GB 1304–6; ODCC³ 1516.

Absalon Trydydd mab y Brenin Dafydd, gw. GB 20. Yr oedd ei harddwch yn ddiarhebol, gw. TYP³ 134 *Tri dyn a gauas pryt Adaf: Absalon ab Dauyd ...*, a cf. GLGC 96.27–8 *A fu un mor deg o Fôn—i Gaerdyf, / oni bai Selyf neu Absalon?*

- 21 **pedair ynys** Nid yw'n amlwg at ba ynnysoedd neu diroedd y cyfeirir. Perthynai *Teir Prif Rac Ynys* i Brydain, sef *Mon, a Manaw, ac Ynys Weir*, gw. TYP³ 249. Yn ôl cred yr Oesoedd Canol, yr oedd tair rhan o'r byd y gellid preswyllo ynddynt, gw. DrOC 118 *Vn yw yr Asia, arall yw Europa, trydedd yw yr Affrica*.

- 24 **Dwy Elfael** Rhannwyd cantref Elfael yn ddau gwmwd, Is Mynydd ac Uwch Mynydd, gw. WATU 66.

- 26 **eithia'** Ni restrir *eithiaf* yn GPC 1202 yn amr. ar *eithaf*, ond cf. 35.16 *Aeth â'r wlad i eithia'r lan*. Hefyd GDEp 16.26 *Dy nerth aeth hyd North eithiaf*, ond gthg. *ib.* 19.35 *Lliw'r brethyn o'r llwybr eithaf*. Diogelwyd y ddau gywydd dan sylw yn llaw Dafydd Epynt ei hun yn Pen 55. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.

Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll.

- 30 **cenedi Ifor** Yr oedd Ifor Goch yn un o hynafiaid Cristi, gwraig Hywel ap Dafydd, gw. WG1 600. Yr oedd Rhys ei hun yn briod ag un o ddisgynyddion Llywelyn ab Ifor. Yr Ifor enwocaf a berthynai i'r tylwyth hwn oedd Ifor Hael, mab Llywelyn, gw. WG1 202.

- 31 **ym** Ffurf sydd yn cyfateb i *myn* ac a ddefnyddir mewn llw, a hynny yn

fynych o flaen enw Duw neu enw sant, gw. GPC 3754 a cf. 37.63 *Od air i'r ffair, ym teirdelw Fair*.

Marthin Yr oedd Martin o ddinas Tours yn un o saint mwyaf poblogaidd yr Oesoedd Canol, gw. ODS 265–6. Yn y testun ‘Buchedd Dewi’, esbonnir *Ac yn y mod y rodes Duw Matheus yn Iudea, a Lucas yn Alexandria, a Christ yng Kaerusalem, a Phedyr yn Ruuein, a Martin yn Ffreingk, a Sampson yn Llydaw, y rodes y Dauyd Sant uot yn Ynys Prydein*, gw. BDe 18. Cyfieithwyd ei fuchedd o'r Llad. i'r Gym. gan ŵr o'r enw Siôn Trefor, ac fe'i cofnodwyd yn LIGC 3026C [= Mos 88] yn llaw Gutun Owain, gw. *Buchedd Sant Martin*, gol. E.J. Jones (Caerdydd, 1945). Bernir bod Siôn yn fab i un o noddwyr Guto'r Glyn, gw. GG.net 104.43–4n.

Merthyr Ym mhlwyf Merthyr Cynog yr oedd cartref y teulu, sef y Beili-brith. Yno y claddwyd Rhys ap Hywel.

34 **dan llef** Ar y calediad hwn, gw. Treigladau 386 a cf. 35.20 *Dyn llwfr ffalst dan llef ar ffo*.

41 **ewythr** Defnydd trosiadol o'r gair sydd yma. Nid oedd cyswllt gwaed rhwng Hywel Dafï a Rhys ap Hywel, ond yr oedd Hywel Dafï a Siwan, merch Llywelyn ap Gwilym, ac ail wraig Rhys ap Hywel, yn gyfyrdyron, gw. WG1 109.

48 **y Cwmwd** Diau mai e. lle ydyw yma. Yr oedd Madog o'r Cwmwd yn un o hynafiaid Rhys ap Hywel, gw. y nodyn brig.

50 **deufab** Enwir pedwar mab yn WG1 663–4, sef Hywel (I), Morgan, Siôn a Hywel (II). Cywydd marwnad i Hywel, mab Rhys ap Hywel, yw'r gerdd sydd yn dilyn a chywydd moliant i'w frawd, Morgan, yw cerdd 8.

Ffurf l. a arferir yn dilyn y rhifolion yw *maib*, gw. 2.17n, ond digwydd *mab* yma ac yn 9.51, 10.11, 80.25.

53 **peniadur** Diwygiwyd yn *penadur* yn Pen 99. Rhestrir *peniadur* yn ffurf amr. ar *penadur* yn GPC 2729–30. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. ‘Rhagymadrodd’ td. 38, a cf. *eithia* ll. 26n.

55 **côr Duw** Gw. 5.54n.

58 **troed** Ffurf amhrs.grff. y f. *troi* a cf. 36.27 *Troed wyneb y tir dano*.

59 **nos Basg** Dywedir bod Rhys yn yr eglwys yn coffâu dioddefaint Crist yn ystod y Pasg a'i fod bellach yn y nefoedd. Ond gall y cwpled awgrymu mai yn ystod y Pasg y bu farw, ac mai yn ystod mis Awst (ll. 27) y canwyd y farwnad.

7

Ychwanegwyd *Morganwg* uwchben y cywydd yn Pen 99, a dyma'r esboniad yn ddia ar bennawd CM 12, sef *Cywydd Marwnad Howel ap Rys o Forganwg*. Ar sail y cyfeiriadau isod at y Beili (llau. 38, 44) ac at Dal-y-llyn (ll. 46), gellir adnabod gwrthrych y farwnad yn weddol ddidrafferth, sef Hywel ap Rhys ap Hywel, mab gwrthrych cerdd 6. Er bod sôn am wyrion a neiaint, am ferched a meibion (llau. 49–52), un disgynnydd yn unig a enwir yn WG1/WG2, sef merch o'r enw Cristi. Yr oedd hi yn briod â Thomas Hir ap Gwilym ap Tomas, gw. WG2 235–6, a thrigai ei deulu ef ym mhlwyf Llangasty Tal-y-llyn.

- 1 **Bleddyn** Bleddyn ap Maenyrch, ond camarweiniol braidd yw'r cyfeiriad hwn gan mai disgynnydd Madog ap Maenyrch, yn hytrach na Bleddyn, ei frawd, oedd Hywel. Ond priodasai mwy nag un o hynafiaid Hywel â disgynnyddion Bleddyn.
- 2 **gwlych deurudd** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.
- 3 **y rhwyd** Defnyddiodd y bardd y syniad hwn mewn cerddi eraill, gw. 5.36n.
- 3–4 Dyfynnir y cwpled yn *Cywyddau Cymru*, gol. A. Hughes (Bangor, 1926), 95.
- 4 **niwl** Cf. 55.37–8n. Trosiad cyfarwydd mewn marwnadau, ac un sy'n dwyn i gof y niwl a ddisgynnodd ar Ddyfed yn nhrydedd gainc y Mabinogi. Cf. GLMorg 31.29–30 *Llyna sir nid llawen sydd, / Llawn niwl Castellnewydd* (marwnad Tomas ap Syr Siôn Morgan).
- 6 **hanoedd** Ffurf 3 un.amhff. y f. *hanfod*, gw. GMW 147.
- 11 **y dröell** Ailadroddir y syniad hwn mewn cerddi eraill, gw. 5.24n.
- 12 **ag fu farch** Ar y gystrawen gw. 13.4n. Disgwyliid y geiryn *a*, cf. 45.33–4 *Ni bydd hir un filltir fach / Ag a fydd o gyfeddach*.
- 13 **Trahaearn** Gw. nodyn brig cerdd 6.
Padarn Y sant a goffeir yn Llanbadarn Fawr yng Ngheredigion, gw. LBS iv, 39–51; TWS 121–7; WCD 522–3. Yr oedd ei ddylanwad yng Ngheredigion, ym Maelienydd, yn Elfael ac yn Ystrad Tywi, ond ni chysegrwyd yr un eglwys iddo ym Mrycheiniog.
- 17 **y pen gloywddu** Ai cyfeirio ato ef ei hun a wna'r bardd a datgan ei fod yn ŵr o bryd tywyll?
- 18 *n wreiddgoll*.
- 20 **gwyliad** Diwygiwyd yn *gwyliad*, sef ffurf amr. ar *gwylio*, cf. 12.9 *Minnau, Gwilym, yn gwyliad*. Gweddaï'r ystyr 'cadw gwyliadwraeth, gwarchod', gw. GPC 1762–3. Y ffurf a geir yn y llsgrau. yw *gwelad*, ffurf amhrs. yn hytrach na berfenwol fel arfer, gw. GMW 126; G 653–4.

- Ni restrir *gwelad* yn ffurf amr. ar *gweld*, *gweled* yn GPC 1626, ond addas yw'r ystyr 'Pwy sydd yn gweld [oherwydd y dagrau yn y llygaid]?' Digwydd *gwelad* yn safle'r odl yn y gân 'Y Deryn Pur' a arferai fod yn boblogaidd iawn yn y de-ddwyrain: 'Mod i'n irad am ei *gwelad*, gw. *Caneuon Cenedlaethol Cymru*, ed. E.T. Davies and S. Northcote (London, 1959), 88–9. Ond *gweled* (*Fy mod yn irad am gael ei gweled*) yw'r ffurf yng nghasgliad M.J. Williams, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg*, gol. D. Huws (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 1994), 10–11.
- 27 Cf. 9.41 *Ni thau Hodni yn criaw*.
- 28 **y naw** Y Nawyr Teilwng neu'r Naw Cwncwerwr. Naw gŵr oedd y rhain a hynodid ar gyfrif eu gorchestion. Fe'u dosbarthwyd yn dri phagan (Alecsander, Iwl Cesar ac Ector), yn dri Iddew (Dafydd, Judas Maccabaeus a Josua), ac yn dri Christion (Arthur, Godfrey de Bouillon a Siarlymaen), gw. GLMorg 1.47n. Cf. 26.39 *Y naw gorau 'n ei guras*. Ac eithrio Arthur ni chyfeiriodd Hywel Dafï at yr un ohonynt yn unigol.
- 29 **Madog** Madog ap Maenyrch, ond odid, gw. ll. 1n.
gwyddiad Ffurf 3 un.amhff.myn. *gwybod*, gw. G 726; GWM 148. Cf. 43.17 *Cyfaddef, cof a wyddiad* a cf. y ffurf *gwyddiwn* yn 48.23n.
- 31 **aelod** Ymddengys i'r copïwr ddechrau ysgrifennu'r gair *aelwyd*.
tir Selyf Cantref Selyf, cwmwd ym Mrycheiniog, gw. WATU 28–9; cf. 58.12 *Torri aelod tir Elen*.
- 33 **y Ddiserth** Yn sir y Fflint, ac felly yn cynrychioli pegwn gogleddol Cymru o'i gyferbynnu â Merthyr [Cynog]. Am engh. arall o'r fannod yn yr e. lle, cf. GLM LXIV.68 *yn ddwysaig yn y Ddiserth*; GLD 24.41 *Urddasol iôr y Ddiserth*.
- 34 **llyf Noe** Trafodir topos yr wylo eithafol mewn marwnadau, y cyfeiriadau at y dilyw a'r cyfuniad *llyf a llyfain* gan E. Salisbury a H.M. Griffiths, '“Llyf Noe yw'r llyfain a wnawn”': *genre* ac afonydd ym marddoniaeth Guto'r Glyn', GwalchCG 436–50.
- 36 **Ifor** Gw. 6.30n.
- 37 **nid âi Ddwywent** Gall fod yma gywasgiad *nid âi i Ddwywent*, neu engh. o'r gystrawen lle yr hepgorir yr ardd. a threiglo'r cyrchfan, gw. Treigladau 227–8. Ychwanegwyd yr ardd. *i* yn Pen 99. Am engh. arall, cf. 56.12n *O gestyll Gŵyr Gastell Gwent*.
Dwywent Y mae'r gynghanedd, fel y cofnodwyd hi yn Pen 67, yn gywir, ond mabwysiadwyd y ffurf *Dwywent* er bod y gyfatebiaeth â goben *bendith* yn anghyflawn. Ar y gyfatebiaeth *nt = nd*, gw. 4.55n.
- 39 **yr Heledd** Ynysoedd 'Hebrides' yn yr Alban, gw. GPC 1843 a cf.

- GLGC 32.15–16 *trwsia Hywel trwy'r Heledd / tân hyd gil Iorc, tyn dy gledd*. Cynrychiola fan sydd gryn bellter i ffwrdd, a man nad yw'n cyfrannu o'r gwae sydd yn y Beili-brith.
- 40 **dros daear** Ar y calediad $s + dd > sd$, gw. Treigladau 386. Cf. 48.21 *Tros deuparth Talgarth y tyf*, ond gthg. 17.17 *Tros ei ddwylo tros Ddulyn*.
- 44 **paladr** Cyffredin yw'r ystyr 'gwaywffon' megis yn 17.8 *Baladr onn blodau'r ynys*, ond yma ymddengys mai 'pen ach, hendad; llinach, teulu' sydd yn gweddu orau, gw. GPC 2671. Nid oedd gan Hywel fab i'w olynu a thry'r bardd yn rhan olaf y cywydd at ei fab yng nghyfraith. Trwyddo ef y bydd y llinach yn parhau.
- 45 **llwyddiaw** Ailadroddir y ffurf yn 38.3 *Epil arglwydd yn llwyddiaw*. Rhestrir *llwyddo* a *llwyddio* yn GPC 2242. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.
- 46 **Tal-y-llyn** Gw. y nodyn brig.
- 50 **neiaint** Camddarllenodd John Davies, Mallwyd, *niaint* (am *neiaint*) Pen 67, a thybiodd mai *maint* a ysgrifennwyd. Am mai unsill oedd y gair hwnnw, ac am fod y gytsain ddechreuol yn wahanol, bu'n rhaid iddo ddiwygio ei destun i sicrhau bod yr hyd yn rheolaidd a'r gynghanedd yn gywir. Ychwanegodd y rhagenw *ym*, gan droi *A neiaint hwn a wnânt dâl* yn *A maint hwn ym a wnânt dâl*.
- 54 **y Grog** Bernir bod y *Grog* yma yn gyfystyr â Christ. Am enghrau. eraill ac am drafodaeth ar ystyron y gair *crog*, gw. M.P. Bryant-Quinn, 'Addoli'r Grog', LICy 35 (2012), 175–6. Cyffredin oedd mynegi dymuniad am weld noddwr yn ymgymryd â chroesgad, gw. GDEp 16.4 *Y deuir i'r gred i roi'r groes*; ID XXXV.52 *llyma r gwr a lle mae r grog*.

Gwrthrych y moliant yn y cywydd hwn yw Morgan ap Rhys ap Hywel ap Dafydd, brawd Hywel a farwnadwyd gan y bardd, gw. cerdd 7; WG1 663–4; WG2 1253. Marwnadodd Hywel Dafydd dri o feibion Morgan, gw. cerdd 9, a chanodd ddau gywydd moliant ynghyd â chywydd gofyn ar ran mab arall, Gwilym, gw. cerddi 10–12. Lleucu, merch Rhys ap Gwilym ap Ffyllib ab Elidir Ddu, oedd gwraig Morgan, gw. WG1 403–4, ac yn adran gyntaf y cywydd crybwyllir hynafiaid y gŵr a'r wraig yn drefnus gan roi sylw cytbwys i'r naill a'r llall. Daw'r cyswllt rhwng teulu'r Beili-brith a thylwyth Elidir Ddu i'r amlwg yn y cywydd a ganodd Hywel Dafydd i erchi wyth ych ar ran Gwilym, mab Morgan a Lleucu, gan wyth gŵr a oedd yn disgyn yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol o Elidir Ddu, gw. cerdd 12. Y mae'r cyswllt â thylwyth Elidir Ddu yn ddolen gyswllt rhwng teulu'r Beili-brith a theulu'r Argoed hefyd, gw. cerddi 1–5. Margred, merch Gwilym ap Ffyllib

ab Elidir Ddu, oedd gwraig Hywel ap Llywelyn, a Rhys, brawd Margred, oedd tad Lleucu, gw. WG1 329–31.

2 *n* wreiddgoll.

8 **rhoes lawer rhodd** Ar y treigladd i wrth. y f. *rhoes*, gw. 5.55n.

11 **ŵyr Dafydd** Un o hynafiaid Morgan o du ei fam, Gwenllïan. Yr oedd hi yn ferch i Ddafydd ap Ffyllib ap Llywelyn ab Ifor, gw. WG1 202.

16 Cynghanedd groes o gyswllt neu *r* wreiddgoll.

17 **Tawy** Prawf y brifodl *mwy* / *Tawy* yn 59.41–2 mai e. sydd yn cynnwys sillaf leddf yw hwn; cf. GLGC 33.25–6 lle y digwydd *Tawy* / *hwy* yn safle'r brifodl.

lledw Gall fod yn a. 'ffyniannus, toreithiog' neu yn e. 'llawnder, cyfoeth; croeso mawr', er mai o dan y blaenaf y dyfynnir y cwpled yn GPC 2138. Ond gellid e. yma, a gallai *lledw* oleddfu *tai Elidir* yn hytrach na *Tawy*.

Elidir Crybwyllwyd Elidir [Ddu] eisoes yn ll. 14, gw. y nodyn brig. Yr oedd Gwenllïan, mam Lleucu, yn ferch i Rys ap Tomas ap Dafydd ap Gruffudd ap Gronwy Goch ab Elidir Goch, gw. WG1 403–4. Ail wraig Rhys ap Gwilym, tad Lleucu, oedd Siwan a ddisgynnai, fel Hywel Dafï ei hun, o Rys Llwyd ab Adam.

18 **Hodni** Ffurf ar *Honddu* a arferid yn y 14g. a'r 15g., gw. EANC 149–50. Ymuna afon Honddu ag afon Wysg yn Aberhonddu, ryw chwe milltir i gyfeiriad y de o'r Beili-brith.

20 **rhywiogaeth** Rhestrir *rhywogaeth* a *rhywiogaeth* yn GPC 3148. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38. Y mae'r rhagenw yn ddealliedig: 'Nid ardderchogrwydd ond [trwy ei] rhywogaeth.'

21 Camgopiwyd un llythyren yn Peniarth MS. 67. Y darlleniad cywir yw *sy garv gwenn* (nid *sy garw*).

22 **ŵyr Llawdden** Awgryma'r cyfeiriad hwn mai Lleucu, gwraig Morgan, a berthynai i lwyth Llawdden, gw. 61.19n. Cysylltir ei ddisgynyddion ef â chwmwd Uwch Aeron, gw. P.C. Bartrum, 'Pedigrees of the Welsh tribal patriarchs', Cylchg LIGC xiii (1963–4), 114, 135.

24 **Arddun** Enwir Arddun a'i brodyr, Gwrgi a Pheredur, plant Eliffer, yn un o'r Trioedd, gw. TYP³ 195, 198, 280. Ond merch Pabo Post Prydain oedd hi yn ôl 'Bonedd y Saint', gw. LBS i, 167–8.

25 **Lleucu** Nid oedd hwn yn enw cyffredin. Tybed a fynnai Hywel Dafï i'w gynulleidfa ddwyn i gof enw cariad y bardd Llywelyn Goch, gw. GLIG cerdd 12; CLC² 455. Efallai fod enw cariad Llywelyn ab y Moel yn cael ei grybwyll ar achlysur arall, gw. 106.18n.

- Elen** Cyfeiria'r beirdd at dair Elen, sef i. Elen ferch Coel; ii. Elen ferch Eudaf, gwraig Macsen Wledig; iii. Elen Fannog: gw. GG.net 53.17–24; TA LXXVI.95–100. Tebyg mai cyfeiriad at Elen Fannog sydd yma—trosiad cyffredin wrth ddisgrifio merch brydferth a bonheddig am ei bod yn un o'r *Teir Gbraged a gauas pryt Eua yn tri thraean*, gw. TYP³ 136–7, 344–5 ac ymhellach 19.13n. Mewn cerddi eraill caiff Hywel Dafí achlysur i grybwyll Elen ferch Coel, gw. 19.40n, ac Elen Luyddog, gw. 17.24n.
- Enwir Ifor Hael yn ail fraich y cwpled. Nest oedd enw ei wraig ef, gw. ll. 26n, er bod cyfeiriadau diweddarach at wraig o'r enw Efa hefyd, gw. nodyn brig DG.net cerdd 11.
- 26 **Ifor** Ifor Hael. Yr oedd cyswllt teuluol rhwng Ifor a gwrthrych y cywydd am ei fod yn frawd i Ffyllib ap Llywelyn, gw. ll. 11n.
- 28 **mae ynn** Yr ardd. *ynn* yn hytrach nag *yn* traethiadol sydd yn rhoi'r ystyr orau, ond rhaid fyddai cywasgu er mwyn sicrhau saith sillaf.
- tyrnas** Darlleniad Pen 67 yw [*t*]eyrnas, ond *tyrnas* ar bedwar achlysur arall. Ar y ddwy ffurf, gw. GPC 3494.
- 30 **Maenerch** Disgynnai Morgan ap Rhys yn uniongyrchol o Fadog ap Maenyrch, a gallai nifer o noddwyr y bardd hawlio cyswllt gwaed â Maenyrch, trwy ei fab Bleddyn yn fwyaf arbennig. Ar hynafiaid Maenyrch, gw. P.C. Bartrum, *art.cit.* 105–6.
- 31 **Dolywernen** Ni lwyddwyd i ganfod lleoliad *Dolywernen* ond enwir ffermdy o'r enw Tyn-y-wern ar fap degwm plwyf Merthyr Cynog a luniwyd yn 1840.
- 32 **dadleuau** Ffurf l. yr e.c. *dadlau*. Dyfynnir y ll. yn GPC 871 er mwyn enghreifftio'r ystyr 'dadl, ymresymiad, cynnen', ond byddai 'cwmni, cynulliad' yn taro lawn cystal.
- 33 **tiredd** Diwygiwyd yn *tiroedd* yn Pen 99. Nodir y ffurf l. *tiredd* yn GPC 5303–4 a digwydd y gair yn safle'r brifodl yn 16.13 *Ni chaid deurwn o'ch tiredd*.
- 34 **Ysgordan** Enwir Ysgorda ymhlith hynafiaid rhai o deuluoedd bonheddig Brycheiniog, gw. WCD 648 a P.C. Bartrum, *art.cit.* 122, ond ni restrir yr enw ym mynegeion WG1/WG2.
- 36 **Madog** Ac isod ll. 41. Gw. ll. 30n.
- taleithiog** Rhestrir *taleithiog* a *taleithog* yn GPC 3429, ac enghreifftir *taleithog* trwy ddyfynnu o waith Lewys Glyn Cothi. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.
- 39 Cyfatebiaeth *nt* = *nd* o dan yr acen, ond cywirwyd y gwall tybiedig yn CM 12. Digwydd yr un gyfatebiaeth yn ll. 59. Am enghrau. eraill yn y canu, gw. 4.55n.

- 42 **cywirion** Gellid gair cyfansawdd *cywir* + *iôn*, ond ffurf l. *cywir* ‘gŵr teyrngar’, gw. GPC 834, sydd yn 37.38 *Cerdd dant, cae ariant y cywirion*.
- 43 **rhygarw** ‘Carw gwyh’, gw. GPC 3136. Y mae hwn yn air sy’n digwydd yn fynych yng nghanu’r Cywyddwyr, cf. 79.48 *Â gwŷr llys fy rhagarw llwyd*. Collwyd yr *w* ansillafog yn Pen 67, ac fe’i dilynwyd gan Pen 99. Os felly rhaid derbyn yr odl *gwâr* / *rhygarw*, er na roddir enghrau. yn J. Morris Jones: CD 193–4. Ond efallai mai *hygar* a fwriadwyd, a. weithiau â grym enwol ‘caruaid, hawddgar’, gw. GPC 1964. Ni chofnodwyd enghrau. o’r ffurf enwol yn *ib*.
- 45 **Cilhywi** Yng Nghilhywi y tardda afon Hywi, ac ymuna ag afon Honddu ger Llanfihangel Fechan, nid nepell o Gastell Madog, gw. EANC 154.
- 47 **mudont dai** Diau fod *medon tai* Pen 67 yn cynrychioli sain *medont dai*. Nid yw *medi* ‘torri (cnwd neu blanhigion), torri i lawr (gelynion, &c.)’, gw. GPC 2391, yn ystylon, a diwygiwyd yn *mudont*, 3 ll.pres.dib. *mudo* ‘symud, teithio’, gw. *ib*. 2499. Am enghrau. eraill o hepgor yr ardd. a threiglo’r cyrchfan, gw. 7.37n.
- tai Gastell Madog** Eithriad yng nghanu Hywel Dafï yw treiglo’r e.p. yn dilyn e.ll. mewn ymadrodd genidol, gw. 2.1n, ond cf. 10.32 *O dai Wilym un daliad*.
- Castell Madog** Priododd Dafydd ab Ieuan â merch Llywelyn o’r Cwmwd ap Hywel Hen o Gastell Madog, gw. WG1 860. Y mae’r cartref hwn ar lan ddwyreiniol afon Honddu, ryw ddwy filltir i’r de ar hyd y dyffryn. Yr oedd yma amddiffynfa a godwyd yn wreiddiol yn yr 11g. neu’r 12g. ond yna, ryw ddwy ganrif yn ddiweddarach, codwyd beili carreg ger safle’r tŷ presennol, gw. BWPowys 360–1; D.J.C. King, ‘The castles of Breconshire’, *Brycheiniog*, vii (1961), 88–9. Awgrymir mai Madog ap Maenyrch a roes ei enw i’r fan, gw. SBPN 57.
- 48 **tŷ y Greal** Llys Arthur, am mai yno y dechreuodd anturiaethau’r Greal ac yno yr ymddangosodd y Greal, gw. YSG 8 *drwydof i y daw hediw itt yr anryded mwyhaf o’r a doeth y vrenhin eiryoet ym Bryttaen Uawr ... o achaws Seint Greal a ymdengys hediw y’th lys di*.
- 50 **Elisau** Nid yw hwn yn enw cyffredin. Gall gyfeirio at Elisau ap Tewdwr, un o frenhinoedd cynnar teyrnas Brycheiniog, gw. HW 270–2; WCD 244, neu at *Elisse arglwydd Brecheinoc, yr hwn a rannawdd Brecheinoc ym chwech ran*, gw. P.C. Bartrum, *art.cit.* 122. Dyfelir ei fod yn cael ei enwi drachefn yn 17.9 *Ffŵr-de-lis llwyth Elisau*.
- 54 **dau Ifor** Trwy fam Morgan, Gwenllïan, gw. llau. 11n, 26n ac ymhellach 6.30n.
- 56 **chweugeinwyr** Gw. 2.17n.
- 58 **cynnaid** Ffurf amr. ar *cyntaid* ‘yr haid gyntaf o wenyn a edy’r cwch’,

gw. GPC 800. Ystyr drosiadol megis ‘gwledd amheuthun’ sydd yn taro orau yma.

59 **cant awdl** Cf. 31.56 *Nawcant wyl dy fabsant fu*, 53.40 *Gant gwyl da Gwent i gyd*, 61.7 *Gŵn Tomas am gant iemon*, 102.17 *Talodd ddeugeincant weli*. Y ffurf *can* a arferir o flaen e., ond digwydd *cant* hefyd yn y safle hwn, gw. GMW 45. Ar y gyfatebiaeth *nt = nd*, gw. 4.55n a ‘Cynghanedd’ td. 43.

61 **can haelwyd** Ar ychwanegu *h* yn dilyn rhai rhifolion, gw. Treigladau 137 a DG.net 161.79 *Canhwyllau cwyr can hallawr*. Cf. 18.20 *Cynhaliodd dir can haelwyd*, 84.39 *Can heidion breision yno brysian*’.

9

Ar sail llinellau 11–24 gellir casglu bod tri gŵr wedi marw, a’u bod yn blant i Forgan (ll. 10). Eu henwau oedd Maredudd, Tomas a Rhys. Cesglir, felly, mai tri o feibion Morgan ap Rhys ap Hywel oedd y rhain. Ailadroddir y cyfeiriadau daeryddol at Gastell Madog, Cilhywi a dyffryn afon Honddu sydd yng nghyffiniau’r Beili-brith yn y cywydd i Forgan a Lleucu, rhieni’r meibion, gw. cerdd 8. Nid enwir y tri mab hyn yn WG2 1253, ond enwir Wiliam a Dafydd, a chyfarchodd Hywel Dafî hwy ar achlysur arall, gw. cerdd 10. Yn rhan olaf y cywydd cyhoeddir bod pum mab gan Forgan, a bod dau yn dal ar dir y byw, sef Wiliam a Dafydd. Awgryma llinellau 45–6 mai newydd farw yr oedd Morgan ap Rhys, tad y brodyr.

Diogelwyd y cywydd yn ei grynsyth yn Pen 67, ond am ryw reswm nis copïwyd yn Pen 99. Am mai Pen 99 oedd cysail Pen 101 a CM 12 nis ceir yn y llawysgrifau hynny ychwaith.

5 **Gwrid a chwys ... a chwydd** Dyma’r arwyddion a gysylltid â’r Pla Du, gw. G. Deaux, *The Black Death* (London, 1969), 65–7; G. Twigg, *The Black Death: A Biological Reappraisal* (London, 1984), pennod 11.

6 **gwenwyn wybr** Am enghrau. eraill o’r ymadrodd hwn a’r cyswllt â’r pla, gw. GLMorg 3.84n.

7 **coed Rhys** Enw taid y brodyr o du’r tad ac o du’r fam, gw. nodyn brig cerdd 8.

8 **cydlys** ‘Llys unedig’. Dyma’r engh. gynharaf a ddyfynnir yn GPC 664.

9 **aerfen** ‘Clodfawr mewn brwydr’, gw. GPC² 87, ond yma â grym enwol. Ceir trawiad nid annhebyg yn GLGC 178.25 *Efô a orfydd a fo aerfen*.

10 **cadgamlan** ‘Torf derfysglyd, ciwed gythryblus, trybestod’, gw. GPC 378. Dyma engh. gynnar o arfer y gair yn drosiadol er mwyn cyfleu trychineb eithafol. Digwydd sawl cyfeiriad at frwydr Camlan yng ngwaith Lewys Glyn Cothi, cyfoeswr Hywel Dafî, gw. GLGC 667, ond cyfeiriadau ffeithiol yw’r rhain.

- 11 **ar y bar** Cf. 26.41 *Bwrw i'r llawr y bar a'r llys*, ac ar yr ymadrodd *ar y bar* gw. GPC 256. Cf. hefyd GG.net 104.63–4 a diwedd glo'r farwnad a ganodd Guto'r Glyn i Edward ap Dafydd lle yr honnir ei fod bellach yn cynorthwyo Duw i farnu yn y nefoedd *Mae ar far, a Mair Forwyn / Gydag efi gadw'i gŵyn*.
- 15 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll.
- 16 **y Cwmwd** Fe'i trinnir yn e. lle am fod Madog o'r Cwmwd yn un o hynafiaid y teulu, gw. 6.48n, ond gellid e.c. 'uned neu ran o diriogaeth gwlad yng Nghymru gynt y cynhelid llys barn ynddi i weinyddu cyfraith; talaith, rhanbarth', gw. GPC 643.
- 17 **y Dinas** Gallai fod yn e.c. neu yn e. lle. Os yr olaf, castell y Dinas, o bosibl, castell Normanaidd a godwyd ar safle caer o Oes yr Haearn ar gwr gorllewinol y Mynydd Du. Yr oedd yn amddiffyn bwlch Rhiangoll rhwng Talgarth a Chrucywel, sef y dramwyfa hwylusaf rhwng dyffrynnoedd Wysg a Gwy, ond darfu am ei bwysigrwydd pan adeiladwyd castell Aberhonddu, gw. BWPowys 308–9; P. Remfry, *Castles of Breconshire* (Woonton, 1999), 154–61. Am gyfeiriadau eraill at y safle, gw. 'Enwau lleoedd' a cf. BL Add 14871 [= RWM 20], 179^v *Ynnill o wanas / hyd yma domas / o fôn ir dinas / ar faner dyniawl*.
- 23–4 **tŷ Gynog, / ... tŷ'r Grog** Cofnododd Theophilus Jones fod maen yn coffáu mab Siôn ap Llywelyn ap Morgan ap Dafydd Gam yn eglwys Cynog, gw. HCBrec i, 184. Ymddengys fod dau o'r brodyr wedi eu claddu yn yr eglwys. Ym mhlwyf Merthyr Cynog yr oedd y Beili-brith, ac yr oedd yr eglwys o fewn rhyw ddwy filltir i'r cartref i gyfeiriad y gorllewin. Yno hefyd y claddwyd eu taid, Rhys ap Hywel, gw. 6.31–2. Y mae'n bosibl mai yno hefyd y claddwyd Rhys, y trydydd brawd. Un nodwedd hynod a berthyn i'r eglwys yw'r sgrin sydd yn dyddio o'r 14g., a gallai honno fod yn cynnal delw o'r Crist croeshoeliedig, gw. BWPowys 362. Ond tebycach mai yn Aberhonddu y claddwyd Rhys. Yr oedd dwy eglwys yn y dref ac yr oedd crogau trawiadol yn y naill a'r llall. Yn eglwys Ioan yn y dref ei hun yr oedd y grog enwocaf, a chanodd Hywel Dafydd iddi, gw. cerdd 102. Bernir mai at yr eglwys hon y cyfeirir yma fel yn 66.19 *tair gradd tŷ'r Grog*. Yr oedd crog eglwys y Dominiciaid yn Llan-faes ar gyrion y dref, hithau, yn denu ymwelwyr o bell ac agos. Ar y canu i'r grog yn Llan-faes, gw. GLMorg cerdd 104. Fel hyn y disgrifiodd Lewys Glyn Cothi eglwys Llan-faes lle y claddwyd Morgan ap Dafydd Gam, gw. GLGC 134.21–2 *braich Cymru wrth groesty'r Grog, / bar a chynnor Brycheiniog*.
- 29 **Goronwy** Gw. 8.17n.
- 30 **cadeiriodd gwaed Urien** Tebyg mai *gwaed Urien* yw goddr. y f., ond gallai *grynnau had Goronwy hen* fod yn oddr. a *gwaed Urien* yn wrthrych. Os yr ail, ni ddisgwylid cysefin y gwrth. *gwaed Urien* yn

dilyn y terfyniad 3 un.grff. *-odd*, ond ceir enghrau. eraill yn y canu, gw. 20.6n.

Urien Ar y cyswllt rhwng tylwyth Elidir Ddu ac Urien Rheged, gw. 5.22n.

- 31 **Bleddyn** Gw. 7.1n.
- 33 **Einion** Mab Madog ap Maenyrch, gw. nodyn brig cerdd 6.
- 34 **o'u bron** 'Yn gyflawn, yn llwyr', gw. GPC 332, ond i'r 18g. y perthyn yr engh. gynharaf o'r ymadrodd *o'r bron, o'i fron*.
- 36 **Madog** Madog ap Maenyrch oedd cyndad y teulu, gw. nodyn brig cerdd 6, a'i frawd ef oedd Bleddyn a enwyd yn ll. 31.
- 38 **cyrn glaw** Ni nodir yr ymadrodd *corn glaw* yn GPC 561–2 d.g. *corn*, ond diau ei fod yn gyfystyr â *maen glaw* a *maen cawod*, gw. *ib.* 2306–8 d.g. *maen* a cf. Atod.I.4n *A'i mwnwgl oll fal maen glaw*.
- 39 **cyrn** Gellid *cyrn*, ffurf amr. ar *curn* 'pentwr, crug, carnedd', gw. GPC 631. Ond y sŵn dirfawr sydd yn ymateb i farwolaeth y brodyr sydd dan sylw yn llau. 37–44, a thebyg mai ailadrodd y cyfeiriad at y *cyrn glaw* a wneir.
- 41 Cf. 7.27 *Dwylan Hodni yn criaw*.
- 42 *n wreiddgoll*.
- 44 **gewri** Ffurf amr. ar *gawri, gowri* 'gweiddi, bloeddio', gw. GPC 1386, ond i'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf er bod enghrau. o'r e.c. yn digwydd yn y 14g.
- 47 Cyfatebiaeth $m = n$ o dan yr acen, gw. 'Cynghanedd' td. 44.
- 48 Diwygiwyd y geiryn berfol er mwyn sicrhau cynghanedd reolaidd. Y geiryn *ydd* sydd fwyaf cyffredin yn y canu, ond defnyddir yr hefyd yn achlysurol, gw. 4.20 *Yno'r af finnau yr ŵyl*.
- 53 **caith** Ffurf l. *caeth*, gw. GPC 384–5. Disgwylid yr unigol ond geilw'r odl am *caith*. Tybed a yw *caith* yma yn cytuno â'r rhagenw ll. y mae'n ei oleddfu, cf. GSRh 12.17 *Pum oes byd i gyd o gaith—yn rhyddion?*
- 54–6 **Gwilym ... / ... / Dafydd** Cyferchir y ddau frawd a oroesodd eu brodyr yng ngherdd 10.

Cywydd i Wilym a Dafydd ap Rŷs o Gastell Madog yw hwn yn ôl CM 12, ond Gwilym ap Morgan ap Rhys a gyferchir, fel yng ngherddi 11–12. Am y cyfeiriadau achyddol, gw. nodyn brig cerdd 8. Enwir Dafydd, brawd Gwilym, yn ogystal, er na roddir cyn amlyced lle iddo. Yn ail ran y cywydd deisyfir cymod Gwilym. Ymddengys fod y bardd wedi ei oedi yn Nhretŵr a methodd ag ymweld â'r Beili-brith yn unol â'r trefniant. Gobeithia na fydd

Gwilym yn digio yn ormodol ac na fydd yn anfodlon fod y bardd yn ymweld ag ef ar achlysur arall. Adduneda na chaiff hyn ddiwydd eto.

3–4 **hyd Fyrgwyn, / ... gwin** Dilynwyd ffurfiau Pen 67. Ailadroddir yr odl, mewn cynghanedd sain y tro hwn, yn 34.36. Cf. GLM X.26 *gwin o Fyrgwyn gan Farged*; TA LXV.70 *Mae'r gwin, a fu 'm Mwrwgwyn fawr?*

4 **gŵyr pris** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.

6 **dau Ifor** Cf. 8.54n *Llin dau Ifor, llun dyfod*.

hyd Dyfi Diwygiwyd darlenniad y llsg. *had ddav yvor hyd ddyvi* am mai cyffredin yw'r calediad yn dilyn *hyd*, gw. Treigladau 394. Cf. 11.55 *Had deuwr aeth hyd Deau*, ond gthg. 10.8 *Had y ddeuRys hyd ddwyrain*. Er mai cyffredin oedd treiglo ail elfen ymadrodd genidol yn dilyn eg. ni welwyd yn y canu enghrau. o dreiglo'r rhifol. Gw. ymhellach 2.1n.

7 **Elidir** Gw. nodyn brig cerdd 8.

8 **y ddeuRys** Gw. 9.7n.

12 **Dafydd, y trydydd** Brawd Gwilym yw hwn, a dyma'r *deufab* a grybwyllir yn ll. 11, a cf. *dau faedd* yn ll. 15. Fe'i henwir drachefn yn ll. 41. Nid trydydd mab oedd Dafydd ond trydydd Dafydd y teulu yn dilyn i. Gwilym / Dafydd ap Morgan ap Rhys ap Hywel ap Dafydd a ii. Dafydd ap Ffyllib, tad Gwenllïan a briododd â Rhys ap Hywel.

13 **cynhwysir** 'Goddef; derbyn yn groesawgar, croesawu; annog, cefnogi', gw. GPC 788–9.

14 **adar Rhys** Gw. ll. 8n. Yr oedd Lleucu, mam Gwilym, yn ferch i Rys ap Gwilym. Tair brân oedd ar arbais y teulu, gw. DWH ii, 143 (o dan *Syr Elidir Ddu*).

neidr Dyma'r arwydd a oedd i'w weld ar arbais Moreiddig Warwyn, gw. DWH ii, 386–7. Disgynyddion Madog ap Maenyrch oedd y teulu tra disgynnai Moreiddig o Ddrynbenog, brawd Madog. Gellid cyswllt uniongyrchol â Moreiddig trwy Wenllïan, hen nain Angharad, gwraig Gwilym ap Morgan, a gwraig Dafydd Gam, gw. WG1 245. Ond nid enwir Angharad yn y cywydd hwn, ac ni ellir bod yn sicr, felly, ei bod hi a Gwilym yn briod ar y pryd.

15 **Dafydd** Un o'r ddau Ddafydd a enwir yn ll. 12n. At hyn, nain Gwilym trwy ei fam oedd Gwenllïan, merch Rhys ap Tomas ap Dafydd, gw. WG1 403–4.

18 **Caerfyrddin** Bernir mai camgofnodi'r e. lle a wnaed yn Pen 67 *kaer verin*, a cf. 61.6 lle yr ailadroddwyd y ffurf. Ond y mae'r ffurf yn gywir yn 7.21. Ar amllder y gwallau cofnodi yn Pen 67, gw. A.C. Lake, '“O gedais lythr yn eisiau”': llawysgrif Peniarth 67 a'i disgynyddion', LICY 37 (2014/15), 1–18.

- 19 **Goronwy** Gw. 8.17n.
- 22 **y Blaenau** Cyfeirir yn draddodiadol at Fro a Blaenau Morgannwg, sef y tir isel ger yr arfordir (y Fro) a'r tir uwch i'r gogledd (y Blaenau), cf. GLMorg 14.32n *Bu air blin Bro a Blaenau*; GIGeth 2.2n. Anodd gwybod at ba ran o'r wlad y cyfeirir yma; sonnir am y de ac am siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi. Mynydd Epynt yw'r tir uchaf yng nghyffiniau Castell Madog. Y mae'n bosibl mai Bannau Brycheiniog yw'r *blaeneudir* mewn cywydd arall o waith y bardd, gw. 31.16n, ac felly hefyd *dir blaenau* yn 75.41n.
- 29 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 37 (ond gw. *ib.n*), 54.
- 30 **Hywel a Trahaearn** Disgynnai Gwilym o Hywel ... Trahaearn ... Madog ap Maenyrch, gw. nodyn brig cerdd 6.
- 32 **tai Wilym** Ar dreiglo'r e.p. yn dilyn e.ll. mewn ymadrodd genidol, gw. 2.1n.
- 34 **Tre'rtw'r** Ar ganu'r bardd yn y cartref hwn, gw. cerddi 46–58.
- 37 *n wreiddgoll* neu $n = m$. Gw. ymhellach 3.27n a 'Cynghanedd' tt. 41–2, 44. Y mae'r ll. hon yn wahanol i'r rhai a ddyfynnir yno am ei bod yn cynnwys y gyfatebiaeth $n = n..m$.
- 38 **herwr** Fe'i cyffelyba'r bardd ei hun i herwr a gollodd nawdd a gwarchodaeth ei noddwr. Ailadroddir yr un syniad mewn dau gywydd arall sydd yn gysylltiedig ag anghydfod, er mai anghydfod ffug er mwyn creu difyrwch sydd yn y ddau, gw. 64.7–8 *Harri, pam yr wyf herwr / O'i blas gwyn heb lias gwr?*, 66.13–14 *I'r plas er na lyfasaf / Anfon anerchion a wnaif*.
- 39 **gŵyl Fihangel** Dethlid ei ŵyl ar 29 Medi. Iddo ef y cysegrwyd eglwys Llanfihangel Nant Brân sydd yn nyffryn Nant Brân, rai milltiroedd i'r gorllewin o ddyffryn Honddu. Iddo ef hefyd y cysegrwyd eglwys Llanfihangel Fechan (Lower Chapel) yn nyffryn Honddu, ond nid oes sôn am eglwys ar y safle cyn diwedd y 18g.
- 44 **Mair a Chynidr** Sant a gysylltir â Brycheiniog oedd Cynidr. Yr oedd yn fab i Wynllw a Gwladus er bod traddodiad hefyd ei fod yn ŵyr i Frychan. Yn y farwnad iddi cyffelybir Gwladus Gam i Wladus, merch Brychan, gw. 19.1–6. Cysegrwyd nifer o eglwysi i Gynidr yn sir Frycheiniog; yn y Clas-ar-Wy y mae'r enwocaf ac yno y claddwyd ef, gw. LBS ii, 258–61. Iddo ef y cysegrwyd eglwysi Llangynidr ac Aberysgir yn wreiddiol ond ailgysegrwyd y ddwy i'r Forwyn Fair, gw. LBS ii, 285–61; BWPowys 280–1.
- 47–8 Mae'r cwpld hwn a'r nesaf yn dechrau â'r gair *barnu*. Neidiodd llygad copïwr CM 12 at y cwpld nesaf a hepgorwyd y cwpld hwn yn anfwriadol.
- 52 **cydwm** 'Cwypm, syrthiad, tafliad', ond y ffurfiau *codwm* a *cwdwm* yn

unig a restrir yn GPC 527.

11


Gwilym, mab Morgan ap Rhys, yw gwrthrych y cywydd hwn, ond y pennawd a roddwyd yn CM 12 oedd *Cywydd i Rys ap Hywel o Gastell Madog*. Am ach y teulu, a'r cyfeiriadau achyddol yn rhan gyntaf y cywydd, llinellau 1–12, gw. cerdd 8.

- 1 **gwŷr nod** 'Gwŷr nodedig', cf. GG.net 3.58 *Gŵr nod y Goron ydyw*; GLMorg 49.33 *Gŵr nod Edwart, grownd ydywch*; GO XXVIII.33–4 *Nid oedd ŵr nod, o'i addef, / Berchen bwa da oedd ef*. Perthyn yr ymadrodd hefyd i fyd y gyfraith. Esbonia D. Jenkins, *Llyfr Colan* (Caerdydd, 1963), 106–7, fod hwn wedi peri trafferthion i olygyddion y llyfrau cyfraith, a bod rhai wedi tybio ei fod yn cyfeirio at nod corfforol, ac o ganlyniad yn cyfleu elfen o israddoldeb neu ddiffyg statws, ond bernir mai 'gwŷr wedi'u nodi allan adeg barnu'r rhaith yw'r gwŷr nod'.
- 2 **wyrion Dafydd** Disgynnai Gwilym yn uniongyrchol o Ddafydd ab Ieuan ap Trahaearn, gw. 10.12n, 15n, ond tebyg mai Dafydd Gam sydd dan sylw yma am fod Gwilym yn briod â'i orwyres.
Nodir *wyrion* ac *wyron* yn ffurfiau ll. *wŷr* yn GPC 3745, ond y flaenaf a arferir yn Pen 67. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.
- 3 **Ifor** Fe'i henwir ar fwy nag un achlysur yn y canu i'r teulu, gw. 6.30n.
- 8 **llai rodd** Ar y treigladd meddal i'r e. yn dilyn *llai a mwy*, gw. Treigladau 48–51; T.J. Morgan, 'Rhai cystrawennau genidol arbennig', B x (1939–41), 207–9, a cf. 25.46 *Mwy bechod yw 'mwbachu*.
- 9 **Rhys** Gw. nodyn brig cerdd 8 a 9.7n.
- 11 **Mihangel hyd** Ar filwriaeth Mihangel, gw. 102.45n.
- 13–15 **Gwallter ... / ... / ...** 'Ngharad Yr oedd Angharad, gwraig Gwilym, yn ferch i Wallter ap Morgan ap Dafydd Gam, gw. WG2 211, 213. Cyfarchodd Hywel Dafï nifer o feibion Morgan ap Dafydd Gam, a Gwallter yn eu plith gw. cerddi 21–7 (ond cerdd 21 yn benodol).
- 16 **nid aeth ŵr** Y mae'r ll. yn rhy hir o ddilyn Pen 67 *nid aeth y wr* (a cf. Pen 99 *ei wr*) ac at hyn nid yw'r ystyr yn glir. Felly diwygiwyd yn *nid aeth ŵr*. Er bod enghrau. o dreiglo gwrth. berfau megis *gwnaeth*, *dug* ac o gadw'r gysefin, disgwyliid i'r goddr. gadw'r gysefin, gw. Treigladau 221–3. Ond cf. 62.16 *Aeth olud Io i'th law di*.
n wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 24, 28 (ond gw. *ib.n*), 38.
- 17–18 **Rhys ... / ... Rys** Gwilym a gyferchir yn ll. 17 ac yr oedd ef yn *wŷr i Rys* ap Hywel, gw. ll. 9n. Yr oedd Angharad yn wyres, o du ei mam, i

Rys ap Gruffudd.

- 19 **cinio** Gall fod yn eg. neu eb., gw. GPC 482, ond eb. ydyw mewn ll. nid annhebyg yn 22.40 *Treio mae'r ginio i'r gwan*.
- 28 *n* wreiddgoll neu *n = m*. Gw. ymhellach 3.27n a 'Cynghanedd' tt. 41–2, 44.
- 37 **Morgan ... fawrgwyp** Canodd Hywel Dafi gywydd moliant i Forgan, taid Angharad, gw. cerdd 20 a'r nodyn brig. Y mae'n siŵr iddo ganu ei farwnad hefyd ond i'r gerdd honno ddiplannu. Diogelwyd tair marwnad i Forgan ac nid oes awgrym o gwbl iddo golli ei fywyd ym mrwydr Banbri. Rhaid, felly, mai Morgan, tad Gwilym, a laddwyd yn 1469.
- 37–8 **mawrgwyp; / ... gwyp** Y mae'r *mp* ar ddiwedd y ddau air yn ddigon clir yn Pen 67, ond diwygiwyd yn Pen 99 yn *mawrgwyn ... cwyn*.
- 40 **unbrad** Y gair hwn a gofnodwyd yn Pen 99 yn y lle cyntaf, yna fe'i newidiwyd yn *brath* am fod y gair hwnnw yn digwydd ym mraich gyntaf y cwpled, ond odid.
- Banbri** Y frwydr rhwng llu Wiliam Herbert ar y naill law a llu Robin o Redesdale a weithredai mewn cynghrair â iarll Warwig ar y llaw arall. Ymladdwyd hi ar 24 Gorffennaf 1469, gw. W.G. Lewis, 'The exact date of the battle of Banbury, 1469', *Bulletin of the Institute of Historical Research*, lv (1982), 194–6. Rhestrir enwau'r uchelwyr pwysicaf a syrthiodd yn y frwydr yn WWR² 108. Am grynodedeb o'r digwyddiadau a arweiniodd at y frwydr, gw. GG.net cerdd 24.
- 48 **Urien** Gw. 5.22n.
- 50–2 **Goronwy Goch ... / ... / Elidir** Gw. 8.17n.
- 52 **aelwyd Rys** Y mae Pen 67 o blaid *aelwyd Rhys* ond am fod *-d rh-* yn rhoi *t.r.* ac am fod y gynghanedd yn galw am *d.r.*, diwygiwyd yn *aelwyd Rys*.
- 53 **o pwysir** Yr arfer yw treiglo'n llaes yn dilyn y cys. *o* [= 'os'], gw. Treigladau 374–5, a cf. 23.21 *O chadwaf un gaeaf gylch*, 29.17 *Un gwan o chwynfan, ni chenfydd—ei raid*. Ond cedwir y gysefin yn 32.19 *Wylo, cwyno o canaf*, 44.12 *O trig Owain tragwydd*, 49.47 *O caeyd drws y coed draw*. Cf. 39.31 *Os rhanc bodd, o cais rhoddion* (Huw Cae Llwyd).
- 54 **tri Madawg** Anodd bod yn sicr ynghylch y tri, ond disgynnai Gwilym o Drahaeran ap Madog ... ap Madog ap Maenyrch.
- 55 **had deuwr** Gallai gyfeirio at Oronwy Goch ac Elidir (llau. 50, 52) neu at ddau o gyndeidiau'r gŵr a'i wraig.
- hyd Deau** Ar y calediad, gw. 10.6n.

Dyma un o dri chywydd gofyn a ganodd Hywel Dafï ar ran ei noddwyr. Cywydd i erchi wyth ych yw hwn ac yn llais yr eirchiad ei hun yn hytrach na'r bardd y cyflwynir y cais a'i gyfiawnhau. Y mae hynny yn beth digon cyffredin, ond hynodrwydd y cywydd hwn yw ei gynllun. Fel arfer agorid trwy gyfarch y rhoddwr a'i foli a throi wedyn i enwi'r sawl a geisiai'r rhodd, gw. B.O. Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350–c.1630* (Caerdydd, 1998), 87. Y sawl sydd yn ceisio'r rhodd a gyflwynir yn gyntaf yn y cywydd hwn, ac felly hefyd yng ngherdd 38. Y rhoddwr a anerchir yn gyntaf yn y trydydd cywydd gofyn, gw. cerdd 81. Dyna'r drefn hefyd yn y ddau gywydd gofyn o waith ei gyfoeswyr a gopiodd Hywel Dafï yn Pen 67, gw. Peniarth MS. 67, cerddi IX, XXXI.



Gellir bod yn sicr ynghylch tri pheth, sef i. mai wyth ych a ddeisyfir (ll. 19 *Wyth o'r un llwyth a ry 'n llaw*); ii. mai disgynyddion Elidir, sef Elidir Ddu a hanai o Einion ap Llywarch, a gyferchir (ll. 16 *Ceirw 'Lidir rhag gorwledydd*); iii. mai yn ardal Llandeilo yn Is Cennen y trigai'r wyth (ll. 20 *Wyth o dylwyth Llandeilaw*). Ysywaeth, anos penderfynu pwy yn union yw'r wyth a anerchir. Yn fynych mewn cywydd o'r fath bydd y bardd yn rhestru'r rhoddwyr yn eu tro ac yn neilltuo cwplled neu ddau i gyfarch pob un. Ni wnaed hynny y tro hwn. Ymddengys fod dau roddwr yn cael eu henwi mewn un cwplled, sef tad a mab (llau. 29–30), ac ar ôl enwi'r chwe rhoddwr cyntaf y mae dau gwplled yn torri ar draws y rhestr (llau. 37–40) cyn i'r

bardd ailgydio yn y trywydd ac enwi'r seithfed a'r wythfed rhoddwr. Wrth geisio pennu pwy yn union a gyferchir ceisiwyd sicrhau bod y rhoddwyr oll yn perthyn i linach Elidir Ddu ac yn byw yn Llandeilo a'r cyffiniau. Dynodwyd yr wyth rhoddwr yn CM 12 (a thrachefn yn LIGC 670D), a llwyddwyd i wneud hynny yn gywir.

Erchir yr wyth ych ar ran Gwilym ap Morgan ap Rhys, gw. cerddi 10–11. Mam Gwilym oedd Lleucu, merch Rhys ap Gwilym ap Ffyllib ab Elidir Ddu, gw. WG1 332. Dengys y tabl uchod y cyswllt achyddol rhwng y rhoddwyr a'i gilydd, a rhwng y rhoddwyr a'r eirchiad.

Golygwyd y cywydd hwn yn DGGD cerdd 9. Y mae rhai gwahaniaethau rhwng y modd y dehonglwyd tystiolaeth y cywydd o ran y rhoddwyr rhwng y golygiad hwnnw a'r golygiad newydd, a chyfeirir at y gwahaniaethau yn y nodiadau isod.

8 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 13, 27 (ond gw. *ib.n*).

11 **arfau** Y mae gan yr eirchiad, Gwilym ap Morgan, yr offer angenrheidiol i ymosod ar y maes a'i droi, ond ni fedd ychen.

18 Adroddodd y bardd rai o'r hanesion am saint Enlli yn un o'i gywyddau, gw. nodyn brig cerdd 93 a llau.7–8 *Dau nid aeth, cofiaeth cwfaint, / O'u sêl i'r ugeinmil saint*.

Ar ochr y ddalen yn ei drawsysgrifiad o gerddi Hywel Dafu yn Bangor 7268 cymhellwyd D.D. Williams i ychwanegu'r sylw *Mynachaeth*. Ailadroddodd y sylw ar sawl achlysur arall yn y llyfr.

21–4 **Morgan ... / ... / ... Rys ... / ... ŵyr Rys** Morgan ap Rhys ap Gwilym ap Ffyllib ab Elidir Ddu yw hwn, gw. WG1 332, sef ewythr yr eirchiad, brawd ei fam. Gwenllïan, merch Rhys ap Tomas ap Dafydd, oedd gwraig gyntaf Rhys ap Gwilym, gw. WG1 404, a chywir felly fyddai galw Morgan yn *ŵyr Rys*, ond ymddengys mai Sioned merch Tomas Fychan o Langathen, ail wraig ei dad, oedd ei fam ac nid Gwenllïan, ac ar ei hach hi gw. WG1 405. Cysylltir disgynyddion Morgan â Llanegwad yng nghwmwd Catheiniog, tra trigai disgynyddion ei frawd, Maredudd, yn Nhrecastell yn Llandeilo. Yn ei gywydd moliant iddo, lleola Lewys Glyn Cothi ef yn Llandeilo, gw. GLGC 34.3 *Morgan, fan Llandeilo Fawr*.

25–7 **Rhydderch ... / ... / ... mab Domas** Rhydderch ap Tomas ap Gwilym ap Ffyllib ab Elidir Ddu, gw. WG1 331; WG2 653. Cysylltir y teulu â Gwern-gib yn Nhre-gib yn Llandeilo. Canodd Hywel Dafu foliant a marwnad i'w frawd, Gwilym, gw. cerddi 77–8.

27 *n* wreiddgoll neu gyfatebiaeth $n = m$. Gw. ymhellach 3.27n a 'Cynghanedd' tt. 41–2, 44.

29 **pâr** 'Gwedd neu ddeuben o ychen', gw. GPC 2683. Cf. ID XXIV.11–12 *y mae par gan u barwn / paratoi kael par attwnn* (cywydd i ofyn ychen).

29–30 **Siôn ... / ... Harri** Awgrymodd B.O. Huws fod y Siôn hwn yn cael ei enwi drachefn yn ll. 34 a bod Harri naill ai yn fab i Rydderch ap Tomas (gw. uchod) neu yn fab i Ruffudd ap Maredudd ac yn frawd i Siôn Dwinn (gw. llau. 34–6n). Ond awgryma'r geiriad *Ych Siôn ... / Ych Harri wych ar ei ôl* fod yma gyfeiriad at dad (Siôn) a mab (Harri), a bod y bardd yn erchi gan y naill a'r llall. Gellir bod yn bur sicr mai Harri a'i dad, Siôn ap Gwilym Fychan ap Gwilym ap Ffyllib ab Elidir Ddu, oedd y ddau hyn, gw. WG1 331; WG2 651.

33 **Gruffudd mab Maredudd** Un ll. yn unig a neilltuir iddo. Gruffudd ap Maredudd ap Rhys ap Gwilym ap Ffyllib yw hwn, gw. WG1 332; WG2 655, a chysylltir y teulu â Threecastell yn Llandeilo. Yr oedd Gruffudd, felly, yn nai i Forgan ap Rhys, y rhoddwr cyntaf, ac yn gefnder i'r eirchiad Gwilym ap Morgan. Cynigiodd B.O. Huws mai Gruffudd Dwinn ap Maredudd ap Harri o Ystradmerthyr yng Nghydweli oedd dan sylw, ond nid oedd ef yn un o ddisgynyddion Elidir Ddu.

34–6 **Siôn Du ... Wilym / ... Siwan ... / ... Maredudd** At deulu Ystradmerthyr y troes B.O. Huws wrth geisio ei leoli yntau, a barnai ei fod yn fab i Ruffudd Dwinn ap Maredudd, ac yn frawd i Harri, gw. y nodyn blaenorol. Ond gellir ei gysylltu yntau hefyd â thylwyth Elidir Ddu. Priododd Isabel, merch Gwilym ap Ffyllib ab Elidir Ddu (a chwaer Gwilym Fychan, Tomas a Rhys), â Gwallter ab Ieuan, a'u mab hwy oedd Gwilym a briododd yn ei dro â Siwan Ddu, merch Maredudd Bwl o Lanfihangel Aberbythych yn Is Cennen, gw. WG1 623. Eu mab hwy oedd Siôn Ddu. Canodd Hywel Dafi i Gwilym a Siwan, gw. cerdd 79, fel y gwnaeth Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC cerdd 25. Lleolodd Lewys eu cartref ar lawr dyffyn Tywi, gyferbyn â chastell Dinefwr *Yng nghyfair tref Ddinefwr / y mae ei dai am y dŵr* (llau. 2–3).

Er na ddisgynnai Dwiniad Ystradmerthyr o Elidir Ddu yr oedd cyswllt priodasol rhwng y ddau dylwyth. Gwraig Gwilym ap Ffyllib ab Elidir Ddu oedd Gwladus, ac yr oedd hi yn ferch i Harri Dwinn ac yn chwaer i Faredudd ap Harri, gw. ll. 33n a WG1 614. Er mai hi oedd trydedd wraig Gwilym ap Ffyllib, hi oedd mam Gwilym Fychan, Tomas a Rhys.

37–40 Ar ôl enwi chwech o'r rhoddwyr, cyfeirir yn y ddau gwpled hyn at yr eirchiad, Gwilym ap Morgan ap Rhys, a'i fawr awydd i sierchau'r wyth ych fel y gallai droi'r tir a hau.

41–6 **Siôn ... / ... / ... Gwilym / ... / Llywelyn ... / Du** Meibion Siôn ap Llywelyn Ddu ap Dafydd o Lanegwad oedd Gwilym a Llywelyn Ddu, gw. WG1 217; WG2 427. Y mae Llanegwad ryw bum milltir o Llandeilo ar hyd dyffryn afon Tywi. Eu mam oedd Lleucu Llwyd, ac yr oedd hi yn ferch i Isabel, merch Gwilym ap Ffyllib ab Elidir Ddu, gw. llau. 34–6n. Canodd Lewys Glyn Cothi i Wilym ap Siôn, a disgrifia'r modd y byddai'r ddau ohonynt yn darllen cerddi ac ystorïau gyda'i gilydd, gw.

- GLGC 58.27–34. Canodd Ieuan Deulwyn gywydd i geisio cymod Llywelyn ap Siôn, gw. ID cerdd XLIV, a chyfarchodd ei frawd, Gwilym, hefyd, gw. *ib.* cerdd XXXII (ond nid ef a gyferchir yn *ib.* XLI er gwaethaf y sylw td. 108).
- 49 Y mae'r ll. a gofnodwyd yn CM 12 yn fwy llyfn: *Eirth o goed wrth og ydynt.*
- 52 **y ceirch ar eu cyrn** Esbonnir gan B.O. Huws mai'r arfer oedd clymu codau wrth gyrn yr anifeiliaid a'r rheini'n cynnwys naill ai deunydd porthiant neu hadau i'w hau.
- 53 **tyddyn ton** Nid ffurf f. *town* sydd yma, ac eg. yn unig yw *tyddyn* yn ôl GPC 3670–1. Deellir *ton* yn eg. 'tir heb ei aredig, gwyndwn', gw. GPC 3520. Addas felly yw'r disgrifiad *tyddyn ton* mewn cywydd i erchi ychen. Cf. 38.13–14 (mewn cywydd arall i erchi ychen) *Mae ym mrig Ceredigion / Bâr a dry'r talar drwy'r ton.*
- 57–64 Ar ôl dyfalu'r wyth ych wrth eu gwaith yn llau. 47–56 cynigir disgrifiad manwl o'r aradr a'r *ddau filwg*, y ddwy ddyfais a fyddai'n hollti'r tir, sef y swch a'r gyllell denau finiog, neu'r cwlltwr, a osodid o'i blaen ac a hwylusai'r gwaith o hollti'r tir. Disgrifir y mathau o erydr a arferid yng Nghymru rhwng y 13g. a'r 18g. yn y bedwaredd bennod yn F.G. Payne, *Yr Aradr Gymreig* (Caerdydd, 1954), a phwysir yn drwm ar dystiolaeth canu'r beirdd. Dyfynnir llau. 57–64 o gywydd Hywel Dafu ar d. 86 a'u hesbonio.
- 64 **ffod** Cynigir yn betrus yr ystyr 'darn o bren neu o haearn symudadwy ar flaen aradr gynt i reoli dyfnder yr aredig', gw. GPC 1299.
- 72 Cf. diweddglo 77.60 *Bid i'w orwyr bedeiros* (mewn cywydd i Wilym ap Tomas ap Gwilym, brawd Rhydderch a enwir yn ll. 25).

13

Cywydd moliant i Domas ap Siancyn Fychan ap Siancyn ap Rhisiart ap Siancyn ap Dafydd ap Rhys ... Bleddyn ap Maenyrch, gw. WG1 88; WG2 170. Yr oedd Siancyn Fychan yn frawd yng nghyfraith i Wilym Dew o'r Argoed a gyferchir yng ngherddi 1–3.

- 4 **ag a'i fodd** Ffurf ar y cymal perthynol, gw. GPC² 111–12; H. Lewis, 'Y rhagenw perthynol', B x (1939–41), 300–1. Cf. 79.40 *Pob cryf ag a ddeisyf dda*, 98.15 *Nid oes nerth ag a berthyn*. Dewisodd Lewys Glyn Cothi arfer y gystrawen ar sawl achlysur, gw. GLGC 65.17–18 *Salve'r tŷ 'nglan Taf / gwyn ag a enwaf*, 176.5 *Gwae fardd a cherddor ag a fydd—mewn hawl.*
- 5 **Gruffudd** Gwraig Siancyn Fychan oedd Gwenllïan, merch Gruffudd ap Llywelyn o Dre Castell, ap Hywel Fychan ap Hywel ab Einion Sais, gw.

- WG1 102, 105. Yr oedd Gruffudd yn frawd i Ddafydd Gam.
- 6 **Einion Sais** Gw. ll. 5n. Yr oedd Dafydd ap Rhys, un o hynafiaid Tomas, yn frawd i Einion Sais.
- 7 **Dafydd** Gw. y nodyn brig. Ond gallai fod yma gyfeiriad at Ddafydd Gam, gw. ll. 5n.
- 8 **Rhys Goch** Merch Rhys Goch ap Rhys oedd ail wraig Siancyn ap Rhisiart. Ni nodir yn WG1 88 pwy oedd mam Siancyn Fychan, ond awgryma'r cyfeiriad hwn mai yr ail wraig ydoedd.
- 9 **gwlad Forgan** Gw. ll. 31n.
- 10 **caregl** Gall olygu 'cwpan, ffiol, llestr yfed' yn ogystal â'r 'cwpan a ddefnyddir yng ngwasanaeth y Cymun', gw. GPC 426.
- 12 **Adam** Yr oedd Margred, gwraig Tomas ap Siancyn Fychan, yn disgyn yn uniongyrchol o Rys Llwyd ab Adam, fel Hywel Dafï ei hun, gw. WG1 109; WG2 225, ond nis henwir yn y cywydd. Yr oedd Margred, gwraig Gwilym Dew a mam Hywel Dew, yn fodryb i Domas ap Siancyn Fychan.
- 14 **gwayw 'n y rhest** 'Dyfais ar arfwig i ddal bôn gwaywffon' oedd y *rhest*, gw. GPC 2982. Cyplysir y ddau wrthrych, y rhest a'r waywffon, mewn dau gywydd o waith Lewys Morgannwg, gw. GLMorg 24.35–6 *Ac am orchest, gwayw marchawg, / Nid â , 'n rest, undyn yrhawg, 81.35–6 Gwayw a dorrud, gyw dewrwych, / Gwaedlyd rest Gadwaladr hir.* Trafodir dau gyfeiriad yng nghanu Guto'r Glyn at y rhest gan Jenny Day, ' "Arms of stones upon my grave": weapons in the poetry of Guto'r Glyn', GwalchCG 244–5.
- 15 **Aberysgir** Plwyf yng Nghantref Selyf, ryw dair milltir i gyfeiriad y gorllewin o Aberhonddu. Yr oedd yn lle o bwys gynt. Safai castell Normanaidd ger cymer afonydd Ysgir ac Wysg, a bu caer Rufeinig yma hefyd ar un adeg, gw. BWPowys 280–1. Ansicr yw tarddiad yr e. Awgrymodd S.J. Williams y gall gynrychioli ffurf l. *ysgwr* 'ysglodyn', gw. 'Some Breconshire place-names', *Brycheiniog*, xi (1965), 157.
- 17 **triael** *Tri Hael Enys Prydein: Nud Hael mab Senyllt, Mordaf Hael mab Seruan, Rhyderch Hael mab Tudwal Tutclyt*, gw. TYP³ 5–7, ond nid enwir yr un o'r tri yn y cywydd hwn. Yr oedd y tri yn orwyrion i Ddyfnwal Hen, gw. tabl 22 yn WG1, ac yr oedd Nudd a Mordaf yn ddau gefnder. Er bod Hywel Dafï yn enwi pob un o'r tri yn ei gywyddau, ar un achlysur yn unig y cyplysir y tri, gw. cerdd 76.
- 19 **Dafydd Llwyd** Y bardd a'r brudiwr Dafydd Llwyd o Fathafarn. Yr oedd Dafydd a Hywel Dafï yn gyfoeswyr ond dyma'r unig gyfeiriad at y brudiwr yng nghanu Hywel Dafï. Fodd bynnag, cofnododd un o'i gywyddau yn Pen 67, gw. Peniarth MS. 67, cerdd XXXIV. Anodd rhoi dyddiadau pendant i Ddafydd Llwyd ond dengys ei farwnad i Syr

- Gruffudd Fychan a laddwyd yn ddichellgar gan Harri Grae, iarll Tancerfil, ei fod yn canu erbyn 1447, ac yr oedd yn dal i ganu yn ail hanner yr 1480au yn dilyn brwydr Bosworth, gw. GDL1 11–17; CLC² 159.
- 20 **Dafydd** Gall fod Hywel Dafī yn ailadrodd enw Dafydd Llwyd, neu yn cyfeirio at ail fardd, sef Dafydd ap Gwilym. Gw. ymhellach 2.14n.
- 23 Cf. 57.1n *I'm cawell y mae cywydd*.
- 24 **Sypyn** Y bardd Sypyn Cyfeiliog neu Ddafydd Bach ap Madog Wlad-aidd. Rhyfedd ar un ystyr gweld Hywel Dafī yn canu ei glodydd fel englynwr am mai un englyn o'i waith a ddiogelwyd, gw. cerdd 7 yn GSCyf, ac ni ellir bod yn gwbl sicr ynghylch dilysrwydd y priodoli. O ran hynny prin yw'r cywyddau sydd wrth ei enw hefyd, ac ni pherthyn yr un ohonynt i Frycheiniog. Gŵr o gwmwd Cyfeiliog ydoedd, a barna R.I. Daniel iddo ddechrau canu yn ail chwarter y 14g. ac o bosibl yn y pedwardegau. Am gyfeiriadau ato (gan gynnwys y sylw yn y cywydd hwn), gw. *ib.* 6–7.
- englyn well** Treiglid yr a. yn dilyn eg. mewn cymal neg., gw. Treigladau 66–7.
- 26–8 **Awyr a thir ... / ... / Dŵr ... a'r tân** Cyffelybir Tomas ap Siancyn i'r pedair elfen y crewyd y byd a phopeth ynddo ohonynt. Gw. yr adran 'Y pedwar defnydd' yn DrOC 106–9. Cf. 49.7–8, 55.1–2.
- 31 **gwlad Wrgan** Y mae'n bosibl fod tri chymeriad wedi eu cymysgu, sef Gwrgan Fawr, Gwrgan ap Cynfyn, brenin teyrnas Erging, a Gwrgan Frych, brenin gwlad Morgan, gw. WCD 332–4; WG1 tabl 16; cf. ll. 9 *Carw gwlad Forgan gyfannedd*.
- 33 **triniau** Pen 67 *trinia*, ond y mae'r gynghanedd sain yn galw am *triniau*. Dilynydwyd diwygiad Pen 99 sydd yn cynnig cynghanedd reolaidd.
- 34 **darbodwch** Pen 67 *darbedwch*, ac ymddengys fod y bardd wedi cyf-uno'r ddwy f. *arbed* a *darbod*. Ar *darbod* 'talu sylw (i), malio (am), hidio (am)', gw. GPC 891. Diwygiwyd yn *arbedwch* yn Pen 99.
- 41 **borau** Defnyddid y ffurf hon yn achlysurol at ddibenion yr odl. Am engh. yn safle'r brifodl gw. GSC 18.55–6 (lle yr odlir *borau* / *gau*) a GHS 2.65–6 (lle yr odlir *gorau* / *dorau* / *borau*), ac am ddefnyddio'r ffurf mewn cynghanedd lusz, gw. DG.net 146.17n (lle yr odlir *borau* / *goleuwefr*). Defnyddia Hywel Dafī ei hun y ffurf yn 37.73–4 *Honno barodd hwn y borau, / Ni châi dorau na choed irion*.
- 43 **o dri mynydd** Yn BL Add 31070 yn unig y ceir *o dir mynydd*, a cf. 31.24n.
- Cynghanedd groes o gyswllt neu *n wreiddgoll*.
- 45 **efo** Geiryn berfol yw *efo* yma, yn 47.39 *Efo dyr llif y deri*, 50.50 *Efo*

wna'r sant fwy no'r Sais, 54.52 *Efo red merched i'm ôl*, 55.49 *Efo fydd llu bedydd byd*, 57.54 *Efo fu 'msaethu rhwng saint*, 70.50 *Efo â'r groes fawr i Gred*, ac o bosibl yn 23.56 *Efo lwydia fal Adam*. I ddiwedd yr 16g. y perthyn yr engh. gynharaf yn GPC 1172. Diwygiwyd *efo* yn *ef a* yn Pen 99.

51 Engh. brin o groestynnu rhwng y gynghanedd a'r synnwyr (*campus* nid *wyd* sydd yn safle'r orffwysfa).

14

Ni ddiogelwyd enw gwrthrych y cywydd hwn, sef Syr Morgan ap Rhys ap Rhoser, yn yr achau, ond gellir cynnig yn weddol hyderus ei fod yn perthyn i dylwyth Trahaearn Fawr. Enwir dau o feibion Rhys ap Rhoser ab Ieuan ap Gruffudd ap Hywel ap Gwallter yn WG1 858, sef Rhisiart ap Rhys a Rhoser ap Rhys, ac y mae'n bosibl mai swydd eglwysig gwrthrych y moliant sydd yn esbonio'r ffaith nad enwir Morgan hefyd. Gwenllïan oedd mam y brodyr, ac yr oedd hi'n ferch i Hywel Gethin (ll. 4) ap Dafydd ab Ieuan, gw. WG1 205; WG2 404. Sioned, merch Rhys Llwyd ab Adam, oedd gwraig Dafydd ab Ieuan. Rhannai hi a Hywel Dafi gyff cyffredin, gw. WG1 108. Trigai disgynyddion Rhisiart ap Rhys ym mhlwyf Llanfihangel Nant Brân yng Nghantref Selyf a chrybwyllir y lleoliad hwnnw yn y cywydd (ll. 37). Yn Aberysgir y trigai tylwyth Lleucu, gwraig Rhisiart ap Rhys, gw. WG1 94.

Gwyddys bod gŵr o'r enw Morgan ap Rhys yn dal swydd ficer plwyf Llywel cyn iddo ef a Siôn ap Tomas, ficer eglwys Ioan yn Aberhonddu, gyfnewid swyddi. Yn fuan wedyn fe'i dyrchafwyd yn rhysyfwr cyffredinol ac yn gomisiari cyffredinol archddiaconiaeth Brycheiniog, gw. HCBrec ii, 194; R.F. Isaacson, *The Episcopal Registers of the Diocese of St. David's 1397 to 1515* (2 vols., London, 1917), gw. Mynegai. Perthyn y cofnodion hyn, a sawl cofnod arall sydd yn ei enwi, i'r blynyddoedd 1404–8. Am nad oes yr un cyfeiriad ato ar ôl 1408 cesglir mai gŵr gwahanol a gyfarchwyd gan Hywel Dafi, er bod y ddau Forgan ap Rhys yn amlwg yn gwasanaethu yn yr un ardal.

Cywydd i ŵr eglwysig yw hwn, a dim ond dau gywydd arall sydd gan y bardd i noddwyr nad ydynt yn wŷr lleyg. *Cywydd i Forgan ap Rŷs Ficar Merthyr Tudfil* yw hwn yn ôl CM 12, ond ym Merthyr Cynog y gwasanaethai Syr Morgan fel y tystia'r disgrifiad manwl o'r lleoliad yn llinell 10 *Merthyr, rhwng dwy Ysgir deg*. Rhyw dair milltir sydd rhwng Llanfihangel Nant Brân a Merthyr Cynog. Ceir testun o'r cywydd yn ysgrif D.J. Bowen, 'Tri chywydd gan Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys', *Dwned*, 5 (1999), 71–88.

Y mae ambell ddarlleniad yn BL Add 15003, sydd yn llaw Iolo Morganwg, yn wahanol i ddarlleniadau'r llawysgrifau eraill. Noda iddo

gymharu ei destun ef â thestun Peter Bailey Williams, ond nid yw'r testun hwnnw yn hysbys bellach.

- 5–6 Cyfeirir at y trawsylweddïad sydd yn digwydd yn yr Ewcharist wrth i'r gwin a'r bara droi yn gorff a gwaed Crist. Cf. 71.75–6 *Gwnaeth Awstin o'r gwin ac o wynni—'r fflwr / A dŵr, da nawddwr, aed i'w noddi.*
- 10 **dwy Ysgir** Y ddwy afon sydd yn llifo trwy blwyf Merthyr Cynog a'r ddwy yn tarddu ym Mynydd Epynt: Ysgir Fechan i gyfeiriad y gorllewin o'r eglwys ac Ysgir Fawr i gyfeiriad y dwyrain. Mewn cywydd i Gynog atega Dafydd Epynt y traddodiad mai'r sant a holltodd y ddwy afon, gw. GDEp 3.35 *Yr Ysgêr a wasgarodd.*
- 12 **llên** 'Offeiriad, clerigwr', gw. GPC 2152. Awgryma darlleniad Pen 67 mai sillaf ysgafn sydd yma yn hytrach na sillaf drom *llên* 'mantell'.
- 17 **clawdd debyg** Eg. yw *clawdd*, gw. GPC 491, ond treiglid yr a. 'mewn gofyniad y disgwylir ateb negyddol iddo', gw. Treigladau 66–7.
- 20 **ar lled** Am enghrau. o'r ymadroddion *ar led*, *ar lled* a'r awgrym o wahaniaethu rhwng y ddau o ran eu hystyr, gw. Treigladau 387. Yr ystyr 'yn ymestyn allan' a gyfleir yma ac yn 22.46 *Yn wylaw a'r llaw ar lled*, 83.46 *Cai a'r holl windai ar lled*. Ar y llaw arall, yn 50.29 *Dau aeth i'r llyfrau ar lled*, 'cylchredeg' neu 'mynd led y wlad' yw'r ystyr.
- 24 **briwio** Ailadroddir y ffurf yn 30.8 *Friwio coed wrth fwrw cedyrn* ond *briwo* a welir yn Atod.1.53, Atod.II.52. Diwygiwyd yn *briwo* yn Pen 99. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38. Rhoddir i *briw(i)o* yr ystyr 'malu'n fân' yn GPC 328.
- 37–42 Nododd D.J. Bowen, 'Tri chywydd gan Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys', *Dwned*, 5 (1999), 85, nad yw'r llau. hyn yn cydasio â gweddill y cywydd, ac nid yw rhediad yr ystyr yn gwbl eglur ychwaith. Yr awgrym yw y bydd gwŷr y Fforest yn ymateb yn chwim os bydd trigolion dyffryn Nant Brân yn cael eu brawychu neu eu bygwth gan ryfel.
- 37 **dyffryn Brân** Nant Brân sydd yn llifo trwy blwyf Llanfihangel Nant Brân sydd i gyfeiriad y de-orllewin o Ferthyr Cynog.
- 40 **y Fforest** Ucheldir a rhostir rhwng y Mynydd Du i'r gorllewin a Bannau Brycheiniog i'r dwyrain.
- 41–2 **Dafydd / Ap Rhys** Nid yw'r ach yn gyflawn yn WG1 858 ac anodd gwybod pwy oedd hwn.
- 42 **parhäus** 'Arhosol, bythol; dyfalbarhaus, dianwadal', gw. GPC 2690.
- 43–4 Dehongla D.J. Bowen y cwpled hwn drwy ddweud bod Hywel Dafi yn ategu'r traddodiad fod Cynog yn fab i Frychan, a bod y llan a fu ar un adeg ym meddiant y tad yn awr o dan ofal y mab, gw. *op.cit.* 85.

45 *n wreiddgoll.*

49 **uddun'** Un o ffurfiau 3 ll. yr ardd. *i*, gw. WG 407; GMW 60.

51 **yn ddisgybl** Ensynia'r bardd ei fod wedi derbyn rhyw gymaint o'i addysg wrth draed Syr Morgan. Efallai i Hywel Dafï roi ei fryd ar yrfa eglwysig ond ni welir yn ei ganu'r gyfeiriadaeth ysgrythurol fanwl sydd yn amlwg yng nghanu ei gyfoeswr Guto'r Glyn. Tâl cofio mai Syr Mathew, ficer plwyf Llanfair Waterdine rhwng 1485 a 1520, oedd tad y bardd Hywel ap Syr Mathau a raddiodd yn eisteddfod 1523, gw. F.G. Payne, 'Hywel ap Syr Mathew a Morgan Elfael', B ix (1937-9), 101-8 (ond ni restrir yr enw yn D.J. Bowen, 'Graddedigion eisteddfodau Caerwys, 1523 a 1567/8', LICy 2 (1952-3), 129-34).

56 Cf. 59.70 *Ym yw honno i'm henaint.*

15

Meibion Morgan ap Dafydd ap Hywel Fychan yw'r brodyr a enwir yn y cywydd hwn, gw. WG1 91; WG2 179. Pwysleisia llinellau 11-14, 23-4, 51-4 fod tri gŵr dan sylw. I Hywel y rhoddir y flaenoriaeth (ll. 7). Yn llinell 10 diwygiwyd *Llywelyn nai Watgyn* yn *Llywelyn a Watgyn* gan farnu bod yma gyfeiriad at y ddau frawd arall. Gellid *Llywelyn, nai Watgyn wych* neu *Llywelyn nai, Watgyn wych*, ond anos fyddai esbonio'r gyfeiriadaeth achyddol. Trigai Hywel yn y Trallong, Watgyn yn y Bont-faen ym Merthyr Cynog a Llywelyn yn Ffrwd-grech yn Llan-faes. Cyfarchodd Hywel Dafï Hywel ap Morgan drachefn, ac yntau erbyn hynny yn ŵr priod, gw. cerdd 16. Diau fod y cywydd i'r tri brawd yn rhagflaenu'r cywydd hwnnw. Mawd, merch Hywel ap Llywelyn ap Hywel Fychan, oedd gwraig Morgan ap Dafydd a mam y brodyr. Yr oedd hi yn chwaer i Wilym Dew, gw. cerddi 1-3, ac yr oedd ei thad, Hywel, a Dafydd Gam, yn frodyr.

Diogelwyd y testun cynharaf yn llaw John Davies, Mallwyd, yn Pen 100. Bu'r llawysgrif ym meddiant David Ellis am beth amser yn 1793 ond ni chofnododd ef y cywydd.

1 **trimaib** Cyffredin yw'r ffurf l. *maib* yn dilyn un o'r rhifolion, ac felly diwygiwyd *trimab* y llsgrau. Ni ddiogelwyd y cywydd hwn yn llaw'r bardd. Am enghrau. eraill yn y canu, gw. 2.17n.

7-8 **Trydydd Hywel ... / ... trydydd Dafydd** Yr oedd Hywel yn fab i Forgan ap Dafydd ap Hywel Fychan ap Hywel ap Dafydd ap Rhys. Gallai arddel cyswllt hefyd â Dafydd Gam, gw. y nodyn brig.

10 **Llywelyn a Watgyn** Dau frawd Hywel, gw. y nodyn brig. Ni chyfeirir at wragedd y brodyr, ond priododd Watgyn â merch Rhys ap Siôn ab Ieuan ap Rhys ap Hywel Gam, gw. WG1 864. Disgynnai Siân, ail wraig Rhys ap Siôn, fel Hywel Dafï ei hun, o Rys Llwyd ab Adam.

- 12 Gall y cyfeiriad at fagu tri chant o wŷr ar fedd awgrymu bod y bardd yn gyfarwydd â chynnwys 'Y Gododdin'. Crybwyllir y tri chant o ryfelwyr ar ddeg achlysur i gyd yn y gerdd, gw. y nodyn yn CA ar *trychant trwy beiryant en cattau* (ll. 70).
- 19 **niwr** Cywasgiad o *ni wŷr*, gw. GPC 2586 d.g. *niwr Duw*.
n wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 20, 42, 45.
- 24 **ach** *Ach, achau* yn hytrach nag *iach, iachau* yw'r ffurfiau a arferir yn Pen 67, e.e. 1.15, 7.48, 10.16, felly diwygiwyd *iach* Pen 100.
Rhys Gw. llau. 7–8n.
- 27 **gafaeliaid** Ffurf amr. ar *gefeiliad*, ll. *-iaid*, 'gafaeliwr, daliwr', gw. GPC 1386. Ni chofnodwyd enghrau. o ganu'r Cywyddwyr.
- 31 **brawdfaethi** Ffurf l. *brawdfaeth* 'plentyn gwryw wedi ei gydfagu â phlentyn arall heb fod o'r un rhieni', gw. GPC 312. Anodd gwybod a ddylid dehongli'r gair yn llythrennol ai peidio. Pwysleisia'r bardd yn ail fraich y cwpled fod y ddau yn rhannu cyff cyffredin. Disgynnai Hywel o ochr ei dad ac o ochr ei fam o Fleddyn ap Maenyrch, a disgynnai, fel Hywel Dafî ei hun, o Einion Sais ar ochr ei fam.
- 40 **dehea** Ffurf amr. ar *dyheu* yw *deheu*. Defnyddid yr e. *dyhead* 'anadliad byr, cyflym neu lafurus' yn y 14g. a'r 15g. ond i'r 16g. y perthyn yr enghrau. cyntaf o'r f. *dyheu* i. 'anadlu'n fyr a chyflym'; ii. 'dirfawr chwennych': gw. GPC 1134. Y mae'r ail, o bosibl, yn fwy addas yng nghyd-destun y cwpled ond efallai fod y ffurf yn llwgr.
- 45 **ywch** Ffurf 2 ll. yr ardd. *i*, yn hytrach na'r a.cmhr. *uwch* (a welid yn aml yn y ffurf *ywch*, gw. GMW 2) sydd yn rhoi'r ystyr orau, felly diwygiwyd darlleniad Pen 100.
- 47 **Urien** Hywel ap Llywelyn oedd tad Mawd, ac yr oedd ef yn briod â Margred, merch Gwilym ap Ffyllib ab Elidir Ddu, gw. WG1 330–1. Ymhyfrydai'r teulu eu bod yn disgyn o Urien Rheged, gw. tablau 11 a 51 yn WG1; hefyd 5.22n.
- 49 **adran** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *adrannu* y rhoddir iddi'r ystyron 'rhannu, ailddosbarthu' yn GPC² 59.
- 50 **Gruffudd** Priodasai un o gyndeidiau Hywel â merch Gruffudd Gŵyr ap Cydifor, gw. WG1 115.
Rhos Cantref yng Ngwynedd Uwch Conwy. Swyddogaeth y ddau le a gyfosodir, Caerwedros a Rhos, yw cynrychioli dau begwn daearyddol Cymru. Yr oedd eglwys Rhos yn y Creuddyn yn adnabyddus oherwydd ei chysylltiadau â Maelgwn Gwynedd, a'r hanes am ei farwolaeth yn sgil y Fad Felen, gw. TYP³ 428–32.
- 51 **Einion** Disgynnai Mawd, mam Hywel, yn uniongyrchol o Einion Sais.
- 52 **gŵyr torri** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.

54 **oesi** Ni restrir *oesi* ymhlith ffurfiau ll. *oes* ‘bywyd, einioes’, ac ni restrir engh. o’r f. *oesi* ‘byw (bywyd)’ yng nghanu’r Cywyddwyr cyn dyddiau Wiliam Llŷn, ond cf. GMD 3.34 *Gwawr dan dew aesawr, Duw i’w oesi*.

16

Hywel ap Morgan ap Dafydd (gw. cerdd 15) a’i wraig Sioned a gyferchir yn y cywydd hwn ond *Cywydd i Howel Dafydd o’r Peutun* a roddwyd uwch ei ben yn CM 12. Trwy ryw amryfusedd disodlwyd y *Peutun* gan y *Penrhyn* yn MFGLI ac yn MCF. Yr oedd Sioned, gwraig Hywel, yn ferch i Lywelyn ap Gwilym o Borthgogof, ap Rhys Llwyd ab Adam, gw. WG1 109; WG2 226. Canodd Hywel Dafï gywydd mawl a chywydd marwnad i’w thad, gw. cerddi 31–3. Cofnodwyd y cywydd hwn yn Pen 67 ond ni welir yno’r cywydd i Hywel a’i dri brawd (cerdd 15).

4 **helw** Ffurf ar *elw* sydd yn cryfhau’r gyfatebiaeth gynganeddol, gw. GPC 1208. Efallai mai’r un ffurf sydd yn 37.23n *can helw*, ond gw. 8.61n lle y rhoddir enghrau. o ychwanegu *h* ar ddechrau geiriau sydd yn dilyn y rhifol *can(t)*.

5 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 6, 9, 13 (ond gw. *ib.n*), 14, 23 (ond gw. *ib.n*).

5–6 Hepgorir y geiryn traethiadol *yn* a threiglir yr a., cf. 85.41 *Ni bu dy wyneb na bai dyner*.

7 **lleuad Rys** Digwydd yr un cyfuniad yn 33.46, ond rhaid wrth gysefin yr e.p. y tro hwn.

drosam Ffurf 1 ll. yr ardd. *dros*, ac y mae’r odl yn tystio i’w dilysrwydd. Cf. y ffurf *arnam* (4.1n).

7–8 **Rhys ... / Llwyd** Gw. y nodyn brig. Mam Sioned (ac ail wraig Llywelyn ap Gwilym) oedd Siwan Ddu, merch Rhys ap Siancyn ap Rhys o Lyn-nedd, gw. WG1 311; WG2 607.

9 **ulw** ‘Lludw, marwydos (poeth), marwor’, gw. GPC 3701–2. Awgrymir bod tanllwyth a gwres mawr yn y neuadd bob amser. Cf. DG.net 124.5 *Aeth ulw dros frig wyth aelwyd*.

12 **Morgan a Mawd** Rhieni Hywel, gw. nodyn brig cerdd 15.

13 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 23.

16 Ymddengys fod gair wedi ei golli yn Pen 67. Ceisiwyd diwygio’r ll. am nad oedd cynnig Pen 99 *del beirdd yt i dalu ei bwyth* yn taro deuddeg. Cf. 27.12 *Dêl byd ywch i dalu’i bwyth*.

17–18 Cf. GG.net 9.19–20 *Ymddiried ym a ddaroedd, / Megis am swydd, arglwydd oedd*.

- 19 **llwydd** Gall fod yn e. ‘ffyniant’ neu yn a. ‘ffyniannus’, gw. GPC 2242. Yr ail sydd fwyaf addas yma.
- 25 **traglaw** ‘Glaw eithafol, drycin’. Nis nodir yn GPC ond fe’i cyfrifir yn gyfansoddair ar ddelw *tragwres*, gw. GPC 3549–50.
- 29 **cerdd gadair** Cerdd a luniwyd yn gywrain, cerdd sydd yn deilwng o gadair, gw. GPC 465 a cf. GLGC 180.29–30 *Deuled no threigl y geiniog bedair / i gyd a dreigla dy gerdd gadair*. Diogelwyd traddodiadau am yr eisteddfod a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin o dan lywyddiaeth Gruffudd ap Nicolas, a rhan Dafydd ab Edmwnd ynddi, yn llaw John Jones, Gellilyfdy, yn Pen 267, ond sonnir am ennill cadair mewn darn cynharach yn llaw Robert ab Ifan yn Pen 158 *dd: ap edmwnt gwr bonheddig o genedl yr hanmeriaid o dv i dad ... efo nillodd y gadair arian oddiar yr holl athrawon*, gw. G.J. Williams, ‘Eisteddfod Caerfyrddin’, *Llenor*, v (1926), 102. Tybed a fu Hywel Dafī yno, a thybed a ddyfarnwyd gradd iddo? Mewn cywydd dychan i Hywel Dafī gan Siôn ap Ffelpod, honna fod y bardd yn mynnu *Rodd uwch am ei radd uchod*, gw. 63.28n a ‘Rhagymadrodd’ tt. 16–18.
- 30 **y Peutun** Y mae’r Peutun-du, y Peutun-gwyn a’r Peutun-glas ar gyrion gogleddol tref Aberhonddu. Fe’u gwerthwyd gan y gŵr a roes ei enw iddynt, sef William Poitons neu Peytons, i Lywelyn ap Hywel Fychan, tad Dafydd Gam, gw. E.P. Jones, ‘Cartrefi enwogion sir Frycheiniog’, *Brycheiniog*, xiii (1968–9), 114–15.
- 31 **darllewyr** Rhestrir y ll. yn GPC 895 d.g. *darllenwr, darllëwr* ond nid yw arwyddocâd y cyfeiriad yn amlwg. Gellid diwygio yn *darllawyr* (un. *darlläwr* ‘bragwr, gwerthwr cwrw’, gw. GPC 894), cf. y cyfeiriadau yn y cywydd at *defyrn* (ll. 5) a *diod* (ll. 11). Tybed ai’r awgrym yw bod y lliain ar y bwrdd yn treulio am fod cymaint o yfed a gloddesta yn digwydd? Awgrymir bod lliain yn cael ei hulio ar y bwrdd yn un o gywyddau Ieuan Deulwyn, gw. ID XXVI.35–6 *Ni bu n y bwrdd le i ben bys / At liain bort Huw Lewys*.
- tyr lliain** Ar gadw ffurf gysefin y gwrth. yn dilyn bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.
- 34–6 **merched ... / ... / ... meibion** Enwir saith mab a thair merch yn WG2 179.
- 35–6 Nid yw ergyd y cwpled yn glir. Gallai *iaith Wynedd* awgrymu bod Hywel Dafī yn hanu o’r gogledd a bod ei dafodiaith o’r herwydd yn ddieithr. Dehongliad arall fyddai bod y bardd yn datgan cerddi a luniwyd gan feirdd o Wynedd. Y mae’n fwy tebygol fod tafod y bardd yn ei foch a’i fod yn disgrifio ei iaith yn dilyn cyfnod o absenoldeb o’r cartref. Cf. honiad Casnodyn, bardd o Gilfái ger Abertawe, wrth annerch Gwenllian, gwraig Gruffudd Llwyd, *Mau geiriau golau gŵyl Wyndodeg*, / *Mi a wŷr moli hil rhi, hawl rheg*, gw. GC 5.21–2. Fodd

bynag, dwy gerdd yn unig a ddiogelwyd i noddwyr o ogledd Cymru, y naill yn gywydd a'r llall yn awdl, gw. cerddi 83–4 (a'r disgrifiad yn 84.18n o'i gerddi *gwyndodig*). Yn llau. 25–6 honna'r bardd na fydd Hywel a Sioned ddim dicach pan fydd yn dychwelyd i'w cartref ar ôl ysbaid o grwydro, ac na fydd eu croeso fymryn yn llai. Bernir mai 3 un.pres.myn. y f. *meddu* sydd yn ll. 36 yn hytrach na'r e.c.

42 **Gruffudd ... Rys** Gw. 15.24n, 50n.

44 **a wna rhan** Cf. ll. 31n. Y mae'r gyfatebiaeth gynganeddol yn gryfach yma o gadw cysefin *rhan*.

49 **Elidir** Gw. 15.47n.

51 **Tyfaelog** Ym mhlwyf Llandyfaelog Fach yng Nghantref Selyf yr oedd y tri Pheutun. Y sant Maelog a roes ei enw i'r plwyf, ac yn ne Cymru y mae'r rhan fwyaf o'r eglwysi a gysegrwyd iddo, gw. LBS iii, 401–6. Ychwanegwyd y rhagddodiad anwes *ty-* at enw'r sant Maelog, fel y gwnaed gyda'r enw Teilo, sef Eliud, cf. 1.58n.

melyn Gallai oleddfu *hebog* neu *Tyfaelog*. Y mae'n gyfystyr ag 'euraid, eurlliw; melynwallt', gw. GPC 2422. Adwaenid y sant Cybi wrth yr enw Cybi Felyn, gw. LBS ii, 209.

17

Gwrthrych y cywydd hwn yw Gwilym Fychan ab Ieuan ap Gwilym ap Llywelyn ap Hywel Fychan ap Hywel ab Einion Sais, gw. WG1 102; WG2 207. Cysylltir y teulu â'r Peutun-gwyn. Trafodir y canu i'r teulu yn NBBM 298–307, a gelwir sylw at gywydd marwnad Hywel Swrdwal i'r un gŵr, gw. GHS cerdd 14, a marwnad Ieuan ap Hywel Swrdwal i dad Gwilym Fychan, gw. *ib.* cerdd 29. Dyfelir i Hywel Swrdwal gyfarch mab Gwilym Fychan hefyd, gw. *ib.* cerdd 15, fel y gwnaeth Huw Cae Llwyd, gw. HCL1 cerddi VI, IX, XXX, XXXIV; A.C. Lake, 'Noddwyr Huw Cae Llwyd', *Dwned*, 20 (2014), 67–8. Dywed Hywel Swrdwal mai yn eglwys Ioan yn Aberhonddu y claddwyd Gwilym Fychan, gw. GHS 14.59–62 *Yn nhref dy dad lle cad cost, / Fab Ieuan, i'th fyw buost. / Weithian yn nhir Ieuan rym / Efengyliwr, fy Ngwilym* (diwygiwyd ll. 61; *Weithian ynn, hir Ieuan rym* sydd yn y golygiad). Y mae'n bosibl mai llyfr ei fab, Ieuan, oedd Pen 54, llawysgrif sydd yn cynnwys cerddi yn llaw Hywel Swrdwal, Ieuan Deulwyn, Dafydd Epynt, Huw Cae Llwyd a Hywel Dafî ei hun.

Ni sonia Hywel Swrdwal yn ei farwnad am yrfa Gwilym Fychan. O ddehongli yn llythrennol yr hyn a ddywed Hywel Dafî, bu'n ymladd yn Ffrainc, ym Mharis ac yn Rouen, pan oedd yn ŵr ifanc, a hefyd yn Iwerddon. Y mae hyn yn gyson â'r awgrym ei fod yn hŷn na'r bardd (ll. 51 *Ninnau'n feibion un febyd*). Bellach y mae wedi ymsefydlu yn ei gartref ac yn ymroi i drin y tir. Trafodir y brwydro yn Ffrainc gan A.D. Carr, *Cymru*

a'r Rhyfel Canmlynedd (Caernarfon, 1987). Canodd Hywel Daf i Owain Dwnn pan oedd yn brwydro yn Iwerddon tua 1447, gw. cerdd 82, ac y mae'n bosibl fod Gwilym Fychan yn rhan o'r cyrch.

2 y **ddraig goch** Hon a gynrychiolai genedl y Cymry yn yr ymryson â'r ddraig wen estron, gw. BD 102–4 a cf. 43.25–6 *Trywyr ... a ladd draig wen*; GRhGE 9.1–12 *Y ddraig ... / ... / I'r Brytaniaid ... / Y'th rodded ... / ... / Y ddraig goch oedd rywiog gynt.*

Groeg Disgynyddion Brutus o Gaer Droea oedd y Cymry, yn ôl Sieffre o Fynwy, gw. BD 19 *Ac y mynnvys Brutus galv yr enys o'e enw ef Brytaen, a'r genedyl yn Vrytannyeit.* Cf. GLM XLI.49–50 *Ni chafas Brutus yn hapusach / o Roeg hyd ei long wraig deilyngach.*

r wreiddgoll.

4 **ail Gynan** Ar y treigladd, gw. 4.5n.

Cynan Mab Iago ab Idwal a thad Gruffudd ap Cynan, gw. y tabl achau yn J. Davies: HC 80–1. Llofruddiwyd Iago ab Idwal yn 1039 a'i wŷr, Gruffudd ap Cynan, fyddai'r nesaf o linach Gwynedd i reoli. Yn anarferol disgrifir Gruffudd yn wŷr i Iago yn hytrach nag yn fab i Gynan, gw. HW 379.

7 **Rhys** Yr oedd Mawd, gwraig Llywelyn ap Hywel Fychan, yn ferch i Ieuan ap Rhys ab Ifor Goch, gw. WG1 600.

9 **Elisau** Nid oedd yr un Elisau ymhlith hynafiaid uniongyrchol y teulu, ond cf. 8.50n.

10 **ag a phawb** Ar y gystrawen, gw. 13.4n.

12 **dros y wlad** Gall *dros* gyfleu'r ystyr 'y tu hwnt i', gw. GPC 3615–16. Eir ymlaen i ddweud bod Gwilym wedi bod yn brwydro yn Ffrainc ac Iwerddon. Y mae *dros y wlad* yn gyfystyr yma â 'dros y môr, mewn gwlad dramor'. Yr ystyr 'uwchben' neu 'ar draws' sydd yn ll. 17.

15 **sis** 'Gwarchae', gw. GPC 3277 d.g. *sij*, hefyd EEW 126, ond y mae'r odl yn mynnu'r ffurf *sis* yma. Ailadroddir y ffurf yn 61.43. Digwydd hefyd yn un o gywyddau Huw Cae Llwyd, unwaith eto yn odli â *Paris*, gw. HCLI XV.53–4 *Dy lys wen y sy'n daly sis, / Un ffurf yw hon â Pharis.*

Paris Ni restrir Gwilym Fychan ymhlith y milwyr a fu'n gwasanaethu yn Ffrainc ar wefan SLME, ond awgryma'r cyfeiriadau at Baris ac at Rouen iddo gymryd rhan yn y brwydro yng nghyfnod olaf y Rhyfel Can Mlynedd.

17 **tros Ddulyn** Gthg. *dros daear* (7.40n), *tros deuparth* (48.21).

21 **gwelas** Yr oedd *gwelas* a *gweles* yn ffurfiau 3 un.grff. *gweld*, gw. G 653.

22 **gwyddiai** Un o ffurfiau 3 un.amhff.myn. *gwybod*, gw. GMW 147–8. Dilynwyd Pen 67 yn betrus gan anwybyddu'r diwygiad [g]wyddai yn

Pen 99. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. ‘Rhagymadrodd’ td. 38. Digwydd *gwiddiwnn* yn 63.31 yn llaw Hywel Dafï ond mewn cerdd o waith Siôn ap Ffelpod, gw. ymhellach 48.23n.

brud Gellid ffurf dreigledig *pryd* ‘gwedd, ymddangosiad’, ond dilynwyd CM 12 a mabwysiadu ffurf dreigledig *brud* am fod Adda Fras yn enwog ar gyfrif ei broffwydoliaethau.

Adda Fras Y bardd a’r brudiwr, gw. CLC² 8, ac am rai cyfeiriadau ato gw. GMRh 5.2n.

24 **ffyrdd Elen** Cysylltir Elen Luyddog, gwraig Macsen Wledig yn y chwedl ‘Breuddwyd Macsen’, â’r ffordd Rufeinig Sarn Helen, gw. TYP³ 342–4. Arwain rhan o’r ffordd honno o gyfeiriad Ystradfellte i’r gaer Rufeinig a godwyd ar lan ogleddol afon Wysg, rai milltiroedd i’r gorllewin o Aberhonddu. Cf. 103.9–10 *Gyrrais am hyn o gerrynt / Ddwylan Gwyffyrdd Elen gynt*.

26 Digwydd yr un ll. mewn cywydd o waith Ieuan Deulwyn, gw. ID XLI.48.

33 **mêl cwyrâid** Mêl yr haid gyntaf y bernid ei fod yn rhagori o ran ei ansawdd, gw. GPC 2418 a cf. GLGC 228.31–2 *ym eilwaith gyda’i win melyn—wrth raid / y gwnaid mêl cwyrâid mal licorys*. Ailadroddir y ll. yn 74.12 ond *mêl cwyrâid* yw’r darlleniad y tro hwn.

18

Dilynir ach gwrthrych y cywydd yn drefnus dros bedair cenhedlaeth yn y llinellau agoriadol, sef Siôn Fychan ap Gwilym ap Ffyllib ap Meurig Ddu ap Meurig ap Rhys Gryg, gw. WG1 792; WG2 1522. Nid yw’r ach yn gyflawn, ac o’r herwydd methwyd ag esbonio’r cyfeiriad at Drahaearn (ll. 9), Iefan (ll. 10) a Madog (ll. 11). Nid enwir gwraig Siôn yn WG1 792, ond Marsli oedd ei henw, a barnu wrth dystiolaeth Hywel Dafï. Yr oedd hi yn ferch i Ffyllib Fychan ap Gwilym ap Ffyllib o’r Tyle-glas, gw. WG1 602. Yr oedd Ffyllib Fychan ap Tomas Fychan, gwrthrych cerdd 42, yn nai iddi. Trafodwyd y ddau gywydd yn NBBM 125–8 a nodwyd bod cyswllt rhwng y ddau deulu er na lwyddwyd i adnabod gwrthrychau’r moliant. Lleola Hywel Dafï Siôn Fychan a’i wraig ym mhlwyf Llys-wen.

Diogelwyd y testun cyflawn cynharaf yn Pen 100 yn llaw John Davies, Mallwyd. Fodd bynnag, cofnodwyd rhannau dethol yn Pen 60 hefyd gan law X71, gw. RwpWM. Copïwyd geiriau cyntaf braich gyntaf pob cwpled; llwyddwyd i gofnodi rhan o bob cwpled a hynny yn y drefn gywir. Dilynwyd Pen 60 yn llinellau 5, 23 a 27.

1 **Silin** Enw sydd yn cyfateb i Giles yr oedd ei gwlt yn boblogaidd iawn yn Ffrainc. Dyma’r sant a goffeir yn Llansilin, ond y mae’n bosibl fod

- sant brodorol o'r enw Silin a'i fod ef a Silin / Giles wedi eu cymysgu, gw. WCD 588–9. Ar gyswllt Silin / Giles ag eglwys Wrecsam, gw. GG.net 111.26n.
- 5 Dilynwyd Pen 60 *wyr ffylib ay gorff*.
- 13 **nid anturiai dyn** Treiglo goddr. bf. yn diweddu yn *-ai* oedd yr arfer, gw. Treigladau 214 a cf. 36.23 *Ni adai Dduw oedi'i ddydd*. Prawf y gynghanedd mai'r gysefin a fwriadwyd yma.
n wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 17.
- 16 **dala** Ymddengys fod y ll. yn llwgr a bod gair unsill yn eisiau. Digwydd *dala* yn rheolaidd yn Pen 67 ond geilw'r mesur am air unsill bron yn ddieithriad. Ond Pen 100 yw ffynhonnell gynharaf y cywydd hwn.
- 19 **hil Watgyn Llwyd** Y mae'r cyfeiriad hwn yn un annisgwyl gan mai ail wraig Tomas Fychan, brawd Marsli, oedd Alis, merch Syr Watgyn Llwyd. Awgrymir bod cyswllt clòs rhwng y ddau deulu. Y mae'r drylliau a gofnodwyd o'r cywydd hwn ac o'r cywydd i Ffylib Fychan ap Tomas Fychan, gw. cerdd 42, yn dilyn ei gilydd yn Pen 60.
Ar ateb y cyfuniad *tg*, gw. J. Morris-Jones: CD 212.
- 20 **can haelwyd** Gw. 8.61n.
- 23 **ieirll** Yr oedd Gwilym ap Ffylib, taid Marsli, yn briod â Mawd, merch Tomas ap Gwilym. Ei brawd hi oedd Syr Wiliam ap Tomas, ail ŵr Gwladus Gam a thad Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, gw. WG1 422.
- 24 **y Llys-wen** Gw. ll. 45n.
- 27 **holl dynion** Y mae'r calediad hwn yn un cyffredin, gw. Treigladau 93 a cf. 31.44 *Dwynwen, ar holl dynion Rhys*.
- 28 **beichiau** Gellid *meichiau*, ffurf l. *mach* 'gwarantwr', gw. GPC 2299, ond tebycach mai ll. *baich* 'pwn, llwyth', gw. GPC 250, sydd yma. Gall y sôn am enwogrydd Siôn Fychan fod yn fwrn ar brydiau!
- 30 **hÿn o'i rent** Camddeallwyd ergyd y ll. yn Pen 100. Diwygiwyd *hÿn na'i rent* yn *hÿn o'i rent*.
- 32 **aros aur** 'Aros ei urddo yn farchog', cf. 17.60 *Dwyn iddo gadwyn ac aur*; GLMorg 8.5–6 *O'th eurwyd yng ngwaith Harri, / Wrth raid hwn y'th eurwyd di* (moliant Syr Tomas Gamais).
- 33 **Tewdwr** Disgynnai Siôn Fychan o Rys Gryg, mab yr Arglwydd Rhys o linach Rhys ap Tewdwr, a gallai tylwyth Marsli arddel cyswllt â'r Arglwydd Rhys trwy briodas. Priododd un o'i chyndeidiau, Einion ap Llywarch, â Thangwystl, merch yr Arglwydd Rhys.
- 37 Dyfynnir ll. gyntaf y cwpled, ynghyd â ll. o gwpled gan Ddafydd Nanmor, gw. DN X.11, yn J. Davies: Flores 32.

- 41 **dau ŵr** Diau mai Ffyllib Fychan, tad Marsli, oedd y naill, a thebyg mai tad Siôn Fychan oedd y llall.
- 45 **Llan-goed** Lleolir Siôn Fychan a'i wraig ym mhlwyf Llys-wen yng Nghantref Selyf. Llan-goed yw enw eglwys y plwyf, gw. WATU 127, ond nodir yn SBPN 105: 'we have found no certain proof that there was a church here'.
- Godwin** Gwraig Gwilym ap Ffyllib, gw. y nodyn brig, oedd Mawd, merch Tomas ap Gwilym, Perth-hir, o linach Godwin, gw. WG1 422.
- 49 **llys hyn** Eb. yw *llys* yn ll. 24 *Ar y Llys-wen iarllles yw*, 6.38 *Fy lles erioed, fy llys rydd*, ond cf. GG.net 45.13–14 *Nid mawr gan Dudur flawrwyn, / Á'r gwallt hir, y golled hyn*.

19

Dyma'r gerdd gyntaf i un o ddisgynyddion Dafydd Gam. Canodd Hywel Dafi gywydd marwnad i Wladus, merch Dafydd Gam, a saith cywydd i Forgan ap Dafydd Gam a'i ddisgynyddion yntau, gw. cerddi 20–6. Gŵr cyntaf Gwladus Gam oedd Syr Rhoser Fychan, gw. WG1 243, a'i hail ŵr oedd Syr Wiliam ap Tomas, y Marchog Glas o Went, gw. WG1 422. Plant o'r ail briodas oedd Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro (a enwir yn ll. 14) a Syr Rhisiart Herbert. Fel hyn y cyflwynir y cywydd yn LIGC 13068B: *Barnod Gwladys verch syr Davydd gam y briodws yn gynta Rosser vachan o dretwr agwedy y varw ef, hi briodes syr william Tomas o raglan, ai mab hi oedd william herbert iarll penvro y fi varw ymanburifield 1469* (ychwanegwyd y dyddiad mewn inc gwahanol). Trafodir canu'r beirdd yn y ddau gartref gan D.J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r beirdd', YB XXIV (1998), 60–93 (gw. yr achresi, *ib.* 92–3).

Ceir golygiad o'r cywydd yn CH cerdd 7 a dyfynnir darn pur helaeth (gan ddilyn LIGC 13068B) yn J. Bradney, *A History of Monmouthshire Vol. 2, Part 1* (London 1914), 6–7. Canodd Lewys Glyn Cothi, yntau, farwnad i Wladus Gam, gw. GLGC cerdd 110, a cheir yn ei gywydd ef ddisgrifiad manwl o'r beddrod sydd i'w weld yn eglwys y Fenni. Ceir delwedd o Wladus a'i hail ŵr, Syr Wiliam ap Tomas, a delwedd o'r beddrod, yn P. Lord, *Diwylliant Gweledol Cymru: Gweledigaeth yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 2003), 154, 289. Cynigiwyd mai yn 1454 y bu farw Gwladus Gam, er nad oes tystiolaeth bendant o blaid y dyddiad, gw. D.J. Bowen, *art.cit.* 79. Awgrymodd D. Johnston mai ar ôl i Edward IV ddod i'r orsedd yn 1461 y canodd Lewys ei farwnad ef, a hynny am fod y bardd yn enwi Gwladus Ddu ac yn datgan *a heddiw mae'n rhoddi medd / o fron honno'n frenhinedd*, gw. GLGC 110.27–8; hefyd GCH2 289. Ni ellid honni hyn am Harri VI ond priodol fyddai enwi Gwladus Ddu wrth grybwyll Edward IV. Efallai fod lle i fod yn ochelgar, felly, ynghylch derbyn 1454 yn flwyddyn marw Gwladus.

Y mae lle i gredu bod cywydd Hywel Dafï wedi ei ganu tua'r un adeg â chywydd Lewys Glyn Cothi oblegid ychwanegwyd y sylw hwn ar ddiwedd y cywydd yn LIGC 13068B: *hwel dd ap Jevan ap Rees ai kant [...] yn nechrey ternassad Edwart y bedwri vrenin y gwnithpwyd y farwnad hon 1461* (ychwanegwyd y dyddiad mewn inc gwahanol). Ar 4 Mawrth 1461 y dechreuodd teyrnasiad Edward IV. Ceir ateg yng nghorff y cywydd fod yr honiad hwn yn un ystyrllon oblegid enwir y brenin, a'i arwydd, yr haul, yn llinell 41. Awgryma un cwpled (19.43–4n) y dylid amseru'r cywydd ar ôl mis Gorffennaf pan ddyrchafwyd Wiliam Herbert yn arglwydd. Fe'i gelwir yn *Arghwydd Wiliam* yn llinell 14.

Priodolir y cywydd i Hywel Swrdwal yn Stowe 959, ond ychwanegodd y copïwr *Howel Davydd ap Jevan ap R Ai kant medd Rai*. Ni roddir y cywydd i Hywel Swrdwal yn yr un ffynhonnell arall ac ni wnaed achos dros ei briodoli iddo yn GHS 10. Dilynir y cywydd hwn yn Stowe 959 gan farwnad Lewys Glyn Cothi i'r un gwrthrych, a rhoddir y cywydd hwnnw i *Llywelyn ap gwilim*. Ni chofnodwyd enw tad Lewys Glyn Cothi yn unman, gw. GLGC xxii a throednodyn 1. Y mae'n bosibl y gwyddai'r copïwr am dad Lewys ond y mae hefyd yn bosibl i'r ail gywydd marwnad hwn gael ei briodoli ar gam yn Stowe 959 i Lywelyn ap Gwilym [ap Rhys o Wynedd].

Diogelwyd y cywydd mewn pum llawysgrif ond y mae lle i gredu bod ambell linell lwgr ym mhob un, gw. y nodiadau ar lau. 27, 46, 59. Pen 60, yn llaw Rhys Brychan, yw'r gynharaf ond ysywaeth y mae rhannau helaeth o'r deunaw llinell gyntaf ar dudalen 9 y llawysgrif bellach wedi llwydo. Collwyd rhai cwpledi yn Stowe 959 a LIGC 13166B (nid yr un rhai bob tro) ond dilynir darlleniadau Pen 60 yn weddol ffyddlon. Newidiodd nifer o'r llinellau erbyn i'r cywydd gael ei gofnodi yn Pen 86 a gwelir rhai o'r newidiadau hynny yn LIGC 13068B hefyd. Diogelwyd drylliau o'r cywydd (a'i briodoli i Hywel Dafï) yn llaw Siôn Dafydd Rhys yn Llŷst 55. Ni nodwyd y darlleniadau hyn yn yr 'Amrywiadau' ond cyfeiriwyd yn y nodiadau at ambell ddarlleniad arwyddocaol.

1 **aur a myrr a thus** Y rhoddion a ddygwyd i'r baban Iesu gan y tri gŵr doeth, gw. Mathew 2.11.

tus Y mae *tus* a *thus* yn ffurfiau cysefin, gw. GPC 3692. Nid oes modd gwybod pa ffurf a fwriadwyd yma am fod y cys. yn rhagflaenu'r gair, ond y mae'r gynghanedd yn galw am *tus* yn 32.44, 71.12.

3 Bai crych a llyfn; gw. ymhellach 1.16n a 'Cynghanedd' td. 42.

4–6 **Gwynllyw ... / ... / ... Catwg** Y mae peth ansicrwydd ynghylch tras y sant Gwynllyw, ond dywedir iddo briodi Gwladus, un o ferched Brychan, er gwaethaf anghymeradwyaeth ei thad, gw. LBS iii, 234–41; TWS 104–5 (ond awgrymir yn LBS ii, 15 mai taid Gwladus oedd Brychan). Mab Gwynllyw a Gwladus oedd Catwg. Olrheinir ach Catwg Sant yn y cywydd a ganodd Rhisiart ap Rhys, gw. GRhB 7.17–22

- Gorau maels a grym milwr, / Gwynllyw gorff, gwayw yw'n lle gŵr. / Gwladus o war gwlad y saint / galw am hon gael ym henaint; / da wrth wan ferch Frychan fro, / Brecheiniog oedd barch honno.*
- 7 **mynagi** Diwygiwyd *manegi*, *mynegi* y llsgrau. gan ddilyn y ffurf a arferwyd yn 23.30n, ac a gofnodwyd yn Pen 67.
- 8 **Gwladus Ddu** Merch Llywelyn ab Iorwerth Drwyndwn ab Owain Gwynedd, gw. WG1 446; CLC² 305. Priododd yn gyntaf â Reginald de Braose ac yn ail â Ralph Mortimer, ac o ganlyniad i'r ail briodas gallai dugiaid Efrog hawlio cyswllt â thywysogion Gwynedd, gw. y tabl achau hylaw yn J. Davies: HC 134, a cf. GLGC 112.73–4 lle yr honna'r bardd am y Brenin Edward IV (mewn awdl i Syr Wiliam Herbert) *Ac o Wladus Du un o egin / yw llewpart Rhisiart drwy'r ddaear hon*. Cyffelybir Gwladus Gam i Wladus Ddu yn y farwnad a ganodd Lewys Glyn Cothi. *Gwladus Du* yw'r ffurf a arferir gan Lewys, gw. GLGC dan 'Enwau personau'.
- 9 **gwraig Roser Mortmer** Gwelir yma olion cymysgu rhwng enw'r gŵr a'r mab. Reginald de Braose (m. 1228) oedd gŵr cyntaf Gwladus Ddu a Ralph Mortimer (m. 1246) oedd ei hail ŵr. Mab o'r ail briodas oedd Rhoser Mortimer, gw. y tabl achau yn J. Davies: HC 134.
- 13 **pryd Elen** Elen Fannog oedd yn enwog ar gyfrif ei phrydferthwch. Yn y cwpled cynt mawrygir sancteiddrwydd Gwladus ac efallai mai dwyn i gof y Santes Helena oedd bwriad y bardd, gw. Atod.III.45n. Gwyddai Hywel Dafï am Elen ferch Coel (enwir hi yn benodol yn ll. 40), ac am Elen Luyddog, sef Elen ferch Eudaf chwedl 'Breuddwyd Maccsen', gw. 17.24n. Ond bu cymysgu hefyd rhwng y ddwy olaf yn benodol, a rhyngddynt hwy a'r Santes Helena, gw. ymhellach Atod.VI.6n.
- 13–14 **Priod Wiliam ... / Mam ... Wiliam** Gw. y nodyn brig. Ail ŵr Gwladus oedd Syr Wiliam ap Tomas a'u mab hwy oedd Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro.
- 16 **dwy ael lon lus** Anodd yw cysoni'r geiriau *ael* 'amrant' a *llys*. Gallai fod yma gyfeiriad at Frodorrdyn a Rhaglan, dau gartref Gwladus yn ystod ei hoes, ond dewiswyd cyplysu *ael* a *llus* er mai *llys* sydd yn y llsgrau. ac er mai peth anarferol yw gweld disgrifiad corfforol o'r llygaid mewn cywydd marwnad.
- 18 **Syr Dafydd Gam** Cf. 47.7 *Os hir dwyfainc Syr Dafydd*. Nid oes sicrwydd ei fod wedi ei urddo, ond dyna'r gred draddodiadol fel y tystia'r llau. hyn. Cf. GLMorg 43.21n.
- 19 **mantell a modrwy** Symbolau gweddwdod. Cf. yr hyn a ddywedir am Annes, gweddw Gruffudd ab Ieuan o Gaerllion, yn GHS 8.49–50 *Ni roes chwant ond ar fantell / A modrwy'n wir, ymdroi'n well*, a'r esboniad yn OED² ix, 336: 'to take the mantle and the ring ... a symbolical

- act used to express the taking of a vow of chastity (properly, by a widow)'. Cf. GG.net 26.45–6n *Mae i Went fodrwy a mantell, / Mewn du ni bu wyneb well* (i Ann Herbert ar ôl marw ei gŵr).
- 24 **tair eglwys** Awgrymodd D.J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r beirdd', YB XXIV (1998), 85–6, mai'r brif eglwys a'r ddwy groes-eglwys oedd y rhain, ond awgrymir tair eglwys benodol, y Fenni, Llandeilo Bertholau a Rhaglan, yn J. Bradney, *A History of Monmouthshire Vol. 2, Part 1* (London 1914), 7, a'r tair, fe ddichon, wedi derbyn gwaddol o ryw fath gan Wladus. Nodir bod Syr Wiliam ap Tomas wedi codi capel yn eglwys Rhaglan lle y claddwyd aelodau o deulu Somerset yn ddiweddarach, gw. *ib.* 33.
- 27 **offrwing ... cyfrwing** Dilynwyd LIGC 13166B. Y mae *offrwing* yn amr. ar yr e.c. *offrwm*, gw. GPC 2637, ond ymddengys mai berfenw ydyw yma, fel *offrwm* yn 106.33. Anos esbonio *cyfrwm* a ddiogelwyd mewn tair ffynhonnell gan gynnwys Pen 60 (ar sail yr hyn sydd bellach yn ddarllenadwy). Nid yw'r gynghanedd o blaid diwygio yn *cyfrwym* (er mwyn odli ag *offrwm*) 'rhwymiad; cyswllt, cysylltiad', gw. GPC 720, a diogelach felly yw mabwysiadu *cyfrwing*. Darlleniad Llst 55 yw *ophrwm cwyr cyfrwing cor cau*.
- 31 **rhin** Gellid 'rhinwedd, cynneddf, priodoledf', ond yng ngoleuni'r cyfeiriad at ddau Fyrddin yn yr un ll., tebycach mai 'hudoliaeth, swyn, dewiniaeth' sydd orau, gw. GPC 3075.
- dau Ferddin** Myrddin Wyllt, mab Morfryn, a gyplysir yn fynych â Thaliesin, a'r dewin Myrddin, a gysylltir â Chaerfyrddin, ac sydd yn cynghori Gwrtheyrn yn 'Mrut y Brenhinedd' Sieffre o Fynwy, gw. TYP³ 458–62. Meddai'r ddau ar y ddawn i broffwydo. Cyfeiria Lewys Môn at *dewiniaeth Myrddin*, gw. GLM II.73, a dywed Guto'r Glyn *Merddin oedd yn dewinaw*, gw. GG.net 67.37. Ar ddoniau awenyddol y ddau, gw. 4.29n.
- 33 **llin Eisag** Fe'i cyfrifid yn un o dri chyndad cenedl yr Hebreaid, gw. GB 841–2.
- 37 **ciglau** Rhaid wrth y gair hwn i gynganeddu â *cogail*, ac y mae'r llsgrau. i gyd o'i blaid ac eithrio Pen 86 (collwyd y cwpled yn Stowe 959). Gall fod yn ffurf 1 un.grff. neu 3 un.grff. y f. *clywed*, gw. G 151; GMW 124–5, ond y flaenaf yma.
- cogail** 'Llinach fenywaidd, ochr fenywaidd teulu', gw. GPC 540. Ar ôl enwi tair Gwladus enwog yn adran gyntaf y cywydd enwir yn awr dair gwraig a ymenwogodd ar gyfrif eu plant, sef Esyllt, Elen ferch Coel a Gwladus Gam.
- 39 **Esyllt** Merch Cynan ap Rhodri Molwynog, a gwraig Merfyn Frych, gw. tabl 3 yn WG1. Yn ôl L. Dwnn: HV ii, 101, *Tair gwaith yr aeth*

Gwynedd ar verch ... Yr drydydd ar Essyllt verch ag aeres Cynan Dindaethwy. Hefyd P.C. Bartrum, 'Bonedd yr Arwyr', B xviii (1958–60), 237, *Tri lle y dyleid arglwyddiaeth Wynedd o Gogail ... Y drydedd oedd Essyllt v'ch Gynan Dindaethwy, gwraig Vervyn vrych mam Rodri mawr.* Am gyfeiriadau eraill at Essyllt, gw. GLM XXXVII.40, LXII 41–4. O Essyllt y disgynnai Rhodri Mawr.

Dindaethwy Cwmwd yng nghantref Rhosyr ym Môn, gw. WATU 58. Arferid y ffurfiau *Dindaethwy* a *Tindaethwy* ac efallai mai ffurf dreigl-edig yr ail sydd yma, a cf. GLM XXVIII.21 *Dwyn y doeth o Dindaethwy.*

- 40 **Elen ferch Goel** Santes Helena, yn ôl traddodiad, a ddarganfu'r Wir Grog pan aeth ar bererindod i Gaersalem. Fe'i gwnaed yn ferch i Goel a'i chysylltu trwy hynny â Phrydain, gw. WCD 362; 17.24n, 58.47n, Atod.III.45n. Am gyfeiriadau ati hi yn benodol gw. GLMorg dan 'Enwau personau'.
- 41 **haul Edwart** Defnyddiai Edward IV arwydd y rhosyn a'r haul 'rose en soleil'. Prawf y ll. mai ar ôl 4 Mawrth 1461 y canodd Hywel Dafï y farwnad hon. Ond y mae'r brifodl yn wahanol yn LIGC 13068B ac ni welir yr enw *Edward* yno. Gw. ymhellach 46.37n.
- 43–4 **arglwyddi / ... o'i chorff hi** Diau fod yma elfen o ormodiaith ond yr oedd gan ddisgynyddion Gwladus, y Fychaniaid a'r Herbertiaid, gyswllt trwy briodas â theuluoedd o statws. Gwraig Wiliam Herbert oedd Ann merch Walter Devereux, gw. WG1 425. Cafodd Walter Devereux, brawd yng nghyfraith Wiliam, deitl ei dad yng nghyfraith, sef Barwn Ferres o Chartley, gw. DNB² 15, 969–71. Ail wraig Rhosier Herbert (m. 1471) oedd Margaret, merch James Touchet, Arglwydd Audley, gw. WG1 423. Un o blant Gwladus a ddyrchafwyd yn arglwydd a Wiliam Herbert oedd hwnnw. Ym mis Gorffennaf 1461 y digwyddodd hyn, a gall y cwpled ategu'r awgrym yn y nodyn brig mai yn ystod teyrnasiad Edward IV y canwyd y farwnad.
- 46 **dwsain** Gthg. CH *O dda sain arglwyddesau.* Nid yw'r gynghanedd o blaid y darlleniad hwn. Nodir y ffurfiau *dwsin*, *dwsing*, *dwsen* a *dwsain* yn GPC 1107, a chan fod y bardd yn cyfeirio at chwech o arglwyddi yn y cwpled blaenorol y mae crybwyll dwsin o arglwyddesau yn ddilyniant naturiol. Cf. HCLl XXII.41 *Glew ddasein arglwyddesau.* Ceisiodd copïwyr Pen 86 a LIGC 13068B wella'r ll. trwy gynnig darlleniadau oedd yn ystyrion yn eu golwg hwy, sef *vrddassaidd / yrddasol*. Darlleniad Ll1st 55 yw *vrddassaidh arglwydhessai*.
- 50 **tywylla dydd** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.
- 54 **albastr** Y mae cerfluniau alabastr ar y naill ochr a'r llall i'r beddrod.
- 56 **Dwywent** Gthg. *gwaе dair gwent* Pen 86. Rhennid Gwent yn Went Uwch Coed a Gwent Is Coed, gw. WATU 81. Ond cyfeirid hefyd at

- Dair Gwent, gw. GLMorg 30.15n. Yng Ngwent Is Coed y mae Rhaglan ond yn agos iawn at y ffin rhwng y ddau gantref.
- 57–8 Sonnir yn fynych mewn cywyddau marwnad am gynnig arian yn gyfnewid am fywyd yr unigolyn a gollwyd, gw. ymhellach 58.29–36n.
- 59 Gthg. CH *I goffr teg a'i phriod hi*. Mae darlleniad Stowe 959 y *choffr teg* yn un addas (troes yn y *chorff teg* yn LIGC 13068B) am fod y bardd yn y rhan hon o'r cywydd yn disgrifio'r beddrod yn eglwys y Fenni, ond nid yw'r gynghanedd o blaid y darlleniad.
- 60 **genti** Ffurf 3 un.b. yr ardd. *gan* a gadarnheir gan y gynghanedd, gw. GMW 60. Dyma'r ffurf a ddisgwyliid gan fardd o'r de, gw. P.W. Thomas, '(th-): Tystiolaeth Beirdd y Tywysogion a'r Uchelwyr', *Dwned*, 15 (2009), 11–32.
- 61 **llywodraethwr** 'Rheolwr, gweinyddwr, pennaeth, meist, arglwydd'. I ganol yr 16g. y perthyn yr engh. gynharaf a restrir yn GPC 2290.

20

Yr oedd Morgan yn fab i Ddafydd Gam ap Llywelyn ap Hywel Fychan ap Hywel ab Einion Sais ... Trahaearn o Lan-gors ... Bleddyn ap Maenyrch, gw. WG1 102, 104. Rhestrir deg o feibion Morgan yn WG2 211, ac Ieuan a gyferchir yn y cywydd hwn yw'r cyntaf a enwir.

Camarweiniol unwaith eto yw'r pennawd yn CM 12, sef *Cywydd i Forgan ap Gwallter ap Gwilym, a'i Fâb*. Diogelwyd awdl farwnad i Forgan o waith Dafydd Epynt a chywyddau marwnad o waith Lewys Glyn Cothi a Huw Cae Llwyd, gw. GDEp cerdd 5; GLGC cerdd 133; HCLl cerdd XIII. Diau i Hywel Dafî, yntau, ei farwnadu, ond i'r gerdd honno ddiplannu. Cadarnheir yn y ddau gywydd mai yn eglwys y Brodyr Duon yn Llan-faes ger Aberhonddu y claddwyd Morgan. Pwysleisia Dafydd Epynt ei ddiddordebau diwylliedig a'i ddysg, gw. GDEp 5.69–70 *Deall y brud allai brydydd, / Anos weithian eisiau ieithydd* (Ai *Deall y brud allai i brydydd* 'Gallai ef ddehongli'r brud i fardd?'). Nodir yn HCLl 14–15 y byddai Morgan wedi cyrraedd oedran teg erbyn 1455–60 (lladdwyd ei dad, Dafydd Gam, ar faes y frwydr yn Agincourt yn 1415). Er bod Hywel Dafî yn rhoi'r flaenoriaeth i'r mab hynaf yn y cywydd hwn, y mae'n amlwg fod Morgan yn briod ers sawl blwyddyn am fod y bardd yn crybwyll naw mab arall yn llinell 26.

- 3 **Einion** Einion Sais, sef un o hynafiaid Dafydd Gam, gw. y nodyn brig.
- 4 **llywia tir** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.
- 6 **tyfodd gair** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.grff. sydd yn cynnwys y terfyniad *-odd*, gw. Treigladau 218–19. Cf. 110.5 *Y dydd ysbiodd deuddyn*, ac o bosibl 9.29–30n *Grynnau had Goronwy hen / A gadeiriodd gwaed Urien*.

- 9 **Gwallter ap Gwilym** Gwraig gyntaf Morgan oedd Tangwystl, merch Maredudd Bwl ap Gwallter ap Gwilym ap Llywelyn Ddu, gw. WG1 770.
- 15 *n* berfeddgoll.
- 18–20 **Urien / ... / ... Owain** Urien, y brenin o deyrnas Rheged yn yr Hen Ogledd, a gyfarchwyd gan y bardd Taliesin, a'i fab, Owain. Daeth Owain yn ei dro yn arwr yn y chwedlau, ac yn 'Iarlles y Ffynnon' yn benodol, gw. TYP³ 467–72. Priododd Gwilym ap Llywelyn Ddu â Gwladus, merch Ffyllib ab Elidir Ddu, gw. WG1 330. Olrheiniai'r tylwyth hwn eu hachau hyd at Urien a'i fab Pasgen / Masgen, gw. 5.22n.
- 22 *n* wreiddgoll, ac felly yn llau. 31, 38, 54 (ond gw. *ib.n*).
- 23 Gellid naill ai 'Y mae'r gŵr hwn a'i dad yn caru [un] doeth' neu 'Y mae [un] doeth yn caru'r gŵr hwn a'i dad'.
- 26 **brawd a naw brodyr** Gw. y nodyn brig. Ieuan a'i naw brawd. Enwir deg o feibion Morgan ap Dafydd Gam yn WG2 211, ond pedwar a gyferchir yng ngherdd 21, sef Ieuan, Gwallter, Maredudd a Gwilym. Crybwylla Huw Cae Llwyd naw brawd yn y farwnad a ganodd i'w tad, gw. HCL1 XIII.48, 56 *Wedi dwyn un doddi naw, / Naw mil o hyn i amlhau*.
- naw brodyr** Gw. 2.17n.
- 29 **cyfedd** Gall fod yn eg. ond berfenw sydd yma sydd yn gyfystyr â 'gwledda, gloddesta', gw. GPC 688.
- 30 **cwrel** Gw. GPC 647. Cyflea rywbeth dethol neu werthfawr, cf. *cwarel* (ll. 30), *gwaith arian* (ll. 31). Lliw'r cwrel yw sail y disgrifiad yn un o gywyddau serch Siôn ap Hywel, gw. GSH 23.23–4 *Gwefusau fal manau'r mêl, / Gwrid brig y cerrig cwrel*. Efallai mai lliw coch y gwin a awgrymir gan *cwrel* yn y ll. hon.
- 33 **Llywelyn** Gw. y nodyn brig.
- 37 **Llanddwy** Digwydd *Llanddwy* mewn cywydd marwnad i Forgan ap Dafydd Gam gan Lewys Glyn Cothi yn safle'r brifodl, gw. GLGC 134.55–6. Tebyg mai ffurf ddiacen sydd yma, cf. y cwpled o waith Bedo Phylib Bach a ddyfynnir gan Cereticus, 'Llanddew', Arch Camb 1874, 85–6 *Meibion myr llenwyr Llanddwy, / Meddiant teg mae iddynt hwy*. Ffurf ar *dwy, dwyw* yw'r ail elfen, ac nid ffurf ar *Dewi*, gw. SBPN 93–4. Y mae Llan-ddwy, neu Lan-ddew, ryw filltir i'r gogledd o dref Aberhonddu. Yr oedd y Peutun-gwyn, y Peutun-glas a'r Peutun-du gerllaw. Yr oedd yma glas a sefydlwyd o dan nawdd esgobaeth Tyddewi yn y 12g., a phriodol mai i Ddewi y cysegrwyd eglwys y plwyf (er bod traddodiad i'r eglwys gael ei chysegru i'r Drindod hefyd, gw. 21.9n). Yr oedd yn sefydliad pwysig yn ei ddydd ac yr oedd gan yr esgob balas yma; bu Gerallt Gymro yn byw yma am gyfnod pan oedd

- yn archiagon Aberhonddu, gw. BWPowys 329–30.
- 43 **naw ugeinwyr** Gw. 2.17n.
- 48 **pwynt** ‘Cyflwr, sefyllfa’ yw’r ystyr yn 28.35 *Ni bu anturiwr ar bwynt dyrys*, 51.12 *Heb anturio bwynt arall*. ‘Pwnc, mater, testun’ sydd yn rhoi’r ystyr orau yma, ond perthyn yr engh. gynharaf yn GPC 2950–1 i ganol yr 17g.
- 49–52 Cyffelyb yw’r ddelwedd yn un o gywyddau Guto’r Glyn, gw. GG.net 105.9–12 *Dra adodd Duw i redeg / Edwart hael a’i dyrau teg, / Castell oedd ef i Drefawr / A’i bedwar mab, dyrau mawr*.
- 54 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n wreiddgoll*.
- 55–6 **Ni newidiwn hwn ... / Â deuddeg** Dull o ddweud fod Ieuan yn rhagori ar ddeuddeg o wŷr. Yr oedd yn un o ddeg brawd, gw. ll. 26n, ond yn y farwnad a ganodd Hywel Dafi iddo awgrymir ei fod yn un o dri brawd ar ddeg, gw. 22.4n.
- 58 **yr Ystrad** Gallai gyfeirio at abaty’r Sistersiaid yn Ystrad Marchell, nid nepell o’r Trallwng, neu at Ystrad-fflur; sefydlwyd y naill dŷ crefydd fel y llall gan y fam-fynachlog yn Hendy-gwyn ar Daf. Neu efallai fod yma gyfeiriad at gwmwd Ystrad Yw yng nghantref Talgarth. Yno yr oedd Tretŵr, cartref y Fychaniaid. *Y dewr o dir Ystrad Yw* oedd Maredudd ap Morgan yn ôl Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 135.8. Ond gellid y darlenniad *fal i dair Ystrad*. Os felly i. Ystrad-fflur neu Ystrad Marchell; ii. Ystrad Yw; iii. Ystradfellte lle y trigai Llywelyn ap Gwilym a’i wraig, Siwan, a gyferchir yng ngherddi 31–3, a cf. 32.3–4 *Ystôr deg yn Ystrad ym / Ddoe o genedl oedd gennym*.
- 60 **yr hydd** Motiff cyffredin wrth gloi cerdd foliant oedd dymuno hir oes i’r noddwr trwy gyfeirio at anifeiliaid a hynodid ar gyfrif eu hirhoedled, gw. 77.53–4n.

Cywydd i 4 mab Morgan ap Gwallter a roddwyd yn bennawd i’r darn yn CM 12, ond ar ochr y ddalen yn yr un llawysgrif holir *ai 4 Mab Syr Dafydd Gam o sir Frycheiniog*. Nid yw hyn yn hollol gywir ychwaith ond yr oedd yr awgrym yn un ystyrion am mai i wyrion Dafydd Gam y canodd Hywel Dafi ar yr achlysur hwn. Yr oedd gan Forgan ap Dafydd Gam ddeg o feibion, a chyferchir pedwar ohonynt yma, y pedwar sydd yn digwydd gyntaf yn WG1, sef Ieuan (ll. 13), Gwallter (ll. 15), Maredudd (ll. 17) a Gwilym (ll. 19). Cyferchir y pedwar drachefn mewn cywydd nodedig a ganodd Bedo Phylib Bach, gw. Pen 99, 17–20. Fe’i cyffelyba’r bardd ei hun i eilwad a’r pedwar brawd i ddau bâr o ychen yn tynnu’r iau: *Etynnu iau awst a wnaf / or ddwy hyn ir ddau hynaf / Gwylltach a thaerach na than / Gwallter yw gwelltor Ieuan ... Pan ddaliwyf y ddav Javaf / dilyn nos iw dal*

a wnafl / Mynedd a wna Meredudd / i ben y Jav y bu Nudd / Galwaf a mi yw'r geilwad / Gwilym deg vn glaim ai dad. Trafodir y cywydd gan F.G. Payne, ‘“Cwysau o foliant cyson”’, *Llenor*, xxvi (1947), 12–14. Gw. ymhellach NBBM 145–7.

- 1 **cannwr** Y ffurf l. *gwŷr* sydd yn dilyn y rhifol fel arfer yn y canu, gw. 2.17n, ond y ffurf un. sydd yn dilyn *cant*, cf. 103.28.
- 4 **gŵr du** Awgrymir mai gŵr pryd tywyll oedd Morgan ap Dafydd Gam, ond gallai'r lliw gyfeirio at arfbais Dafydd Gam, sef ‘Argent, a lion rampant Sable’, gw. DWH ii, 104–5.
- 6 **Rhôn** Awgrymir bod rhai o feibion Morgan wedi bod yn brwydro yn Ffrainc, meigs eu cefnder, Wiliam Herbert.
- 8 **Einion** Einion Sais, gw. nodyn brig cerdd 20 a 2.5n.
- 9 **tŷ'r Trindod** Un esboniad fyddai eglwys Ioan yn Aberhonddu lle yr oedd delw o'r Crist croeshoeliedig, a cf. y cyfeiriadau at *tŷ'r Grog* a *tŷ Ieuan*, gw. ‘Geirfa’. Ond y mae lle i gredu bod eglwys Llan-ddwy gerllaw'r tri Pheutun wedi ei chysegru ar un adeg i'r Drindod, gw. BWPowys 329; Cereticus, ‘Llanddew’, Arch Camb 1874, 85–6; 20.37n. Dilynwyd Pen 67 am fod y ffurf gysefin *Trindod* yn rhoi rhagorach cynghanedd (sain ewinog). Nodir mai prin yw'r enghrau. o *trindod* yn eg. yn GPC 3597 ond gelwir sylw at un engh. yng ngwaith Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 420 *tri o unDuw yw'r Trindawd*. Diwygiwyd yn *ty r drindawd* yn Pen 99.
- 17 **oediwn** Rhestrir *oedi* ac *oedio* yn GPC 2621–2 ond *oedais* yw'r ffurf yn 10.33, 64.16 ac *oedwch* yn 57.29. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. ‘Rhagymadrodd’ td. 38.
- 19 **Gwilym** Cafodd ‘William ap Morgan ap David Gamme late of Ragulan, “gentilman”’ bardwn a'i ryddhau o bob cosb a dirwy ar 7 Mawrth 1457, gw. CPR 1452–1461, 367. Yn yr un ddogfen enwir Rhoser Fychan, Tretŵr, gw. cerddi 46–7; Ffyllib Fychan, y Tyle-glas, gw. cerdd 42; Mil ap Harri, tad Harri Mil, gw. cerdd 65. At hyn fe'i hesgusodwyd rhag effeithiau Deddf Adfeddiannu 1464–5, gw. WWR² 93. Un arall a esgusodwyd oedd y bardd Hywel Swrdwal, ac y mae'n bosibl fod Hywel Dafï ei hun yn cael ei enwi hefyd, gw. ‘Rhagymadrodd’ td. 9. Enwir Siôn ap Siancyn ap Madog, brawd Tomas ap Siancyn a gyfarchwyd yng ngherddi 38–41, yn yr un ddeddf.
- 21 **meibion Cadell** Un o feibion Rhodri Mawr oedd Cadell, ac ef oedd tad Hywel Dda, gw. WCD 73. Rhannwyd y teyrnasoedd a feddiannodd Rhodri, sef Gwynedd, Powys a Seisyllwg, rhwng tri o'i feibion. Ceir sawl cyfeiriad yng nghanu'r beirdd at feibion Rhodri, gw. GLMorg 4.38n, er mai pedwar mab yn hytrach na thri yw pwnc y moliant yn y cywydd hwn.

- 22 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 29, 33, 43 (ond gw. *ib*.n).
- 26 y **teirgwlad** Gall gyfleu amllder o wledydd. Os yw'r ystyr yn fwy penodol, efallai mai Brycheiniog, Morgannwg a Gwent yw'r tair gwlad. Cf. 76.29 *Ein teirgwlad, meddiant arghwydd*, Atod.VI.28 *Magiad i'r teirgwlad yw'r tŷ*.
- 29 **Maredudd Bwl** Gw. 20.9n.
- 31 **siac** Ni restrwyd y gair hwn yn GPC. Y mae angen gair sydd yn lled gyfystyr â *curas* 'arfwisg yn amddiffyn y fynwes a'r cefn', gw. GPC 630–1. Gweddaï'r S. *jack, jacket*, gw. d.g. *jakke* yn MED J.I, 368 'A stout or quilted tunic, often serving as a defensive garment'.
- 43 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll.
- 44 **ugeinwyr** Gw. 2.17n.
- 46 **ni chais gorwedd** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.
Cyfatebiaeth -sg g- = -s g-. Cf. 29.28 *Galanas gleisiaid glan Wysg glosydd*.
- 53 **pob ddau** Ar yr ymadrodd hwn a'r treigladd, gw. 28.27n.
- 56 **pedwar cyrn** Ffurfiâu un. sydd yn dilyn y rhifol *pedwar, pedair* a ailadroddir yn llau. 54–64 ond geilw'r odl am y ffurf l. yma. Ar y ffurf *maib* yn dilyn y rhifol yn ll. 64, gw. 2.17n.
- 57 **Hu** Hu Gadarn, brenin Caergystennin. Ceir sawl cyfeiriad ato mewn perthynas ag aredig, gw. GIG XXVIII.63 'Cywydd y Llafurwr' a GLGC 236.45 'Cywydd yr Aradr'; hefyd YCM² 187 a GG.net 96.56 *Ac yd mwy no Hu Gadarn*. Ond yr oedd ei lys yn destun rhyfeddod hefyd, gw. GLGC 43.49–54, 134.23–4; GLD 19.49–50. Mewn cywydd dysgeidiol ei gywair o waith Rhys Goch Eryri cyferbynnir y wledd ddiriaethol a arlwyodd Hu â'r wledd ysbrydol y mae'r sant Beuno yn cyfranogi ohoni yn y nefoedd, gw. GRhGE cerdd 14. Mewn cywydd o waith Ieuan Deulwyn, Wiliam Siôn, gwrthrych y moliant, yw'r *gwr draw ag aradr ag og / gwaith hu hen o gytheinog*, gw. ID XXXII.9–10. Nid enwir yr un Hu ymhlith ei hynafiaid.
- 64 *r* wreiddgoll.

Ieuan, mab Morgan ac wŷr Dafydd Gam (llau. 11–12), a farwnedir yn y cywydd hwn.

Diogelwyd cywydd moliant i Ieuan gan Huw Cae Llwyd, gw. HCLl cerdd XVI. Geilw'r golygydd ef yn *Ieuan Mew* a hynny ar sail llinell 8 *Ond Ieuan Mew y dawn mawr*, ond darlleniad Pen 312 yw *Ond Ieuan mewn y dawn mawr* (y mae'r ail ffynhonnell, Pen 189, bron yn annarllenadwy).

3 **Elystan** Elystan Glodrydd, pennaeth un o bum brenhinllwyth Cymru,

gw. WCD 247; HW 406n31. Trigai ei ddisgynyddion ym Muellt ac yn yr ardal rhwng Gwy a Hafren. Nid oedd cyswllt uniongyrchol rhwng hynafiaid Dafydd Gam a disgynyddion Elystan.

- 4 **deuddeg brawd** Un o ddeg mab Morgan oedd Ieuan, gw. 20.26n, ond y mae'n bosibl fod iddo frodyr nas enwir yn WG1/WG2. Awgryma'r ll. hon mai ef oedd y brawd cyntaf i gael ei golli.

Canodd Hywel Dafi farwnad i'w frawd Maredudd, ac ensynnir iddo ef gael ei ladd ym mrwydr Banbri yn 1469, gw. nodyn brig cerdd 26.

- 5–8 **Wiliam ... / ... / ... Fanbri** Yr oedd gan Ieuan frawd o'r enw Gwilym, ond diau mai Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, sydd dan sylw. Fe'i dienyddiwyd yn dilyn brwydr Maes Banbri yn 1469. Awgrymir bod marw Ieuan yn fwy o ergyd na marw Wiliam Herbert hyd yn oed. Rhoes David Ellis yn bennawd i'r cywydd yn CM 12 *Cywydd Marwnad Ieuan Amhorgan ai Frodyr or Peutun a las ym Maes Banbury 1469*. Ni restrir Ieuan ymhlith y rhai a laddwyd yn y frwydr yn WWR² 108.

- 6–7 **Tro / ... unTro** Gellid yr e.c. *ni w'yr neb 'y nhro*, cf. 26.6 *Mab Forgan; truan fu'r tro*; ond y e. lle *Tro* sydd yn cynnig yr ystyr orau, yn enwedig am fod cyfeiriad yma at drychineb arall, a honno yn nes gartref. Digwydd y ffurfiau *Tro* a *Troea* yng nghanu'r Cywyddwyr. Ceir sawl cyfeiriad mewn marwnadau: GLGC 77.11–12 *Mae pob llys, y mae pob llan / mal lladdfa Droea druan*.

- 8 **gwaith** Un engh. o ganu'r Cywyddwyr sydd yn GPC 1563–4 lle y mae *gwaith* yn gyfystyr â 'brwydr', ond dyma'r ystyr orau yma. Ond gallai olygu 'gweithred', a gellid ei ddehongli'n gyfeiriad at y dienyddiad, yn hytrach na'r frwydr yn benodol.

- 10 Cf. 72.50 *Morgan i bedwar ban byd*.

- 11 **Priaf** Mab Laomedon, ac ef oedd brenin Caer Droea pan ddinistriwyd y ddinas, gw. OCD³ 1244. Enwir ei ferch, Policsena, yn un o'r Trioedd ac fe'i disgrifir yn *hen vrenhin Tro*, gw. TYP³ 136, 483–4. Ni ddisgwyliid i'r e.p. dreiglo yn dilyn *gwedy*. Tybed a farnai'r bardd mai *Briaf* oedd y ffurf gysefin? Unwaith yn unig y digwydd yr enw yng nghanu Hywel Dafi, ond *Priaf* oedd y ffurf gyffredin. Efallai fod engh. o'r ffurf gysefin *Briaf* yng ngwaith Rhisiart ap Rhys, gw. GRhB 9.42 *ben brau fel meibion Briaf*. Ymddengys fod y ll. *barf ag oedd i Briaf gynt* yn GLM XXIII.16 yn llwgr, ac awgryma'r darlleniadau amrywiol y gellid adfer y ffurf gysefin *Briaf* yno.

- 14 Twyll gynghanedd *dd* o ddilyn Pen 67, ond cywirwyd y ll. yn CM 12.

- 19 Cf. Atod.II.63 *O daw un o'r do anael*.

n wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 20.

- 21 **Da adeila Duw hudoliaeth** Cf. GG.net 56.1–2 *A adeilo hudoliaeth, / Adeiled tref ar dâl traeth*, a sylw E. Salisbury, *ib.n*, 'Bron yn ddieithriad

- negyddol yw'r defnydd a wneid yn y cyfnod o'r gair [hudoliaeth].'
- adeila** Dilynwyd Pen 67, ond gthg. 1.61–2n.
- 27 **deiri** Diwygiwyd yn *deri* yn Pen 99. Nodir yn GPC 890–1 bod i *dâr* ddwy ffurf l., sef *deri* a *deiri*, ond *deri* yw'r ffurf yn Pen 67 yn 4.32 *Chwithau dyrau a deri*, 9.40 *Torri coed deri cedyrn*. Am enghrau. eraill gw. 'Geirfa'. Efallai fod yma achos arall o ychwanegu <i> yn ddiangen, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.
- 31 **chwarren** Enghreifftio'r ystyr fiolegol 'gland' a wna'r cwpled hwn yn GPC 845, ond mwy addas yw'r ystyr 'cornwyd; pla, haint'. Cf. 9.5–6 *Gwrid a chwys o gryd a chwydd*, / *Gwenwyn wybr a gny'n ebrwydd*.
- 33 **gwaniwyn** Dyma'r ffurf a gofnododd y bardd yma ac yn 30.4. Amlinellir datblygiad y gair o'r ffurfiau Cym.C. *gwaeanhwyn*, *gwaeanwyn*, *gwannwyn* yn GPC 1575–6. Cf. ID X.39 *sawr gwinwydd ffres y gwayniwyn*.
- 38 **Llan-faes** Er gwaethaf tystiolaeth y llsgr. mentrwyd diwygio y *lan vaeth* yn *i Lan-faes*. I Ioan y cysegrwyd eglwys Aberhonddu ond yr oedd gan y Dominiciaid dŷ yn Llan-faes y tu hwnt i furiau'r dref ac ar lan orllewinol afon Honddu. Yno y claddwyd Morgan, tad Ieuan, yn ôl tystiolaeth Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 134.1–2 *Y pennaeth ym mhob bonedd / sy'n Llan-faes winllan a'i fedd*. Rhesymol tybio mai yno y claddwyd ei fab Ieuan hefyd.
- 41 **tlawd ... tloda** Dilynwyd Pen 99; dwy gytsain galed sydd yn Pen 67, sef *tlawt ... tlota*.
- 45 **Gwilym** Un o dri mab Ieuan ap Morgan, gw. WG2 212. Gruffudd a Morgan (ll. 47) oedd y ddau arall. Rhyfedd na sonnir am y merched a oedd yn hiraethu am eu tad; rhestrir un ar bymtheg ohonynt yn WG2 212.
- 46 **ar lled** Ar y calediad yn yr ymadrodd, gw. 14.20n.
- 49–52 Er gwaethaf y tristwch a'r golled, cynigir y cysur y caiff pawb ailgyfarfod yn y nefoedd, cf. 44.41–2 *Efa wna Duw ofni dydd / Y gwelom, bawb, ei gilydd*. Ond awgrymir hefyd y bydd y croeso a'r nawdd yn y cartref yn parhau.
- 53 **marchogion** Priododd Gwladus Gam, chwaer Morgan a merch Dafydd Gam, yn gyntaf â Syr Rhoser Fychan ac yn ail â Syr Wiliam ap Tomas.

Cywydd i Ddafydd ap Llywelyn yw hwn yn ôl CM 12, ond tebycach mai un o feibion Morgan (ll. 9) ap Dafydd Gam (ll. 55) yw'r Dafydd a gyferchir. Ar ei ach, gw. WG1 104; WG2 215. Nid enwir Dafydd yn y cywydd a ganodd Hywel Dafi i bedwar o'i frodyr, gw. cerdd 21.

Cyfeddyf Hywel Dafï iddo fod yn ddiog ac yn esgeulus wrth iddo fethu ag ymweld yn rheolaidd â chartref Dafydd ap Morgan. Â rhagddo i esbonio bod hynny wedi achosi anniddigrwydd, o ran ei noddwr yn y lle cyntaf sydd yn teimlo iddo gael ei anwybyddu, ac o'i ran ei hun yn ail am fod eraill yn derbyn y rhoddion y cred y bardd sydd yn ddyledus iddo ef. Esbonia Hywel Dafï nad drwgdeimlad a gelyniaeth a'i cadwodd draw ond cwrteisi (ll. 23), ac awydd i arbed Dafydd ap Morgan rhag gorfod rhannu ei dda yn rhy aml. Wedi'r cyfan, medd Hywel Dafï, ni fyddai'r noddwr am ei weld yn treulio cyfnodau meithion ar ei aelwyd (llau. 21–2 *O chadwaf un gaeaf gylch / — Nos da i'r mab!—nis diyloch*).

- 3 y **Mynydd Du** Awgryma'r cyfeiriad at afon Gwy yn ll. 2 mai'r mynyddoedd i'r de o'r afon honno, ar ffin ddwyreiniol Brycheiniog, sydd dan sylw. Ond y Mynydd Du sydd ar ffin orllewinol Brycheiniog a enwir yn 31.29n.
- 5 **trinaid** *Tri + naid*. Gellid ystyried diwygio yn *triniaid*, sef *trin* + terfyniad gweithredol ll. *-iaid*. Ond ni nodir y ffurfiad hwn yn GPC 3598. Yr unig ffurf a nodir yw *triniad* 'y weithred o drin neu drafod, triniaeth, defnydd, rheolaeth; cyflawniad, perfformiad; amaethiad; gwrteithiad', ll. *triniadau*, a pherthyn yr engh. gynharaf i ganol yr 16g.
- 7 **llaw Ddafydd** Ar dreiglo'r e.p. mewn ymadrodd genidol, gw. 2.1n. Digwydd y cyfuniad *llaw* + e.p. ar wyth achlysur yn y cywydd hwn, gw. llau. 9, 11, 12, 13, 14, 15, 41, a threiglir bob tro ac eithrio yn ll. 9 *llaw Morgan*.
- 8 **hafog** Ceir trawiad nid annhebyg yn 34.25 *O gwnair hafog na rhyfel*. Fe'i dosbarthwyd yn yr eirfa d.g. *hafog* 'dinistr', gw. GPC 1810, ond efallai mai'r ystyron 'digonedd, cyflawnder; helaeth' a gyfleir, gw. *ib*. d.g. *hafog*² a cf. 79.18, 84.52, h.y. y mae'r gŵr hwn yn rhagori ar faes y gad ac wrth ddarparu bwyd a diod yn ei lys.
- 11 **Einion** Einion Sais, gw. nodyn brig cerdd 20 a 2.5n.
Rhys Yr oedd Einion Sais yn fab i Rys ap Hywel, gw. WG1 97. Ail wraig Einion Sais oedd Gwenllïan, merch Hywel ap Rhys Gryg, gw. WG1 788.
- 12 **Gronwy** Un o hynafiaid Sisli, gwraig Dafydd ap Morgan. Disgynnai hi o Ieuan Goch ap Gronwy Foel, gw. WG1 205; WG2 404.
- 13 **Adam** Bu Morgan ap Dafydd Gam yn briod ddwywaith, ond ni nodir yn WG1 104 pwy oedd mam Dafydd, gwrthrych y cywydd hwn. Enwir Maredudd Bŵl, tad Tangwystl, gwraig gyntaf Morgan, yn 21.29n, ond enwau hynafiaid Margred, ail wraig Morgan, a restrir yn llau. 13–16, a diau mai hi oedd mam Dafydd. Yr oedd hi yn ferch i Lywelyn ap Gwilym (ll. 15) ap Rhys Llwyd (ll. 14) ab Adam (ll. 13) ap Rhys ab

- Einion Sais, gw. WG1 107, 109; WG2 226. I'r gangen hon o blith disgynyddion Bleddyn ap Maenyrch y perthynai Hywel Dafî ei hun.
- 14 **rhoesoedd** Un o ffurfiau llai cyffredin 3 un.grb. y f. *rhoi*, gw. GMW 155.
- 19 **godrig** 'Arhosiad, oediad, gohiriad, atal; trigfa'. Dyfynnir y cwpled yn GPC 1423.
- 20 **arbed** Ailadroddir y f. yn llau. 27, 49. Y mae dwy ystyr i *arbed*, sef i. 'achub, amddiffyn, gwaredu, cadw'; ii. 'cynilo, osgoi gwario, osgoi traul', gw. GPC² 413. Ymddengys fod amwysedd bwriadol yma a bod y bardd yn dymuno cyfleu'r ddwy ystyr. Ar y naill law, trwy beidio ag ymweld yn rhy fynych â'r cartref, y mae'n cadw Dafydd ap Morgan rhag y draul o ddarparu amllder o roddion. Yr un pryd, y mae'n teimlo bod ganddo hawl ar y rhoddion hynny ac yn barnu eu bod yn cael eu diogelu ar ei gyfer nes y bydd yn ymweld â'r cartref y tro nesaf, cf. llau. 49–50 *Arbed* [= 'cynilo'] *aur aeddfed yr wyf / Er eu daly'r awr y delwyf*. Nid yw'r bardd yn fodlon fod y rhoddion a fwriadwyd ar ei gyfer ef yn cael eu rhoi i feirdd eraill. Gellid diwygio'r ll. yn *Ond o arbed cyn derbyn*.
- 21 **o chadwaf ... gylch** Ni nodir yr ymadrodd *cadw cylch* yn GPC 379–80, ond cf. GIG XIII.19–20 *Dogn a wnaeth, da gan Ithael, / Cadw cylch ag ef, cyd cael*; HCLI XII.47–8 *Ni wnâi Forgan ofergerdd / Ar gadw cylch rhag oedi cerdd*. Dyfelir mai cylch clera'r beirdd sydd o dan sylw yma, ond ymddengys mai'r ergyd yw na fyddai'r noddwr am weld y bardd yn treulio tymor cyfan ar ei aelwyd. Yn ôl Statud Gruffudd ap Cynan, câi'r beirdd *gylchwy pob tair blynedh vnwaith; a gwiliiev arbennic, a neithiorev, a gwylmabseinev, a chlera o'r nadolic hyd wyl Bhair, a duw pasc hyd duw pasc bychan, a o dhvw sul gwyn hyd duw sul y drindod*, gw. T. Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan', B v (1929–31), 27. Prin yw'r cyfeiriadau cyfoes at gylchoedd clera, ond awgryma E. Salisbury yn betrus fod Guto'r Glyn yn crybwyll cylch o'r fath yn GG.net 100.7–8n *Gemau oedd dy deidiau di / A chreiriau cylch Eryri*.
- o chadwaf** Ar gadw'r gysefin a threiglo yn dilyn y cys. *o* [= 'os'], gw. 2.19n, 11.53n.
- 25 **chweugeinau** Dilynwyd Pen 67, gthg. *chweugeiniau* Pen 99. Yr unig ffurf l. a restrir d.g. *chweugain* yn GPC 850 yw *chweugeiniau*, ond rhestrir *ugeiniau* ac *ugeinau* d.g. *ugain* yn *ib.* 3701. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.
- 30 **mynagwn** Dyma'r ffurf a gofnodwyd yn Pen 67. Rhestrir y ffurfiau *mynegi, manegi, menegi* yn GPC 2535. Gw. ymhellach 19.7n, 39.43.
- Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll, ac felly hefyd yn ll. 36.
- 39 **Pysgod ... y don** Ni fydd y bardd bob amser yn gyson wrth ddynodi

sillafau trwm ac ysgafn trwy ddefnyddio *n* ac *nn*, ond ymddengys mai ffurf dreigledig yr e.c. *ton* ac nid ffurf 3 ll.pres.myn. *dod* sydd yma.

o dyfod Pen 67 o *dywyot*. Ffurf ferfol a ddisgwyliid, ond ni chyd-nabyddir y ffurf sydd yn y llsgr. Gellid naill ai 3 un.pres.myn. *dweud*, sef *dywaid*, neu'r ffurf 3 un.grff.myn. *dywawd*, *dywad*, *dywot*. Diwygiwyd yn *dyfod* er mwyn yr odl, a cf. 73.7 *Medd ef, myfi a ddyfod*. Nid yw *tywiod* yn ffurf amr. ar *tywod*, gw. GPC 3685–6, a *tywod* yw'r ffurf yn 9.49.

41–2 **Treulio ... / Treuler ...** Rhestrir *treulio* a *treulo* yn GPC 3589–90. Y ffurfiau a gofnodwyd yn Pen 67 oedd *trevlyo* (ll. 41) a *trevler* (ll. 42), a cf. *trevla* yn 89.2. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.

45–6 'Bydd rhai a chanddynt gyfoeth mawr ar sail eu tiroedd, ond sydd yn grintach, yn mynd yn dlawd.' Y gwrthwyneb sydd yn wir yn achos Dafydd ap Morgan yn ôl tystiolaeth y cwpled nesaf. Y mae ef yn rhoi'n ddibrin ond er gwaethaf hynny (neu oblegid hynny) y mae ei gyfoeth yn cynyddu.

52 *n* wreiddgoll.

56 **llwydia** Ni restrir y ffurf *llwydio* yn GPC 2240. Newidiwyd yn *ef a lwyda* yn Pen 99. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.

Adam Gallai fod yn gyfeiriad achyddol, gw. ll. 13n, ond tebycach mai Adda yw'r Adam hwn. Fodd bynnag, ni welwyd yr un cyfeiriad arall at *Adam*; *Adda* yw'r ffurf yn ddieithriad yng nghanu'r beirdd. Er na sonnir yn benodol am ei henaint yn y Beibl, awgryma'r beirdd iddo fyw i oedran teg. Crybwyllir ei henaint yn 'Efengyl Nicodemus', gw. HMSS 243 *A phan yttoed adaf yn dec mlyned ar hugein a chant ... blinaw aoruc oe vywyt*, ac yn y gyfres o gwestiynau ac atebion o dan y pennawd 'Y Gorcheston', gw. T. Parry, B v (1929–31), 138–40 *Pa oet vu adaf. Deudeng mlyned arhugeint a naw cant*.

Dymuna'r beirdd weld eu noddwyr yn rhannu ei hirhoedledd, e.e. GLGC 122.59–60 *oed Addaf o'r eithafion / a throied Seth ar iad Siôn*, 210.17–18 *Ei fesur, frawd i Foesen, / ydd wyf â hyd Addaf hen*. Gw. ymhellach 100.16n. Ar ddoethineb Adda, gw. 1.4n.

Y mae'r cywydd yn anghyflawn ac o'r herwydd yn ddiennw, ond gellir bod yn weddol sicr mai Hywel Dafi a'i canodd am fod y saith cywydd blaenorol yn Pen 67 yn cael eu priodoli iddo. Gellir bod yr un mor sicr ynghylch gwrthrych y moliant, sef Maredudd ap Morgan ap Dafydd Gam, gŵr a farwnadwyd gan y bardd, gw. cerdd 26.

- 1 **Saint** Tardda'r ffurf un. hon naill ai o S.C. neu o H.Ffr., ond o'r Llad. y tardda'r ffurf fwy cyfarwydd *sant* a fabwysiadwyd yn Pen 99, gw. GPC 3169, 3177.
- Edmwnt** Brenin East Anglia yn y 9g. a merthyr. Fe'i lladdwyd gan y Llychlynwyr wedi iddo wrthod cefnu ar ei ffydd, gw. ODS 120–1. Iddo ef y cysegrwyd eglwys Crucywel, gw. BWPowys 312.
- 4 **Galâth ... Iain** Cyffelybir y noddwr yn y rhan hon o'r cywydd i ddau o farchogion Arthur, sef Galâth a Gwalchmai. Yr oedd *Galaad vab Laónslot y Lac*, ynghyd â Bwrdd a Pheredur, yn un o'r *Tri Marchoc o Llys Arthur a enillað y Greal, ac eu duc y Nef*, gw. TYP³ 225, 355.
- 5 **Gwalchmai** Yr oedd yn un o'r *Tri Marchoc Aurdavodiawc oedd yn Llys Arthur*, gw. TYP³ 367–71. Fe'i henwir yn nifer o'r Trioedd a gelwir sylw yn benodol at ei gwrteisi a'i foneddigeiddrwydd. Ar ei gyswllt gwaed ag Arthur, gw. 77.31–2n.
- 8 **cymodawg** Ffurf amr. ar *cymydog*, gw. GPC 774, ond y ffurf fwy cyfarwydd *cymydawg* a fabwysiadwyd yn Pen 99.
- 10 **ffrwythiau** Pen 67 *ffrwythyav*, ond ni restrir y ffurf l. honno yn GPC 1319–20. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38. Ailadroddir y ffurf yn 102.54 *Ar ffrwythiau deau daear*.
- 12 **ei ffon y fawr** Dilynwyr darlenniad Pen 67 yn betrus; newidiwyd yn *ei ffon fawr* yn Pen 99, sy'n rhoi ll. seithsill. Trafodir yr ymadrodd *tad y cu* yn Treigladau 99 ac awgrymir mai cystrawen gyfarchiadol a geid yma'n wreiddiol. Gwrthodir yr awgrym mai y epenthetig sydd yma. Er na chodwyd yr un engh. o ganu'r Cywyddwyr, ymddengys fod un ll. arall o waith Hywel Dafi wedi cadw'r un gystrawen, gw. 31.2n. Fodd bynnag, ceir yn Pen 67 enghrau. o ychwanegu'r fannod yn ddiangen, ac efallai mai dyma a ddigwyddodd yma. Cf. 11.16 *nid aeth y wr heb dy ythad* (= *Nid aeth wr heb dy ei thad*), 30.45 *Nidaeth llywodraeth r lladron* (= *Nid aeth llywodraeth lladron*).
- 13 **digoad** Man heb goed, man heb dyfiant.
- 16 *n wreiddgoll*.
- 21 **mapais** *mab* + *pais* 'pais plentyn', gw. GPC 2351. Hon yw'r unig engh. a ddyfynnir yno. Ceir bai caled a meddal yn yr odl *mab* / *fapais*.
- 25 **dedwydd** Yn ogystal â'r a. 'hapus; gwynfydedig; ffodus; ffyniannus' y mae i'r gair swyddogaeth enwol a chyfleu'r syniad 'person ffodus neu wynfydedig, un a aned ar awr dda', gw. GPC 911. Cf. 25.5 *Gwalch Dafydd, ddedwydd ydyw*. Ond hefyd GSRh 8.55–8 *Hen ddewin, hwn a ddywawd / Wrtho, er proffwydo ffawd: / 'Ar awr dda, gynneddfa ged, / O'th ddawnus hynt, y'th aned.'*

Ymddengys fod y cywydd yn anghyflawn am fod cyfres o wyth dalen yn eisiau yn dilyn llinell 48 yn y llawysgrif. *Cais y diwedd*, ychwanegodd John Davies ar waelod y ddalen. Ond gellir bod yn sicr mai Maredudd ap Morgan ap Dafydd Gam a gyferchir, a bod y bardd yn ceisio ei gymod a'i ewyllys da yn dilyn rhyw ddieithrwch, er na fanylir ar hynny. Bernir hefyd mai Hywel Dafï a ganodd y cywydd. Pwysleisia'r bardd ei fod ef a Maredudd yn hanfod o'r un cyff.

Cofnodwyd ambell linell ac ambell ymadrodd yn Llst 55.

- 1 Cf. GL1 16.1 *Maredudd, marw yr ydwyd*; GG.net 39.1 *Mredudd ai yma'r ydwyd*.
- 4 **mawr gan Edwart** Gall gyfeirio naill ai at Faredudd neu at ei dad, Morgan. Enwir y Brenin Edward drachefn yn y cywydd marwnad i Faredudd, gw. 26.11.
- 9 **glas ... asur** Yr oedd llew du ar gefndir glas yn un o'r arfbeisiau a gysylltid â Dafydd Gam, gw. DWH ii, 104–5. Fe'i disgrifir yng nghywydd marwnad Lewys Glyn Cothi i Wladus Gam, gw. GLGC 110.45–6 *maes glas fal cledd Pandrasus / a llew lir â'r lliw o lus*.
- 10 **o glych** Diwygiwyd y *glych dur* Pen 67. Cyffelybir y cylchoedd dur ar yr arfwisg i glychau.
- 11 Darlleniad Llst 55 yw *mae trychant ym gortrechi*, ond nid yw'r gynghanedd mor rymus. Ar *gortrechu*, ffurf amr. ar *gorthrechu* 'gorchfygu, trechu', gw. GPC 1498.
- 12 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n wreiddgoll*.
- 17 **segur** Honna'r bardd na wnaeth ei elynion lawer i'w gefnogi, ffordd arall o ddweud mai hwy oedd y drwg yn y caws. Esboniad arall fyddai mai Maredudd ei hun a fu'n gyfrifol am y dieithrio ac mai rhan oddefol a fu i elynion Hywel Dafï. Gall *segur* gyfleu ystyron megis 'hawdd, rhwydd, didrafferth; diogel; sicr', gw. GPC 3205.
- 22 **ni'm dawr** 'Nid yw o ddiddordeb neu o bwys i mi', gw. GPC 1076–7; GMW 150; G 303–4. Ceir engh. o galedu yn 103.38n *ni'm tawr*.
n ac *m wreiddgoll*.
- 24 **yr afal pêr** Y ffrwyth gwaharddedig a fwytawyd yng ngardd Eden, er nad enwir y ffrwyth hwnnw yn y Beibl, gw. ASCent 7.40n.
- 26 **pumoes byd** Gw. 1.37n.
- 27 **seren** Yr oedd seren yn ddelwedd a arferid yn fynych yn y canu wrth ddisgrifio gwraig fonheddig, ac efallai fod yma awgrym y bydd gwraig Maredudd ap Morgan yn gyfrwng sicrhau cymod, yn union fel y

gobeithia Siôn Ceri y bydd Gwenllian yn cymodi rhyngddo â gŵr o'r enw Owain, gw. GSC cerdd 43, ond sylwer mai at fam Ieuan Fychan o Bengwern y try Guto'r Glyn mewn cywydd cymod a ganodd ef, gw. GG.net cerdd 106. Dewis arall fyddai uniaethu'r seren â'r lleuad, a deall bod y bardd yn ei gyffelybu ei hun i'r gŵr ar y lleuad a'i faich trosiadol o bechodau, gw. E.I. Rowlands, 'Y baich drain', LICY 4 (1956-7), 172-6.

- 28 **Addaf hen** Synia'r bardd amdano ef ei hun yn alltud, fel Adda. Ar henaint Adda, gw. 23.56n.
- 30 **palu'r byd** Y gosb a roddwyd ar Adda ac Efa wedi i Dduw eu halltudio o ardd Eden, gw. Gen 3.19 *Trwy chwys dy wyneb y bwytei fara, hyd pan ddychwelech i'r ddaear.*
- 31 Rhaid ceseilio.
- 33 **aeth lawer oes** Disgwyliid i oddr. *aeth* gadw'r gysefin, gw. Treigladau 221-2. Ond gall *lawer oes* fod yn ymadrodd adferfol.
- 41 **osai** 'Gwin gwyn melys', gw. GPC 2657, a gynhyrchid, fe ymddengys, ym Mhortiwal, gw. I. Williams, 'Osai', B x (1939-41), 305.
- 42 **câr** Disgynnai Hywel Dafi a Maredudd ap Morgan o Fleddyn ap Maenyrch.
- 44 *n wreiddgoll.*
- 46 **mwy bechod** Ar y treiglad hwn, gw. 11.8n.
- 47 **moes** Ffurf 2 un.grch. bf. ddiffygiol; gw. ymhellach 71.89n.

26

Cywydd marwnad i Faredudd ap Morgan yw hwn, gw. cerddi 21, 24-5. Awgrymir yn llinell 10 nad marwolaeth naturiol a ddaeth i'w ran. I'r gwrthwyneb, fe'i lladdwyd mewn modd dichellgar a bradwrus er na fanylir ar yr amgylchiadau. Dymuniad i ddial ar y sawl a achosodd ei farwolaeth sydd yn cloi'r cywydd: *A'n bwâu ninnau'n annel* (ll. 66). Am gyfeiriad arall posibl at ddial ei farwolaeth, gw. nodyn brig cerdd 27. Ymddengys fod Maredudd wedi ei wobrwyo am ei wasanaeth i'r brenin, ac ar sail y sôn am frwydro yng Ngwynedd (llau. 7-8) gellid tybio iddo gymryd rhan yn y cyrch a arweiniodd Wiliam Herbert yn erbyn castell Harlech yn 1468. Er na chrybwyllir brwydr Banbri yn y cywydd, nid annichon mai yno y lladdwyd Maredudd.

Diogelwyd testun digon boddhaol yn Pen 124 er bod mân wahaniaethau rhyngddo a'r testun sydd yn llaw'r bardd yn Pen 67, ond nid yw yn gyflawn. Collwyd wyth llinell, ac at hyn newidiwyd trefn dwy fraich mewn dau gwpled. Rhoddwyd pennawd cywir uwchben y darn, sef *Cywydd Marwnad i Fedydd ap Morgan ap Dafydd Gam.*

- 7 Hepgorodd Hywel Dafï lythyren neu lythrennau wrth gofnodi'r ll. hon, a dilynwyd Pen 124 *ai frodyr* yn hytrach na diwygiad Pen 99 *ai fryd*. Y mae'r gynghanedd yn mynnu *d* o dan yr acen.
- 8 Er bod cyfeiriadau niferus yn y canu at frad y Saeson ac at elyniaeth rhyngddynt a'r Cymry, yn enwedig yn y canu i Fychaniaid Tretŵr, ymdeimlir hefyd â'r gwrthdaro rhwng gwŷr Brycheiniog a'r cyffiniau a'u cyd-Gymry yn siroedd y de-orllewin ac yng ngogledd Cymru, a cf. 47.23–4 *Gwayw 'Ngwynedd rhag ynganu / A tharian fawr i'th ddwrn fu*. Ni fynegir unrhyw gydymdeimlad â gwŷr Gwynedd yn dilyn y gwarchae ar gastell Harlech yn 1468, gw. 69.65–6.
- 9 **lleas** Eg. 'marwolaeth, angau, lladdfa, cyflafan', gw. GPC 2122.
- 12 **rhoes traul** Gw. 5.55n. Cedwir y gysefin yma ac yn ll. 33 *rhoes llawer*, ond gthg. ll. 34 *Yntau rhoes ganpant*.
- 13 **o daw** Rhaid dewis rhwng dau amser. O gadw *o daw r tri*, sef darlleniad Pen 67, rhaid bod y bardd yn rhag-weld yn obeithiol ddyfodiad tri gŵr nas enwir a fydd yn dychwelyd ac yn dial ar y dug yn dilyn marwolaeth Maredudd. O fabwysiadu *od âi*, ffurf ddiwygiedig Pen 99, rhaid derbyn bod tri gŵr o statws wedi marw tua'r un adeg, sef Maredudd ac, o bosibl, Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, a Syr Rhisiart Herbert, ei frawd (lladdwyd eu llysfrawd, Syr Rhoser Fychan ddwy flynedd yn ddiweddarach yn 1471, gw. nodyn brig cerdd 55 a'r tabl achau td. 320).
- 14 **y dug** Rhisiart, dug Efrog, tad Edward IV, yw'r esboniad amlwg, cf. 69.34n, ond lladdwyd ef yn 1460 tra awgryma'r cyfeiriad at Edward fod rhaid dyddio'r cywydd ar ôl brwydr Mortimer's Cross yn 1461 a'r coroni ym mis Mehefin y flwyddyn honno, ac ar ôl 1468, gw. y nodyn brig. Tebyg, felly, mai Rhisiart (g. 1452), brawd Edward IV, a'r Brenin Rhisiart III maes o law, yw'r dug, a cf. 50.48n. Yn 1473 y ganed Rhisiart, mab Edward IV, y rhoddwyd iddo'r teitl dug Efrog.
- 19 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 40, 51 (ond gw. *ib.n*), 54.
- 23 **eisteddwyr** Cysylltir y gair fel arfer â barnu, gw. GPC 1201, ond byd cyfeddach a ddisgrifir yn y cwpled hwn a'r nesaf er mai byd y gyfraith yw cyd-destun llau. 41 a 54.
- 24 **maddau ... maeddu** Ceir cyfosiad tebyg yn 49.55–6 *Maddau'r cam lle bu'r tramwy / Ac yn ôl maedd a'i gwnêl mwy*.
- 25 **gwyndud** 'Gwlad fendigaid, gwlad deg', gw. GPC 1772. Ymddengys fod *gwyndyd* Pen 99 o blaid 'pobl neu wŷr Gwynedd', gw. *ib. d.g. Gwyndyd*.
- 26 **holi** Cynigir yn betrus yr ystyron 'poenydio, erlid, cam-drin' yn GPC 1889 lle y dyfynnir y ll. hon. Gweddai'r ystyr honno yma.
- 28 **ymiacháu** Dangosodd J. Lloyd-Jones, 'ymiachau', B xi (1941–4), 123–4, mai 'ffarwelio, canu'r iach' yw'r ystyron mwyaf cyffredin a dyfynnir

- dwy engh. o waith Hywel Dafï, sef y ll. hon a 29.11–12 *Anodd ydyw 'n y ddeudir / Ymiacháu â'i omach hir ynghyd â TA LXXXII.29–30 Doe'r ai i angeu, i drengi, / Drwy i ymiachau'n drwm i chwi.* Gw. ymhellach GPC 3788–9.
- 29 **Yn iach ynau na cheiniawg** Ar *na* yn cyfleu'r ystyr 'neu', gw. GPC 2545–6 d.g. *na*⁴, a cf. 34.25 *O gwnair hafog na rhyfel.* Cyffredin yw'r gair mewn cyd-destun negyddol, ond fe'i ceir mewn brawddegau cadarnhaol hefyd. Cf. GG.net 126.1 *Yn iach, awen na chywydd! a'r nodyn ar y ll. lle y dyfynnir enghrau. eraill o'r un gystrawen.*
- 34 **Yntau roes ganpant** Ar y treigladd achlysurol i wrth. y f. *rhoes*, gw. 5.55n a ll. 12n.
- 35–6 **Nadolig ... / Pasg** Dau gyfnod a gysylltid â chylch clera'r beirdd, gw. 23.21n.
- 41 **bar** Dosbarthwyd yn yr eirfa o dan *bar* 'brawdlys; dyfarniad, barn' ond gellid 'ffon, trosol', gw. GPC² 576–7.
- 44 **Trystan** E.p. nid yr e.c. *trystan* 'anffodus, trist, truenus', gw. GPC 3629. Y mae *Trystan* a *Drystan* yn ffurfiau cysefin, ond o dan yr ail y dosbarthwyd yr enw yn TYP³ 331–4. *Trystan* yw'r ffurf a arferir gan y bardd yn 3.34, 47.4, 105.43.
- 47 **iarll enwog** Gelwir ar Wiliam Herbert, yr ail iarll Penfro, i dalu'r pwyth (os cywir yr awgrym fod y cywydd wedi ei lunio yn dilyn brwydr Banbri). Gellid atalnodi'r ddau gwplod yn wahanol: *Ni wn i le i ddial, / Oni ry Duw ynn ryw dâl, / Iarll enwog o ieirll Einiawn. / Ond o waed ieirll ni wnaed iawn.*
- Einiawn** Einion Sais, gw. nodyn brig cerdd 20 a 2.5n.
- 49 **Gwatgyn** Enwir dau fab a phum merch yn WG2 214. Watgyn yn unig a enwir yn y cywydd, ac ni chrybwyllir ei frawd, Lewys. Priododd Watgyn ag Annes, merch Gwallter Hafart.
- 51 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll.
- 58 **Meurig** Yr oedd Meurig yn orwyr i Fleddyn ap Maenyrch ond nid ohono ef y disgynnai Dafydd Gam, gw. WG1 85.
- 62 Ceir trawiad tebyg mewn cywydd marwnad arall, gw. 30.56 *Aed ef i wlad nef. Yn iach!*
- 65 **merch Domas** Ail wraig Maredudd oedd Margred, merch Tomas ap Gwilym ap Ffyllib, gw. WG1 424; WG2 776. Y mae'n amlwg iddi hi orosi ei gŵr. Ond gwraig gyntaf Maredudd oedd mam Watgyn.

Nodwyd *I Eglwyswr* yn Pen 99, a dilynwyd hynny yn CM 12. Yr unig ffaith bendant am Wallter, gwrthrych y cywydd, yw ei fod yn wŷr i Ddafydd Gam (ll. 8), ond rhaid ystyried y posibilrwydd mai yn llac y defnyddiwyd *wŷr*. Esbonia'r bardd mai Gwallter oedd yr aelod cyntaf o'i dylwyth i ymgymryd â dyletswyddau eglwysig, gw. llinellau 5–6 *Nid enynnwyd edn Einion / I dŷ'r saint hyd yr oes hon*.

Enwir pump o blant Dafydd Gam yn WG1 104, dau fab a thair merch. Nid oedd gan yr un o ferched Dafydd Gam fab o'r enw Gwallter, sef Gwladus Gam, Margred a briododd â Llywelyn ap Gwilym, Porthgogof, a merch arall ddienw a briododd ag Ieuan Blaenau. Un mab a gafodd Tomas ap Dafydd Gam. Dafydd Gam oedd ef, yr un enw â'i daid o'i flaen. Yr oedd mewn urddau eglwysig ac yn gwasanaethu yn Windsor. Tybed ai yn ystod cyfnod cynnar yn ei yrfa y bu'n gwasanaethu yn ei gynefin? Dewis arall fyddai chwilio am wrthrych y cywydd ymhlith disgynyddion niferus yr ail fab, Morgan ap Dafydd Gam, gw. cerddi 20–6 i Forgan a'i feibion. Yr oedd gan Forgan fab o'r enw Gwallter, ond nid oes awgrym ei fod mewn urddau eglwysig. Fe'i cysylltir â'r Porth-gwyn a rhestrir naw o'i blant yn WG2 211, 213. Nid annichon fod gan Forgan ail fab o'r enw Gwallter a bod hwnnw mewn urddau eglwysig. Ond enwir Maredudd yn llinell 3 a gall hynny awgrymu mai ef oedd tad Gwallter. Ymddengys fod y Maredudd hwnnw wedi marw adeg canu'r cywydd, a gwyddys i Hywel Dafï farwnadu Maredudd ap Morgan ap Dafydd Gam. Ymddengys mai trwy ryw ddichell y lladdwyd Maredudd, a byddai'r sôn am *Dolur am dy hen dylwyth* ac am *dalu'i bwyth* (llau. 11–12) yn gyson â'r cyfeiriadau yn y cywydd marwnad. Posiblirwydd arall yw mai Maredudd Bwl a enwir, tad Tangwystl, gwraig gyntaf Morgan ap Dafydd Gam.

Er mai gŵr eglwysig a gyferchir fe'i cyflwynir mewn termau milwrol (llau. 39, 41, 42 *dwyn cledd ... bwyled llydan ... bwa a saeth*). Enwir Pedr (ll. 49) a gelwir Gwallter yn *fugail Pedr* (ll. 7). Gallai hyn awgrymu ei fod yn gwasanaethu mewn plwyf a gysegrwyd i Bedr. Ond, ar y llaw arall, ymddengys y gallai fod yn gweinidogaethu mewn plwyf wedi ei gysegru i Deilo (ll. 48). Rhestrir yr eglwysi a gysegrwyd iddo yn LBS iv, 237–8. Yn Llywel ac yn Llandeilo'r-fân yr oedd yr eglwysi a gysegrwyd iddo yn sir Frycheiniog ond bylchog iawn yw'r rhestr o offeiriaid y ddau blwyf yn HCBrec ii, 675 (Llywel) ac 213–14 (Llandeilo).

5 **Einion** Einion Sais, gw. nodyn brig cerdd 20 a 2.5n.

n wreiddgoll, ac felly yn llau. 15, 16, 37.

5–6 Awgrymir mai Gwallter oedd yr aelod cyntaf o'r teulu i gymryd urddau eglwysig, a gall hynny esbonio'r ffaith na ddigwydd ei enw ymhlith plant Morgan ap Dafydd Gam. Ond yr oedd aelod arall yn dilyn gyrfa

eglwysig, sef Syr Dafydd Gam, mab Tomas ap Syr Dafydd Gam, gw. y nodyn brig. Y tu allan i Gymru y gwasanaethai ef a dichon na wyddai'r bardd am ei hanes.

- 12 Cf. 16.16 *Dêl beirdd i' th dai a dâl bwyth*.
- 21 *m* wreiddgoll, ond gellid diwygio yn *mewn d'ysgol*. Cynigiwyd diwygiad tebyg a oedd yn cryfhau'r gynghanedd yn Pen 99, sef *mwy n d ysgol*.
- 23 **lisiens** 'Trwydded'. Hon yw'r engh. gynharaf a restrir yn GPC 2060.
comensiad 'Derbyniad i radd Meistr neu Ddoethur mewn prifysgol', gw. GPC 548. Dyma'r unig engh. a nodir yno. Ar y tebygrwydd rhwng y ll. hon a'r ll. *Saith seiens a gymensswn* mewn cywydd i wŷr eglwysig o Lyn-nedd, gw. D.H. Evans, 'Ieuan Du'r Bilwg (*fl. c.* 1471)', B xxiii (1986), 101–32 (cerdd III ll. 5n).
- 25 **yfferen** 'Gwasanaeth sy'n cynnwys yr Ewcharist neu weinyddiad y sacrament neu'r ordinhad o Swper yr Aglwydd', gw. GPC 2635 lle y rhestrir y ffurfiau *offeren*, *efferen*, *fferen*, *fferen*.
- 30 **curawdr** Ni nodir y ffurf yn GPC 630 ond rhestrir *curad*, *ciwrad*, *ciwrat* 'un sydd â gofal bugeiliol dros eneidiau plwyfolion, offeiriad neu berson plwyf'. Nid yw *curiawdr* 'un sydd yn peri curio, nychwr', gw. GPC 631, yn taro cystal er bod cyfeiriadau isod at gyneddfau rhyfelgar Gwallter.
- 35 **gwŷn** Dewiswyd *gwŷn* 'poen, artaith; digofaint, cynddaredd', ond gellid *gwyn* 'dymuniad, dyhead', gw. GPC 1770–1.
- 38 **enilliaist** Pen 67 *enilliaist*, ond ni restrir y ffurf honno yn GPC 1216; ond cf. 79.8 *Yn well nog yr enilliwn*. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.
eilliaw Anogir Gwallter i sicrhau na fydd yn colli'r enw da a enillodd ar gyfrif ei filwriaeth, er ei fod bellach yn wŷr eglwysig sydd, yn unol â'r arfer, wedi eillio ei ben. Ar yr un pryd bydd *eillio* yn cyfleu yn drosiadol ffynigrwydd didostur y milwr, gw. GO XVII.27–8 *Lloer y drin, eilliai wŷr draw, / Llath danlled yw llwyth d'vnullaw*.
- 45 **pin** Yn y rhan hon o'r cywydd cyfosodir profiad milwrol ac anian greulon Gwallter ar y naill law a'i yrfa eglwysig a'i ddysg feiblaidd ar y llaw arall. Y mae'r *llyfr* yn ll. 46 yn delweddu'r ail a cf. *llythr y pab* 'dysg y pab' yn ll. 26. Er y gellid *pìn* 'offeryn ysgrifennu' yma, gw. GPC 2806 d.g. *pin*², tebycach mai trosiad am saeth neu waywffon ydyw, gw. GPC 2805 d.g. *pin*², ond gellid hefyd *pìn*¹.
- 49 **maen** Am enghrau. ffigurol, gw. GPC 2307.
- 53 **Awstin** Cyffelybir y noddwyr, yn enwedig y rhai sydd mewn urddau eglwysig, yn fynych i Awstin o Hippo, e.e. GG.net 94.49 *Ac Awstin Heilin yw hwn*; TA XXIX.12 *Awstin lân, Ystanlai wyd*. Ar Awstin, gw. ODCC³ 129–32.

54 **omner** Rhestrwyd y ffurf hon ac *amner* a fabwysiadwyd yn Pen 99 yn GPC 2647. Diwygiwyd *omner* Pen 67 yn *amner* drachefn yn Pen 99 yn 28.51.

56 **ti a ry digon** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.

57 **torry** Ffurf 2 un.pres.myn. *torri*.

28

Anodd bod yn gwbl sicr ynghylch gwrthrych yr awdl foliant hon. Ychwanegwyd *I Wm Hafart* uwchben yr awdl yn Pen 99, a rhoddwyd yr un pennawd yn CM 12. Ond anodd credu nad Lewys Hafart a gyferchir; wedi'r cyfan ailadroddir ei enw ef yn safle'r odl ar ddiwedd pob pennill yn y gyfres o saith gwawdodyn hir yn ail ran yr awdl. Fel y nodwyd yn NBBM 165–7 rhyfedd fyddai i'r bardd gyfarch Wiliam Hafart a rhoi'r fath amlygrwydd i Lewys (ond o dan Wiliam Hafart y dosbarthwyd yr awdl, serch hynny). Er y gellir datgan yn hyderus, felly, mai Lewys a gyferchir, erys ansicrwydd ynghylch pwy yn union ydoedd. Cynigir mai ef oedd mab Wiliam ap Maredudd ap Madog ap Siancyn Hafart, gw. WG2 954. O dderbyn hyn gellir esbonio'r rhan fwyaf o'r cyfeiriadau achyddol sydd i'w gweld yn rhan olaf yr awdl yn foddhaol. Perthyn Lewys i genhedlaeth 11 yn WG1/WG2, sef y rhai a aned oddeutu 1370. Fodd bynnag, dyfelir i Hywel Dafï gyfarch Gwallter ap Siancyn Hafart Hen, cefnder Lewys, yntau hefyd yn perthyn i genhedlaeth 11, gw. cerdd 30. Plant o ail briodas Maredudd ap Madog oedd Siancyn Hafart Hen a Wiliam. Ach Wiliam ap Maredudd o dad i dad a gofnodwyd yn L. Dwnn: HV i, 102, ond un mab a roddir iddo, a Wiliam oedd ei enw yntau. Canodd Huw Cae Llwyd gywydd i erchi dau filgi gan ryw Wiliam Hafart, gw. HCLl cerdd XVII.

Canodd Dafydd Epynt awdl foliant i Lewys Hafart, gw. GDEp cerdd 8. Yr unig ffaith a nodwyd amdano oedd ei fod yn wŷr i Faredudd. Rhaid ystyried y posibilrwydd, felly, mai'r un gŵr a gyfarchwyd gan y ddau fardd. Ni chyfeiriodd Hywel Dafï at wraig Lewys ac nis henwir yn WG2 954 ychwaith. Yn ei awdl ef dywed Dafydd Epynt mai Isabel oedd gwraig Lewys, ac yr oedd hi yn ferch i Siôn ap Tomas, gw. GDEp 8.53–60 (ond gthg. yr awgrym ar d. 112 mai cyfeiriad at hynafiaid Lewys sydd yma). Crybwyllir dau symbol brudiol, yr ych a'r wennol, yn awdl Dafydd Epynt, ac fel y noda'r golygydd, gall hynny awgrymu cyswllt â Siasbar Tudur. Gallai hynny yn ei dro awgrymu dyddiad rhwng marw Owain Tudur yn 1461 a brwydr Maes Bosworth yn 1485 ar gyfer awdl Dafydd Epynt. Enwir rhyw Lewis Hafart (ynghyd â Wiliam a Thomas Hafart) ymhlith y gwŷr a laddwyd ym Manbri yn 1469, gw. WWR² 108. A barnu wrth dystiolaeth WG1/WG2 nid oedd y tri hyn yn frodyr.

Yn ogystal â'r testun sydd yn llaw Hywel Dafï yn Pen 67 a'r copïau sydd yn deillio ohono, diogelwyd yr awdl yn LIGC 17121D wrth enw Huw Cae

Llwyd, gw. ‘Cerddi Ansic’ tt. 48–9. Collwyd pedair llinell yn y ffynhonnell hon. Copïodd Siôn Dafydd Rhys ddrylliau o’r awdl gan ei phriodoli unwaith eto i Huw Cae Llwyd. Awgryma llinell 49 yn Llst 55, 123 fod cyswllt rhwng ei ffynhonnell ef a LIGC 17121D.

Y mesurau

1–16 Pedwar englyn wedi eu cysylltu â chyrch-gymeriad.

17–22 Chwe llinell seithsill sydd yn proestio.

23–64 Saith gwawdodyn hir ar yr odl -ys. Ailadroddir yr enw *Lewys* ar ddiwedd pob pennill.

- 5 **pond** Rhaid wrth ffurf unsill (*ponid* sydd yn Pen 67) er mwyn sicrhau bod hyd y ll. yn rheolaidd.
- 6 **Rhufain** Disgrifiodd Ieuan ap Gruffudd Goch bererindod Siancyn Hafart a thair gwraig fonheddig i Santiago, gw. Peniarth MS. 57, cerdd XXV. Y mae’n bosibl mai Siancyn Hafart Hen oedd hwn, sef ewythr Lewys. Ond awgryma’r englyn agoriadol mai tad neu daid Lewys ydoedd.
- 7–8 **ei wŷyr ... / ... i’w orwyr** Cf. y cwpled hwn â 77.59–60 *O bu’r wŷyr wŷr byr ei oes / Bid i’w orwyr bedeiros*. Cf. hefyd GDLI 98.52 *Bid i’w wyrion bedeiros*. Ensynnir mai oes fer a gafodd tad Lewys Hafart. Y mae trefn yr odlau yn wahanol yn LIGC 17121D. Prifodl ddiacen a ddaw gyntaf.
- 8 Diwygiwyd *byw deiroes* yn *bedeiros* yn Pen 99 gan newid y rhifol, ond sylwer mai *teiroes* sydd yn digwydd ar ddechrau’r englyn sydd yn dilyn.
- 12 Rhaid derbyn bod y gair gwan *ni* yn safle’r orffwysfa. Gellid cynghanedd sain o newid y ffurf ferfol a mabwysiadu *ni welis* er mwyn odli â *Lewys*, ond *gwelas* a *gweles* yw ffurfiau 3 un.grff. *gweld*, gw. GMW 122; G 653. Am roi’r gair gwan naill ai yn safle’r acen neu yn safle’r odl, gw. 1.23n a ‘Cynghanedd’ tt. 42–3.
- 16 **pob dri** Gw. ll. 27n.
- 17 Ysgrifennwyd *gwedy n* yn Pen 67, ac fe’i dilynwyd yn Pen 99. Gallai hyn gyfleu ‘wedi i ni...’ neu ‘wedi ein...’ ond nid yw’r naill na’r llall yn taro. Diwygiwyd, felly, yn *gwedyn* er mai i ail hanner yr 17g. y perthyn yr engh. gynharaf o’r ffurf honno a gofnodwyd yn GPC 1609.
- 17–22 Pedair ll. sydd mewn englyn proest, gw. J. Morris-Jones: CD 324–7, ond ar dro byddai’r beirdd yn llunio penillion estynedig o chwe ll., cf. 85.69–74; GLGC 10.83–8; GLMorg 1.13–18. Ceir pennill sydd yn cynnwys pum ll. yn un o awdlau Tudur Aled, gw. TA I.53–7.
- 18 **gwestwr** Gellid naill ai ‘gwestai, gŵr gwadd, ymwelydd’ neu ‘un sydd yn estyn croeso, gwesteiwr, lletywr’, gw. GPC 1651. Ond *gwestiwr* yw’r ffurf yn 63.1ln.

- 19 **talm** Fe'i cysylltir ag amser yn fynych mewn ymadroddion megis *talm o'r dydd, talm o amser*, ond y mae hefyd yn gyfystyr â 'llawer, lliaws, torf', gw. GPC 3432–3.
- 24 Camosodiad *r.n = n.r.*
- 26 *n* wreiddgoll, ac felly hefyd yn llau. 35, 36, 41.
- 27 **pob ddwylys** Cysefin y rhifol sydd yn dilyn *pob*, gw. Treigladau 145–6, ond treiglir yn feddal i gyfleu'r ystyr 'bob yn ddau, bob yn dri', &c., a cf. ll. 16 *Awn, bawb, i'w dref, awn bob dri*, 21.53 *Pob ddau y bydd blodau'r blaid*, 54.23 *Pob ddwy fal seigiau'r fwyall*. Ond nid dyna'r ystyr yma. Treigid enwau hefyd yn achlysurol ar ôl *pob*, gw. *ib.*, a cf. GMBen 8.73n, ac efallai mai dylanwad y gystrawen 'bob yn ddau' sydd yn esbonio'r treigid ar yr achlysur hwn. Am enghrau. eraill yng nghanu Hywel Dafî, cf. 32.25 *Ni chad heb lad o bob le*, 84.59 *Pob gwlad, pob ddwywlad, pawb a ddalian*'.
- 27–8 **dyly ... / ... dlyir** Ffurf sydd yn tarddu o'r berfenw *dylu* sydd yn ll. 27 ond *dlyu* yn ll. 28. Ystyr *dylu* yma yw 'bod â hawl (i), hawlio, teilyngu, meddiannu' a defnyddir *dlyu* i gyfleu'r ystyr 'bod yn rhwymedig, bod yn ddyled ar un', gw. GPC 1135, ystyron (a) a (b).
- 29 **efô gâr** Diwygiwyd *ve gar* Pen 67 yn *efô gâr* er mwyn sicrhau bod hyd y ll. yn rheolaidd, a thrachefn yn ll. 31. Digwydd yr un ffurf yn ll. 44. Diwygiwyd yn wahanol yn Pen 99: ychwanegwyd y fannod o flaen yr e. yn ll. 29 (*y moliant*) ac ychwanegwyd y cys. yn ll. 31 (*a breued*). Nid oedd raid wrth y diwygiad cyntaf gan fod cadw cysefin y gwrth. yn dilyn un o ffurfiau 3 un.pres.myn. y f. yn arfer cyffredin, gw. 5.36n.
- 31 Tebyg mai *f* led-lafarog sydd yma yn hytrach na thwyll gynghanedd *dd*. Y mae'n bosibl mai ymgais i osgoi'r bai tybiedig sydd yn cyfrif am y ffurf *fo* yn hytrach na *fydd* yn Pen 99.
- 32 **Hen Gyrys** Cymeriad annelwig ond un a oedd yn enwog ar gyfrif ei ddoethineb. Am gyfeiriadau eraill ato, gw. GLGC 19.28n. Ar y casgliad o ddjarhebon wrth ei enw yn Llyfr Coch Hergest, gw. DLICH 1–2.
- 33 **rhagynys** 'Ynys gyfagos', gw. GPC 3029 a cf. TYP³ 246 *Teir Prif Rac Ynys yssyd idi* [Ynys Prydain] ... *Mon a Manab ac Ynys Weir*. Yng ngoleuni'r cyfeiriad at Gamber, ymddengys mai 'tir' neu 'tir ar y cyrion' yw'r ystyr yma.
- Camber** Un o dri mab Brutus yn ôl Sieffre o Fynwy. Ef a etifeddodd Gymru wedi dyddiau ei dad, gw. BD 21.
- 36 **llwyrwys** 'Gwys gyffredinol (yn enwedig i wasanaeth milwrol); cynulliad llawn o bobl wedi eu galw ynghyd', gw. GPC 2247 a cf. 8.12 *Ei lys oedd lwyrywys i'w wlad*. Nid cyd-destun milwrol sydd yma; y mae Lewys Hafart megis oen yn derbyn yn barod liaws o wŷr i wleda yn ei lys.
- 37 **telynior** Rhestrir *telynior* a *telynor* yn GPC 3475. Mabwysiadwyd y

- cyntaf gan ddilyn Pen 67 am fod yr odl yn y gynghanedd lusg yn gryfach. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. ‘Rhagymadrodd’ td. 38.
- 39 **hil Rhys ap Tewdwr** Gw. ll. 60n. Adferwyd cysefin yr enw *Rhys* er mwyn cryfhau'r gynghanedd. Cyffredin oedd treiglo'r e.p. mewn ymadroddion genidol, gw. 2.1n. Ceir enghrau. o dreiglo ac o gadw'r gysefin yn yr ymadroddion hynny sydd yn cynnwys yr e.c. *hil*. Digwydd y gysefin yn 8.9 *hil Gwilym*, 9.31 *hil Bleddyn*, ond treigilir yn 9.32 *hil Dewdwr*, 22.11 *hil Ddafydd*.
- 42 Rheolaidd yw'r gyfatebiaeth rhwng *un/gwr* a *den/gys*.
- 45 **heb faeth** Digwydd *bath* yn y ll. nesaf. *heb vath* a gofnodwyd yn Pen 67, ond geilw'r gynghanedd am *heb faeth*, a dyna'r ffurf a gofnodwyd yn Pen 99. Ni fabwysiadwyd ail ddiwygiad Pen 99, sef *yn fwythus* am *yn foethus*.
- 48 **pedeirbath** Mabwysiadwyd ffurf wrywaidd y rhifol yn Pen 99 (*o bedwarbath*), ond gall *bath* fod yn eg. yn ogystal ag yn eb., gw. GPC 264. Eb. yw *bath* yn ll. 43.
- 49 **hyd ruban** Deallir *hyd* yma yn e. yn hytrach nag yn ardd., gw. GPC 1948–51. Y mae'n dilyn fod *ruban* yn ffurf gysefin, ond *rhuban* sydd yn 38.35, ac y mae'r cymeriad llythrennol o blaid *rh-* yn hytrach nag *r-* y tro hwn. Ar y ddwy ffurf, gw. GG.net 100.2n. Darlleniad Llست 55 yw *arian hyd triban ar i tribys*.
- 53–4 **Y saith ... / Y naw ...** Cyfoddir y rhain mewn man arall, gw. 26.39–40.
- 54 **deuRys** Enwir dau Rys yn ll. 60n, ond gellid cyfeirio at drydydd Rhys. Ail wraig Maredudd ap Madog ap Siancyn Hafart oedd Gwenllian, merch Watgyn ap Hywel ap Dafydd ap Rhys, gw. WG1 90.
- 59 **dau Einion** Einion Sais, gw. ll. 60n. Ni lwyddwyd i daro ar ail Einion yn yr ach, ond ni chynigir unrhyw wybodaeth am linach mam Lewys yn WG2 954. Gall fod yr ail Einion yn perthyn iddi hi.
- 60 **dau Faredudd** Cynigiwyd yn y nodyn brig fod Lewys yn fab i Wiliam ap Maredudd ap Madog ap Siancyn Hafart. Gwraig Madog oedd Lleucu, merch Maredudd ab Einion Sais, ac yr oedd Einion Sais yn ei dro yn briod â Gwenllian, merch Hywel ap Rhys Gryg o linach Rhys ap Tewdwr, gw. WG1 97, 788. Yr oedd Einion ei hun yn fab i Rys ap Hywel.
- 61 **Madog** Gw. y nodyn brig a'r nodyn blaenorol.
- defodus** ‘Yn cadw defod, moesgar’. Dyma'r unig engh. a ddyfynnir yn GPC 915. Nodwyd yn Llست 55 *gwr bwriadvs gwr debhodvs i wneuthur peth*.

62 Ymddengys i'r bardd gofnodi'r fannod ddwywaith *a droi r y llwynnev*, ac fe'i dilynwyd gan Pen 99. Dilewyd y gyntaf yn y golygiad hwn. Nid yw'r ystyr yn caniatáu mabwysiadu *A droi'r allwynau ...*, ffurf l. *allwyn* 'tristwch, gofid', gw. GPC² 189. Perthyn yr engh. gynharaf o'r gair hwnnw i ganol yr 17g.

63 **Mordaf** Gw. 13.17n.

64 **Llywarch** Awgryma ei epithet 'Hen' iddo fyw i oedran teg, gw. TYP³ 422–4; CLC² 86–7, ac ategir hyn gan yr ail gyfres o benillion yn CLIH II.17.1 *Wyf hen, wyf unic, wyf annelwic oer*, II.18.1 *Wyf tridyblic hen, wyf annwadal drut*. Bardd arall a fanteisiodd ar y syniad er mwyn deisyf hiroes i'w noddwr oedd Tudur Penllyn, gw. GTP 10.53–4 *Oes hir i'r feinir aur fyd, / I Huw oes Lywarch hefyd*. Am gyfeiriadau pellach at ei henaint, gw. GG.net 106.49n

29

Awdl farwnad i Wenllïan Hafart, gwraig Gwallter ap Siancyn Hafart Hen, gw. cerdd 30. A barnu wrth l. 63 *E ry gŵr y wraig arian*, bu farw Gwenllïan o flaen ei gŵr. Yr oedd Gwenllïan yn ferch i Forgan ap Tomas Llwyd, Trecastell, ap Siancyn ap Rhisiart ap Dafydd, gw. WG1 96; WG2 196. Awdl foliant iddo ef yw cerdd 37. Methwyd ag adnabod gwrthrych yr awdl farwnad yn NBBM 171–3 yn yr adran lle y trafodir y canu i Wenllïan a'i gŵr. Awgrymir yn gyfeiliornus yno mai Morgana ap Tomas oedd gŵr y wraig a fu farw.

Y mesurau

- 1–16 Pedwar englyn unodl union wedi eu cysylltu â chyrch-gymeriad.
 17–60 Dau gwpled ar hugain ar fesur y toddaid ar yr odl *-ydd*. Cysylltir dwy linell y toddeidiau â chymeriad llythrennol yn ddi-dor rhwng llau. 17–48 ond yn llai cyson rhwng llau. 49–60.
 61–4 Englyn proest cyfnewidiog.

1 **peren** Digwydd *peran* yn safle'r odl yn 65.9.

3 *n* wreiddgoll.

13 **teiran** Gallai oleddfu *tir*, ac os felly tri chantref Brycheiniog, gw. 59.3n. Dewis arall fyddai ei gysylltu â'r gwyliau, sef y tair gŵyl arbennig pan fyddai'r beirdd yn ymweld â'u noddwyr, gw. 23.21n.

17 **o chwynfan** Ceir enghrau. o dreiglo ac o gadw cysefin ffurfiau berfol myn. a dib. yn dilyn y cys. *o*, gw. GPC 2611; 2.19n, 11.53n. Tebyg felly mai ffurf 3 un.pres.myn. y f. *cwynfan, cwynfan(n)u* 'cwyno, dolefaen' sydd yma, gw. GPC 654. Dewis arall fyddai diwygio *o chwynfan* yn â *chwynfan*.

- 19–20 **Os ... / Os ...** Deellir y cyntaf yn eiryn berfol a'r ail yn gysylltair amod.
- 21 **pedwerydd plas** 'Un plas o blith pedwar'.
- 21–4 **Morgan ... / ... Tomas ... / ... / ... Ddafydd** Hynafiaid Gwenllïan a restrir yn y pennill hwn, gw. y nodyn brig.
- 23 **morynon** Dilynyd Pen 67. Rhestrir y ffurfiau ll. *morwynon* a *morwynion* yn GPC 2496. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.
- 24 **ydddifaid** *Amddifad* yw'r ffurf yn 36.33. Cofnodwyd y naill a'r llall yn Pen 67.
m berfeddgoll.
- 26 **prydydd** Yn ei awdl i Forgan ap Tomas Llwyd, tad Gwenllïan, cyfeiria Hywel Dafï at ei hoffter o gerdd dafod a cherdd dant, gw. 37.37–8.
- 27 Diwygiwyd y ll. yn Pen 99 *Dwyn Maelgwyn yw dwyn adenydd—ei blaid*. Y mae'r newid yn torri ar y cymeriad llythrennol a gynhelir yn y rhan hon o'r awdl. Noder hefyd mai *Maelgwn* ac nid *Maelgwyn* yw'r ffurf sydd yn digwydd fel arfer yng nghanu'r beirdd.
- 28 **glan Wysg** Gallai fod yn e. lle. Dafydd ap Hywel Fychan, ewythr Dafydd Gam, a drigai ym Mharc Letys yng Nglan Wysg, ar lan ogleddol yr afon, nid nepell o dref y Fenni, gw. WG1 106; WG2 220. Ar gais Syr Joseph Bailey, nai Richard Crawshay, y codwyd y plas Glan Wysg i'r dwyrain o Grucywel, ar lan ddeheuol yr afon, a hynny yn y 19g., ond tebyg fod yno annedd rai canrifoedd ynghynt, gw. BWPowys 366; E.P. Jones, 'Cartrefi enwogion sir Frycheiniog', *Brycheiniog*, xiii (1968–9), 129–30; Annals 112. Yn y 19g. hefyd y codwyd plas Glan Wysg ar gyrion Pontsenni, gw. A. Llywelyn-Williams, *Crwydro Brycheiniog* (Llandybie, 1964), 133.
Cyfatebiaeth -s g- = -sg g-. Cf. 21.46 *Ni chwsg gwŷr; ni chais gorwedd*.
- 31 **ymgerydd** Ymddengys fod y gair hwn yn cyflawni swyddogaeth ferfenwol, cf. GBDd 5.50 *Gwŷd a'm darfu o gamgaru ac ymgerydd*; DG.net 6.44 *Nad rhydd ymgerydd am gâr*.
- 35 **gwaeredydd sugnau** Dyfynnir llau. 34–5 yn GPC 3353 d.g. *sugn*. Rhoddir i *sugn* yr ystyr ffig. 'cerrynt dan yr wyneb sydd yn llifo i gyfeiriad gwahanol i'r cerrynt ar yr wyneb', a ffurf l. *gwaered* 'llethr, llechwedd, disgynfa, goriwaered' yw *gwaeredydd*, gw. GPC 1150–1. Gellid aralleirio'r sangiad yn 'llifeiriant ar i waered neu ar lechwedd'.
- 36 **paderau** 'Gleiniau' yw'r ystyr yma, gw. GPC 2666. Cyffelybir y dagrau i res o leiniau.
y pedwar defnydd Gw. 13.26–8n.
- 37 **dyfydd** Ffurf 3 un.dyf. *dyfod*, gw. GMW 133.

- 38 **mwylfwy bibonwy** Ar y treigladd, gw. 11.8n.
- 42 **Ba wnaaf? Ba ddywedaf ...?** Gall *pa* + bf. gyfleu'r ystyr 'beth a', gw. GMW 76–7; GPC 2661–2.
- 48 Anodd dehongli'r ll. hon ac nid yw tystiolaeth Pen 67 yn gwbl ddiawms. Ysgrifennwyd yn y lle cyntaf *or hwinn ni ddarvv r hain a verydd* ond yna ychwanegwyd *dd* uwchben *v* yn y gair olaf ond heb ddileu'r llythyren honno. Dilynwyd Pen 99 *rhain ni dderfydd*. Y mae'r ll. yn fwy ystyrion o newid *ni ddarfu* yn *a ddarfu* yn y rhan gyntaf. Os daeth y croeso a'r lletygarwch i ben, bydd yr hudoliaeth a'r bwllch yn aros. Ar *or* 'os', gw. GMW 241.
- 51–2 Y mae angen odl gyrch rhwng diwedd ll. 51 a chanol y nesaf, ond y mae angen dwy odl hefyd i gynnal y gynghanedd sain yn ail fraich y toddaid. Rhaid diwygio darlleniad Pen 67 yn ll. 51, sef [g]wnaethont yn [g]wnaethon', er mwyn cael odl â *gwelon*' yn ll. 52. Ar yr un pryd rhaid derbyn mai'r odl *-om / -on* sydd yn cynnal y gynghanedd sain yn y ll. honno. Diwygiwyd rhif y ddwy f. yn llau. 51 a 52 yn Pen 99. Gellid aralleirio'r cwpled fel hyn 'Paham nad awn [i ffwrdd] os arferwn fynd i'r cyfarfyddiad a wnaeth Gwenllïan a'i gŵr rhyngom [a] lle y byddai pawb yn gweld ei gilydd?'.
 57 **gyda'r forwyn** Camddarllenwyd llythyren gyntaf y ll. yn Peniarth MS. 67. Tybiwyd mai'r brif llythyren *O* oedd yno, ond y mae'r darlleniad yn gywir yn Pen 99, sef *gyda* yn hytrach nag *oyda*. Y mae'r g yn y ll. hon yn wahanol i'r un llythyren ar ddechrau'r ll. nesaf ond yn cyfateb i'r g yn llau. 15–16 ar y ddalen nesaf.
- mynydd Sina** Yno yn ôl ei buchedd y claddwyd y santes Catrin ... *ar gvr drvc yna a ladavd y phenn. a llaeth yn lle gwaet a redaud allann. ac egylyon yna a gymmersant y heneit ac ae ducssant yr nef. ae chorff ae cladyssant ym mynydd Synay*, gw. J.E.C. Williams, 'Buchedd Catrin Sant', B xxv (1972–4), 268. Ailadroddir hyn yn y cywydd a ganodd y bardd Siôn ap Hywel iddi, gw. GSH 19.33–4 *Bedd rhyfedd, anrhydedd radau—o'r gras, / Dinas Mynydd Sinai*. Diogelwyd 17 copi o fuchedd Catrin yn y Gym., a pherthyn i ddosbarth o fucheddau sydd yn canol-bwyntio ar ddiodeffaint yn hytrach nag ar fywyd y santes. Yn ôl H.I. Bell, *Vita Sancti Tatheï and Buched Seint y Katrin* (Bangor, 1909), nid yw'r testun Cym. yn cyfateb i'r un testun arall a welodd er bod llawer o'r manylion unigryw yn cael eu hailadrodd mewn un testun S.
- 58 **ŵyr Anna** Anna yw'r enw a roddwyd ar fam Mair, a Christ, felly, yw ei hŵyr, gw. ASCent 2.40n. Mae'r odl gyntaf sydd yn ffurfio'r gynghanedd sain yn gudd (*gyda ... Anna*), ond gthg. y modd y rhannwyd y geiriau yn Pen 67 *gida gwyr anna ai garenydd*.

30

Yr oedd yr Hafartiaid yn flaenllaw yn Aberhonddu a'r cyffiniau yn y bymthegfed ganrif. Un arwydd o hynny yw'r capel a neilltuwyd ar gyfer y teulu yn eglwys Ioan yn y dref. Prin yw'r eglwysi yng Nghymru y trefnwyd eu hystlysau yn gapeli, gw. A. Llywelyn-Williams, *Crwydro Brycheiniog* (Llandybïe, 1964), 15. Canodd sawl bardd i'r Hafartiaid, ond ni ellir bod yn gwbl sicr pa aelodau a gyferchir bob tro. Ym Mhontwilym y cartrefai'r brif gangen, ac yno y trigai Siôn Hafart ap Gwilym ap Siôn a gyfarchwyd gan Lewys Glyn Cothi a Huw Cae Llwyd, gw. GLGC cerdd 138; HCLI cerdd XX. Yn Aberbrân y trigai Wiliam ap Tomas ap Gwilym, gwrthrych un o gywyddau Dafydd Epynt, gw. GDEp cerdd 7, ac ymddengys mai ym Mochrwyd, nid nepell o'r Clas-ar-Wy, y trigai'r Siôn Hafart a farwnadwyd gan Huw Cae Llwyd, gw. HCLI cerdd XXII (ond mewn gwirionedd y mae'n annhebygol mai cywydd i un o'r Hafartiaid yw hwn, gw. A.C. Lake, 'Huw Cae Llwyd: tri nodyn', *Dwned*, 20 (2014), 65–77). Ar y llaw arall, amhosibl gwybod pwy yn union oedd y Siancyn Hafart a folwyd gan Guto'r Glyn, gw. GG.net cerdd 31 a'r nodiadau ar y teulu. Fel y nodwyd, y mae peth ansicrwydd ynghylch Lewys Hafart hefyd, gwrthrych awdl foliant o waith Hywel Dafï, gw. cerdd 28.

Anodd bod yn gwbl sicr ynghylch gwrthrych y cywydd marwnad hwn am fod y cyfeiriadau achyddol mor brin, ond y mae'n amlwg mai Gwallter oedd ei enw. Er mai Gwallter a enwir yn llinell 5, cynigiwyd yn NBBM 172 mai i Wiliam Hafart y canwyd y cywydd. Yr oedd hwnnw yn fab i Siancyn Hafart Grwca ap Siancyn Hafart Hen ac yn briod â Siwan, merch Rhys ap Hywel ap Dafydd, gw. WG2 954–5. Cartrefai Dafydd ab Ieuan, hen daid Siwan, yn y Beili-brith. Ail wraig Rhys ap Hywel oedd Siwan, merch Llywelyn ap Gwilym, Porthgogof, a pherthynas i'r bardd Hywel Dafï. Yr oedd gan Wiliam Hafart fab o'r enw Gwallter a gall mai cywydd iddo ef yw hwn.

Dewis arall yw ei uniaethu â'r Gwallter a oedd yn fab i Siancyn Hafart Hen ap Maredudd ap Madog ap Siancyn, ac ar yr ach gw. WG2 954, 959. Gwelir mai Madog yw'r unig un o blith ei hynafiaid a enwir (ll. 24). Crybwyllir ei fab a'i etifedd, Siôn (ll. 42), ond fel y nodir isod nid yw'r cyfeiriad hwn o gymorth wrth geisio adnabod y gwrthrych. Gwraig Gwallter ap Siancyn Hafart Hen oedd Gwenllïan a chanodd y bardd awdl farwnad iddi, gw. cerdd 29. Ar sail yr ystyriaeth allanol hon y bernir mai ei gŵr hi yw gwrthrych y farwnad. Canodd Huw Cae Llwyd gywydd moliant i'r gŵr a'r wraig ar y cyd, gw. LIGC 20574A, 48–50; A.C. Lake, *art.cit.* 74–7. Nid oedd y cywydd hwnnw'n hysbys i Leslie Harries pan oedd yn golygu gwaith y bardd. Er bod lle i gredu bod Gwenllïan wedi marw o flaen ei gŵr, nid enwir ef yn yr awdl farwnad iddi, a'i hynafiaid hi yn unig a grybwyllir. Rhoddir Gwallter a Lewys Hafart, gwrthrych cerdd 28 (cefnder Gwallter,

ond odid), yng ngenhedlaeth 11 yn WG1/WG2, sef y rhai a aned oddeutu 1370. Dichon fod y dyddiad hwnnw yn rhy gynnar gan fod Hywel Dafï yn cyfarch Morgan ap Tomas Llwyd, tad yng nghyfraith Gwallter, mewn awdl foliant, gw. cerdd 37. I genhedlaeth 12 y perthynai ef.

Enwir Gwallter Hafart mewn cerdd o waith y Nant i ofyn am ŵn yn rhodd, ac awgrymir ei fod ef, ac eraill, wedi anrhegu'r bardd yn y gorffennol, gw. GyN 9.45–6 *Gŵn hir i ddwyn dart / Fel gŵn Gwallter Hafart*. Canodd Ieuan Deulwyn ar ran Gwallter Hafart i erchi chwe ych gan wŷr o sir Gaerfyrddin, a'r ddau ŵr cyntaf a enwir yw Tomas ac Owain, meibion Gruffudd ap Nicolas, gw. ID cerdd XXV. Cyfarchodd Hywel Dafï'r tad a'r meibion ar achlysur arall, gw. cerdd 80. Mewn cywydd o waith Huw Cae Llwyd erchir chwe ych dros Wallter Hafart unwaith eto, gw. HCLL cerdd XLI. Enwir Gwallter Hafart drachefn mewn dryll o gywydd o waith Dafydd Epynt, gw. GDEp Atodiad iii *Pennabh yw gwalhter habhart*. Nid rhaid tybio mai'r un Gwallter a gyferchir ym mhob un o'r cerddi hyn (gw. y paragraff nesaf) ond nid oes modd barnu yn derfynol am fod y gyfeiriadaeth achyddol mor foel. Sylwer, fodd bynnag, fod y beirdd a ganodd y cerddi uchod yn gyfoeswyr.

Crybwyllir gyrfâu dau Wallter Hafart yn R.A. Griffiths: PW i, 392. Yr oedd y cyntaf, Gwallter Hafart, Glyntarrell, yn feili Pencelli rhwng 1426–8, ac yr oedd ef ynghyd â'i fab, Tomas, yn fwrdeisiaid yn Aberhonddu erbyn 1443. Aelod diweddarach o'r tylwyth oedd y Gwallter a ddaliai swydd cwnstabl Cao a Mallaen rhwng 1478 a 1481, ac arno gw. WG2 955. Fodd bynnag, nodir yn R.A. Griffiths: PW i, 392 mai'r ail ŵr uchod a briododd â [Gwenllïan], merch Tomas ap Morgan Llwyd, ond y cyntaf yn ôl WG2. Daliodd yr ail Wallter swyddi o dan Harri VII a dywedir iddo farw yn 1504. Nid oes tystiolaeth fod Hywel Dafï yn canu ym mlynnydoedd cynnar yr unfed ganrif ar bymtheg. Cofnodwyd y marwnadau i Wallter ac i Wenllïan Hafart yn Pen 67 a gopiwyd oddeutu 1485. Anodd, felly, yw cysoni'r ystyriaethau hyn ac adnabod gwrthrych y cywydd marwnad â sicrwydd. Am y tro bernir mai mab Siancyn Hafart Hen, a gŵr Gwenllïan ferch Morgan, yw gwrthrych y farwnad.

Cofnodwyd y llinell gyntaf a'r chwe llinell olaf yn Ll1st 55, 61, ond o dan enw Huw Cae Llwyd, gw. ymhellach 'Cerddi Ansicr' td. 49.

7 Ll. afreolaidd o ran ei hyd ac o ran ei chynghanedd yn Pen 67. Ychwanegwyd *chwerwedd* mewn llaw arall yn Pen 67, a mabwysiadwyd y darlleniad hwnnw yn Pen 99.

10 **â'r bar** 'Â'r trosol'. Rhagora hyn ar *ar bâr* 'wedi ei baratoi', gw. GPC 2684 d.g. *pâr*⁴.

13 **llen gël** Cyffelybir yr amdo i len gël sydd yn rhwystro Gwallter Hafart rhag gweld y rhai sydd yn galaru er ei ôl. Yr oedd llen Arthur yn un o dri thlws ar ddeg Ynys Prydain. Hynodwyd hon oedd *a fai deni, nis*

- gwelai neb ef, ag ef a welai bawb*, gw. TYP³ 259, 263–4. Rhestrir cyfeiriadau at y llen yn GPC 2152, a digwydd sawl un mewn cywydd serch. Yn un o'i gywyddau ef dywed Ieuan Deulwyn *lluniasom mewn llwyn isel / llwyn o goed a llen gel*, gw. ID IX.11–12. Crybwyllir y fantell, ond heb gyfeirio at ei hynodrwydd, yn un o gywyddau Dafydd Epynt hefyd, gw. GDEp 11.48. Am gyfeiriadau ati yng nghanu Hywel Dafu, cf. 33.7 *Llen gêl aeth ar Lywelyn*, 108.45–6 *Gwaetherodd fod gwaith eurych, / Llen gêl, ar ddyd llawen gwych*.
- 14 Mabwysiadwyd llan yn hyrach na llen yn Pen 99.
- 15 **tŷ Iefan** I Ioan y cysegrwyd eglwys Aberhonddu ac yr oedd gan y teulu gapel yno. Ar yr eglwys a'r grog enwog a ddisgrifir yn y cywydd adnabyddus 'Y Gŵr a roes ei wryd', gw. M.P. Bryant-Quinn, '“Enaid y gwir oleuni”: y Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, 2 (1996), 74–8. *n wreiddgoll, a thrachefn yn llau*. 16, 18, 33 (ond gw. *ib.n.*), 36, 46.
- 16 **yr wyth** Niferus yw'r cyfeiriadau at y *saith*, sef Saith Doethion Rhufain, ac at y *naw*, sef y Nawyr Teilwng. Anodd bod yn sicr ynghylch ystyr yr *wyth*. Ceir un esboniad posibl yn llaw Hywel Dafu ei hun yn Pen 67, mewn adran lle yr esbonnir arwyddocâd rhifau arbennig, gw. Peniarth MS. 67, 28 *Wyth tri arbenic y sydd [i] wythnyn oedd gynt yn llong noe hen noe hen ai wraic ai dri mab ai dair gwehyddon [ii] ac wythwynt oedd yn y byt pedwar prifwynt a ffedwar asgellwynt [iii] ac wyth bechot oedd yn y byt y saith bechot marwol ar pechod anobaith wythvet oedd waeth No hynny i gyd*. Nid annichon mai'r wyth a oedd yn yr arch sy'n esbonio'r llau. a ganlyn mewn cywydd o waith Deio ab Ieuan Du, gw. GDID 5.49–52 *Morwr yw, mae'r orawen? / Mab yn hynt meibion Noe hen; / Wyth o ddyinion ydd aethant; / Yno bu lin Noe a'i blant*.
- 20 **Normant** Y mae'r gair yn gyfystyr â Normandi i Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 116.9–10 *Pumwell yw Wiliam i roi pimant, / myn llaw hen Armon, no holl Normant*, a bernir mai'r un ystyr sydd yma. Ni nodir yn GPC 2596 y gall *Normant* fod yn ffurf amr. ar *Norman* 'un o frodorion Normandïe'. 'Un o dras Normanaidd' yw *Normant* yn GLMorg 1.14 ar y llaw arall: *Eurllin ermin iarll Normant*. Ond 'Normandïe' yw'r ystyr a awgrymir yn *ib.* 42.59 *Chwi sydd a orfydd arfaeth—holl Normant*.
- 20–4 **'Normant ... / ... / ... Troea** Cf. 59.61–2n *Cwncwerwyr, hil Bedwyr had, / Normandi, a'i rym undad*. Cydnabyddir tras Ffrengig yr Hafart-iaid, fel y gwna Dafydd Epynt wrth gyfarch Wiliam Hafart, gw. GDEp 7.8 *Had Hafardiaid hyd Fwrdaawns*, ond yn union fel y myn Guto'r Glyn fod Siancyn Hafart yn Frytwn (GG.net 31.2 *Hafart naf, hoyw Frytwn wyd*) pwysleisia Hywel Dafu, yntau, gyswllt y teulu â'r Cymry, sef disgynyddion Brutus o Gaerdroea.
- 21 **Trahaearn** Yr oedd Gwenllian, gwraig Gwallter, yn disgyn o Drahaearn o Lan-gors, gw. WG1 96; WG2 196. Ond priododd dau o hynaf-

- iaid Gwallter ap Siancyn Hafart Hen, sef Maredudd ap Madog a'i dad yntau, Madog ap Siancyn, â gwragedd a ddisgynnai o Drahaearn.
- 33 Engh. brin o gamgopiö yn Peniarth MS. 67; *es tri ionawr* yw'r darlleniad cywir. Cf. ymhellach ll. 35n.
- Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll.
- 35 Cywirer *Nefy eissiv* Peniarth MS. 67 yn *Nes y eissiv*.
- 35–6 Dyfynnir y cwpled yn *Cywyddau Cymru*, gol. A. Hughes (Bangor, 1926), 94.
- 36 **gwyddiai** Gw. 17.22n.
- 37 **pysg** Gall gyfleu'r ll. 'pysgod' neu'r un. 'pysgodyn', gw. GPC 2966. Yr ail sydd yma.
- 41–2 **pumaib ... / ... Siôn** Anodd cysoni hyn â'r dystiolaeth a gofnodwyd yn WG2. Yno enwir pum plentyn, ond tri o'r pump sydd yn feibion, ac nid oes yr un Siôn yn eu plith. Gall hyn awgrymu nad Gwallter ap Siancyn Hen yw gwrthrych y cywydd. Nid oedd gan Gwallter ap Wiliam ap Siôn Hafart Grwca fab o'r enw Siôn (gw. y nodyn brig) ac nid oedd ymhlith yr Hafartiaid yr un Gwallter a chanddo fab o'r enw Siôn.
- 45 Nid oes angen y fannod a ysgrifennwyd yn Pen 67. Ar ychwanegu geiriau yn ddianghenraid yn Pen 67, gw. A.C. Lake, '“O gedais lythr yn eisiau”': llawysgrif Peniarth 67 a'i disgynyddion', LICy 37 (2014/15), 1–18.
- 45–6 Dyfynnir y cwpled yn *Cywyddau Cymru*, gol. A. Hughes (Bangor, 1926), cerdd CXVII.
- 50 *heb gael* a ysgrifennwyd yn gyntaf yn Pen 67 ond yna ychwanegwyd *ddwyn*.
- 52 **gantaw** Gw. 19.60n.
- 55 **cerdd tafod** Dilynwyd Pen 67 ond diwygiwyd a threiglwyd ail elfen yr ymadrodd genidol yn Pen 99. Ailadroddir y cyfuniad yn 78.48 *Dyddbrawd ar gerdd tafawd dyn* ond gthg. 37.37 *Cerdd dafod herod, tirion—ardduniant*. Cofnodwyd yr ymadroddion *cerdd dant* a *cerdd tant* hefyd yn Pen 67, ac y mae'r gynghanedd yn tystio i ddilysrwydd y naill a'r llall: 37.38 *Cerdd dant, cae ariant y cywirion*, 78.42 *Ni cherdda dyn â cherdd dant*, 82.40 *Moliant na cherdd tant i'n tir*.

Cywydd moliant i benteulu Porthgogof, a pherthynas i'r bardd, yw hwn, sef Llywelyn ap Gwilym ap Rhys Llwyd ab Adam ap Rhys ab Einion Sais, ac am ei ach gw. WG1 107–9. Marwnad iddo yw'r gerdd sydd yn dilyn. Y

mae'r ddwy gerdd yn dilyn ei gilydd yn llawysgrif Pen 67. Trigai Llywelyn ym Mhorthgogof ym mhlwyf Ystradfellte yn y Cantref Mawr. Ceir llun o'r cartref yn S.R. Jones and J.T. Smith, 'The houses of Breconshire: part 6', *Brycheiniog*, xvi (1972), plât VIC.

Cofnodwyd y llinell gyntaf ac ambell ddryll arall yn Llst 55.

2 **meirch y geirw** Barnai John Davies, Mallwyd, nad oedd y ll. yn ystyr-lon a newidiodd y *geirw* yn *yn geirw*. Gellid ffurf l. *carw*, sef trosiad am feirch Llywelyn ap Gwilym, ond efallai mai ymgais i gyfleu *meirch ageirw* sydd yn Pen 67. Gall *agerw* 'ffyrnig, gwyllt, nwyfus' fod yn enw hefyd, gw. GPC² 113 a hefyd *ib.* 112 d.g. *agarw*, ll. *ageirwon*. Ni nodir ffurf l. ar gyfer *agerw* ond fe'i defnyddir i oleddfdu *march* yn un o gywyddau Iolo Goch, gw. GIG XX.30 *A marchogaeth meirch agerw*. Y mae hefyd yn bosibl mai'r gystrawen a welir yn 24.12n *ei ffon y fawr* sydd yma. Ceir wyth sillaf yn y ll. o fabwysiadu [*e*]i *feirch y geirw*.

y **Fan** Pen y Fan yw copa uchaf Bannau Brycheiniog (886m), ond y mae Fan Nedd (663m), y Fan Fawr (734m) a Fan Llia (632m) oll o fewn rhyw bedair milltir i'r gogledd o Ystradfellte, a diau mai un o'r rhain sydd dan sylw. Wrth foli Brycheiniog dywed y bardd Llawdden, *Mae dechrau'n canuau ni / O'r Fan hyd ar y Fenni*, gw. GLI 18.51–2. Gan fod y tri chopa hyn yn nes i'r gorllewin na Phen y Fan, copa uchaf y Bannau, yn nes at ffin orllewinol hen deyrnas Brycheiniog, ac felly yn bellach o dref y Fenni, efallai ei fod ef hefyd yn cyfeirio at un o'r mynyddoedd hyn.

n wreiddgoll.

3 **Cynfelyn** Fe'i henwir drachefn yn 42.13 *Llin Siancyn, Gynfelyn farn* ac yn 90.4 *Megis Cynfelyn y cawn ei foli*. Cymeriad lled chwedlonol yn hytrach nag un o hynafiaid Llywelyn ap Gwilym sydd dan sylw. Enwir deg cymeriad o'r enw hwn yn WCD 175–6. Yr oedd Cynfelyn Drwsgl yn un o *Tri Phost Cat Enys Prydein*, gw. TYP³ 11, 325. Enwir dau Gynfelyn yn y Brut. Dilynodd Cynfelyn, mab Teneuan, ei dad yn frenin ar Ynys Prydain, *a marchavc gygyr trybelit oed hwnn*, gw. BD 55. Arwydd o'i bwysigrwydd oedd ei gynnwys yn y rhestr o'r 'Pedwar brenin ar hugain a farnwyd yn gadarnaf', gw. *Études* 12 (1968–71), 157–94. Y sant a oedd yn fab i Fleiddudd a enwir yng nghywydd Lewys Glyn Cothi i Saint Cymru, gw. GLGC 7.51; LBS ii, 243–4.

5 Darlleniad Llst 55 yw *nyd eith oi rymm*.

6 **dirgelwch** Gall gyfleu 'diogelwch' yn ogystal â 'peth anodd ei esbonio', gw. GPC 1034.

7 **colfyn** Dyma'r ffurf sydd yn Pen 67. Y mae *colfyn* yn ffurf amr. ar *colfen*, *clofen* 'cangen, cainc, osgl', gw. GPC 543, er mai i'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf, a cf. 10.19 *Colfau hirion Goronwy*.

- 8 Camgopiwyd y ll. yn Peniarth MS. 67. Y darlleniad cywir yw *karw o adam* (nid *adain*) *karedig*.
- 9 **Hywel Felyn** Gwraig Rhys ab Einion Sais oedd Gwladus, merch Llywelyn ap Hywel Felyn, gw. WG1 209.
- 15 **Edern** Enwir sawl Edern yn WCD 222–3. Ar sail y cyd-destun milwrol, awgryma D.F. Evans mai Edern ap Nudd, a restrir ymhlith marchogion llys Arthur yn ‘Culhwch ac Olwen’, a enwir yn GHS 2.75n *Briwiech gedyrn a’ch llaw Edyrn*.
- 16 **blaeneudir** Diau mai tiroedd uchel Bannau Brycheiniog, i’r gogledd o Borthgogof, yw’r *blaeneudir*, cf. ll. 21n *blaeneuau*, ll. 29 y *Mynydd Du*. Am gyfeiriadau tebyg, gw. 10.22n, 75.41n.
- 18 **yddilyn** Bernir bod yn *ddilyn* Pen 67 yn wall copïo, ond fe’i dilynwyd gan John Davies, Mallwyd. Diwygiwyd yn *yddilyn*, ond gellid yn *dilyn*.
gwŷdd ‘Coed’. Awgryma’r cyd-destun y gall fod yn gyfystyr â ‘gwaywffyn’ neu ‘saethau’, ond yr ystyr gyntaf yn unig a roddir yn GPC 1753–4. Am fod sôn am wenyn yma, gallai *gwŷdd* gyfleu’r ystyr ‘llestr i ddal diod, casgen’, a cf. 37.69 *A rhoi mae’r hydd wirod o wŷdd*, 42.55–6 *Un ddolef yn yddilin / Ag yw’r gwŷdd a ddygai’r gwin*.
- 20 Ceir trawiad tebyg gan Huw Cae Llwyd, gw. HCL1 XVI.15 *Heldir yw mynydd-dir Nedd*.
- 21 **blaeneuau** Y mae’r ll. sillaf yn brin fel y cofnodwyd hi yn Pen 67. Addaswyd *blaenvav n jaith* yn *blaeneuau n iaith* yn Pen 99. Ni chofnodir y ffurf yn GPC, ond gwedda yn y cyd-destun ac fe’i dehonglir yn ffurf l. ddwbl *blaenau*. Ond gall mai ymgais i gyfleu *blaen iau ein iaith* sydd yn Pen 67. Ar yr ymadrodd hwnnw, gw. GPC 2002 d.g. *iau*.
- 21–2 Diwygiwyd er mwyn osgoi’r gystrawen *gorau na ...*
- 22 **talaith** ‘Rhanbarth, tiriogaeth, ardal’, gw. GPC 3426–7; yma ‘trigolion y rhanbarth’.
- 24 **no thair** Yn BL Add 31070 yn unig y ceir *no thir*, a cf. 13.43n lle y cafwyd yr un math o newid.
y Fâl Y Dyffryn Aur yn swydd Henffordd. Awgryma Lewys Glyn Cothi fod yr ardal yn enwog ar gyfrif ei chynnyrch, gw. GLGC 150.27–30 *O chât wenith yn chwaneg / y Fâl i’w dai’n Elfael deg, / yno c’weirid yn unnos, / ei dreulio wneid yr ail nos*.
- 25 Y mae’r ll. sillaf yn fyr yn Pen 67. Digwydd yr ymadrodd *i ar* yn 1.23n *Trof i ar dy lys araul*, a mabwysiadwyd yr un ymadrodd yma.
- 29 y **Mynydd Du** Yn nyffryn afon Mellte y mae Ystradfellte a Phorthgogof. Tebyg mai cyfeiriad at y mynydd-dir sydd i’r gorllewin o’r dyffryn sydd yma, yn hytrach na’r Mynydd Du sydd ar ffin ddwyreiniol Brycheiniog. Ond hwnnw a enwir yn 23.3n.

- 30 **cyrnhiriaid** Dyfynnir y cwpled yn GPC 564 d.g. *cornir, corn hir*. Lluosogwyd y ddwy elfen, sef *corn* a *hir* + olddodiad *-iad, -iaid* sydd yn dynodi dosbarth.
- 35 **tylwyth Rys** Y mae'r gynghanedd yn gryfach o dreiglo'r e.p., ond gw. ymhellach 2.1n, 28.39n. Fodd bynnag, ni threigilir yr e.p. yn dilyn *tylwyth* yn 12.20 *tylwyth Llandeilaw*, 14.41 *tylwyth Dafydd*.
- 40 **merch Gynan** Cynan ap Rhodri Molwynog. Ei ferch oedd Esyllt y cyffelybir Siwan iddi, gw. 19.39n.
- 41 **Siwan** Gwraig gyntaf Llywelyn ap Gwilym oedd Margred, merch Dafydd Gam, ond ei ail wraig a enwir yma, sef Siwan Ddu, merch Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd, gw. WG1 311; WG2 607. Y mae Glyn-nedd o fewn cyrraedd hwylus i Ystradfellte.
- 43 **dyn a ran dawn** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.
- 44 **Dwynwen** Un o'r enwocaf o blith plant Brychan Brycheiniog, gw. LBS ii, 387–92; TWS 227–32; WCD 209–10, a'r cywydd a ganodd Syr Dafydd Trefor iddi yn GSTD cerdd 13 (a'r nodiadau).
holl dynion Ar y diffyg treigladd, gw. 18.27n.
- 45 **ŵyr Ieuan** Yr oedd Rhys ap Siancyn yn briod ag Efa, merch Ieuan Fwyaf ap Gwilym Ddu, gw. WG1 117.
- 51 **gwynt annel** Pen 67 *gwynn tannel* ond diwygiwyd yn *gwin tannel* yn Pen 99. Ni wyddys am win a gynhyrchir naill ai mewn lle o'r enw *Tannel* neu o rawnwin a adwaenir wrth yr enw hwnnw er bod Tavel yn ardal Côtes du Rhône yn Ffrainc yn un ardal lle y cynhyrchir gwin. Diogelwyd un ll. goll o waith Lewys Morgannwg yng ngeiriadur Wiliam Llŷn yn Card 3.12 [= RWM 82] *gann kinio a gwin kanel* ond nid yw'r gynghanedd o blaid diwygio, gw. GLMorg Atodiad iv/vii. Mabwysiadwyd y darlleniad diogel *gwynt annel* 'a gyrchir gan y gwynt [yn hwyliau'r llong]'.
- 53 **ugain ben** Y gysefin sydd yn dilyn y rhifol *ugain* yn llau. 50, 51, a rhaid felly mai'r enw *ben* sydd yma, ffurf amr. ar *men* 'cert, trol', gw. GPC 271 lle y dyfynnir y ll.
- 55 **naw ugeiny** Ar y treigladd trwynol yn dilyn y rhifol *ugain*, gw. Treigladdau 138–9, a cf. 85.33 *Wythnyn i'th ddilyn pan y'th alwer*.
- 56 **nawcant ŵyl** Ar arfer y ffurf *cant* yn hytrach na *can* yn y safle hwn, gw. 8.59n.
- 57 **gorddyfn** 'Arfer, moes, defod'. O'r cywydd hwn y daw'r engh. gynharaf a ddyfynnir yn GPC 1472.
- 59 **cariad Garwy** Ymddengys fod chwedlau gynt am garwriaeth Garwy Hir, gw. TYP³ 356. Gallai'r sangiad gyfeirio at Siwan (a gyffelybir i gariadferch Garwy) neu at y bardd (sydd yn profi serch megis serch Garwy tuag at ei noddwr).

Cywydd marwnad i Lywelyn ap Gwilym ap Rhys Llwyd yw hwn ac fe'i diogelwyd mewn un llawysgrif yn llaw Syr John Pryse a gofnododd wybodaeth arwyddocaol am ei gyswllt ef â'r sawl a goffeid: *barnod llywelyn ap Gwilym ap Rhys llwyd ap Adam hynaif i Sr sion vab Rhys nyd amgen i orhendad ef*. Yn wahanol i'r arfer cofnodwyd enw'r bardd yn llawn, sef *howel davydd ap Jevan ap Rhys llwyd ap Ad[]*. Mewn ail gywydd sydd yn mynegi'r golled ar ôl Llywelyn a'i wraig, pwysleisir mai Llywelyn a fu farw gyntaf, gw. 33.49–50 *Pan aeth ef i'r wlad nefol / Aeth i nef hithau 'n ei ôl*. Ar y llaw arall, tra bo'r cwpled *Rhyfedd yn y bedd na bu / Siwan yn ei resawu* (llau. 57–8) yn y cywydd marwnad i Lywelyn yn awgrymu bod Siwan yn dal yn fyw, awgryma llinellau 61–2 *Oed a wnaethont; aen' weithian / I wlad nef; ail oed a wnân'* ei bod wedi marw eisoes. Tystia'r ddau gywydd mai yn nhŷ'r Brodyr Duon yn Llan-faes ar gyrion Aberhonddu y claddwyd Llywelyn a Siwan. Yn y cywydd hwn disgrifir y gwasanaeth yn yr eglwys (llau. 49–56) ac ymddengys fod y bardd ei hun yn bresennol ac yn dyst i'r achlysur.

- 1 **ewythr** Yr oedd Llywelyn a Dafydd, tad y bardd, yn ddau gefnder.
- 7 **nithedd** Ni nodir y ffurf l. hon yn GPC 2584, ond rhaid wrthi er mwyn ateb gofynion yr odl. Crybwyllwyd neiaint Llywelyn yn y cwpled blaenorol. Tybed ai dylanwad *ewythredd* yn y cwpled cyntaf sydd yn esbonio'r ffurf?
- 9 **dialef** *Dial* + *llef*, er na restrir y cyfuniad yn GPC. Ond efallai mai gwall am *dialedd* sydd yma, cf. 30.6 *Dialedd am falchedd fu*.
- gwaedoliaeth** Rhoddir iddo ystyron megis 'gwaed, perthynas trwy waed, carennydd, tylwyth, bonedd', gw. GPC 1547. Perthyn yr engh. gynharaf i'r 16g., ond cf. GMBen 16.18 *Yw ei deilwng waedoliaeth*.
- 10 **Einion Sais** Gw. nodyn brig cerdd 31 a 2.5n.
- 12 Rhaid cyfrif *marw* yn air deusill.
- 13 **rhoes llyn** Ar gadw cysefin gwrth. *rhoes*, gw. 5.55n.
- 13–14 **Ail Rys ... / Ail Wilym** Cadw'r gysefin oedd y disgwyl yn dilyn *ail* pan fynnid cyfleu'r ystyr 'rhywun cyfartal â', ond nid oedd treiglo yn beth anghyffredin, gw. 4.5n a cf. ll. 14 *Ail Wilym fu Lywelyn*.
- 15–16 **Eli ... / ... Enog** Enwir y ddau hyn mewn cywyddau eraill, gw. 5.17–18n, 50.11–12.
- 17–18 **Brawd ... / I'r forwyn** Gall fod yma olion rhyw chwedl goll. Testun brudiol yw 'Darogan y Forforwyn', gw. R.W. Evans, 'Darogan y Forforwyn', LICy 9 (1966–7), 111–12, a chynnwys gyfeiriadau at arwyr megis Iago, Cadwaladr, Cynan ac Arthur. Y pennawd a roddir yn Llst 136, 61, un o'r tri thestun sydd ar glawr, yw *Darogan y forforwyn ag o*

ffraink yr henfydd honno. Gall *morwyn* fod yn gyfystyr â ‘gwasanaethferch’, gw. GPC 2496. Tybed ai’r golomen a anfonodd Noa (ll. 18) o’r arch yw hon? Dychwelodd i’r arch am na allai ganfod tir, gw. Gen 8.7–11. Yn yr un modd y mae’r bardd yn ddigartref a diymgeledd yn dilyn marwolaeth Llywelyn.

18 **môr Noe** Gw. 7.34n.

19 **o canaf** Treiglo’n llaes oedd yr arfer yn dilyn *o* [= ‘os’] a digwydd hynny yn gyson yn y canu, ond cedwid y gysefin yn achlysurol, gw. 11.53n.

20 **fy naf** Gellid *a wnaif: Canu yn ôl cwyn a wnaif*. Ceir *f* led-lafarog yn y ll. fel y saif.

22 **cog** Diwygiwyd y gair hwn er mwyn sicrhau bod *a’i chân* ar ddiwedd y ll. yn ystyrllon, a cf. 59.5–6 *Gorau man ffordd y cân cog, / Wybr a chan, yw Brycheiniog*. Gellid *roc* ‘craig’ gan ddilyn y llsgr., gw. GPC 2987, er mai i’r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf a gofnodir, ond anodd wedyn fyddai esbonio *cân*.

23–4 Gellid atalnodi’r cwpled yn wahanol, gw. ll. 25n.

25 Nid oes cynganedd yn y ll. a gofnodwyd yn yr unig lsg. *Ny ad heb ladd o bob le*. Gellid newid y synnwyr yn y cwpled blaenorol (*Derwen ... a dorres Duw*) a byddai *lladd* yn ll. 25 yn ategu *torri* yn ll. 24. Anodd, fodd bynnag, fyddai cadw *heb ladd* a sicrhau cynganedd. Felly newidiwyd *heb ladd* yn *heb lad* ‘diod feddwol, cwrw; rhodd, anrheg; gras, bendith’, gw. GPC 2076–7, ac *ni ad* yn *ni chad*. Y mae *llad* yn arwain at y cyfeiriadau at y *gwin* (llau. 27, 34), a’r *medd yng nghyryn* (ll. 33).

pob le Nid yw’r treiglad yn un rheolaidd, ond digwydd ar achlysuron eraill yn y canu, gw. 28.27n.

27 **y Dinas** Dyfelir mai cyfeiriad at gastell y Dinas sydd yn 9.17n, gw. ‘Enwau lleoedd’, ac felly yma.

28 **marbl** ‘Marmor’, gw. GPC 2352. I’r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf.
y Beili-glas Nid yw hi’n amlwg pam y dewisodd Hywel Dafi gyfeirio at y cartref hwn yn Llanarthne yng nghwmwd Is Cennen er bod modd esbonio’r cyswllt. Yr oedd Nest, chwaer Llywelyn, yn briod â Rhoser ap Tomas ap Dafydd Llwyd ap Hywel ab Einion Sais, gw. WG1 100; L Dwnn: HV i, 226–7, ac Annes, eu merch, yn briod â Siôn ap Gwilym Fychan ap Gwilym ap Ffyllib ab Elidir Ddu o’r Beili-glas, gw. WG1 330–1. Y mae’r Dinas (ll. 27) yn cynrychioli lle i gyfeiriad y dwyrain a’r Beili-glas yn cynrychioli lle i gyfeiriad y gorllewin.

29 **diangof** ‘Cofiadwy’, gw. GPC 946. I’r 17g. y perthyn yr engh. gynharaf a ddyfynnir.

- 38 **datröir** ‘Troi’n ôl; dad-wneud; newid; dychwelyd’. I’r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf yn GPC 904, ond cf. GIF 9.15 *Datro Went, nid wyt ry wan*.
- 41–2 **chwemaib ... / ... chwech ... merched** Pum mab a phum merch a enwir yn WG2 226. Byddai dau o’r brodyr, sef Rhys ap Llywelyn a Siancyn ap Llywelyn, yn cynnal y traddodiad o noddi beirdd. Cyfarchwyd y ddau hyn mewn cerddi o waith y Nant, gw. GyN cerddi 2–4. Gw. ymhellach gerdd 34.
- 45–6 ‘Ar ôl gwin a chan a rhost arwyl y gŵr a chynnwrf’. Gellid *cynnwr* ‘blaenor, arweinydd’, gw. GPC 797, ond y mae *cynnwr*, ffurf amr. ar *cynnwrf* ‘terfysg, cyffro, aflonyddwch’, gw. *ib*, yn cydio’n well wrth *arwyl*.
- 47 **ugeincant** Diwygiwyd *oigainkant* y llsg.
- 48 **Sain Domnig** Claddwyd Llywelyn yn nhŷ’r Dominiciaid yn Llan-faes, a cf. 33.45–6 *Tŷ Sain Domnig i drigaw / I leuad Rhys i’w wlad draw*. Y mae twyll gynghanedd *g* yn y ll. a sylweddolodd y copiwr hynny oblegid rhoes linell (= nod dileu) o dan y *k* yn y gair *domnik*. Diwygiwyd *maen* yn *main* er mwyn osgoi’r bai.
- 51 **rhyddaw** Un o ffurfiau 3 un.g. yr ardd. *rhwng*, gw. GPC 3109.
- 54 Digwydd yr un ll. mewn cywydd a ganodd Huw Cae Llwyd, gw. HCLI XXII.32, a cf. llau. 57–8n lle y ceir cwpled nid annhebyg i gwpled yng nghywydd Huw.
- 55 **pedwar carreg** Gall fod yn eg. neu’n eb., gw. GPC 431–2.
- 57–8 Cf. HCLI XXII.39–40 *Rhyfedd yn y bedd na bu / F’arglwyddi’n feirw o’i gladdu*.
- 61 Cyfatebiaeth *d = (n)t* mewn cynghanedd groes o gyswllt. Am enghrau. eraill o’r gyfatebiaeth yn y canu, gw. 4.55n. Ond efallai fod y ll. yn llwgr. Gellid *Oed a wnaethont; aed weithian*, ond rhaid fyddai derbyn bod yma *n* berfeddgoil.

33

Yn y cywydd hwn coffeir Llywelyn ap Gwilym a’i wraig. A barnu wrth dystiolaeth y cywydd bu farw Llywelyn a Siwan Ddu o fewn byr amser i’w gilydd. Yr oedd Hywel Dafî eisoes wedi llunio marwnad i Lywelyn, gw. cerdd 32.

Diogelwyd dryll 8 llinell o’r cywydd yn Pen 60.

5–6 **Adam ... / ... Rys** Gw. nodyn brig cerdd 31.

9 **march Siwan** Y march a gludodd gorff Siwan o Borthgogof yn Ystrad-fellte i dŷ’r Brodyr Duon yn Llan-faes ar gyrion Aberhonddu, gw. ll.

45n. Byddai'r corff wedi ei gludo ar hyd y ffordd Rufeinig Sarn Helen sydd yn croesi dyffryn cyfagos Nedd Fechan ac yn arwain i gyfeiriad y gaer Rufeinig a oedd ar gyrion gorllewinol tref Aberhonddu.

Camosodiad *ch.r = r.ch.*

n wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 10, 29 (ond gw. *ib.n*), 33.

10 Naill ai twyll gynghanedd *dd* neu gyfatebiaeth *dd.th = th*. O ddiwygio *ni ddoeth* yn *ni ddaeth* gellid cynghanedd sain gadwynog.

16 Gall y ll. hon awgrymu bod Llywelyn a Siwan wedi marw ers cryn ysbaid, ond y mae blas ymateb cyfoes ar nifer o'r cwpledi.

17–18 **Merddin Wylt Amhorfryn wyf / Ar fan** Ni ddeallodd John Davies mai enw tad Myrddin, sef Morfryn, a welir yn ail ran y ll.: diau i orgraff Pen 67 ei gamarwain. Y darlenniad *Merddin Wylt am eurddyn wyf* sydd yn rhoi'r gynghanedd orau yn ddiau. Os cynghanedd groes sydd yma nid yw'r gyfatebiaeth gytseiniol yn gyflawn. O'r herwydd cyfrifwyd hon yn gynghanedd sain gadwynog. Odlir *Myrddin / Amhorfryn*, a cheir cyfatebiaeth lafarog rhwng *Wylt* ac *wyf*. Rhoddir enghrau. o gynganeddion sain llafarog yn A.L.I. Roberts, *Anghenion y Gynghanedd* (Caerdydd, 1973), 69. Nid yw o bwys fod lleddf a thalgron ar ddechrau'r ddau air.

Trafodir rhai o'r cyfeiriadau at Fyrddin Wylt gan E.I. Rowlands yn 'Myrddin Wylt', *LlCy* 4 (1956–7), 117–19, ac ymhellach yn 'Myrddin ar bawl', *LlCy* 5 (1958–9), 87–8, a rhoddir sylw yn benodol i'r cywydd hwn o waith Hywel Dafî. Gelwir sylw at y tebygrwydd rhwng yr ymadrodd *Merddin ... ar fan* yn y cywydd hwn a'r cyfeiriad at yr un cymeriad *ar frig pawl* yn un o gywyddau Lewys Môn.

19 **coed y garth** Dyfelir y dylid cysylltu'r *garth* yn yr ymadrodd hwn â'r e. lle *Tringarth* yn ail fraich y cwpled. Fel Myrddin a ymneilltuodd i goedwig Celyddon yn dilyn marwolaeth ei arglwydd, Gwenddolau, bydd Hywel Dafî, yntau, yn ymgilio i'r ucheldir ac yn byw megis meudwy am nad yw Llywelyn a Siwan yn fyw i'w groesawu ym Mhorthgogof.

20 **Tringarth** Y mae Fan Dringarth a Rhos Dringarth i'r gogledd o Ystradfellte.

22 **gantaw** Gw. 19.60n.

29 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll.

37 **yr Ystrad** Nid yw ergyd y cwpled yn glir. Afon Mellte sydd yn llifo trwy Ystradfellte, gw. EANC 172, ond efallai mai cyfeirio at yr afon a wna'r bardd wrth enwi'r Ystrad, ac awgrymu bod yr afon, sydd wedi gorlifo, yn rhwystro'r bardd ac eraill rhag cyrraedd ac atal y brodyr rhag cludo ymaith gyrrff Llywelyn a Siwan. Mewn cywydd wrth enw Madog ap Gronw Gethin a gysylltir â blynyddoedd gwrthryfel Owain Glyndŵr,

- canmolir afon Dyfrdwy am orlifo a rhwystro ymosodiad y gelyn, gw. D.H. Evans, 'An incident on the Dee during the Glyn Dŵr rebellion', TCHSDd 37 (1988), 5–40.
- 45 **Sain Dominig** Yn nhŷ'r Brodyr Duon, sef y Dominiciaid, yn Llanfaes, ar gyrion Aberhonddu, y claddwyd Llywelyn yn ôl tystiolaeth 32.47–8, ac yno hefyd y claddwyd Siwan.
- 46 **lleuad Rhys** Y mae'r gyfatebiaeth gynganeddol yn galw am ffurf gysefin yr e.p. yma ond gthg. 16.7 *Lleuad Rys, mae'i llaw drosam*. Gw. ymhellach 2.1n.
- 54 **hwyl wen** Teithiodd Theseus i Ynys Creta lle y lladdodd y Minotawrws. Achosodd farwolaeth ei dad am iddo fethu â chodi hwyl wen ar ei long i ddynodi ei fod yn holliach a bod y cyrch wedi llwyddo, gw. OCD⁴ 1464–5. Dynoda *hwyl wen*, felly, ffyniant a ffawd dda. Cf. 44.56 *Hael iawn oedd, hwyl wen iddo*; gthg. 5.8 *Dwyn Hywel ddoeth dan hwyl ddu*.

34

Tenau yw'r wybodaeth a gynigir yn y cywydd am y *ddeuwr* (ll. 7) a gyferchir. Enwir y naill a'r llall, sef Siancyn (ll. 9) a Wiliam (ll. 12), ac er na ddywedir hynny, ar sail y cyfeiriad at y tad yn llinell 38, gellir casglu eu bod yn frodyr, ac yn perthyn i Adam (*wyr Adam* ll. 12), Llywelyn (*egin ... Llywelyn* ll. 13) a Rhys (*wyrion Rhys* ll. 15). Cynigir, felly, mai meibion Llywelyn ap Gwilym ap Rhys Llwyd ab Adam oedd y brodyr, ac am ach y teulu a gartrefai ym Mhorthgogof, gw. WG1 109 a nodyn brig cerdd 31. Un esboniad ar natur y gyfeiriadaeth achyddol foel yn y cywydd fyddai'r cyswllt rhwng y bardd a'r ddau frawd. Gallai yntau olrhain ei ach hyd at Rys ab Adam, a gwelir bod Hywel Dafï a'r ddau frawd yn gyfyrdyr.

Hynodrwydd y cywydd hwn yw'r modd y cyffelybir y ddau frawd i ddau ddis, a datblygir y syniad yn llinellau 21–34 trwy restru'r cyfansymiau posibl rhwng dau a deuddeg, a hynny mewn modd cynyddol, y gall dau ddis eu rhoi, o'u taflu (ond ni chrybwyllir y rhif unarddeg). Trafodir y cyfeiriadau at ddisiau yn y cywyddau brud ac mewn proffwydoliaethau gan R.W. Evans, 'Proffwydoliaeth y disiau', B xxi (1964–6), 324–7, ac ymdrinnir â cherddi'r beirdd i'r cardiau yn A.C. Lake, "Ysgrifen y fall", *Dwned*, 2 (1996), 95–117. Yn nifer o'r cerddi hyn mydryddir gwerth y llaw o gardiau fel y gwneir yn y cywydd hwn i'r disiau.

Y mae llawer o olion llygru ar y testun a ddiogelwyd yn Pen 114 er nad yw yn wahanol iawn yn ei hanfod i'r testun a ddiogelwyd yn Pen 100.

1 **tabler** Gw. 65.19n.

12 **wyr Adam** Ni ddylid dehongli'r cyfeiriad hwn yn llythrennol; gorwyrion Adam oedd y brodyr.

- 14 **deil tir** Ar gadw cysefin bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.
- 15 **wyrion Rhys** Gw. nodyn brig cerdd 31. Enwir *wyrion Rhys* drachefn yn ll. 18. At fam y brodyr y cyfeirir y tro hwn. Yr oedd Siwan Ddu yn ferch i Rys ap Siancyn ap Rhys ap Llywelyn, gw. WG1 311.
- 18 **wyrion Rhys** Gw. ll. 15n.
- 21 **y naill rod** Ffurf dreigledig *grod*, *grôt* ‘darn o arian bath cyfwerth gynt â phedair ceiniog’, gw. GPC 1535.
- 25 **na rhyfel** Cf. 23.8 *Y gwna’r hafog neu’r rhyfel*.
- 28 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 39 (ond gw. *ib.n*), 42, 51.
- 36 **pob ergyd** Cf. y modd yr uniaethir y gyfeddach yng nghartref Tomas ap Watgyn yn un o gywyddau Guto’r Glyn â brwydr rhwng y beirdd ar y naill law a’r diodydd ar y llaw arall, gw. GG.net cerdd 4.
- 39 **gwŷr ofer** Rhoddir i *oferwr* yr ystyron ‘bardd crwydr, clerwr’ yn GPC 2631.
- Cynghanedd groes o gyswllt neu *n wreiddgoll*.
- 42 **Rhys** Gw. llau. 15n, 18n.
- 50 *r berfeddgoll* yn union o flaen yr acen.

35

Canodd Hywel Dafî gywydd mawl a marwnad i Domas ap Trahaearn. Y mae’r ddau ddarn yn dilyn ei gilydd yn Pen 67, a sylwodd David Ellis mai i’r un gŵr y canwyd y ddau ddarn; rhoes *Cywydd Marwnad yr un gwr* uwchben cerdd 36 yn CM 12. Yr oedd Tomas yn fab i Drahaearn ap Gwilym ap Hywel Grach a ddisgynnai yn ei dro o Wgon ap Llywelyn ap Moreiddig Warwyn, gw. WG1 245. Cysylltir y teulu â phlwyfi Crai a Llywel yn y Cantref Mawr.

Diogelwyd y cywydd yn Pen 55 yn ogystal ag yn Pen 67 sydd yn llaw Hywel Dafî. Fe’i copiwyd gan law X71, ac y mae Daniel Huws o’r farn ei fod yn byw yn ardal Aberhonddu ac o bosibl yn un o’r tri Pheutun, gw. RepWM. Nid oedd cyswllt amlwg rhwng Tomas ap Trahaearn a disgynyddion Dafydd Gam, ac anodd esbonio pam y dewiswyd cofnodi’r cywydd arbennig hwn yn y llawysgrif.

- 9 **wŷr Forgan** Taid Tomas o ochr ei fam, Lleucu. Yr oedd hi yn ferch i Forgan ap Rhisiart ap Gruffudd, gw. WG1 364, a phriodasai Morgan yn ei dro â merch Ieuan ap Llywelyn, y Moelwyn, gw. WG1 360.
- 11 **Moelwyn** Gw. ll. 9n. O ddilyn darlleniad ystyrion Pen 55, *hil ymoylwyn*, rhaid fyddai cwtogi ail ran y ll. yn *gwreiddyn gras*.
- 13 **y Brych** Gw. ymhellach l. 15. Ymddengys mai e.p. yw hwn. Brawd

- Llywelyn, y Moelwyn, oedd Einion y Brych Cadarn o Fuellt, gw. WG1 355, 357.
- 16 **eithia'** Ar y ffurf *eithia* a gofnodwyd yn Pen 67 ac yn Pen 55, gw. 6.26n.
- 18 **llyn Syfaddon** Llyn sydd i'r de o Aberhonddu ac o Dalgarth. Dyma'r unig ffurf a restrir yn ArchifMR ond *soddafon* sydd yn Pen 67 a *Llynsafeddan* yw'r ffurf gywir yn ôl Theophilus Jones yn HCBrec ii, 356. Geilw'r gynghanedd am *Syfaddon*, a dyma'r ffurf arferol yng nghanu'r beirdd, gw. GLM XLII.31 *Toron Syfaddon sy fyw*. Dygir i gof y chwedl am yr afanc yn llyn Syfaddon yn 103.23n.
- 20 **dan llef** Ar y calediad hwn, gw. 6.34n.
- 21–2 Ymddengys fod Tomas ap Trahaearn wedi dilyn gyrfa filwrol cyn dod i'w etifeddiaeth a wynebu *cost*, neu draul, fel penteulu a noddwr beirdd.
- 26 **cyriau** Pen 67 *kyryav*, ond [c]yrrav yn 37.70. Nodir y ddwy ffurf l. yn GPC 646–7. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.
- 28 **Barf-y-rhiw** E. lle? Mewn rhan wahanol o Gymru y mae Rhiw y Barfau. Yn ôl un traddodiad, ger Bwlch-y-groes, y bwlch sydd yn cysylltu Dinas Mawddwy a Llanuwchllyn, y bu Arthur a Rhita Gawr yn ymladd ac ôl i Rita hawlio barf Arthur, a rhoddwyd yr enw Rhiw y Barfau ar y llecyn, gw. WCD 555–6. Y mae'n bosibl mai e. lle yw Barf-yr-allt mewn cywydd o waith Huw Cae Llwyd, gw. HCL1 LIV.25–8 *Ni fyynnwn, er mwyn f'enaid, / Wyrbrwr llon a'm bwrw i'r llaid; / Nac ebol afreolus, / Ym marf yr allt, mawr ei frys*.
- 34 **y Rhyd-briw** Castell Du neu gastell Rhyd-y-briw a adeiladwyd wrth gymer afonydd Senni ac Wysg, a dyma bencadlys Einion Sais yn negawdau olaf y 13g., gw. BWPowys 370; D.J.C. King, 'The castles of Breconshire', *Brycheiniog*, vii (1961), 80–1. Y ffurf gynharaf ar yr enw yn ôl ArchifMR oedd *Rhyd-briw*, ond arferid y ffurf *Rhyd-y-briw* yn ogystal. Rhaid derbyn bod y fannod yn rhagflaenu'r enw oherwydd ceir yr un ffurf yn y cywydd marwnad a ganodd y bardd i Domas ap Trahaearn, gw. 36.45–6 *O'r Rhyd-briw o rhoed brëyr / Yn Llan-faes dan y llwyn fyr ...*
- Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll.
- 35 **Nudd Hael** Gw. 13.17n.
- 36 **y llew a fu 'Nghaerllion** Yng Nghaerllion y lleolir llys Arthur yn y Rhamantau.
- n* wreiddgoll, gw. ll. 34n.
- 38 **hil Gynan** Cofnodwyd *hil gwgan* yn Pen 55, ond er bod Gwgon ymhlith hynafiaid Tomas ap Trahaearn, gw. y nodyn brig a ll. 8, byddai mabwysiadu'r enw hwn yn newid holl ergyd y cwpled hwn a'r nesaf,

- gw. llau. 38–9n.
- 38–9 **hil Gynan ... / Arfau Rhys** Yn llau. 37–40 cyfosodir arfau teulu brenhinol Gwynedd (a gynrychiolir gan Gynan ab Iago, tad Gruffudd ap Cynan) ac arfau teulu brenhinol y Deheubarth (a gynrychiolir gan yr Arglwydd Rhys a chan ei hen daid Tewdwr). Dygir i gof y modd yr enillodd yr Arglwydd Rhys o'r Deheubarth y flaenoriaeth yn ail hanner y 12g. yn dilyn marwolaeth Owain Gwynedd yn 1170. Priodasai Mor-eiddig Warwyn ag un o ferched yr Arglwydd Rhys, ac felly gallai Hywel Dafí honni wrth gyfarch ei noddwr, *On'd ydych o hen Dewdwr ...* (ll. 41). Ar arfau Rhys, gw. DWH ii, 292. Trafodir agweddau ar ei yrfa yn *Yr Arghwydd Rhys*, gol. N.A. Jones a H. Pryce (Caerdydd, 1996).
- 45 **manol** Ystyron megis 'gofalus, gwyliadwrus' sydd yn gweddu orau yn y cyd-destun, gw. GPC 2343–4.
- 46 Rhaid derbyn mai *myn* ac *undyn* sydd yn cynnal yr odl yn y gynghanedd sain.

36

Cywydd marwnad Tomas ap Trahaearn ap Gwilym, sef gwrthrych cerdd 35.

- 1 **gŵyl Ddewi** I Ddewi y cysegrwyd eglwys Llywel, gw. LBS ii, 317.
- 3 **dug Tomas** Cadw cysefin gwrth. a goddr. *dug* oedd y gystrawen naturiol, gw. Treigladau 222–3.
- 4 **drem** Nodir yn GPC 3583–4 bod *trem* a *drem* yn ffurfiau cysefin. Gwelir arfer y ddwy yng nghanu'r bardd, gw. 'Geirfa' d.g. *drem*, *trem*. Am engh. arall o'r ffurf *drem*, gw. GDID Atodiad B1, llau. 23, 27 *Dy ddrem las a'm lleasai, Ef âi dy ddrem loywlem las*; GHS 11.42 *Mawr o ddŵr yw môr y ddrem*.
- 5 **dwyddarn ddur** Gall *darn* fod yn eb. yn ogystal ag eg., gw. GPC 896, ond fel eb. y'i trinnir yma, a thrachefn yn ll. 39 *Darn fawr wyd o aur neu fêl*, 95.51 *Tair darn, cadarn y cydiawdd*. I'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf a ddyfynnir yn GPC 937 o'r gair cyfansawdd *deuddarn*.
- 15 Camgopiwyd un llythyren yn Peniarth MS. 67. Y darlleniad cywir yw *Drykin yw ar blaid rikart* (gthg. *ar llaid*). Felly hefyd yn ll. 21. Y darlleniad cywir yma yw *blin o beth yr blaen i bv* (gthg. *llin o beth*).
- plaid Ricart** Yr oedd Lleucu, mam Tomas, yn ferch i Forgan ap Rhisiart ap Gruffudd. Ond efallai mai cyfeiriad at Risiart, dug Efrog, tad y Brenin Edward IV, sydd yma.
- 21–2 Ar yr arfer o gladdu arfau gyda chorff yr ymadawedig, gw. D.J. Bowen, 'Angladdau Syr Rhys ap Gruffudd a'i fab', YB XIII (1985),

155–9.

- 22 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn ll. 23.
- 23 **ni adai Dduw** Treiglo cysefin goddr. bf. yn cynnwys y terfyniad *-ai* oedd yr arfer, gw. 18.13n. Cf. 61.55 *Ni adai Dduw oedi'i ddwyn*.
- 33 **amddifad** *Ymddifaid* yw'r ffurf a ddefnyddiwyd yn 29.24 *Mil yn ymddifaid am lin Ddafydd*. Digwydd y ddwy ffurf yn Pen 67.
- 33–6 Dyfynnir y llau. hyn yn *Cywyddau Cymru*, gol. A. Hughes (Bangor, 1926), cerdd CXVI.
- 37 **Morgan** Ymddengys mai ef oedd unig fab Tomas ap Trahaearn. Enwir tair chwaer yn WG1 245 ond ni chrybwyllir hwy yn y cywydd marwnad.
- atan** Gellid *adan* 'adain' er nad yw'r ffurf yn un gyffredin, a barnu wrth yr un engh. gynnar yn GPC² 29. Ond ymddengys mai *ad-* + *tân* yw ffurfiad y gair, sef 'ail dân', a gwedda'r ddelwedd wrth gyflwyno etifedd y gŵr ymadawedig. Ailadroddir y ddelwedd *tân* yn ail fraich y cwpled a thrachefn yn ll. 42. Ni restrir y ffurf yn GPC² ond cf. HCLI VII.4 *I'r Brutwyr a bair atan*.
- 38 **hen Elystan** Nid enwir ef yn y cywydd moliant ymhlith hynafiaid Tomas, ond gallai'r teulu arddel cyswllt ag Elystan Glodrydd trwy Leucu, mam Tomas ap Trahaearn, a thrwy ei mam hithau, gw. WG1 360, 364.
- 39 **darn fawr** Gw. ll. 5n.

37

Prin iawn yw'r cyfeiriadau achyddol yn yr awdl, ond gellir bod yn weddol sicr mai Morgan ap Tomas Llwyd ap Siancyn ap Rhisiart ap Dafydd a gyferchir, gw. WG1 96. Cartrefai'r teulu yn Llywel yn y Cantref Mawr. Awgrymir yn yr awdl iddo wasanaethu'r goron, ac iddo fod yn ymladd yn Iwerddon. Ei ferch, Gwenllïan, oedd gwraig Siancyn Hafart, gw. cerddi 29–30. Priododd ei fab, Rhydderch, â Lisod, merch Gwilym ap Rhys ap Gwilym ap Rhys Llwyd ab Adam o Borthgogof, gw. WG1 109; WG2 225.

Collwyd y cwpled olaf yn Pen 67 am fod dalennau yn eisiau ar ôl tudalen 230, a honno, fe ddichon, yn cynnwys y llinellau coll ac enw'r bardd, gw. Peniarth MS. 67, v. Yn ffodus diogelwyd y llinellau coll mewn testunau eraill. Er bod Pen 85 yn destun gweddol gynnar collwyd rhai llinellau fel y gwnaed yn y testunau eraill. Y mae LIGC 6209E yn dilyn BL Add 14971 (John Jones, Gellilyfdy) yn ffyddlon, ac mae cyswllt clòs rhwng y ddau destun hyn a Gwyn 1, Pen 101 a BL Add 31070. Er mai testun diweddar yw'r olaf awgryma'r orgraff fod y gynsail yn destun cynharach. Ni chofnodwyd amrywiadau LIGC 642B am fod cymaint o'r testun wedi ei

golli oherwydd traul ar ymyl y ddalen, ond dilyn darlleniadau BL Add 14971, LIGC 6209E, Gwyn 1, Pen 101 a BL Add 31070 a wneir. Ar y cyfan y mae Pen 85 yn perthyn yn nes at y grŵp hwn nag at Pen 67. Collwyd rhai llinellau ym mhob testun. Collwyd llinellau 47–8 yn yr holl destunau ac eithrio Pen 67; collwyd llinellau 69–70 yn Gwyn 1, BL Add 14971 a LIGC 6209E a BL Add 31070, a llinellau 69–72 yn Pen 85 a Pen 101. Yr oedd John Jones yn ymwybodol fod ei gysail yn ddiffygiol a gadawodd fwch ar dri achlysur ar gyfer y llinellau coll fel y gwnaed yn LIGC 6209E. Cofnodwyd rhai llinellau, ynghyd ag un adran yn ei chrynswth (llau. 38–44), yn llaw Siôn Dafydd Rhys yn Llst 55.

Defnyddiwyd deg mesur yn yr awdl hon, mwy nag yn yr un awdl arall o waith y bardd. Nid oes cyrch-gymeriad amlwg yn yr adran gyntaf rhwng yr englyn proest a'r englyn unodl union sydd yn dilyn (llau. 8–9); efallai mai ailadrodd y gystrawen *Mae'r wledd ... / Mae rhai ...* sydd yn clymu'r ddau bennill. Ni ddisgwyliid cymeriad rhwng y penillion ar amryfal fesurau yn ail ran yr awdl, ond y mae'r geiriau *llinon / onnen* yn cysylltu'r cyhydedd hir a'r gyfres o bedwar tawddgyrch (llau. 56–7), a chlymir y pedwar pennill hynny â chyrch-gymeriad. Cynhelir yr odl *-on* yn ail ran yr awdl (llau. 21–88).

Y Mesurau

- 1–20 Cyfres o bum englyn: pedwar englyn unodl union (llau. 1–4, 9–20) ac un englyn proest cyfnewidiog (llau. 5–8).
- 21–4 Clogyrnach.
- 25–32 Byr-a-thoddaid.
- 33–8 Gwawdodyn hir.
- 39–44 Hir-a-thoddaid.
- 45–8 Dau gwpled ar fesur traethodl.
- 49–52 Englyn cyrch.
- 53–6 Cyhydedd hir. Gw. ymhellach nodyn brig cerdd 41.
- 57–88 Pedwar pennill ar fesur tawddgyrch cadwynog.

1 **Einion ap Gwalchmai** Bardd o Fôn a oedd yn ei flodau rhwng 1203 a 1223, gw. CLC² 225; ByCy 188–9. Yr oedd yn uchelwr o bwys, yn un o weinyddwyr Llywelyn ab Iorwerth, ac mae lle i gredu ei fod hefyd yn ŵr o gyfraith, fel ei dad, Gwalchmai ap Meilyr, o'i flaen, gw. *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol J.E.C. Williams gyda chymorth Peredur I. Lynch (Caerdydd, 1994). Diogelwyd pum awdl o'i waith, un i Lywelyn ab Iorwerth, un i wraig fonheddig, a thair i Dduw, gw. cerddi 25–9. Pan ddywed Hywel Dafu am hoffter Einion o *wŷr cyfannedd / A bod ymysg bedw a medd*, y mae'n bosibl ei fod yn meddwl am un o gyfansoddiadau mwyaf adnabyddus ei dad, Gwalchmai, gw. *ib.* cerdd 9. Yn ei Orhoffedd, er bod Gwalchmai yn ymffrostio yn ei ddoniau fel ymladdwr glew, caiff fwynhad o glywed cân yr adar ac o weld y coed yn glasu.

- 1–2 Yn llaw John Jones, Gellilyfdy, y mae'r adran yn BL Add 14971 sydd yn cynnwys yr awdl hon. Cofnododd John Jones y cwpled cyntaf yn y rhestr a baratoes yn Pen 221, 204 *Einion ap Gwalchmai fv ei annedd gynt / yn gyntaf yngwynedd*.
- 7 **ban** Yr ystyron 'cornel, rhanbarth, ardal, lle' sydd yn gweddu orau yma, gw. GPC² 569–70.
- 15 **mais llanw** Tybed a ddygir i gof chwedl y cynhaeaf gwyrthiol a ddisgrifir mewn cywydd arall? Gw. Atod.IV.45–50n.
mais Hen orgraff *maes*, gw. GPC 2325. Cedwir y ffurf am ei bod yn digwydd yn llaw'r bardd.
llanw Ymddengys fod i *llanw* ystyr ansoddeiriol yma.
- 16 **mais** Ai ffurf ar *bais* sydd yma, sef 'gwaelod', gw. GPC² 563? Ni nodir y posibilrwydd yn *ib.*, ond bydd *b* ac *m* yn ymglyfnewid yn fynych. Ni fydd gwaelod y llestri sydd yn dal y diodydd i'w weld yng nghartref Morgan.
- 19 Ceir yma gynghanedd lusg wydro sydd yn cynnwys odl gudd. Am engh. arall o odl gudd, cf. 51.37 *Nid aing deuftras dan lastir*. Y mae'r gynghanedd yn gryfach yn y grŵp o lsgrau. sydd yn cynnwys y ll. *Mi a gefais am gyfedd*.
- 20 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 47, 49, 51, 52.
- 21 **cynnil holion** Llsgr. BL Add 31070 yn unig sydd yn rhoi'r darlleniad *cynnal holion*.
- 21–4 Ysgrifennwyd enw'r mesur, sef clogyrnach, ar ymyl y ddalen yn Pen 101 a BL Add 31070. Nid yw'r patrwm yn cyfateb yn union i'r mesur a enghreifftir yn J. Morris-Jones: CD 381 am fod y geiriau sydd yn safle'r orffwysfa yn odli yn y cwpled cyntaf yn ogystal â'r ail (*heiliad / adeilad, cyfeiliad / aurddeiliad*). Nid arferwyd y mesur yn fynych iawn, ond ar y mesur hwn y canwyd ail adran yr awdl farwnad a ganodd Dafydd Epynt i Forgan ap Dafydd Gam, gw. GDEp cerdd 5.
- 22 **adeiliad** Rhestrir *adeilad* ac *adeiliad* yn GPC² 36. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.
hudolion 'Swynwr, dewin' yw ystyron mwyaf cyffredin *hudol*, gw. GPC 1907, ond gall mai 'beirdd' yw'r ystyr yma, a cf. ll. 37 *herod*, ll. 51 *gramadegwyr*, ll. 81 *anant*.
- 23 **cyfeiliad** Dyma'r engh. gynharaf a ddyfynnir yn GPC 689 lle y rhoddir iddi'r ystyron 'cydblethiad, gwneuthuriad, cyfansoddiad; y weithred o gyfansoddi'.
can helw Gan fod *elw* yn digwydd yn rhan gyntaf y ll., gellid diwygio *can helw* yn *canel* 'sinamwn', gw. GPC 409. Ar ychwanegu *h* yn dilyn rhai rhifolion, gw. 8.61n.

- 27 **celenigion** Nodir y ffurfiau unigol *calennig* a *celennig* yn GPC 393, a cf. GLGC 28.57 *Celenigion Siôn y sydd*.
- 28 **celu** Ymddengys mai'r ystyr yma yw 'rhoi lloches, achlesu' yn hytrach na'r ystyr arferol 'cuddio, cadw'n ddirgel', gw. GPC 455.
- 30 **cydmeithion** Dyma un o ffurfiau ll. *cydymaith*, gw. GPC 671–2.
- 34 **Iewerddon** Ailadroddir y ffurf yn 54.29 (unwaith eto yn Pen 67), cf. Peniarth MS. 67 IV.50 *o von iewerddon i went*.
- 35 **cara' i** Ffurf 1 un.pres.myn. sydd yma, a thrachefn yn ll. 41 *debyga' i*, yn hytrach na 3 un.amhff.myn.; cf. y darlleniad *karaf* yn BL Add 14971, LIGC 6209E, Pen 101, BL Add 31070.
- 37 **herod** 'Arwyddfardd; negesydd', gw. GPC 1858, ond ymddengys mai 'bardd' yw'r ystyr yma, a cf. ll. 22n.
- 38 **cae ariant** 'Tlws arian'. Y mae'r gynghanedd sain yn mynnu'r ffurf *ariant*, gw. GPC² 463–4. Trawsnewidid ystyr y cymal o dderbyn y darlleniad *câi warant y cywirion*. Ar *gwarant* 'sicrwydd', gw. GPC 1578.
- 39 *Cyfoethogion* yw goddr. y f. *diffygiai*. Am enghrau. o dreiglo a chadw cysefin goddr. bf. 3 un.amhff.myn. yn diweddu yn *-ai*, gw. 18.13n.
- 40 Cyfatebiaeth *dd = f* o flaen yr acen. Mentrus fyddai diwygio a *ddygai* yn a *fygai* er mwyn cryfhau'r gynghanedd. Ar *mygu* 'llethu; diddymu, atal', gw. GPC 2529. Daw'r dyfyniad cyntaf o waith Tudur Aled.
- 43–4 **Dreigiau ... / Creigiau** Dilynwyd Pen 67 er bod y cymeriad llythrennol yn cael ei dorri; ailadroddir *creigiau* ar ddechrau'r ddwy l. yn y llsgrau. eraill. Bernir bod perthynas enidol rhwng y ddau air: 'dreigiau o greigiau'. Fel arall nid yw *creigiau* yn ystyrllon iawn, ond gellid diwygio er mwyn gwella'r ystyr yn *crugiau* ll. *crug* 'pentwr' (am y seigiau).
- 45 Dilynwyd llsgrau. BL Add 14971, LIGC 6209E a Pen 101; gthg. Pen 67 *Nerthoc yw r anghenogyon*.
- 51 **gramadegwyr** Ffurf l. *gramadegwr* 'gŵr hyddysg mewn gramadeg; un a astudiai ramadeg a dysg y beirdd Cymraeg', gw. GPC 1524.
- 53–6 Disgwylid i'r ddau gymal cyntaf yn y cyhydedd hir gynganeddu yn annibynnol, ac i'r trydydd a'r pedwerydd gynganeddu ar y cyd, gw. J. Morris-Jones: CD 338–9 ac ymhellach nodyn brig cerdd 41. Yn hyn a wna Hywel Dafi yn y pennill hwn yw cynganeddu'r pedwar cymal ar y cyd, er nad yw'r gyfatebiaeth yn gyflawn ym mraich gyntaf y ddau gwpled. Gellid cryfhau'r gyfatebiaeth yn ll. 55 o fabwysiadu *Eifionydd*.
- 55 **blaen** Cyflea yma y fan yn y frwydr lle y byddai'r ymladd mwyaf tanbaid, fel, o bosibl yn 36.21 *Blin o beth, i'r blaen y bu*. Cf. yr ymadrodd *blaen cad, ar flaen y gad*, gw. GPC² 648–50 a 76.20 *Braenarad blaen cad y'u cair*. Ar yr arwr *Blaen*, gw. GLMorg 23.72n.
- aflonydd** Wrth oleddfu *blaen*, yr ystyrion 'tost, llym' sydd fwyaf addas,

gw. GPC² 100.

Eiddionydd Dilynwyd Pen 67, ond tystia'r llsgrau. eraill fod cryn ansicrwydd ynghylch y gair sydd yn safle'r brifodl. Ffurf ar *Eiftonydd* yw *Eiddionydd*, gw. G 455; IGE² 380. Digwydd, e.e., yn un o awdlau Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 201.72 *O'r Ddena, o Gaer i Eiddionydd*. Gall yr hyn a gofnodwyd yn y llsgrau. eraill fod yn ymgais i gyfleu *diwynydd* (bôn *difwyno, diwyno*), er na restrir y gair yn GPC. Gw. llau. 53–6n.

58 **i ger** Cyplysir *i wrth sawl ardd.*, ond nid oes engh. o'r cyfuniad *i ger* yn GPC 1993. Ni thrafodir *i ger* yn J.E.C. Williams, '*DE yn y Gymraeg', B xiii (1948–50), 5–10 ychwaith ond dyfynnir enghrau. o *i ar* (gw. 1.23n), o *i dan* (gw. 95.62n), *i amdan* (gw. 39.26n).

61 **Gwair** Enwir sawl Gwair yn y Trioedd, gw. TYP³ 373–4, ond crybwyllir Gwair mab Gwystl, a enwir yn chwedl 'Peredur', yn rhai o gerddi'r Gogynfeirdd, gw. GGMD i, 3.40n.

Lleolwyd llau. 71–2 yma yn Gwyn 1.

62 **tŷ Non** Mam Dewi. Cysegrwyd nifer o eglwysi iddi, a'r rheini nid nepell o safleoedd lle y coffeid Dewi Sant. Cysegrwyd eglwys Llan-non yng Ngheredigion i Non, a rhoes ei henw ar ffynnon yn y pentref, gw. E. Gruffydd, *Ffynhonnau Cymru Cyfrol 1* (Llanrwst, 1997), 20, ond yr oedd capel a ffynnon Non nid nepell o safle'r eglwys yn Nhyddewi hefyd, gw. LBS iv, 22–5; WCD 508.

63 **teirdelw Fair** Cyfeiriad o bosibl at dair Mair. Y tair amlycaf fyddai Mair Forwyn, Mair Fadlen a Mair mam Iago (neu Fair o'r Aifft y cofnodwyd ei buchedd yn y Llyfr Gwyn), gw. GLD 17.82n. Gellid cynnig esboniad arall. Credid bod Anna, mam Mair Forwyn, wedi priodi deirgwaith, a bod merch o'r enw Mair yn ffrwyth y tri uniad, gw. J. Cartwright: ForF 27 lle y dyfynnir llau. o gywydd Hywel Swardwal i'r Forwyn Fair (gw. GHS cerdd 21) a throednodyn 21. Cf. hefyd Peniarth MS. 67, 12 *Mihangel vo i blaid / a nerth yw enaid / mair vorwyn wrth raid / ar i thrydedd*; GLM II.17–18 *Och y tair wir Fair o ryforio`i / bedd bod annedd byd yno*.

70 Twyll gynghanedd *l*.

74 **ni châi** Ai cywasgiad o ffurf 3 un.amhff.myn. y f. *cau* sydd yma? Ailadroddir yr un syniad yn 26.53 *Ni chaewyd drws na choed draw*.

78 **huriai** Darlleniad BL Add 31070 yw *hyrriau*, sef y f. *herio, hyrio* 'rhoi her i', gw. GPC 1857.

79 **ymwriai** Diwygiwyd *ymorryai* Pen 67 ac *ymorai* y llsgrau. eraill. Diau mai ffurf 3 un.amhff.myn. *ymwrio* sydd yma, 'ymryson, ymladd, brwydro, ymgodymu', gw. GPC 3809.

81 **tirioni** Arferid y f. *tirioni* yn y 14g., ond i'r 19g. y perthyn yr engh. gynharaf o'r e.c. *tirioni* 'addfwynder, caredigrwydd', gw. GPC 3506.

86 Y mae'r gynghanedd yn ddi-fai ond anodd esbonio ail ran y ll. Darlleniad Pen 67 yw *val nas trennyon*, ac nid annhebyg yr hyn a gofnodwyd yn y llsgrau. eraill.

87 **goresgynydd** 'Ŵyr i ŵyr neu blentyn gorŵyr', gw. GPC 1475. Yn ddiweddarach y rhoddwyd i *goresgynydd* yr ystyr 'gorchfygwr'. Cofnodwyd y gair hwn mewn sawl ffordd ac ymddengys nad oedd y copiŵyr yn gwbl sicr yn ei gylch.

87–8 Ni ddiogelwyd y cwpled olaf yn Pen 67, gw. y nodyn brig. Hwn sydd yn clymu dechrau a diwedd yr awdl.

88 **carenydd** Nid rhaid tybio bod y bardd yn honni bod cyswllt gwaed clòs rhyngddo a Morgan, er bod y ddau yn disgyn o Fleddyn ap Maenyrch, ond gw. y nodyn brig.

38

Canwyd y cywydd gofyn hwn i erchi chwe ych ar ran Tomas ap Siancyn. Ei enw bedydd yn unig a roddir yn y cywydd (*Tomas*, ll. 1) ond enwir ei gartref, y Slwch, sydd ym mhlwyf Llanfrynach yng nghwmwd Tir Ralff, ac o ganlyniad gellir ei adnabod yn ddiraffferth. Yr oedd yn fab i Siancyn ap Madog ap Rhisiart Fawr ap Dafydd ap Rhisiart ... Bleddyn ap Maenyrch, gw. WG1 95; WG2 189. Yn ei gartref ef y bu Hywel Dafu a Huw Cae Llwyd yn ymryson, gw. cerddi 39–40. Ni ddiogelwyd yr ymryson yn llaw Hywel Dafu yn Pen 67, ond cofnododd y bardd y cywydd gofyn hwn ynghyd â dryll o awdl i'r un gŵr, gw. cerdd 41. Diogelwyd awdl iddo yn BL Add 14871 [= RWM 20], 179^v–181^r a'i phriodoli i Lewys Glyn Cothi, ond ni allai D. Johnston dderbyn mai ei waith ef ydoedd, gw. GLGC xxxvi (a chywirer yr awgrym mai yn Llanio ym mhlwyf Llanddewibrefi y trigai'r gwrthrych). Gw. ymhellach A.C. Lake, 'Awdl i Domas ap Siancyn ap Madog' (i'w gyhoeddi).

Erchir yr ychen gan chwe gŵr o Geredigion (ll. 13) a chyflwynir y cais ym mhersona'r eirchiad fel y gwneir yng ngherdd 12. Dilynir trefn cerdd 12 hefyd trwy enwi'r sawl sydd yn ceisio'r rhodd yn gyntaf ac enwi'r rhoddwyr yn ail. Dyma'r unig gywydd o waith Hywel Dafu sydd ar glawr sydd yn cyfarch gwŷr Ceredigion. Yn wahanol i gerdd 12 nid ymddengys fod cyswllt rhwng yr eirchiad a'r rhoddwyr, ac ni ddywedir yn benodol yn y cywydd fod cyswllt teuluol rhwng y chwe rhoddwr a'i gilydd. Rhestrir y chwech yn eu tro, ond yn achos un yn unig yr enwir ei gartref. Gellir bod yn weddol sicr ynghylch pump o'r rhoddwyr (gw. y nodiadau isod), ond y mae'r wybodaeth yn foel iawn yn achos y cyntaf ac amhosibl ei adnabod bellach. Yr oedd tri o'r rhoddwyr, o bosibl, yn frodyr yng nghyfraith, dau yn gyfyrdyr (ll. 34n), a dau yn briod â merched Owain ap Gruffudd ap Nicolas (llau. 17–20n, 34n), gŵr a gyfarchwyd gan y bardd ar achlysur arall, gw. cerdd 80. Gelwir sylw

at y cywydd, ond heb esbonio pwy a gyferchir, yn ymdriniaeth D.H.E. Roberts, 'Noddwyr y beirdd yn sir Aberteifi', LICy 10 (1968–9), 106. Gwelir isod nad oedd pob un o'r chwe rhoddwr yn byw yng Ngheredigion.

- 3–4 Ailadroddir y cwpled mewn cywydd arall i'r un gŵr, gw. 40.5–6 *Epil arglwydd yn llwyddiaw, / Aur y Slwch a roes o'i law.*
- 4 **Yr Yslwch** Cartref Tomas ap Siancyn sydd ar ochr ddwyreiniol Aberhonddu ac ar lan ogleddol afon Wysg.
- 7 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 40, 58.
- 10 **ychena** 'Erchi ychen'. Nis nodir yn GPC, ond cf. *blota* 'cardota blawd', GPC² 680.
- 11–12 Awgrymir bod Tomas ap Siancyn wedi rhoi rhoddion i eraill yn y gorffennol, o bosibl i'r rhai yr erchir ganddynt ar yr achlysur hwn.
- 12 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 22 (gw. hefyd lau. 7, 40, 58).
- 14 **talar** 'Rhimyn o dir ar hyd ymyl cae a adewir heb ei aredig i adael lle i'r aradr droi, hefyd yn ffig.', gw. GPC 3427. Fe'i trinnir yma yn eg. Hefgorwyd y fannod yn BL Add 31070 *a dry talar.*
- 16 **y Cantor** Gall fod yn e.c. 'canwr; clerigwr mewn eglwys gadeiriol yn arwain y gân neu'r antiffon, aelod o siapter eglwys gadeiriol (yn Nhyddewi gynt y Cantor oedd pennaeth siapter yr Eglwys Gadeiriol cyn sefydlu swydd deon yno)', gw. GPC 418. Fe'i trinnir yma yn e.p. er na ddigwydd yr enw ym mynegeion R.F. Isaacson, *The Episcopal Registers of St David's* (London, 1917). Ond yr oedd Rhys Fychan ap Rhys Chwith, un o ddisgynyddion Adda Fawr o Enau'r Glyn, yn briod â merch Cantor Coch, gw. WG1 5, ac efallai mai ef yw'r rhoddwr cyntaf. Posibilrwydd arall fyddai Syr Tomas, Cantor Llanddewibrefi, ac un o ddisgynyddion Syr Rhys ap Gruffudd a fu farw yn 1356, gw. WG1 682; WG2 1285. Dilynwyd Syr Tomas gan ei fab, Siâms y Cantor. Perthynai Syr Tomas i ghenhedlaeth 14 yn ôl WG2, sef y rhai a aned oddeutu 1470.
- 17–18 **ych ... / ... bôn** Gosodid yr ych cadarnaf wrth fôn yr iau. Cyffelybir y noddwr yn fynych i ych bôn, gw. GPC 3749 a cf. GLMorg 11.70 *Cryf ych bôn, cryfhewch beunydd.*
- 17–20 **Rhys ap Dafydd / ... / ... o Flaen-tren** Mab Dafydd ap Tomas ap Dafydd ap Llywelyn ap Gruffudd Sais, gw. WG1 764; WG2 1497. Ar y cartref, gw. F. Jones, *Historic Carmarthenshire Homes and their Families* (Llandybie, 1987), 11–12. Canodd Guto'r Glyn i'w dad, gw. GG.net cerddi 12–13, a chyfarchodd Lewys Glyn Cothi Rys ar dri achlysur, gw. GLGC cerddi 41–3. Bardd arall a ganodd iddo oedd Syr Phylib Emlyn. Gofynnodd Syr Phylib am farch gwyn ar ei ran ei hun,

- gw. GPhE cerdd 2. Daliai Rhys swydd dirprwy siedwr sir Gaerfyrddin yn 1465–6, gw. R.A. Griffiths: PW i, 324. Yr oedd cyswllt rhwng y bardd a Rhys ap Dafydd trwy ddau o'i noddwyr. Yr oedd ail wraig Rhys yn ferch i Owain ap Gruffudd ap Nicolas, gw. cerdd 80, ac yr oedd chwaer Rhys yn ordderch i Roser Fychan, Tretŵr (m. 1471), gw. cerddi 46–7. Hi oedd mam dau o feibion Rhoser, gw. WG2 461. Lleolir y cartref ar lan ddwyreiniol afon Teifi, yng nghwmwd Mabelfyw yn y Cantref Mawr.
- 21 **Ieuan Llwyd** Yr oedd Gwenllïan, chwaer Dafydd ap Llywelyn (gw. isod), yn briod ag Ieuan Llwyd ap Gruffudd ap Cadwgan o Gelliladron, Llanllwni, cwmwd Mabudrud, gw. WG1 765, ac efallai mai ef yw'r trydydd rhoddwr. Elis, chwaer Gwenllïan a Dafydd, oedd gwraig gyntaf Rhys ap Dafydd o Flaen-tren.
- 26 **Dafydd** Dywedir ei fod yn dod *o aelwyd Lywelyn*. Gall hyn ddynodi ei fod yn fab neu o bosibl yn ŵyr i Lywelyn. Canodd Lewys Glyn Cothi ddwy awdl i Ddafydd ap Llywelyn a'i wraig Lleucu, a chanodd awdl farwnad a chywydd marwnad i Leucu, gw. GLGC cerddi 73–6. Y mae'n bosibl mai'r un gŵr a enwir yng nghywydd Hywel Dafî. Yr oedd Dafydd yn fab i Lywelyn ap Gwilym Llwyd ap Gwilym ap Gruffudd Goch, a thrigai yng Ngastellhywel, gw. WG1 169. Enwir Dafydd a Lleucu yn y cywydd a ganodd Ieuan Deulwyn ar yr aelwyd, gw. ID cerdd XXVIII. Ar y canu ar yr aelwyd yn nyddiau Dafydd, gw. D.H.E. Roberts, 'Noddwyr y beirdd yn sir Aberteifi', LICy 10 (1968–9), 102–3.
- 29–30 **Tomas / Fychan** Cynigir mai Tomas Fychan, mab Dafydd ap Tomas ap Rhydderch ab Ieuan Llwyd, yw hwn, gw. WG1 179–80. Cysylltir ei hen daid â Pharchrhydderch yn nyffryn Aeron. Yr oedd Tomas Fychan yn siedwr Aberteifi yn 1466–7 ac yn dal tiroedd ar les yn Aberteifi a'r cyffiniau yn 1461–7, gw. R.A. Griffiths: PW i, 430.
- 34 **Ffyllib** Mab Tomas Fychan ap Tomas ap Hywel Fychan, Pont Ystreimon, gw. WG1 165; WG2 344. Yr oedd Tomas ap Hywel yn briod â Gwerful, merch Rhydderch ab Ieuan Llwyd, ac felly yr oedd Ffyllib a Thomas Fychan, y noddwr blaenorol, yn gyfyrdyr. Daliai Ffyllib swyddi gweinyddol yng nghwmwd Gwynionydd rhwng 1445 a 1476, gw. R.A. Griffiths: PW i, 308, 515, 521. Canodd Lewys Glyn Cothi ddau gywydd iddo, gw. GLGC cerddi 78–9. Rhoddir cryn sylw i'w wraig, Gwenllïan, yn yr ail gywydd, ac yr oedd hi yn ferch i Owain ap Gruffudd ap Nicolas, gw. *ib.* 79.17–32.
- 35 **rhuban** Ymddengys mai *ruban* yw'r ffurf gysefin yn 28.49n.
- 36 **Rhys** Yr Arglwydd Rhys. Yr oedd un o'i ferched yn wraig i Gydifor ap Dinawal, cyndad y tylwyth y perthynai Ffyllib ap Tomas Fychan iddo, gw. WG1 164.
- Gwynionydd** Cwmwd ar lan ogleddol afon Teifi yn rhan ddeheuol y sir.

- 38 **pob ddau** A ll. 44. Gw. 28.27n.
- 42 **côr** ‘Preseb, stâl, safle neu orweddle (buwch, ych, asyn, ceffyl, &c.) mewn beudy neu ystabl lle y clymir ac y porthir y creadur’, gw. GPC 555. O waith Tudur Aled y daw’r engh. gynharaf a ddyfynnir yno.
- 44 **pob ddau** Cf. ll. 38n.
- 46 **tidiau** Pen 67 *tidia*v, ond fe’i diwygiwyd yn *tidau* yn Pen 99. Nodir y ddwy ffurf l. yn GPC 3497. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. ‘Rhagymadrodd’ td. 38.
- cyplau** ‘Yr hyn sy’n cysylltu deubeth (yn enw. dau anifail), cyswllt, cwlwm, rhwymyn, cwplws’, gw. GPC 646.
- 47 **uwchel** Dilynyd Pen 67. Nodir bod *uwchel* yn ffurf amr. ar *uchel* yn GPC 3693–4. O destun yn llaw William Salesbury y daw’r engh. gynharaf, ond cf. 84.63 *Uwchel ei eistedd, ach Elystan*, 65.17 *Uwchaf o hil Addaf lwyd*. Hefyd ID XXIX.15 *no vyo rywch yn wfwr ywchel*; GLMorg 5.26 *Uwchder nerth, a chadarn ywch*.
- 55 **Bleddyn** Gw. y nodyn brig.
- 63 Darlleniad Pen 67 yw *oi gwn*, ond diwygiwyd hwn am mai Tomas ei hun sydd yn gwahodd ceisiadau am roddion gan y chwe gŵr a roes y gwartheg iddo.

39

Ceir testun o’r cywydd hwn o waith Huw Cae Llwyd, ynghyd ag ateb Hywel Dafï, yn HCLl cerddi XXVII–XXVIII. Trafodir yr ymryson, a’r lleoliad, isod, gw. cerdd 40. Yn llawysgrif Stowe 959 yn unig y diogelwyd y cywydd ond cofnodwyd rhai drylliau gan Siôn Dafydd Rhys yn Llst 55, 47. Y mae nifer o’r ymadroddion a gofnodwyd ganddo yn rhai nad ydynt yn digwydd yn y testun sydd yn Stowe 959. Gan fod y cywydd yn un gweddol fyr—46 llinell yw ei hyd—y mae’n dra thebygol fod rhai llinellau wedi eu colli, a’r rheini yn cynnwys yr ymadroddion *gwas moethus*, *geissio mechel*, *parth or wledh*, *gwneuthur afreol*, *trwy nas gweles*, *gwas didhan*, *twr caead*.

Cynghanedd: croes 25 ll. (54%), traws 9 ll. (20%), sain 4 ll. (9%), llusg 8 ll. (17%).

- 1 Darlleniad Llst 55 yw *Thomas grair twymwisc y rodh*.
- 3 **impyn Siancyn** Enwir hynafiaid Tomas dros dair cenhedlaeth, gw. nodyn brig cerdd 38.
- 4 Am enghrau. eraill o air gwan yn safle’r orffwysfa, gw. 1.23n a ‘Cynghanedd’ tt. 42–3.
- 6 **ŵyr Domas** Gw. 40.7n.

- 7 **ytyw** Gellid ystyried newid amser y f. a mabwysiadu'r ffurf 3 un. amhff.myn. *ytoedd* am mai un o hynafiaid Tomas ap Siancyn sydd dan sylw.
- satan** Ffurf amr. ar *satın*, *satın*, gw. GPC 3182–3.
- 12 Dilynwyd y diwygiad a gynigiwyd yn HCLI.
- 14 Darlleniad Llŷt 55 yw *arbed ran or byd y mi*.
- 16 Bu'n rhaid diwygio rhan gyntaf y ll., ond gellid rhannu'r geiriau mewn sawl ffordd: *Y mae'n haearn...*, *Yman haearn...*, *Yma yn haearn...*
- 19 **gweison** Rhestrir y ffurfiau ll. *gweision* a *gweison* yn GPC 1590–1.
- 22 **banw** Fe'i rhestrir yn GPC² 575 d.g. *banw*² 'mochyn', cf. GHS 18.1–2 *Balch yw Llawdden eleni*, / *Banw mawr, medd pob un i mi*. Tybed a oes yma amwysedd bwriadol ac y gellid yr ystyr 'cadi ffan o Sais'?
- 23 **chwegair** 'Sawl gair', ond y mae'r ystyr yn llawer mwy penodol yn Atod.IV.16n.
- 26 **i amdan** Rhestrir y ffurf *amdan* yn GPC² 191 d.g. *am*, a dyfynnir engh. arall o waith Huw Cae Llwyd, gw. HCLI XXXIV.11 *Wylaw 'm dan Wilym ei dad*. Gw. ymhellach 1.23n.
- 27 **llwtwn** Dyfynnir y cwpled yn GPC 2237 d.g. *llwtwn*, a chynigir yn betrus yr ystyron 'dyn blysig, bwyteig'. Gw. hefyd *ib.* 1413 d.g. *glwtwn*. Dyfelir mai camadfer cytsain ddechreuol y ffurf dreigledig (*g*)*llwtwn* a arweiniodd at y ffurf *llwtwn* yn y ll. hon. Ymddengys fod peth ansicrwydd ynghylch y gysefin am mai'r un gair yn ddiau a ailadroddir isod yn ll. 42, ond *lytwn* yw'r ffurf y tro hwn.
- 28 **torch** Y mae'n bosibl fod y gair hwn wedi ei gamddeall a'i lygru o dan ddylanwad *llwtwn* ym mraich gyntaf y cwpled; *twrch* sydd yn y llsg. ond y mae *torch* 'cadwyn' yn fwy ystyrion a mentrwyd diwygio er mwyn gwella'r ystyr.
- 29 **Huw** Huw Dafī, nid Huw Cae Llwyd, a cf. ll. 13, ac ar arfer y ddau enw Huw a Hywel, gw. 'Rhagymadrodd' tt. 3–6. Gthg. HCLI *Ni ad Duw roi wy mewn tân*. Ni all Hywel Dafī oddef gweld bardd arall yn derbyn y rhodd fwyaf dibwys.
- 30 *n wreiddgoll*.
- 31 **o cais** Ar y gysefin yn dilyn y cys. *o*, gw. 11.53n.
- 33 **os dall** Llsg. *os dyll*. Y mae *dull* yn ystyrion, 'os fel hyn y mae'n ymddwyn', ond diwygiwyd yn *os dall* 'os ydyw wedi ei ddallu neu wedi ei lygad-dynnu' am fod Hywel Dafī wrth ateb yn defnyddio'r un gair wrth feirmiadu ei gyd-fardd, gw. 40.34 *Eithr y dall aeth â'r dillad*.
- 38 Gellid naill ai *Dwyn felfed du dan flawd haidd* neu *Dwyn felfed, Huw, dan flawd haidd*; gthg. HCLI *Dwyn felfed hy dan flawd haidd*.

- 41 y **Tŵr** Tretŵr. Yr oedd Hywel Dafï yn ymwelydd cyson â'r cartref fel y dengys y cylch o gerddi a ganwyd ar yr aelwyd, gw. cerddi 46–58.
eto yr â Ffurf l un.pres.myn. y f., sef *a'*, a fabwysiadwyd yn HCLI.
- 42 **lytwn** Gw. uchod ll. 27n. Gallai y y llsgr. gynrychioli'r arddod. *i*. Os felly awgrymir mai enw lle sydd yma. Ai Cymreigiad o Leighton yng nghwmwd y Gorddwr, gw. WATU 264?
- 43 **mynagwn** Gw. 23.30n.
- 46 Twyll gynghanedd *dd*. Diwygiwyd yn *Y bo'r hael a baro hyn* yn HCLI, ond y mae'r ystyr o blaid deall enw yn hytrach na ffurf ferfol ar ddechrau'r ll.

40

Cywydd yn ateb cywydd o waith Huw Cae Llwyd yw hwn, gw. cerdd 39, ac mewn un ffynhonnell yn unig y diogelwyd y naill a'r llall, sef Stowe 959. Y mae cywydd Hywel Dafï yn dilyn cywydd Huw Cae Llwyd yn y llawysgrif honno, ac y mae lle i gredu, felly, i'r ddau gael eu llunio ar yr un achlysur. Tebyg hefyd i'r ddau gael eu diogelu ar y cyd. Rhoddwyd 'Ymryson Tre'r Tŵr' uwchben cywydd Huw Cae Llwyd yn HCLI cerdd XXVII, gan ddilyn Stowe 959, ond y mae'r pennawd hwnnw yn gamarweiniol. Moli Tomas ap Siancyn ap Madog o'r Slwch a wna Huw Cae Llwyd yn ei gywydd ef, ac olrheinir ei ach yn drefnus yn llinellau agoriadol y cywydd, gw. llau 1–8 a nodyn brig cerdd 38. Ar ôl olrhain ach ei noddwr cyfeiria Huw at y gŵn a roddwyd iddo yn anrheg, gan ddweud pa mor eiddigeddus yw Hywel Dafï o'r herwydd. Ni all Hywel oddef gweld yr un bardd arall, meddai, yn derbyn rhoddion neu ffafrau o fath yn y byd. Wrth ateb caiff Hywel Dafï gyfle i foli'r un gwrthrych cyn beirniadu ei gyd-fardd ar gyfrif ei chwant anniwall am roddion. Nid yw un gŵn yn ddigon iddo; wedi iddo dderbyn un cyhudda Hywel Dafï ef o fynnu cael un arall, ond am nad oes ei hangen arno y peth cyntaf a wna yw ei gwerthu i arall.

Saethir ergydion eraill hefyd gan y ddau fardd. Cyhudda Huw Cae Llwyd ei gyd-fardd o seboni er mwyn sicrhau rhoddion, ac awgryma mai ei arfer yw crwydro'r wlad yn cardota haidd ac yd. Nid yw gŵn werthfawr yn gydnaws â'r cyfryw weithgarwch, meddai. Yn ei dro awgryma Hywel mai dim ond ar ôl cael addewid o roddion y bydd Huw Cae Llwyd yn ymddangos, cymaint yw ei drachwant. Myn fod ei gerddi ei hun yn odidog *fel gardd fêl*, ond gwêl fai ar gyfansoddiadau'r beirdd eraill. Edliwia i Huw Cae Llwyd ei fod yn ei ddilyn i bobman i geisio amharu ar ei fywoliaeth ac i gyfranogi o'r rhoddion a gaiff gan ei noddwyr.

Y mae'r cywydd yn ddrych i rwydwaith cymhleth o gysylltiadau teuluol. Enwir yr Argoed yng nghywydd Hywel Dafï, ac yr oedd cyswllt clòs rhwng y teulu hwnnw a'r teulu a drigai yn y Slwch (gw. ll. 28n). Enwir y Tŵr yng

ngywydd Huw Cae Llwyd, ac yr oedd Denis, mam gwrthrych y cywydd, yn ddolen rhwng y Slwch a Thretŵr am iddi briodi â Syr Rhoser Fychan (ond y mae peth ansicrwydd ynghylch trefn y priodasau, gw. ll. 7n).

Fel yn achos cywydd Huw Cae Llwyd, cofnododd Siôn Dafydd Rhys ddrylliau o'r ateb yn Llst 55, 47–8. Y mae cwpled cyfan yma nas ceir yn Stowe 959, ynghyd ag un llinell arall, sef: *Cywydd fu lywydd i'r wlad / I ymdolach am daliad a Ni ddwg gwib i dda cybydd.*

Dosbarthwyd y ddau gywydd ymryson yn NBBM 249–50 gyda'r cerddi i Syr Tomas Fychan, Tretŵr, mab ac etifedd Syr Rhoser Fychan (m. 1471).

Y mae'r ymryson hwn yn debyg i'r ymryson a fu rhwng Ieuan Deulwyn a Bedo Brwynllys yn llys Rhisiart Herbert yng Ngholbrwg, gw. CH cerddi 28–9. Er mai chwant anniwall y Bedo am roddion o ddillad yw dechrau'r ymryson hwn eto, y mae tensiynau gwleidyddol yr oes a theyrngarwch noddwyr unigol yn hawlio'r lle blaenaf am fod Ieuan yn beirniadu haerllugrwydd y Bedo wrth iddo ddeisyf rhoddion gan bleidwyr Siasbar a Harri ar y naill law a chan bleidwyr plaid Efrog ar y llaw arall.

1 Darlleniad Llst 55 yw y *carw ievanc or heol*.

3 **cyweithias** Gall fod yn enw 'cymdeithas, cwmni' yn ogystal ag yn a. 'mwyn, hynaws', gw. GPC 831 (lle y nodir bod *cyweithias* yn ffurf amr. ar *cyweithas*). Fe'i cyfrifir yn a. yma.

5–6 Cf. 38.3–4.

7 **ŵyr Domas** Ailadroddir y sylw hwn yn y cywydd cyntaf, gw. 39.6, a thrachefn yn 41.7. Tomas Fychan ap Ffyllib Fychan, y Tyle-glas, oedd taid Tomas ap Siancyn o du ei fam, Denis. Bu Denis hefyd yn briod â Syr Rhoser Fychan, y cyntaf o blith y Fychaniaid i fyw yn Nhretŵr, gw. ByCy 940–1, ond y mae peth ansicrwydd yn yr ach oblegid nodir bod Denis a Syr Rhoser ill dau wedi priodi am yr eildro, gw. WG1 243, 602. Gall y cyfeiriadau at y Tŵr awgrymu mai Siancyn ap Madog oedd gŵr cyntaf Denis; byddai ei hail briodas â Syr Rhoser Fychan (o dderbyn mai ei hail ŵr oedd ef) wedi creu cyswllt clòs rhwng Tomas ap Siancyn a theulu ei lystad, Syr Rhoser Fychan. Esboniai hyn hefyd y pennawd camarweiniol yn Stowe 959. Meibion Denis a Syr Rhoser Fychan oedd Syr Tomas Fychan, Tretŵr, a Rhoser Fychan, Porth-aml, gw. WG1 243. Nodir bod i Denis a Siancyn ap Madog chwech o blant, gw. WG1 95; WG2 189, a bu iddi hi a Syr Rhoser Fychan chwech o blant drachefn.

8 **marchogion** Gw. ll. 7n. Gwraig gyntaf Tomas Fychan, y Tyle-glas, oedd Mari, merch Syr Rhisiart Hacluyt, ac Alis, merch Syr Watgyn Llwyd, oedd ei ail wraig. Hi oedd mam Denis, gw. WG1 602.

11 **ŵyr Hywel** Merch Hywel ap Dafydd ab Ieuan o'r Beili-brith oedd gwraig Madog ap Rhisiart.

- 12 **a dynn mêl** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.
- 14 **carets** Dilynwyd y diwygiad a gynigiwyd yn HCLl (*hen* > *trwy*) am fod y gynghanedd yn y ll. hon yn wallus yn yr unig lsg. Dyfynnir y ll. yn GPC 1382 d.g. *garet*, *gared* 'twred, tŵr gwylio', o'r S. *garret*, a dyma'r unig engh. sydd yn cynnwys ffurf l. y gair. Nid yw'r ystyr hon yn taro cystal ar ôl diwygio'r ll. O ran ystyr gweddai'r S. *carriage* 'the wheeled support on which a piece of ordnance is mounted', gw. OED² ii, 915, ond i ganol yr 16g. y perthyn yr engh. gynharaf.
- 16 **rhy digon** Gw. ll. 12n.
- 17 **dillad marchnad** Naill ai dillad a bwrcaswyd, neu ddillad sydd yn ganlyniad cyfnewid. Ym Meibl 1588 y ceir yr engh. gynharaf o'r ystyr 'nwyddau neu wâr marchnataol, nwyddau ar werth', gw. GPC 2355.
- 20 **dwysir** Y mae'n bosibl fod y gair hwn yn fwys ac y dylid deall *sir*¹ 'uned tirioaethol' yn ogystal â *sir*² 'llawenydd; croeso, gwledd', gw. GPC 3291.
- 21–2 Myn Hywel Dafï mai wedi iddo dderbyn rhoddion yn unig y bydd Huw Cae Llwyd yn ymddangos. Pe na bai'n derbyn dim ymlaen llaw, ni byddai sôn amdano.
- 23 **Tredwrstan** Tredwstan, lleoliad hen gastell Normanaidd a maenor yng nghyffiniau Talgarth. Dilynwyd Stowe 959 yn *Re dwrstan*, ond yr un yw'r ffurf yn 5.13–14 a ddiogelwyd yn llaw'r bardd ei hun yn Pen 67. Gw. B.G. Charles, *Non-Celtic Place-Names in Wales* (London, 1938), 167 d.g. *Tredustan*, ond dyfynnir un ffynhonnell o'r 17g. sy'n cynnwys y ffurf *Durston*. Yn Nhalgarth yr oedd Porth-aml, cartref Rhoser Fychan, mab Denis a Syr Rhoser Fychan. Ni ddiogelwyd canu o waith Hywel Dafï iddo ef a phrin yw'r canu o'i waith sydd yn perthyn i'r Mers.
- 24 **tir Mars** Gallai oleddfu *Tredwrstan*, h.y. 'Tredwrstan sydd yn nhir y Mers', ond tebyg mai cyhuddiad Huw Cae Llwyd yw bod Hywel Dafï wedi addo dod i Dredwrstan ond fod y rhoddion a dderbynai wrth glera yn y Mers wedi ei oedi.
- 25 **y mab hael** Cyfeiriad dychanol at Huw Cae Llwyd.
- ymapelodd** Ni restrwyd *ymapelio*, *ymapelo* yn GPC ond rhestrwyd *apelio*, *apelo* 'gwneud apêl, erfyn, ymbil, deisyf', gw. GPC² 399. Perthyn yr enghrau. cyntaf i ail hanner yr 16g.
- 28 **yr Argoed** Cyhudda Hywel Dafï Huw o'i ddilyn i'r Argoed ym mhlwyf Llanfihangel Fechan yng Nghantref Selyf. Hywel Dew ap Gwilym Dew a drigai yno, ac y mae'n amlwg i Hywel Dafï ymweld â'r cartref ar sawl achlysur. Canodd i'r tad ac i'r mab, gw. cerddi 1–5. Yn ei farwnad i Hywel Dew dygodd Hywel Dafï i gof y gynau a dderbyniodd yn rhodd, gw. 5.41–2 *Fo welid gŵn felwed gynt / Amdanaf lle'm adwaenynt*. Gwyddys i Huw Cae Llwyd, yntau, ymweld â'r cartref, ac

- ymddengys mai cywydd moliant i Hywel Dew yw HCLl cerdd XXIV (ond ni lwyddodd y golygydd i leoli'r gwrthrych). Enwir y cartref yn y cywydd, gw. *ib.* llau. 21–2 *Eurgain a gaed yn Argoed / O'r un cyff gorau'n y coed.* Barnai Iolo Morganwg mai'r bardd Gwilym Tew oedd tad Hywel Dew, ac ychwanegodd lau. pwrpasol yn ei gopi o gywydd Huw Cae Llwyd, gw. HCLl 151. Gwraig Hywel Dew oedd Mawd, merch Rhoser ap Madog ap Rhisiart Fawr o'r Slwch. Rhannai hi a Thomas ap Siancyn, gwrthrych y cywydd hwn, gyff cyffredin, gw. WG1 95; WG2 189.
- 29 **gyn** Ffurf amr. ar *cyn*, gw. GPC 777. Mabwysiadwyd hon er mwyn osgoi'r gyfatebiaeth caled a meddal $g = c$, ond digwydd y goddefiad drachefn yn ll. 32.
- 29–30 Goddrych dealledig y f. yn y cwpled yw penteulu'r Argoed.
- 32 Wyth sillaf yn y ll.; cyfatebiaeth caled a meddal $c = g$; r berfeddgoll.
- 37–8 Ymddengys mai deisyf aflwyddiant i berchennog yr hug a wna'r bardd.
- 38 Cynghanedd groes o gyswllt neu n wreiddgoll.
- 39 **Iolo** Awgrymir y byddai Huw Cae Llwyd yn gweld bai ar fardd mor grefftus ag Iolo Goch hyd yn oed. Canmolir y bardd ar sail ei feistrolaeth a'i gywirdeb yng Ngramadeg Gwysanau: *Ac vn o'r prydydyon y syd yn erchi gochel y beieu hynn a dyall y messurev a'r kymyrryadeu, ac ysgrivennu y gerd yn yawn yw Iollo Goch*, gw. A. Parry Owen, 'Gramadeg Gwysanau (Archifdy Sir y Fflint D/Gw 2082)', LICy 33 (2010), 17.
- 42 'Y mae ef yn dymuno i bawb gasáu Hywel' ond gellid 'Y mae Hywel yn dymuno iddo gael ei gasáu'.
- 43 **pan ddelo i ddir** Gthg. Stowe 959 *pann delo y dir*. Arfer achlysurol mewn cyfnod diweddarach yn rhai o siroedd y de oedd cadw cysefin y f. yn dilyn y cys. *pan*, gw. Treigladau 161–2. Fodd bynnag, nid oes yr un engh. yn y canu o gadw cysefin y f. yn dilyn y cys. *pan*, a cf. ll. 31 *Hug pan brynid o sidan*, ll. 33 *Nid eisiau gynau pan gad*. Tebyg mai ffurf dreigledig *dir* 'caledi', gw. GPC 1030, yn hytrach na *tir* sydd yma.
- 45 **pall** Gthg. *pally yddo* y llsg. Y mae'n bosibl fod y ll. yn llwgr a bod y gair hwn wedi ei newid o dan ddylanwad y f. *pallu* 'gwrthod, nacáu' yn ail fraich y cwpled. Ar *pall* 'mantell', gw. GPC 2676. Y mae'r ll. sillaf yn fyr yn dilyn y diwygiad. Gellid y ffurf l. *pallau* ond yr unigol sydd yn ll. 29 *gŵn*, ll. 31 *hug*.
- 46 **pallu** I'r 16g. y perthyn yr enghrau. cynharaf lle y mae *pallu* 'gwrthod, nacáu' yn f. anghyflawn. Posibilrwydd arall yw deall *pallu* yn f. o'r e.c. *pall* 'mantellu'.
- 47 **arbed dwbled** Gw. ll. 12n.

- 48 *r wreiddgoll*. Diwygiwyd y ll. yn HCLl *Er y gŵn a roe gynnuau*.
- 51 **prŷn dwbled** Gw. ll. 12n.
- 51–8 Y mae'r darn hwn yn astrus am nad yw hi'n glir pwy yw goddr. y berfau, ond wrth ddatgan y cywydd yn y neuadd, byddai'r bardd yn troi ei olygon at y sawl a gyferchid. Cynigir mai cyfeirio at Domas ap Siancyn a wneir yn llau. 51–4, ac at Huw Cae Llwyd yn llau. 55–6.
- 58 **lardeiswr** 'Rhoddwr neu anrhegwr hael', gw. GPC 2054. Dyma'r unig engh. a ddyfynnir yno d.g. *lardeiswr* (tarddair o *lardies* sydd yn fenthyciad o'r S. *largess*). Nid yw'r ergyd yn glir, ond yng ngoleuni'r cwpled blaenorol lle yr awgrymir y bydd y beirdd ar eu colled os bydd Huw Cae Llwyd yn dychwelyd i'r cartref (*Waethwaeth fydd ein hynt weithion*), gall y cwpled olaf awgrymu y bydd Hywel Dafï a'i debyg yn derbyn swllt (*Swllt fydd ar gywydd i'r gŵr*) ond y bydd Huw Cae Llwyd yn derbyn dwywaith cymaint (*A deuswllt i'r lardeiswr*). Y bardd Huw Cae Llwyd, felly, yw'r *lardeiswr*, nid y noddwr Tomas ap Siancyn. Byddai ystyr fel 'moliannwr crefftus' neu 'sebonwr' yn taro, ond nid oes enghrau. o ddefnyddio'r f. *lard* yn S. yn yr ystyr honno, gw. OED² viii, 654–5. I ganol yr 16g. y perthyn yr engh. gynharaf o'r ystyr 'to intersperse or garnish (speech or writing) with particular words, expressions, ideas', &c. O gywydd gan Huw Cae Llwyd y daw'r unig engh. o'r f. *lardeisio* yn GPC 2054, gw. HCLl III.75–6 *Un a geisio i lardeisio*, / *Un a geisio yno gwysaf*. Unwaith eto gweddai'r ystyr 'moli' yma yn hytrach na 'rhoi neu gyfrannu'n haelionus'.

41

Er mai dryll yn unig o ddarn hwy a ddiogelwyd gellir bod yn sicr mai Tomas ap Siancyn ap Madog o'r Slwch yw gwrthrych y moliant, gw. cerddi 38–40. Y mae'n bosibl fod darn arall ar yr un mesur yn Pen 67, ac sydd yn enwi Tomas, yn perthyn i'r gerdd hon, gw. cerdd 88. Y mae'r darn yn ddienw ond bernir mai Hywel Dafï a'i canodd, gw. 'Cerddi Ansicr' tt. 49–50.

Pedwar cwpled ar fesur y cyhydedd hir sydd yma. Patrwm arferol y mesur yw pedair adran sydd yn cynnwys 5554 sillaf, a'r gyntaf, yr ail, a'r drydedd yn odli. Fel arfer bydd yr adran gyntaf a'r ail yn cynganeddu yn annibynnol a'r drydedd a'r bedwaredd yn ffurfio cynghanedd ar y cyd. Arferol hefyd yw rhoi odl yn safle'r brifodl ym mhob cwpled, ac ar y mesur gw. J. Morris-Jones: CD 338–9. Y mae'r defnydd a wna Hywel Dafï o'r mesur yn llacach fel y tystia'r pedwar cwpled hyn a'r cwpledi eraill a ddiogelwyd, gw. cerddi 88, 90. Cabolir y rhannau mewn dull gwahanol ac yn fwy crefftus yn 37.53–6. Gwelir nad yw'r cwpledi yn odli ac nad oes cynghanedd gyflawn yn yr un llinell. Fodd bynnag y mae'r geiriau sydd yn safle'r orffwysfa a'r brifodl yn

cynganeddu yn llinellau 2, 4, 6, 8, sef *gynau* / *ganwyf*, *etewyn* / *tywys*, *marchog* / *Meirchion*, *Dinas* / *danawl*. Gwelir hefyd fod deg sillaf yn ail fraich pob cwpled er mai naw sydd yn arferol (ond ceir 12 sillaf yn ll. 2). Dangosodd D. Johnston yn LIU 86–7 fod y mesur hwn yn cael ei ddefnyddio yn bur llac ar brydiau, cf. yr awdl a ddiogelwyd yn Pen 67 ac a ganodd Dafydd Llwyd i Owain ab Ifor o Lansteffan, gŵr a farwnadwyd gan Hywel Dafu yntau, gw. cerdd 44.

- 2 Y ll. yn cynnwys 12 sillaf, ond gellid 10 sillaf fel yn ail fraich y cwpledi eraill o hepgor *a gwin*.
- 3 **Caw o Brydyn** Un o wŷr y Gogledd a thad nifer o saint gan gynnwys Gildas. Y mae iddo ran amlwg yn chwedl ‘Culhwch ac Olwen’ am mai ef sydd yn lladd y baedd Ysgithrwyn ac yn eillio pen Ysbaddaden, gw. TYP³ 306–8; WCD 112–14.
- 5 **Cradog** Caradog Freichfras yn ddiau am fod cyfeiriadau eraill ato yn y canu, gw. 59.59n. Llai tebygol mai Caradog ap Bleddyn ap Maenyrch a enwir am mai o Gwgon ap Bleddyn, ei frawd, y disgynnai'r gangen y perthynai Tomas ap Siancyn iddi, gw. WG1 85.
- 6 **mab Meirchion** March oedd mab Meirchion, gw. TYP³ 435–8 (March), 447–8 (Meirchion). Meirchion oedd gŵr Epyllt a gipiwyd gan Drystan. Pwysleisia Rachel Bromwich fod chwedlau am Farch a Thrystan yn hysbys gynt ac nad perthynas y ddau ag Epyllt oedd eu hunig hynodrwydd, gw. TYP³ 332–4.
- 7 **wŷr i Domas** Tomas Fychan ap Ffyllib Fychan o'r Tyle-glas oedd taid Tomas ap Siancyn o du ei fam, gw. 40.7n.
- 8 y **Dinas** Gallai fod yn e.c. neu yn e. lle, gw. 9.17n.

42

Cywydd moliant i Ffyllib Fychan ap Tomas Fychan ap Ffyllib Fychan ap Gwilym ap Ffyllib ... Llywarch ap Brân, gw. WG1 602; WG2 1168. Cartref-ai'r teulu yn y Tyle-glas nid nepell o'r Clas-ar-Wy. Ni chrybwyllir gwraig Ffyllib Fychan. Priododd ddwywaith a pherthynai'r ddwy wraig i deuluoedd a gyfarchwyd gan Hywel Dafu. Sisli, merch Ieuan ap Morgan ap Dafydd Gam, oedd ei wraig gyntaf, gw. cerdd 22, a Gwenllïan, merch Owain ap Gruffudd ap Nicolas, oedd ei ail wraig, gw. cerdd 80. Yr oedd Ffyllib Fychan yn nai i Farsli a briododd â Siôn Fychan ap Gwilym, gwrthrych cerdd 18. Cafodd Ffyllib Fychan ‘late of Llamekon alias Llamelion, “gentilman”’, sef Llanelu nid nepell o'r Tyle-glas, bardwn ar 7 Mehefin 1457, gw. CPR 1452–1461, 367, ac ymhellach 21.19n.

Diogelwyd y copi cyflawn cynharaf yn Pen 100, ond cofnodwyd drylliau o'r cywydd mewn dau le yn llawysgrif Pen 60. Yr hyn a wnaed yn y naill

achos a'r llall oedd cofnodi geiriau cyntaf pob cwpled, er na ddeallodd J. Gwenogvryn Evans hynny, gw. RWM i, 437: 'Whether the verse is in a kind of Whitmanese metre, or merely the beginning of the lines are given it is not easy to say'. Nid yr un geiriau yn union a gofnodwyd bob tro. Yn achos llinell 5 cofnodwyd *llew o wyth gryd* yn y naill destun a'r llall, ond yn achos llinell 17 ar y llaw arall, ysgrifennwyd *llew n y ddadal llonydd* ar dudalen 21, ond *llew n ny dadal* yn unig ar dudalen 4. Serch hynny, y mae'r drylliau sydd yn y ddau destun yn cyfateb yn agos iawn i'w gilydd. Y testun sydd i'w weld yn Pen 60, 4–5 yw'r un llawnaf am fod yma fwy nag un llinell gyflawn, ac at hynny cofnodwyd geiriau cyntaf ail fraich rhai o'r cwpledi. Cofnodwyd pob cwpled, a hynny yn y drefn gywir, yn y ddau destun, gyda dau eithriad. Ni chofnodwyd dechrau llinellau 11–12 yn y darn sydd ar dudalen 21, ac ni chofnodwyd dechrau llinellau 2–3 ar dudalen 4 (er bod geiriau ychwanegol wedi eu hychwanegu a allai gynrychioli naill ai cwpled gwahanol neu ran o enw gwrthrych y cywydd). Er mai testunau anghyflawn sydd yma, gwelir eu bod yn cynnwys darlleniadau sydd yn rhagori ar y testun a ddiogelwyd yn Pen 100 (ac a atgynhyrchwyd yn y llsgrau. eraill). Anodd cofnodi'r amrywiadau yn ystyrllon am fod cymaint o'r testun yn eisiau yn y naill ffynhonnell a'r llall. Nodir pob darlleniad yn Pen 60 sydd yn wahanol i ddarlleniad y testun golygedig.

- 3 **ffynnodd** Rhestrir y ffurfiau *ffynnu* a *ffynio* 'llwyddo' yn GPC 1334. Darlleniad F yw *ffynyodd*.
- pen-tŷ** Diwygiwyd *dy ben tu* y llsgrau. Rhaid acennu'r ddwy elfen ar wahân er mwyn y gynghanedd lusk. *ffynyodd dy ben* yn unig a gofnodwyd yn F.
- 5 **gŵyth gryd** Darlleniad Pen 100 yw *llew o wyth gradd*. Cyfeirir yn fynych at y nawfed ach, gw. GPC 2557 d.g. *nawfed*; ond cf. GHS 3.29–30 *Dy wyth ach dithau uwch oedd / Obry'n henwau brenhinoedd*. Ni chwblhawyd y ll. yn Pen 60 ond *wyth gryd* a gofnodwyd ar y ddau achlysur. Bernir mai *gŵyth* 'llid, ffynigrwydd', gw. GPC 1790, a *gryd* 'bloedd, cynnwrf; twrw brwydr', *ib.* 1539, sydd yma. Digwydd *gwythi*, ffurf l. *gŵyth*, yn 74.13 *Weithian yr wyf, wythi rheg*.
- 9 **Watgyn Llwyd** Taid Ffilyb o du ei fam oedd Syr Watgyn Llwyd ab Ieuan (ll. 10), gw. WG1 90. Yr oedd Watgyn yn briod ag Annes, merch Siancyn Gwallter Hen (ll. 13) ap Gwallter Hen (ll. 14), gw. WG1 478.
- 11–12 Ymddengys fod Watgyn Llwyd wedi ei urddo ar faes y gad yn Agincourt, gw. WWR² 27–8.
- 16 **Pisiart** Teulu Pitcher neu Picard neu Pichard a gysylltir â Sgethrog nid nepell o Aberhonddu. Methwyd ag olrhain y cyswllt rhwng Ffilyb ap Tomas a'r teulu hwn. Ond enwir aelodau o deulu Annes, merch Siancyn Wallter Hen, a gwraig Syr Watgyn Llwyd, o dan y teulu yn WG1/WG2

(Mynegai 'Cyfenwau').

- 19 **Bleddyn blaid** Yr oedd Syr Watgyn Llwyd yn un o ddisgynyddion uniongyrchol Bleddyn ap Maenyrch, gw. WG1 90.
- 20 **Cawrda'** Mab Caradog Freichfras. Fe'i henwir yn chwedl 'Breuddwyd Rhonabwy' ac yn y triawd *Tri Chynweissyat Enys Prydein*, gw. TYP³ 25–7, 308; WCD 114–15. Iddo ef y cysegrwyd eglwys Aber-erch, gw. LBS ii, 95–7. Credid bod Cawrdaf yn un o hynafiaid Maenyrch, ac awgryma'r ffaith fod Cawrdaf a Bleddyn yn cael eu cyfodod yn yr un cwpled fod Hywel Dafu yn ymwybodol o hynny. Eto, dyma'r unig dro iddo enwi Cawrdaf yn y canu i ddisgynyddion Maenyrch.
- Rhicardiaid** Gall mai hynafiaid uniongyrchol Ffilyp Fychan yw'r Rhicardiaid, sef Rhisiart Gam o Dalgarth a'i dad, Rhisiart ab Einion.
- 22 **Llynfi** Gthg. darlleniad Pen 100, sef *Llyfni*, ond efallai i'r ll. gael ei diwygio yn bwrpasol er mwyn osgoi'r camosodiad *f.n = n.f.* Ymddengys mai *Llyfni* oedd y ffurf hynaf, gw. EANC 159–60. Y mae afon Llynfi yn llifo rhwng Talgarth a Bronllys ac ymuna ag afon Gwy yn y Clas-ar-Wy.
- 23 **Cellan-y-gog** 'Cellan y Gog, in Brecknockshire (qu. ?)', gw. *Lewis Morris: Celtic Remains*, ed. D.S. Evans (London, 1878), 86. Ni restrir yr enw yn ArchifMR. Cafodd Lewis Morris gyfle i ddarllen Pen 100, gw. RWM i, 624; efallai mai yn y cywydd hwn y gwelodd yr e. lle.
- 26 **Llan-goed** Y mae eglwys Llan-goed ym mhlwyf Llys-wen yng nghwmwd Cantref Selyf ryw dair milltir i gyfeiriad y gorllewin o'r Tyle-glas, ac ar ochr ddeheuol afon Gwy. Honnir y bydd pawb sydd yn byw ar lannau'r afon yn heidio i gartref Ffyllib ap Tomas. Ond byddai'r ergyd yn gryfach o dderbyn mai plwyf Llangoed yng nghwmwd Dindaethwy ym Môn sydd dan sylw a'i fod yn cynrychioli cwr mwyaf gogleddol Cymru. Gall fod yn arwyddocaol fod Cawrdaf a grybwyllwyd yn ll. 20 yn cael ei gysylltu â Llangoed ym Môn, gw. LBS ii, 95.
- 27 **Ilyfr Daniel** 'Llyfr Daniel' yn yr Hen Destament. Yn y llyfr hwn disgrifir profiadau Daniel a'i gymdeithion yn ystod teyrnasiad y Brenin Nebuchodonosor, a chyflwynir cyfres o weledigaethau sydd yn ymwneud â thynged yr Iddewon, gw. ODCC³ 449.
- 29 **ni thariodd** Ailadroddir y f. yn ail fraich y cwpled, a gellid mabwysiadu darlleniad ystyrion LIGC 2023B a BL Add 14991, *ni threiodd*, ond y mae Pen 60 (ffynhonnell E) o blaid cadw'r f. *tario*. Berf gyflawn yw *tario* yn ll. 29 ond berf anghyflawn yn y ll. nesaf.
- 30 *n wreiddgoll*.
- 31–2 Cofnodwyd y rhan fwyaf o'r cwpled yn Pen 60 (ffynhonnell E), ond newidiwyd trefn y ddwy fraich.
- 32 **mâl** 'Treth, taliad; cyfoeth, arian', gw. GPC 2326.

- 33–4 Ymddengys y byddid gynt yn gwisgo mentyll o ddail fel rhan o ddathliadau'r gwanwyn a'r haf. Galwodd D.J. Bowen, 'Nodiadau ar waith y Cywyddwyr', B xxv (1972–4), 20–1, sylw at gyfeiriadau awgrymog mewn dau gywydd a ganodd Dafydd ap Gwilym, y naill i fis Mai a'r llall i'r haf. Yn y cyntaf sonnir am *esgyll dail mentyll Mai* a chrybwyllir *mentyll haf* yn yr ail. Diau fod y cwpled hwn yng nghywydd Hywel Dafï yn cyfeirio at yr un arfer; cf. llau. 41–2 *Gwisgaist i'th wlad brofadwy / Wisg y gog rhwng Wysg a Gwy*; a cf. ymhellach GHS 12.31–4 *Y paun, os caf, fyddaf i: / Y mae peunes i'm poeni. / I'm mantell y castellaf / Ger bron hon, gŵr brenin haf* (cywydd i ofyn ffaling), *ib.* 25.11–12 *Merch i frenin yr hinon, / A iarllles haf yw'r llys hon*. Cf. DG.net 34.19–20 *Deune geirw, dyn a garaf / Dan frig, a'i rhyfig yw'r haf*. Ond deellir *dyn a garaf / Dan frig* yn 'merch a garaf dan frig [y coed]' yn *ib.*
- 37 **cynhaeaf** Cynrychiola yma dymor yr hydref, ond enwir y tri thymor arall hefyd.
- 38 **gwanwyn** Ni ddiogelwyd y cywydd hwn yn llaw'r bardd. Gw. 22.33n ar ddefnydd Hywel Dafï o'r ffurf *gwaniwyn*.
- 41 **profadwy** Digwydd y ffurf *profiadwy* yn Pen 67, gw. 2.35n.
- 46 **hedau o ddail** Ffurf amr. ar *het* yw *hed*, gw. GPC 1861–2. Cyflwynid het wedi ei gwneud o ddail a brigau yn rhodd i wrthrych serch. Cyhyd ag y bydd yr arfer hwnnw yn parhau bydd pob un yn mynegi ei serch tuag at Ffyllib Fychan.
- 55 *m* berfeddgoll, neu *n = n.m.*
- 58 **caprig** Fe'i rhestrir yn GPC 421 d.g. *caprig*² 'lliaïn main gwyn' yn hytrach na *caprig*¹ 'math o win gwyn'. Yr ail sydd fwyaf addas am fod *gwin* yn cael ei grybwyll yn y cwpled blaenorol.

Ni ellir bod yn gwbl sicr ynghylch y sawl a gyferchir yn y cywydd hwn. Nid *Cywydd i Domas Phylip* sydd yma, fel yr awgryma'r pennawd yn CM 12. Y mae'n amlwg fod y gwrthrych yn perthyn i dylwyth y Gwnteriaid, ond ymddengys fod Hywel Dafï yn yr adran gyntaf yn cyfeirio at sawl aelod o'r tylwyth yn hytrach nag yn olrhain ach y noddwr o dad i dad. Ymddengys hefyd fod y bardd yn dechrau trwy gyfeirio at yr hynafiaid ac yna yn gweithio ymlaen at wrthrych y moliant, er mai enwi'r gwrthrych a chyfeirio wedyn at ei hynafiaid yw'r arfer. Gallai fod yn annerch Tomas (ll. 8), mab Gwilym Gwnter ap Tomas Gwnter ap Gwilym Gwnter Hen, ac esbonia hyn yn bur foddhaol y cyfeiriad at y Gwilymiaid a'r Gwnteriaid (llau. 11–12), gw. WG2 867. Esbonia hefyd y cyfeiriad at wraig Tomas Gwnter. Yr oedd Mawd yn ferch i Ffyllib Fychan ap Tomas Fychan ap Ffyllib Fychan o'r Tyle-glas, gw. WG1 603; WG2 1168, a chanodd Hywel Dafï gywydd

moliant iddo, gw. cerdd 42. Fodd bynnag, nid oes modd esbonio pob enw, ac efallai fod y cynnig ar adnabod gwrthrych y moliant yn gyfeiliornus. Cysylltir Gwilym Gwnter, tad Tomas, â Gwernyfed yn Aberllynfi yng nghwmwd Talgarth, ond Ewias a Gwent yw'r unig ardaloedd a enwir yn y cywydd.

6 Cynganedd groes o gyswllt neu *r wreiddgoll*.

- 11 **Gwilymiaid** Yr oedd gan Mawd a Thomas Gwnter fab o'r enw Gwilym, cf. llau. 13–14, ond nid yw'n ymddangos mai cywydd iddo ef yw hwn.
- 19 **Rheinallt** Methwyd ag esbonio'r cyfeiriad hwn.
- 21 **deuddeg** Aelodau'r rheithgor sydd yn gyfrifol am wrando achosion cyfreithiol. Cf. 57.19–20 *Na yrr o'th gwrt w'r a'th gâr / Er deuddeg o'r diweddar*, 86.19–20 *Yno 'dd oeddem yn ddeuddeg / O feirdd; un sy fyw ar ddeg*. Hefyd GGL1 10.69–70 *Diddan fo hynt y deuddeg, / O'm barn, yn y dafarn deg* ('Y cwest ar Forgan ap Dafydd o Rydodyn').
- 23–4 Collwyd y cwpled hwn yn CM 12 trwy ryw amryfusedd (ac yn LIGC 670D).
- 26 **draig wen** Y ddraig sydd yn cynrychioli cenedl y Saeson ym mhroffwydoliaeth Myrddin, er mai teulu o dras estron oedd y Gwnteriaid, gw. BD 104 y *dreic wenn, yr hon a arvydocaa y Saesson*. Crybwyllir y ddwy ddraig a'r ymryson rhyngddynt ar achlysuron eraill. Cyffelybir Gwilym Fychan ab Ieuan i'r *ddraig goch oedd o Roeg gynt*, gw. 17.2, ac yr oedd y brofedigaeth, yn dilyn marwolaeth Owain ab Ifor, megis *drwg o sias rhwng dreigiau*, gw. 44.11.
- 31 **cyd-dwymian'** Dilynydd Pen 67 ond ni restrir *twymio* yn GPC 3665–6. Fodd bynnag, rhestrir yr e.c. *twymiad, twymad* yn *ib*. 3666 er na cheir engh. o'r ail cyn y 18g. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.
- 32 y **Tyle-glas** Gw. nodyn brig cerdd 42.
- 33 **siawnsil** Darlleniad Pen 67 yw *siawnsvil* ac fe'i diwygiwyd yn Pen 99 yn *siawnswil*. Gallai fod yn e. lle ond ni lwyddwyd i'w adnabod. Posiblirwydd arall yw mai benthyciad o'r S. *chancel* ydyw, 'the eastern part of a church, appropriated to the use of those who officiate in the performance of the services', ond fe'i defnyddir mewn ystyr fwy cyffredinol hefyd, gw. OED² iii, 11.
- 38 **Mawd** Nodir enw ei gŵr yn WG1/WG2 ond nid enwir hi. Digwydd yr enw yn safle'r odl mewn cynganedd sain yn y ll. hon ac yn ll. 40. Gellid yr odl *Mod / amod* yn ll. 38 a *bragod / Mod* yn ll. 40.
- 41 **anfoes** 'Digywilydd-dra, amarch', gw. GPC² 281. Ensynnir bod Hywel Dafu wedi ei siomi gan roddion y gŵr a'r wraig a'i fod wedi eu cyhuddo

- o fod yn grintachlyd. Efallai fod y pwnc hwn wedi ei drafod mewn cywydd arall (coll) yn annerch y ddau. A barnu wrth dystiolaeth y bardd yn llau. 45–6, nid hwn oedd ei ymweliad cyntaf â'r cartref.
- 42 **o'r tafod i'r tant** Awgrymir bod cerddi'r bardd yn cael eu datgan i gyfeiliant offeryn cerdd. Ceir trafodaeth ar y pwnc gan Sally Harper, 'Dafydd ap Gwilym, bardd a cherddor', ar DG.net. Er bod cyfeiriadau at gerddorion yn diddanu yn y llysoedd, niwlog yw ein gwybodaeth am y dull o gyflwyno cywyddau ond y mae lle i gredu bod cerddi'r beirdd yn cael eu datgan yn achlysurol i gyfeiliant offeryn cerdd.
- 44 **cystogion** Ffurf l. *costog*, *cystog* 'mastiff, math o gi cryf cymwys i warchod, yn ffig. dyn sarrug afrywiog, taeog; cerlyn, cybydd', gw. GPC 570.
- 46 *r wreiddgoll.*
- 47 **amod ... a'i iemyn** Nid yw *amod â'i emyn* yn ystyrllon, felly diwygiwyd yr orgraff ond heb newid fawr ar y sain. Ffurf l. *iwmon* 'gwas' yw *iemyn*, gw. GPC 2042.
- 49 **edolwyn** Dilynyd y llsgrau. er na restrir *edolwyn* yn ffurf amr. ar *adolwyn* 'cais, dymuniad' yn GPC² 58. Gwelir mai *adolwyn* yw'r ffurf a arferir yn 17.49–50 *Mae dwylo ym, adolwyn, / A ry y da er eu dwyn.*
- 52 **Ni thwyllir o'i nyth allan** Ailadroddir y syniad hwn mewn cerddi eraill, gw. 2.28n.
- 53 Ailadroddir y ll. hon mewn cywydd arall, gw. 45.17.
- 56 *n wreiddgoll.*

44

A barnu wrth dystiolaeth y cywydd, marwnad i Owain ab Ifor ap Rhys yw hon. Ni ddigwydd yr enw yn WG1/WG2 ond rhagflaenir cywydd Hywel Dafï yn Pen 67 gan awdl farwnad o waith Dafydd Llwyd ar fesur y cyhydedd hir i'r un gwrthrych, gw. Peniarth MS. 67 cerdd VI. Enwir y gwrthrych ac ategir tystiolaeth cywydd Hywel Dafï: *Mab i vor ap Rrys* (ll. 9), ac *ywain ap i vor* (ll. 66). Enwir Hywel yn y ddwy gerdd a phrawf yr awdl mai brawd Owain oedd ef: *pw y r vn an kyngor / hywel ap i vor* (llau. 53–4). Sonnir hefyd am fab Owain ac y mae'n bosibl mai ef yw'r Rhisiart a enwir yn yr awdl (ll. 41). Dafydd Llwyd yn unig sydd yn enwi gwraig Owain. Gwenllïan oedd ei henw hi (ll. 106). Cysylltir Owain yn y ddwy gerdd â Llansteffan yng nghwmwd Elfael Is Mynydd yng nghantref Elfael. Y mae Llansteffan ar lan ogleddol afon Gwy, ryw bedair milltir o'r Clas-ar-Wy. Enwir y *klas* a *dwy elvel* (ll. 61) ynghyd â *dyffryn gwy* (ll. 95) yn yr awdl. Yn NBBM 134–6 cysylltir Owain ab Ifor â Modrydd ym mhlwyf Llansbyddy yn y Cantref Mawr, ond nid esbonnir pam y gwneir hynny.

Trafodwyd yr un gerdd yn *ib.* 490–2 o dan Lansteffan y tro hwn. Ychwanegwyd *Barnad da* uwchben y testun sydd yn Pen 99.

- 4 **cnueu** Gall *cnau* gyfleu yn drosiadol ‘bethau crynion fel plorod, cornwydydd’, gw. GPC 518. Ai dyma achos marwolaeth Owain? Yng nghywydd Llywelyn Fychan, ‘Haint y Nodau’, cyffelybir y plorod angheuol i *swllt*, *cnap*, *pwmel cledde*, *dimeiau*, gw. *Galar y Beirdd*, gol. D. Johnston (Caerdydd, 1993), 50–5.
- 6 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 15, 16, 19 (ond gw. *ib.n*), 21, 23, 24.
- 10 **dadwreiddio** *Dadwraidd* yw’r ffurf ferfenwol yn 9.32 *Dadwraidd hil Dewdwr oedd hyn*, a 38.56 *Deudri oedd raid eu dadwraidd*. Ar y ddwy ffurf, gw. GPC 874.
- 11 **sias rhwng dreigiau** Y firwydr rhwng y ddraig goch a’r ddraig wen yr esboniwyd ei harwyddocâd gan y dewin Myrddin, gw. ymhellach 43.26n.
- 12 **o trig** Ar y gysefin yn dilyn y cys. *o*, gw. 11.53n.
- 13 Diwygiwyd *aesawr* ‘tarian’ yn *faesawr* yn Pen 99 er mwyn cryfhau’r gynghanedd, gan dybio mai cynghanedd gytseiniol oedd yma, ond tebyg mai cynghanedd lusk a fwriadwyd.
- 19 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n wreiddgoll*.
- 23 Dilynwyd Pen 99, *ni cheisiaf farch*; gthg. Pen 67 *Ni cheissia varch*.
- 23–4 **Ni cheisiaf farch ... / ... er cywydd** Ensynnir bod y bardd wedi erchi march a chŵn hela yn rhodd gan Owain yn y gorffennol. Un cywydd yn unig a ddiogelwyd lle y ceir y bardd yn erchi rhodd ar ei ran ei hun, gw. cerdd 74.
- 25 **Owain a’i frawd** Yr oedd gan Owain un brawd, sef Hywel, a oedd yn dal yn fyw pan ganwyd y cywydd, ond ymddengys fod brawd arall wedi marw tua’r un adeg ag Owain. Efallai mai’r ddau frawd hyn yw *wyrion Rhys* (ll. 7).
- 28 **Llan-ystyffan** Y mae’r gynghanedd yn galw am *llan* yn hytrach na *llaw*, a dylid cywiro darlenniad Peniarth MS. 67. Ond copiwyd yr ymadrodd yn gywir yn Pen 99.
- 30 **cledd** Am engh. o’i drin yn drosiadol, gw. TA LXXXV.19–20 *Trist ar wŷr, torres Duw’r iaith, / Torri cleddau Tir Cloddaith*. Ond efallai fod perthynas enidol rhwng *dyrnod* (ll. 29) a *cledd*, er mai i’r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf o’r ymadrodd *dyrnod cleddyf* yn GPC 1147.
- 31 **Bochryd** Plwyf yng nghwmwd Elfael Is Mynydd, gw. WATU 18 d.g. *Boughrood*. Treflan ryw dair milltir o Lanfair-ym-Muallt ar lan ddeheuol afon Gwy yw Mochryd. Yno yn ôl W. Warrington, *The History of Wales* (London, 1788), 478, y gosododd Llywelyn ap Gruffudd ei lu cyn yr ymryson tyngedfennol olaf.

- 32 **Celyddon** Am engh. arall o *Gelyddon* yn gyfystyr â phegwn gogleddol eithaf, cf. GG.net 114.24–6 *O Frysto i Benfro bant, / O Aber teg, lle beirw ton, / Daugleddau hyd Gelyddon*, a cf. ymhellach GLMorg 66.25–6.
- 33 **Tref-wern** Gellir lleoli'r dreflan hon eto yn Elfael Is Mynydd, gw. WATU 215. Disgynyddion Gwilym ap Gwrwared ap Cuhelyn Fardd, sef hynafiaid Dafydd ap Gwilym, a drigai yn Nhref-wern yn Nanhyfer, gw. L. Dwinn HV: i, 163; GDG xxxii.
- ail Droea** Gw. 4.5n.
- 40 Cynghanedd groes o gyswllt neu *r* wreiddgoll.
- 43–4 **â'n unawr / ... i'r Farn** Cyffredin yw'r dymuniad am weld yr ymadawedig yn osgoi'r purdan yn llwyr neu yn aros yno am yr ysbaid leiaf, gw. E. Duffy, *The Stripping of the Altars* (Yale, 2005), pennod 10.
- 46 Cywirer darlenniad Peniarth MS. 67 *oed Jessv yn aed Jessv*. Copiwyd yr ymadrodd yn gywir yn Pen 99.
- 47 **Styffan** Nid y merthyr cyntaf oedd hwn (a'r sant a enwir yn 71.55n) ond un o ddisgynyddion Cadell, tywysog Powys, gw. LBS iv, 367–8. Dwy eglwys a gysegrwyd iddo, y naill nid nepell o Gaerfyrddin a'r llall ar lan ogleddol afon Gwy yng nghwmwd Elfael Is Mynydd.
- 55 **Hywel** Brawd Owain, gw. y nodyn brig.
- 56 Cf. 33.54 *Haul Lyn-nedd, hwyl wen iddi*.

45

Ni ellir bod yn gwbl sicr ynghylch y ddau a gyferchir yn y cywydd hwn. Ymddengys fod Gwilym a Siôn yn frodyr, ac yn feibion i Rys. Cysylltir y ddau yn y cywydd â chantref Elfael (ll. 16). Yr unig ddau frawd y gellir eu hadnabod yn y rhan hon o Gymru yw meibion Rhys ap Siôn ab Einion ap Hywel Fain, gw. WG1 524; WG2 1019. Yn Llanfair Llythyfnwg yng nghwmwd Llythyfnwg y cartrefai Rhys ap Siôn, sef y cwmwd sydd yn ffinio ag Elfael i gyfeiriad y gogledd, gw. WATU 314. Er bod y teulu hwn yn y lleoliad cywir nid oes modd esbonio'r cyfeiriadau at Wilym (ll. 11) a Morgant (ll. 13) yn foddhaol.

Nodir bod gan Rys dri mab: Gwilym, Siôn Fychan a Siôn Ddu. Y mae'n bosibl mai un o'r ddau Siôn hyn a gyferchir yn y cywydd. Ond gwelir hefyd fod brawd Gwilym mewn urddau eglwysig, ac y mae'n bosibl na fyddai ei enw wedi ei gofnodi yn y llyfrau achau.

1 **dau frodyr** Gw. 2.17n.

4 **deall** Gall gyfleu'r ystyron 'cymryd gafael yn, cydio yn, meddiannu', gw. GPC 908 a cf. DG.net 111.63–4 *Paham, eiddungam ddangos, / Na ddeail y naill y nos*.


- 7 **ail gŵr** Gw. 4.5n.
- 10 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll.
- 11–13 **Gwilym, / ... / ... rhyw Morgant** Ni ddigwydd yr enwau hyn o ddilyn yr ach o dad i dad. Gwraig Rhys ap Siôn oedd Tangwystl, merch Hywel ab Ieuan Goch ap Cadwgan. Gwraig gyntaf Hywel oedd Efa ferch Hywel ap Gwilym Goch, ac yr oedd ail wraig Hywel yn ferch i Forgan Awbrai Hen, ond trydedd wraig Morgant oedd mam Tangwystl, gw. WG1 796; WG2 1528.
- 11 **meirch gwelwon** Y mae hwn yn drosiad anarferol wrth ddisgrifio'r meibion. Rhaid wrth *gwelwon* i ateb gofynion y gynghanedd sain, ond efallai fod yr enw sydd yn ei ragflaenu wedi ei lygru. Gellid *seirch* 'arfwisg', gw. GPC 3214.
- 14 **trywyr** Gw. 2.17n.
- 15 **Elystan** Yr oedd Einion ap Hywel Fain yn briod ag un o ddisgynyddion Elystan Glodrydd.
- 17 Ailadroddir y ll. mewn cywydd arall, gw. 43.53. Am gyfeiriadau eraill at yr amod rhwng y bardd a'i noddwr, gw. 'Rhagymadrodd' tt. 29–30.
- 20 **llios** Ffurf amr. ar *lliaws* sydd yn cynnal yr odl yn y gynghanedd sain, gw. GPC 2174.
- 37 **coed hir** Bernir bod *coed tir* yn cyfleu sain yn hytrach nag ystyr yr ymadrodd, ac fe'i diwygiwyd yn *coed hir*.
- 40 **cynnal dig** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.
- 41 **cwystil** Anodd newid y gair heb amharu ar y gynghanedd. Dyfelir mai ffurf amr. ydyw ar *cwynsyllt*, *cwysyll* 'rhan o offer y gof gynt; ? teclyn i dorri rhigolau', gw. GPC 656.
- 42 **Gei Warwig** Fe'i henwir yn ddigon mynych gan y beirdd ond mewn dull anfanwl ran fynychaf. Cyfeiriodd Lewys Môn at ei nychdod wrth gyfarch noddwr a oedd yn glaf, gw. GLM IX.1–2, fel y gwnaeth Llywelyn ab y Moel mewn cywydd serch, gw. GSCyf 6.19–24. Tystia un o'i gywyddau fod Siôn ap Hywel yn gyfarwydd â'r chwedl amdano, gw. GSH 7.65–70.
- 45 **gŵyr ddeuair** Cadw cysefin gwrth. y f. 3 un.pres.myn. oedd yr arfer, gw. 5.36n a cf. ll. 40. Cedwid cysefin goddr. *gŵyr* (ac *adwen*), ond fe'i treiglid yn achlysurol hefyd, gw. Treigladau 210–11 a cf. 4.15 *Gŵyr Dduw ddydd y sydd ond saith*.
n wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 56, gw. ll. 10n.
- 47 **Bond ... bwyntio** Newidiwyd y gytsain galed ar ddechrau'r ddau air hyn er mwyn sicrhau bod y cymeriad llythrennol yn y cwpled yn gyflawn.
- 58 **dau lu nef** O ddilyn darlleniad Pen 100, rhaid fyddai dewis rhwng *dau*

+ *glyn*, neu *dau* + *llyn*, ac nid yw'r naill na'r llall yn gwbl ystyrllon. Diogelach, felly, yw diwygio yn *dau lu nef*, sef llu yr archangylion a llu yr angylion.

46

Dyma'r cywydd cyntaf o ddau a ganodd Hywel Dafï i Roser Fychan, Tretŵr (m. 1471). Ei dad oedd Syr Rhoser Fychan (m. 1415) ap Rhoser Hen ap Gwallter Sais ... Llywelyn ap Moreiddig Warwyn ap Drymbenog ap Maenyrch, gw. WG1 242–3. Mam Rhoser Fychan oedd Gwladus Gam, merch Dafydd Gam. Canodd y bardd gywydd marwnad iddi, gw. cerdd 19, ac yr oedd yn ymwelydd cyson yng nghartref ei brawd, Morgan, a'i ddisgynyddion yntau, gw. cerddi 20–7.

Disgynyddion Gwladus Gam: y Fychaniaid a Herbertiaid
(nodir y rhai a gyferchir â phrint trwm)



Cyfeirir yn y cywydd at dri mab *i'm pennaeth* yn llinell 21, a bernir mai tri mab Syr Rhoser Fychan (m. 1415) yw'r rhain. Rhoser Fychan, gwrthrych y cywydd hwn, oedd yr ieuengaf o'r tri—*Ti yw'r ieuaf o'r trywyr* (ll. 24). Ei frodyr hŷn oedd Watgyn Fychan a Thomas Fychan. Enwir y tri brawd yn y cywydd a ganodd Ieuan ap Hywel Swrddwal iddynt, gw. GHS cerdd 26. Watgyn a etifeddodd y cartref ym Mrodorddyn tra ymsefydlodd Tomas yn Hergest. Rhoser oedd y cyntaf o blith y Fychaniaid i fyw yn Nhretŵr, ac ymddengys iddo dderbyn y cartref yn rhodd gan ei lysfrawd, Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, sef mab Gwladus Gam o'i hail briodas â Syr Wiliam ap Tomas, a hynny tua 1450, gw. C.A.R. Radford and D.M. Robinson, *Tretower Court and Castle* (Cardiff, 1986), 10. Fe'i disgrifiwyd 'as the most prominent commoner in Wales', gw. *ib.* Bu iddo nifer o swyddi cyhoeddus yn ne Cymru ac yn ardal y gororau yn y pumdegau a'r chwedegau, gw. ByCy 940–1; R.A. Griffiths: PW i, 219–20; DNB² 56, 156–7. Cymerodd ran ym mrwydr Mortimer's Cross a chefnogai ei lysfrawd, Wiliam Herbert, wrth i hwnnw geisio gwastrodi cefnogwyr plaid Lancastr a dwyn Cymru o dan lywodraeth Edward IV. Ehangwyd cylch ei awdurdod pan benodwyd ef yn gwnstabl castell Aberteifi ym mis Chwefror 1470,

swydd a fu ym meddiant Wiliam Herbert. Canwyd ail gywydd Hywel Dafydd iddo yn dilyn ei urddo'n farchog, gw. cerdd 47. Y teitl a roddwyd yn CM 12 oedd *Cywydd i Syr Rosier*, ond gellir bod yn sicr mai mab Syr Rhoser (m. 1415) a gyferchir, a hynny cyn ei urddo'n farchog.

Awgrymodd D.J. Bowen, ar y llaw arall, mai mab Syr Rhoser Fychan (m. 1471) a gyferchir yma. Ym Mhorth-aml y trigai hwnnw, a Rhoser Fychan oedd ei enw fel ei dad o'i flaen. Os cywir hyn, anodd esbonio'r sylw yn llinell 24 *Ti yw'r ieuaf o'r trywyr* am mai ail fab ydoedd. Ar yr un pryd rhaid cydnabod mai chwithig gweld gwrthrych y cywydd, sef Rhoser Fychan (m. 1471) fel y bernir, yn cael ei gyfarch yn y trydydd person yn llinell 42 *Mae naw ohonaw ei hun* (er bod ganddo naw o feibion, pedwar yn gyfreithlon). Yr oedd gan Syr Tomas Fychan, mab hynaf Rhoser Fychan (m. 1471), fab o'r enw Rhoser, a rhaid ystyried y posibilrwydd mai cywydd iddo ef yw hwn. Unwaith eto, anodd esbonio'r ddwy linell *Ti yw'r ieuaf o'r trywyr* a *Mae naw ohonaw ei hun*. Rhoser oedd mab hynaf Tomas Fychan (y cyntaf o bedwar mab). Bu farw yn ddietyfedd a phriododd ei wraig weddw â'i ail frawd, Watgyn, gw. WG2 462. Ar sail llinellau 24 a 42 yn benodol y rhoddir y cywydd hwn i fab Syr Rhoser Fychan (m. 1415); gw. ymhellach linell 24n. Ni sonia Hywel Dafydd am ei wraig yn y ddau gywydd a ganodd iddo. Denis, merch Tomas ap Ffyllib Fychan, oedd ei wraig gyntaf, a gweddw Syr Rhisiart Grey, arglwydd Powys (m. 17 Rhagfyr 1466) oedd ei ail wraig, gw. ByCy 940–1. Y mae lle i gredu mai Siancyn ap Madog o'r Slwch oedd gŵr cyntaf Denis, gw. nodyn brig cerdd 40 a 40.7n.

Yn ogystal â'r ddau gywydd i Roser Fychan, canodd Hywel Dafydd saith cywydd i'w fab a'i etifedd, Tomas Fychan, gw. cerddi 48–55, ynghyd â thri chywydd i frawd hwnnw, Siôn Fychan, gw. cerddi 56–8. Ceir trafodaeth ar y canu i deulu Tretŵr yn NBBM 222–71, a cheir rhestr o'r cerddi i'r teulu yn *ib.* 728–30. Rhoddwyd cerdd 47 i Roser Fychan, mab Tomas Fychan, Hergest, a'i leoli yng Nghleirwy, ond nid oedd ef yn farchog. Ni thrafodwyd cerddi 48 a 53 sydd yn cyfarch Tomas Fychan, a barnwyd mai yn Nhretŵr yn hytrach nag yn y Slwch y bu'r ymryson rhwng Huw Cae Llwyd a Hywel Dafydd, gw. cerddi 39–40.

Yn un o'i gywyddau i Domas Fychan, cyfeiria Hywel Dafydd at linach frenhinol y Fychaniaid, gw. 48.49–50 *Blodeuyn o Gynfyn goed*, / *Barwn hengyff brenhingoed*. Fe'n hatgoffwyd gan D.J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r beirdd', YB XXIV (1998), 65, mai Gwladus Gam oedd y Gymraes gyntaf ers pedair cenhedlaeth i fod yn wraig penteulu ym Mrodorddyn am fod cyndeidiau Rhoser Fychan (m. 1415) wedi priodi â Saesnesau a arddelai gyfenwau megis Baskerville, Walbyf, Bredwarden a Devereux. Arwydd o statws a phwysigrwydd cyndeidiau hyn y Fychaniaid oedd priodasau Moreiddig Warwyn a'i dad, Drymbenog, â theluoedd a hanai o linach y tywysogion, a'r cysylltiadau hyn, yn hytrach na'r cysylltiadau Seisnig, a fawrygir gan y bardd yn ei gywyddau niferus i'r teulu. Gwraig gyntaf Drymbenog oedd

Gwenllian, merch Iestyn ap Gwrgan, tywysog Morgannwg, a Gwladus Ddu, merch Rhys ap Tewdwr oedd ei ail wraig. Ni wyddys pa un o'r ddwy wraig oedd mam Moreiddig. Priododd ef yn ei dro ag un o ferched gordderch (niferus!) yr Arglwydd Rhys, sef wŷr Rhys ap Tewdwr.

Ensynia Hywel Dafï iddo ddiweddef caledi neu drafferth o ryw fath, a hynny pan oedd yn gwasanaethu rhyw arglwyddi—Wiliam Herbert ac eraill, fe ddichon. *Ban fu dramgwydd f'arglwyddi / A'm rhoi i lawr o'm rhól i...* (llau. 17–18). Ni fanylir ar hyn ond ymddengys fod Rhoser Fychan wedi bod yn gefn amserol iddo.

1–3 **Maestr Roser ... / ... / ... Syr Roser** Y mab a'i dad.

3–4 **Arfer ... / Arfau** arver a ysgrifennwyd yn Pen 67 ar ddechrau'r ddwy l., ond geilw'r gynghanedd sain am *arfer* yn ll. 3 ac *arfau* yn ll. 4. Gall fod yma awgrym fod y bardd yn copïo'r cywydd, a bod ei lygad wedi crwydro at ddechrau ll. 3 wrth iddo gopïo ll. 4.

6 **gantun'** Gw. 19.60n.

7 **neidr fawr** Tair neidr o gylch gwddf tri phlentyn oedd arwyddlun Moreiddig, gw. DWH ii, 386–7 a'r arfbais uwchben cerdd 48 yn Peniarth 109. Fe'u crybwyllir yn rheolaidd yng nghanu Hywel Dafï i'r teulu, e.e. 47.44 *Coed o'r neidr cedyrn ydynt*, ac yng nghanu'r beirdd eraill.

13 **Caron** Sant o dras Gwyddelig oedd Caron neu Ciarán, a choffeir ei enw yn Nhregaron, ac yn Ffynnon Garon a Buarth Caron gerllaw, gw. LBS ii, 119–38, ond y mae'n bosibl fod traddodiadau am y sant ac am arwr brodorol wedi eu cyfuno. Cyd-destun milwrol sydd i'r cwpled hwn, fodd bynnag, ac er bod sant fel Derfel yn enwog am ei lewder, efallai nad y sant Caron sydd dan sylw, ond yn hytrach y gŵr *ny hanoed o lin brenhyned namyn o lin issel* a ymosododd ar wŷr Rhufain a meddiannu Ynys Prydain trwy rym arfau, gw. BD 65–7; WCD 106–7. Ni chafodd y bardd o Geredigion, Deio ab Ieuan Du, achlysur i gyfeirio ato, ond fe'i crybwyllir mewn sawl cerdd o waith Lewys Glyn Cothi. Y bardd hwnnw oedd y cyntaf i arfer yr e. lle *Tregaron*, a thrafodir tarddiad yr enw a'r traddodiadau am Garon gan K. Jankulak, 'The many-layered cult of St Caron of Tregaron', SC xli (2007), 103–16.

15 **ffrwyno Ffranc** Mewn awdl foliant y bernir i Hywel Swrdwal ei chanu yn y 1430au neu'r 1450au, awgrymir i Roser Fychan frwydro yn Ffrainc, ac o bosibl yn nhref Orliawns, gw. GHS 2.13–16.

21–6 **Y mab hynaf ... / ... / ... fy meist'r hynaf** Watgyn Fychan, Brodor-ddyn. Nid oes ar glawr yr un gerdd gan Hywel Dafï iddo ef, nac i'r ail frawd, Tomas Fychan, Hergest.

24 **yr ieua'f o'r trywyr** Gw. y nodyn brig lle y bernir mai Rhoser Fychan

(m. 1471), mab Syr Rhoser Fychan (m. 1415), a gyferchir. Ar y llaw arall barnai D.J. Bowen, 'Gwladus Gam a'r beirdd', YB XXIV (1998), 73–4, 78, mai cywydd i fab Rhoser Fychan (m. 1471) yw hwn. Yr oedd gan yr olaf fab o'r enw Rhoser a ymsefydlodd ym Mhorth-aml. A barnu wrth y rhestr yn WG2 461 ef oedd yr ail frawd ac nid y trydydd. Ac nid tri mab oedd gan Roser. Yn hytrach *Mae naw ohonaw ei hun* (ll. 42). Pe na buasai am dystiolaeth ll. 42 gellid dadlau yn fwy argyhoeddiadol mai mab Tomas Fychan ap Syr Rhoser Fychan (m. 1471) sydd dan sylw. Enwir saith o blant Tomas Fychan yn WG2 461, pedwar mab a thair merch. Canodd Lewys Glyn Cothi awdl i'w dri mab, sef Rhoser, Watgyn a Harri, gw. GLGC cerdd 131 (a sylwer mai Rhoser a enwir yn gyntaf yn yr awdl).

Awgryma'r cwpled fod y tri brawd ar dir y byw. Os felly canwyd y cywydd cyn 1456 pan laddwyd Watgyn Fychan yn Henffordd, gw. cerdd 23 yn GHS a'r drafodaeth ar y digwyddiad. Ar y llaw arall gall y cyfeiriad at yr haul yn ll. 37 awgrymu dyddiad yn ystod teyrnasiad Edward IV.

- 26 **henol** Dyfynnir o waith Guto'r Glyn a Lewys Glyn Cothi yn GPC 1853, a rhoddir i *henol* yr ystyron 'hen, henaidd; hen ddyn; ? hynafiad', ond ystyr lythrennol *hen* + *ôl* 'llwybr, cwrs' sydd yma, yn dilyn y cyfeiriad at *ôl y ddau ganol* ym mraich gyntaf y cwpled.
- 27 **bath** Prin yw'r enghrau. cynnar, ond 'math, teip, siort' yw'r ystyron sydd yn taro yma, gw. GPC² 601–2.
- 32 **Glyndyfrdwy** Owain Glyndŵr. Efallai fod Hywel Dafi yn ei enwi am fod cyswllt gwaed rhwng y tywysog a disgynyddion Moreiddig Warwyn. Arianwen, merch Moreiddig, oedd ail wraig Madog ap Maredudd, tywysog Powys (m. 1160). Disgynnai Owain Glyndŵr o Ruffudd Maelor, mab Madog, a brawd Owain Brogyntyn, gw. WG1 30; CLC² 549.
- 37 **myn yr haul** Llw. a cf. GG.net 9.17–18 *Myn yr haul, pe mor greulawn / Dug yn Iorc, digio a wnawn*. Gw. ll. 24n ond gthg. 19.41n.
- 38 *r wreiddgoll*.
- 39 **Cadell** Perthynai i linach tywysogion y Deheubarth, gw. 21.21n. Ei wŷr ef oedd Rhys ap Tewdwr, ac yr oedd yr Arglwydd Rhys yn wŷr iddo yntau, gw. y nodyn brig.
- 40 **marchog well** Ar y treiglâd i'r a.cmhr. mewn brawddeg neg., gw. 13.24n.
- 47 **hwde** Mabwysiadwyd y ffurf hon yn ll. 47 gan ddilyn darlleniad Pen 67, ond y mae'r gynghanedd yn galw am *hw dau* yn ll. 48. Gellid y naill neu'r llall yn ll. 50—y mae *hwde* yn rhoi cynghanedd groes a *hw dau* yn rhoi cynghanedd sain neu gynghanedd groes. A barnu wrth yr enghrau.

yn GPC 1929, *hwde* oedd y ffurf fwyaf cyffredin. Cyfosodir y ddwy ffurf yn 65.53–4 drachefn: *Hwde y bêl hyd y bych, / Hwdau finnau pan fynnych.*

- 49 **Olifer** Y mae mwy o gyfeiriadau yn y farddoniaeth at ei gydymaith, Rolant, nag ato ef, ond am rai cyfeiriadau gw. GGMD i, 3.130n. Mewn cywydd a ganodd Iolo Goch i ddiolch am gyllell, cyffelybir yr arf i Ddurendardd, cleddyf Rolant, ac i Hawd y Clŷr, cleddyf Olifer, gw. GIG XI.37–40. Enwir Rolant yn 77.34n. Rheolaidd yw'r ffurf ddiacen *Olifer*, cf. GLGC 65.43 *mal tŵr Olifer, mal tre Lwfens.*

Lles Lles ap Coel, un o frenhinoedd cynnar Prydain yn ôl Brut Sieffre o Fynwy, gw. BD 61–3; WCD 427–9. Cf. Guto'r Glyn wrth gyfarch y Brenin Edward IV, GG.net 29.51–2 *Wrth ddysg a chyfraith esgud / Lles ap Coel, Dyfnwal Moel Mud.*

- 51 **yr Arglwydd Rhys** Gw. y nodyn brig a ll. 39n. Yr oedd un arall o hynafiaid Rhoser Fychan yn briod ag un o ddisgynyddion yr Arglwydd Rhys. Gwraig Ieuan ap Hywel ap Seisyll oedd Gwladus, merch Ieuan ap Rhys Gryg ab yr Arglwydd Rhys, gw. WG1 787.

47

Tenau yw'r gyfeiriadaeth achyddol yn y cywydd hwn, ond ar sail y sylw fod gwrthrych y cywydd yn drydydd o blith tri brawd (llau. 45–6), gellir bod yn sicr mai trydydd mab Syr Rhoser Fychan (m. 1415) a gyferchir, er nad enwir y ddau fab arall. Cf. 46.23–4 *Tri o un waed yn troi'n wŷr, / Ti yw'r ieuaf o'r trywyr.*

Anodd bod yn gwbl sicr ynghylch dyddiad canu'r cywydd hwn. Gall y sôn am *Anwiredd fawr y Nordd faith* (ll. 22) awgrymu dyddiad yn dilyn brwydr Banbri yn 1469 pan laddwyd Tomas Fychan, brawd Rhoser, a Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, llysfrawd y ddau. Ar y llaw arall, y mae'r llinell agoriadol *Y gŵr rhwydd a gâr heddwch* yn cyfleu darlun o sefydlogrwydd a ategir yn llinellau 19–20 lle yr awgrymir bod trefn wedi disodli perygl a bygythiad: *Tir Edwart fu'r tair adwy; / Tri hyd y môr nid rhaid mwy.* Byddai dyddiad yn dilyn y cyrch yn erbyn Harlech yn 1468 (ll. 23) a dyrchafu Wiliam Herbert, llysfrawd Rhoser, yn iarll (ll. 47), yn gyson â'r hyn a awgrymir yn y cywydd.

- 3–4 **Syr ... / Roser** Ni wyddys pryd yn union yr urddwyd ef, gw. ByCy 940–1. Fe'i disgrifir yn ysgwier ar 7 Tachwedd 1460 pan benodwyd ef i swydd siedwr swydd Henffordd, gw. CFR 1452–1461, 292 a thrachefn ar 15 Tachwedd 1461 pan gafodd 'Grant for life to Roger Vaghan, esquire, of the offices of porter of Brenles castle and forester of Canterselly forest in the march of South Wales ... and of the offices of

- steward and receiver of the lordship of Canterselly, Penkelly, Alisaundrestoun and Llangoit in the march of Wales', gw. CPR 1452–1461, 646, ond yr oedd yn farchog erbyn 23 Mawrth 1465 pan gafodd feddiant ar diroedd yn arglwyddiaeth Gŵyr, gw. CPR 1461–1467, 426; CMG v, dogfen MCCXI. Nid rhaid tybio bod bwlch mawr o amser, felly, rhwng y cywydd hwn a'r cywydd blaenorol (cerdd 46).
- 4 **Roser, betruster Trystan** Digwydd yr un ll. yn union yn y cywydd a ganodd Ieuan ap Hywel Swardwal i Roser a'i ddau frawd, gw. GHS 26.20 (a'r cyfeiriad yn y nodiadau at y ll. hon o waith Hywel Dafi). Gall *petruster* gyfeirio naill ai at anian Trystan neu at yr effaith a gâi ar eraill, a chynigir yn *ib.* yr aralleiriad 'yn peri ansicrwydd fel Trystan' neu 'a chanddo ofal Trystan'.
- 7 **Syr Dafydd** Dafydd Gam, taid Syr Rhoser, gw. nodyn brig cerdd 46 a 19.18n (ar y traddodiad am ei urddo).
- 18 **Rhita Gawr** Ym Mrut Sieffre adroddir yr hanes am y cawr Rhita yn mynnu barf Arthur i gwblhau'r fantell a wnaethai o farfau brenhinoedd, gw. BD 170; WCD 555–6; hefyd C. Grooms, *The Giants of Wales Cewri Cymru* (Lampeter, 1993), 214–18. Rhestrir cyfeiriadau at Rita yn yr olaf gan Ruffudd Llwyd, Dafydd Nanmor, Guto'r Glyn, Tudur Penllyn a'i fab, Ieuan. Dau fardd arall a oedd yn gyfarwydd â'r hanes oedd Lewys Môn, gw. GLM IX.27–30, XLVIII.53–4, a Lewys Morgannwg, gw. GLMorg 65.62.
- 19 **tair adwy** Ymddengys mai yn 1468, yn dilyn y cyrch ar Harlech, y canwyd y cywydd, gw. ll. 23n. Cyfeiria Guto'r Glyn yn y cywydd a ganodd yn fuan wedi i Wiliam Herbert ddarostwng castell Harlech at y *Tri llu* a deithiodd ar hyd *Tair ffordd*, gw. GG.net 21.1–5. Ysyaeth, ni ellir bod yn gwbl sicr ynghylch arwyddocâd y ddau ymadrodd. Gallai *tair adwy* gyfeirio at arfordir Cymru yn y gogledd, y gorllewin a'r de. Dehongliad arall fyddai bod bygythiad i lywodraeth ac awdurdod Edward IV o dri chyfeiriad, sef gogledd Lloegr, Cymru a Ffrainc (er na chrybwyllir yr olaf yn y cywydd).
- 22 **y Nordd** Gw. 69.37n a'r cyfeiriad at lafur Wiliam Herbert yn ceisio gwastrodi gwŷr gogledd Lloegr yn 1462, yn fuan ar ôl coroni Edward yn frenin. Ond arddelai'r Cymry hen gasineb tuag at wŷr gogledd Lloegr, gw. GSCyf 10.57–8 *Lle dirffyrdd, lle diarffordd, / Lle'r nos ni thramwy llu'r Nordd*, ynghyd â'r cyfeiriadau yn y nodiadau.
- 23 **Gwynedd** Gallai gyfeirio at frwydr Twtil ar gyrion Caernarfon ar 16 Hydref 1461. Er mai gwŷr plaid Efrog a gariodd y dydd llwyddodd Siasbar Tudur i ddianc i Iwerddon, gw. WWR² 86. Y mae lle i gredu bod Wiliam Herbert wedi ei ddyrchafu yn iarll pan ganwyd y cywydd, a thebyg felly mai'r cyrch yn erbyn Harlech a ddisgrifir. Er nad yw'r bardd yn mynegi rhyw lawer o gydymdeimlad â gwŷr Gwynedd wrth

- gyfarch Wiliam Herbert yn dilyn cwmp y castell a darostyngiad cefnogwyr plaid Lancastr, gw. cerdd 69, herfeiddiol a haerllug yw'r ymffrost *Da i Wynedd fu d'eni* (ll. 33).
- 23–4 Cf. 26.8n, 69.65–6.
- 26 **dilachor** Ffurf amr. ar *dilachar* 'glew, gwrol, dewr', gw. GPC 1011. Rhediad y frawddeg yw 'Ofni [a wna] mil o hafnau môr ar ddau lechwedd [w̄r] gwrol'.
- r wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 46 (ond gw. ib.n).*
- 32 **rhyw Godwin** Syr Wiliam ap Tomas, a'i ddisgynyddion, ond Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, neu'r *iarll hir* (ll. 47) yn benodol, gw. WG1 425. Olrheiniai Syr Wiliam ap Tomas ei ach hyd at Godwin, iarll Cernyw, gŵr y credid ei fod yn byw yn y 12g., gw. WG1 422. Ar arwyddocâd yr enw, gw. D.F. Evans, 'William Herbert of Raglan (d. 1469): family history and personal identity', GwalchCG 83–101.
- 35 **Powys bant** Cf. y defnydd o *pant* yn GG.net 114.24 *O Frysto i Benfro bant*. Sillaf dalgron sydd yn *Powys* ond lleddf ydyw yn 83.18 *Pwys hen Bowys hwn bioedd*.
- 40 *n wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 41.*
- 42 **a gadwyno gwaed** Cadw cysefin gwrth. 3 un.pres.dib. y f. oedd yr arfer mewn Cym.C., gw. Treigladau 187, 213.
- Einion** Einion Sais, sef un o hynafiaid Dafydd Gam, gw. WG1 104; nodyn brig cerdd 20 a 2.5n.
- 43 **Cadrod** Cadrod Calchfynydd a restrir gyda Bonedd Gwŷr y Gogledd, gw. WCD 79–80; tabl 10 yn WG1. Cf. yr hyn a ddywed Gwilym Ddu o Arfon am Syr Gruffudd Llwyd o Dregarnedd, GGDT 6.73 *Myfyr giried ced Cadrawd—Calchfynydd*. Yr oedd yn briod ag un o ferched Brychan.
- 44 **coed o'r neidr** Gw. 46.7n.
- 45 **y trydydd wyd** Rhoser oedd trydydd mab Syr Rhoser Fychan, gw. nodyn brig cerdd 46, ac fe'i huniaethir â'r drydedd neidr ar arfbais y teulu.
- 46 **Prydyn** Prydain, gw. GPC 2919, ond gall fod yn gyfystyr â'r Alban hefyd, gw. GLGC (Mynegai).
- Cynghanedd groes o gyswllt neu *r wreiddgoll*.
- 47 **iarll hir** Y mae tystiolaeth fod Rhisiart Herbert, Colbrwg, brawd Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, yn w̄r eithriadol o dal; cf. tystiolaeth ei gyfoeswr o fardd Ieuan Deulwyn, CH 31.1–2 *Y war gron orau o Gred, / Herbart hir, byr y torred*. Yr oedd atgof am hyn yn fyw yn yr 16g. pan gyfarchai Siôn Ceri ei fab Rhisiart, gw. GSC 21.22 *Mawr yw'ch corff o'r marchog hir*. Ymddengys fod Wiliam Herbert, yntau, yn w̄r tal, a cf. 69.7n *Iarll hir y deellir hwn*. Dywed Lewys Glyn Cothi yn

ei farwnad i Wladus Gam, gw. GLGC 110.13–14 *Y mae'i meibion hirion hi / i roi gwleddau'n arglwyddi*, a geilw Guto'r Glyn Herbert yn *Herbart hirbost*, ac ychwanega *Yn y cwysel y gelwir / Ym mhob peth gyda'r mab hir*, gw. GG.net 23.41, 43–4.

49 **bid dynion** Y mae'r gynghanedd yn mynnu'r gysefin yma, ac yn mynnu treigladau yn ll. 52 *Bid Dduw lle bo dy ddiwedd*. Treiglo'r goddrych yn dilyn *bid* gorchmynnol oedd yr arfer, gw. Treigladau 314–16.

50 Disgwylid i'r gytsain *d* feddal yn *byd* galedu o dan ddylanwad *rh* yn *rhoch*.

48

k: i *Syr Roger Fychan* yw hwn yn ôl LIGC 3056D, ac ailadroddir hyn yn LIGC 5273D, LIGC Mân Adnau 1206B a LIGC 16129D, ond er bod y bardd yn enwi Syr Rhoser ar fwy nag un achlysur, Tomas sydd yn denu'r sylw pennaf. Gellir bod yn bur sicr mai mab Syr Rhoser Fychan (m. 1471) yw hwn, ac ymddengys fod y cywydd yn dathlu ei ddyfod i oed gŵr, gw. llinell 10 *aeth un yn ŵr*. Enwir y tad *Roser Fychan* (ll. 6) a'r taid *Syr Roser* (ll. 8) yn adran agoriadol y cywydd, a gallai hyn awgrymu nad yw'r tad wedi ei urddo eto. Fodd bynnag, tystia'r ferf sydd yn y presennol yn llinell 45 *Syr Roser y sy rasol* ei fod wedi ei urddo pan ganwyd y cywydd, a rhagwelir y caiff Tomas, ei etifedd, yr un anrhydedd maes o law *Weithian darogan, dewr wyf, / Syr at Tomas yr ytwyf* (llau. 39–40). Dylid nodi mai Tomas oedd enw etifedd Watgyn Fychan, Brodorddyn, brawd Syr Rhoser Fychan, ac yr oedd gan y brawd arall, Tomas Fychan, Hergest, yntau, fab o'r enw Tomas.

Diogelwyd saith o gywyddau Hywel Dafî i Domas Fychan, gw. cerddi 48–55. Canwyd cerddi 48–52 cyn iddo gael ei urddo.

Hynodrwydd y cywydd yw'r modd y cynhelir un ddelwedd trwyddo—peth na wna'r bardd yn fynych iawn. Cyffelybir y teulu i berllan, a sonnir am wreiddiau a changhennau, am goed afalau a gellyg, ac am y blodau a'r ffrwythau ar y coed hynny.

Diogelwyd tri chopi o'r cywydd yn llaw Wmffre Dafis, sef Brog I.2, LIGC 3056D a Llŷt 118. Collwyd rhannau o'r testun yn Llŷt 118 oherwydd traul ar frig ac ar waelod y dalennau ond yr oedd y cywydd yn gyfan pan gofnodwyd ef. Y mae'r tri chopi yn cyfateb bron yn union er bod mân wahaniaethau rhwng Brog I.2 ar y naill law a'r ddau arall. Testun yn llaw Wmffre Dafis oedd cysail J 101, ac ar sail darlleniad llinell 52, er enghraifft, ymddengys mai Brog I.2 a gopiwyd. Dilynyr testun Wmffre Dafis yn weddol ffyddlon yn y tair llawysgrif arall, er bod olion llygru i'w gweld ym mhob un. Collwyd dau gwpled ynghyd ag ail fraich cwpled arall yn nhestun LIGC 16129D ond yr un yw trefn y llinellau.

9 **gwely** Yng ngoleuni'r pwyslais ar dir a gwreiddiau a thyfiant, y mae'r

- ystyr ‘uned neu gylch o berthnasau yn dal tir, gwehelyth, teulu, tylwyth’ yn addas, gw. GPC 1628–30, ond y plant sydd yn ffrwyth cydorwedd yw pwnc y cwpled.
- 10 **wyth neu naw** Rhestrir naw o feibion Syr Rhoser Fychan yn WG2 461, er mai meibion gordderchwragedd oedd dau ohonynt.
- 13 Y mae’r gynghanedd o blaid cyplysu *tew* wrth *gras*, ond efallai mai *aur tew* sydd yn rhoi’r ystyr orau.
- 14 **tymyr** Ffurf amr. ar *tymyr* ‘anian, natur, tueddfryd’, gw. GPC 3675, yn hytrach na *tymyr* ‘tiriogaeth, gwlad, cyfoeth, eiddo’, *ib.* 3678.
- 15 **efydd** ‘Metel rhuddgoch cyfansoddedig gan mwyaf o gopr ac alcam’, gw. GPC 1173. Y mae’n amlwg mai deunydd eilradd ydyw yng ngolwg y bardd, o’i gyfosod ag *aur* yn y cwpled blaenorol.
- 19 y **draen** Cynodiadau negyddol sydd yn perthyn i drosiad y drain fel arfer, cf. 46.12 *Derwen yw ‘mysg y drain mân*, ond portread cadarnhaol sydd yma. Y mae *draen* a *drain* yn ffurfiau cyfochrog, gw. GPC 1080. Geilw’r gynghanedd sain am *draen* yma, ond digwydd *drain* yn safle’r brifodl yn 22.28.
- 21 **tros deuparth** Ar y calediad, gw. 7.40n.
- 22 **tros eilwaith** Chwithig yw’r adf. sydd yn dilyn yr ardd., ond cf. GDL1 62.12 *Y trois innau tros unwaith*. Gellid diwygio yn *tros seilwaith* neu gellid mabwysiadu ffurf gyfansawdd ar y gair *trosol*: *Trosolwaith Cantre Selyf*.
- 23 **gwyddiwn** Ffurf l un.amhff.myn. *gwybod*, gw. G 726; GMW 148. Mabwysiadwyd y darlleniad hwn yma ac yn ll. 35 gan ddilyn *gwyddiai*, gw. 17.22n. Er bod testun LIGC 16129D yn llwgr ymddengys mai ymgais i gyfleu *gwyddiwn* sydd yn y naill l. a’r llall. Digwydd yr un ll. yn union yn y cywydd a ganodd Siôn ap Ffelpod i Hywel Dafï ac a ddiogelwyd yn llaw Hywel, gw. 63.31.
- 24 **Tre’rtŵr** Yn oes ei dad dechreuwyd cyfres o newidiadau helaeth i’r cartref yn Nhretŵr, gw. C.A.R. Radford and D.M. Robinson, *Tretower Court and Castle* (Cardiff, 1986), 10–11.
- 28 **dau ewythr a’i dad** Dau frawd hŷn ei dad, Syr Rhoser Fychan, sef Watgyn Fychan, Brodorodyn, a Thomas Fychan, Hergest. Gallai’r cwpled hwn awgrymu bod y tri brawd yn fyw ar y pryd ond tua 1465 yr urddwyd Rhoser yn farchog, gw. 47.3–4n. Lladdwyd ei frawd Watgyn Fychan yn 1456, gw. nodyn brig cerdd 47.
Rhaid cyfrif *eithr* yn air deusill (neu *ewythr* yn dair sillaf).
- 29 **onnen** ‘Gwaywffon’ yw’r ystyr arferol, gw. GPC 2649, ond efallai fod y gair yn fwys a bod y bardd yn cyfeirio hefyd at goeden onnen mewn cywydd lle y cynhelir ac y datblygir y syniad o’r teulu fel perllan.

- 35 **gwyddiwn** Gw. ll. 23n.
- 36 **Cai Hir** Mab Cynyr Ceinfarfog. Fe'i cysylltir ag Arthur yn y ffynonellau Cym. hynaf, gw. TYP³ 308–11. Pur gyffredin yw'r enw Cai Hir yng nghanu'r beirdd, gw. GLGC 33.15 *Cai Hir o dir Pencarreg*; GLMorg 10.35n *Mawrgwmp yw'r cwmp marw Cai Hir*.
- 40 Rhaid derbyn bod y gair gwan *at* yn safle'r orffwysfa, gw. 1.23n a 'Cynghanedd' tt. 42–3. Nid yw'r gynghanedd yn caniatáu diwygio *Syr at Tomas* yn *Syra Tomas*, er bod y darlleniad yn un deniadol. Ar *syre*, *syra* 'syr', gw. GPC 3397.
- 43 **diwynnog** Diwygiwyd *dywnnig* y llsgrau. Digwydd *gwynnog* 'gwyntog, ystormus' yn 30.4 *Oer a gwynnog yw'r gwaniwyn*. Y mae *diwynnog* felly yn gyfystyr â 'hynaws, tyner, hawddgar'. Posibilrwydd arall, sydd yn gyson â delweddaeth y cywydd, yw mai *gwynnin*, *gwynning*, *gwnning* yw'r bôn, 'yr haenen deneuwen feddal sydd rhwng rhisgl a rhuddin pren', gw. GPC 1778. O Feibl 1588 y daw'r engh. gynharaf. Os yr ail, yr ystyron 'cadarn, grymus' a gyfleir.
- 47 **deincodyn** Darlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau. yw *eidodyn*, ond ni restrir y gair hwnnw yn GPC. Diwygiwyd yn *deincodyn* 'cerrig neu hadau mân ffrwythau, bywyn y cyfryw ffrwythau sydd yn cynnwys y cerrig neu'r hadau', gw. GPC 923, a cf. GLD 9.11–12 *Cledd wyd yn cloi y ddeudir*, / *Cadw ynn oll, ddeincodyn ir*. Y mae'r trosiad yn un addas iawn yn y cyd-destun. Yn y ll. nesaf cyffelybir Tomas i *gostart* 'afal o gryn faint', gw. GPC 569.
- 48 **Iestyn** Gw. nodyn brig cerdd 46.
- 49 **Cynfyn** Cyswllt anuniongyrchol, braidd, yw hwn, a hynny trwy Iestyn ap Gwrgan. Ar ochr Syr Rhoser Fychan, gallai Drymbenog ap Maenyrch ymgysylltu ag Iestyn trwy ei briodas â Gwenllïan, ei ferch, gw. nodyn brig cerdd 46. Ar ochr Gwladus Gam, disgynnai hi o Einion Sais, a'i wraig ef oedd Lleucu, merch Hywel ap Maredudd ap Caradog ab Iestyn, gw. WG1 550. Priododd Iestyn ap Gwrgan yn ei dro â Denis, merch Bleddyn ap Cynfyn, a Nest, merch Cynfyn, oedd gwraig Gwrgan, gw. WG1 28, 542.
- 51 **Dafydd Gam** Gw. nodyn brig cerdd 46. Ceir yr un ll. gan Lewys Môn a chan Fathau Brwmffild, gw. GLM XXXVIII.51; GMBr 6.35.
- 52 **teyrnaidd** Y mae'r a. yn goleddfu *coed* yn ll. 51.
- 55 **y'i caid** Cyfeiria'r rhagenw at wrthrych y cywydd, ond gellid y'u *caid* am fod y gair *coed* yn cael ei ailadrodd yn llau. 49, 50, 51, 54.
- 56 *r* berfeddgoll neu gamosodiad *c.r = r.c*. Gellid cywiro'r ll. trwy ddiwygio *cyff* yn *cyrff*.

Un ffaith a ddatgelir am wrthrych y moliant, sef ei fod yn un o ddisgynyddion Moreiddig (ll. 5). Cynigir mai mab hynaf Syr Rhoser Fychan yw'r Tomas a gyferchir, sef gwrthrych cerddi 48–55. Rhestrwyd y cywydd ymhlith y darnau a ganwyd i Domas Fychan, Tretŵr, yn NBBM 728–30. Hyd y gwyddys ni chanodd Hywel Dafï i Domas Fychan, Hergest, brawd Syr Rhoser Fychan, ac y mae'n annhebygol mai cywydd iddo ef yw hwn. Ni chanodd y bardd ychwaith i Watgyn Fychan, Brodorddyn, brawd arall Syr Rhoser Fychan, ac er bod ganddo yntau fab o'r enw Tomas, bernir nad iddo ef y canwyd y cywydd hwn.

Yng nghanu Hywel Dafï i Domas Fychan a'i frawd Siôn Fychan yr ymglywir gliriaf â thensiynau blynyddoedd Rhyfeloedd y Rhos. Nid oes modd dyddio'r cerddi ac nid oes modd deall pa ddigwyddiadau yn union sydd wrth wraidd sylwadau'r bardd ond y mae'r ansicrwydd a'r anniddigrwydd fel pe bai'n dwysáu o gywydd i gywydd. Ni chyfeirir at farwolaeth Rhoser Fychan yn y cywydd hwn ac nid oes sôn ychwaith am elyniaeth rhwng y Cymry a'r Saeson fel a geir yng ngherddi 50 a 55 yn fwyaf arbennig. Fodd bynnag, ensynnir bod gwrthdaro rhwng y Cymry a'i gilydd: *Ymdynnu bu Gymru i gyd; / Ni bu 'mdynnu ond ennyd* (llau. 13–14), cyfeiriad o bosibl at y gwrthdaro rhwng cefnogwyr pleidiau Efrog a Lancast'r a ddaeth i ben ar un ystyr pan syrthiodd castell Harlech yn 1468. Os felly canwyd y cywydd cyn dienyddio Rhoser Fychan yn 1471.

- 1 **ceiliog** Tri cheiliog oedd arwydd herodrol Einion Sais, sef un o hynafiaid Tomas Fychan trwy Wladus Gam, ei nain o du ei dad, gw. DWH ii, 141.

Ar yr olwg gyntaf ymddengys fod yr odl yn y gynghanedd lusg yn un anghyflawn *-og = -ogI*, ond efallai mai'r gyfatebiaeth a fwriadwyd oedd *-og gl- = -ogI*.

- 2 **neidr** Gw. 46.7n.

godre'i fedd Anodd bod yn gwbl sicr ynghylch ystyr y gair sydd yn safle'r brifodl. Nid yw *godre + medd* yn ystyrion a thebycach mai *godre + bedd* 'man claddu' sydd yma. Ymddengys hynny hefyd yn chwithig am fod Tomas ei hun ar dir y byw, ond efallai mai cyfeirio at gofeb deuluol a wneir a honno yn cynnwys arwydd herodrol, sef y neidr. Os felly, y mae *main* yn air mwys a all gyfeirio naill ai at ffurf denau y neidr neu at wneuthuriad y gofeb.

- 4 **Hymr** *Teir Prif Auon Ynys Prydein: Temys, a Hafren, a H6myr*, gw. TYP³ 246. Yma cynrychiola Hymr begwn gogleddol yr ynys.

- 6 **wyth brenhinllwyth** Cyfeirid yn draddodiadol at bum brenhinllwyth Cymru, gw. Pen 74, 109 *llyma henwaw pvmp brenhinllwyth Kymrv Nid*

*amgen norhai hynn yngwynedd Gruff ap Kynan ymhowys Bleddyn ap Kynfyn yneheubarth Rys ap Tewdwr y morganwg Kyriadog ap iestin rwnng gwy a hafren Elesdan glodrvdd; hefyd P.C. Bartrum, 'Pedigrees of the Welsh tribal patriarchs', Cylchg LIGC xiii (1963-4), 125. Câl'r beirdd daliad ychwanegol pe medrent ddangos bod eu noddwyr yn perthyn i un o'r llwythau hyn, gw. T. Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan', B v (1929-30), 32, *Tevlwyr, o rann achev bonhedhigion, o gwyr ebh dhwyn ach y gwr a'r wraic at vn or pypm brenhinlhwyth, nyd amgen at Gr ap Cynan, Rhys ap Tewdwr, Bledhyn ap Cynbhyn, Iestyn ap Gwrgan, ac Elystan Glodrydh; dwy geinawc yw ei rodd, ony dhwc onyd vn geiniawc*. Y mae'n bosibl mai rhif 'perfffaith' yw wyth yma, ond rhestrir tri llwyth arall yn HW 765-771 a ddisgrifir yn 'lesser dynasties', ac sydd yn rhoi cyfanswm o wyth. Yr ardaloedd a gysylltir â'r tri hyn yw i. Arwystli a Chydwain; ii. Senghennydd; iii. Gwaunllŵg. Cf. sylw Hywel Swrdwal wrth gyfarch Tomas Fychan: gw. GHS 3.29-30 *Dy wyth ach dithau uwch oedd / Obry'n henwau brenhinoedd*.*

- 7 **tir Ieuan** I Fihangel y cysegrwyd eglwys Cwm-du nid nepell o Dretwâr, ond i Ieuan y cysegrwyd yr eglwys enwocaf yn yr ardal, sef Eglwys Ioan yn Aberhonddu. Dewis arall fyddai uniaethu'r Ieuan hwn ag un o hynafiaid Tomas Fychan o dad i dad, sef Ieuan ap Hywel ap Seisyll, gw. WG1 242-3. Am gyfeiriad arall ato, gw. 55.1n.
- 7-8 **Awyr wyd o dir Ieuan, / Môr ... neu dân** Cyffelybir Tomas Fychan i'r pedair elfen, gw. 13.26-8n a cf. 55.1-2.
- 8 **Ifor** Efallai mai cyfeiriad achyddol sydd yma, fel yn ll. 7, ac, o bosibl yn 56.17 *Aig o Ifor a gyfyd* mewn cywydd i Siôn Fychan, brawd Tomas Fychan. Cf. hefyd GHS 3.25-6 mewn cywydd i Domas Fychan *Efa wŷr llin Ifor llwyd / O brydiau ba wŷr ydwyd*. Gwraig gyntaf Tomas Fychan oedd Cecily, merch Morgan ap Siancyn ap Ffyllib ap Morgan ap Llywelyn, gw. WG1 200-1; WG2 394. Yr oedd Morgan ap Llywelyn yn frawd i Ifor Hael. Yn GHS 3.25n dadleuir nad Ifor Hael sydd dan sylw ac olrheinir cyfres o gysylltiadau teuluol amgen. Ar y llaw arall gellid dehongli'r enw mewn cyd-destun hanesyddol a'i uniaethu naill ai ag Ifor ap Meurig (Ifor Bach), arglwydd Senghennydd, a ymosododd ar gastell Caerdydd yn 1158 (gw. HW 507-8; CLC² 362), neu ag Ifor ab Idnerth ap Cadwgan a wynebodd y Normaniaid yn Aber-llech yn 1096, gyda chymorth ei frawd Gruffudd, a'u trechu, gw. HW 406-7.
- 11 **a dro'r bêr** 'Y sawl sy'n ymddwyn yn afreolus neu yn anystywallt'. **barth** 'Llawr, daear, llawr cegin, aelwyd', gw. GPC 262. I ail hanner y 15g. y perthyn yr enghrau. cynharaf a ddyfynnir.
- 19 Ar y gyfatebiaeth *nt = nd*, gw. 4.55n.
- 21 **Caerdyf** Bu Syr Rhoser Fychan yn ganghellor yng Nghaerdydd yng ngwasanaeth iarll Warwig, ac y mae'n bosibl mai ei fab, Tomas, a fu'n

- grwner Caerdydd, gw. ByCy 940–1.
- 23 **ystyra** Rhoddir i *styrio*, *stirio* o'r S. '(to) stir' yr ystyron 'ymysgwyd, brysiog' yn GPC 3351. I'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf a restrir.
- 25 **nid ai i Loegr** Ceir enghrau. o hepgor yr ardd. a threiglo'r cyrchfan, gw. 7.37n, ond y mae hyd y ll. yn galw am yr ardd. yma.
- 25–6 Pe bai Tomas yn ymosod ar Loegr, gwnâi hynny yn agored a thrwy gyrchu'r prif borth i'r wlad honno, sef dinas Caer. Ni fynnai dramwyo i Loegr yn llechwraidd ar hyd llwybrau diarffordd.
- 29 **pumwlad** Gall gynrychioli Cymru, sef y diriogaeth o dan awdurdod y pum brenhinllwyth, gw. ll. 6n a cf. GLM LXIX.69 *Pwy amlaf yn y pumwlad?* Disgwyliyd y gysefin yn dilyn y rhifol *pump*, gw. Treigladau 134, ond treigliyd yn achlysurol eiriau yn dechrau â *gw-*, gw. *ib.* 136–7. Gthg. 71.51 *Myfyriwn, gwyliwn bum gweli—Jesus.*
- heb** Ffurf 3 un.pres.myn. *hebu* 'dweud', gw. GPC 1830; GMW 154. Y goddrych dealledig yw *darogan* (ll. 27).
- 36 **lludd cwmpo** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.
- 38 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 44.
- 43 **capten i'r brenin** Gallai *capten i'r brenin* fod yn oddr. y f. *gwyl*. Os felly, rhaid atalnodi'n wahanol *Ni'th wyl capten i'r brenin*. Ond tebycach mai sangiad sydd yn disgrifio Tomas Fychan sydd yma. Bu'n gwasanaethu yn un o ysgwieriaid corff y Brenin Edward IV, gw. DNB² 56, 156–7. Ychwanegir yn y cwpled nesaf ei fod yn ateb gofynion y swydd neu'r *comhisiwn* yn llawer gwell na'r aelodau eraill *ffeilst* a gwenieithus sydd *am gorff hwn* [= y brenin].
- 46 Cyfatebiaeth $n = m$, neu *n* wreiddgoll ac *m* ganolgoll. Gw. ymhellach 3.27n a 'Cynghanedd' tt. 41–2, 44.
- 47 **o caewyd** Ar gadw'r gysefin yn dilyn y cys. *o* ['os'], gw. 11.53n.
- 53 **gwnaetham** Ffurf 1 ll.grff. *gwneud*, gw. G 696; GMW 130, a cf. 108.55 *Yma y gwnaetham amod lle y cadarnheir y ffurf gan y gynghanedd lusc.* Ar un achlysur y digwydd *gwnaethom* yn y canu, gw. 86.15 *Dau frawdriaeth a wnaethom.* Cf. hefyd y ffurfiau *gwyddam* (54.33n), *cawsam* (54.53n).
- 56 **maedd** Ffurf 2 un.grch. y f. *maeddu*. Y mae'r ddwy ystyr a roddir yn GPC 2304 yn taro yma, sef i. 'curo; cosbi, poenydio'; ii. 'gorchfygu, trechu', ond efallai mai'r gyntaf sydd fwyaf addas.

Cywydd arall i Domas Fychan, mab Syr Rhoser Fychan, Tretŵr. Yr unig beth y gellir bod yn sicr yn ei gylch yw mai yn ystod teyrnasiad Edward IV

y'i canwyd (ll. 40). Yn wahanol i'r gerdd flaenorol cyfleir drwgdeimlad a chasineb at y Saeson megis yn y cerddi a ganwyd i Siôn Fychan, brawd Tomas Fychan, gw. cerddi 56–8: *Meistr, o Sais, i'n mwstro sydd* (ll. 4). Awgrymir nad oedd llwyddiant Tomas Fychan wrth fodd gwŷr siroedd y gororau a bod ymgais aflwyddiannus wedi ei gwneud i'w ddal a'i erlyn: *Sorri oedd iawn os rhydd wyd* (ll. 22). Bygythir y rhai yn Lloegr a fydd yn ceisio ei wrthwynebu: *Llundain fawr llawn o dân fo* (ll. 24).

- 1 **Bleddyn** Disgynnai Tomas Fychan o Faenyrch trwy ei daid, Syr Rhoser Fychan (m. 1415) a thrwy ei nain, Gwladus Gam, ond disgynyddion Drymbenog ap Maenyrch oedd y Fychaniaid, tra disgynnai Dafydd Gam o Fleddyn ap Maenyrch.
- 4 **o Sais** Cyfeiriadau dilornus a gelyniaethus a geir yn y canu i'r Fychaniaid pan sonnir am y Saeson. Bydd Tomas Fychan yn mwstro'r Cymry os bydd y Saeson yn bygwth. Nid yw *Meistr o Sais i'n mwstro sydd* yn gyson â chywair y canu i'r Fychaniaid.
- 6–7 **Tewdwr / ... Iestyn** Gw. nodyn brig cerdd 46. Gwenllïan, merch Iestyn ap Gwrgan, brenin teyrnas Morgannwg, oedd gwraig gyntaf Drymbenog ap Maenyrch. Merch Rhys ap Tewdwr oedd ei ail wraig, gw. WG1 242. Ni nodir pwy oedd mam y plant.
- 7 **Bleddyn** Bleddyn ap Cynfyn, gw. 48.49n.
- 10 Cynghanedd groes o gyswllt neu *r wreiddgoll*, a thrachefn yn ll. 46.
- 11–12 **Eli ... / ... Enog** Cyfosodwyd y ddau gymeriad ar ddau achlysur arall, gw. 5.17–18n, 32.15–16.
- 17 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 28, 36, 38, 48, 52, 53 (ond gw. *ib.n*). Bai crych a llyfn; gw. 'Cynghanedd' td. 42.
- 18 Cyfatebiaeth $n = m$ neu *n wreiddgoll*; gw. ymhellach 3.27n a 'Cynghanedd' tt. 41–2, 44.
- 21 **sir Gaer** Swydd Gaer yn Lloegr o bosibl, a cf. 49.25–6n. Ond bu i Syr Rhoser Fychan, tad Tomas Fychan, ran flaenllaw yn y gwaith o wastrodi'r rhai a fu'n creu helyntion yn sir Gaerfyrddin yn 1465, gw. DNB² 56, 156–7. Fodd bynnag, tebyg mai yn ystod y 1470au, yn dilyn marwolaeth Syr Rhoser Fychan, y canwyd y cywydd.
- 23 **Bwystr** Ai gwall am *Wstr*, sef 'Worcester'? Ni restrir e. lle sydd yn cyfateb i *Bwystr* yn A.D. Mills, *A Dictionary of English Place-Names* (Oxford, 1991); ond efallai mai bwriad y bardd oedd cyfeirio at Bicester. Rhyw ddeuddeg milltir sydd, fel yr hed y frân, rhwng y lle hwn a Banbri.
- 25 **bilau** Rhestrir y ffurfiau ll. *bilau* a *biliau* yn GPC² 640–1. Newidiwyd yn *biliau* yn Pen 99.

- 29 **ar lled** Gw. 14.20n.
- 30 **dan gesail** Awgrymir bod llyfrau sydd yn cynnwys hanesion am gampau Tomas Fychan yn cael eu cludo *dan gesail* gan negeswyr.
- 42 **goddaith** ‘Tân mawr, coelcerth; yn ffig. a diarhebol mewn hen bryddiaeth am angerdd a llid rhyfelwyr a dinistr rhyfel’, gw. GPC 1425.
- 45 **neidr** Gw. 46.7n.
- 46 **piner** Gw. GPC 2807 d.g. *piner*². Yr ystyr gyntaf a roddir yw ‘dilledyn, gwisg’. Os felly cyfeirir at roi *nod Brenin Edward* (ll. 40) ar wisg Tomas Fychan. Ail ystyr a roddir yw ‘stad, cyflwr, picil, cyfyng gyngor’. I’r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf ond y mae’r ystyr ‘picil’ yn addas, ac yn cyfleu y modd y bydd *naid ... y neidr* (ll. 45) yn goresgyn unrhyw helynt neu unrhyw fygythiad.
- 47 **breinol** Pen 67 *breinol*, ond digwydd *breiniol* yn 12.29 *Ych Siôn, bâr union breiniol*. Rhestrir *breiniol* a *breinol* ‘yn meddu ar hawl neu ragor-fraint’ yn GPC 317. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. ‘Rhagymadrodd’ td. 38.
- 48 **dug** Rhisiart, brawd Edward IV, o bosibl, cf. 26.14n.
- 49–50 Cyfleir syniad nid annhebyg gan Ieuan Gethin: GIGeth 8.41–2 *Ar Dduw er a weddiâis, / Ni chawn Siôn mwy no chan Sais*; cf. hefyd GGGr 2.45 *Saith a’m casaodd fal Sais*.
- 53 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll.

Dyma’r cyntaf mewn cyfres o dri chywydd ymryson rhwng Hywel Dafï a Bedo Brwynllys. Diogelwyd y cywydd hwn ynghyd ag ateb y Bedo (cerdd 52) yn yr un llawysgrifau yn union, ac y mae ateb y Bedo yn dilyn cywydd Hywel Dafï ym mhob un, a cf. yr ymryson rhwng Hywel Dafï a Huw Cae Llwyd yng nghartref Tomas ap Siancyn yn y Slwch, cerddi 39–40. Yn Pen 55 yn unig y diogelwyd y trydydd cywydd o waith Hywel Dafï sydd yn ateb Bedo Brwynllys (cerdd 53). Rhagflaenir yr ymosodiad ar Fedo yn y cywydd cyntaf gan foliant i benteulu Tretwâr, sef Tomas ap Syr Rhoser Fychan. Tystia’r cyfarchiad y *Meistr Tomas* (ll. 5) nad oedd wedi ei urddo pan ganwyd y cywydd cyntaf, a rhaid amseru dechrau’r ymryson ar ôl 1471 pan fu farw Syr Rhoser Fychan. Egyr Hywel Dafï’r trydydd cywydd trwy gyfarch *Syr Tomas* (53.1). Y mae’n bosibl fod ysbaïd o amser wedi mynd heibio rhwng ateb y Bedo ac ail gywydd Hywel Dafï, ond y mae’r ffaith fod Taliesin yn cael ei enwi yn ateb y Bedo ac yng nghywydd nesaf Hywel Dafï yn awgrymu’n glir fod y trydydd cywydd i’w gyfrif yn rhan o’r ymryson, a bod y tri yn perthyn yn fras i’r un cyfnod.

Yn y cywydd cyntaf hwn dychenir y bardd Bedo Brwynllys am ei fod yn ceisio hawlio blaenoriaeth yn Nhretŵr. Tystia Hywel iddo ymweld â'r cartref dros gyfnod o naw mlynedd, ac iddo gael ei groesawu yn barchus. Yr oedd y Bedo, yntau, yn ymwelydd cyson, ac yn ddoeth ddigon, bodlonai ar ildio'r lle blaenaf iddo (llau. 25–6). Wedi absenoldeb o ddwy flynedd daw y Bedo i'r llys ac fe'i rhoddir i eistedd *uwchlaw'r beirdd a chlêr* eraill (ll. 29). Cydnebydd Hywel Dafî, a'i dafod yn ei foch, fod hynny yn briodol, nid ar gyfrif rhagoriaeth awen y Bedo, ond am ei fod yn ŵr o gryn faintioli (llau. 33–4). Nid yw Hywel Dafî yn fodlon derbyn y sefyllfa a rhagwêl ymgiprys ffyrnig rhyngddynt (llau. 39–40). Pwysa, felly, ar Syr Tomas i gael gwared ar y Bedo er mwyn sicrhau heddwch a chytgord. Caiff y Bedo fynd i unrhyw le cyhyd â bod Hywel Dafî yn cael y lle blaenaf yn Nhretŵr.

Ni ddisgwyliid sylwebaeth fanwl ar yrfa Tomas ac ar densiynau'r oes yn y gyfres hon o gywyddau dychan yn wahanol i gerddi 49–50 (gw. y nodyn brig), ond ceir un awgrym o anghytuno a gelyniaeth, a hynny o fewn cylch cydnabod a chefnogwyr Tomas. Fe'i rhybuddir i fod yn wyliadwrus ac i beidio ag ymddiried yn ormodol ynddynt: *Mogel sy i'th gwysel o'th gas* (ll. 6). Ond efallai mai'r Bedo a gyhuddir o gynnig cyngor annoeth i Domas Fychan, cf. 53.47.

Y mae'r cywydd hwn, ynghyd ag ateb y Bedo, yn llaw Hywel Dafî yn Pen 67. Diogelwyd copi cynnar yn llaw copiwr X71 (gw. RepMW) yn Pen 54 ond ni chofnodwyd yr amrywiadau am fod y testun mewn math o law fer: braich gyntaf y cwpledi yn unig a ddiogelwyd, er bod rhannau o'r ail fraich wedi eu cofnodi ar dro. At hyn cwtogwyd geiriau ac ymadroddion fel mai anodd deall bob tro beth yn union y bwriedid ei gyfleu. Yn ll. 16, er enghraifft, *rac coredd rei kwr* sydd yn cynrychioli *Rhag gorwedd rhai cywirion*. Fodd bynnag, cofnodwyd rhan o bob cwpled, ac y mae'r drefn yn dilyn trefn Pen 67.

Y mae trefn y cywydd yn gwbl wahanol mewn pedair llawysgrif y mae cyswllt clòs rhyngddynt, sef Brog I.2, Llst 118, J 101 a Bangor (Mos) 9. Y mae'r fersiwn hwn hefyd yn fyrrach, ac nid yw'n cynnwys llinellau 15–16, 21–2, 45–6, 51–2. Dechrau'r cywydd yn unig a ddiogelwyd yn Pen 152 sydd yn llaw Robert Vaughan (ac mewn copi yn LIGC 428C), am fod dalen yn eisiau, ond yr un drefn sydd yn ei destun yntau. Nid Pen 99 oedd ei ffynhonnell ef y tro hwn felly. Collwyd rhannau o'r testun ar waelod tudalen 182 a brig tudalen 183 yn Llst 118. Cofnodwyd pedair o linellau'r cywydd yn Llst 55, 154, sef llyfr nodiadau Siôn Dafydd Rhys.

Un nodwedd anarferol ar grefft y cywydd yw amllder y cynganeddion croes o gyswllt. Y mae 20% o holl linellau'r cywydd yn perthyn i'r dosbarth hwn, a 32% o blith yr holl linellau croes. Yn rhyfedd iawn, ailadroddir hyn yn ateb Bedo Brwynllys.

1 Cf. GDEp 6.5 *Llwyth dy dad yn had Noe hen*.

- 2 **Iorwerth** Iorwerth Drwyndwn o bosibl am fod y bardd yn ei enwi yn 84.68 *Iorwerth Drwyndwn yw hwn ei hunan*. Pwysleisiwyd cysylltiadau syberw y Fychaniaid yn y cywyddau a ganwyd gan Hywel Dafï, gw. nodyn brig cerdd 46. Eto, nid oedd cyswllt amlwg rhwng y Fychaniaid ac Iorwerth, mab Owain Gwynedd a thad Llywelyn Fawr. Awgryma ei enw fod rhyw nam corfforol arno, ond ef a etifeddodd gwmwd Nanconwy a chastell Dolwyddelan, gw. WG1 445; HW 550; J. Davies: HC 123.
- Urien** Cyfarchodd Hywel Dafï sawl teulu a ystyriai Urien yn gyndad, ond nid oedd cyswllt amlwg rhwng y Fychaniaid a'r teuluoedd hynny.
- 10 **dalio ci pan ddêl cof** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.dib., gw. 47.42n. Tybed a oedd chwedl yn hysbys gynt am hela ci a hwnnw'n cuddio mewn ogof?
- 11–12 *Nid ennill un ... bwynt arall yw'r gystrawen*.
- 13 *n wreiddgoll, a thrachefn yn llau*. 17, 18, 19, 23, 32, 56.
- 15 **eli** Gellid e.p., a cf. 5.17n, ond tebyg mai ailadrodd y trosiad sydd yn ll. 13 a wneir.
- 18 **palf** Pen 67 *ni da r bal*, ond yn ei gopi ef ychwanegodd John Davies *balf* ar ochr y ddalen, a dyma ddarlleniad y llsgrau. eraill, gan gynnwys Brog I.2 a Llŷt 118 sydd yn llaw Wmffre Dafis. Dyfynnir y ll. yn GPC 2670 d.g. *pâl* 'offeryn ar gyfer palu neu gloddio', ond y mae *palf* 'llaw' yn fwy ystyrion, gw. *ib.* 2673.
- 20 **Rhodri** Mab Merfyn Frych. Olynodd ei dad yn frenin Gwynedd yn 844. Erbyn diwedd ei oes yr oedd wedi meddiannu tair o brif deyrnas-oedd Cymru, a rhannwyd y rhain rhwng ei feibion, gw. CLC² 642; WCD 558. Ei ddisgynyddion, trwy ei fab Cadell, oedd yr Arglwydd Rhys a Rhys ap Tewdwr o linach Deheubarth, gw. WG1 tabl 42 a nodyn brig cerdd 46.
- 31 Pen 54 *ny bydd in ol on bodd ni*.
- 34 **drws ar Gaer Dro** Cyffelybir y Bedo ar gyfrif maint ei gorff i'r porth a amddiffynnai ddinas Tro rhag gwarchae'r Groegiaid.
- 37 **nid aing** Pen 67 *nid aing*, Pen 54 *nyd enc*. Nid *ainc*, *aing* 'trachwant, blys, dymuniad' sydd yma, gw. GPC² 172, ond ffurf 3 un.pres.myn. y f. *genni* 'cael ei gynnwys', gw. G 528 lle y dyfynnir y ll.; hefyd J. Lloyd-Jones, 'eing, enghit', B xi (1941–4), 128–9; GMW 152–3; GPC 1380; cf. GG.net 96.63 *Ni wn dyn ni ain i'w dai*; TA XX.116 *Am na ain d'aur mewn un dwrn*. Awgrymir yn betrus yn GPC 1380 y gall *enni* fod yn ffurf gysefin; esboniai hynny y geiryn negyddol *nid*. Myn Hywel Dafï nad oes lle i'r ddau ohonynt yn neupen y sach, sef yn y neuadd. Gall y disgrifiad *deufras* awgrymu bod y ddau fardd cyn dewed â'i gilydd, a bod y naill, o bosibl, mor drachwantus â'r llall.

Am engh. arall o odl gudd mewn cynghanedd lusk, gw. 37.19n.

- 37–8 Dihareb ryngwladol sydd yn rhan o'r prif gasgliad diarhebion yn Llyfr Coch Hergest, gw. DLICH rhif 816 (a'r nodiadau).
- 41 **gennwch** A thrachefn yn ll. 47. Ffurf Cym. C. ar yr ardd. *gan*, gw. GMW 60, ond achosodd y ffurf beth ansicrwydd i'r copïwyr.
cannwr Felly yn Pen 67, ond o dan *canwr* 'cantor' y rhestrir y ll. yn GPC 419. Arferir ffurf l. yr enw *gŵr* yn gyson yn y canu yn dilyn rhai rhifolion, gw. 2.17n, ond yr un. sydd yma.
- 42 **nithio** 'Gwahanu grawn oddi wrth us', gw. GPC 2584–5, ond cyffelybid y weithred o nithio i weithgarwch bardd yn llunio caniadau crefftus, gw. GLM LXXXIX.33 *Nithio cerdd o'n iaith y'i cad*; GSC 45.33–4 *Nithio'i gerdd a wnaeth i gyd, / Gwenith yno gwnaeth ennyd*. Gw. ymhellach sylwadau F.G. Payne, "Cwysau o foliant cyson", *Llenor*, xxvi (1947), 21–2.
- 44 **aur ... arian** Awgryma Hywel Dafï wrth ei noddwr ei fod ef (*aur*) yn rhagori ar y Bedo (*arian*). Yng ngoleuni'r cwpled cynt lle y mynegir parch Tomas Fychan at awen y Bedo er bod ei ymddygiad yn anghyd-naws â'i swydd, gellir cynnig ail ddehongliad, sef bod y Bedo wedi ei gynysgaeddu â rhinweddau arbennig (*aur*—ei awen) ond ei fod hefyd yn chwannog i ymddwyn yn drachwantus (*arian*—ei anian).
- 47 **cennad** Yr ystyron 'caniatâd, cydsyniad, rhyddid, trwydded' sydd yn taro orau, gw. GPC 464.
- 51 **cynnwys** 'Trigfa; caniatâd; derbyniad, croeso', gw. GPC 797.
- 52 **erlid** Ni restrwyd *yrldid*, sef yr hyn a gofnodwyd yn Pen 67, yn amr. ar *erlid* yn GPC 1235.

Dyma ateb Bedo Brwynllys i gyhuddiadau Hywel Dafï yng ngherdd 51. Ar ôl canmol Tomas Fychan trwy gyfeirio at ei ach fonheddig a'i ddoniau fel ymladdwr, cyhudda'r Bedo Hywel o ymddwyn yn anghwrtais tuag at ymwelydd o fardd. Myn ei fod yn mynnu'r lle blaenaf yn llys Tomas Fychan, boed hynny trwy fod yn gyfrwys neu trwy arfer geiriau melys. Dim ond y sawl sydd yn y lle mwyaf di-nod ar ben isaf y bwrdd a all deimlo'n gysurus am fod Hywel yn greadur mor eiddigeddus. Trwy fod yn flaenaf caiff Hywel, yn ôl y Bedo, ei ddigoni â bwyd a diod, ac yr oedd maint ei gorff yn dangos pa mor drachwantus ydoedd. Ni chyfeirir yn yr ymryson at arferion clera Bedo Brwynllys ond a barnu wrth y cerddi sydd ar glawr, gw. MFGLI 57–66, ymwelai â Hergest yn fwy aml nag â Thretŵr. Diogelwyd tair cerdd o'r eiddo i Watgyn Fychan, Hergest, cefnder Tomas Fychan; cyfeiria at y cartref hefyd yn y cywydd 'Y bar fal unmab Urien', gw. Brog

I.2, 463^r *dinas yw dy annedd / dwy iaith dan i do a wedd / y llwybr ni chaiff lle heibiaw / rhag ystryd o hergest draw.*

Diogelwyd ateb Bedo Brwynllys yn yr un llawysgrifau yn union ac eithrio Pen 152, ond collwyd y ddalen a oedd yn cynnwys y rhan fwyaf o'r cywydd cyntaf yn Pen 152, ynghyd ag ateb y Bedo yn ôl pob tebyg. Fel yn achos cywydd Hywel Dafi, y mae trefn y cwpledi yn wahanol yn y ddau destun sydd yn llaw Wmffre Dafis, ac mewn dwy ffynhonnell arall sydd yn rhannu darlenniadau cyffredin. Y mae'r cywydd yn gyfan ac eithrio un cwpled. Er bod Bangor (Mos) 9 yn dilyn trefn Wmffre Dafis, y mae yma rai darlenniadau cywirach ochr yn ochr â darlenniadau llwgr. Ni chofnodwyd amrywiadau Pen 54 sydd yn llaw X71 am fod yr orgraff a'r modd y rhannwyd y geiriau yn dra mympwyol. Y mae'r cywydd yn gyfan ac yn dilyn trefn a darlenniadau Pen 67. Yn wahanol i'r cywydd cyntaf, cofnodwyd y cywydd yn ei gryswth nes cyrraedd y diwedd. Er mwyn iddo allu cywasgu diwedd y cywydd ar y ddalen olaf, hepgorodd ail fraich pedwar o'r cwpledi, sef llinellau 44, 46, 50 a 52. Cofnodwyd dwy o linellau'r cywydd gan Siôn Dafydd Rhys yn Llst 55, 155.

Cynghanedd: croes 43 ll. (76%), traws 6 ll. (11%), sain 4 ll. (7%), llusg 3 ll. (6%). Y mae 20% o linellau cywydd cyntaf yr ymryson o waith Hywel Dafi yn cynnwys cynganeddion croes o gyswllt, a'r un yn union yw'r ganran yn ateb Bedo Brwynllys, gw. nodyn brig cerdd 51. Y mae'r groes o gyswllt yn cyfrif am 37% o'r holl linellau croes yn y cywydd hwn.

- 2 **Einion** Einion Sais, sef un o hynafiaid Dafydd Gam, gw. nodyn brig cerdd 20 a 2.5n.
- 3 **gwinau** 'Browngoch, rhuddgoch, eurfrown, castanlliw', &c., gw. GPC 1662, ond glas yw'r lliw a gysylltir â thair neidr Moreiddig, gw. 54.59n. Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 34, 36, 44.
- 7 **fiswr** 'Blaen symudol helm a ddiogelai'r wyneb'. Ceir y ffurfiau *fiswr* a *miswr* yn GPC 1270, 2466, ond o dan y flaenaf y dyfynnir y cwpled.
- 12 **bwyall** Ymddenygs mai prin yw'r cyfeiriadau yn y farddoniaeth at yr arf hwn, gw. J. Day, ' "Arms of stone upon my grave": weapons in the poetry of Guto'r Glyn', GwalchCG 274–6.
mab well Ar dreiglo'r a.c.mhr. yn dilyn eg. mewn cymal neg., gw. 13.24n.
- 17 **grŵn** Ymddengys fod John Davies yn Pen 99 yn deall *grwn* 'cefn neu drum o dir mewn cae', gw. GPC 1538, ond *grŵn* 'griddfan', gw. *ib.*, sydd yn cynnig yr ystyr orau yng nghyd-destun yr ymryson rhwng y ddau fardd.
- 20 **naddwr** Arferid *naddu* a *naddwr* wrth ddisgrifio gweithgarwch a chrefft

- y bardd, e.e. GLMorg 93.33–4 *Awen fu'r awch yn ei fron / Yn naddu cynganeddion*; IGE² LVI.65–6 *Cyd bych, drafn uniawnwych draidd, / Naddwr cerdd awenyddaidd ...*
- 21–2 **Ystiwart ... / Yw** Dehonglir yw yn ll. 22 yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *bod* [= 'ydyw'], ond nid annichon fod yr ymadrodd *Ystiwart Yw* yn cael ei drychu. Ym mhlwyf Llanfihangel Cwm Du yn Ystrad Yw y mae Tretŵr, gw. WATU 120. Os felly gellid aralleirio 'Stiwart Tretŵr yn Ystrad Yw'. Awgrymir yn RepWM (y cofnod ar Pen 67) y dylid dehongli'r cyfeiriad yn llythrennol, ond y mae hefyd yn ddichonadwy fod y Bedo yn cyffelybu Hywel Dafï i stiward ar gyfrif ei ddull o geisio rheoli pawb a phopeth yng nghartref Tomas Fychan. Swydd y stiward oedd 'rheoli materion domestig tŷ (brenhinol, &c.); un sydd yn gweinyddu eiddo megis ystâd dros ei gyflogwr; swyddog sydd yn gweinyddu dros yr arglwydd mewn cwrt lît; rhaglaw, dirprwy', gw. GPC 3334.
- 29 Cynghanedd groes o gyswllt neu *r wreiddgoll*.
- 31 **creso** *Croeso* yw'r ffurf a restrir yn GPC 607 er mai *creso* sydd yn y rhan fwyaf o'r enghrau. a ddyfynnir. Ond rhestrir *greso* a *graesio* yn *ib.* 1529.
- 32 **ar Dro** Gellid *ar dro* 'yn troi, yn cwmpasu', gw. GPC 3602–3, ond tebycach fod y Bedo yn dwyn i gof sylw a wnaeth Hywel Dafï yn ei gywydd ef. Dychanodd Hywel y Bedo ar gyfrif ei faint, gan honni yn 51.33–4 *Mae o led yn y Bedo / A gaeai'r drws ar Gaer Dro*. Awgryma'r Bedo yn awr fod Hywel Dafï megis un o filwyr Caer Droea, a lle'r oeddynt hwy yn amddiffyn y ddinas rhag ymosodiadau'r Groegiaid y mae ef yn ceisio cadw ei gyd-fardd draw o lys Tomas Fychan.
- 33 **y pen pres** Pen a feddai ar alluoedd goruwchnaturiol oedd hwn, gw. TA III.13–14n *Prinsipal ffydd, Ddafydd, oedd ef, / Pen pres pob cyffes y caf* ac ymhellach GLM XII.7n lle y trafodir arwyddocâd y *pen bras / bràs*.
- Taliesin** Fe'i henwir eto yng nghywydd nesaf yr ymryson yn 53.33. Am fod Taliesin a'r pen pres yn cael eu crybwyll ar yr un gwynt, efallai mai'r cymeriad chwedlonol a feddai ar ddoniau hudol yw hwn yn hytrach na'r bardd a ganodd i Urien Rheged a'i fab Owain, gw. CLC² 694–5.
- 34 **gŵr ... aur ei fin** Ai Edern Dafod Aur, gw. CLC² 210? Cyffelybir Tudur Aled iddo yn y farwnad a ganodd Siôn ap Hywel, gw. GSH 11.47–8 *Dull Edyrn, deuwell ydoedd, / Dafod Aur, a'i dyfiad oedd*.
- 35 **gwrاندaw** Cywasgiad o'r ffurf *gwarando* yw *gwrاندaw*, gw. GPC 1699. Nid yw hyd y ll. yn caniatáu mabwysiadu [*g*]warاندaw Pen 67.
- 36 **oni châi lyn** Y mae'r llsgrau. i gyd, gan gynnwys Pen 54, o blaid *oni*

châi lin, ond rhannwyd y gair olaf yn Pen 67 *ony chai li n*. Ar *llin* ‘llinach, tylwyth’, gw. GPC 2180–1. Ar wŷr o statws uchel yn unig y gwrendy Hywel Dafï yn ôl Bedo Brwynllys. Yng ngoleuni’r cwpled sydd yn dilyn, a’r sôn am foddi, diwygiwyd *llin* yn *llyn*.

Ensynnir mai dim ond os bydd yn yfed ac yn meddwi y bydd Hywel Dafï yn gwranddo ar unrhyw un arall; cf. y modd y cysylltir y syniad o yfed gwin a boddi yn yr ymryson rhwng Llywelyn ap Gutun a Guto’r Glyn yn GG.net cerddi 65a, 65.

43–4 **llwynog ... / Yn fêl** Myn y Bedo fod Hywel Dafï yn gyfrwys fel y llwynog, ond gŵyr hefyd sut y mae sicrhau ffafr ei noddwyr trwy arfer geiriau melys a gwenieithus.

51–4 Yn y ddau gwpled olaf ceir esboniad y Bedo ar ymddygiad Hywel. Y mae *hyd ei ganol*, sef maint ei fola, yn dangos yn glir pam y myn weld cefn y Bedo a sicrhau’r lle blaenaf. Os caiff y lle iddo ef ei hun ni fydd rhaid rhannu’r bwyd a’r ddiodydd â neb arall. Ar ôl sylweddoli hyn, tystia’r Bedo mai ei ddymuniad ef fyddai osgoi’r *nod y bu*, sef tewychu yn eithafol fel y gwnaethai ei gyd-fardd. Er bod y naill fardd yn canmol y llall ar gyfrif ei awen, ceir cryn dipyn o dynnu coes hefyd wrth i’r naill awgrymu bod y llall yn anghyffredin o dew.

53

Canwyd y cywydd hwn i Domas Fychan, Tretŵr, ond ceir yma ddychan hefyd i’r bardd Bedo Brwynllys. Bernir, felly, fod hwn yn ddilyniant i’r ymryson rhwng y ddau fardd, er nad yr un pwnc yn union a drafodir. Asgwrn y gynnen yng nghywydd cyntaf Hywel Dafï (cerdd 51) oedd fod y Bedo wedi dod i Dretŵr ac wedi mynnu’r lle blaenaf er na welwyd ef yn y cartref er cryn ysbaid cyn hynny. Yn ei ateb (cerdd 52) cyhuddodd y Bedo Hywel Dafï o ymddwyn yn anfoneddigaidd ac yn anraslon tuag ato, ac o wneud popeth yn ei allu i gael y flaenoriaeth yng nghartref Tomas Fychan. Trachwant y Bedo sydd yn cythruddo Hywel Dafï y tro hwn. Fe’i cyhudda o fynnu mwy na’r hyn sydd yn ddyledus iddo o arian a gwisgoedd *Brwynllys ... / A fyn o’i rwys fwy no’i ran* (llau. 9–10), *Mae’n chwennych mwy no channwr* (ll. 12). At hyn, awgrymir ei fod yn eiddigeddus o’r rhoddion a gaiff eraill a’i fod yn argyhoeddedig eu bod hwy yn cael mwy nag ef: *Efô a wyl ym fwy waith* (ll. 38). Codir mater arall hefyd. Dywed Hywel fod y Bedo yn gwibio o’r naill gartref i’r llall yn hytrach na bodloni ar aros yn un lle. Nid yw’n dangos teyrngarwch at ei noddwyr a diflanna cyn gynted ag y caiff eu rhoddion: *Mae sôn dynion amdanaw / Yma na thrig mwy no thraw* (llau. 29–30). Cofir mai amharodrwydd Hywel i adael cartref Wiliam Herbert yn Rhaglan a ysbardunodd un o’r ddau ymryson rhwng Hywel Dafï a Guto’r Glyn (cerddi 67–8).

Gwelir bod Tomas Fychan wedi ei ddyrchafu'n farchog erbyn y trydydd cywydd yn yr ymryson, ond ar sail un cyfeiriad penodol yn llinell 33, mae'n debygol fod y tri darn wedi eu canu o fewn cyfnod cymharol fyr. Urddwyd Tomas Fychan yn farchog o Urdd y Badd, a hynny ar achlysur dyrchafu Edward, mab y Brenin Edward IV, yn dywysog Cymru, gw. W.A. Shaw, *The Knights of England* (2 vols., London, 1971), 136–7, ond tebyg mai Tomas Fychan arall oedd hwn, gŵr a fu'n amlwg iawn yn llys y brenin rhwng y 1450au a'r 1480au, gw. DNB² 56, 203. Yr oedd Tomas Fychan, Tretŵr, 'the king's servant ... one of the knights of the body' wedi ei urddo'n farchog erbyn mis Mawrth 1484 pan benodwyd ef yn stiward arglwyddiaeth Brycheiniog, gw. CPR 1476–1485, 384. Nid oedd wedi ei urddo ym mis Hydref 1480 pan ymddiriedwyd i'w ofal diroedd yn arglwyddiaeth Gŵyr, gw. CPR 1476–1485, 222, nac erbyn 5 Mehefin 1483, gw. CMG v, 1721–2. Ar sail y dystiolaeth hon awgryma W.R.B. Robinson, 'Knighted Welsh landowners, 1485–1558: a provisional list', Cylchg HC 13 (1986–7), 287, mai rhwng 5 Mehefin 1483 a 4 Mawrth 1484 y daeth yr anrhydedd hwn i'w ran.

Diogelwyd y ddau gywydd ymryson cyntaf yn llaw Hywel Dafi yn Pen 67, ac mewn sawl ffynhonnell arall. Mewn un copi gan law X71 yn unig y ceir y trydydd cywydd, sef Pen 55. Collwyd rhannau o sawl llinell am fod yr inc wedi llwydo. Copiwyd rhannau o gerdd 52 gan yr un llaw yn Pen 54.

5–6 A barnu wrth orgraff Pen 55, gellid *tri* ar ddechrau braich gyntaf y cwpled a *tair* ar ddechrau'r ail, ond anodd cynnig darlleniad ystyrllon trwy fabwysiadu'r ddau air hyn.

6 **seintwar** Diwygiwyd *sein tarw* y llsg. am fod y gynghanedd yn mynnu *nt* o dan yr acen. Un o nodweddion y testun yn Pen 55 yw'r modd y cyplysyr llythrennau sydd yn perthyn i un gair wrth air arall. Dyfynnir enghrau. o waith Lewys Glyn Cothi yn GPC 3213 d.g. *seintwar*, *sentwar* 'noddfa, lloches'.

Chwe sillaf yn y ll.

7 **neidr** Gw. 46.7n.

9 **mab** Yn y cywydd cyntaf dywed Hywel fod parch yn ddyledus iddo ar gyfrif ei oedran, gw. 51.21–2, ac wrth ymateb awgryma'r Bedo ei fod yn edrych yn hŷn nag ydyw, gw. 52.50 *Mae'n edrych mwy no'i oedran*. Efallai fod y disgrifiad *mab* yma'n ffordd o bwysleisio'r bwlch mewn blynyddoedd rhwng y ddau fardd.

10 **rhwys** Cynigir yn betrus yn GPC 3120 y gall fod yn ffurf amr. ar *rhwysg* 'rhodres'. Gwedda'r ystyr honno yn burion yma.

11 Dychenir maint y Bedo yn y cywydd cyntaf, gw. 51.34n.

14 Wyth sillaf yn y ll.

- 16 **melfed** Y ffurf a arferir fynychaf yw *felfed*, gw. ‘Geirfa’.
- 17 **puchan** Y mae’r gynghanedd lusg yn mynnu’r ffurf hon. Ni restrir *puchan* yn GPC, a gallai fod naill ai’n ffurf amr. ar y f. *puch(i)o* ‘ewyllsio, chwennyech’, neu’n eg. *puch* ‘dymuniad, dyhead’ + olddodiad bachigyn *-an*, gw. GPC 2926. Cf. y ffurfiau *puchiant*, *puchant* ‘dymuniad’ yn *ib*.
- 18 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 31, 46.
- 25 **eistedd** ‘Y Bedo’ yw goddr. dealedig y f.
- 27 **Gwynedd** Nid oes tystiolaeth fod Bedo Brwynlllys wedi bod yn canu yng Ngwynedd. Bardd serch ydoedd yn anad dim, gw. CSTB cerddi XII–XXVII. Ceir arolwg o’i ganu moliant yn A.C. Lake, ‘Bedo Brwynlllys, ei noddwyr a’i gynefin’, *Dwned*, 20 (2014), 51–63.
- câr arall** Nid yw’r gair olaf ond un yn eglur, a gellid naill ai *gar all neu gan all*. Derbyniwyd y cyntaf a diwygio *all* yn *arall* er mwyn sicrhau bod yr hyd yn rheolaidd a’r odl yn un ddiacen.
- 32 Cynghanedd groes o gyswllt neu *r wreiddgoll*.
- 33 **hanes Taliesin** Ceir yma adlais o gywydd Bedo Brwynlllys am iddo awgrymu na châi Taliesin fawr o barch gan Hywel Dafï, gw. 52.33–6. Gall *hanes Taliesin* gyfeirio naill ai at enwogrwydd y bardd neu at y chwedl amdano. Y mae *hanes* hefyd yn gyfystyr â ‘dirgelwch, cyfrinach’, gw. GPC 1820 a cf. 98.38.
- 38 **mwyaith** Ar y treigladd yn dilyn yr a.cmhr., gw. 11.8n.
- 39 Ni ellir bod yn gwbl sicr ynghylch ystyr y ll. hon. Y mae pob llythyren yn glir ac eithrio *a wr* (? *a wn* ? *am*). Y mae wyth sillaf yn y ll. ac nid atebir *n*, *d*, *m*. Collwyd rhannau o’r ddau gwpled sydd yn dilyn ac nid yw’r neges yn eglur o ganlyniad.
- 40 **cant gŵyl** Ar arfer y ffurf *cant* yn hytrach na *can* yn y safle hwn, gw. 8.59n.
- Chwe sillaf yn y ll.
- 41 Gellid cyflenwi’r bwlech yn y ll. drwy fabwysiadu’r ymadrodd *nis dywedwn*, cf. 55.51 *Astudiais*, *nis dywedaf*.
- 45 **cân deulais** Ar gadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.
- 49 **Bwrw dwfr yn Aberdyfi** Perthyn naws dihareb i’r sylw hwn ynghylch gwneud rhywbeth ofer, megis yn 68.27–8 *Ni chyrchaf ddŵr dros afon / Er un saig o’r ynys hon*. Cf. GSCyf 3.41–4 *Nid nes ... / ... cael bun ... / Nag ydoedd gael i’n ael ni / Ddwfr mewn gogr o Ddyfi*.
- 55 **brain Owain** Gw. 60.16–18n.
- 56 Digwydd y ll. hon mewn cywydd a ganodd Bedo Brwynlllys i Risiart Herbert, Colbrwg, gw. CH 29.4.

54

Ar fwy nag un achlysur dywed Hywel Dafï iddo dderbyn gŵn yn rhodd gan noddwr megis Gwilym Dew ap Hywel o'r Argoed, gw. 2.29–32 *Tair rhodd a fwriodd efô / Ym unŵyl pan fûm yno: / Bwrw gŵn a bara gwenith / A nobl o aur yn ei blith*. Trachwant Huw Cae Llwyd am ynau sydd wrth wraidd yr ymryson a fu rhwng y ddau fardd yng nghartref Tomas ap Siancyn yn y Slwch, wedyn, gw. cerddi 39–40, ac awgryma hyn fod gŵn yn rhodd a brisid yn fawr. Diolch am ŵn yn rhodd a wneir yn y cywydd hwn, a moli'r gŵr a'i rhoes, sef Tomas Fychan, Tretŵr. Rhoddwyd y pennawd *Cywydd i Syr Thomas ap Rosier Fychan o Ferwig* yn CM 12, ond camddeallodd David Ellis l. 26 *Cyleninig o'r Ferwig fawr*. I'r Ferwig wrth aber afon Teifi y daeth y llong a oedd yn cludo'r dilledyn a dderbyniodd y bardd. O Iwerddon y daeth, ac yno y lluniwyd hi, yn ôl tystiolaeth llinell 29.

Ar ôl cyfarch Syr Tomas Fychan a'i foli yn rhan gyntaf y cywydd, dyfelir y gŵn yn yr ail ran. Pwysleisir pa mor lliwgar ydoedd a pha mor gain oedd ei wneuthuriad. Trewir nodyn ysgafn pan awgryma'r bardd y bydd bellach yn denu sylw gwragedd priod a merched ifanc (llau. 51–2). Fe'i cyffelyba ei hun i baun a hefyd i'r pab yn ei holl rwysg (llau. 48–50).

Y mae'r cywydd yn un o naw a ganwyd cyn tua 1500 naill ai i ofyn neu i ddiolch am fantell a wnaed yn Iwerddon, a thrafodir y canu hwn gan A.M. Jones, "‘Val y gwydel am y ffalling’": beirdd y bymthegfed ganrif a'r fantell Wyddelig", LICY 32 (2009), 85–100. Pwysleisir bod a wnelo mwy o gerddi â'r dilledyn hwn nag â'r un dilledyn arall. Nodweddion amlycaf y fantell Wyddelig, yng ngolwg y beirdd, oedd ei maint, ei lliw, ei deunydd a'i gwneuthuriad. Y mae'n amlwg fod gwneuthuriad y fantell wedi creu argraff ar Hywel Dafï. Cyfeiria at y brodwaith cymen, at yr ymylwe addurnedig, ac at y ddwy haen a gysylltwyd ynghyd i greu'r fantell (ll. 35 *Dau ŵn yn ungw a wnâi*). Gwelir bod ambell debygrwydd rhwng y cywydd hwn a'r cywydd a ganodd Ieuan Du'r Bilwg i ddiolch am ŵn gan Domas ap Hywel Fychan. Yr oedd Ieuan yn un o feirdd Tir Iarll yn ôl y cywydd a ganodd Llywelyn Goch y Dant wrth ymateb i gywydd marwnad Hywel Dafï i Ieuan ap Hywel Srdwal, gw. cerdd 86. Ni lwyddwyd i adnabod Tomas ap Hywel Fychan ond y mae lle ei gredu ei fod yn disgyn o Rys Llwyd ab Adam, fel Hywel Dafï ei hun. Cynigir testun o'r cywydd diolch a dau gywydd arall o waith Ieuan, a thrafodaeth ar yr hyn sydd yn hysbys amdano, yn D.H. Evans, 'Ieuan Du'r Bilwg (*fl. c.* 1471)', B xxiii (1986), 101–32.

Cofnodwyd ambell air ac ambell linell gan Siôn Dafydd Rhys yn Llist 55.

2 *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 10, 15, 16, 17, 40.

3 **twymion** Rhestrir y ffurfiau ll. *twymion* a *twymon* yn GPC 3665. Ar

- hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. ‘Rhagymadrodd’ td. 38.
- 4 Gellid *Sy orau syr o’r oes hon* ond ymddengys mai *syr* sydd yn Pen 67, ac felly y barnwyd wrth gopiö Pen 99.
- 13 **tanllwyth ddiadwyth** Nodir yn GPC 3442 y gall *tanllwyth* fod yn eb. yn ogystal ag yn eg. Y gysefin *diadwyth* sydd yn Pen 99, ond y mae’r gynghanedd sain ewinog yn galw am y treigladd. Ond efallai mai ceisio cyfleu sain *tanllwyth i adwyth* a wnaed. Rhoddir i *adwyth* yr ystyron ‘anffawd, drwg, aflwydd, niwed’ yn GPC² 68, a gall gyfleu’r modd y byddai Tomas Fychan yn ymateb yn chwyrn i unrhyw fygythiad ac i unrhyw ymosodiad.
- 14 **mab y dyn** Gw. GPC 2293–4. Gallai gyfeirio at Grist neu at y brenin coronog fel y gwneir yn GG.net 29.16 mewn cywydd i Edward IV. Gall gyfeirio hefyd at y mab darogan, gw. GDGor 6.85–6n *I Gwlen drwy fawr gilwg / Oddi arnyn’ mab y dyn a’i dwg*, a dyna’r ystyr orau yma.
- 16 **yr haul ... a’r rhod** Dyfynnir enghrau. o’r ymadrodd (*is*) *rhod yr haul* yn GPC 3084.
- 23 **pob ddwy** Trafodir y treigladd yn yr ymadrodd yn 28.27n.
seigiau’r fwyall Deallodd David Ellis arwyddocâd y cyfeiriad ac ysgrifennodd ‘Sir Hywel y Fwyall’ ar ochr y ddalen. Adroddid hanesion am y modd y gwobrwyodd y Brenin Edward III Hywel am ei wrhydri yn Ffrainc trwy ganiatáu iddo ddwy saig, y naill iddo ef ei hun a’r llall i’w fwyall. Crybwyllir camp Hywel yn dal brenin Ffrainc yn y cywydd a ganodd Iolo Goch iddo, gw. GIG cerdd II, er na chrybwyllir y fwyall ar yr achlysur hwn.
- 26 **cylennig** Cf. D.H. Evans, ‘Ieuan Du’r Bilwg (*fl.* c. 1471)’, B xxiii (1986), 1.9–10 *Calennig, rhag cael anwyd, / a roes y llew o Rys Lhwyd*.
y Ferwig *or verwir* a gofnodwyd yn Pen 67, ond newidiodd John Davies y gytsain olaf *r* yn *g*.
- 29 **llen o wyrdd** Un hynodrwydd a berthynai i’r fantell Wyddelig oedd ei lliw llachar, a’r lliw coch a bwysleisir yn bennaf yng nghanu’r beirdd, gw. A.M. Jones, ‘“Val y gwydel am y ffalling”’: beirdd y bymthegfed ganrif a’r fantell Wyddelig’, LICy 32 (2009), 95–8. Crybwyllir y lliw gwyrdd yma, ond melyn yn ll. 41 (*tân*) a choch yn ll. 55 (*sirian*).
- 30 **garddau** Ni chofnodwyd y gair yn llawn yn Pen 67. Ychwanegodd John Davies *dd* uwchben y gair yno a’r ffurf ddiwygiedig *garddau* sydd yn ei destun ef yn Pen 99, sef un o ffurfiau ll. *gardd*, gw. GPC 1381. Gellid diwygio yn *graddau*. Ar briodoldeb gwisgo lliwiau a oedd yn gyson â statws cymdeithasol, gw. A.M. Jones, *art.cit.* 86–9.
- 33 **maen** Yn ffig. am rywbeth dethol neu werthfawr, gw. GPC 2306–8.
gwyddam Ffurf l ll.pres.myn. y f. *gwybod*, gw. GMW 147–8.

Cynghanedd groes o gyswllt neu *m* wreiddgoll.

- 34 **India Fawr** Ystyrid yn yr Oesoedd Canol fod tair India ond bod yr enwau a'r rhanbarthau a ddisgrifir ganddynt yn amrywio. Crybwyllir y tair yn 'Llythyr y Preutur Siôn', gw. YGIV ll. 362 *Tair India ysyd yn y gyuoeth ef*. Un o'r tair oedd India Fawr. Gw. ymhellach B.F. Roberts, 'Yr India Fawr a'r India Fechan', LICy 13 (1974–81), 281–3.

Y mae'r ll. a'i chyfatebiaeth gynganeddol yn gywir fel y cofnodwyd hi yn Pen 67, ond ymddengys fod Hywel Dafi yn fodlon derbyn cyfatebiaeth *nd = nt*, gw. 4.55n, ac felly mabwysiadwyd y ffurf *Gwent* yn hytrach na *Gwend*.

Cynghanedd groes o gyswllt neu *r* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 53.

- 36 **Addaf** Yr oedd dirfawr angen dillad ar Adda a'i wraig am eu bod yn noeth, gw. Gen 3.7 *A'u llygaid hwy ill dau a agorwyd, a hwy a wybuant eu bod yn noethion*.
- 38 Galwodd M.P. Bryant-Quinn sylw at y tebygrwydd rhwng y ll. hon a ll. yn un o gywyddau Syr Phylib Emlyn, gw. GPhE 2.7n.
- 44 **dieithr** Dilynwyd Pen 99. Ni nodir bod *dieith*, sef y ffurf a geir yn Pen 67, yn amr. ar *dieithr* yn GPC 972. Ond *dieithr* sydd yn Pen 67 yn 58.7.
- 46 **pryd y mab** Gall fod yma gyfeiriad at adran yn y testun 'Ymborth yr Enaid' y ceid ynddo ddisgrifiad o Grist yn ddeuddeg oed. 'Odid bod i'w gael yn llenyddiaeth gyfriniol Ewrop ymdrech mor fawr ac angerddol gan artist mor ddawnus i ddisgrifio'r hyn a welodd mor llwyr ac uniongyrchol â phosibl', gw. *Ymborth yr Enaid*, gol. R.I. Daniel (Caerdydd, 1995), xl. Adwaenid yr adran hon o gyfnod cynnar wrth yr enw 'Pryd y Mab'. Am gyfeiriad arall posibl yn y canu at y testun, gw. 69.20n.
- 47 **palis sirig** Dilynwyd Pen 67 *palis* 'rhes o byst, polion; pared, parwyd-waith', gw. GPC 2674, ac felly yn ffig. am wisg neu orchudd + *sirig* 'sidan'. Ond *pali syryg plas arab* a gofnodwyd yn Llst 55. Gellid diwygio yn *pali a sirig*, a cf. *Owein*, ed. R.L. Thomson (Dublin, 1968), 14 *A diheu oed gan Owein na welsei eiryoyet niuer kyhardet a hwnnw o bali a seric a syndal*.
- 48 **capelau'r pab** Gw. Atodiad III sydd yn disgrifio ymweliad â dinas Rhufain ac a briodolir i Hywel Dafi mewn rhai llsgrau. Bu awdur y cywydd hwnnw ym mhresenoldeb y pab, a gwyddai am ei holl ysblander gw. Atod.III.67–8 *Gostwng yn wâr, yn arab, / Bob ddau ein pennau i'r pab*.
- 49 **Sain Grigor** Un o'r Tadau Eglwysig, ac un o babau ac ysgrifenywyr pwysicaf ei oes, gw. ODS 177–9; NCE 6, 766–70. Cf. GHD 14.35–40 *Sierôm wyd, oes wr am iaith / Ar Ladin mor ddilediaith? / Ambros o'r Lladin i'r llall, / I'm bro Syr Ambros arall; / Sain Grigor, croyw ragor Cred; / Siôn heb amau sy'n bumed*.

- 51–2 Cf. D.H. Evans, *art.cit.* I.51–4 *Mi af i dafarn y medd, / i'r lle vchaf o'r llechwedd, / i'm lliw arúthr, i'm llwyrwisg, / i ferched weled y wisg.*
- 53 **cawsam** Ffurf 1 ll.grff. *cael*, gw. GMW 149–50.
- 54 **Dafydd Gam** Gwladus, merch Dafydd Gam, oedd gwraig Syr Rhoser Fychan (m. 1415), gw. nodyn brig cerdd 46.
- 59 **neidr las** Gw. 46.7n am gyfeiriadau at arwydd herodrol Moreiddig Warwyn a'i ddisgynyddion. Yn fynych bydd y neidr wedi ei lliwio'n las, gw. DWH ii, 386–7.

55

Yn y cywydd hwn y ceir y mynegiant clirïaf o elyniaeth rhwng y Cymry a'r Saeson. Awgryma llinell 15 *Llundain, mae eraill yndi* fod newid wedi digwydd a'r goron bellach yn cael ei dal gan arall. Awgryma'r sylw hwn y cyfnod byr o ryw chwe mis rhwng Hydref 1470 a Mai 1471 pan ddisodlwyd Edward IV a phan adferwyd Harri VI i'r orsedd er mai yn nwylo iarll Clarens, brawd Edward, ac iarll Warwig yr oedd yr awenau. Esboniai hyn ansicrwydd Tomas Fychan am fod y Fychaniaid a'r Herbertiaid ymhlith cefnogwyr teyrngar Edward. *Od aeth afreolaeth fry / Ef â'n ebrwydd ofn obry* (llau. 17–18). Ofnir y bydd canlynwyr plaid Efrog yn wynebu bygythiad o du'r drefn newydd. Priodol fyddai lladd ar y Saeson am fod gan Edward IV, yng ngolwg y beirdd, waed Cymreig yn ei wythiennau. Amserol hefyd fyddai crybwyll brad y Saeson, a'r cof am ddienyddio Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, yn 1469, a Rhoser Fychan, tad Tomas, yn 1471 (gan Siasbar, câr Harri VI), yn dal yn fyw.

Fodd bynnag, os cywir y gred na allai Tomas fod wedi ei urddo yn farchog cyn mis Mehefin 1483, gw. nodyn brig cerdd 53 a llinell 4 *Syr Tomas*, rhaid dyddio'r cywydd ddegawd da yn ddiweddarach. Ni fyddai gan Domas achos amlwg i boeni fod Rhisiart bellach yn frenin, yn dilyn marwolaeth annhymig ei frawd Edward ar 9 Ebrill 1483, ac ni fyddai'r newidiadau yn cyfiawnhau'r ymosodiad ffyrnig ar y Saeson. Tybed, felly, ai yn ystod gwrthryfel dug Buckingham y lluniwyd y cywydd? Er mai ymhlith y rhai a fu'n deyrngar i Edward IV y dechreuodd y gwrthryfel, a Rhisiart III wedi codi eu gwrychyn oherwydd y modd yr oedd wedi trawsfeddiannu'r goron, rhoesant eu cefnogaeth i Harri Tudur pan ddeallwyd bod Edward [V], mab Edward IV, wedi ei ladd yn y Tŵr yn Llundain. Ni chafodd dug Buckingham lawer o gefnogaeth pan geisiodd godi gwŷr arfog yng Nghymru i gefnogi ei wrthryfel; yn wir, tanseiliodd Tomas Fychan a'i frodyr ei gynlluniau trwy ymosod ar gastell Aberhonddu a'i feddiannu. Gwobrwyodd Rhisiart nifer o'r Cymry am eu cefnogaeth yn ystod y gwrthryfel, ac nid annichon mai ar ôl y gwrthryfel yr urddwyd Tomas ei hun yn farchog. Trafodir yr achosion a ysgogodd y gwrthryfel a rhan dug Bucking-

ham ynddo gan C. Ross, *Richard III* (New Haven, 1999), 105–24; D. Hipshon, *Richard III* (London, 2011), 143–63; R. Horrox, *Richard III: A Study of Service* (London, 1989), 138–77.

Diogelwyd y cywydd yn Stowe 959 yn ogystal ag yn Pen 67. Y mae Stowe yn cyfateb yn agos i Pen 67 ac eithrio ambell air neu ymadrodd yma a thraw. Er bod ambell linell yn dra llwgr, gw. amrywiadau llinellau 35 a 37, barnwyd bod un darlleniad yn rhagori ar Pen 67 a mabwysiadwyd hwnnw, gw. llinell 24n.

1 **tir Ieuan** Gw. 49.7n.

1–2 **Yr awyr am dir ... / A'r dŵr ... a'r tân** Cyffelybir Syr Tomas Fychan i'r pedair elfen, fel y gwneir ar achlysur arall, gw. 49.7–8 *Awyr wyd o dir Ieuan, / Môr o waed Ifor neu dân*.

7–8 Bernir mai *Ni wn ŵr un lygad dan goron Loegr* yw'r frawddeg, a rhaid derbyn felly fod yr ardd. *dan* yn cynnal odl gyntaf y gynghanedd sain yn ll. 7. Y mae'r gynghanedd yn rheolaidd yn Stowe 959 *ny does tan taryan u tad*, ond nid yw'r ll. gyntaf a'r ail yn asio. Am enghrau. eraill o air gwan yn safle'r orffwysfa, gw. 1.23n a 'Cynghanedd' tt. 42–3.

14 **Gwent ... gyntaf** Y mae'r gyfatebiaeth gynganeddol yn rheolaidd yn y ll. hon, sef *nt = nt*, ond gthg. 4.55n.

16 **nid rhydd** Pen 67 *ni rrydd*. Dilynwyd darlleniad diwygiedig Pen 99 *nid rhydd* sydd yn rhoi cynghanedd reolaidd.

20 **ymapelu** 'Gwneud apêl, erfyn, ymbil, deisyf'. Y ffurfiau *apelio*, *apelo* a restrir yn GPC² 399, a pherthyn yr engh. gynharaf i'r 16g. Diwygiwyd *yn a pely r ys* Pen 67, darlleniad a ddiwygiwyd yn ei dro yn Pen 99 yn *ein apelu r ys*.

21 *n wreiddgoll*, a thrachefn yn llau. 35, 55.

24 Mabwysiadwyd darlleniad Stowe 959, sef *y syrthia*. Collir ergyd y gwrthgyferbyniad yn y cwpled o ddilyn Pen 67 *ni ssyrthya*. Cyfeiria'r rhagenw *ei wrthod* at y *Cymro* (ll. 22).

26 Cf. 56.24 *Heb brynu ffrwyth prennau Ffrainc*.

27 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n wreiddgoll*.

32 **o'i waedoliaeth** Sef gwaedoliaeth y Sais (ll. 29). Ni chaiff yr un gŵr o genedl y Saeson ddychwelyd yn fyw i Loegr os daw i Gymru ar berwyl drwg, ac os caiff ei ddal.

35 **yr Ystwyll** Gŵyl a ddethlid ar y deuddegfed diwrnod yn dilyn y Nadolig, sef ar 6 Ionawr, gw. GPC 3868. Ar ŵyl Ystwyll yn wreiddiol y dethlid merthyrdod y babanod a lofruddiwyd gan Herod, cyn symud yr ŵyl i 28 Rhagfyr ac yn nes at ddyddiad geni Crist, gw. NCE 5, 480–1; *Encyclopaedia Britannica* (1989) 12, 373. Mathew yn unig sydd yn adrodd yr hanes hwn, gw. Mathew 2.16–18.

- Cf. y cywydd a ganodd Guto'r Glyn i Wiliam Herbert, ail iarll Penfro, ac i Domas Fychan, ei ewythr, i annog y ddau i ddial marwolaeth Syr Rhoser, gw. GG.net 25.31–2 *Ymleddwch, dielwch dwyll / Ar Fforestwyr ffair Ystwyll*. Ar y llaw arall, nid oes awgrym o dwyll yn gysylltiedig â'r farwnad a ganodd Rhisiart ap Rhys i Siôn ap Rhys o Lyn-nedd, gw. GRhB 5–8 *Dy fyned, da ei fonedd, / Ystwyll noeth, i Gastellnedd. / Ni'th welaf—Pam y'th ddaliwyd?— / tros ddydd. Ai wtres ydd wyd?* Er bod Hywel Dafï a'i lach ar y Saeson yn y cywydd hwn, tâl cofio mai ar orchymyn ei gyd-Gymro, Siasbar Tudur, y dienyddiwyd Rhoser Fychan. Gwyddai Huw Cae Llwyd hynny yn iawn, ac yn ei gywydd marwnad ef i Roser Fychan enwa'r bradwr a dymuna weld y pwyth yn cael ei dalu, gw. HCLI XXVI.27–8 *Be caem afel â'n gelyn / Llawen y byddem bob un*. Ym mis Mai 1471 y daliwyd Rhoser Fychan a'i ddienyddio yng Nghas-gwent. Gall fod y bardd yn cyfeirio at anffawd a ddaeth i ran Tomas Fychan ei hun. Os perthyn y cywydd i'r 1480au, gw. y nodyn brig, rhaid derbyn bod degawd da wedi mynd heibio er pan lofruddiwyd Rhoser Fychan. Yn un o'i gerddi, sonia'r Nant am garcharu Tomas yng nghastell Penfro, gw. GyN cerdd 12. Efallai mai'r digwyddiad hwnnw sydd yn esbonio'r ll. hon.
- 37–8 **hud ... / ... Dyfed** Cf. 7.4n. Yr hud a fu ar Ddyfed yn nhrydedd gaine y Mabinogi. Cyffredin oedd dwyn y digwyddiad i gof naill ai mewn marwnadau neu mewn cerddi y crybwyllid ynddynt ryw anffawd neu drychineb, megis DG.net 6.1–2 *Dyfed a siomed, symud—ei mawrair, / Am eryr bro yr hud*; GSH 7.1–2 *Oer oedd ofal ar Ddyfed, / Hud tywyll oedd at ei lled*.
- 41 **Lawnslod** Tad Galâth a enwir ar dri achlysur yn y canu, gw. TYP³ 406–8.
- 43 Chwe sillaf sydd yn y ll. yn Pen 67. Dilynwyd diwygiad Pen 99 *diryfedd oedd*, ac y mae Stowe 959 yn ateg bellach o blaid y newid. Ond ceir bai crych a llyfn yn y ll., gw. 'Cynghanedd' td. 42.
- 44 **Na orfyddai ŵr feddyg** *Meddyg* yw goddr. y f. a *gŵr* yw'r gwrth. Ni all meddyg ennill (bywyd) y *gŵr* claf os bydd Tomas Fychan wedi ymosod arno yn ei ddieter.
- 50 **Lincol** Un o'r dinasoedd pwysicaf yn Lloegr yn yr Oesoedd Canol. Dyma un o'r dinasoedd a feddiannodd y Saeson wedi iddynt ladd penaethiaid y Cymry yn dilyn 'Brad y Cyllyll Hirion', gw. BD 99–100.
- 54 Digwydd yr un ll. yn un o gywyddau brud Dafydd Llwyd o Fathafarn, gw. GDLI 20.46.
- 56 **difer** 'Brad, twyll, ystryw', gw. GPC 980. Ni ddeallodd David Ellis ystyr y gair wrth gofnodi'r ll., ond rhaid cydnabod bod y diwygiad a yngniodd yn CM 12—*Ef a ŵyr swrn ddifa'r Sais*—yn gyson â'r gwrth-seisnigrwydd ffyrnig a fynegir yn y cywydd hwn ac mewn darnau eraill

i'r Fychaniaid, e.e. 58.15–16 *Llai yw yno'r llawenydd; / Llaw Sais ar bob lle y sydd.*

56

Cywydd i *Wr bonheddig o Lanymddyfri* yw hwn yn ôl CM 12, ond y mae'n amlwg i David Ellis gael ei gamarwain gan *Gwregys y chwellys ywch chwi / Am ddwyfron Llanymddyfri* (llau. 9–10). Fe'i dilynwyd gan NBSG 298–9 a geisiodd leoli gwrthrych y moliant yn Llanymddyfri. Gellir derbyn yn bur hyderus mai Siôn Fychan, mab Syr Rhoser Fychan, Tretŵr, a gyferchir, a brawd Syr Tomas Fychan, gw. cerddi 48–55. Esbonnir bod ei dad a'i daid yn farchogion (llau. 53–4), ac er nad enwir y naill na'r llall, crybwyllir hynafiaid amlycaf y teulu, sef Moreiddig (ll. 5), Dafydd Gam (ll. 7) ac Einion Sais (ll. 8). Sonnir hefyd am blant niferus Rhoser Fychan, y tad. Y mae'n bosibl mai'r Siôn Fychan hwn ('the king's servant John Vaghan') a dderbyniodd flwydd-dal blynyddol o gyllid arglwyddiaeth y Fenni ar 15 Tachwedd 1483, gw. CPR 1476–1485, 367.

Ymddengys fod Tomas Fychan yn Lloegr pan ganwyd y cywydd, ac yng ngwasanaeth y Brenin Edward IV (ll. 27 *Edwart a'i barti*), gw. nodyn brig cerdd 53. Dymuna'r bardd weld Siôn Fychan yn cynnal ei wlad a'i diogelu yn ei absenoldeb. Gellid dyddio'r cywydd yn dilyn marwolaeth Syr Rhoser Fychan ym mis Mai 1471: *Y gaer a wnaeth ein gwŷr ni / A ddadwreiddwyd ddoe drwyddi* (llau. 13–14). O ystyried mai trwy ddichell Siasbar Tudur y lladdwyd Syr Rhoser Fychan, awgryma cywair y cywydd bod ysbaid wedi mynd heibio yn y cyfamser. Gwahanol iawn yw'r cywydd hwn i gywydd Huw Cae Llwyd na wnaeth unrhyw ymgais i ffrwyno ei ddieter a'i gasineb at Siasbar wrth farwnadu Syr Rhoser Fychan, gw. HCLI XXVI.47–8 *Pryn ein hoes frad Syr Rhoesier, / Ei fwng a'i esgyrn a'i fêr*. Ni cheir yma ychwaith ddim o'r dieter a'r ysfâ am ddial a gyfleir mor rymus yng nghywydd Hywel Swrdwal i Watgyn Fychan, Brodorddyn, brawd Syr Rhoser, yntau hefyd wedi ei ladd trwy dwyll, gw. GHS cerdd 23.

Erys y cyfeiriad at Harri (ll. 49). Un posibilrwydd yw mai'r Brenin Harri VI a enwir. Bu ef, fel Syr Rhoser Fychan, farw ym mis Mai 1471, ac yntau wedi ei gadw dan glo yn y Tŵr yn Llundain er 1465. Yr oedd cryn ddirgelwch yn gysylltiedig â'i farwolaeth, gw. R.A. Griffiths, *The Reign of King Henry VI* (Stroud, 1998), 3; Bertram Wolffe, *Henry VI* (Yale, 2001), 347. Digwyddodd hyn ar 'a suspiciously convenient moment for Edward', gw. M.E. Christie, *Henry VI* (Boston, 1922), 369. Os canwyd y cywydd ar ôl ei farwolaeth, ac ar ôl marwolaeth Syr Rhoser Fychan, plaid Harri yn hytrach na Harri ei hun sydd dan sylw. Rhaid ystyried y posibilrwydd fod Harri VI a Syr Rhoser Fychan yn dal ar dir y byw. Os felly, tebyg mai dwyn i gof farwolaeth Wiliam Herbert yn 1469 a wneir yn llinellau 13–14, a rhaid dyddio'r cywydd rhwng 1469 a marw Harri VI a Syr Rhoser Fychan yn 1471.

Ar y llaw arall tebycach mai Harri, dug Buckingham, sydd dan sylw. Priodol fyddai cyfeirio ato yn ystod y gwrthryfel a gysylltir â'i enw yn 1483. Yr oedd cryn anniddigrwydd yn ne Lloegr ymhlith cyn-wasanaethwyr Edward IV ynghylch y modd yr oedd ei frawd Rhisiart wedi cymryd yr awenau a chryn bryder hefyd ynghylch yr hyn a ddigwyddodd i feibion y brenin, sef 'y Tywysogion yn y Tŵr'. Cododd gwŷr y de mewn gwrthryfel ac yr oedd disgwyl i ddug Buckingham gynnull gwŷr arfog yng Nghymru. Yn gyfamserol yr oedd disgwyl i Harri Tudur hwylio o Lydaw i hawlio'r goron.

Meddiannodd Syr Tomas Fychan a'i frodyr gastell Aberhonddu cyn gynted ag y cychwynnodd dug Buckingham a'i lu am Loegr. Cyfeirir yn benodol at y castell yn y cywydd hwn ac yn y farwnad i Siôn Fychan: *Duw Sul y dywedai Siôn / Y dôl i'r gaer i gadw'r goron* (58.25–6). Gellid amseru'r cywydd yn ystod yr wythnosau pan oedd y dug yn teithio i Loegr i ymuno â gwŷr y de ac â Harri Tudur a'i lu, a Thomas Fychan yn dynn ar ei sodlau.

Cofnod moel sydd am Siôn Fychan yn WG2 461; ni chrybwyllir ei wraig na'i ddisgynyddion. Yn ei farwnad iddo, gw. cerdd 58, dywed Hywel Dafï fod *Merched am fab y marchog / Yn offrrwm ar grwm i'r Grog* (58.29–30), ond gallai'r rhain fod yn chwirydd i Siôn Fychan. Yr oedd gan Watgyn Fychan, Brodorrdyn, feibion o'r enw Tomas a Siôn, ond nid oes modd cysylltu'r un o'r cerddi o waith Hywel Dafï sydd ar glawr â'r cartref hwn. Mae dau o'r cywyddau i Siôn Fychan, cerddi 56–7, wedi eu lleoli nesaf at ei gilydd yn Pen 67, ac yn rhan o floc o bum cywydd i aelodau teulu Tretŵr. Y tri chywydd arall yw cerddi 47 (i Syr Roser Fychan) a 49–50 (Tomas Fychan, ei fab).

Dryll o gywydd i Siôn Fychan ap Syr Rhoser Fychan yw GLGC Atodiad III a luniwyd yn 1472. Y mae'n bosibl mai awdl foliant iddo yw GDEp cerdd 14 hefyd. Cyfaddefodd y golygydd mai anodd bod yn sicr ynghylch gwrthrych y mawl am fod y gyfeiriadaeth achyddol mor foel—peth cyffredin yn y cerddi i'r Fychaniaid. Cynigiodd yn betrus mai Siôn Fychan, mab Tomas Fychan, a gyfarchwyd ond gan nodi'r posibilrwydd mai brawd Tomas ydoedd. Y ddadl bwysicaf o blaid derbyn mai mab Tomas Fychan yn hytrach na mab Rhoser Fychan yw gwrthrych y moliant yw'r cyfeiriad at Sisli, ei fam, gw. GDEp 14.54. Fodd bynnag, digwydd yr enw mewn pennill nad yw'n cynnwys unrhyw gyfeiriadau achyddol eraill, a byddai ail awgrym y golygydd, sef mai ffurf ar Sisli, yr ynys oddi ar arfordir deheuol yr Eidal, sydd yma yn symud y rhwystr ac yn caniatáu ychwanegu'r awdl at y cerddi i frawd Tomas Fychan, Tretŵr. Nid enwir Tretŵr, cartref Tomas Fychan, yn yr awdl, a dyma ddadl arall mai brawd yn hytrach na mab Tomas Fychan a gyferchir.

3 **ysgyrion** Y mae *ysgwr*, ll. *ysgyrion*, yn gyfystyr â 'gwaywffon, paladr' a hefyd â 'dellten, ysglodyn', gw. GPC 3850.

n wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 4, 21n, 28n, 46n.

- 6 Sylwodd John Davies fod y gyfatebiaeth gytseinol yn afreolaidd a diwygiodd *teirawr* yn *deirawr*. Dilynyd Pen 67 ond ychwanegwyd y rhagenw yn yr ymadrodd *onid d'aros* er mwyn sicrhau bod y gynghanedd yn gywir.
- 7 **Dafydd** Dafydd Gam, gw. nodyn brig cerdd 46.
- 8 **Einion** Einion Sais, gw. nodyn brig cerdd 20 a 2.5n.
- 12 Arferir yr ardd. ym mraich gyntaf y cwpled, ond ymddengys ei fod yn ddealedig yn yr ail fraich, 'O gestyll Gŵyr i Gastell Gwent'. Cf. GGDT 6.28 *Llew diymryson o Fôn Forudd*. Ychwanegwyd yr ardd. yn nhestun Pen 101. Am enghrau. eraill o hepgor yr ardd. a threiglo'r cyrchfan, gw. 7.37n.
- 17 **Ifor** Gw. 49.8n.
- 18 **a dreia'r bar ynn** Y f. *treio* 'profi, rhoi prawf ar' + *bar* 'boltt, trosol; cainc' + *ynn* ffurf l. *onn*. Gellid y f. *treio* 'peri cilio' + *bâr* 'llid' + *ynn* ffurf l ll. yr ardd. *i*.
- 19–20 **Naw maib ... / A naw merched** Enwir naw o feibion Syr Rhoser Fychan yn WG2 461 a saith merch: cf. 46.42 *Mae naw ohonaw ei hun*, 48.9–10 *Mae o wely y milwr / Wyth neu naw; aeth un yn wr*. Cyffredin yw'r ffurfiau ll. *gwŷr*, *maib*, *brodyr* / *broder* yn dilyn y rhifolion, gw. 2.17n, a cf. hefyd ll. 44 *chweigeinmeirch*, ffurf y mae'n rhaid wrthi er mwyn ateb gofynion y gynghanedd. Llai cyffredin yw arfer ffurfiau ll. geiriau eraill megis *merched* yn ll. 20.
- 21 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll, a thrachefn yn ll. 46.
- 24 Cf. 55.26 *A brŷn ffrwyth holl brennau Ffrainc*.
- 25 **Rhufain** Efallai fod yma ddwyn i gof gyrch Arthur i Rufain, gw. BD 166–7.
- rhifaw** Mae dwy ystyr sydd yn addas yma, sef i. 'crybwyll fesul un, rhestru, adrodd; listio, mwstrio'; ii. 'parchu, moli': gw. GPC 3070.
- 26 **pob ddau** Ar y treigladd, gw. 28.27n.
- 27 **yn rhaid** Bernir yn Peniarth MS. 67 mai *yn grred* a ysgrifennwyd, ond y mae'r g yn aneglur iawn. Dilynyd Pen 99.
- rhaid Edwart a'i barti** Achos a hawliau Edward IV a'i ddisgynyddion cyfreithlon. Ymddengys fod y gwrthryfel wedi dechrau wrth i ganlynwyr Edward IV geisio rhyddhau ei fab, Edward, o'r Tŵr a sicrhau diogelwch ei ferched a oedd yn derbyn nawdd a lloches yn eglwys Westminster.
- 28 Chwe sillaf sydd yn y ll. yn nhestun Pen 67. Diwygiwyd *nid a yr naill* Pen 99 yn *na ado'r naill*.
- Cyfatebiaeth $n = m$ neu n wreiddgoll ac m ganolgoll. Gw. ymhellach 3.27n a 'Cynghanedd' tt. 41–2, 44.

- 30 **Tomas hir** Tomas Fychan, Tretŵr, mab hynaf Syr Rhoser Fychan, a brawd Siôn Fychan.
- 35 **hednod** Ni nodir bod *hedn* yn ffurf amr. ar *edn* ll. *ednod*, yn GPC 1166–7, ond cf. *enw* / *henw*, *elw* / *helw*. Mabwysiadwyd *ei hednod* yn Pen 99.
- Caer Hodni** Aberhonddu. Gall fod Siôn Fychan wedi dal rhyw swydd yno, a cf. 58.17–18 a'r hyn a ddywed y bardd yn ei farwnad iddo, *Am weiddi 'Nghaer Hodni hen / Y rhoed och yn Rhydychen*. Digwydd yr un ffurf mewn awdl o waith Huw Cae Llwyd, gw. HCLI I.30 *Na rhag rhoi adnair i Gaerhodni* a cf. GLMorg 73.26 *Gwrid Nudd i Gaerhodni wen*. Nodir am yr enw yn SBPN 44 'a fanciful n. used by the poet Huw Cae Llwyd'.
- 39 **bwaau** Rhaid wrth air teirsill er mwyn sicrhau bod hyd y ll. yn rheolaidd.
- 40 **hëyrn awch** Awgryma'r gynghanedd (*awch* sydd yn safle'r orffwysfa) mai goleddfu *hëyrn* a wna *awch*. Rhoddir i *awch* yr ystyron 'min, miniogrwydd' yn GPC² 536, ond yma y mae'n cyflawni swyddogaeth ansoddeiriol ac yn gyfystyr â 'miniog, awchus'. Ar yr ymadrodd *haearn awch* 'edge-tool', gw. GPC 1801–2. I'r 18g. y perthyn yr engh. gynharaf a ddyfynnir.
- 44 **chweugeinmeirch** Ar arfer ffurf l. yn dilyn y rhifol, gw. llau. 19–20n, 2.17n.
- 46 Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll.
- 47 **hadu** Ysgrifennwyd *hannv* yn Pen 67 ond ychwanegwyd *hadu* mewn llaw ddiweddarach. Y mae'r gynghanedd o blaid y ffurf ddiwygiedig hon.
- 49 **Harri** Gw. y nodyn brig. Lladdwyd Harri VI o dan amgylchiadau amheus yn fuan wedi buddugoliaeth ysgubol plaid Efrog ym mrwydr Tewkesbury 4 Mai 1471. Ond tebycach mai Harri, dug Buckingham, yw hwn a bod y cywydd yn perthyn i'r gwrthryfel yn erbyn Rhisiart III yn 1483. Posibilrwydd arall yw mai Harri Tudur a enwir. Un o amcanion y gwrthryfel oedd rhoi Harri Tudur ar yr orsedd, ac yr oedd ei addewid i briodi Elisabeth, merch Edward IV, wedi dwyn ynghyd gefnogwyr ffyddlon plaid Efrog a'r frenhines Elisabeth [Woodville] ar y naill law, a'r Lancastriaid ar y llaw arall.

Tywyll braidd yw'r amgylchiadau a ddisgrifir yn y cywydd ac ni ellir bod yn gwbl sicr ychwaith ynghylch gwrthrych y moliant. Fe'i gelwir yn Siôn (llau. 3, 11) a nodir ei fod yn perthyn i linach Moreiddig ac Einion (llau. 9, 10). Awgryma hynny ei fod yn un o ddisgynyddion Syr Rhoser Fychan (m.

1415), a chan mai mab hwnnw, Syr Rhoser Fychan (m. 1471), a'i feibion yntau, Tomas a Siôn, yw'r unig rai o blith y Fychaniaid y gellir bod yn weddol sicr i Hywel Dafî eu cyfarch, mentrir uniaethu gwrthrych y cywydd hwn â'r olaf, gw. cerddi 56, 58.

Ymgais i gymodi sydd yma, a gelyniaeth rhwng brodyr a chefnderwyr sydd wrth wraidd yr anghydfod: *Nid soriant am feddiant fydd / Ond eiriol rhwng cefnderwydd* (llau. 7–8), *Brodyr a chefndyr ywch chwi ... Yn unawr y'n gwenwynwyd / Eich dwyn hyd yn nhrwyn y rhwyd* (llau. 21, 23–4). Nid yw hi'n glir ai anghydfod rhwng brodyr ar y naill law a chefnderwyr ar y llaw arall sydd yma ynteu rhwng brawd a brawd arall, a bod y cefnderwyr yn rhan o'r helynt. Y mae awgrym hefyd (llau. 19–20) fod anghyd-weld rhwng Siôn Fychan a'r bardd. Yr oedd gan Siôn Fychan wyth brawd, a'r ddau amlycaf oedd Tomas Fychan, Tretŵr, a Rhoser Fychan, Porth-aml. Cefnderwyr Siôn Fychan oedd meibion ei ddau ewythr, Watgyn Fychan, Brodorddyn, a Thomas Fychan, Hergest. Anodd deall y cyfeiriad at y Rhicerdiaid, y Pitsierdiaid a'r Gwateriaid (llau. 11–12). Nid oedd cyswllt amlwg rhwng y Fychaniaid a'r teuluoedd hyn. Er bod y bardd yn crybwyll *brodyr a chefndyr*, erbyn y diwedd ceir yr argraff fod a wnelo'r helynt â dau ŵr yn benodol: *Y ddau lwdn oedd ddiledach* (ll. 57). Rhagflaenir y llinell hon gan gyfeiriad at y *Gŵr o Dre'rtŵr*, sef Tomas Fychan, ond odid. Os cywir mai Siôn Fychan yw gwrthrych y cywydd, y mae'n amlwg mai cyngor i'r ddau frawd yn benodol sydd gan Hywel Dafî.

At hyn, ymddengys fod un aelod o'r teulu yn y carchar ar y pryd: *Y carcharor o'r môr maith / A ddug gwin ym ddeg canwaith* (llau. 33–4). Crybwyllir *Wiliam Iarll* hefyd (ll. 37), a'r esboniad mwyaf boddhaol yw mai ail iarll Penfro yw hwn. Dyfelir mai Tomas, mab anghyfreithlon Syr Rhoser Fychan (m. 1471), yw'r *carcharor o'r môr maith*. Fe'i carcharwyd yn Honfleur ger aber afon Seine, ac y mae lle i gredu iddo dreulio rhai blynydd-oedd dan glo. Canodd Syr Phylib Emlyn i annog brodyr Tomas i geisio ei wystlo gyda chymorth Wiliam Herbert. Fe'i rhyddhawyd yn y diwedd yn 1477 wedi i Edward IV dalu dirwy o #40 a ddaeth o gyllid porthladd Bryste, gw. GPhE cerdd 1 a'r nodiadau; hefyd E.D. Jones, 'A Gwentian prisoner in France', *Cylchg LIGC* vii (1951–2), 273–4. Y mae lle i gredu bod tynged Tomas Fychan, y carcharor, yn gysylltiedig â'r helynt. Efallai nad oedd iarll Penfro yng ngolwg y Fychaniaid yn defnyddio ei ddylanwad i sicrhau bod Tomas Fychan yn cael ei ryddhau, ond y mae'r sefyllfa yn llawer mwy cymhleth a dyrys na hynny.

Er bod Wiliam Herbert, yr ail iarll, yn briod â chwaer y frenhines, ni chafodd fwynhau breiniau ac awdurdod ei dad, ac y mae lle i gredu ei fod wedi ei siomi o'r herwydd, gw. C. Ross, *Richard III* (New Haven, 1999), 37. Yn 1479 fe'i gorfodwyd i ildio ei deitl iarll Penfro a derbyn iarllaeth Huntingdon. Gall fod a wnelo hynny â'r anniddigrwydd a fynegir yn y cywydd.

- 1 **cawell** Gwyddys i'r bardd baratoi testun ysgrifenedig o'i gerddi yn Pen 67, ond awgryma'r ll. hon y byddai, ar dro o leiaf, yn cludo testun ysgrifenedig o'i gywyddau pan gyrchai gartrefi ei noddwyr, cf. 13.23 *Ni bydd cywydd mewn cawell*; GG.net 65a.3 *Y cawell lle bu'r cywydd*.
- 3 **storiau** Ffurf l. *stôr* 'cyflenwad, darpariaeth, digonedd', yma'n ffig. 'cyneddfau, rhinweddau', gw. GPC 3338. Nid yw hyd y ll. yn caniatáu ffurf l. *stori*, sef *storiâu*; tybed ai ffurf ddeusill gywasgedig a fwriadwyd?
- 8 **cefnnderwydd** Un o ffurfiau ll. *cefnnderw*, gw. GPC 447. Ffurf arall yw *cefn dyr* a welir yn ll. 21.
- 10 **Einion** Gw. nodyn brig cerdd 20.
Cynghanedd groes o gyswllt neu *n* wreiddgoll, a thrachefn yn llau. 56, 58.
- 11 **Pitsierdiaid** Dyma un o'r teuluoedd a restrir yn y cywydd a ganodd Hywel Dafï i Frycheiniog a'i phobl, gw. 59.54n.
- 11–12 **Rhicerdiaid ... / A Gwateriaid** Gw. y nodyn brig.
19 *n* wreiddgoll, ond gw. hefyd l. 10n.
- 20 **deuddeg** Gw. 43.21n.
diweddar Dyfynnir y cwpled d.g. yn GPC 1056–7 a rhoddir iddo'r ystyron 'newydd ddigwydd neu orffen, heb sawr henaint, ffres; yn perthyn i'r presennol neu i'r gorffennol agos'. Rhaid derbyn bod *rhai* yn ddealedig ac yn ei ragflaenu. Cynghorir Siôn i beidio â rhoi blaenoriaeth i hwyrdyfydiaid ar draul y rhai a fu'n gyfeillion a chefnogwyr dros ysbaid hir.
- 24 **trwyn y rhwyd** Gw. 5.36n.
- 28 Cf. 4.22 *Llety i holl Gymru i gyd*.
- 33 **carcharor** Gw. y nodyn brig.
- 36 Trawiad cyffredin, a cf. GG.net 65a.1 *Tristach yw Cymry trostyn*', *ib.* 85.15 *Tristach ydiw'r byd trostaw*; GHS 23.30 *Bid tristach y byd trostaw*.
- 51 **ymgynulliant** Pen 67 *ym gynvlyant*. Ni restrir y ffurf *cynullio* yn GPC 801, ond rhestrir *cynnull* a *cynullo*. Ar hepgor / ychwanegu <i> yn Pen 67, gw. 'Rhagymadrodd' td. 38.

Yr oedd gan Watgyn Fychan, Brodorddyn, ddau fab o'r enw Siôn, y naill yn byw yn y Fenni a'r llall yn Llangynwyd, ond tebycach mai Siôn Fychan, Ewias, un o feibion Syr Rhoser Fychan, Tretŵr, yw'r gŵr a farwnadwyd gan Hywel Dafï, am mai i'r gangen hon yn unig y canodd, a barnu wrth y cerddi sydd ar glawr. Canodd y bardd iddo ar ddau achlysur arall, gw. cerddi 56–7.

3 **cnau** Gw. 44.4n.

6 **gwreidda** Fe'i dehonglir yn gyfuniad o *gwraidd* + *da*, ond ymddengys fod Pen 99 yn gweld yma ffurf 3 un.pres.myn. y f. *gwreiddio*.

Lloegr Y teuluoedd Seisnig ymhlith hynafiaid y Fychaniaid, gw. nodyn brig cerdd 46. Nid enwir hwy yng nghanu Hywel Dafï i'r teulu, ond cf. GHS 3.21–4 *Gorau gwaed pan fo'n Lloegr gas / I gadw Dofr, gwaed y Defras. / Bwrw o'th ddwyfron ar d'onnen / Bwys gŵr fal hynt Basgrfil hen*.

11 **Rhoser Hen** Mab Gwallter Sais, a thad Syr Rhoser Fychan (m. 1415), gw. WG1 243. Y ffurf *Roser*, yn hytrach na *Rhoser*, a ddefnyddir gan y bardd ran fynychaf, ond y mae'r gynghanedd groes o gyswllt ewinog yn galw am *Rhoser* yn y ll. hon. Y mae'r gynghanedd ar ei hennill o fabwysiadu *Rhoser* yn 71.16 drachefn.

12 **tir Elen** 'Cymru'. Elen Luyddog yw hon, a cf. 17.24n *ffyrdd Elen*. Cf. 7.31 *Torres aelod tir Selyf*.

17 **Caer Hodni** Gw. nodyn brig cerdd 56.

21 **trithwr** Ai tri mab Syr Rhoser Fychan (m. 1415) a Gwladus ferch Dafydd Gam? Gw. nodyn big cerdd 46.

Traethen Rhoddir i *traethen* yr ystyron 'traeth (bychan), glan (y môr); banc tywod; ? bro, ardal' yn GPC 3534, ond pwysleisir bod ystyr nifer o'r enghrau. yn ansicr. Ymddengys fod y *Draethen* yn e. lle yn GLGC 157.35n a 164.26, sef pentref (y) *Draethen* sydd ar lan orllewinol afon Rhymni, nid nepell o Fachen. I'r flwyddyn 1647/8 y perthyn y cyfeiriad cyntaf ato yn ArchifMR. Pontydraethen yw'r bont sydd yn croesi afon Rhymni i gyfeiriad y dwyrain. Digwydd yr e.c. mewn cwpled a ailadroddir mewn dau gywydd marwnad o waith Lewys Morgannwg, gw. GLMorg 30.9–10 *Fal pont aeth oll i'r draethen / Yw ffaelu post Ffylib hen, 62.23–4 Y bont aeth ar y draethen / O ffaelu pyst Ffylib hen*. Awgryma'r fannod ynghyd â'r enw Pontydraethen mai *Traethen* oedd y ffurf gysefin. Cynigir mai'r e. lle sydd yma. Galwodd E. Rolant, 'Ifor Hael', *Traethodydd*, 1981, 131–2, sylw at yr enghrau. yng ngwaith Lewys Morgannwg a Hywel Dafï, a chyfeiriodd hefyd at y llau. hyn mewn cywydd a ganodd Dafydd ab Ieuan Llwyd i Fachynlleth: *ysda dref ysdod ir oedd / osdri ydywr ysdrydoedd / dynai throi n wledd draethen lan / dyna r erw yn dwyn yr arian*. Ceid yng nghyffiniau Machen fwynau gwerthfawr a bu'r Rhufeiniaid yno'n cloddio am blwm.

24 **gwae'r bwch** Gellid ystyried diwygio yn *gwae'r bwlch*, ond y mae *bwch* yn ystyrllon serch hynny. Nid oes enghrau. sydd yn perthyn i'r 15g. o'r ymadrodd *bwch dihangol*, gw. GPC 351, er y gweddaï'r priodddull yn y cyd-destun hwn sydd yn ensynio dialedd a thalu'r pwyth. Posibilrwydd arall fyddai dehongli *bwch* mewn cyd-destun brudiol neu

- gysylltu'r ymadrodd ag un o arwyddion y sidydd. Y bwch yw'r degfed arwydd, gw. DrOC 111–14; *a blinder a arwydocaa*, gw. GPC 351.
- 27 **dydd drin** Disgwyliid *dydd trin* ond y mae Pen 67 a Pen 99, a'r gynghanedd, hithau, o blaid *dydd drin*. Ar dreiglo e.p. mewn ymadroddion genidol yn dilyn eg., gw. 2.1n.
- 29 **Merched ... y marchog** Gw. 56.19–20n. Rhestrir saith o ferched Syr Rhoser Fychan yn WG2 461.
- 29–36 Ar y motiff hwn mewn cywyddau marwnad, cf. GIGeth 8.39–40 *Addewais ar weddion / Ei bwys o aur er byw Siôn*, ib. 10.23–4n *Er hwnnw y rhôl Wynedd / O aur ei bwys ar y bedd*.
- 35 Cywirer un darlleniad yn Peniarth MS. 67 *Ar i vodd* (gthg. *vedd*) *ni ryveddwn*.
- 35–6 Dyfynnir y cwpled yn *Cywyddau Cymru*, gol. A. Hughes (Bangor, 1926), 94.
- 37 Digwydd y ll. yn un o gywyddau Gruffudd Llwyd, gw. GGL1 7.14.
- 46 **Einion Yrth** Cf. GSC 26.35–6 *Cwyr ar Erbin, cau'r eurbyrth, / Crynu nen caer Einion Yrth*. Un o feibion Cunedda Wledig a ddaeth gyda'i dad a'i frodyr o Fanaw Gododdin i Gymru oedd Einion, gw. WCD 232; CLC² 121 d.g. *Cunedda*. Rhestrir ei ddisgynyddion yn WG1 tabl 3. Priododd chwaer Einion ag Amlawdd Wledig ac yr oedd nifer o saint ymhlith eu disgynyddion, gw. LBS i, 98. Un ohonynt oedd Teymog, nawddsant Llandyrnog yn Nyffryn Clwyd. Mewn cywydd a ganodd Siôn ap Hywel iddo, enwa Einion Yrth yn un o'i dylwyth, gw. GSH 17.23–4 *Naf a'u heurodd, Nef hirwen, / Nerth wyd o Einion Yrth hen*.
- 47 **Coel** Fe'i gwneir yn iarll Caerloyw ym Mrut Sieffre ac yn dad i Elen Luyddog, gw. WCD 135; BD 69 *A guedy marv Coel y kymyrth Constans coron y teyrnas, ac y kymyrth un uerch oed y Coel yn wreic idav. Sef oed y henv Elen uerch Coel, a honno un Elen Luydavc*. Ailadroddir hyn yn P.C. Bartrum, 'Y pedwar brenin ar hugain a farnwyd yn gadarnaf', *Études* 12 (1968–71), 157–94 *Koel godeboc, iarll Kaerloyw, a vv vrenin da, kywaethoc ... Ac iddo y bv verch a elwid Elen, a hono o briodes Konstans, amerawdwr Rrvvain, a hi a elwid Elen lvyddoc, ac a gavas y Groes Vendigaid*.
- 54 **Owain Gwynedd** Mab Gruffudd ap Cynan, a thad Iorwerth Drwyndwn, gw. HW 80–1; ByCy 651–2.
- 55 **y Dinas faith** Eg. yw *Dinas* pan fydd yn e. lle, gw. Treigladau 5, a cf. 9.17n *Tras y Dinas a'i 'dwaenai*, ond treigilir yr a. yma fel pe bai *Dinas* yn eb.
- 56 **pob nef o'r naw** Am gyfeiriadau, yn enwedig yng nghanu'r hen feirdd, at y naw gradd nefoedd a'r naw gradd o angylion a drigai ynddynt, gw. GPC 2558 d.g. *nawnef*; Bl BGCC 12.19n a cf. GG.net 20.37 *myn y*

nawnef.

59

Canwyd cywyddau o foliant i Frycheiniog gan Siôn Cent, Llawdden a Hywel Dafî, gw. IGE² cerdd LXXXIX; GLL cerdd 18; NBBM i–ii; M.P. Bryant-Quinn, ‘“Bro wych annwyl”: Cywydd Siôn Cent i Frycheiniog’, *Dwned*, 13 (2007), 77–95. At hyn, ceir tri disgrifiad cynnil gan Huw Cae Llwyd a’i fab Ieuan, dau fardd a fu’n byw ac yn canu ym Mrycheiniog, gw. HCLL cerddi XLV, LI, LII. Ymddengys fod dau o’r cywyddau wedi eu canu cyn i’r ddau fardd gychwyn ar eu pererindod i Rufain yn 1475. Cyffelyba Ieuan dref Aberhonddu i *Constantinobl Cymru bobloedd*, / *Cartref megis nef in oedd*, gw. *ib.* LI.9–10. Rhoddir clod dibrin i haelioni’r trigolion, yn wreng a bonedd, yng nghywydd Siôn Cent tra disgrifia Llawdden a Hywel Dafî ill dau nodweddion daearyddol y wlad a’i darpariaeth doreithiog cyn cyfeirio at y teuluoedd cynnar a diweddar a ymsefydlasai o fewn ei ffiniau. Ar ddiwedd ei gywydd ef dywed Hywel Dafî fod disgynyddion tair cenedl i’w canfod yn y wlad hon, sef disgynyddion Caradog Freichfras, y rhai o dras Normanaidd yn ail, a disgynyddion Brutus o Gaerdroea yn drydydd. Rhagflaenir y datganiad hwnnw gan restr o enwau rhai o brif deuluoedd y sir, ac y mae’r teuluoedd o dras estron yn amlwg iawn yn eu plith. Bernard de Neufmarché a oedd yn rheoli Brycheiniog yn negawdau cyntaf y ddeuddegfed ganrif ac ef a ddechreuodd godi’r castell ger y fan lle yr ymuna afon Honddu ag afon Wysg. Erbyn 1106 yr oedd wedi sefydlu bwrdeistref yng nghysgod y castell, ac yn ystod ei oes ef y dechreuwyd codi’r eglwys a gysegrwyd i Ioan, gw. HW 436–9. Rhestrodd Theophilus Jones enwau’r rhai a fu’n cynorthwyo Bernard wrth iddo geisio sicrhau awdurdod dros yr ardal hon, ac enwir nifer ohonynt yn y cywydd hwn, sef Awbrai, Bwrchill, Gwnter, Picard, Walbi, Hafart a Swrdwal, gw. HCBrec i, 92. Aeth Theophilus Jones rhagddo hefyd i nodi, ‘The descendants of most of these Normans still continue in the country, and the neighbourhood, though several of them have changed their names according to the Welsh custom’. Cynnwys y cywydd wybodaeth fyw-graffyddol bwysig am Hywel Dafî am ei fod yn datgan iddo dreulio cyfran o’i oes yn Aberhonddu. Gobeithia hefyd y caiff loches yno yn ei henaint.

Byddai Siôn Dafydd Rhys yn canmol Brycheiniog yr un mor frwd ryw ganrif a mwy yn ddiweddarach. Barnai *nad oedd vnwlad ynn Nghymru o rann Pendefigion, a Boneddigion, a Chyphrêdin, well ei phobl, lanach eu cynheddfeu, syberwach eu moeseu, na hawddach câel cymwynas ddâ ganddynt, ym mhôb môdd y ceisiyd, na gleindid, na hawddgarwch, na chymwynas, na syberwyd, na dim dâ arall mewn vndyn; no phobl Wlâd Frycheinioc*, gw. *Rhagymadroddion 1547–1659*, gol. G.H. Hughes (Caerdydd, 1967), 78.

Diogelwyd y cywydd mewn dwy ffynhonnell. Ymddengys mai Rhys Fardd a gopiodd y testun sydd yn Pen 54, a hynny tua 1480, tra copiwyd Pen

96 gan Lewys Dwnn ryw ganrif yn ddiweddarach. Collwyd y tri chwpled cyntaf yn Pen 54 ond y mae tri chwpled yng nghorff y cywydd sydd yn nhestun Pen 54 yn eisiau yn Pen 96. Ychwanegwyd enw *dd lloyd* ar ôl *ho ap dd ap Jen ap Rrys* yn Pen 54, gw. 'Cerddi Ansic' td. 49.

- 3 **tair bro uchel** Tri chantref Brycheiniog oedd Cantref Selyf, y Cantref Mawr a Thalgarth, gw. WATU 21; HAW plât 27; W. Rees, 'The mediaeval lordship of Brecon', THSC, 1915–16, 204–5. Cf. ll. 33 a GLI 18.13 *Trychantref yw ei threfydd* (ond bernir mai 'tri chan tref' yn hytrach na 'tri chantref' yw *trychantref*). Sefydlwyd y deyrnas annibynnol hon gan Frychan, 'one of the most shadowy figures of Welsh legend', gw. HW 270–2.
- 5 Cf. 86.49–50 *Cog ym Mrycheiniog ni cân / Na chyw mwyalch am Ieuan*.
Bai trwm ac ysgafn. Cyflewyd ansawdd y sillafau (*mann / kan*) yn eglur yn y llgr.
- 6 **can** 'Bara gwyn', gw. GPC 407, yn drosiadol yma am luniaeth ddibrin. Dilynwyd yr unig lsg., *wybr a chann*, am fod *cân* yn digwydd yn y ll. flaenorol.
- 7 **brwd** 'Bragiad, darllawiad (o gwrw)', gw. GPC 334–5, a cf. un o'r enghrau. a ddyfynnir *o vrwd a rrost i mynnai*.
- 8 **brig gwinwydd** Disgrifio'r bwyd a'r llyn a wneir yn y llau. hyn ond defnyddir *gwinwydd* a *brig* yn ffig. i gyfleu ystyron megis 'cyff bonheddig' a 'hiliogaeth', gw. GPC 324, 1666.
- 9 **digrynsaig** Rhoddir i *digryno* yr ystyron 'heb fod yn gybyddlyd, hael, rhydd', gw. GPC 1001, felly 'saig barod neu helaeth'.
- 14 Bai crych a llyfn; gw. 'Cynghanedd' td. 42.
- 19 Cynghanedd sain gadwynog, a thrachefin yn ll. 61. Ceir gynghanedd sain drosgl yn llau. 43 a 57.
- 21 **dŵr** Cyfeiria Llawdden, yntau, at yr afonydd sydd yn llifo trwy Frycheiniog. Enwir Nedd, Taf, Tawe ac afon Wysg yng nghywydd Hywel Dafi tra enwir Wysg, Ysgir, Taf, Tawe a Hodni gan Lawdden. Yn ôl T. Jones, 'The principal rivers in this county, are the Wye, the Usk, the Irvon and the Tawe', gw. HCBrec i, 15.
neud arweddiad Tebyg mai *arweddiad*¹ 'cynheiliad, cefnogwr' sydd orau yn hytrach nag *arweddiad*² 'ymddygiad, ymarweddiad; gwedd, ffurf', gw. GPC² 485. Awgryma darlleniad Pen 96 mai sylw cadarnhaol sydd yma, ac felly diwygiwyd *nid* Pen 54 yn *neud*.
- 22 **pedair gwlad** Yr hen deyrmasoedd y llifai'r afonydd trwyddynt sef Brycheiniog, Morgannwg, Gwent ac Ergyng. Adferwyd cysefin y rhifol am mai arfer y bardd oedd cadw cysefin gwrth. bf. 3 un.pres.myn., gw. 5.36n.

- 23–4 **pedair afon, / Paradwys** Gw. Gen 2.10–14 *Ac afon a aeth allan o Eden, i ddyfrhau yr ardd, ac oddi yno hi a rannwyd, ac a aeth yn bedwar pen. Enw y gyntaf yw Pison ... Ac enw yr ail afon yw Gihon ... Ac enw y drydedd afon yw Hidecel ... a'r bedwaredd afon yw Ewffrates.* Fe'u henwir yn 'Efengyl Nicodemus', gw. HMSS 244 *Ef a welai yno heuyt ffynnawn eglur. ac ohonei pedeir ffrwt yn llithraw. Enweu y pedeir auon oedynt physon. gyon. tigris. eufrates. Ar pedeir auon hynny yssyd yn gwassanaethu dwfyr echwyd yr holl vyt.* Gw. hefyd Peniarth MS. 67, 48 *ffynon ysydd ym hyradwys dan von y pren y pechodd adda ac eva arnaw a ffedair ffrwd addaw o honvnt ai henwaw yw phisson Sion tigrys eufratres.* Cyffelybir y gwaed a lifodd pan dorwyd pen Gwenfrewy i lifeiriant afonydd enwog, gw. TA CXXXIX.32–8 *Tarddu ennaint Iorddonen; / Llai o ferw yn llif Aeron / Neu Euphratês no ffrwd hon; / Gihon yn dwyn y gwin da, / Seon, Tigris, Sant Agra; / Awdl Dibr neu wlad Ebryw, / Aroglau nef i'r glyn yw.*
- 25 **neifion** Ymddengys fod y llsgrau. o blaid *Ffeision* yma, ond digwydd yr enw hwnnw yn ll. 28. Diwygiwyd yn *neifion* 'moroedd, dyfroedd; duw môr y Rhufeiniaid', gw. GPC 2565 a cf. GLGC 95.56 *ef a yrr nifer i fôr Neifion.* Sicrheir cymeriad llythrennol o dderbyn *neifion*.
- Offrates** Gw. llau. 23–4n.
- 26 **Teigrs** Yr enw Hebraeg ar yr afon hon yw Hidecel. Ymuna afonydd Teigrs ac Offrates cyn cyrraedd eu haber yng ngwlff Persia.
- Taf** Er bod tarddiad afon Taf ym Mrycheiniog, nid yw'r afon yn dod yn un sylweddol nes iddi gyrraedd Morgannwg, gw. HCBrec i, 15.
- 26–8 **Nedd ... Taf; / Tawy ... / ... Wysg** Enwir pedair afon sydd yn llifo trwy Frycheiniog, ac uniaethir pob un yn ei thro ag un o'r pedair afon a'u tarddiad yng ngardd Eden. Enwir pedair afon drachefn yn y cywydd a ganodd Huw Cae Llwyd, gw. HCLL XLV.5–6 *Dygaf rhwng pedair afon / Dy led a hyd a wlad hon.* Enwir Baedan, Cynon, Irfon a Gwy, ac fel yr awgryma'r bardd y mae'r rhain yn cyfleu hyd a lled gwlad Brycheiniog. Ymuna afon Irfon â Gwy yn Llanfair-ym-Muallt ac y mae tarddiad afon Cynon yng Nghwm Cadlan ar gyrion deheuol y Bannau, nid nepell o Benderyn. Ymuna Baedan ag afon Wysg ger Llanwenarth, gw. EANC 38.
- 27 **Teon** Disgrifia Iolo Goch Owain Glyndŵr yn *Tëyrn Carneddau Teon*, gw. GIG VIII.30, sef Stiperstones yn swydd Amwythig, ac ymhellach B vii (1933–5), 368–9. Nid yw hi'n amlwg pam y dewisodd Hywel Dafi enwi'r lle hwn wrth fawrygu afonydd Brycheiniog. Bernir y dylid deall mai'r afon Gion sydd dan sylw, sef yr ail afon sy'n llifo o baradwys. Nid yw'r gynghanedd yn caniatáu mabwysiadu'r ffurf *Gion*.
- 30 **ail daear** Ar ystyron *ail* a'r arferion treiglo, gw. 4.5n.

- gwlad Ieuan** Y wlad yn y dwyrain y disgrifiwyd ei rhyfeddodau yn y llythyr a gyfeiriwyd at ymherodr Caergystennin, ac a adwaenir wrth yr enw ‘Llythyr y Preutur Siôn’ neu ‘Ystoria Gwlad Ieuan Fendigaid’, gw. YGIV ac *ib.* lii–liix lle y trafodir y cyfeiriadau sydd yng nghanu’r beirdd. Cf. sylw Siôn Cent yn ei gywydd ef i Frycheiniog yn IGE² LXXXIX.3 *Brychan wlad Ifan dwyfawl*, ond dangosodd M.P. Bryant-Quinn, ‘“Bro wych annwyl”: Cywydd Siôn Cent i Frycheiniog’, *Dwned*, 13 (2007), 78–80, mai ffrwyth camddarllen *Brychan wlad, dyfiad dwyfawl* sydd yma. Dichonadwy hefyd fyddai’r Apostol Ieuan; cf. y cyfeiriad at Ysbyty Ifan yn DN 1.5–6 *Megis ysbytau Ieuan / Yw i dai o fwyd i wan*.
- 32 **India** Gw. ll. 30n a 54.34n.
- 33 **hyd dôl** Ni cheid treigladd pan fyddai *hyd* yn gyfystyr ag ‘ar hyd’ ond treiglid i gyfleu’r ystyr ‘hyd at’, gw. Treigladdau 293–4. Bernir mai’r cyntaf sydd yma ond gellid y naill neu’r llall yn ll. 42, *hyd Tawy / hyd Dawy*. Ni threiglwyd yr e.p. yn y ddwy lsg. ond y mae’n bosibl mai cyfleu’r sain yng nghysgod y feddal *d* a wneir yma. Gw. ymhellach 10.6n.
- 34 **trŵn Cynog** Yr eglwys a gysegrwyd i Gynog ym Merthyr Cynog ym mhen uchaf y dyffryn y llifa afon Ysgir Fawr trwyddo.
tre ’n eu canol Tref Aberhonddu.
- 37 **Einion** Einion Sais a ddisgynnai o Fleddyn (ll. 45) ap Maenyrch. Olrheinai Dafydd (ll. 38) Gam ei ach hyd at Einion, gw. nodyn brig cerdd 20 a 2.5n.
- 38 **had Dafydd** Gw. ll. 37n. Canodd Hywel Dafï gywydd marwnad i Wladus, merch Dafydd Gam, a chyfarchodd Forgan, ei brawd, a’i ddisgynyddion yntau, gw. cerddi 19–27.
- 39 **tri Trahaearn** Anodd dweud i sicrwydd pwy yw’r tri ond digwydd yr enw ymhlith disgynyddion tri mab Maenyrch, sef Bleddyn, Drymbenog a Madog. Y mae’n bosibl mai’r tri dan sylw yw: i. Trahaearn o Langors, mab Gwgon ap Bleddyn, gw. WG1 85; ii. Trahaearn Fychan ap Trahaearn ... ap Moreiddig ap Drymbenog o Sgethrog yn Llansanffraid-ar-Wysg, gw. WG1 242; iii. Trahaearn ap Madog ap Trahaearn ab Einion ap Madog ap Maenyrch, gw. WG1 663. Trigai’r gangen hon yn y Beili-brith, a chanodd Hywel Dafï i dair cenedlaeth, gw. cerddi 6–12.
- 40 **Roser** Yr oedd Syr Rhoser Fychan (m. 1415) a briododd â Gwladus, merch Dafydd Gam, yn fab i Roser Hen ap Gwallter Sais ap Rhoser Ieuan ap Rhoser Fawr, gw. WG1 243. Canodd Hywel Dafï i’w fab ac i ddau o’i wyron, gw. cerddi 46–58.
- 40–1 **Rhys ... / ... Adam** Rhys Llwyd ab Adam, sef hynafiaid Hywel Dafï ei hun. Disgynyddion Bleddyn ap Maenyrch oedd y gangen hon.

- 42 **dau Owain** Anodd gwybod pwy oedd y ddau hyn. Y ddau Owain amlycaf oedd Owain Gwynedd ac Owain Glyndŵr. Er bod y bardd yn enwi'r ddau, nid oedd cyswllt amlwg rhyngddynt a'r teuluoedd a drigai ym Mrycheiniog.
hyd Dawy Gw. ll. 33n.
- 43 **Gwganiaid** Yr oedd Gwgan yn fab i Fledwyn ap Maenyrch, gw. ll. 39n. Ef oedd cyndad teulu Gwgan neu Wgon Cas-wis yn sir Benfro, gw. WG1 85.
Bledriaid Disgynyddion Bledri Latimer, mab Cydifor Fawr, ond fe'u cysylltir yn fwyaf arbennig â theyrnasoedd Deheubarth a Gwent.
- 44 **Bryfaeliad** Teuluoedd brodorol a restrir yn y rhan hon o'r cywydd, ond ni ddigwydd yr enw ym mynegeion WG1/WG2.
- 45 **milioedd** Rhestrir y ffurfiau ll. *miloedd* a *milioedd* yn GPC 2455.
Bleddyn Gw. ll. 37n.
- 46 **Moreiddig Wyn** Mab Drymbenog ap Maenyrch oedd Moreiddig Warwyn, cyndad Fychaniaid Brodorddyn, Hergest a Thretŵr, gw. WG1 242.
- 47 **cenhadwyr** Ffurf l. *cenhadwr* 'negesydd, llatai' < *cennad* 'negesydd', gw. GPC 463 ac *ib.* 464 d.g. *cennad*¹. Ond efallai mai *cennad*² 'caniatâd, trwydded' yw'r bôn, a dyna'r ystyr yn 51.47–8 *Ni chawn gennwch un gennad / Iddo er gorlidio'r wlad*. Rhoddir i *cenhadwyr*, felly, yr ystyron 'rhai sydd yn trwyddedu, rhai sydd yn estyn gwahoddiad'.
- 48 **Brynachiaid** Disgynyddion y sant Brynach. Yr oedd ef, fel Brychan, yn Wyddel. Daeth i Gymru gyda Brychan a phriododd ag un o'i ferched, gw. LBS i, 321–7. Gw. ll. 60n.
- 51 **Hafardiaid** Ym Mhontwilym ger Aberhonddu y trigai'r teulu hwn. Syr Walter Hafart oedd y cyntaf o'r teulu i drigo yno a derbyniodd y lle yn rhodd gan Bernard de Neufmarché. Canodd sawl bardd i'r teulu yn y 15g., a Lewys Glyn Cothi, Guto'r Glyn ac Ieuan Deulwyn yn eu plith, gw. yr arolwg yn NBBM 157–73. Yn ei gywydd i Frycheiniog, dywed Llawdden fod disgynyddion Einion Sais ynghyd â *Rhif o wyrda'r Hafardiaid* yn byw yno, gw. GLI 18.34. Cyfarchodd Hywel Dafî, yntau, dri aelod o'r teulu, gw. cerddi 28–30.
- 52 **Walbiaid** Priododd sawl aelod o'r teulu hwn â disgynyddion Drymbenog ap Maenyrch, gw. WG2 1744.
Gwnteriaid Trigai aelodau o'r teulu lluosog hwn ym Mrycheiniog ac yng Ngwent, gw. WG2 863–8 a hefyd gerdd 43 gan Hywel Dafî i un aelod o'r teulu (er bod peth ansicrwydd ynghylch union wrthrych y moliant).
- 53 **Bwrchill** Teulu Bourghill neu Burgill. Yr oedd chwe gŵr a chanddynt

y cyfenw *Bourghall* yn fwrdeisiaid yn Aberhonddu yn 1415, ac yr oedd gan ddau ohonynt enwau bedydd Cymraeg, sef *Ieuan* a *Lewelin*, ond un yn unig sydd yn dwyn y cyfenw hwn erbyn 1443, gw. J. Alban & W.S.K. Thomas, 'The charters of the borough of Brecon, 1276–1517', *Brycheiniog*, xxv (1992–3), 47, 51; hefyd WG2 292. Ail wraig John Burchill (cenhedlaeth 6) oedd Catrin, merch Hywel ap Trahaearn ap Gwgan ap Bleddyn ap Maenyrch, gw. WG1 85. Yr oedd nifer o aelodau'r teulu hwn byw yng nghyffiniau Crucywel yn hanner cyntaf y 15g.

- 54 **Swrddwals** Ychydig a wyddys am deulu ac am gynefin y bardd Hywel Swrdwal a'i fab Ieuan, ond tebyg i'r Swrdwaliaid cyntaf ddod i Gymru, ac i Frycheiniog, yn fuan ar ôl goresgyniad y Normaniaid. Yr oedd un aelod o'r teulu yn gysylltiedig â phlwyf Aberysgir yng Nghantref Selyf a cheir cyfeiriad ar ddechrau'r 18g. at denement o'r enw *Tyr Howel Surdwal* yn y plwyf, gw. GHS 1–5; hefyd HCBrec ii, 205. Nid oedd cyswllt amlwg trwy briodas rhwng y Swrdwaliaid a'r gwŷr a'r gwraeged y canodd Hywel Dafï iddynt.

Canodd Hywel Dafï farwnad i Ieuan, ac awgrymodd fod cyswllt clòs rhwng y ddau ohonynt: 86.15–16 *Dau frawdwrriaeth a wnaethom, / Â dwylo rhoed deulw rhôm.*

Pitsierdiaid Teulu Picard neu de Picardé neu Pitcher. Ceir yr enw hwn yn y siarteri cynharaf sydd yn ymwneud ag Aberhonddu, gw. HW 437. Cafodd yr ymsefydlydd cyntaf dir yn rhan uchaf Dyffryn Yw, ac ef a adeiladodd y castell yn Nhretŵr, gw. C.A.R. Radford and D.M. Robinson, *Tretower Court and Castle* (Cardiff, 1986), 2–3. Yr oedd *Edmund Pychard* yn fwrdeisiwr yn Aberhonddu yn 1415 ac yr oedd yn dal yno yn 1443, gw. J. Alban and W.S.K. Thomas, *art.cit.* 47, 51.

- 55 **Awbrai** I Domas Awbrai, y Cwnstabl Coch o Abercynfrig ym mhlwyf Llanfrynach, yr olrheindir achau'r disgynyddion a restrir yn WG2 44–9. I gyfnod diweddarach y perthyn y nawdd a roes y teulu yn y cartref hwn, a'r gangen arall ym mhlwyf Llanfilo, i Ddafydd Benwyn a Lewys Dwnn yn ôl NBBM 717, 728. Dangoswyd yn ddiweddar fod Dafydd Epynt wedi canu i Hopgyn ap Siancyn Awbrai o Abercynfrig, a hynny cyn diwedd y 15g., gw. GDEp cerdd 17. Awgryma Dafydd Epynt fod hynafiaid Hopgyn, hwythau, wedi croesawu beirdd yn y cartref, gw. GDEp 17.51–2 *Dy daid, o bai raid i brydydd—wrth dda, / A rôl'r aur Afia, eryr ufudd.* Canodd Lewys Glyn Cothi i un o ddisgynyddion Tomas Awbrai, sef Rhys ap Siancyn o Aberteifi, gw. GLGC cerdd 33, ac efallai mai'r un gŵr a gyferchir mewn cywydd o waith Ieuan Deulwyn, gw. ID cerdd XL.

- 56 **Ysgŵls** Priododd Tomas ap Dafydd Llwyd ap Hywel ab Einion Sais â Siân Skull, a mabwysiadwyd y cyfenw hwnnw gan rai o'u meibion, gw. WG1 100. Yr oedd gwŷr a oedd yn dwyn y cyfenw hwn yn fwrdeisiaid

yn Aberhonddu yn 1415 a 1443, gw. J. Alban and W.S.K. Thomas, *art.cit.* 47, 51.

59 **Caradog ... fras ei fraich** Caradog Freichfras. Cysylltir ei ddisgynyddion â Maesyfed ac â Brycheiniog. Fe'i henwir yn nifer o'r Trioedd a cheir sawl cyfeiriad yn y canu ato ef a'i wraig Tegau Eurfron, gw. WCD 102-4; TYP³ 304-5. Yr oedd yn fab i Lŷr Merini a rhoddir ei enw yn llawn yn 90.5 *Piler ac eryr, mal Cradog ap Llŷr*. Enwir Llŷr Merini a Charadog yn y cywydd a ganodd Llawdden i Frycheiniog, gw. GLI 18.41-2, 45-6 *Llawr mawr iawn Llŷr Merini, / Llew oedd hwn a'i llywiodd hi / ... / Cwmpas Cradog Feichfras fry, / Coed o hwn yn cadw hynny*.

60 **Brynaich** Talaith Bernicia yng ngogledd Lloegr fel arfer, gw. GPC 340. Gelyniaethus yw cywair y cyfeiriadau ati ran fynychaf, gw. GDLI 44.9-10 *Â llath braff o lawllwyth braich / Lladd o'u bron lluoedd Brynaich*. Yma ymddengys fod y cyfeiriad yn fwy cadarnhaol: 'Cafodd Caradog nerth breichiau y Brynaich'. Gall, felly, mai ffurf l. *Brynach* yw *Brynaich* megis *Brynachiaid* yn ll. 48.

n berfeddgoll. Y mae'r gynghanedd yn gryfach yn y ddwy lsg., ond diwygiwyd er mwyn gwella'r ystyr.

61 **cwnewerwyr** Y Normaniaid a'u disgynyddion. Digwydd y gair hwn yn fynych yng nghanu Lewys Morgannwg yn yr 16g. wrth iddo gyfarch y teuluoedd o dras estron a ymsefydlasai ym Morgannwg, rhan arall o Gymru a wladychwyd yn gynnar gan y Normaniaid. Gw. GLMorg 1.40n a cf. GDEp 16.41-2 wrth gyfarch Mawd, merch Morgan Awbrai: *At ddugiaid hi a ddygir, / Normant wen orau man tir*.

Bedwyr Un o'r marchogion a fu'n gysylltiedig ag Arthur o'r dechrau. Fe'i henwir yn y chwedlau, yn y Trioedd, yn y canu a ddiogelwyd yn Llyfr Du Caerfyrddin, a hyd yn oed yn y Bucheddau, gw. WCD 36-7. Yn ôl Sieffre, *rodes Arthuyr y Uedwyr y ben trullyat yarlaeth Normandi*, gw. BD 156. Gwyddai Hywel Dafi am hyn.

62 *n* wreiddgoll.

63 **Brutus** Cymysg yw'r gynhysgaeth ym Mrycheiniog, ond gthg. y datganiad sydd yn Pen 50 ac a ddyfynnir yn TYP³ 246 *Ac nyt oes dlyet y neb ar (yr) Ynys Honn, namyn y genedyl Gymry ehun, Gweddilyon y Brutannyeit, y ddeuth gynt o gaer Droea*.

Cyfatebiaeth *st = -s d-*. Ceir yma hefyd naill ai twyll gynghanedd *d* neu gyfatebiaeth caled a meddal *d = t*.

66 **cydgenedl** 'Cyd-dylwyth, ceraint; cyd-wladwyr, pobl o'r un wlad', gw. GPC 662. Perthyn yr engh. gynharaf i'r 16g.

70 Cf. 14.56 *I mi hwnnw i'm henaint*.

llyma gywydd heddwg Rwnge sir Vrychainog a sir vorgannwg, yn ôl Card 5.44, a thebyg yw'r pennawd yn y llawysgrifau eraill. Er bod sôn am y ddwy ardal yn y cywydd, ymddengys mai nod y bardd yw sicrhau cymod rhwng aelodau o'r un tylwyth, y naill gangen yn byw ym Mrycheiniog a'r gangen arall ym Morgannwg. Gelwir am gymorth pedwar sant, sef Dewi, Teilo, Cadog a Chynog, a gall fod y cyfeiriadau dysgedig a manwl yn llinellau 43–6 at y berthynas waed rhwng y saint hyn yn ddrych i'r berthynas deuluol rhwng y rhai sydd wedi ymddieithrio. Ni fanylir ar yr anghydfod, ond sonnir am ddal swyddau a manteisio ar hynny (*cribddeilwyr* ll. 13). Fe all fod a wnelo'r helynt â rhyw wrthdaro rhwng y Cymry a'r Saeson hefyd; pwysleisia'r bardd mai'r Saeson sydd ar eu helw am fod y Cymry yn cynhenna.

Galwodd D. Evans, 'Ysgarmes ar Fynydd Llangeinwyr', Cylchg LIGC xxv (1987–8), 44–52, sylw at ysgarmes y cyfeiria yr hanesydd Rhys Amheurig ati ac a fu rhwng gwŷr Morgannwg a Brycheiniog ar fynydd Llangeinwyr. Lladdwyd nifer o wŷr Brycheiniog wrth iddynt ddychwelyd adref ar ôl bod yn creu ffrwgd yn ffair Ewenni, a gwŷr Morgannwg yn eu herlid, a holodd tybed ai digwyddiad fel hwn a ysgogodd y cywydd. Gwyddai Iolo Morganwg am y cywydd am fod testun wedi ei ddiogelu yn LIGC 13061B a fu yn ei feddiant, a barnai: 'It is on the battle of Francton Field, between the people of Glamorgan and those of Breconshire', gw. CIM llythyron 652–3. Ni chofnodwyd yr enw *Francton* yn ArchifMR, ond gellir ei uniaethu â Framton (ffurfiau eraill yw Frampton a Frankton), gw. B.G. Charles, *Non-Celtic Place-Names in Wales* (London, 1938), 151–2.

Awgrymodd B.O. Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350–c.1630* (Caerdydd, 1998), 51–2, mai yn ail hanner y bymthegfed ganrif y dechreuodd y beirdd lunio cywyddau i geisio cymod. Y mae'r cywydd hwn, felly, ymhlith y cynharaf. Lluniwyd un o'r cywyddau cymod mwyaf adnabyddus gan Dudur Aled, gw. G.A. Williams, '“Tudur Aled ai cant yn dda om barn i”': cywydd cymod Wmffre ap Hywel ap Siancyn o Ynysmaengwyn a'i geraint', LICY 30 (2007), 57–99. Un nodwedd ar gywydd Hywel Dafi yw'r defnydd helaeth o dermau cyfreithiol sydd yn ymwneud ag erlyn a chymodi: *oed dwylan* (ll. 40), *tafodog* (ll. 42), *ethrod* (ll. 45), *cydlys* (ll. 50), *brawdwr* (ll. 51), *cyngaws* (ll. 61). Tâl nodi bod dau ddarn cyfreithiol wedi eu cofnodi yn Pen 67, sef *Saith ryw gwyn y sydd ... a llyma ddadl kroes am dir a dayar herwydd y ddefod yssydd y myrcheiniog arveredic*, gw. Peniarth MS. 67, XX, XXX.

Diogelwyd y cywydd mewn pum copi sydd yn llaw Llywelyn Siôn. Y mae rhai darlleniadau unigryw yn LIGC 970E ac atgynhyrchwyd y rhain yn LIGC 13061B. Gwelir bod ambell ymadrodd yn wahanol yn LIGC 5474A a

CM 109. Manion yw'r rhain ond y maent yn werthfawr pan fydd testunau Llywelyn Siôn yn gwahaniaethu.

1–4 Tywyll, braidd, yw'r ddau gwpled agoriadol. Gellid diwygio *un* yn *ynn*, cf. y defnydd o'r ardd. 1 ll. yn llau. 35, 54, 59, ond ffurf unigol y rhagenw sydd yn ll. 3 *efô*, er bod y bardd, o l. 5 ymlaen, yn cyfeirio at yr elyniaeth rhwng *brodyr*, *gwŷr*, &c. Cynigir mai cyfeirio ato ef ei hun y mae'r bardd yn hytrach nag at y gwrthbleidwyr. 'Dyma un gŵr y mae ar ei wedd [arwyddion] dialedd oherwydd dau [wŷr] disglair.' Ond gallai'r cwpled gyfeirio hefyd at ba wŷr bynnag o blith y cynhenwyr a gyferchid ar y pryd. Gellid hefyd *Llyma un lle mae i'w wedd / Oddau olau ddialedd*.

4 **diwedd** Rhoddir iddo'r ystyr 'diben, amcan' yn GPC 1056, ac er mai i ganol yr 16g. y perthyn yr enghrau. cynharaf, dyma'r ystyr sydd yn taro orau. Nod llu'r nef a holl drigolion y ddaear yw gweld terfyn ar y casineb. Ceir *diwedd byd* a *diwedd nef* yn llsgrau. Llywelyn Siôn, ond *diwedd byd* yn LIGC 5474A a CM 109.

7 Mabwysiadwyd *mwyfwy* BL Add 31070 sydd yn cynnal y cymeriad llythrennol yn llau. 5–8.

14 **yswydd** 'Darnau, drylliau, malurion', gw. GPC 3872. Diwygiwyd *a sydd / y sydd* y llsgrau. er mwyn gwella'r ystyr.

16–18 **Brain Owain ... / ... / Brenhiniaeth brain** Yn chwedl 'Breuddwyd Rhonabwy' disgrifir y modd yr ymosododd brain Owain ar filwyr Arthur a'u llarpio. Brain yw'r symbol herodrol a gysylltir ag Owain ab Urien ac a arddelid gan y rhai a olrheiniai eu hach ato, gw. DWH ii, 498–9 o dan Syr Rhys ap Tomas. Efallai fod y bardd yn manteisio ar y deunydd chwedlonol yma a'i ddefnyddio fel rhybudd. Ar y llaw arall, efallai fod disgynyddion Urien a'u bys yn y brywes ac yn rhan o'r anghydfod. Y gŵr y disgwylid ei weld yng nghanol helynt fyddai Gruffudd ap Nicolas, un o'r gwŷr mwyaf pwerus a mwyaf didostur yn ne Cymru tua chanol y 15g., gw. nodyn brig cerdd 80 a WG1 330–1 lle y rhestrir disgynyddion Elidir Ddu. Cefinderwyr Gruffudd ap Nicolas oedd Gwilym Fychan a Thomas, a phriododd sawl aelod o'r ddwy gangen hyn â theuluoedd o Frycheiniog a ddisgynnai o Fleddyn ap Maenyrch, gw. yr achres yn nodyn brig cerdd 12. Ar un aelwyd yn unig ym Morgannwg y gwyddys i Hywel Dafu ganu, gw. cerdd 74.

Cf. Atod.I.27 *Brain Owain ab Urien walch*.

18 **brenhiniaeth brain** Dygir i gof y dinistr a barodd brain Owain ab Urien yn chwedl 'Breuddwyd Rhonabwy': *neur derô llad dy uackôyeit ath weisson bychein a meibon gôyrda ynys prydein. hyt na byd haôd kynnal yr ynys honn byth o hediô allan*, gw. WM 109.

21 **Cadell** Y mae'n bosibl mai cyfeiriad sydd yma at y modd y rhannwyd

- tiroedd Rhodri Mawr rhwng ei chwe mab. Bu tair o brif deyrnaoedd Cymru o dan reolaeth Rhodri, sef Gwynedd, Powys a Seisyllwg. Olrheiniai tywysogion Gwynedd eu hach hyd at Anarawd ap Rhodri, ond disgynyddion Cadell ap Rhodri a reolai'r Deheubarth, gw. yr achres yn J. Davies: HC 80–1 ac ymhellach 21.21n.
- 24 *n* berfeddgoll.
- 33 **chwiorydd gynt** Gallai ddwyn i gof hanes merched Llŷr a'r modd y tyfodd gelyniaeth rhwng dwy ohonynt a'u tad, gw. BD 26–30.
- chwerw wedd gaeth** Diwygiwyd *chwerwedd* y llsgrau. am mai eg. yn unig yw'r gair hwnnw yn ôl GPC 850.
- 37 **peidio** Rhoddir i'r f. yr ystyr 'dioddef, goddef' yn GPC 2716, gan ddyfynnu un engh. o'r 14g.
- 39–40 **Dewi ... / ... at Deilaw** Yr oedd Brycheiniog yn rhan o esgobaeth Tyddewi tra cysylltir Teilo ag esgobaeth Llandaf. Dangosir ffiniau esgobaethau Cymru yn HAW plât 32. Y mae'r ddau sant, felly, yn cynrychioli'r ddwy wlad lle y mae'r anghydfod. Ar y cyswllt rhwng y ddau sant, gw. ll. 45n. Ar yrfa Dewi, gw. LBS ii, 285–322; BDe. Ar Deilo, gw. LBS iv, 226–42; WCD 605–7.
- 40 **dwylan** Awgrymir y dylai'r pleidiau ddod ynghyd ar lan afon, sef y ffin draddodiadol rhwng gwlad neu ranbarth, i drafod ac i gymodi. Mynega Deio ab Ieuan Du ddeisyfiad tebyg yn ei gywydd ef i gymodi rhwng Rhys ap Maredudd o'r Tywyn a Gruffudd Fychan, Corsygedol, gw. GDID 1.47–8 *Pe cawn i 'nglan Dyfi'r dydd / A gweled bawb ei gilydd ...*. Pwysleisiodd R.R. Davies fod gweithredu y tu allan i fframwaith y gyfraith yn gyffredin gynt: '...what is immediately apparent is that the law was part of a more general framework of social rules and customs and that, like those rules and customs, much of it operated outside the formal, regular institutions which we so often associate with the enforcement of law in later centuries', gw. 'The administration of law in medieval Wales: the role of the Ynad Cwmwd (Judex Patrie)', yn *Lawyers and Laymen*, ed. T.M. Charles-Edwards *et al.* (Cardiff, 1986), 259. Yr oedd gan y gymdeithas beirianwaith i ymateb i anghydfod rhwng ardaloedd a'i gilydd, yn enwedig pe byddent o dan awdurdod gwahanol. Gelwid y cyfarfodydd cymodi hyn yn *parliamentum* neu *dies marchie*, gw. J.B. Smith, 'Cydfodau o'r bymthegfed ganrif', B xxi (1964–6), 309–24. Fe'u cynhelid mewn manau cydnabyddedig ar y ffin rhwng dwy wlad: *Llyma gof y gydvod gyntaf a naethpwyd gwedi kodi Owen ap Gruffudd rrwng Gwynedd a Ffowys Ymwlech Oerddyrws, rrwng Deheubarth a Ffowys yn Eiseddedva Girric, rrwng Powys ac Elvel a Bvellt a Gwarthrynon a Chymwt Devddwr yn Aber Diwlais, a rrwng Powys a Melienydd yn Rrvddwr*, gw. *ib.* 132–3. Awgrymir bod y cof am fan cyfarfod i drafod a thorri dadleuon yn esbonio rhai enwau lleoedd,

gw. B.L. Jones, '*cynnadl, dadl* mewn enwau lleoedd', B xl (1993), 120–1.

- 41 **Catwg** Arno gw. LBS ii, 14–42; WCD 77–9. Cf. 19.4–6n lle y dywed Hywel Dafu fod Catwg yn fab i Wynllyw ac i un o ferched Brychan.
catwo gwledydd Cadw'r gysefin oedd yr arfer yn dilyn ffurfiau 3 un. pres.dib. y f., er bod treiglo yn digwydd yn achlysurol, gw. 47.42n.
- 41–2 **Catwg ... / Cynog** Rhestrir yr eglwysi a gysegrwyd i Gatwg yn LBS ii, 37–8, ond fe'i cysylltir yn fwyaf arbennig â Llancarfan ym Morgannwg. Coffeir enw Cynog ym Merthyr Cynog yng Nghantref Selyf. Canodd y bardd gywydd iddo, gw. cerdd 95. Y mae'r ddau sant hyn drachefn, fel Dewi a Theilo, yn cynrychioli'r ddwy wlad sydd benben â'i gilydd.
- 42 **Cynog** Gw. cerdd 95.
tafodog Yr ystyr gyffredinol yw 'llefarwr; lladmerydd', ond mewn cyd-destun cyfreithiol 'un o ddothar o dystion y gellir derbyn eu tystiolaeth yn ddiateg', gw. GPC 3418. Yn ysgrif D. Evans, 'Ysgarmes ar Fynydd Llangeinwyr', Cylchg LIGC xxv (1987–8), 46, 48, cynigir y darlleniad *Kynog yn Dyvodog vydd*, ac uniaethwyd yr e.p. ag enw'r sant a goffeir yn Llandyfodwg.
- 43 **nai fab chwaer** Ceir yma ddisgrifiad cywir o'r berthynas deuluol rhwng y ddau sant. Yr oedd Cadog yn fab i Wynllyw, brenin Gwaunllŵg, a Gwladus, a Gwladus a Chynog yn blant i Frychan. Fodd bynnag, awgrymir yn LBS ii, 15 mai wyres ac nid merch i Frychan oedd Gwladus.
- 45 **ewythr** Gw. yr achres yn LBS iv, 227 sydd yn dangos bod Dewi a Theilo yn rhannu'r un hynafiaid ac yn perthyn i'r un genhedlaeth. Ond cyfeirir hefyd at gywydd gan Ieuan Llwyd ap Gwilym i'r sant Teilo—yr unig gyfansoddiad wrth ei enw—sydd yn rhoi ach ychydig yn wahanol i Deilo. Awgryma Ieuan Llwyd fod Cedig yn dad yn hytrach nag yn frawd i Hydwn, taid Cedig. Os cywir yr ach hon, byddai Hywel Dafu yn llygad ei le wrth alw Dewi yn ewythr Teilo. Pwysleisiodd E.R. Henken, TWS 290–1, fod gan y beirdd wybodaeth fanwl am achau'r saint.
- 47 **tadwys** Gellid yr ystyr gyffredinol 'tad' ond yma yr ystyr fanylach 'tylwyth neu linach (y tad)' sydd yn gweddu orau, gw. GPC 3410.
- 50 **cydllys** 'Llys cyflafaredd', gw. GPC 664. O gywydd gan Hywel Dafu y daw'r engh. gynharaf a ddyfynnir, gw. 9.7–8 *Ergyd trwm aeth ar goed Rhys / Ladd ac adladd y gydlys*. Y mae Llywelyn Siôn yn LIGC 970E yn trin y gair fel pe bai'n e.p.
- 51 **bydd rhaid** Gellid cryfhau'r gynghanedd trwy ddiwygio yn *bu raid* ond y dyfodol a gyfleir yn y cwpled hwn a'r nesaf.
- 52 **yn bumed ŵr** Y mae'r treigladau i'r enw ac i'r trefnol yn llsgrau. Llywelyn Siôn, y *bymed wr*, yn afreolaidd, gw. Treigladau 140–1. Y mae'r gynghanedd sain gadwynog yn galw am dreiglo'r enw, ond

diwygiwyd y *bumed* yn yn *bumed*.

- 53 Ceir *drwg* yn hytrach na *dwg* yn un o lsgrau. Llywelyn Siôn ac yn LIGC 5474A a CM 109 drachefn. Gellid *Drwg a rodded, dig rhyddun*, ond rhaid fyddai derbyn ll. ac ynddi *r* berfeddgoll.
- 56 **Duw ni** Digwydd *Duw i ni* yn rhai o'r llsgrau., ond diau i'r copïwyr gael eu llygad-dynnu gan y geiriad tebyg yn y cwpled blaenorol.
- 57 **pacs** 'Cusan, cusan heddwch', gw. GPC 2665 a hefyd drafodaeth G.E. Ruddock, 'Genau crefydd a serch', YB X (1977), 243–54, ar y defnydd a wnaeth y beirdd o'r trosiad hwn ac *efengyl*, wrth ddisgrifio genau merched yn eu cywyddau serch. Dyfynnir, *ib.* 244, sylw T. Parry sydd yn taflu goleuni ar y cywydd hwn gan Hywel Dafï: 'Daeth 'efengyl' i olygu 'cusan' oddi wrth yr arfer o anfon blwch, a elwid *pacs*, i'w gusanu gan aelodau'r gynulleidfa tra darllenid yr efengyl, fel arwydd o gariad brawdol.'
- 58 **addig** A. fel arfer 'dig, dicllon, llidiog', gw. GPC² 75, ond cynigir yn betrus y gall fod yn enw hefyd, ond un engh. yn unig o'r gair a ddyfynnir. Y mae'n bur sicr mai enw 'dicter, llid' yw yma.
maddedig Nis rhestrir yn GPC. Grym gorffennol sydd i'r olddodiad *-edig* fel arfer, a cf. *maddeuedig* 'wedi ei faddau', gw. GPC 2303–4, ond 'y gellir ei faddau' sydd yn cynnig yr ystyr orau yma. Dyma ddarlleniad y rhan fwyaf o lsgrau. Llywelyn Siôn a LIGC 5474A a CM 109.
- 61 **cyngaws** 'Achos neu ddadl mewn llys barn, erlyniaeth gyfreithiol, cwyn neu hawl a ddygir i gyfraith', gw. GPC 736. Ni restrir *cyndraws*, sydd yn digwydd mewn pedwar testun yn llaw Llywelyn Siôn, yn GPC.
- 62 **efengyl** 'Cusan', gw. GPC 1170 a ll. 57n. Yr oedd bri yn yr Oesoedd Canol ar sancteiddrwydd Efengyl Ieuan, a cf. DN X.17–18 *Ni bv le hyd na bai lân / O lyfr Evengyl Ievan*.

